Adroddiad Ymgynghori

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Maw 2016

CYNNWYS

1.0 CYFLWYNIAD 2
2.0 Y PWYLLGOR A'R PANEL POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD 3
3.0 Y CYTUNDEB CYFLAWNI 4
4.0 CASGLU TYSTIOLAETH 5
5.0 Y CAM CYFRANOGI CYN ADNAU 7
6.0 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CYN ADNAU 8
7.0 Y CDLI AR Y CYD ADNAU 10
8.0 CASGLIADAU'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS - CYNLLUN ADNAU 11
9.0 YSTYRIED Y SYLWADAU – Y GOFYNION 12
10. YMGYNGHORIAD NEWIDIADAU Â FFOCWS, CHWEFROR 2016 33

Atodiad 1 – Profion Cadernid 35
Atodiad 2 - Manylion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Panel CDLl ar y Cyd 54
Atodiad 3 – Cyrff Ymgynghori 60
Atodiad 4 – Ymateb i'r Ymgynghoriad Cytundeb Cyflawni 67
Atodiad 5 - Llythyr gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r llithriad yn yr amserlen 74
Atodiad 6 – Rhestr o'r papurau Testun a Chefndir 75
Atodiad 7 – Rhybudd Swyddogol ac Erthygl "Galw am Safleoedd" 79
Atodiad 8 – Y Can Cyfranogi Cyn-Adnau – Ymateb y Grwpiau Rhanddeiliaid Swyddogol 80
Atodiad 9 – Rhybudd Swyddogol yr Ymgynghoriad Cyn-Adnau 106
Atodiad 10 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cyn-Adnau ac Ymateb y Cynghorau 107
Atodiad 11 – Lleoliadau galw heibio 165
Atodiad 12 - Rhybydd Swyddogol yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau 166
Atodiad 13: Dadansoddiad o'r rhannau o'r Cynllun Adnau a dderbyniwyd sylwadau arno yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Adnau 168
Atodiad 14 – Sylwebyddion sydd yn dymuno ymddangos yn yr Archwiliad 186
Atodiad 15 – Sylwadau ar y Cynllun Adnau nad oedd yn briodol 197
Atodiad 16 - Sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ymateb y Cyngor 199
Adodiad 17 - Newidiadau â Ffocws

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gofodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'w hardaloedd. Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd).

1.2 Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu bydd y CDLl ar y Cyd yn disodli'r dogfennau a ganlyn:

- **Gwynedd:** Cynllun Datblygu Unedol (2009)
- **Ynys Môn:** Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993), Cynllun Lleol Ynys Môn (1996) a Chynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (cafodd ei stopio yn 2005 ond fe'i defnyddir o hyd fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth ymdrin â cheisiadau).

1.3 Bydd y CDLl ar y Cyd yn darparu'r strategaeth ddatblygu a'r fframwaith polisi ar gyfer ardaloedd cynllunio Gwynedd a Môn hyd nes 2026.

1.4 Paratowyd yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn unol â'r Rheoliadau CDLl[1] a'i fwriad yw rhoi gwybodaeth ar y gweithgareddau a'r prosesau y mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPC ar y Cyd) ar ran y ddau Gyngor wedi eu dilyn wrth baratoi'r CDLl ar y Cyd. Bydd yn adnabod p'un a yw'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd o fewn y broses CDLl hyd yma yn cydymffurfio â'r Cynllun Cyswllt Cymunedol (CIS) y cytunwyd arno, ac yn adnabod y prif faterion a godwyd yn y broses ymrwymiad ac ymgynghori. Ar gyfer pob cam o baratoi'r CDLl ar y Cyd bydd yr adroddiad hwn yn amlygu'r hyn a ganlyn:

- Pwy sydd wedi bod yn rhan o'r broses/pwy yr ymgysylltwyd â hwy.
- Crynodeb o'r prif faterion a godwyd mewn digwyddiadau/seminarau ymgysylltu.
- Argymhellion ar sut mae'r Cynghorau'n ystyried y prif faterion a godwyd mewn digwyddiadau/seminarau ymgysylltu.
- Y camau a gymerwyd i hysbysebu unrhyw ddigwyddiadau ymrwymiadau neu ymgynghoriadau.
- Cyfanswm y sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriadau a dadansoddiad o'r rhain a disgrifiad o'r rhain (sylwadau, sylwadau cefnogol, gwrthwynebiadau).
- Yr argymhellion ar sut mae'r Cynghorau'n ystyried y sylwadau unigol a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriadau.

1.5 Mae 'Llawlyfr Ar Gynlluniau Datblygu Lleol' - 2il Argraffiad (2015) yn adnabod cyfres o feini prawf neu brofion cadernid y mae'n rhaid i CDLl eu bodloni. Bydd rhagdybiaeth bod y CDLl yn gadarn oni bai bydd tystiolaeth a gaiff ei ystyried trwy'r cam archwilio yn dangos i'r gwrthwyneb. Pan gychwynnwyd y broses paratoi'r Cynllun 'roedd yna ddeg prawf cadernid ar gyfer asesu cadernid CDLl, oedd yn cael eu rhoi o dan dri phennawd, sef gweithredol, cysondeb a chydlyniad ac effeithiolrwydd ac fe'i gwelir yn Atodiad 1 o'r Cynllun Adnau. Gan fod asesu cadernid y CDLl ar y Cyd yn golygu penderfynu os gafodd y Cynllun Adnau ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, sy'n cynnwys y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus, cafwyd asesiad o gynnydd y Cynghorau i gwrdd y profion yn Atodiad 1 yr Adroddiad yma. Ers paratoi y Cynllun Adnau mae'r Profion Cadernid wedi eu mireinio a bellach wedi cael eu rhannu fyny i

[1] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

3 benawd yn unig. Mae'n bosib archwilio'r profion hyn hefyd yn Atodiad 1 yn ogystal a'r Hunan Asesiad ddiweddaraf.

1.6 Mae proses y CDLl wedi'i nodi'n fras yn y siart llif a ganlyn, gyda'r adran lwyd yn cynrychioli'r cynnydd hyd yma. Mae adrannau dilynol yr adroddiad ymgynghori wedi'u trefnu'n gronolegol yn ôl pob cam o gynnydd y CDLl ar y Cyd hyd yn hyn.



1.7 Mae'r ddogfen yma'n adolygiad o'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod ymghynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Cynllun Adnau (Chwefror 2016). Mae'r adroddiad wedi ei adolygu er mwyn cynnwys y wybodaeth diweddaraf o ran datblygiad y Cynllun a chyflwyno gwybodaeth ynglŷn a'r cyfnod ymgynghori i'r Cynllun Adnau gan gynnwys manylion ynglŷn a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymghynghori ac yr ymdriniaeth o'r sylwadau hynny.

2.0 Y PWYLLGOR A'R PANEL POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

2.1 Ar 15 Mehefin 2010 cytunodd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i sefydlu trefniadau i gydweithio i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio. Sefydlwyd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel corff ffurfiol, trawsffiniol i wneud penderfyniadau ar ran y ddau Gyngor ar adegau priodol yn ystod cyfnod paratoi'r Cynllun. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys saith Cynghorydd o bob sir. Gellir gweld rhaglenni, cofnodion ac adroddiadau'r pwyllgor ar wefan y ddau Gyngor:https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=/2014-15/Pwyllgor_Polisi_Cynllunio_ar_y_Cyd_Joint_Planning_Policy_Committee.

2.2 Mae'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (sy'n cynnwys yr un aelodau â'r Pwyllgor) yn cyfarfod unwaith y mis i ystyried dogfennau drafft, tystiolaeth newydd, i drafod datblygiad polisïau ac i ystyried safbwyntiau a gyflwynwyd gan fudd-ddeiliaid yn ystod sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddus. Nid yw'n gwneud penderfyniadau am gynnwys y Cynllun. Gellir gweld cofnodion y Panel ar wefan y ddau Gyngor

2.3 Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn darparu rhestr o gyfarfodydd y Pwyllgor a'r Panel a pha bynciau gafodd eu cyflwyno/trafod.

3.0 Y CYTUNDEB CYFLAWNI

3.1 Y gofyn cyntaf wrth baratoi CDLl yw paratoi Cytundeb Cyflawni (CC). Mae'r CC yn cynrychioli datganiad cyhoeddus o ymrwymiad y Cynghorau i'r CDLl i baratoi CDLl a manylion, trwy ei Gynllun Cyswllt Cymunedol, ynghylch sut y bydd y Cynghorau'n ymgynghori ac yn ymgysylltu â grwpiau, sefydliadau ac unigolion yn ystod paratoi'r CDLl ar y Cyd.

3.2 Cyhoeddwyd CC drafft am gyfnod ymgynghori o chwe wythnos rhwng 17 Ebrill a 2 Mehefin 2011. Yn unol â'r Rheoliadau CDLl roedd yr ymgynghoriad yn targedu cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol ac adrannau'r llywodraeth. Mae rhestr o'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol i'w gweld yn Atodiad 3. Fe wnaeth yr UPC ar y Cyd hefyd gysylltu ag unigolion, sefydliadau a grwpiau sydd ar rhestr bostio'r CDLl h.y. y rheini sydd wedi mynegi diddordeb yn y broses CDLl ac sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu pan mae'r cynllun wedi cyrraedd cam allweddol. Rhoddwyd hysbysebion yn y wasg leol yn hysbysu'r cyhoedd am yr ymgynghoriad hwn. Rhoddwyd hysbysebion ar wefan y ddau Gyngor hefyd.

3.3 Derbyniwyd cyfanswm o 25 o sylwadau. Cafodd y materion a gododd yn yr ymgynghoriad eu crynhoi yn y CC, a gellir eu gweld yn www.gwynedd.gov.llyw.cymru/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll. Mae'r prif faterion oedd yn codi yn ystod yr ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 4.

3.4 Fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni ar 13 Medi a 20 Hydref 2011 yn ôl eu trefn. Fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru a derbyniwyd cefnogaeth y Llywodraeth iddo ym mis Tachwedd 2011.

3.5 Yn dilyn llithriad yn yr amserlen i gyhoeddi'r Hoff Strategaeth, argymhellodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd y dylid ymestyn y cyfnod ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun Adnau i fynd i ymgynghoriad cyhoeddus, ynghyd ag estyniad bach i'r cyfnod oedd ei angen i gynhyrchu fersiwn derfynol y Cynllun. Mae crynodeb o'r rhesymau am y llithriad, a oedd yn cynnwys yr angen i ddarparu ar gyfer 2 etholiadau lleol, wedi eu nodi mewn adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym Mehefin 2013. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ar yr amserlen ddiwygiedig rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2013, penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd gymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig ar 10 Hydref 2013 a 5 Rhagfyr 2013, yn ôl eu trefn. Cefnogodd Llywodraeth Cymru yr amserlen ddiwygiedig yn ystod mis Ionawr 2014. Mae copi o'r llythyr wedi ei gynnwys yn Atodiad 5.

3.6 Nid oedd modd cadw at yr amserlen ddiwygiedig y cyfeirir ati uchod am nifer o resymau. Rhoddwyd gwybod i'r budd-ddeiliaid am yr oedi ym mis Awst 2014. Ceir crynodeb o'r rhesymau am y llithriad mewn adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Medi 2014. Mae'r Cytundeb Cyflawni hwn yn ymgorffori'r amserlen ddiwygiedig y cytunwyd arni gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd ar 4 Rhagfyr 2014. Mae manylion am y newidiadau oedd eu hangen i'r geiriad yn adrannau perthnasol y Cytundeb Cyflawni wedi'u cynnwys yn Atodiad 10. Derbyniwyd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r amserlen hwn ym mis Ionawr 2015. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2015, fe dderbyniodd Panel y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ddiweddariad o'r amser ragwelwyd oedd ei angen i ymdrin a'r sylwadau a

dderbyniwyd. Cyhoeddwyd yr amserlen diweddaraf yn rhifyn 5 Newyddlen y Cynllun. Cafoddd aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Mon wybod am yr amserlen diweddaraf yn ystod mis Rhagfyr 2015. Cymeradwywyd yr amserlen ddiweddaraf gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Ionawr 2016. Mae'r ddau Gyngor unigol wedi cymeradwyo'r amserlen diweddaraf ar 3 Mawrth 2016 (Gwynedd) a'r 10fed Mawrth 2016 (Ynys Mon).

4.0 CASGLU TYSTIOLAETH

4.1 Mae'n bwysig fod y polisïau a'r cynigion yn y CDLl ar y Cyd yn seiliedig ar dystiolaeth o'r materion sy'n effeithio ar ardal y cynllun. Er bod casglu tystiolaeth yn broses barhaus ac nid yn gam arbennig wrth baratoi'r CDLl ar y Cyd, mae'r Cynghorau wedi ceisio cyngor gan fudd-ddeiliaid arbenigol wrth gasglu tystiolaeth fel egwyddor gyffredinol, er mwyn adeiladu consensws a dod i gytundeb lle bynnag y bo'n bosib. Nid yw casglu tystiolaeth yn gam terfynedig yn y broses o baratoi'r cynllun, a bydd yn parhau trwy gydol y broses gyfan a chaiff ei ddefnyddio i fonitro'r CDLl ar y Cyd unwaith mae wedi'i fabwysiadu.

Papurau Testun

4.2 Er mwyn cydlynu'r sail dystiolaeth gefndirol a'i thynnu ynghyd ar gyfer y CDLl ar y Cyd, paratowyd cyfres o bapurau testun gan yr UPC ar y Cyd, ac maent yn parhau i gael eu diweddaru. Wrth baratoi papurau testun mae'r UPC ar y Cyd wedi ceisio cynnwys budd-ddeiliaid perthnasol yn y broses neu yn cyfeirio tuag at strategaethau a chynlluniau perthnasol. Mae restr o'r Papurau Testun i weld yn Atodiad 6.

4.3 Gellir gweld y papurau testun ar wefanau y ddau Gyngor yn y cyfeiriadau a ganlyn: www.gwynedd.llyw.cymru/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll.

Ymchwil / Papurau Cefndir

4.4 Pan oedd prinder tystiolaeth, mae'r UPC ar y Cyd wedi ymgymryd a gwaith ychwanegol ei hun neu wedi comisiynu papurau cefndir ar nifer o faterion allweddol i gyfrannu at y sail dystiolaeth a'r polisïau ar gyfer y CDLl ar y Cyd, ac fe'u rhestrir yn Atodiad 6.

4.5 Gellir gweld crynodeb gweithredol neu copïau llawn o'r papurau cefndir ar wefan y ddau Gyngor yn y cyfeiriadau a ganlyn: www.gwynedd.llyw.cymru/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll. Mae copïau llawn o'r papurau cefndir wedi cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim ar CDs os na ellir eu hanfon drwy e-bost. Mae copïau caled ar gael i'w prynu oddi wrth y UPC ar y Cyd.

Safleoedd Arfaethedig

4.6 Ym mis Hydref 2011 agorwyd Cofrestr Safleoedd Arfaethedig (CSA) yn ffurfiol, a gwahoddwyd budd-ddeiliaid, tirfeddianwyr a phartïon eraill oedd â diddordeb i gyflwyno gwybodaeth am dir y dylid ystyried ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd). Hysbysebwyd y "Galw am Safleoedd" yn eang trwy gyfrwng hysbysiadau, datganiadau i'r wasg, a phostio'n uniongyrchol at y rheini ar restr bostio'r CDLl ar y Cyd. Gellir gweld copïau o'r rhain yn Atodiad 7. Y dyddiad cau gwreiddiol oedd 13 Chwefror 2012, fodd bynnag, derbyniwyd cyflwyniadau hwyr tan 31 Hydref 2012, gan mai dim ond yn y cam cychwynnol oedd y broses asesu.

4.7 Cyflwynwyd cyfanswm o 865 o safleoedd arfaethedig (cyfanswm o 8,529 hectar), gyda 364 (5,777ha) yng Ngwynedd a 501 yn Ynys Môn (2,752ha). Cyflwynwyd 48 o safleoedd ar ôl 31 Hydref 2012, a gafodd eu ffeilio yn 'ffeil cyflwyniadau hwyr' ar wahân. Mae'r UPC ar y Cyd, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngorau, hefyd wedi hadnabod safleoedd datblygu posibl er mwyn ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir gan y cyhoedd. . Gelllir gweld gwybodaeth bellach ar y safleoedd a gyflwynwyd ym Mhapur Testun 1: Diweddariad ar Safleoedd Arfaethedig (Mai 2013).

4.8 Mae'r safleoedd arfaethedig wedi cael eu hasesu yn unol â Methodoleg Safleoedd Arfaethedig. Cyhoeddwyd y fethodoleg ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus o chwe wythnos yn Awst 2011. Derbyniwyd chwe sylw yn dilyn y cyfnod ymgynghori, ond nid oeddynt o natur arwyddocaol felly ni chafodd y fethodoleg ei diwygio. Mae'r fethodoleg yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cynaliadwyedd.

4.9 Yn unol â'r fethodoleg a gymeradwywyd, cwblhawyd ymarfer hidlo tri cham i asesu addasrwydd y safleoedd a gyflwynwyd.

Cam 1	Hidlo'r safleoedd i gychwyn ac Adnabod Safleoedd Strategol Posib
Cam 2	Asesiad Safle Manwl (gan gynnwys asesu yn erbyn amcanion yr AC/AAS/ARhC)
Cam 3	Asesu'r Safleoedd yn erbyn strategaethau ac arfarniadau eraill

4.10 Ar ôl hidlo'r safleoedd ar y cychwyn, cyhoeddwyd adroddiad Diweddariad ar Safleoedd Arfaethedig ynghyd â Hoff Strategaeth y CDLl ar y Cyd ym mis Mai 2013.

4.11 Cwblhawyd asesiad manwl ar y safleoedd arfaethedig oedd wedi cyrraedd yr ail gam gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS) y Chyngohrau, ffotograffiaeth o'r awyr, "Google StreetView" a ble roedd angen ymweliadau safle. Anfonwyd y safleoedd posib at fudd-ddeiliaid allanol a mewnol hefyd i dderbyn eu sylwadau. Ar gyfer pob safle, ystyriwyd a fyddai yna unrhyw rwystrau i ddatblygu'r safle ac a oedd yna unrhyw gyfleoedd i oresgyn/lliniaru'r rhwystrau.

Budd-ddeiliaid Allanol	**Budd-ddeiliaid Mewnol**
Dŵr Cymru	Rheolwyr Datblygu
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd	Gwasanaethau Priffyrdd
Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru	Datblygiad Economaidd
Manweb Scottish Power	Gwasanaethau Tai
Adain Amaeth Llywodraeth Cymru	Addysg
Llywodraeth Cymru	Bioamrywiaeth
Cyfoeth Naturiol Cymru	Yr Adain Amgylchedd Adeiledig a'r Dirwedd
	Ymgynghoriad Gwynedd

4.12 Fel rhan o'r broses asesu'r safleoedd arfaethedig, gofynnwyd i Aelodau Lleol, Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned godi unrhyw faterion neu sylwadau ar y safleoedd arfaethedig oedd yn weddill ar ôl eu hidlo. Cynhaliwyd seminarau i godi ymwybyddiaeth o safleoedd datblygu posibl o fewn yn y Canolfannau Isranbarthol, y Canolfannau Gwasanaethol a'r Pentrefi Gwasanaethol yn y pedair prif ardal weinyddol.

Arfon	9 Rhag 2013, Clwb Pêl-droed Bangor
Dwyfor	11 Rhag 2013, Frondeg, Pwllheli

Meirionnydd	3 Rhag 2013, Neuadd Ganllwyd, Dolgellau
Ynys Môn	6 Rhag 2013, Neuadd y Dref, Llangefni

4.13 Cyflwynwyd nifer o safleoedd arfaethedig ar ôl y dyddiad cau ffurfiol. Ni chafodd y safleoedd hyn eu hasesu'n ffurfiol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorai statudol oedd eisoes wedi digwydd, rhoddwyd ystyriaeth i'r cyflwyniadau hwyr wrth ystyried anghenion defnydd tir yr aneddleoedd.

4.14 Diweddariad i Bapur Testun 1: Diweddariad ar Safleoedd Arfaethedig, sy'n amlinellu'r cyfiawnhad dros gynnwys y safleoedd arfaethedig yn y Cynllun Adnau fel dynodiadau neu ei gynnwys yn y ffiniau ddatblygu ynghyd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.

4.15 Cyflwynwyd mapiau mewnosod drafft i'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 17-10-14 er mwyn cael ei barn a'r raddfa'r dynodiadau o fewn anheddle perthnasol.

5.0 Y CAM CYFRANOGI CYN ADNAU

5.1 Pwrpas y cam hwn ym mhroses y CDLl ar y Cyd oedd:

- Datblygu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y CDLl ar y Cyd;
- Adnabod opsiynau strategol ar gyfer twf yn y dyfodol dros gyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd;
- Cytuno ar Hoff Strategaeth ddrafft i ymgynghori arni.

5.2 Yn ystod mis Tachwedd 2011 cyhoeddwyd dogfen ymgysylltu ddrafft yn dwyn y teitl "Datblygu'r Weledigaeth, yr Amcanion a'r Opsiynau Strategol: Trafod y Dyfodol gyda chi". Roedd y ddogfen yn gofyn i fudd-ddeiliaid fynegi eu barn am faterion, gweledigaeth ac amcanion y CDLl ar y Cyd, a'r opsiynau roeddynt yn eu ffafrio o blith yr opsiynau twf tai a'r opsiynau dosbarthiad gofodol a awgrymwyd yn y ddogfen ymgysylltu ddrafft.

5.3 Cynhaliwyd cyfres o weithdai, seminarau a chyfarfodydd gydag ystod o wahanol gyrff er mwyn ymgysylltu â budd-ddeiliaid wrth greu strategaeth ac opsiynau cynllunio amgen ar gyfer datblygiadau'r dyfodol. Dyma'r grwpiau y cysylltwyd â hwy:

- Y Grŵp Budd-ddeiliaid Allweddol (trawsffiniol)
- Grŵp Tai (trawsffiniol)
- Fforwm Pobl Hŷn Gwynedd
- Grŵp Pobl Hŷn (Llangefni ac Amlwch)
- Llais Ni (Fforwm Plant a Phobl Ifanc – Ynys Môn)
- Fforwm Plant a Phobl Ifanc – Gwynedd
- Grŵp Craidd Anabledd – Gwynedd
- Grŵp Prosiect Strategol y CDLl – Gwynedd a Môn

5.4 Trefnwyd seminarau i Gynghorwyr er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gyfarwydd hefo'r broses a datblygiad y sail dystiolaeth.

5.5 Cyhoeddwyd holiadur gyda'r Ddogfen Ymgynghori Drafft oedd yn gofyn i fudd-ddeiliaid fynegi eu barn am faterion, y weledigaeth ac amcanion a'r hyn roeddynt yn ei ffafrio o blith yr opsiynau twf tai a'r opsiynau dosbarthiad gofodol oedd wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgysylltu Drafft. Gofynwyd am sylwadau erbyn diwedd mis

Ionawr 2012. Paratowyd adroddiad yn amlygu'r materion a godwyd a'r ymatebion i'r holiadur, a gellir ei weld yn Atodiad 8.

5.6 Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu hefyd gyda swyddogion o Gynghorau Gwynedd ac Ynys Môn ac hefo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i drafod y strategaeth a'r polisïau ar y gweill. Roedd cyfarfodydd mewnol yn cynnwys:

- Y Grŵp Prosiect Strategol yn cynnwys swyddogion ac aelodau etholedig i sicrhau fod strategaeth y cynllun newydd yn cyd-fynd â strategaethau corfforaethol a dyheadau'r ddau Gyngor.
- Roedd y Tîm Datblygu (yn cynnwys swyddogion o'r unedau Rheolaeth Datblygu, Priffyrdd, Bioamrywiaeth, Datblygu Economaidd a'r Amgylchedd Adeiledig) yn cyfarfod i drafod y strategaeth a pholisïau strategol.
- Cyfarfodydd un i un pan oedd angen i drafod pynciau penodol h.y. cyfarfod gydag Adrannau Addysg y ddau gyngor i drafod cynlluniau rhesymoli ysgolion yn y dyfodol a niferoedd disgyblion/llefydd ysgol, a hefyd Uned Ynys Ynni Môn i drafod cysondeb strategaeth a pholisïau'r cynllun gyda dyheadau Cyngor Sir Ynys Mon ynglyn a phrosiect Wylfa Newydd.

5.7 Cafodd cynnwys y ddogfen Hoff Strategaeth ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 23/11/2012. Roedd y ddogfen Hoff Strategaeth yn gosod allan y:-

- Cyd-destun rhanbarthol a lleol – materion polisi, daearyddiaeth ac ati.
- Gweledigaeth ac amcanion y CDLl.
- Cysylltiadau uniongyrchol â dogfennau statudol, megis Cynllun Gofodol Cymru, y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Strategaeth Gymunedol, a dylai integreiddio â strategaethau eraill fel y bo'n gymwys, e.e. strategaeth dai rhanbarthol a lleol, strategaethau economaidd, cynllun gwastraff rhanbarthol ac ati.
- Crynodeb o'r strategaeth arfaethedig, gan gynnwys safleoedd strategol sy'n angenrheidiol i'w gweithredu, ardaloedd newid neu warchodaeth arfaethedig.
- Lleoliadau eang ar gyfer safleoedd nad ydynt yn strategol a meini prawf ar gyfer eu cynnwys.
- Polisïau perthnasol eraill a fyddai'n gweithredu'r dewis strategaeth e.e. Strategaeth cyflogaeth ac economaidd; anghenion cymuned a gwasanaethau lleol; strategaeth mannau agored a hamdden; opsiynau cyflenwi ynni, rheoli gwastraff a mwynau, dwysedd tai/parcio ceir.
- Diagram allweddol yn dangos dewis strategaeth ofodol, gan ystyried cysylltiadau allanol arwyddocaol ag awdurdodau cyfagos.
- Cofrestr o safleoedd nad ydynt yn strategol (mae ei chynnwys yn ddewisol) yn nodi'r rhai yr ystyrir eu bod yn cydweddu â'r dewis strategaeth a'r rhai nad ydynt.
- Cynnig ar gyfer strwythur a chwmpas y CDLl adneuo, ac unrhyw CCA cyfredol.

5.8 Cyn rhyddhau y ddogfen Hoff Strategaeth ar gyfer y cyfnod ymghynghori cyhoeddus fe dderbyniwyd sêl bendith y ddogfen gan Pwyllgor Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol Cyngor Sir Ynys Môn ar 12 Rhagfyr, 2012; Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 22 Ionawr 2013, Cabinet Cyngor Gwynedd ar Ionawr 2013 ac yna Cyngor Sir Ynys Môn ar 24 Ionawr 2013.

6.0 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CYN ADNAU

6.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Hoff Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r dogfennau cysylltiedig dros gyfnod o saith wythnos rhwng 9 Mai a 27 Mehefin 2013.

Cyhoeddwyd Rhybudd Swyddogol mewn papural newydd lleol (copi yn Atodiad 9) a gyrrwyd llythyrau i pob corff ymgynghori phenodol a chyffredinol yn ogystal â phawb ar y basdata cyswllt CDLl ar y Cyd. Roedd y ddogfen Hoff Strategaeth yn cynnwys naw cwestiwn er mwyn annog pobl i gymryd rhan ym mhroses y Strategaeth. Dyma'r cwestiynau:

Cwestiwn 1	A oes yna faterion eraill sydd yn ymwneud â chynllunio defnydd tir y dylid eu hystyried?
Cwestiwn 2	A ydych yn cytuno bod y Weledigaeth a'r Amcanion yn cyfarch y materion a nodwyd?
Cwestiwn 3	Ai'r opsiwn Twf Tai a Ffafrir yw'r un mwyaf addas?
Cwestiwn 4	Ai'r Opsiwn Gofodol a Ffafrir yw'r un mwyaf priodol i ddosbarthu twf yn ardal y Cynllun?
Cwestiwn 5	A yw'r Hoff Strategaeth a'r Polisïau Strategol yn darparu fframwaith briodol i gyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion Strategol?
Cwestiwn 6	A ydych yn cytuno gyda strwythur y CDLl ar y Cyd Adnau?
Cwestiwn 7	Unrhyw Sylwadau neu Awgrymiadau pellach?
Cwestiwn 8	Unrhyw Sylwadau ar yr Arfarniad Cynaladwyedd?
Cwestiwn 9	Unrhyw Sylwadau ar yr Adroddiad Sgrinio ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)?

6.2 Cafwyd cyfanswm o 365 o sylwadau gan 132 o unigolion a grwpiau. Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o'r prif negeseuon gan y cyrff ymgynghori penodol:

- Mireinio geiriad y weledigaeth ymhellach i ddarparu darlun cryno a chlir o lle mae'r awdurdodau yn dymuno bod yn nhermau cynllunio defnydd tir;
- Cytundeb cyffredinol ynghylch y negeseuon allweddol a'r amcanion strategol, yn amodol ar rai ychwanegiadau;
- Safbwyntiau croes ynghylch y lefel twf arfaethedig:
    - Gwrthwynebu'r lefel twf arfaethedig gan ei fod yn gwyro oddi wrth ragamcanion aelwydydd a phoblogaeth 2008, oni bai y caiff y lefel is ei gadarnhau gan brif ragamcanion sail 2011;
    - Gwrthwynebu am ei fod yn rhy uchel, gan arwain at fwy o fewnfudo;
    - Cefnogi ar yr amod na fydd yn uwch.
- Safbwyntiau croes am y patrwm dosbarthu
    - Cefnogi'r patrwm arfaethedig oherwydd y rhoddid mwy o bwysau ar fuddsoddiad i ddarparu isadeiledd mewn canolfannau rhanbarthol neu strategol allweddol a/neu y prif aneddiadau yn seiliedig ar yr hierarchaeth. Pe bai angen darparu isadeiledd, byddai ond yn cael ei ddarparu yn ail hanner cyfnod y Cynllun;
    - Cefnogi gan ei fod yn ddull gofodol cytbwys;
    - Byddai'n well gan rai bwyslais mwy gwledig;
- Bod cyflwyniad y strategaeth yn y Cynllun Adnau yn glir, yn benodol ac yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid/tystiolaeth newydd, ac y caiff ei fynegi mewn modd y gellir ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol pe bai hynny'n briodol;
- Cysylltiadau mwy clir rhwng amcanion a deilliannau a'u mireinio ymhellach i gynorthwyo gyda monitro;
- Atgoffa y dylai cyfeiriad y cynllun, boed hynny ar raddfa ranbarthol neu leol, ganolbwyntio datblygiad yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy lle mae yna fynediad at ystod o wasanaethau;
- Dylai'r Cynllun Adnau osgoi annog datblygiadau preswyl ar wasgar mewn lleoliadau amhriodol e.e. clystyrau sydd heb y cyfleusterau priodol neu nad ydynt ar y raddfa angenrheidiol i fod yn bentref bach;
- Yn ansicr ynghylch rhinweddau'r is-gategorïau pentrefi;

- Mae angen gwahaniaethu rhwng tai fforddiadwy angen lleol a thai angen lleol;
- Bod y Cynllun Adnau yn cyflwyno dull holistaidd o ymdrin â gofynion tai a thwf cyflogaeth, gan sicrhau bod dyraniadau tai ac ymrwymiadau cyflogaeth yn gyson, gan adeiladu yn unol â strategaeth ofodol / hierarchaeth aneddiadau gynaliadwy;
- Pryder am lefel y tir cyflogaeth sy'n cael ei gynnig;
- Bod goblygiadau cyfyngiadau arwyddocaol (e.e. perygl llifogydd), argaeledd isadeiledd (Capasiti dros ben/darpariaeth wedi'i rhaglennu), rhaglenni ysgolion a hyfywedd cyffredinol/diddordeb y farchnad ac ati, yn ffurfio'r sail i'r strategaeth fanwl ac ar gyfer dosbarthu'r dyraniadau mewn modd tryloyw;
- Pryderon am oblygiadau dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ardaloedd y chwareli;
- Mae angen mwy o bwyslais ar effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig;
- Atal aneddleoedd unigol rhag uno;
- Cefnogaeth gyffredinol i'r ymagwedd at brosiectau isadeiledd mawr, yn amodol ar addasiadau bychain, yn cynnwys yr angen i osgoi lleoli datblygiadau cysylltiol yn yr AHNE;
- Mae'n rhaid i'r Cynllun Adnau wneud dyraniadau safle priodol (rhai parhaol a dros dro) i ddiwallu'r gofynion am lety i Sipsiwn a Theithwyr.

6.3 Mae crynodeb o'r holl sylwadau a wnaed, yn cynnwys y cyrff ymgynghori cyffredinol ac ymatebion y Cynghorau, i'w weld yn Atodiad 10.

7.0 Y CDLl AR Y CYD ADNAU

7.1 Mae'r Cynghorau wedi parhau i ymgysylltu â budd-ddeiliaid wrth iddynt weithio i gynhyrchu'r CDLl ar y Cyd Adnau. Dosbarthwyd y polisïau diweddaraf ymysg y budd-ddeiliaid perthnasol er mwyn cytuno ar gonsensws gyda'r polisïau.

7.2 Cynhailwyd cyfarfodydd a seminarau gyda nifer o gyrff allanol a mewnol, oedd yn rhoi mewnbwn gwerthfawr i'r broses ffurfio polisïau. Roedd rhain yn cynnwys Grŵp Polisi Strategol CDLl y ddau Gyngor, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru, Swyddogion Rheoli Ddatblygu, Swyddogion Datblygu Economaidd, Gwasanaethau Tai, Addysg a Chymdeithasol, Dwr Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.

7.3 Cynhaliwyd seminarau i hysbysu aelodau lleol am gynnwys y CDLl Adnau ar y dyddiadau a ganlyn:

Arfon	16 Hydref 2014, Capel Caeathro, Caeathro
Dwyfor	20 Hydref 2014, Frondeg, Pwllheli
Meirionnydd	17 Hydref 2014, Canolfan Cyswllt, Penrhyndeudraeth
Ynys Môn	7 Tachwedd 2014, Neuadd Dref, Llangefni

7.4 Cyhoeddwyd a dosbarthwyd nodyn briffio, a gododd ymwybyddiaeth o'r broses a'r prif negeseuon Cynllun, i'r pob aelod lleol ym mis Hydref 2014. Fe'i dosbarthwyd hefyd i gynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned a fynychodd naill ai cyfarfodydd Fforymau Ardal neu gyfarfodydd a drefnir gan un Llais Cymru yn ystod Hydref a Rhagfyr 2014, a Chwefror 2015.

7.5 Cafodd y Cynllun Adneuo ei ystyried gan Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn a Chabinet Cyngor Gwynedd ym mis Rhagfyr 2014, cyn cael eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 18 Rhagfyr 2014. Cafodd y CDLl ar y Cyd Adnau yn cael ei ryddhau i ymgynghoriad cyhoeddus

rhwng 16 Chwefror 2015 a 31 Mawrth 2015. Cafodd sesiynau galw i mewn eu trefnu ar gyfer Aelodau lleol rhwng 9fed a'r 12fed o fis Chwefror 2015 i roi gwybod iddynt am y trefniadau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ac i roi cyfle iddynt ofyn cwestiynau fel eu bod mewn sefyllfa i gynghori eu hetholwyr.

Arfon	9 Mawrth 2015, Ystafell Peblig, Caernarfon
Dwyfor	10 Mawrth 2015, Frondeg, Pwllheli
Meirionnydd	11 Mawrth 2015, Penarlag, Dolgellau
Ynys Môn	12 Mawrth, Rovacabin, Llangefni

7.6 Cafodd sesiynau glaw i fewn i'r cyhoedd eu trefnu ar gyfer y dyddiadau isod:

23/2/15	Neuadd y Dref, Caergybi
24/2/15	Ystafell 1 & 2 Frondeg, Pwllheli
25/2/15	Ystafell Peblig, Cyngor Tref Caernarfon
26/2/15	Ystafell Dwyryd, Penrhyndeudraeth
27/2/15	Ystafell gyfarfod Neuadd y Dref, Llangefni
2/3/15	Ystafell ddarllen, Llyfrgell Rydd, Dolgellau
3/3/15	Siop Gwynedd, Pwllheli
4/3/15	Siop Gwynedd, Dolgellau
5/3/15	Swyddfa gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni
6/3/15	Neuadd Goffa, Amlwch
Parhaol	Swyddfeydd yr Uned, Bangor

8.0 CASGLIADAU'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS - CYNLLUN ADNAU

8.1 Rhyddhawyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Cynllun Adnau ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar 16eg o Chwefror, 2015, fe ddaeth y cyfnod ymgynghori statudol chwe wythnos i ben ar 31 Mawrth, 2015.

8.2 Fe wnaeth yr ymgynghori am y Cynllun Adnau fynd tu hwnt i'r gofynion statudol. Roedd yn cynnwys ymgynghori ag ystod eang o gyrff, mudiadau (gweler Atodiad 3) ac aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi'u cynnwys ar gronfa ddata ymgynghori'r Cynllun. Derbyniodd pob unigolyn/mudiad ar y gronfa ddata ymgynghori llythyr drwy'r post neu e-bost, a oedd yn rhoi gwybodaeth am y cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Ynghyd â'r llythyr, amgaewyd copi o'r hysbysiad statudol, llyfryn cryno, taflen drosolwg, rhestr o ddogfennau ategol a manylion am sesiynau galw heibio a oedd i'w cynnal mewn lleoliadau allweddol ar draws ardal y Cynllun. Roedd y sesiynau galw heibio yn rhoi cyfle i gwrdd â swyddogion o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i ofyn cwestiynau am y Cynllun Adnau (gweler Atodiad 11 ar gyfer rhestr o'r Sesiynau Galw Heibio a gynhaliwyd). Roedd y sesiynau yn ategu cyfleoedd arferol i gysylltu â'r Uned drwy gydol y cyfnod ymgynghori cyhoeddus dros y ffôn neu drwy e-bost neu drwy ymweld â'i swyddfeydd ym Mangor. Fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau, rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus statudol mewn papurau newydd lleol (Gweler Atodiad 12). Roedd yr hysbysiad hwn yn darparu rhestr o ddogfennau a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cynnwys gwybodaeth am y cyfnod ymgynghori, sut i gyflwyno sylwadau a lle y gellid gweld y dogfennau.

8.3 Derbyniodd y cynghorau cymuned, tref a dinas gopïau o fapiau mewnosod perthnasol ymlaen llaw yn ystod yr wythnos yn cychwyn 15 Chwefror, 2016, a chopi o'r Datganiad Ysgrifenedig pan gychwynnodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn ogystal a chyfres o ddogfennau i'w cynorthwyo i gyfrannu i'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

8.4 Cyhoeddwyd copïau caled o'r dogfennau canlynol a'u rhoi yn swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus yng Ngwynedd a Mon a swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd :-

- Cynllun Datblygu ar y Cyd Cynllun Adnau.
- Llyfryn Crynodeb Gweithredol
- Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd
- Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

8.5 Roedd y dogfennau uchod ar gael i'w archwilio ar wefan y ddau awdurdod, trwy ddefnyddio cyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol ynghyd a prif swyddfeydd y ddau Gyngor. Ynghyd â'r dogefnnau a enwir uchod fe gyhoeddwyd cyfres o bapurau testun ac adroddiadau a oedd yn ffurfio rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer cynnwys y Cynllun Adnau. 'Roedd y dogfennau ar gael i'w harchwilio ar wefan y ddau awdurdod, trwy ddefnyddio cyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, ynghyd a chyfrifiaduron ym mhrif swyddfeydd y ddau Gyngor. Roedd copïau caled ar gael i'w gweld yn swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, ym Mangor. Roedd hefyd yn bosib cyflwyno sylwadau ar y papurau testun/cefndir yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

8.6 Derbyniwyd cyfanswm o 1,697 o sylwadau dilys ar y Cynllun yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus gan 458 gwahanol sylwebydd. Roedd 411 (24.2 %) o'r sylwadau yn cefnogi'r elfennau penodol o'r Cynllun a 1286 (75.8%) yn gwrthwynebu elfennau o'r Cynllun. Roedd 1067 (62.9%) o'r sylwadau yn benodol ymwneud a pholisïau a 630 (37.1%) sylw yn berthnasol i safleoedd yn ymwneud â ffiniau datblygu aneddleoedd, clystyrau, dyraniadau tai neu ddyraniadau cyflogaeth.

8.7 Er mwyn gwneud y broses o gyflwyno sylwadau ar y Cynllun Adnau mor syml â phosib roedd yna dair ffordd o gyflwyno sylwadau; drwy feddalwedd pwrpasol ar y we, trwy e-bost neu drwy bost. 'Roedd yna ffurflen sylwadau ar gael i geisio sicrhau bod yr Uned yn derbyn y wybodaeth berthnasol. Derbyniwyd 23.8% o'r sylwadau gan ddefnyddio'r meddalwedd pwrpasol dros y we, 60.9% drwy e-bost ac 15.3% ar ffurf papur. Cafodd y sylwadau i gyd eu cofnodi mewn cronfa ddata pwrpasol er mwyn ceisio hwyluso'r broses o sicrhau eu bod nhw'n cael eu cofnodi yn erbyn y rhannau perthnasol o'r Cynllun, chwilio am sylwadau a pharatoi adroddiadau amdanynt.

9.0 YSTYRIED Y SYLWADAU – Y GOFYNION

9.1 Yn ôl Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol, ni ddylid cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru i'w ymchwilio'n annibynnol oni bai fod y sylwadau wedi cael eu hystyried. Wrth asesu'r sylwadau bydd angen i'r Cyngor ystyried a oes angen unrhyw newidiadau mewn ymateb i sylwadau perthnasol neu dystiolaeth newydd na fyddent ym marn y Cynghorau yn tanseilio ei gadernid (gweler Atodiad 1).

9.2 Wrth ystyried yr angen am newidiadau i'r Cynllun Adnau mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd a'r materion a godwyd, mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i ganllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio a gynhwysir yn:

- 'Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol' - ail rifyn - Awst 2015
- 'Paratoi ar gyfer Cyflwyno - Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol' - Awst 2015.

9.3 Mae'r rhestr yn dilyn y paragraff yma yn rhoi trosolwg byr o'r prif faterion a godwyd yn y sylwadau, ymhellach fe nodir isod yr ymateb i'r prif faterion a restrir. Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Gellir archwilio Atodiad 13 er mwyn derbyn trosolwg o ran pa rannau o'r Cynllun oedd yn destun sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Adnau, - mae'r rhestr wedi ei gyflwyno yn unol â'r rhannau oedd yn destun y nifer fwyaf o sylwadau. Gweler Atodiad 16 ar gyfer crynodeb dwyieithog o bob sylw unigol a dderbyniwyd ynghyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny.

i. Statws aneddleoedd gan gynnwys rôl clystyrau;
ii. Ynni adnewyddadwy, gan gynnwys tyrbinau gwynt;
iii. Economi a Chyflogaeth;
iv. Graddfa twf tai, gan gynnwys ei berthynas gyda'r iaith Gymraeg;
v. Tai Marchnad Lleol;
vi. Llety Sipsiwn a Theithwyr;
vii. Strategaeth i sicrhau twf tai, gan gynnwys ei berthynas â'r iaith Gymraeg;
viii. Gwarchod yr amgylchedd naturiol
ix. Dyraniadau safleoedd

Prif fater: Statws aneddleoedd, gan gynnwys rôl y clystyrau	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Mae'r Cynllun yn cyfeirio at rôl aneddleoedd yn y Crynodeb Gweithredol ym Mhennod 1, Strategaeth y Cynllun ym mhennod 6 (yn benodol y Strategaeth Tai), Polisi PS15 sydd yn cyfeirio at y Strategaeth Aneddleoedd, ac ym mholisïau TAI 14 i TAI 18, sy'n bolisïau ynglŷn â'r gwahanol gategorïau o aneddleoedd o fewn y cynllun. Cyfeiriodd gwrthwynebwyr at y gwahanol rannau hyn o'r Cynllun. Hefyd cyfeiriodd gwrthwynebwyr at y rôl a roddir aneddleoedd unigol fel rhan o'u cyfiawnhad i gynnwys safle(oedd) tai ychwanegol o fewn y cynllun.
Sylwebyddion	Rhif sylw 1029, Llywodraeth Cymru [1561] Rhif Sylw 83, Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267] Rhif sylw 284, Mr Aled Evans [2646] Rhif sylw 461, Tai Twnti Cyf [2868] Rhis sylw 482, Cyfeillion y Ddaear Môn a Gwynedd (Mr Richard Mills) [2937] Rhif sylw 292, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470] Rhif sylw 701, RCH Douglas Pennant [3070]
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Mae'r aneddleoedd a gydnabyddir o fewn y Cynllun wedi eu rhannu ar sail goeden aneddleoedd, nod y goeden aneddleoedd a'r strategaeth ofodol yw ceisio tywys datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy er

	mwyn darparu'r math iawn o ddatblygiad yn y lle iawn sy'n cwrdd â gofynion y cymunedau. Mae'r Cynllun yn cyfeirio tuag at bum categori penodol o aneddleoedd sef:- I. Canolfan Isranbarthol II. Canolfannau Gwasanaethau Trefol III. Canolfannau Gwasanaethau Lleol IV. Pentrefi V. Clystyrau
Crynodeb y ACLl o'r sylwadau	Ymysg y sylwadau yn ymwneud a'r goeden aneddleoedd roedd Llywodraeth Cymru o'r farn fod angen mwy o gyfiawnhad i esbonio'r nifer o bentrefi sydd wedi ei gynnwys o fewn y goeden aneddleoedd. Nodir ymhellach fod rhai o'r clystyrau wedi cael sgôr isel iawn yn y matrics (Papur Testun 5) sydd yn golygu eu bod yn lleoliadau llai cynaliadwy. Gwrthwynebir y ffaith fod yna cymaint o glystyrau wedi cael eu hadnabod. Ymhellach fe dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r clystyrau yn ymwneud a'r ffaith fod y twf yn cael ei gyfyngu i 2 uned. Roedd rhai o'r sylwadau eraill eisiau ail dosbarthu'r twf i leoliadau eraill gan dywys er enghraifft rhoi lai o dwf yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Chanolfannau Gwasanaeth Lleol a chael mwy o dwf yn y pentrefi a'r clystyrau. Ond ar y llaw arall roedd rhai 'r sylwebyddion yn dymuno gweld ychwaneg o dwf yn y Canolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Trefol. Er mwyn cyflawni peth o'r twf fe awgrymwyd lleoliadau penodol a fyddai'n gallu dygymod hefo ychwaneg o ddatblygiad.
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	Ceisiodd y rhan fwyaf o wrthwynebwyr ail-gategoreiddio'r anheddle dan sylw er mwyn iddo gael ei gynnwys mewn categori uwch. Ceisiodd un gwrthwynebydd ail-gategoreiddio'r anheddle i gategori is, gan ddibynnu ar ganlyniad y sylwadau ynghylch polisïau penodol. Ceisiodd rhai gwrthwynebwyr gynnwys anheddle ychwanegol yn y categori 'Clystyrau'. Mae Llywodraeth Cymru yn cwestiynu'r sail ar gyfer adnabod cymaint o aneddleoedd yn y categori clystyrau, gan gyfeirio at y sgôr isel a roddir yn y matrics cynaliadwyedd ym Mhapur Pwnc 5.
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	Mae Polisi Cynllunio cenedlaethol yn nodi bod angen i awdurdodau cynllunio lleol ddod o hyd i rwydwaith o aneddleoedd cynaliadwy, sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth barchu amrywiaeth leol a diogelu cymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol y cymunedau. Mae'r Cynllun Adnau yn nodi Coeden o drefi a phentrefi sydd â rôl a swyddogaeth benodol. Datblygwyd a chyhoeddwyd y fethodoleg ym Mhapur Pwnc 5 "Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd" i gategoreiddio aneddleoedd ar sail eu

	rôl, swyddogaeth, amrywiaeth a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau penodol. Aseswyd 29 o ffactorau/gwasanaethau/cyfleusterau. Disgrifir gwasanaethau/cyfleusterau penodol fel gwasanaethau 'allweddol', fel y caiff ei ddiffinio ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Nid oes yr un o'r gwrthwynebwyr wedi herio'r fethodoleg a ddisgrifiwyd ym Mhapur Pwnc 5. Cyfeiriodd rhai gwrthwynebwyr at wasanaethau/cyfleusterau penodol sydd wedi'u lleoli yn yr aneddleoedd dan sylw. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi cael eu cyfrif eisoes, neu roeddynt yn cael eu hystyried fel rhai sy'n cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth yn hytrach na chyfleusterau cymunedol/gwasanaethau. Dangosodd dadansoddiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r gwrthwynebiad yn ymwneud â Thywyn yr angen i addasu sgôr Tywyn a sgôr Penygroes, ond nid yw hyn yn newid statws y naill anheddle na'r llall o fewn y Goeden Aneddleoedd. Yn dilyn gwrthwynebiad penodol a dderbyniwyd yn ymwneud a maint clwstwr Waun (Penisarwaun) mae yna Newid a Ffocws yn cael ei gynnig i'r Cynllun a fydd yn arwain at ychwanegu tuag at faint y clwstwr hwn.

Prif fater: Ynni adnewyddadwy, gan gynnwys tyrbinau gwynt	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Polisi Strategol PS7: Technoleg adnewyddadwy a Polisi ADN1 – Ynni Gwynt ar y Tir
Sylwebyddion	Rhif sylw 180, Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Rhif sylw 181, Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] Rhif sylw 607, Mr Paul Madden [3032] Rhif sylw 662, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 765, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 1420, NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] Rhif sylw 71, Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710] Rhif sylw 74, Mr David Coucill [2629] Rhif sylw 75, Mrs Carolyn Williams [2721] Rhif sylw 99, Mr Nigel Ayliffe [2639] Rhif sylw 100, Mr Christopher Marjot [2624] Rhif sylw 131, Mr Mark Edwards [2769] Rhif sylw 166, Mr David Thomas [2775] Rhif sylw 177, Rod Dixon [2774] Rhif sylw 194, Mrs Irene Stott [2780] Rhif sylw 201, Kingsbridge Caravan Park (Mr Andrew Bate) [2778] Rhif sylw 299, Mr Owain Evans [2837] Rhif sylw 305, Mr Barry Roberts [2878]

	Rhif sylw 312, Cyfeillion Llŷn (Mrs Sian Parri) [2871] Rhif sylw 388, Mon a Gwynedd Friends of the Earth (Mr Richard Mills) [2937] Rhif sylw 477, CSJ Planning Consultants Ltd (Mr John Cocking) [1558] Rhif sylw 531, John Bircham [2989] Rhif sylw 532, Jason Bowes [2991] Rhif sylw 535, Brian Lee [2993] Rhif sylw 538, Janis Evans [2994] Rhif sylw 539, David Talbot [2995] Rhif sylw 540, Cyngor Cymuned Tudweiliog (Mrs Glenys Peters) [1236] Rhif sylw 541, Mrs Pam Lee [2725] Rhif sylw 542, Dr Stephen Baker [2623] Rhif sylw 543, Richard & Sheila Perry [2996] Rhif sylw 544, Mr Stephen Kneale [2776] Rhif sylw 545, Mrs Candy Jones [2758] Rhif sylw 546, Elfed Jones [2999] Rhif sylw 547, Mr Nigel Ayliffe [2639] Rhif sylw 548, Mr N.F. & Mrs C.W. Roberts [3000] Rhif sylw 549, Mrs M.A. Ayliffe [3001] Rhif sylw 550, Mr DJ & Mrs JL Hart [3002] Rhif sylw 552, Gareth Porter [3004] Rhif sylw 554, Ralph Morris [3005] Rhif sylw 559, Jonathon Tivy-Jones [3010] Rhif sylw 576, Julia Dobson [2979] Rhif sylw 688, Mrs Frances Nigogosian [3068] Rhif sylw 551, Robert MacAulay [3003] Rhif sylw 555, Isabel Hargreaves [3006] Rhif sylw 556, Vicky Gregory [3007] Rhif sylw 557, John Alexander [3008] Rhif sylw 558, Sarah Irlam [3009] Rhif sylw 560, Mr John E. Williams [3013] Rhif sylw 561, Dr B L Davies [3012], Rhif sylw 572, Mrs E C Davies [3017] Rhif sylw 562, Christopher and Eleni Marjot [3011] Rhif sylw 564, Christopher and Eleni Marjot [3011] Rhif sylw 565, Jonathan Tivy-Jones [3010 Rhif sylw 567, Mrs Erica Cooper [3015] Rhif sylw 566, Mrs Nanette Tivy-Jones [3014] Rhif sylw 568, Mr John E. Williams [3013] Rhif sylw 577, Trevor Jones [3019] Rhif sylw 579, Dr Morag McGrath [231] Rhif sylw 580, Dr Morag McGrath [231] Rhif sylw 581, Nigel Peacock [3021] Rhif sylw 582, Mr David G. Thomas [3020]# Rhif sylw 583, Mr Ralph Morris [3022] Rhif sylw 584, Gillian Coates [3023] Rhif sylw 585, Mr David G. Thomas [3020] Rhif sylw 586, Philip Tolman [3024], Rhif sylw 586, Honey Tolman [3025] Rhif sylw 588, Janet Smith [2990] Rhif sylw 589, Dorothy Prestwich [3026] Rhif sylw 590, Mr & Mrs K Street [3027] Rhif sylw 591, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mrs

	Maureen Parry Williams) [1441] Rhif sylw 593, Lawrence Cotter [3028] Rhif sylw 596 & 601, Cyngor Cymuned Cwm Cadnant (Mr Alun Foulkes) [1273] Rhif sylw 603, John & Ann Baum [3031] Rhif sylw 608, Mr Paul Madden [3032] Rhif sylw 690, Mr John Irlam [3069] Rhif sylw 694, Mrs Kate Barker [2857] Rhif sylw 705, Lesley Alexander [3073] Rhif sylw 706, Gwyneth Jones [3074] Rhif sylw 711, Anglesey Against Wind Turbines (Ms Mairede Thomas) [318] Rhif sylw 713, Mr John Eric Williams [2746] Rhif sylw 894, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 950, Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] Rhif sylw 686, Mr Ronald Boyle [2672], Rhif sylw 700, Linda Boyle [3071] Rhif sylw 707, Susan Talbot [3075]
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Mae'r Cynllun Adnau yn nodi amrywiaeth o bolisïau sy'n ymwneud â rheoli datblygiad technolegau ynni adnewyddadwy sy'n gyson â pholisi cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
Crynodeb y ACLl o'r sylwadau	Roedd rhai o'r sylwebwyr o'r farn fod y Polisi Strategol yn ail adrodd polisi cenedlaethol a chan hynny nad oedd angen cynnwys y polisi. Roedd y sylwebwyr a oedd yn ymateb i Bolisi ADN1 o'r farn fod maint y tyrbinau a oedd yn derbyn ystyriaeth o dan y polisi yma'n rhy fawr ac ymhellach roeddem yn gwrthwynebu'r ffaith nad oedd yna gyfyngiad pellteroedd wedi ei gynnwys o fewn y polisi. Derbyniwyd pryderon hefyd fod tyrbeini yn niweidiol o ran twristiaeth
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	• Dileu'r polisi strategol. • Cynnwys cymal sydd yn cyfeirio tuag at warchod mwynderau i dwristiaid / ymwelwyr. • Cynnwys cyfeiriad tuag at bellter gwahanu o 1.5 cilomedr rhwng y tyrbeini. • Ail diffinio'r dosbarthiad tyrbeini er mwyn adlewyrchu'n gywir eu graddfa mewn perthynas ag aneddiadau a'r amgylchedd lleol.
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	Cynhaliwyd astudiaeth i ddarparu asesiad ar sail tystiolaeth o sensitifrwydd a chapasiti cymharol ardal y Cynllun a thirweddau Pharc Cenedlaethol Eryri i ddarparu ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau ynni adnewyddol ar raddfa amrywiol. Mae'r datblygiadau yn cynnwys tyrbinau gwynt a ffermydd solar. Comisiynwyd astudiaeth ychwanegol i benderfynu ar y priodoldeb o ddefnyddio lleiafswm o

	bellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau gwynt neu beilonau ac eiddo preswyl, er mwyn diogelu amwynder gweledol preswyl. Roedd y rhan fwyaf o'r gwrthwynebwyr yn cyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig sy'n ymwneud â thyrbinau gwynt, gan gynnig bod meini prawf tebyg yn cael eu cynnwys yn y Cynllun. Mewn perthynas â'r sylwadau hyn, ystyrir bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am y newidiadau a gynigiwyd gan y gwrthwynebwyr yn ymwneud â'r mater hwn, heblaw am y canlynol: cynnwys cyfeiriad at fwynderau llety sy'n ymwneud â thwristiaeth; gosod ceblau o dan y ddaear lle y bo'n briodol, yn enwedig mewn ardal sensitif; cynnwys cyfeiriad at osodiad Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA); a newid y derminoleg yn y Gymraeg o "felinau gwynt" i "dyrbinau gwynt".

Prif fater: Economi a Chyflogaeth	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Polisi Strategol 10: Darparu cyfle ar gyfer economi Ffyniannus, Polisi CYF1: Gwarchod tir ac unedau ar gyfer economi ffyniannus
Sylwebyddion	Rhif sylw 455, Bourne Leisure Ltd [2768] Rhif sylw 803, Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645] Rhif sylw 825, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 828, Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550] Rhif sylw 902, Bourne Leisure Ltd [2768] Rhif 1046, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 1166, Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] Rhif sylw 1301, Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523] Rhif sylw 1412, NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] Rhif sylw 1418, NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] Rhif sylw 1424, NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] Rhif sylw 1608, Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680] Rhif sylw 1609, Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680] Rhif sylw 1610, Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680] Rhif sylw 801, Menter Iaith Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762] Rhif sylw 826, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 883, Mr John Tripp [252] Rhif sylw 1013, Cyngor Cymuned Pentir (Mr Dilwyn

	Pritchard) [1536] Rhif sylw 1047, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 1048, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 1167, Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] Rhif sylw 1401, Cyng/Counc Alwyn Gruffydd [381]
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Mae'r Cynllun Adnau yn darparu ystod a dewis o safleoedd cyflogaeth newydd ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth a gwahanol leoliadau daearyddol er mwyn darparu'n effeithiol ar gyfer y lefel twf cyflogaeth a nodir yn y Cynllun. Mae'r dull hwn yn cynnwys diogelu tir cyflogaeth bresennol a dyrannu safleoedd ychwanegol. Mae lefel y ddarpariaeth yn alinio gyda rôl ardal y Cynllun, yn enwedig Ynys Môn, fel sbardun economaidd pwysig yng Ngogledd Orllewin Cymru.
Crynodeb y ACLl o'r sylwadau	Roedd y prif sylwadau a dderbyniwyd fel a chanlyn:- • Gormodedd o dir cyflogaeth yn cael ei warchod • Angen cyfiawnhau'r angen ar gyfer y tir cyflogaeth • Angen gwahaniaethu rhwng y tir sydd yn cael ei ddynodi a'i warchod • Angen mwy o hyblygrwydd o fewn y warchodaeth er mwyn galluogi defnyddiau amgen ar y safleoedd.
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	Eglurhad mwy clir o ran yr angen ar gyfer gwarchodaeth y tir cyflogaeth ynghyd a mwy o hyblygrwydd o ran y defnyddiau sydd yn bosib ar y safleoedd hynny.
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	Mewn ymateb i sylwadau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â lefel y ddarpariaeth, ystyrir bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb fod angen newidiadau mewn perthynas â'r mater hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd a warchodir ar yr Ynys yn cael budd o statws Ardal Fenter ac yn cyflawni un o amcanion y Cynllun, h.y. i sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd ac adeiladau o faint ac ansawdd cyflogaeth yn cael eu diogelu a'u dyrannu mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau ag anghenion busnesau presennol ac sy'n gallu cefnogi sectorau twf yr economi leol, gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi cynhenid. Cafodd y safleoedd a ddewiswyd i'w diogelu a'u dyrannu eu diffinio ar y sail bod yr Adolygiad Tir Cyflogaeth yn tybio eu bod yn arddangos potensial cryf i barhau i chwarae rhan economaidd bwysig, p'un a yw hyn o ran darparu cyflogaeth leol mewn lleoliadau allweddol neu p'un a yw'r safleoedd yn fwy strategol o ran maint, safle neu swyddogaeth. O ran sylwadau yn ymwneud â defnydd amgen o

	safleoedd, ystyrir bod Polisïau CYF 3 a CYF 4 yn darparu digon o hyblygrwydd, heb yr angen am newidiadau. O safbwynt perygl llifogydd, cydnabyddir bod ychydig o safleoedd o fewn parthau llifogydd C1 neu C2. Fodd bynnag, mae'r safleoedd hyn yn cynnwys ardaloedd datblygu presennol o fewn Canolfannau sy'n chwarae rôl economaidd bwysig. Gellir asesu canlyniadau llifogydd unrhyw geisiadau i ailddatblygu safleoedd o fewn y safleoedd hyn yn y cyfnod cais cynllunio, yn unol â'r canllawiau a nodir yn TAN15: Perygl Llifogydd.

Prif fater: Graddfa twf tai, gan gynnwys ei berthynas gyda'r iaith Gymraeg	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Polisi PS13: Darpariaeth Tai a rhannau o'r Cynllun sy'n cyfeirio at y lefel o dwf tai yn y Cynllun.
Sylwebyddion	Rhif Sylw 86, Y Mg. Carl Iwan Clowes [2728] Rhif Sylw 130, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470] Rhif Sylw 368, Mr Dave Eccles [269] Rhif Sylw 447, WYG/Alliance Planning (Mr Mark Walton) [2905] Rhif Sylw 647, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif Sylw 657, Robert Llewelyn Jones [3058] Rhif Sylw 813, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif Sylw 816, Cyngor Cymuned Tudweiliog (Mrs Glenys Peters) [1236] Rhif Sylw 817, Cyngor Tref Pwllheli (Mr Robin W Hughes) [1235] Rhif Sylw 818, Cyng./Counc Ann Williams [355] Rhif Sylw 821, Jina Gwyrfai [3092] Rhif Sylw 839, Menter Iaith Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762] Rhif Sylw 869, Hughes Bros Ltd - [3083] Rhif Sylw 870, Hughes Bros Ltd - [3083] Rhif Sylw 903, Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645] Rhif Sylw 959, Cylch yr Iaith (Ieuan Wyn) [3128] Rhif Sylw 960, Canolfan Hanes Uwchgwyrfai (Geraint Jones) [3130] Rhif Sylw 972, Dyfodol i'r Iaith (Dr Simon Brooks) Rhif Sylw 973, Cymdeithas yr Iaith (Dr Menna Machreth) [3138] Rhif Sylw 974, Cyng./Counc Alwyn Gruffydd [381] Rhif Sylw 977, Pwyllgor Ymchwil Cymunedau Cymraeg a Chymreig Môn (Robyn Parri) [3141] Rhif Sylw 985, Grŵp Ffocws Cynllun Datblygu Lleol (Mr Iwan Edgar) [3050] Rhif Sylw 1062, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif Sylw 1063, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey)

	[1561] Rhif Sylw 1276, Cyngor Cymuned Llandderfel (Mrs Bethan Jones) [1257] Rhif Sylw 1408, Admiral Taverns [3348] Rhif Sylw 1428, Marian Elias Roberts [3353] Rhif Sylw 1452, Cymdeithas yr Iaith (Mr Dylan Morgan) [2730] Rhif Sylw 1453, Dyffryn Nantlle 2020 (Ben Gregory) [3355] Rhif Sylw 1460, Mr Alex Badley [255] Rhif Sylw 1706, Eirwen Williams [3094] Rhif Sylw 1708, Bedwyr Owen (3177) Rhif Sylw 1709, Deian Ap Rhisiart (3197) Rhif Sylw 1710, Adam Jones (3198) Rhif Sylw 1711, Alan Tangi (3224) Rhif Sylw 1712, Wyn Williams (3241) Rhif Sylw 1713, Dafydd Bates (3267) Rhif Sylw 1714, Geraint Parri (3271) Rhif Sylw 1715, Mrs Joanna Thomas (2643) Rhif Sylw 1716, Angharad Hughes (3114) Rhif Sylw 1717, Ifan Webb (3166) Rhif Sylw 1718, Gareth Lloyd Jones [3171] Rhif Sylw 1719, Meirion Williams [3178] Rhif Sylw 1720, Angharad Griffiths [3199] Rhif Sylw 1721, Angharad Blythe [3200] Rhif Sylw 1722, Sioned Haf [3201] Rhif Sylw 1723,Osian Elias [3203] Rhif Sylw 1724, Bethan Roberts [3204] Rhif Sylw 1725, Randal Isaac [3207] Rhif Sylw 1726, Deiniol Carter (3208) Rhif Sylw 1726, Gwawr Edwards (3209)
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Mae Polisi Strategol PS13 yn darparu ar gyfer twf tai o 7,184 o unedau tai yn ystod oes y Cynllun. Er mwyn gallu cwrdd â'r galw yma mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer 7,902 o unedau tai sydd yn cynnwys lwfans llithriad o 10%.
Crynodeb y ACLI o'r sylwadau	Roedd y sylwadau naill ai o'r farn bod y lefel twf a nodir yn y Cynllun Adnau yn iawn, bod y lefel y twf yn rhy uchel, neu fod lefel y twf yn rhy isel. Roedd y rhai a oedd yn ystyried bod lefel y twf yn rhy uchel yn rhoi nifer o resymau, gan gynnwys dilysrwydd/hygrededd yr amcanestyniadau, amcanestyniadau afrealistig/optimistaidd, graddfa twf nad ystyrir yn un gyfiawnadwy, ac effeithiau'r lefel hon o dwf ar les a seilwaith yr iaith Gymraeg. Wrth wneud sylwadau am yr effaith ar les yr iaith Gymraeg roedd y gwrthwynebwyr yn cwestiynu hygrededd yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, sydd wedi hysbysu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Roedd y rhai a oedd yn ceisio lefel uwch o dwf yn cynnwys y rheiny a oedd yn awgrymu y dylai'r Cynllun ddychwelyd i lefel y twf a nodwyd yn yr Hoff Strategaeth (h.y. 7,665), rhai oedd yn cwestiynu'r lwfans llithrant, y defnydd o safleoedd ar hap, a'r rhai

	oedd yn holi p'un a oedd y gyfradd tai gwag wedi cael ei defnyddio i drosi amcanestyniadau aelwydydd yn ofyn am anheddau.
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	Mae'r newidiadau a ofynnwyd amdan yn amrywio o rhai sylwebyddion eisiau ychwanegu tuag at y lefelau twf tai gydag eraill eisiau lleihau'r ffigwr twf tai.
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	Mae Polisi Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn gwbl glir mai'r man cychwyn ar gyfer cynllunio ar gyfer cartrefi newydd yw'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd y mae'n eu cyhoeddi ar gyfer pob ardal y Cyngor. Felly, defnyddiodd y Cynghorau amcanestyniadau sail 2011 (a gyhoeddwyd ar ôl y cam Hoff Strategaeth) fel y 'man cychwyn' mwyaf cyfredol. Cynhyrchwyd senarios amgen gan ddadansoddiad a gyflawnwyd ar ran y Cyngor gan Edge Analytics. Roedd ystyriaeth o amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru, senarios amgen ac ystyriaeth o ffactorau perthnasol eraill yn rhoi cyfiawnhad dros y Cynllun i bennu lefel twf o 7,184 o unedau tai. Roedd y fethodoleg yn cynnwys lwfans cyfradd tai gwag ac ystyrir bod y lwfans llithriad yn rhesymol yn seiliedig ar ddadansoddiad o gynlluniau eraill a phatrwm datblygiad yn ardal y Cynllun. Ystyrir bod lefel twf is na'r hyn a gynhwysir yn y Cynllun yn disgyn yn fyr o gyflawni strategaeth y Cynllun yn gyffredinol, na fyddai'n ymateb yn effeithiol i'r gofynion y cafwyd tystiolaeth ohonynt, er enghraifft, i ymateb i strategaethau datblygu economaidd y ddau Gyngor, ac felly na fyddai'n cynrychioli dull cadarn. Gallai dull gweithredu o'r fath arwain at gynllunio ar gyfer twf statig neu hyd yn oed dirywiad. Byddai'n arwain at gyflenwi tai sy'n llai fforddiadwy drwy'r system gynllunio a llai o sicrwydd y byddai ceisiadau'n cynhyrchu cymysgedd ddigonol o unedau tai ar draws ardal y Cynllun. Cadarnhaodd y Gwerthusiad Cynaliadwyedd (a hysbyswyd gan yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg) gadernid y dull a nodir yn y Cynllun Adnau. Ni ddarparwyd unrhyw asesiadau na thystiolaeth wedi'i modelu gan y gwrthwynebwyr. Ar y sail hon, ni chafwyd unrhyw resymau grymus neu amlwg i gyfiawnhau gostwng na chodi'r gofyniad tai. Serch hynny, mae'r gwrthwynebiadau wedi tynnu sylw at yr angen am fân newidiadau a newidiadau â ffocws i bolisïau penodol a'r testun ategol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd yn y gwrthwynebiadau ac i sicrhau bod y polisïau a'r testun yn gyson, yn gywir ac yn glir. Mae'r newidiadau a gynigir yn cynnwys y canlynol:- i. Cyfeiriad at y gyfradd tai gwag yn y testun ategol ii. Cyfeiriad at y sail ar gyfer y lwfans llithriad mewn testun ategol

	iii. Cyfeiriad at bapurau pwnc newydd am y taflwybr tai a phroffiliau aneddleoedd iv. Diwygiadau i destun ategol i wella eglurder ynglŷn â'r iaith Gymraeg v. Cynnwys polisi ychwanegol ynghylch datblygiad tai fesul cam vi. Diwygio Polisi Darpariaeth Seilwaith ISA1 i gyfeirio'n benodol at yr iaith Gymraeg vii. Diwygio Polisi PS1 iaith a diwylliant Cymraeg i gyfeirio at drothwyon lle bydd angen Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar Iaith Yn ogystal, bydd Papurau Testun perthnasol a'r Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cael eu diwygio yn ôl yr angen i adlewyrchu gwybodaeth gyfredol a gwella eglurder.

Prif fater: Tai Marchnad Lleol	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Polisi TAI 5
Sylwebyddion	Rhif sylw 1031, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 599, Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366] Rhif sylw 286, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470] Rhif sylw 611, Tom Brooks [3034] Rhif sylw 70, Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710] Rhif Sylw 628, Iwan Edgar [251] Rhif sylw 633, Cyngor Tref Pwllheli (Mr Robin W Hughes) [1235] Rhif sylw 635, Grŵp Ffocws Cynllun Datblygu Lleol (Mr Iwan Edgar) [3050] Rhif sylw 941, Cynghorydd Alwyn Gruffydd [381] Rhis sylw, Hunaniaith (Ms Debbie Ann Williams) [1307] Rhif sylw 630, Menter Môn (Helen Thomas) [1615] Rhif sylw 644, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 281, Mr Aled Evans [2646] Rhif sylw 625, Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (Mr Arfon Hughes) [1189] Rhif sylw 638, Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052] Rhif sylw 428, Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953] Rhif sylw 82, Adran Cynllunio a Thai, Cyngor Sir Ddinbych (Angela Loftus) [2719] Rhif sylw 207, John Brinley Jones [2087] Rhif sylw 66, Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267] Rhif sylw 205, John Brinley Jones [2087]

	Rhif sylw 206, John Brinley Jones [2087]
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Mae Polisi TAI 5 yn hyrwyddo tai marchnad leol, ynghyd â thai fforddiadwy angen lleol, mewn aneddleoedd penodol. Mae detholiad o'r aneddleoedd yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o ffactorau a ystyrir yn berthnasol er mwyn penderfynu a yw aelwydydd lleol yn gallu prynu neu rentu eiddo.
Crynodeb y ACLl o'r sylwadau	Mynegodd gwrthwynebwyr, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y materion canlynol: (i) Priodoldeb/ angen am y polisi - h.y. nid yw'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru; bydd yn gwanhau cymunedau yn gymdeithasol ac yn economaidd; bydd yn arwain at anghydbwysedd cymdeithasol; bydd yn dyblygu darpariaeth tai fforddiadwy; bydd yn golygu nad yw'n bosibl darparu'r lefel angenrheidiol o dai ac mae'n cyfyngu'n ormodol ar ddatblygiad. (ii) Angen ei ehangu fel ei fod yn berthnasol i ardal ehangach, yn bennaf ar sail y byddai hyn o fudd i les yr iaith Gymraeg. (iii) P'un a yw'n briodol defnyddio Cytundebau Adran 106 i gyfyngu meddiannaeth y tai i'r rhai sy'n gymwys. (iv) P'un a yw defnyddio data lefel ward yn eithrio aneddleoedd penodol
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	Ym marn rhai o'r sylwebyddion mae'r polisi yma'n groes i Bolisi Cynllunio Cymru a gan hynny y dylid dileu'r polisi. Roedd rhai o'r sylwadau eraill yn gofyn am elfen o hyblygrwydd o fewn y polisi. Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau yn benodol ymwneud hefo diffyg cydnabyddiaeth o ardaloedd eraill o fewn y polisi gan gynnwys Borth y Gest, Nefyn a Morfa Nefyn a Dwyfor yn ei gyfanrwydd.
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	Er y derbynnir bod y Polisi'n gwyro oddi wrth y polisi cynllunio cenedlaethol, noda paragraff 9.2.4 bod hyn yn bosibl ar yr amod y gellir ei gadarnhau gyda thystiolaeth gadarn: *"Os oes angen i'r polisïau hyn wyro oddi wrth bolisïau cenedlaethol er mwyn diwallu* ***anghenion tai lleol penodol ar gyfer tai marchnad*** *(na fyddai fel arfer gydag unrhyw gyfyngiad meddiannaeth), bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gyfiawnhau yn ofalus yr* ***amrywiad*** *gyda thystiolaeth gadarn fel y gwelant yn briodol."* Mae Papur Pwnc 17 yn darparu'r dystiolaeth honno. O ran cynnwys aneddleoedd ychwanegol o fewn cylch gwaith y Polisi, ailedrychodd y swyddogion ar y

	dystiolaeth ac ystyried a ddylid ychwanegu Borth-y-Gest a Morfa Bychan at y rhestr o aneddleoedd. Wrth gynnal yr asesiad o wrthwynebiadau, nododd swyddogion er bod Papur Pwnc 17 wedi nodi bod y wardiau sy'n cynnwys Llangian a Rhoshirwaun yn haeddu cael eu cynnwys o fewn Polisi TAI 5, nad oedd yr aneddleoedd hyn wedi eu cynnwys. Cynigir bod y gwall hwn yn cael ei gywiro. Nid yw'r dadansoddiad o'r dystiolaeth wedi dangos y dylid cynnwys ardaloedd ychwanegol. Cynigir diwygio'r geiriad i sicrhau y byddai modd defnyddio unrhyw fecanwaith addas sydd ei angen i reoli meddiannaeth o'r cartrefi newydd, yn hytrach na chyfyngu hynny i Gytundeb Adran 106.

Prif fater: Tai Fforddiadwy	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Polisi PS14, TAI 9 a TAI 10
Sylwebyddion	Rhif sylw 727, Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550] Rhif sylw 63, Mr Aled Evans [2646] Rhif sylw 272, Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550] Rhif sylw 1179, Horizon Nuclear Power (Miss Sarah Fox) [2919] Rhif sylw 1034, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 434, Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953] Rhif sylw 1266, Cyng. R.H. Wyn Williams [367] Rhif sylw 283, Mr Aled Evans [2646] Rhif sylw 728, Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550] Rhif sylw 273, Mrs Marian Jones [2832] Rhif sylw 68. Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710] Rhif sylw 951, Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (Mr Arfon Hughes) [1189] Rhif sylw 035, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif 1263, Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052] Rhif sylw 645, Cyfeillion Borth-y-Gest (Tom Brooks) [3036] Rhif sylw 984, Rob Booth[3033] Rhif sylw 1032, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 945, Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (Mr Arfon Hughes) [1189] Rhif sylw 1262, Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052] Rhif sylw 309, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

	(Mr Chris Wynne) [2626] Rhif sylw 446, Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953] Rhif sylw 452, Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Mae'r polisïau tai fforddiadwy (Polisi PS14, TAI 9 a TAI 10) yn y Cynllun Adnau yn anelu at gynorthwyo'r system gynllunio i helpu'r Cyngor i gwrdd â'r angen tai y cafwyd tystiolaeth iddo, drwy geisio cyfraniad tai addas o ddatblygiadau preswyl newydd. Mae Polisi TAI 9 yn gosod isafswm targed dangosol o 15% neu 25% yn dibynnu ar yr ardal farchnad leol ac mae'n destun i drafodaeth yn ystod y cyfnod cais cynllunio. Mae'r trothwy i sbarduno gofyniad tai fforddiadwy yn dibynnu ar statws yr anheddle yn y Goeden Aneddleoedd.
Crynodeb y ACLl o'r sylwadau	Gellir crynhoi sylwadau fel a ganlyn (nid yw'n rhestr gynhwysfawr): 1. Pryderu bod targedau tai fforddiadwy mynegol yn is nag ydynt yn y cynlluniau presennol; 2. Aneglur ynghylch y sail ar gyfer y targed tai fforddiadwy cyffredinol; 3. Aneglur ynghylch a fydd hyfywdra cynlluniau yn cael ei ystyried; 4. Llywodraeth Cymru yn ystyried nad yw'r polisi safleoedd eithriedig yn cyd-fynd â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol 5. Ar y llaw arall, cefnogaeth gan ddarparwyr tai cymdeithasol a'r swyddog galluogi tai gwledig i'r polisi safleoedd eithriedig.
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	Ymysg y newidiadau yr oedd y sylwebyddion eisiau ei weld oedd cynyddu'r gyfradd tai fforddiadwy. Credir hefyd fod angen cynnwys esboniad o'r gyfradd darparu a ddisgwylir trwy'r ymrwymiadau cyfredol a sut bydd y dyraniadau yn cyfrannu at gyflawni targedau tai fforddiadwy.
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	Pwysleisir bod y targedau yn deillio o ganfyddiadau'r astudiaeth hyfywedd tai fforddiadwy, a oedd yn asesu hyfywedd amrywiaeth o senarios tai ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau gyda lefelau amrywiol o dai fforddiadwy. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno targed tai fforddiadwy un haen, dwy haen a thair haen, a oedd yn berthnasol i wahanol ardaloedd prisiau tai. Roedd dadansoddiad o'r adroddiad yn ffafrio dull dwy haen. Mae'r targed tai fforddiadwy cyffredinol yn defnyddio'r targedau tai fforddiadwy mynegol a ffactorau eraill i ddarparu targed y gellid ei gyflenwi drwy'r system gynllunio. Cynigir Newid a Ffocws i'r Cynllun er mwyn cydnabod yr angen i ddiwygio'r testun esboniadol i egluro'r dull hwn. Yn yr un modd mae angen mân

	ychwanegiadau i egluro y byddai hyfywedd yn cael ei ystyried ar y cam cais cynllunio. O ran sylwadau Llywodraeth Cymru am y polisi safleoedd eithriedig gwledig, a allai hwyluso cyfran gyfyngedig o dai marchnad ar safleoedd eithriedig, ystyrir bod y polisi yn cyd-fynd â TAN 6. Serch hynny, cynigir y dylai Papur Pwnc 3 gael ei ddiwygio i ddiweddaru'r dystiolaeth er mwyn esbonio'n well y sail ar gyfer nifer cyfyngedig o dai marchnad mewn amgylchiadau eithriadol ar safleoedd eithriedig gwledig.

Prif fater: Llety Sipsiwn a Theithwyr	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Polisi TAI11 – Gwarchod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Polisi TAI12 – Dyrannu Safleoedd sipsiwn a Theithwyr, Polisi TAI13 – Safleoedd ar gyfer lleiniau i sipsiwn a theithwyr
Sylwebyddion	Rhif sylw 1076, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey [1561] Rhif sylw 1260, Partneriaeth Tai Gwynedd / Gwynedd Housing Partnership (Elfyn Owen) [3052] Rhif sylw 1074, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 1075, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 1077, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 1078, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 1079, Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys polisïau sy'n diogelu'r ddarpariaeth bresennol, yn dyrannu safle ychwanegol ac yn darparu fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd mewn ymateb i angen y cafwyd tystiolaeth ohono yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.
Crynodeb y ACLl o'r sylwadau	Cyfeiria'r gwrthwynebwyr, yn bennaf Llywodraeth Cymru, at yr angen i sicrhau bod y Cynllun yn ymdrin â'r holl angen a nodwyd yn yr Asesiad Anghenion diweddaraf. Hefyd gwnaed sylwadau am eiriad y Polisi a thestun cefnogol
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	Gofynnwyd am eglurhad pellach o ran yr asesiad manwl o safleoedd. Ymhellach fe nodir na ddylai'r polisi rhoi terfyn ar faint o amser y gallai rhywun aros am y lleiniau
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	Ers cyhoeddi'r Cynllun Adnau, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Tai i gynnal Asesiad

	Anghenion diwygiedig ac i nodi atebion, gan ddangos ymrwymiad parhaus y ddau Gyngor i ymateb i'r angen am leiniau preswyl a mannau aros er mwyn darparu ar gyfer y rhai sy'n teithio drwy'r ardal. Mewn ymateb, cynigir dyrannu estyniad sy'n fwy na'r hyn a ddangosir yn y Cynllun Adnau i'r safle presennol ger Stad Ddiwydiannol Llandygai. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag angen tymor byr yn ogystal â rhoi cyfle i ddarparu lleiniau ychwanegol yn ddiweddarach yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae newidiadau â ffocws a mân newidiadau eraill yn cynnwys diwygiadau i eiriad y Polisi a thestun cefnogol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau uchod. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw hyn yn bodloni'r lefel gyffredinol o angen a nodwyd yn yr Asesiad Anghenion. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen am drafodaeth ychwanegol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid. Bydd taith y Cynllun ymlaen at yr ymchwiliad yn caniatáu i'r mater hwn gael ei ymchwilio yn fwy trylwyr. Ystyrir bod y newidiadau â ffocws a nodwyd yn dangos ymrwymiad parhaus y ddau Gyngor i ymateb i'r angen am leiniau preswyl a mannau aros er mwyn darparu ar gyfer y rhai sy'n teithio drwy'r ardal.

Prif fater: Strategaeth i sicrhau twf tai, gan gynnwys ei berthynas â'r iaith Gymraeg	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Polisi Strategol 15: Strategaeth Aneddleoedd
Sylwebyddion	Rhif sylw 83, Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267] Rhif sylw 132, Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267] Rhif sylw 284, Mr Aled Evans [2646] Rhif sylw 292, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470] Rhif sylw 347, Mr Geoff Wood [2916] Rhif sylw 354, WYG/Alliance Planning (Mr Mark Walton) [2905] Rhif sylw 461, Tai Twnti Cyf [2868] Rhif sylw 482, Cyfeillion y Ddaear Môn a Gwynedd (Mr Richard Mills) [2937] Rhif sylw 651, Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036] Rhif sylw 701, RCH Douglas Pennant [3070] Rhif sylw 729, Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550] Rhif sylw 730, RCH Douglas Pennant [3070] Rhif sylw 814, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 822, Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541] Rhif sylw 835, Cyngor Cymuned Tudweiliog (Mrs

	Glenys Peters) [1236] Rhif sylw 836, Cyng./Counc Ann Williams [355] Rhif sylw 837, Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] Rhif sylw 838, Cyngor Cymuned Llannor (Mr Haydn Jones) [1549] Rhif sylw 841, Jina Gwyrfai [3092] Rhif sylw 842,Jina Gwyrfai [3092] Rhif sylw 868.Hughes Bros Ltd - [3083] Rhif sylw 895, Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645] Rhif sylw 907, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen (Ms Eleri Bean) [1531] Rhif sylw 911,CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760] Rhif sylw 936,Richard Williams [3120] Rhif sylw 938, Cyngor Cymuned Llanfihangel Esc (Alun Foulkes) [3121] Rhif sylw 939,Menter Iaith Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762] Rhif sylw 1030,Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561] Rhif sylw 1682, Cylch yr Iaith (Ieuan Wyn) [3128] Rhif sylw 1683, Canolfan Hanes Uwchgwyrfai (Geraint Jones) [3130] Rhif sylw 1684, Dyfodol i'r Iaith (Dr Simon Brooks) [3136] Rhif sylw 1685, Cymdeithas yr Iaith (Dr Menna Machreth) [3138] Rhif sylw 1805, CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Mae PS15 yn nodi'r strategaeth ofodol y Cynllun o ran datblygu tai gan nodi y bydd hyd at 55% o dwf tai yn cymryd lle yn y prif ganolfannau, 20% o dwf yn y canolfannau gwasanaeth lleol a 25% o dwf yn y pentrefi a chlystyrau. Roedd PS15 yn nodi'r strategaeth ofodol y Cynllun yn nhermau datblygu tai, a rhannau eraill o'r Cynllun a oedd yn disgrifio'r strategaeth ofodol dai. Bwriad y Cynllun Adnau yw darparu cartrefi newydd dros gyfnod y cynllun drwy gyfuniad o: i. Anheddau a adeiladwyd eisoes (ers 2011) ii. Anheddau sydd yn cael eu hadeiladu iii. Addasiadau i'r stoc tai dros gyfnod y Cynllun iv. Lwfans hap-safleoedd - safleoedd/adeiladau a allai ddod ymlaen ar gyfer anheddau mewn Canolfannau, Pentrefi a Chlystyrau v. Dyraniadau tai mewn Canolfannau a Phentrefi Gwasanaethau vi. Lwfans llithriad o 10%
Crynodeb y ACLl o'r sylwadau	Roedd mwyafrif y sylwadau yn canolbwyntio ar safleoedd penodol, yn enwedig y rhai a gynhigiodd

	safleoedd ychwanegol/ amgen, yn hytrach nag ar y dull cyffredinol o ddarparu cartrefi newydd. Ymdrinnir ar wahân â'r sylwadau safleoedd penodol hyn. Nododd rhai'r angen i fynd i'r afael ag effaith dosbarthu cartrefi fel y nodir yn y Cynllun ar yr iaith Gymraeg.
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	Roedd y rhai a oedd yn cyfeirio at y dull cyffredinol y tu ôl i'r dosbarthiad gofodol yn cyflwyno safbwyntiau gwahanol: ceisiai rhai hyrwyddo mwy neu lai o dai yn y prif ganolfannau, eraill yn dymuno cyfeirio mwy/llai i rai Canolfannau Gwasanaeth Lleol, tra bod eraill yn dymuno gweld mwy o gartrefi yn cael eu hwyluso yng nghefn gwlad.
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	Cynhaliwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd yr holl aneddleoedd er mwyn nodi rôl a swyddogaeth pob anheddle yn ardal y Cynllun. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, nodwyd y Goeden Aneddleoedd. Sefydlwyd y strategaeth ofodol yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Mae 55% yn cael ei gyfeirio at y canolfannau uwch, 20% yn cael ei gyfeirio at Ganolfannau Gwasanaethau Lleol a 25% yn cael ei gyfeirio at Bentrefi, Clystyrau a chefn gwlad. Mewn termau gofodol, y strategaeth yw sicrhau bod polisïau manwl a strategol y Cynllun yn hyrwyddo datblygiadau tai sy'n mynd i'r afael â disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun ac yn cyd-fynd â disgwyliadau ynghylch creu swyddi newydd yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyfeirio at aneddleoedd sy'n gynaliadwy o ran maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau cludiant, a chynhwysiant cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly bydd patrwm cynaliadwy o anheddu, gyda chymunedau hyfyw, sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion cynaliadwyedd sy'n sail i'r Cynllun. Roedd rhai o'r farn bod rhagdybiaethau'r 'hap-safleoedd' yn rhy uchel. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth rymus wedi cael ei chyflwyno i awgrymu nad yw'r dull yn sylfaenol gadarn, h.y. na fydd cartrefi newydd yn parhau i gael eu darparu ar 'hap-safleoedd' bach o fewn ffiniau datblygu pentrefi lleol/ gwledig/ arfordirol neu ar gyrion eu ffiniau datblygu; na fydd y Canolfannau ardal y Cynllun yn parhau i ddarparu cartrefi newydd mewn adeiladau presennol a safleoedd tir llwyd. Ystyrir na chyflwynwyd unrhyw strategaethau amgen na thystiolaeth realistig i ymdrin â'r lefel o dwf, i adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun, na'r angen i hybu datblygu cynaliadwy.

	Yn sgil rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd ar y rhan yma o'r Cynllun mae yna Newidiadau â Ffocws yn cael eu cynnig.

Prif fater: Gwarchod yr amgylchedd naturiol	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Polisi Strategol PS16: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol a Polisi AMG1 Ardaloedd o Dirwedd Arbennig
Sylwebyddion	Rhif y sylw 165, Rod Dixon [2774] Rhif y sylw 232, Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Rhif y sylw 233, Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] Rhif y sylw 311, Cyfeillion LLyn (Mrs Sian Parri) [2871] Rhif sylw 325, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] Rhif sylw 343, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626] Rhif sylw 459, Bourne Leisure Ltd [2768] Rhif sylw 493, Mr Glyn Jones [2971] Rhif sylw 802, Ty Mawr West ltd (John Hill) [3062] Rhif sylw 805, Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] Rhif sylw 806, Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] Rhif sylw 812, Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988] Rhif sylw 891, Ffrindiau Borth-y-Gest (Tom Brooks) [3036] Rhif sylw 898, Bourne Leisure Ltd [2768] Rhif sylw 900, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 1092, Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] Rhif sylw 1182, Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919] Rhif sylw 1423, NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285] Rhif sylw 1439, Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] Rhif sylw 1443, Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] Rhif sylw 1444, Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521] Rhif sylw 429, Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940] Rhif sylw 54, Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594] Rhif sylw 234, Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Rhif sylw 235, Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] Rhif sylw 291, Mr Myrddin Roberts [2858] Rhif sylw 365, Dr Morag McGrath [231]

	Rhif sylw 375, Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254] Rhif sylw 460, Bourne Leisure Ltd [2768], Rhif sylw 609, Mr Paul Madden [3032] Rhif sylw 808, Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090] Rhif sylw 811, Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541] Rhif sylw 880, Mr John Tripp [252] Rhif sylw 892, Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645] Rhif sylw 899, Bourne Leisure Ltd [2768] Rhif sylw 901, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 904, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 905, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169] Rhif sylw 906, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Mae'r Cynllun Adnau yn nodi amrywiaeth o bolisïau sy'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd naturiol. Mae asedau naturiol yn allweddol i gymeriad, gwerth, natur unigryw ac ymdeimlad o le ardal y Cynllun, ac maent yn cynnwys cefn gwlad a'r arfordir sydd heb ei ddatblygu, buddiannau bioamrywiaeth, ayyb. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, nid yw'r Cynllun yn ceisio ailadrodd polisi cynllunio na deddfwriaeth genedlaethol.
Crynodeb y ACLl o'r sylwadau	Mynegodd gwrthwynebwyr bryder bod ffiniau Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi cael eu diwygio o gymharu â Chynllun Lleol Ynys Môn sydd eisoes yn bodoli.
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	Ail ddiffinio Môn yn ei gyfanrwydd fel Ardal Tirwedd Arbennig.
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	Ystyrir bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb fod angen newidiadau mewn perthynas â'r mater hwn. Roedd y meysydd a ddewiswyd i'w hadnabod fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi eu diffinio ar sail y tybir eu bod yn arddangos cymeriad a nodweddion y dirwedd yr ystyrir sydd o werth arbennig yn y cyd-destun lleol. Nid yw gwrthwynebwyr wedi cyflwyno tystiolaeth rymus i ddangos y dylai ardaloedd ychwanegol hefyd gael eu dynodi.

Prif fater: Dyraniadau safleoedd	
Rhan perthnasol o'r Cynllun adnau:	Mapiau mewnosod
Sylwebyddion	Gweler atodiad 13 (Rhy niferus i'w rhestru)
Cynnwys perthnasol o'r Cynllun adnau sydd yn berthnasol i'r prif fater.	Dynodir cyfres o safleoedd o fewn y Cynllun ar gyfer tai.
Crynodeb y ACLl o'r sylwadau	Derbyniwyd nifer o sylwadau safle-benodol yn

	ymwneud â dileadau arfaethedig o ddyraniadau presennol yn y Cynllun Adnau, safleoedd amgen newydd, a newidiadau arfaethedig i ffiniau.
Newidiadau a ofynnir amdanynt gan y sylwebyddion	Roedd rhai o'r sylwebyddion yn dymuno dileu'r dynodiadau gydag eraill yn cynnig dynodiadau newydd neu ychwanegiadau i'r rhai presennol.
Ymateb yr ACLl, gan gynnwys y rhesymau:	O ran ymateb i'r sylwadau hyn, mae'n bwysig nodi bod tystiolaeth helaeth a geir yn y dogfennau ategol yn dangos bod dyraniadau (tai a chyflogaeth) a maint y ffiniau datblygu wedi cael eu hystyried yn ofalus mewn ymgynghoriad â nifer o randdeiliaid. Roedd yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd wedi dylanwadu ar y broses. Felly, mae'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun yn gyson â Strategaeth y Cynllun yn gyffredinol, a gellir eu cyflenwi yn ystod cyfnod y Cynllun er mwyn galluogi'r Cynllun i ddiwallu'r anghenion tai a chyflogaeth ddynodedig yn ardal y Cynllun hyd at 2026. Ar y sail hon nid oes angen unrhyw safleoedd ychwanegol fel dyraniadau yn y Cynllun. Fodd bynnag, golyga gwrthwynebiadau ar sail y perygl o lifogydd yn ymwneud â safle T4 ym Mangor ac ar sail materion bioamrywiaeth sy'n ymwneud â safle T58 ym Methel bod angen eu dileu er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf a sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun. Cynigir safleoedd eraill sy'n cyd-fynd â strategaeth ofodol y Cynllun. O ran gwrthwynebiadau sy'n ymwneud â newidiadau i ffiniau datblygu, cynigir y gellir cyfiawnhau diwygiadau mewn ychydig o amgylchiadau sy'n cynnwys ym Mangor, Llanberis, Blaenau Ffestiniog, Pwllheli (dim yn rhestr gynhwysfawr).

9.4 Fel rhan o'r ymgynghoriad roedd y ffurflen sylwadau yn gofyn i'r sawl oedd yn ymateb i fanylu os oeddent yn dymuno ymddangos yn yr archwiliad cyhoeddus yntau cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Gellir archwilio Atodiad 14 er mwyn gweld pa Sylwebyddion oedd yn dymuno ymddangos yn yr Archwiliad.

9.5 Ni ystyrir fod rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd ar y Cynllun Adnau yn briodol unai gan na chawsant eu cyflwyno o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig neu gan nad oedd y sylw yn cyfeirio'n benodol tuag at gynnwys y Cynllun adnau. Gellir gweld rhestr o'r sylwadau a dderbyniwyd na ystyrir eu bod yn ddilys yn Atodiad 15.

10. YMGYNGHORIAD NEWIDIADAU Â FFOCWS, CHWEFROR 2016

10.1 Wedi ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Adnau a'r wybodaeth gysylltiedig a gyflwynwyd ystyrir ei fod yn briodol cynnal Newidiadau a Ffocws i rai agweddau o'r Cynllun a hynny yn benodol er mwyn sicrhau fod y Cynllun a gyflwynir yn gadarn. Cyfeirir tuag at rhai o'r newidiadau a ffocws a gynigir yn y dadansoddiad o'r prif faterion uchod. Er mwyn derbyn rhestr gynhwysfawr

o ymateb y Cyngor i'r sylwadau a dderbyniwyd ynghyd ac unrhyw fwriad i wneud newidiadau a ffocws mewn ymateb i'r sylwadau hynny fe ddylid cyfeirio at Atodiad 16. Gellir archwilio'r Newidiadau a ffocws a gynigir yn Atodiad 17.

10.2 Yn ystod cyfarfod o'r pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 29ain o Ionawr, 2016 cymeradwywyd cyfres o newidiadau â Ffocws i'r Cynllun ynghyd a Newidiadau Bychan er mwyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr ymchwiliad ac er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Newidiadau a Ffocws. Fe fydd y Newidiadau a Ffocws yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 7 wythnos rhwng 24 Chwefror 2016 hyd at 13 Ebrill 2016. Bydd yr holl bersonau a sefydliadau (cynrychiolwyr) ar gronfa ddata'r CDLl ar y Cyd, gan gynnwys y rheini wnaeth sylwadau ar y Cynllun Adnau, cyrff penodol a chyffredinol, yn cael gwybod am yr ymgynghoriad.

Atodiad 1 – Profion Cadernid

Profion Cadernid a oedd yn berthnasol yn ystod y broses o baratoi y Cynllun Adnau 2015 gan gynnwys yr Hunan Asesiad

Profion gweithdrefnol	

P1 Mae'r cynllun wedi cael ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC).	**Prif Gwestiwn:** A yw'r holl weithdrefnau ymgynghori / cyfranogi perthnasol a nodwyd yn y CCC wedi'u gweithredu hyd yma?
	
	Tystiolaeth:
	
	Mae'r Cytundeb Cyflenwi (fel y cytunwyd gan Lywodraeth Cymru) sy'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) yn nodi'r broses ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer ardaloedd Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn. Mae'n dweud sut a phryd y bydd y Cynghorau'n ymgynghori a gweithio gyda grwpiau, mudiadau ac unigolion yn ystod y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Cafodd y CC ei fabwysiadu gan y Cynghorau ym mis Medi a Hydref 2011 a chytunodd y Llywodraeth iddo ym mis Tachwedd 2011. Fe gafodd y Cytundeb Cyflawni ei ddiwygio i adlewyrchu newid yn yr amserlen yn Rhagfyr 2013 ac yn Rhagfyr 2014
	
	Gellir gweld y Cytundeb Cyflawni ar wefannau'r ddau Gyngor, yn y llyfrgelloedd cyhoeddus, ac ym mhrif swyddfeydd y Cynghorau.
	
	Gellir mesur cydymffurfiaeth gyda'r prawf yma trwy restru'r camau a gymerwyd hyd yma:
	
	• Adolygu'r sail dystiolaeth a pharatoi papurau cefndir/ trafod – cyfredol
	• Adolygu'r sail dystiolaeth – galw am safleoedd – terfynol
	  ○ Cyhoeddi dogfen methodoleg asesu – ymgynghori – haf 2011
	  ○ Agor y cyfnod galw am safleoedd trwy roi rhybudd yn y papurau lleol, datganiad i'r wasg, anfon llythyrau at unigolion a chyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol – Hydref

	2011 ○ Ymgynghori a rhanddeiliaid perthnasol wrth fynd trwy'r broses asesu safleoedd – terfynol Tachwedd 2014 • Arfarniad Cynaladwyedd (AC) drafft Adroddiad Sgopio – ymgynghoriad cyhoeddus haf 2011 • Paratoi'r Ddogfen Hoff Strategaeth a chyfranogiad cyhoeddus ○ Cyhoeddi dogfen drafod am y materion allweddol, y weledigaeth, prif amcanion, opsiynau twf a dosbarthiad – ymgynghori - 8 Tachwedd – 13 Ionawr 2012 i ddechrau, ond estyniad hyd at 27 Ionawr 2012 (terfynol); ○ Codi ymwybyddiaeth am y ddogfen drafod drwy anfon llythyrau/ e-bost at Gynghorwyr ac unigolion sydd ar fasdata'r CDLl ar y Cyd, cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol (gweler Atodiadau 7 ac 8 y CC) - wythnos yn cychwyn 8 & 14 Tachwedd 2011; ○ Cynnal Seminarau ar gyfer Cynghorwyr Cyngor Gwynedd (5 & 7 Rhagfyr 2011) a Chyngor Sir Ynys Mon (25 Tachwedd 2011); ○ Cynnal cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (Atodiad 9 y CC) - 24 Tachwedd 2011 a 9 Rhagfyr 2012; ○ Cyflwyniad a thrafodaeth - Fforwm Plant a Phobl Ifanc Gwynedd – 28 Tachwedd 2011 ○ Gweithdy i Grŵp Pobl Hyn Mon - 8 Rhagfyr 2011 ○ Cyflwyniad a thrafodaeth - i Bartneriaeth Tai Gwynedd - 8 Rhagfyr 2011 ○ Cyflwyniad a thrafodaeth - Gyngor Pobl Hyn Gwynedd – 9 Rhagfyr 2011 ○ Cyflwyniad a thrafodaeth - Grŵp Anabledd Craidd Gwynedd - 12 Rhagfyr 2011 ○ Cyflwyniad a thrafodaeth Llais Ni (Plant a Phobl Ifanc Mon) – 15 Rhagfyr 2011 ○ Cynnal cyfarfod buddeiliaid tai – 17 Ionawr 2012 ○ Cyflwyniad a thrafodaeth - Grŵp Pobl Hyn Amlwch - 17 Ionawr 2012 ○ Mae swyddogion o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan fuddeiliaid, pan oedd adnoddau'n caniatáu hynny ○ Cynnal Seminarau ar gyfer Cynghorwyr Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon ar 2 & 5/10/12; 7/12/12; 10/1/13 ○ Rhoi diweddariad o ddatblygiad y Ddogfen Hoff Strategaeth i'r Grŵp Rhanddaliad Allweddol ar 12/11/12 a rhoi cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau ○ Cyhoeddi cyfres o Bapurau Testun ac Adroddiadau Cefndir ochr yn ochr â'r Hoff Strategaeth - Mai 2013 ○ Cyhoeddwyd Newyddlen y Cynllun a'i rannu gyda'r rhanddeiliaid cyffredinol a phenodol yn ogystal â phawb ar gronfa ddata'r Cynllun - Awst 2011, Awst 2012 & Ebrill

	2013
	• Derbyn cymeradwyaeth i ymgynghori'n gyhoeddus am ddogfennau'r Hoff Strategaeth gan y ddau Gyngor - Ionawr 2013
	• Rhoi Rhybudd yn y Papurau Lleol a rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid cyffredinol a phenodol yn ogystal â phawb ar gronfa ddata'r Cynllun - Mai 2013
	• `Paratoi'r Cynllun Adnau a chyfranogiad cyhoeddus
	  ○ Rhoi diweddariad ysgrifenedig am ddatblygiad y weledigaeth, amcanion strategol a pholisïau strategol diwygiedig a rhoi cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau - Gorffennaf 2014
	  ○ Cynnal Seminarau neu fynychu fforymau ar gyfer Cynghorwyr Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon – Hydref a Rhagfyr 2013, Mai, Mehefin a Hydref 2014 i godi ymwybyddiaeth o ddatblygiad y sail tystiolaeth a materion penodol fel tai lleol a llety Sipsiwn a Theithwyr
	  ○ Gwahodd cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned a Thref i gyfarfod Fforymau Ardal Gwynedd neu drefnu seminar ar wahân neu fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan Un Llais Cymru - Hydref a Rhagfyr 2014 a Chwefror 2015
	  ○ Mae swyddogion yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan wahanol Bartneriaethau, pan oedd adnoddau'n caniatáu hynny i dderbyn a rhannu gwybodaeth am faterion lleol - parhaol
	  ○ Mae swyddogion yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi trefnu sgyrsiau un wrth un gyda rhanddeiliaid mewnol (e.e. swyddogion Datblygu Economaidd, Tai) ac allanol (e.e. Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, Dwr Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) i dderbyn a rhannu gwybodaeth am faterion lleol - parhaol
	  ○ Mae swyddogion yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi mynychu Gweithgor Cynllunio ac Iaith (Cyngor Gwynedd) – 2013 a 2014
	• Cyhoeddwyd Newyddlen am y Cynllun a'i rannu gyda'r rhanddeiliaid cyffredinol a phenodol yn ogystal â phawb ar gronfa ddata'r Cynllun - Awst 2014
	• Derbyniwyd cefnogaeth Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Mon a Chabinet Cyngor Gwynedd a chymeradwyaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i ymgynghori am y Cynllun Adnau - Rhagfyr 2014
	• Rhoi Rhybudd yn y Papurau Lleol a rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid cyffredinol a phenodol yn ogystal â phawb ar gronfa ddata'r Cynllun - Chwefror 2015
	• Cyhoeddwyd Papurau Testun diwygiedig a rhai newydd yn ogystal â chyfres lawn o Bapurau

	Cefndir ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau • Ni lwyddwyd i fanteisio ar Banel Dinasyddion Gwynedd oherwydd nad yw'r amodau corfforaethol a gytunwyd o ran ymgysylltu a'r grŵp yma wedi caniatáu hynny. Ni chafodd Panel Dinasyddion ei sefydlu yn Ynys Môn.
P2 Mae'r cynllun a'i bolisïau wedi bod yn destun i arfarniad cynaliadwyedd gan gynnwys asesiad amgylcheddol strategol	**Prif Gwestiwn:** A oes arfarniad cynaliadwyedd (AC) yn cynnwys (AAS) wedi'i gynnal mewn cyswllt â'r CDLl ar y Cyd? **Tystiolaeth:** Cafodd yr Adroddiad Sgopio drafft yr AC/ AAS ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yng Ngorffennaf 2011. Fe gynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Tasg Arfarniad Cynaladwyedd (gweler paragraff 2.4.4 o'r CC ac Atodiad 3 y CC) i roi barn ar yr Adroddiad Sgopio drafft. Derbyniwyd mewnbwn am addasrwydd y fethodoleg oedd yn yr Adroddiad Sgopio drafft hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gyfeiriwyd ato uchod. Cafodd yr Adroddiad ei adolygu yn sgil y mewnbwn a dderbyniwyd. Mae'r Adroddiad Sgopio AC terfynol yn adnabod nifer o faterion cynaladwyedd ac mae'r rheini wedi cael eu defnyddio i adnabod y materion allweddol sydd angen sylw yn y CDLl ar y Cyd. Defnyddiwyd yr amcanion AC (sydd yn yr Adroddiad Sgopio) yn ail gyfarfod o'r Grwp Tasg Arfarniad Cynaladwyedd i asesu a phrofi cynnwys y ddogfen drafod er mwyn sicrhau bod yr amcanion strategol a'r cyfeiriad strategol yn gynaliadwy. Cafodd manylion am yr AC ac asesiadau eraill yn cael eu cynnwys o fewn adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'r Adroddiad AC Dechreuol a gafodd ei chyhoeddi run adeg a'r Ddogfen Hoff Strategaeth yn cofnodi'r broses a'r allbynnau. Mae Adroddiad am Asesiad o Gynaliadwyedd y Cynllun wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Gellir gweld y ddogfen ar wefan y ddau Gyngor, yn y llyfrgelloedd cyhoeddus a swyddfeydd penodol y ddau Gyngor. Ceir ffurflen benodol i wneud sylwadau am y gwaith. Addaswyd y rhybudd am gyhoeddi'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus i

	gyfeirio at yr Adroddiad yma. Cafodd Adroddiad Sgrinio Cychwynnol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar gyfer yr Hoff Strategaeth ei gyhoeddi ym mis Mai 2013 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae diweddariad o'r Adroddiad wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r AC/ AAS a'r ARHC wedi dylanwadu ar gynnwys y Cynllun Adnau.
PROFION CYSONDEB	
C1 Mae'n gynllun defnydd tir sy'n ystyried cynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ardal neu ardaloedd cyfagos;	**Prif Gwestiynau:** A yw'r Cynllun yn cyflwyno cynigion ar gyfer defnydd a datblygiad o dir sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i'r berthynas â chynllun/polisïau/gofynion sefydliadau eraill (e.e. rhai cwmnïau gwasanaethau ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal)? A yw hyn yn cynnwys eu cynlluniau neu strategaeth ar gyfer y dyfodol ac unrhyw ofynion ar gyfer tir a safleoedd y dylid eu paratoi yn gyfochrog? A yw'n glir sut mae'r cynllun yn cysylltu â chynlluniau a strategaethau eraill sy'n dylanwadu'r cyflenwad o bolisïau a chynigion yn y cynllun? **Tystiolaeth:** Mae'r broses hyd yma o gasglu tystiolaeth a pharatoi'r Ddogfen Hoff Strategaeth yn ystyried y berthynas â chynlluniau, polisïau a gofynion sefydliadau eraill. Mae papurau testun/ trafod sydd wrthi'n cael eu paratoi ac astudiaethau technegol/ arbenigol, e.e. Astudiaeth Tir Cyflogaeth, yn cofnodi'r berthynas neu'n crynhoi'r prif bwyntiau o'r cynlluniau a strategaethau perthnasol. Sefydlwyd grwpiau prosiect o fewn y ddau Gyngor sy'n cynnwys swyddogion a gwleidyddion er mwyn sicrhau bod amcanion strategol y ddau Gyngor yn cael eu cyfarch yn y CDLl ar y Cyd. Mae Adroddiad AC/AAS Dechreuol yn crynhoi'r prif bwyntiau o gyfres gynhwysfawr o gynlluniau a strategaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r ddogfen drafod am y prif faterion, y weledigaeth, prif amcanion ac opsiynau twf a dosbarthiad posib yn cyfeirio at y berthynas rhwng Awdurdodau cyfagos. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n cael ei gynrychioli ar y Grwp Rhanddeiliaid Allweddol ac fe gafwyd sgwrs ar wahân gyda'r Awdurdod ar 12/11/12, 11/3/14 & 9/1/15. Mae'r ddogfen Hoff Strategaeth a'r Cynllun Adnau yn cyfeirio at rai o'r dogfennau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a gafodd eu hystyried yn ystod y broses o'u paratoi. Ceir rhestr lawnach ym Mhapur Testun 1 sydd i'w weld ar wefan y ddau Gyngor.

	Mae'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi edrych ar y potensial o effeithiau unigol a chronnol polisïau a strategaethau eraill. Mae datblygiad polisïau a chynigion y Cynllun Adnau wedi bod yn destun trafodaeth gyson rhwng rhanddeiliaid mewnol, e.e. trwy Dîm Datblygu Ynys Mon, Grwp Strategol y CDLl Ynys Mon, swyddogion unigol o wahanol wasanaethau, Dwr Cymru, Partneriaethau Tai Mon a Gwynedd, Grwp Hwyluswyr Tai Gwledig. Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cyfrannu i ddatblygiad Cynllun Datblygu Economi Rhanbarthol a sail dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Rhanbarthol Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y cyd wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd am bynciau traws ffiniol penodol, e.e. llety Sipsiwn a Theithwyr.
C2 Mae'n ystyried polisi cynllunio cenedlaethol	**Prif Gwestiynau:** Os yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw bolisïau neu gynigion sydd ddim yn gyson â pholisi cenedlaethol, a oes cyfiawnhad lleol? A yw'n osgoi ailadrodd gwastraffus/diangen o bolisi cenedlaethol? **Tystiolaeth:** Mae'r broses o baratoi'r ddogfen Hoff Strategaeth wedi sicrhau bod gofynion polisi cenedlaethol yn cael eu hystyried wrth lunio amcanion strategol ac opsiynau twf a dosbarthiad posib. Mae Adroddiad AC/AAS Dechreuol yn crynhoi'r prif bwyntiau o gyfres gynhwysfawr o gynlluniau a strategaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a'r gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Mae'r gwaith o gasglu tystiolaeth wedi edrych ar faterion sy'n bwysig yn lleol ac mae dadansoddiad o dystiolaeth am faterion tai lleol wedi dangos bod angen gwyro oddi wrth bolisi cynllunio cenedlaethol o ran hwyluso tai fforddiadwy ar safleoedd eithrio. Mae'r papurau testun Poblogaeth a Thai'n cofnodi'r rhesymeg am hynny. Mae Papurau Testun a Phapurau Cefndir amrywiol a rhannau perthnasol o'r CDLl ar y Cyd Adnau yn cofnodi sut mae polisïau cenedlaethol yn cael eu dehongli'n lleol. Mae'r Cynllun yn osgoi ail-adrodd datganiadau rheoli datblygu cenedlaethol cyn belled ag y gellir gwneud hynny'n rhesymol.

C3 Mae'n ystyried Cynllun Gofodol Cymru	**Prif Gwestiynau:** A yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw bolisïau neu gynigion sydd ddim yn gyson â strategaethau eang Cynllun Gofodol Cymru? A yw'r cynllun yn ystyried gwaith cydweithredol maes perthnasol a wnaethpwyd i GGC (WSP)? **Tystiolaeth:** Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn ffinio dwy ardal cynllun gofodol, ardal Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru ac ardal Cynllun Gofodol Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r broses o baratoi'r ddogfen drafod wedi ystyried y weledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer ardal Gogledd Orllewin Cymru (Eryri a Môn) ac ardal Canolbarth Cymru ac mae hynny'n cael ei gofnodi mewn papurau testun, yn y Ddogfen Hoff Strategaeth ac yn y Cynllun Adnau.
C4 Mae'n ystyried y strategaeth gymunedol	**Prif Gwestiynau:** A yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried y strategaeth gymunedol gan nodi polisïau a chynigion sy'n cyflenwi prif gydrannau'r strategaeth honno, sy'n gyson â pholisi cynllunio lefel uwch ac yn cysylltu â defnydd a datblygiad tir? **Tystiolaeth:** Pan gychwynnwyd ar y gwaith o baratoi'r Cynllun roedd dwy ddogfen yn trafod ardal y CDLl ar y Cyd sef Cynllun Integredig Gwynedd a Chynllun Integredig Sengl Môn (draft ymgynghorol). Rhoddwyd ystyriaeth i weledigaethau'r dogfennau yma wrth adnabod y prif faterion sydd angen sylw ac wrth lunio'r weledigaeth a'r Polisïau Strategol a welir yn y ddogfen Hoff Strategaeth. Cofnodwyd y berthynas mewn tablau ar ôl pob Polisi Strategol yn y ddogfen Hoff Strategaeth. Ers cyhoeddi'r ddogfen Hoff Strategaeth mae Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Gwynedd a Mon wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r papurau testun perthnasol a'r Cynllun Adnau'n cofnodi'r berthynas.
Profion Cysondeb ac Effeithiolrwydd	
CE1 Mae'n nodi strategaeth ystyrlon ble mae ei pholisïau a dyraniadau'n llifo'n rhesymegol, ble fo materion traws ffiniol yn berthnasol, mae'n gydnaws â chynlluniau datblygiad sydd wedi'u paratoi gan awdurdodau cyfagos;	**Prif Gwestiynau:** A yw'r polisïau a dyraniadau'n cysylltu'n glir â'r nodau ac amcanion yn y strategaeth a nodwyd yn y cynllun a gyflwynwyd? Gall helpu os yw polisïau yn cael eu croesgyfeirio â'r prif nodau ac amcanion? A yw'r polisïau yn y CDLl eu hunain yn gyson? A oes unrhyw fylchau amlwg yn nhrafodaeth y cynllun, gan ystyried ei bwrpas a gofyniad perthnasol mewn polisi cenedlaethol? A yw'n glir sut mae'r cynllun yn cysylltu â'r rheiny sydd wedi'u paratoi gan awdurdodau cyfagos a'r modd y mae materion traws ffiniol wedi cael sylw? Ble mae gorgyffwrdd, a yw'r

	rhain yn gyson / ategol? **Tystiolaeth:** Mae'r Cynllun Adnau yn rhoi'r cyd-destun polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gyfeirio at y Cynllun Gofodol a'r Strategaeth Integredig Sengl ar gyfer Gwynedd a Mon efo'i gilydd, Rhaglen Ynys Ynni Mon. Mae Papurau Testun yn rhoi mwy o fanylion am y cyd-destun yma. Mae'r Strategaeth yn dilyn o'r weledigaeth a'r amcanion strategol sy'n deillio o'r cyd-destun polisi a dealltwriaeth o'r materion sydd angen mynd i'r afael a nhw yn ogystal â gyrwyr newid. Daw'r ddealltwriaeth o'r materion sydd angen mynd i'r afael a nhw a'r gyrwyr newid o'r cyfnod cyfranogiad cyhoeddus ar ddechrau'r broses. Trwy'r polisïau strategol a manwl sy'n arwain at gynigion penodol mae'r Cynllun yn dweud sut bydd y strategaeth yn cael ei weithredu ar draws ardal y Cynllun. Mae'r siart ar ddiwedd yr atodiad yma'n crynhoi llwybr paratoi'r Cynllun Adnau. Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, ar ran y ddau Gyngor, yn perthyn i Grwp Polisi Cynllunio Gogledd Cymru, sy'n cynnwys pob awdurdod cynllunio ar draws Gogledd Cymru, Ceredigion a Phowys. Mae'r Uned wedi bod yn dilyn datblygiad cynlluniau datblygu lleol yr awdurdodau yma, ond wedi cael trafodaeth un wrth un yn ystod 2012, 2014 a 2015 gydag Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri. Mae yna ambell anheddle sy'n rhannu ffiniau gydag Awdurdod y Parc ond ar y cyfan maent yn fychan heb gynigion o raddfa fawr nac arwyddocaol. Yr eithriad yw Llanberis sy'n Ganolfan Wasanaeth Lleol yn y Cynllun Adnau. Fodd bynnag dim ond rhan fechan iawn o'r Ganolfan sydd yn ardal y Parc. Mae 5 Canolfan Wasanaeth Lleol arall ac un Ganolfan Wasanaeth Trefol un ai ar ymyl y ffin gyda'r Parc Cenedlaethol neu'n agos ato. Mae Cynllun Eryri yn cydnabod rôl yr aneddleoedd yma. Ni ragwelir gwrthdaro rhwng y Cynllun Adnau a chynlluniau'r awdurdodau cyfagos. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Mae'r Uned hefyd yn perthyn i grŵp o swyddogion cynllunio a thai o awdurdodau ar draws Gogledd Cymru sydd yn ystyried anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Gweler yr ymateb i Brawf C1 hefyd.
CE2 Mae'r strategaeth, polisïau a dyraniadau yn realistig a phriodol ac wedi ystyried y dewisiadau amgen perthnasol ac wedi'u sylfaenu ar sylfaen tystiolaeth gadarn a	**Prif Gwestiynau:** A yw'n glir bod yr ACLl wedi ystyried yr opsiynau a dewisiadau amgen perthnasol wrth baratoi'r Cynllun? Ni fydd disgwyl i AauCLl i ddelio â phob dewis neu opsiwn amgen posib ond bydd disgwyl iddynt i ystyried y rheiny sydd wedi'u rhoi iddynt yn ystod y broses o baratoi ac ymglymu. A yw'r tybiaethau yn y CDLl wedi'u nodi'n glir ac wedi'u cefnogi gan dystiolaeth? A yw'r dystiolaeth yn cefnogi

chredadwy	strategaeth a pholisïau'r cynllun yn glir? Yw'r dystiolaeth yn gadarn a chredadwy ac a yw wedi'i baratoi'n unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau arfer da? Ble mae cydbwysedd wedi'i gyrraedd wrth wneud penderfyniadau rhwng dewisiadau amgen sy'n cystadlu - a yw'n glir sut y mae'r penderfyniadau hynny wedi'u gwneud? **Tystiolaeth:** Roedd yr Hoff Strategaeth yn seiliedig ar brif faterion ac opsiynau strategol a gafodd eu hystyried gan randdeiliaid, sy'n cynnwys Grwp Rhanddeiliaid Allweddol, Cynghorau Cymuned/ Dinas a Thref ac ymglymiad â'r cyhoedd cyffredinol. Mae'r broses AC/ AAS hefyd wedi tywys y Cynghorau i ddewis opsiwn gorau yn nhermau cynaladwyedd. Ers cyhoeddi'r Hoff Strategaeth cyhoeddwyd rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd sail 2011 gan Lywodraeth Cymru a ddangosodd darlun gwahanol i ardal y Cynllun, yn arbennig Ynys Mon. Oherwydd hyn a'r angen i ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus am yr Hoff Strategaeth roedd rhaid adolygu'r lefel twf tai a gafodd ei ffafrio yn yr Hoff Strategaeth. Wrth wneud hyn mireiniwyd yr opsiynau a gafodd ystyriaeth yn ystod y cam trafod opsiynau, gan edrych ar gadernid y dystiolaeth oedd du cefn dewis yr opsiwn a ffafriwyd. Gwelwyd bod angen newid fymryn ar y lefel twf tai a ffafrir trwy ei ostwng o 7,665 i 7,184. Mae Papur Testun 4A yn cofnodi'r ystyriaethau a'r casgliadau. Credir bod yr opsiwn a ddewiswyd yn parhau yn un sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy ac sydd wedi rhoi sylw i'r sylwadau a dderbyniwyd adeg yr ymgynghori cyhoeddus. Mae'r Goeden Aneddleoedd yn un sy'n adlewyrchu dadansoddiad o dystiolaeth fanwl am gynaliadwyedd y gwahanol aneddleoedd a'i gallu i ymdopi gyda gwahanol fath o ddatblygu. Mae Papur Testun 5 yn cofnodi'r dystiolaeth a'r ystyriaethau. Fe fuodd yr holl safleoedd a gafodd eu cyflwyno yn ystod y broses galw am safleoedd hefyd yn ogystal â safleoedd posib eraill bydd y Cynghorau'n eu hadnabod yn destun gweithdrefn asesu lym, sydd i'w weld mewn papurau testun am y Gofrestr Tir Posib. Mae Panel y CDLl ar y Cyd, sy'n cynnwys 7 aelod yr un o'r ddau Gyngor, wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd i archwilio datblygiad y Cynllun. Ceir disgrifiad o'r Panel a'i gyfarfodydd yn yr Adroddiad Ymgynghori cychwynnol. Cafodd cyfres o bapurau testun/ trafod eu cyhoeddi. Cafodd y gyfres ei adolygu wrth baratoi'r Cynllun

	Adnau ac fe ychwanegwyd ati wrth fynd trwy'r broses. Cafodd y gyfres ddiweddaraf ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau. Mae'r AC/ AAS wedi bod yn rhan ailadroddus o ddatblygiad y Cynllun. Roedd ystyried yr opsiynau twf a'r opsiynau dosbarthiad yn rhan bwysig o'r asesiad. Edrychwyd hefyd ar werth cynaliadwyedd y weledigaeth a'r amcanion. Cafodd y gwaith cychwynnol ei gofnodi yn yr Adroddiad AC/ AAS oedd ar gael ochr yn ochr â'r Hoff Strategaeth. Mae'r Adroddiad am Gynaliadwyedd y Cynllun Adnau wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag ef ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
CE3 Mae mecanweithiau clir ar gyfer gweithredu a monitro	**Prif Gwestiynau**: A yw'r cynllun yn cynnwys targedau a cherrig milltir realistig sy'n cysylltu â chyflenwad polisïau? A yw'n glir sut mae'r rhain i'w mesur a'r modd y maent wedi'u cysylltu i gynhyrchiad yr adroddiad monitro blynyddol? A yw'r mecanweithiau cyflenwi ac amserlenni ar gyfer gweithredu'r polisïau wedi'u dynodi'n glir? A yw'n glir pwy sydd i weithredu bob polisi? Ble fo'r gweithredoedd gofynnol y tu allan i reolaeth uniongyrchol yr ACLl a oes tystiolaeth bod yr ymrwymiad angenrheidiol gan y sefydliad perthnasol? A yw'r prosesau ar gyfer mesur llwyddiant y cynllun yn cydsynio â pholisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau arfer da? A yw'r cynllun yn nodi'r ffactorau sy'n hanfodol i gyflenwi prif amcanion polisi'r cynllun? **Tystiolaeth:** Fe wnaeth yr Adroddiad AC/ AAS Dechreuol adnabod dangosyddion a gaiff eu defnyddio i fesur cynnydd yn nhermau cynaladwyedd. Mae'r Cynllun Adnau'n cynnwys rhan benodol am weithredu a monitro'r Cynllun. Mae'n rhoi'r fframwaith fonitro a gaiff ei ddefnyddio i fesur sut mae'r polisïau'n cael eu gweithredu. Mae tabl ar ddiwedd Pennod 5 yn y Cynllun Adnau'n dangos y berthynas rhwng yr amcanion, y polisïau a'r dangosyddion mesur perfformiad.
CE4 Mae'r cynllun y ddigon hyblyg i'w alluogi i ddelio ag amgylchiadau sy'n newid	**Prif Gwestiynau:** A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amrywiaeth o newidiadau, neu i newidiadau annisgwyl mewn amgylchiadau? A yw polisïau rheoli datblygiad wedi'u hysgrifennu ar ffurf sy'n eu galluogi i ddarparu fframwaith cadarn a chyson ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio? **Tystiolaeth:** Credir bod y Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i newid mewn amgylchiadau. Ceir hyblygrwydd trwy ddarparu lwfans llithriad i'r galw am unedau tai, trwy gael safleoedd cyflogaeth wrth gefn, polisi meini prawf i hyrwyddo datblygiad cyflogaeth ar safleoedd amgen, polisïau meini prawf i

	ddelio gydag amgylchiadau pan gyflwynir cynigion ar gyfer defnydd amgen ar safleoedd neu ddefnydd amgen o adeiladau. Mae'r fframwaith fonitro yn adnabod trothwyon i ddechrau ystyried camau amgen os oes eu hangen nhw.

Profion Cadernid perthnasol ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Adnau (ddaeth i rym Awst 2015)

Prawf 1: A yw'r cynllun yn cydweddu: (h.y. a yw'n amlwg bod y CDLl yn syd-fynd â chynlluniau eraill?)	***Cwestiynau*** • A yw'n ystyried polisi cenedlaethol a Cynllun Gofodol Cymru • A yw'n ystyried Nodau Llesiant 18 • A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru • A yw'n gyson a chynlluniau, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau lleol? • A yw'n cyd-fynd a chynlluniau awdurdodau cyfagos? • A yw'n adlewyrchu'r Cynllun Integredig Sengl neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?
Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)	***Cwestiynau*** • A yw'n ymwneud yn benodol a'r ardal leol? • A yw'n ymdrin a'r materion allweddol? • A yw'n cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy? • A ellir dangos y sail resymegol i bolisau'r cynllun? • A yw'n ceisio diwallu anghenion a aseswyd a chyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy?

	• A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon dyheadol? • A yw'r dewisiadau amgen 'gwirioneddol' wedi'u hystyried yn briodol? • A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys? • A yw'n gydlynol ac yn gyson? • A yw'n glir ac yn benodol?
Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)	***Cwestiynau*** • A fydd yn effeithiol? • A ellir ei weithredu? • A oes cymorth ar gael gan y darparwyr seilwaith perthnasol, o ran rhoi arian a helpu i gyflawni datblygiadau o fewn terfynau amser perthnasol? • A fydd datblygiadau yn ddichonadwy? • A ellir darparu safleoedd a ddyrannwyd? • A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol? • A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?

Hunan Asesiad Perthnasol ar gyfer y Profion Cadernid (ddaeth i rym Awst, 2015)

Cam 1: Gwaith Rhagarweiniol	
1. A yw Cytundeb Darparu cyfredol y cytunwyd arno ar waith, sy'n cyfateb i bob cam o'r broses llunio cynllun?	Ymateb: Oes. Mae yna Gytundeb Cyflawni diwygiedig wedi cael ei gytuno arno. Mae'r amserlen o fewn y Cytundeb Cyflawni wedi cael ei ddiweddaru ar nifer o adegau. Derbyniwyd sêl bendith Cyngor Llawn y ddau Gyngor i'r fersiwn diweddaraf o'r Amserlen ar 3 Mawrth, 2016 (Cyngor Gwynedd) a 10 Mawrth, 2016, Cyngor Sir Ynys Môn.
2. A yw Cynllun Cynnwys y Gymuned wedi'i gymeradwyo, sydd yna'n ffurfio'r sail ar gyfer yr holl ymgysylltu â'r gymuned?	Ymateb: Mae'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys Cytundeb Cynnwys Cymunedau sydd yn manylu'r dull o ymgynghori hefo'r cyhoedd. Ymhellach mae'r adroddiad Ymgynghori yn manylu ar y broses ymgysylltu.
3. A yw'r ACLl wedi ymgynghori â'r cyrff priodol?	Ymateb: Do, gweler atodiad 3 o'r Adroddiad Ymgynghori.
4. A yw materion o natur strategol (sy'n effeithio ar fwy nag un awdurdod cynllunio lleol) wedi'u hamlygu, ac a oes gwaith cydweithredol priodol wedi digwydd?	Ymateb: Do, mae ymgysylltiad ac Awdurdodau cyfagos wedi cymryd lle yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun. Ymhellach mae aelod o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn mynychu cyfarfodydd Swyddogion Polisi Cynllunio Gogledd Cymru.
5. A gasglwyd gwybodaeth sylfaenol a thystiolaeth fel bod modd adolygu'r materion sy'n effeithio ar ddatblygiad yr ardal yn barhaus?	Ymateb: Mae'r sail tystiolaeth wedi cael ei ddiweddaru yn gyson fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun. Mae Papurau Testun a Phapurau Cefndir wedi cael eu llunio er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gasglu'r dystiolaeth.
6. A gasglwyd gwybodaeth sylfaenol a thystiolaeth i osod y fframwaith ar gyfer yr arfarniad o gynaliadwyedd?	Ymateb: Do. Mae yna Asesiad Cynaliadwyedd ynghyd ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael ei gynnal sydd wedi bod yn rhan annatod o gasglu'r sail tystiolaeth.
7. A ymgynghorwyd â'r cyrff amgylcheddol statudol am bum wythnos ar gwmpas a lefel manylion y wybodaeth amgylcheddol sydd i'w chynnwys yn yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (a'r Arfarniad o Reoliadau Cynefinoedd, os oes angen)?	Ymateb: Do. Fe gyhoeddwyd yr Adroddiad Sgopio am gyfnod Ymgynghori Cyhoeddus rhwng 21 Gorffennaf 2011 a 8 Medi, 2011. Hysbyswyd y Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol Statudol am y cyfnod ymgynghori penodol yma.
8. A gafodd Adroddiad Adolygu ei baratoi, i nodi/cyfiawnhau pa rannau o'r cynllun a fabwysiedir sydd angen diwygiadau a pha rai nad oes angen hynny arnynt, a'r weithdrefn diwygio briodol?	Ymateb: Ddim yn berthnasol
9. A wnaed galwad cyn adneuo ar gyfer safleoedd ymgeiswyr i dirfeddianwyr/ datblygwyr/hyrwyddwyr safleoedd fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 14 a 26A?	Ymateb: Do. Gweler Papur testun 1, 1A ac 1B ar gyfer manylion pellach.
Cam 2: Ymgynghori ar y strategaeth a ffefrir (neu ymgysylltiad ar gwmpas diwygio'r cynllun ar gyfer y broses ffurf fer)	
1. A roddwyd gwybod i'r canlynol (fel sy'n briodol): • y cyrff ymgynghori penodol? • y cyrff ymgynghori cyffredinol sydd â diddordeb ym mhwnc y CDLl, gan eu gwahodd i wneud sylwadau ar ei gynnwys?	Ymateb: Do, fe ymgynghorwyd a chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol yn ystod y cam Hoff Strategaeth yn Mai/Mehefin 2013. Ceir arweiniad pellach yn Rhan 6 o'r Adroddiad.

2. A ddywedwyd wrth yr holl bartïon mai dyma'r prif gyfle i gyfranogi mewn perthynas â'r cynllun sy'n dod i'r amlwg?	Ymateb: Do, gweler y manylion ymgynghori yn Rhan 6 yr Adroddiad.
3. A wahoddwyd sylwadau gan bobl sy'n byw neu'n cynnal busnes yn yr ardal ar gynnwys y CDLl? (*nid yw'n ofynnol ar gyfer diwygiadau ffurf fer)*	Ymateb: Do. Hysbysebwyd yr ymgynghori ar y ddogfen Hoff Strategaeth yn y papurau newydd lleol, ar wefan y Cyngor ynghyd a llythyru/e-bostio unigolion oedd wedi dangos diddordeb yn y Cynllun ac wedi dymuno cael cynnwys eu manylion ar ein cronfa ddata. Gweler rhan 6 o'r adroddiad ar gyfer arweiniad pellach.
4. A wahoddwyd sylwadau gan awdurdod cynllunio lleol arall ar faterion a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y ddwy ardal?	Ymateb: Do, mae yna ymgynghoriad cyson wedi cymryd lle hefo awdurdodau cyfagos.
5. A yw'r ACLl wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am gyflawni'r strategaeth?	Ymateb: Do, mae yna ymgais cyson wedi ei wneud i ymgysylltu a rhanddeiliad allweddol drwy lythyru/e-bostio a chynnal gweithdai penodol yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun.
6. A yw'r ACLl wedi ystyried sylwadau a wnaed?	Ymateb: Do. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd ar y ddogfen Hoff Strategaeth wedi derbyn ystyriaeth fel rhan o'r broses o lunio'r Cynllun Adnau. Gweler rhan 6 o'r adroddiad.
7. A yw'r ymgynghoriad/ymgysylltiad wedi cyfrannu at ddatblygu dewisiadau amgen ac arfarnu eu cynaliadwyedd?	Ymateb: Do. Mae yna opsiynau gofodol ar gyfer dosbarthu twf wedi cael eu hystyried yn sgil sylwadau a dderbyniwyd ar y ddogfen Hoff strategaeth.
8. A yw cyfranogiad wedi: • dilyn yr egwyddorion a amlinellwyd yn y Cynllun Cynnwys y Gymuned? • integreiddio cyfranogiad yn y Cynllun Integredig Sengl/Cynllun Lles Lleol neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol? • bod yn gymesur â graddau'r materion?	Ymateb: Do. Mae'r broses o ymgysylltu wedi dilyn yr egwyddorion a osodwyd allan yn y Cytundeb Cyflawni. Ceir fwy o fanylion ynglŷn â'r gydymffurfiaeth a'r Cytundeb Cyflawni yn yr Adroddiad yma. Mae ystyriaeth wedi ei roddi i gynlluniau ar arweiniad lleol fel y rhestrir ym Mhapur Testun 2A.
9. A yw'r ACLl wedi cadw cofnod o'r: • rhai hynny a wahoddwyd i wneud sylwadau? • sut y gwnaed hyn? • y prif faterion a godwyd?	Ymateb: Mae cofnod o'r unigolion/mudiadau sydd wedi cael ei gwahodd i wneud sylw ar y Cynllun wedi cael ei gofnodi ar fas-data y CDLl. Mae manylion ynghyn a'r ymgynghori ar yr Hoff Strategaeth a'r sylwadau a dderbyniwyd i'w gweld yn Rhan 6 yr adroddiad yma.
Cam 3: Paratoi'r CDLl wedi'i Adneuo neu ddiwygiadau i'r cynllun	
1. A yw'r ACLl wedi paratoi dewisiadau amgen rhesymol i'w gwerthuso yn ystod y broses o baratoi'r CDLl?	Ymateb: Do. Fe roddwyd ystyriaeth i opsiynau amgen fel rhan o'r broses cyn adnau. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd yn manylu'r opsiynau amgen.

2. A yw'r ACLl wedi ystyried y canlynol, ac asesu dewisiadau amgen yn unol â hwy (fel y bo'n berthnasol): • Cynllun Gofodol Cymru a'r polisi cenedlaethol? • Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru? • Nodau lles Cenedlaethol? • CDLlau cyfagos (gan gynnwys Cynlluniau Lleol yn Lloegr)? • y Cynllun Integredig Sengl/ Cynllun Lles Lleol neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol? • strategaethau lleol eraill a fabwysiadwyd?	Ymateb: Do. Mae'r Cynllun wedi rhoddi ystyriaeth i ganllawiau a pholisïau perthnasol cenedlaethol a lleol ac ystyrir fod yr hierarchaeth aneddleoedd yn cyd-fynd a'r Cynllun Gofodol (2008).
3. A yw'r ACLl wedi ystyried materion eraill, e.e.: • y cynllun trafnidiaeth leol • y strategaeth dai lleol • adnoddau, gwastraff, mwynau a strategaethau sylweddau peryglus	Ymateb: Do. Mae'r Cynllun wedi rhoddi ystyriaeth i'r cynlluniau a strategaethau a restrir. Mae yna Bapurau Testun wedi cael ei baratoi sydd yn ymwneud a'r materion hyn yn amlygu'r ystyriaeth a roddir i'r materion yma.
4. A yw'r ACLl wedi ystyried yr angen i gynnwys polisïau ar liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd?	Ymateb: Mae yna bolisïau yn y cynllun sydd yn mynd i'r afael a newid hinsawdd.
5. A oes arfarniad o gynaliadwyedd wedi'i gynnal ar ddewisiadau amgen, gan gynnwys ymgynghori ar yr adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd?	Ymateb: Do. Mae yna Asesiad Cynaliadwyedd wedi ei gynnal sydd yn rhoddi ystyriaeth i'r opsiynau amgen. Cyhoeddwyd adroddiad am yr Asesiad Cynaliadwyedd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 'run pryd â'r broses ymgynghori am y Cynllun Adnau.
6. A oes rhesymau wedi'u hamlinellu dros unrhyw flaenoriaethau rhwng dewisiadau amgen?	Ymateb: Do. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd yn manylu'r rhesymeg dros yr opsiynau amgen a cheir cofnod o'r rhesymau ym Mhapur Testun 4 (2013).
7. A yw'r ACLl wedi ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ar gynnwys y CDLl, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Arfarniad o Reoliadau Cynefinoedd, ac wedi cadw cofnod ohonynt?	Ymateb: Do. Mae'r sylwadau wedi cael ei gofnodi ar ffurf electroneg ac yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny. Mae'n bosib archwilio'r sylwadau a dderbyniwyd ar y Cynllun Adnau yn Atodiad 16. Mae'r adroddiadau am yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Arfarniad o Reoliadau Cynefinoedd yn cofnodi'r sylwadau a gafwyd am yr Arfarniadau.
8. A yw'r ACLl wedi asesu a chyfiawnhau'n llawn paham y cafodd safleoedd penodol eu dyrannu neu pam na chawsant eu dyrannu?	Ymateb: Do. Mae Papur Testun 1B yn rhoddi manylion ynglŷn ag asesu'r safleoedd posib a pham fo rhai o'r safleoedd wedi cael neu heb gael ei dynodi.

9. A yw'r ACLl wedi darparu cyfiawnhad lleol ar gyfer unrhyw bolisïau sy'n ailadrodd polisïau cenedlaethol neu'n eu hailadrodd i raddau helaeth?	Ymateb: Ni chredir fod y polisïau yn ailadrodd polisi cenedlaethol.
10. A oes map cynigion cywir wedi'i baratoi?	Ymateb: Do. Roedd y mapiau cynigion yn rhan o'r dogfennau a gyhoeddwyd hefo'r Cynllun Adnau. Mae rhai agweddau o'r mapiau wedi bod yn destun Newidiadau Ffocws, a gallir gweld y cyfiawnhad am hynny yn Atodiad 16.
11. A yw'r ACLl wedi datblygu fframwaith ar gyfer monitro effeithiau'r CDLl?	Ymateb: Do. Gellir gweld y fframwaith monitor yn Rhan 8 y Cynllun Adnau.
12. Os yw'r cynllun i'w ddiwygio o dan y weithdrefn 'ffurf fer' (Rheoliad 13A a Rhan 4A), a yw'r Adroddiad Adolygu, tystiolaeth ac ymatebion ymgynghori yn cyfiawnhau hyn? A yw'n glir bod strategaeth y cynllun yn parhau'n gadarn ac ni châi ei haddasu gan y diwygiadau arfaethedig?	Ymateb: Ddim yn berthnasol.
Cam 4: Ymgynghori ar y CDLl wedi'i Adneuo neu ddiwygiadau i'r cynllun	
1. A yw'r adroddiad (terfynol) ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i baratoi?	Ymateb: Do. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd diwygiedig wedi cael ei baratoi ac wedi ei gyhoeddi, mae'n adlewyrchu'r newidiadau i'r Cynllun yn sgil y cynigion o Newidiadau Ffocws.
2. A eglurwyd ble y mae'n rhaid cyflwyno sylwadau ac o fewn pa gyfnod? •	Ymateb: Do. O fewn y rhybudd swyddogol , yr ohebiaeth ynglŷn yr ymgynghori a gwefannau'r ddau Gyngor fe roddwyd gwybodaeth ynglŷn y cyfnod ymgynghori. Fe gynhaliwyd y cyfnod ymgynghori am gyfnod o 7 wythnos rhwng 16 o Chwefror 2015 a 31 o Fawrth 2015.
3. A sicrhawyd bod copïau o'r canlynol ar gael i'w harchwilio: □ dogfennau'r CDLl? □ datganiad ynghylch materion y CDLl?	Ymateb: Do. Mae copïau o'r CDLl wedi cael ei gyhoeddi yn ogystal a'r datganiad ynghylch materion y Cynllun (gweler Atodiad 12)
4. A yw'r ACLl wedi cyhoeddi ar ei wefan: □ dogfennau'r CDLl? □ y materion adneuo? □ datganiad/manylion ynghylch ble/pryd y gellir gweld dogfennau?	Ymateb: Do. Gallir archwilio'r dogefnnau ar wefan y ddau Gyngor yn https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd.aspx a http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/polisi-cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-ar-y-cyd-ynys-mn-a-gwynedd/cynllun-adnau/

5. A yw'r ACLl wedi anfon y canlynol at bob corff ymgynghori a wahoddwyd i gyflwyno sylwadau o dan Reoliad 17(c) neu 26B (c) : y CDLl wedi'i Adneuo neu ddiwygiadau i'r cynllun, yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr adroddiad ar yr ymgynghoriad cychwynnol, dogfennau ategol, hysbysiadau a datganiadau perthnasol?	Ymateb: Do. Mae gohebiaeth wedi cael ei hanfon i'r cyrff ymgynghori yn manylu lleoliadau y gellir archwilio'r Cynllun ar wefannau'r Cyngor.
6. A gyhoeddwyd hysbysiad ynglŷn â'r materion adneuo a manylion ynghylch ble a phryd y gellir archwilio dogfennau, yn gyson â'r CIS?	Ymateb: Do. Cyhoeddwyd rhybudd o'r cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Adnau yn y papurau newydd lleol ac ar wefan y Cyngor, ynghyd a hysbysu'r ymgynghorwyr statudol/anstatudol ac unigolion oedd wedi dangos diddordeb yn y Cynllun.
7. A gynhaliwyd ymgynghoriad /ymgysylltiad priodol â'r gymuned a thirfeddianwyr ynglŷn â lleoliad cynigion ar y map cynigion, mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Cynllun Cynnwys y Gymuned?	Ymateb: Do. Mae'r budd-deiliaid allweddol wedi cael ei ymgynghori a hwy parthed cynnwys y Cynllun Adnau, sy'n cynnwys y mapiau cynigion.
Cam 5: Cyflwyno	
1. A yw'r CDLl wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Darparu? A yw'r ACLl wedi cynnal ymgynghoriad fel y disgrifiwyd yn y Cynllun Cynnwys y Gymuned? A yw rhestrau a disgrifiad y CDLl yn y Cytundeb Darparu yn cyfateb i'r ddogfen a gyflwynwyd? A fodlonwyd graddfeydd amser a amlygwyd?	Ymateb: Do. Mae'r Cynllun wedi ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni ac mae'r ymgynghoriad wedi ei gynnal yn unol â'r hyn oedd wedi ei osod allan yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Mae manylion ymgynghori'r Cynllun wedi ei manylu yn yr Adroddiad Ymgynghori. Mae'r Cynllun wedi cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen (diwygiedig) o fewn y Cytundeb Cyflawni.
2. A roddwyd ystyriaeth i'r Cynllun Integredig Sengl/Cynllun Lles Lleol neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?	Ymateb: Do. Mae'r Cynllun wedi rhoddi ystyriaeth i ganllawiau cenedlaethol a lleol perthnasol. Gweler Papur Testun 2A am ragor o wybodaeth.
3. A yw'r materion strategol wedi'u hamlygu ac ymgysylltiad ac ymgynghoriad priodol wedi'u cynnal?	Ymateb: Do. Mae'r Adroddiad Ymgynghori wedi adnabod y prif faterion ac ystyriaeth briodol wedi ei roddi iddynt.
4. A yw'r CDLl Adneuo ac unrhyw Newidiadau â Ffocws (gan gynnwys unrhyw safleoedd newydd a gynigiwyd yn y FC) wedi bod yn destun AC ac a oes adroddiad terfynol ar gael?	Ymateb: Do. Mae'r Cynllun Adnau ynghyd a'r Newidiadau Ffocws wedi bod yn destun Asesiad Cynaliadwyedd, mae'r adroddiadau terfynol yn adlewyrchu'r asesiad hynny.
5. A yw'r CDLl yn ystyried Cynllun Gofodol Cymru, y polisi cenedlaethol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a nodau lles cenedlaethol?	Ymateb: Do. Wrth baratoi'r Cynllun fe roddir ystyriaeth i'r canllawiau cenedlaethol penodedig hyn. Rhoddir arweiniad pellach ar yr ystyriaeth o'r dogfennau hyn ym Mhapur Testun 2A.
6. A yw'r ACLl: • wedi cyhoeddi'r dogfennau penodedig, a sicrhau eu bod ar gael mewn swyddfeydd ac	Ymateb: Do. Mae'r dogfennau penodedig wedi cael eu cyhoeddi ac ar gael i'w archwilio yn Swyddfeydd y Cyngor ynghyd a

ar y we? • wedi rhoi gwybod i'r cyrff statudol ac anstatudol perthnasol, yn ogystal â'r rhai hynny a wahoddwyd i gyflwyno sylwadau ar y cynllun?	gwefannau'r ddau Gyngor. Mae'r cyrff statudol ac anstatudol ynghyd ac unigolion oedd wedi dangos diddordeb yn y Cynllun wedi derbyn gohebiaeth am y cam cyflwyno drwy gyfrwng llythyr neu e-bost.
7. A ddarperir map cynigion cywir ac eglur yn y CDLl?	Ymateb: Do
8. A baratowyd datganiad sy'n amlinellu: • Pa gyrff / unigolion a wahoddwyd i gyflwyno sylwadau o dan Reoliadau 17 a 26B? • Sut cawsant eu gwahodd? • Nifer y sylwadau a gyflwynwyd ym mhob cam (Rheoliadau 16/26A a 18/26C)? • Crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn dilyn yr ymgynghoriad adneuo? • Sut y dylid mynd i'r afael â sylwadau adneuo?	Ymateb: Do. Mae'r manylion mewn perthynas â'r broses ymgynghori wedi ei fanylu yn yr Adroddiad Ymgynghori.
9. A yw'r ACLl wedi casglu ynghyd yr holl sylwadau a wnaed o dan Reoliad 18?	Ymateb: Do. Mae pob sylw sydd wedi ei dderbyn wedi ei gofnodi ar gronfa ddata pwrpasol. Mae'n bosib archwilio copïau o'r sylwadau ar wefannau'r Cyngor.
10. A yw'r ACLl wedi casglu ynghyd sylfaen dystiolaeth sy'n angenrheidiol i gyfiawnhau polisïau'r CDLl?	Ymateb: Do. Credir fod yna dystiolaeth rymus wedi ei gasglu ar ffurf Papurau Testun a Chefndir sydd yn cefnogi cynnwys y CDLl. Mae'n bosib archwilio cynnwys y dogfennau yma ar wefan y Cyngor.
11. A yw'r ACLl wedi cymeradwyo ei CDLl i'w gyflwyno?	Ymateb: Do. Cafodd y Cynllun ei gymeradwyo i'w gyflwyno yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2016. Mae'r hawl i wneud y penderfyniad wedi cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor o dan gyfansoddiadau'r ddau Gyngor.
12. A anfonwyd y canlynol i'r Arolygiaeth Gynllunio ar ffurf copi papur a neges e-bost: • copi o'r CDLl gan gynnwys y map cynigion? • dogfennau a bennwyd yn Rheoliad 22(2)?	Ymateb: Mae copïau called o'r CDLl ynghyd a'r dogfennau a restrir dan Reoliadau 22(2) wedi eu hanfon i'r Arolygaeth Cynllunio ynghyd a manylion cyswllt i leoliad y dogfennau ar wefannau'r Cyngor.
13. A sicrhawyd bod y canlynol ar gael yn yr un man â'r CDLl wedi'i Adneuo: • copi o'r CDLl? • y dogfennau a bennwyd yn Rheoliad 22(2)?	Ymateb: Do, mae copïau o'r CDLl a'r dogfennau a bennwyd dan Reoliadau 22(2) ar gael i'w gweld yn yr un mannau ar y Cynllun Adnau ar ffurf copi called neu electroneg.
14. A yw'r canlynol wedi'u cyhoeddi ar wefan yr ACLl: • y CDLl gan gynnwys y map cynigion? • yr Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd? • datganiad Rheoliad 22(2)(c)? • dogfennau ategol? • sylwadau a gyflwynwyd o dan Reoliad 18?	Ymateb: Do, mae'r dogfennau i gyd a restrir wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

• datganiad ynghylch ble a phryd y bydd y CDLl a'r dogfennau ar gael?	
15. A yw'r ACLl wedi hysbysu unigolion sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu o'r ffaith bod y CDLl wedi'i gyflwyno?	Ymateb: Do. Mae pawb sydd ar ein cronfa ddata wedi derbyn gohebiaeth yn ei hysbysu fod y Cynllun wedi cael ei gyflwyno.

Atodiad 2 - Manylion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Panel CDLl ar y Cyd

Dyddiad	Cyfarfod	Eitemau
2011		
4 Mawrth 2011	**Pwyllgor**	CROESO A CHYFLWYNIADAU (Cyfle i Aelodau a Swyddogion gyflwyno'i hunain) ROL Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (PPCC) TREFNIADAU GWEITHREDOL AR GYFER Y PPCC YR UNED POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD = SEFYLLFA DDIWEDDARAF ARDAL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL = PROSES A CHYNNWYS Y CYFARFOD NESAF = 24 MAWRTH, 2011 (dyddiad i'w gadarnhau)
17 Mehefin 2011	**Panel**	RHAGLEN WAITH MATERION STRATEGOL, GWELEDIGAETH AC AMCANION COFRESTR SAFLEOEDD POSIB
9 Medi 2011	**Panel**	RHAGLEN WAITH PROSIECTAU A RHAGLENN I DATBLYGU'R ECONOMI MON A GWYNEDD
7 Hydref 2011	**Panel**	ADRODDIAD SGOPIO'R ARFARNIAD CYNALADWYEDD CANLYNIADAU'R YMGYNGHORI – PROSES A METHODOLEG SAFLEOEDD ARFAETHEDIG Y GOFYNION AM DAI DATBLYGU GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL DATBLYGU OPSIYNAU STRATEGOL
11 Tachwedd 2011	**Panel**	ROL A CHYFRIFOLDEBAU CYNGHORWYR YN Y BROSES AC ARCHWILIO'R CYNLLUN A PHROFI'I GADERNID Cyflwyniadau ar lafar gan: Mark Newey, Pennaeth Cangen Cynlluniau, Llywodraeth Cymru Peter Burley, Cyfarwyddwr dros Gymru, Yr Arolygiaeth Cynllunio TREFNIADAU CYFRANOGIAD CYHOEDDUS FFEITHIAU A FFIGYRAU CYCHWYNNOL O'R ASTUDIAETH TIR CYFLOGAETH
2012		
22 Mehefin 2012	**Pwyllgor**	PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – EI BARHAD A CHYTUNO AR EI AELODAETH

		CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – ADRODDIAD CYNNYDD
20 Gorffennaf 2012	**Panel**	CASGLIADAU'R ADOLYGIAD TIR CYFLOGAETH DATBLYGU'R HIERARCHAETH ANEDDLEOEDD
7 Medi 2012	**Panel**	Y PROSIECT HIERARCHAETH ANEDDIADAU DATBLYGU' R DDOGFEN STRATEGAETH DDEWISOL
23 Tachwedd 2012	**Pwyllgor**	CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD – DOGFEN HOFF STRATEGAETH DDRAFFT
2013		
15 Chwefror 2013	**Panel**	TREFNIADAU DECHREUOL YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AM Y DDOGFEN HOFF STRATEGAETH DRAFFT YMGYNGHOROL RHAGLEN WAITH 2013 DIWEDDARIAD AM Y GOFRESTR TIR POSIB
21 Mehefin 2013	**Pwyllgor**	DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH, 2013 CYTUNDEB CYFLAWNI – DIWYGIO'R AMSERLEN RHAGLEN WAITH YR UNED - 2013
26 Gorffennaf 2013	**Panel**	DIWEDDARIAD AM BRIF NEGESEUON Y CYRFF YMGYNGHORI PENODOL YN YSTOD Y CYFNOD YMGYNGHORI CYHOEDDUS AM Y DDOGFEN HOFF STRATEGAETH YSTYRIAETHAU POLISI CYNLLUNIO SYDD YN BERTHNASOL I 'YMESTYN Y TYMOR GWYLIAU' AR SAFLEOEDD CARFANNAU GWYLIAU SEFYDLOG/SIALES YSTYRIAETHAU POLISI CYNLLUNIO SYDD YN BERTHNASOL A MATHAU AMGEN O LETYAU GWYLIAU DIWEDDARIAD AR WAITH PARATOI PAPUR TESTUN 18: TAI MARCHNAD ANGEN LLEOL
24 Medi 2013	**Pwyllgor**	IS-GADEIRYDD (I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2013 - 14) CYFRIFION TERFYNOL AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2013 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL **<u>EITEMAU I'R PANEL</u>** FFURFIO IS-ARDALOEDD ARDAL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD ADRODDIAD CYNNYDD
25 Hydref 2013	**Panel**	DIWEDDARIAD AM WAITH PARATOI PAPUR TESTUN 18: TAI MARCHNAD ANGEN LLEOL

		DIWEDDARIAD AM DREFNIADAU I GYNNAL SEMINAR AM SAFLEOEDD TAI POSIB NODYN CYFARWYDDYD TECHNEGOL(NCT) 20: CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD RHAGOLYGON POBLOGAETH SAIL 2011 – Y PRIF UN A'R RHAI AMGEN
22 Tachwedd 2013	**Panel**	**POLISIAU TAI Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – YMATEB I'R SYLWADAU A DATBLYGU POLISIAU** POLISI STRATEGOL PS3 STRATEGAETH ANEDDLEOEDD POLISI STRATEGOL PS4 DATBLYGIAD YNG NGHEFN GWLAD POLISI STRATEGOL PS11 DARPARIAETH TAI CYTBWYS POLISI STRATEGOL PS12 TAI FFORDDIADWY POLISI STRATEGOL PS13 LLETY SIPSIWN A THEITHWYR POLISIAU MANWL ERAILL TREFNIADAU I GYNNAL SEMINAR AM SAFLEOEDD TAI POSIB
13 Rhagfyr 2013	**Panel**	**ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:-** ATODIAD A: POLISI STRATEGOL 6 - CYNIGION AM BROSIECTAU ISADEILEDD MAWR ATODIAD B: POLISI STRATEGOL 7 - DATBLYGIAD YN YMWNEUD Â NIWCLEAR YN YR WYLFA ATODIAD C: POLISI STRATEGOL 8 - DARPARU CYFLE AR GYFER ECONOMI FFYNIANNUS ATODIAD CH: POLISI STRATEGOL 9 - YR ECONOMI YMWELWYR ATODIAD D: POLISI STRATEGOL 10 - CANOL TREFI A MANWERTHU ATODIAD DD: POLISI STRATEGOL 17 - RHEOLI GWASTRAFF ATODIAD E: POLISI STRATEGOL 18 – MWYNAU TYSTIOLAETH I GEFNOGI DATBLYGIAD POLISI TAI MARCHNAD LEOL DIWEDDARIAD GWAITH TAI
2014		
24 Ionawr 2014	**Panel**	**ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:-** ATODIAD A: POLISI STRATEGOL 14 – GWARCHOD A GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL ATODIAD B: POLISI STRATEGOL 15 – AMDDIFFYN A GWELLA ASEDAU DIWYLLIANNOL A THREFTADAETH ATODIAD C: POLISI STRATEGOL 20 – ISADEILEDD CYMUNEDOL ATODIAD CH: POLISI STRATEGOL 21 – TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU ATODIAD D: POLISI STRATEGOL 22 – TRAFNIDIAETH GYNALIADWY, DATBLYGIAD A HYGYRCHEDD
21 Chwefror 2014	**Panel**	WEDI EI OHIRIO
7 Mawrth 2014	**Panel**	**ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:-** ATODIAD A: POLISI STRATEGOL 1 – DATBLYGIAD CYNALADWY ATODIAD B: POLISI STRATEGOL 2 – LLINIARU AC ADDASU I EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD ATODIAD C: POLISI STRATEGOL 5 – ISADEILEDD A CHYFRANIADAU GAN DDATBLYGWYR ATODIAD CH: POLISI STRATEGOL 16 – TECHNOLEG ADNEWYDDADWY ATODIAD D: POLISI STRATEGOL 19 – YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT

		CYMREIG POLISI TAI MARCHNAD LEOL – DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIAD Y SAIL DYSTIOLAETH RHAGLEN GYFATHREBU
25 Ebrill 2014	**Panel**	CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – YR AMSERLEN, RHAGLEN WAITH Y PANEL A THREFNIADAU YMGYSYLLTU STRATEGAETH TŴF TAI'R HOFF STRATEGAETH – CASGLIADAU'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS
16 Mai 2014	**Panel**	**ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL A PHOLISIAU MANWL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:-** ATODIAD A: (PS8) DARPARU AR GYFER ECONOMI FFYNIANNUS ATODIAD B: (PS9) YR ECONOMI YMWELWYR ATODIAD C: (PS15) DIOGELU A GWELLA ASEDAU TREFTADAETH
20 Mehefin 2014	**Pwyllgor** **Panel**	DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD CYFRIFON TERFYNOL Y CYDBWYLLGOR AM Y GLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014 **ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL A PHOLISIAU MANWL DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:** ATODIAD A: (PS14) GWARCHOD A GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL ATODIAD B: (PS10) CANOL TREFI A MANWERTHU ATODIAD C: (PS18) MWYNAU TYSTIOLAETH I GEFNOGI POLISI TAI MARCHNAD LLEOL
18 Gorffennaf 2014	**Panel**	**ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL A PHOLISIAU MANWL DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:** ATODIAD A: (PS5) POLISI STRATEGOL 5 A'R POLISIAU MANWL CYSYLLTIEDIG – ISADEILEDD ACHYFRANIADAU GAN DDATBLYGWYR ATODIAD B: (PS16) POLISI STRATEGOL 16 A'R POLISIAU MANWL CYSYLLTIEDIG – TECHNOLEG ADNEWDDADWY
30 Gorffennaf 2014	**Panel**	**ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL A PHOLISIAU MANWL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:** ATODIAD A: (PS1) BYW'N GYNALIADWY (POLISIAU CYFFREDINOL) ATODIAD B: (PS22) TRAFNIDIAETH ATODIAD C: POLISI TWR/5 – SAFLEOEDD CARAFANNAU TEITHIOL, GWERSYLLA A LLETY GWERSYLLA AMGEN (AIL YMWELD)
19 Medi 2014	**Panel**	**DATBLYGU'R CYNLLUN ADNAU:** ATODIAD A: LEFELAU TWF TAI ATODIAD B: TAI (PS11; PS12; PS3) ATODIAD C: RHEOLI GWASTRAFF (PS17 ATODIAD CH: ARDAL RHEOLI NEWID YR ARFORDIR ATODIAD D: ARDAL ADFYWIO CAERGYBI ATODIAD DD: RHEOLI CARBON
26 Medi 2014	**Pwyllgor**	**CYFRIFON TERFYNOL AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AM FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

17 Hydref 2014	**Panel**	**DATBLYGU'R CYNLLUN ADNAU:-** ATODIAD A: POLISIAU DRAFFT AM LETY SIPSIWN A THEITHWYR (TAI/9; TAI/9A;TAI/9B) ATODIAD B: DOSBARTHU UNEDAU TAI ATODIAD C: NEWIDAIADAU ARWYDDOLCAOL I BOLISIAU MANWL YN SGIL DERBYN GWYBODAETH NEWYDD NEU SYLWADAU GAN RHANDDEILIAID (PS11; TAI/1; TAI/2; TAI/5; TAI/6; PS12; TAI/8; TAI/8A; PS3; TAI/10; TAI/11;TAI/12; TAI/13;TAI/14; TAI/15) ATODIAD CH: MAPIAU ANEDDLEDOEDD
21 Tachwedd 2014	**Panel**	**DATBLYGU'R CYNLLUN ADNAU:-** ATODIAD A: METHODOLEG ASESU SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR ATODIAD B: FFRAMWAITH MONITRO'R CYNLLUN ATODIAD C: LLWYBRAU TEITHIO A PHARTH CHWILIO AM LETY PWRPASOL I FYFYRWYR
18 Rhagfyr 2014	**Pwyllgor**	**Y CYNLLUN ADNAU**
26 Mehefin 2015	**Panel**	**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – ADBORTH, CAMAU NESAF AC AMSERLEN**
26 Mehefin 2015	**Pwyllgor**	**ETHOL CADEIRYDD** **ETHOL IS-CADEIRYDD** **DATGAN LLWYODRAETHU AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD** **CYFRIFON TEFYNOL Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (MAWRTH 2015)**
30 Gorffennaf 2015	**Panel**	**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – CANLLAWIAU AM YMATEB I'R SYLWADAU** **SYLWADAU YN YMWNEUD Â CHLYSTYRAU YN Y CYNLLUN ADNAU** **SYLWADAU YN YMWNEUD Â PHOLISI TAI 5 (TAI MARCHNAD LLEOL) YN Y CYNLLUN ADNAU**
14 Hydref 2015	**Panel**	**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – YSTADEGAU AM YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS** **ATODIAD A: RHESTR YMATEBYDD** **ATODIAD B: SYLWADAU** **SYLWADAU YN YMWNEUD Â PHOLISI PS13 YN Y CYNLLUN ADNAU** **ATODIAD A: CRYNODEB O'R SYLWADAU** **ATODIAD B: Y SENARIOS LEFEL TWF TAI 2011 – 2026**
21 Hydref 2015	**Panel**	**SYLWADAU YN YMWNEUD A RÔL ANEDDLEOEDD O FEWN Y CYNLLUN ADNAU** **ATODIAD A – CRYNODEB O SYLWADAU AR RÔL ANEDDLEOEDD** **SYLWADAU YN YMWNEUD Â PHOLISIAU TAI FFORDDIADWY YN Y CYNLLUN ADNAU** **ATODIAD A CRYNODEB O'R SYLWADAU AR POLISI STRATEGOL PS14: TAI FFORDDIADWY**
20 Tachwedd 2015	**Panel**	**SYLWADAU YN YMWNEUD Â PHOLISIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â THECHNOLEG YNNI ADNEWYDDOL YN Y CYNLLUN ADNAU** **ATODIAD A - CRYNODEB O SYLWADAU AR DECHNOLEG ADNEWYDDOL**

		CYFARCH Y GALW AM LETY AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR YN Y CYNLLUN ATODIAD A: RHESTR SYLWADAU A GAFWYD AM BOLISÏAU YNGLYN A CHYFARCH GYFARCH Y GALW AM LETY AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR
17 Rhagfyr 2015	Panel	SYLWADAU YN YMWNEUD Â PHOLISIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â PHOLISIAU CYFLOGAETH YN Y CYNLLUN ADNAU SYLWADAU YN YMWNEUD Â PHOLISI PS13 YN Y CYNLLUN ADNAU SYLWADAU YN YMWNEUD Â PHOLISI PS15 A'R STRATEGAETH DDOSBARTHU YN Y CYNLLUN ADNAU SYLWADAU YN YMWNEUD Â SAFLEOEDD YN Y CYNLLUN ADNAU SYLWADAU YN YMWNEUD Â MATERION AMRYWIOL YN Y CYNLLUN ADNAU
29 Ionawr 2016	Panel	COFNODION
29 Ionawr 2016	Pwyllgor	CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD ATODIAD A - YMATEBION A ARGYMHELLIR I'R SYLWADAU ATODIAD B - NEWIDIADAU Â FFOCWS ARFAETHEDIG I'R CYNLLUN ADNAU ATODIAD C - MÂN NEWIDIADAU I'R CYNLLUN ADNAU ATODIAD CH – PROFION CADERNID ATODIAD D - ADRODDIAD

Atodiad 3 – Cyrff Ymgynghori

Cyrff ymgynghori cyffredinol

a) Cyrff Gwirfoddol ac eraill

- Age Concern (Cymru)
- Barnados
- Butterfly Conservation Wales
- BTCV
- Council for the Protection of Rural Wales
- Cyfeillion y Ddaear(Mon & Gwynedd)
- Communities First
- Communities First - Maes Hyfryd
- Communities First - Morlo
- Communities First - Porth y Felin
- Communities First - Amlwch
- Communities First - Llangefni
- Wales Council for Voluntary Action
- Mantell Gwynedd
- South Pwllheli Community First Partnership Area
- Pen Llyn Community First Partnership Area
- Marchog Community First Partnership Area
- The People of Bangor Community Group
- Bangor Needs Change
- Abermaw Community First Partnership Area
- Bowydd a Rhiw Community First Partnership Area
- Talysarn Community First Partnership Area
- Pobl Peblig Community First Partnership Area
- Gwarchod Bermo
- Barmouth Resort Improvement Group
- Undeb Myfyrwyr Bangor Students Union
- Bangor Creadigol
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- Penrhyn Heritage Railway Trust/ Felin Fawr Cyf.
- Cyfeillion Amgueddfa ac Oriel Gwynedd
- Fairbourne Rights of Access Group
- Bangor Civic Society
- Campaign for Dark Skies
- Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref,
- Cymdeithas Pysgota Cefni
- Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru
- Envirowatch UK
- Friends of the Earth (Mon & Gwynedd)
- Gwasanaeth Ieuenctid CSYM
- Greenpeace
- Keep Wales Tidy

- Mudiad Ffermwyr Ifanc
- Menai Bridge Heritage Trust
- Menai Bridge & Distrcit Civic Society
- North Wales Housing Association
- National Trust
- North Wales Wildlife Trust
- North Wales Energy Efficiency Advice Centre
- Penhesgyn Action Group
- PAWB (People Against Wylfa B)
- The Ramblers Association
- RSPB
- Red Wharf Bay Association
- Sports Council for Wales
- Sustrans
- Tanc Meddwl Cymuned Mon
- Tourism Partnership North Wales
- Trearddur Residents Association
- Wales Pre School Play Groups Assoc
- Wales Tourist Board
- Wildscape
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Ynys Cybi Action Committee
- Wales Pre School Play Groups Assoc
- H.A.R.T (Residents Association)
- C.O.B.T.R.A Centre of Bangor Tenants & Residents Association
- Bangor Pride Business Group
- Upper Bangor Society
- MATRA (Maesgeirchen and Tanybryn Residents Association)
- North Wales Probation Service
- Cylch Meithrin Penysarn
- CAB Gwynedd a De Môn
- Grwp Bae Hirael
- Transition Town Bangor
- Rail and bus user group
- National Women's Alliance Wales
- CTC Gwynedd & Môn

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol

b)

- North Wales Race Equality Network
- Gypsy Council
- Digartref Ynys Mon
- Equality and Human Rights Commission
- BEN (Black Environment Network)
- Traveller Law Reform Coalition

- Intercultural Skills Link
- Chinese Woman Society Wai Kwun
- North Wales Chinese Society
- South Pwllheli Ethnic Minority Project

Cyrff sy'n cynrychioli grwpiau crefyddol amrywiol

c)

- Bangor Cathedral
- Bangor Islamic Centre
- Diocese of Bangor
- Wales Orthodox Mission
- Bangor Mosque
- CYTUN
- Clebran
- Fairbourne Rights of Access Group
- Inter-Cultural Skills Network

Cyrff sy'n cynrychioli budd unigolion anabl

d)

- Alzheimer's Society
- British Heart Foundation
- North Wales Society for the Blind
- Agoriad Cyf.
- Bangor & District Mencap Society
- Jas Chanay Disablement Welfare Rights
- North Wales Deaf Association
- Taran Disability Forum Ltd
- RNIB Cymru
- Crossroads Caring for Carers
- ARC Cymru
- Macular Degeneration Group
- Disablement Welfare Rights
- Fforwm Anableddau Taran Cyf
- RNIB(Royal Nat. Inst. Blind)
- TARAN Disability Forum Ltd
- Y Gamfa (CCET)
- CAIS – Asiantaeth Cyffuriau ac Alcohol
- Anheddau Cyf.
- Abbey Road Resource Centre
- Disability Wales
- Disability Rights Commission
- Disabled Persons Transport Advisory Committee
- Core Disability Group
- Arfon Access Group
- Dwyfor Access Group
- Meirionnydd Access Group

Cyrff sy'n cynrychioli budd busnesau

e)

- Chamber of Trade
- Chamber of Commerce
- Federation of Small Business
- Farmers Union of Wales
- Menter Mon
- National Farmers Union
- National Farmers Union - Ynys Mon
- Tywyn Chamber of Tourism & Commerce
- Siambr Fasnach Pwllheli
- Siambr Fasnach Tywyn
- Siambr Fasnach Bermo
- Siambr Fasnach Bangor
- Chartered Institute of Building – North Wales Centre
- HBF – Home Builders Federation

Cyrff sy'n cynrychioli buddianau'r iaith Gymraeg/

f)

- Comisiynydd Iaith Gymraeg
- Fforum Iaith Mon
- Menter Mon
- Y Goriad (Papur Bro Bangor a'r Felinheli)
- Merched y Wawr
- Papurau Bro
- Menter Iaith Dyffryn Ogwen
- Pobl Ifanc Ardudwy
- Gwynedd Gynaladwy
- Llaingoch Heritage Committee
- Hunaniaith
- Urdd Gobaith Cymru
- Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc
- Cyfeillion Llŷn
- Cymdeithas yr Iaith

g) Grwpiau sy'n cynrychioli pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol

- Stonewall

Cyrff ymgynghori penodol

Cyrff Llywodraeth

- Cadw
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Ysgifennydd Gwladol Cludiant
- Adran Fasnach a Diwydiant y DU
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Asiantaeth Amgylchedd Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Adran Drafnidiaeth o Lywodraeth y DU
- Y Swyddfa Gartref

Awdurdodau Lleol Cyfagos

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Sir Dinbych
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy
- Cyngor Sir Powys

Cynghorau Dinas/ Cymuned/ Tref ym Mon a Gwynedd (ar wahan i'r Barc Cenedlaethol Eryri)

Mon

- Cyngor Cymuned Aberffraw
- Cyngor Tref Beaumaris
- Cyngor Cymuned Bodffordd
- Cyngor Cymuned Bryngwran
- Cyngor Cymuned Cwm Cadnant
- Cyngor Cymuned Trewalchmai
- Cyngor Cymuned Llanddaniel Fab
- Cyngor Cymuned Llanddyfnan
- Cyngor Cymuned Llanerchymedd
- Cyngor Cymuned Llanfachraeth
- Cyngor Cymuned Llanfaethlu
- Cyngor Cymuned Llanfairpwll
- Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll
- Cyngor Tref Llangefni
- Cyngor Cymuned Llangristiolus
- Cyngor Cymuned Llanidan
- Cyngor Cymuned Moelfre
- Cyngor Cymuned Pentraeth
- Cyngor Tref Porthaethwy
- Cyngor Cymuned Rhosybol
- Cyngor Cymuned Trearddur
- Cyngor Cymuned Valley
- Cyngor Tref Amlwch
- Cyngor Cymuned Bodedern
- Cyngor Cymuned Bodorgan
- Cyngor Tref Caergybi
- Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn
- Cyngor Cymuned Llanbadrig
- Cyngor Cymuned Llanddona
- Cyngor Cymuned Llaneilian
- Cyngor Cymuned Llaneugrad
- Cyngor Cymuned Llanfaelog
- Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf
- Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog
- Cyngor Cymuned Llangoed and Penmon
- Cyngor Cymuned Mechell
- Cyngor Cymuned Penmynydd and Star
- Cyngor Cymuned Rhoscolyn
- Cyngor Cymuned Rhosyr
- Cyngor Cymuned Tref Alaw

Gwynedd

- Cyngor Dinas Bangor
- Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
- Cyngor Cymuned Betws Garmon
- Cyngor Cymuned Llanberis
- Cyngor Cymuned Llandwrog
- Cyngor Cymuned Llanllechid
- Cyngor Cymuned Llanrug
- Cyngor Cymuned Pentir
- Cyngor Cymuned Y Felinheli
- Cyngor Cymuned Botwnnog
- Cyngor Cymuned Clynnog
- Cyngor Cymuned Dolbenmaen
- Cyngor Cymuned Llanbedrog
- Cyngor Cymuned Llannor
- Cyngor Tref Caernarfon
- Cyngor Cymuned Bethesda
- Cyngor Cymuned Bontnewydd
- Cyngor Cymuned Community Council
- Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
- Cyngor Cymuned Llanllyfni Council
- Cyngor Cymuned Llanwnda
- Cyngor Cymuned Waunfawr
- Cyngor Cymuned Aberdaron
- Cyngor Cymuned Buan
- Cyngor Tref Criccieth
- Cyngor Cymuned Llanaelhaearn
- Cyngor Cymuned Llanengan
- Cyngor Cymuned Llanystumdwy

- Cyngor Tref Nefyn
- Cyngor Tref Porthmadog
- Cyngor Cymuned Tudweiliog
- Cyngor Cymuned Arthog
- Cyngor Tref Ffestiniog
- Cyngor Cymuned Llanfrothen
- Cyngor Cymuned Mawddwy
- Cyngor Tref Tywyn
- Cyngor Cymuned Pistyll
- Cyngor Tref Pwllheli
- Cyngor Tref Abermaw
- Cyngor Cymuned Corris
- Cyngor Cymuned Llandderfel
- Cyngor Cymuned Llangywer
- Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

Cynghorau Dinas/ Cymuned/ Tref sy'n ymylu ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd

- Cyngor Cymuned Abergwyngregyn
- Cyngor Cymuned Aberdyfi
- Cyngor Cymuned Brithdir,Llanfachreth, a Rhydymain
- Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont Corris
- Cyngor Cymuned Llanbedr
- Cyngor Cymuned Llanelltyd
- Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-Pennant
- Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
- Cyngor Cymuned Pennal
- Cyngor Cymuned Trawsfynydd
- Cyngor Cymuned Bro Machno
- Cyngor Cymuned Llangwm
- Cyngor Cymuned Llandrillo
- Cyngor Cymuned Cynwyd
- Cyngor Cymuned Beddgelert
- Cyngor Tref Bala
- Cyngor Cymuned Bryncrug
- Cyngor Tref Dolgellau
- Cyngor Cymuned Ganllwyd
- Cyngor Tref Harlech
- Cyngor Cymuned Llanegryn
- Cyngor Cymuned Llanfair
- Cyngor Cymuned Llangelynnin
- Cyngor Cymuned Llanycil
- Cyngor Cymuned Maentwrog
- Cyngor Cymuned Talsarnau
- Cyngor Cymuned Dolwyddelan
- Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
- Cyngor Cymuned Llanfairfechan
- Cyngor Cymuned Corwen
- Cyngor Cymuned Glantwymyn

Darparwyr Isadeiledd a Chyfathrebwyr Electroneg

- Dwr Cymru
- Scottish Power
- British Telecommunications plc
- SP Energy Networks & Wales and West Utilities
- Grid Cenedlaethol
- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Mobile Operators Association

Aelodaeth y Grwp Rhanddeiliaid Allweddol

- Mantell Gwynedd
- Medrwn Mon
- Un Llais Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Coleg Meirion Dwyfor
- Coleg Menai
- Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Canolfan Waith Plus
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Prifysgol Bangor
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Partneriaethau Tai Gwynedd & Mon
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Gwynedd & Mon
- Partneriaethau Iechyd Gofal a Lles Gwynedd & Mon

- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Cymunedau'n Gyntaf Gwynedd & Mon
- Partneriaeth Economaidd Gwynedd
- Partneriaeth Adfywio Economaidd Mon
- Unedau Polisi Strategol Gwynedd & Mon
- Fforwm Amgylcheddol Gwynedd & Mon
- Bwrdd Iechyd Lleol Ardal Gwynedd
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyd-Bwyllgorau Cynghori ar AHNE Llyn & Mon
- Swyddogion Adfywio Bro
- Fforwm Mynediad Lleol

Atodiad 4 – Ymateb i'r Ymgynghoriad Cytundeb Cyflawni

Cwestiwn 1a A ydych yn meddwl bod cynnwys a phwrpas y Cytundeb Cyflawni drafft yn glir ac yn ddealladwy?

Sylwebydd(ion)	Envriowatch UK
Sylw(adau)	O'r farn fod y ddogefn yn glir a dealladwy yn arbennig y ffordd bwriedir cysylltu gyda'r gwrpiau anodd i'w cyrraedd yn ystod y cyfnodau ymgynghori, sef y cyhoedd
Ymateb Swyddog	Croesawu'r sylw o gefnogaeth
Diwygiad a awgrymir	Dim yn berthnasol

Cwestiwn 1b Ydy'r Cytundeb Cyflawni Drafft yn dangos y camau/ cyfnodau paratoi'r CDLl ar y Cyd yn glir?

Cwestiwn 2a A ydych yn meddwl fod yr amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd yn realistig ac yn un y gellir ei weithredu?

Sylwebydd(ion)	Cyngor Cymuned Llanystumdwy
Sylw(adau)	Yn pryderu fod yr amserlen i ymgymgryd a'r adolygiad tystiolaeth a chamau 2 a 3 yn rhy hir a bod y cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus yn rhy fyr
Ymateb Swyddog	Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu na ddylai'r broses gymryd fwy na 4 rhyw 4 mlynedd. Mae adolygiad o brofiad awdurdodau cynllunio ar draws Cymru sydd eisoes yn mynd trwy'r broses yn dangos yn glir bod angen neilltuo'r amser a nodwyd yn y CC er mwyn cwblhau'r tasgau mewn dull grymus. Mae'r Rheoliadau'n nodi fod rhaid cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus dros gyfnod o 6 wythnos
Diwygiad a awgrymir	Dim yn berthnasol

Sylwebydd(ion)	Cyngor Cymuned Llanystumdwy
Sylw(adau)	Nodir cyfeiriad at "adnabod y sail dystiolaeth yng nghyswllt nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal" ac yn awgrymu y dylid ychwanegu " ieithyddol" at y rhestr hon.
Ymateb Swyddog	Bydd yr agwedd cymdeithasol o Adroddiad Sgopio'r CDLl ar y cyd yn adnabod materion ieithyddol a diwylliannoL
Diwygiad a awgrymir	Dim yn berthnasol

Cwestiwn 2b A oes yna risgiau ychwanegol i'r rhai sydd yn y CC Drafft i baratoi'r CDLl ar y Cyd?

Sylwebydd(ion)	Grwp Bae Hirael
Sylw(adau)	(1) Nid yw'n glir sut caiff materion gwrthdaro difrifol (e.e. pwer niwclear) eu datrys

	(2) Mae yna amheuaeth os ydy o'n ddigon grymus i gyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon o 3% pob blwyddyn
Ymateb Swyddog	(1) Mae Atodiad 6 o'r Cytundeb Cyflawni'n cyfeirio at y risgiau all godi oherwydd diffyg cytundeb ynglyn a rhai materion, h.y. barn gwahanol gan gyrff ymgynghori, barn wleidyddol wahanol yn ogystal a barn wahanol gan wasanaethau o fewn y Cynghorau, yn ogystal amesurau i leihau'r risgiau hynny rhag codi ac effeithiau'r risgiau yma. Yn ddibynol ar ba gyfnod mae'r CDLL ar y Cyd arno, caiff y penderfyniad ynglyn ag ymagwedd y Cynllun i wahanol faterion ei gymeryd gan Bwrdd Comisiynwyr/ Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Mon a Bwrdd Cyngor Gwynedd, neu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, ar ol iddynt roi ystyriaeth i unrhyw farn croes gan fudd-ddeiliaid. Mae paragraff 4.1.1 ac Atodiad 4 y Cytundeb Cyflawni yn cyfeirio at rol genwud penderfyniad y pwyllgorau. Gellir diwygio paragraff 4.1.1 i gyfeirio at rol y pwyllgorau o ran delio gyda barn gwahanol.
Diwygiad a awgrymir	(1) Diwygio paragraff 4.1.1 yn unol a'r hyn a welir isod "Ar ol ystyried yr holl dystiolaeth cyfrifoldeb Pwyllgor Gwaith/ Bwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Cyngor Gwynedd fydd gwneud penderfyniadau am gynnwys y dogfennau yn yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd, e.e. Cytundeb Cyflawni a'r Dogfennau Cyn-Adneuo. Bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gwneud penderfyniadau ar sail sytiaeth lawn o ystyriaethau am gynnwys dogfennau ar wahân i'r adegau lle mae angen awdurdod y Cynghorau llawn fel rhan o'r broses statudol. Mae'r tabl yn Atodiad 4 yn adnabod beth yw rol y gwahanol bwyllgorau. (2) Dim diwygiad

Cwestiwn 3a Ydy'r Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus yn glir o ran sut a phryd y gallwch chi neu eich mudiad gymryd rhan yn y broses??

Sylwebydd(ion)	CTC – Gwynedd & Môn
Sylw(adau)	Fe ddylai CTC fod ar y rhestr o ymgynghorwyR
Ymateb Swyddog	Diwygio'r Atodiad trwy ychwanegu CTC i'r rhestr o'r cyrff ymgynghori cyffredinol
Diwygiad a awgrymir	Cynnwys CTC yn y rhestr yn Atodiad 7

Cwestiwn 3b A ydych yn meddwl fod y dulliau cyfranogiad sydd yn y CCC yn rhai priodol?

Sylwebydd(ion)	Grwp Bae Hirael

Sylw(adau)	Peidiwch a chymryd yn ganiataol bod pawb yn defnyddio cyfrifiaduron. Defnyddiwch rwydweithiau eraill, e.e. NGOs, cyflogwyr, Prifysgol Bangor
Ymateb Swyddog	Mae'r Cynghorau'n awyddus i gydweithio'n agos gyda cyn gymaint o unigolion, mudiadau a chyrff ag sy'n bosib. Fodd bynnag mae'n rhaid bod yn ymarferol ac yn realistig. Mae rhan 6.5.1 o'r CC yn cyfeirio at nifer o ddulliau ellir eu defnyddio i weithio'n agos a gwahanol fudd-ddeiliiad. Bwriedir defnyddio'r dulliau sydd fwyaf addas i'r gynulleidfa, pwnc a'r cam yn y broses. Mae rhan 6.5.2 yn cyfeirio at wneud defnydd o rwydweithiau sefydledig presennol ac mae Atodiad 7 yn cynnwys rhestr o'r mudiadau a chyrff sy'n wybyddus. Bydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cysylltu ag Unedau/ Gwasanaethau eraill o fewn y Cynghorau yn ogystal a phartneriaid eraill sy'n arbenigo mewn meysydd penodol cyn rhyddhau'r CC trefynol a thrwy gydol y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd er mwyn ceisio sicrhau bod budd-ddeiliaid perthnasol yn cael eu hadnabod.
Diwygiad a awgrymir	Ychwanegu at y rhestr o gyrff ymgynghori cyhoeddus ar ol cysylltu gydag Unedau/ Gwasanaethau eraill yn y Cynghorau

Sylwebydd(ion	Envirowatch UK
Sylw(adau)	Yn gefnogol i'r bwriad o gysylltu a phlant a phobl ifanc
Ymateb Swyddog	Croesawu'r gefnogaeth
Diwygiad a awgrymir	Dim yn berthnasol

Sylwebydd(ion)	Cyngor Cymuned Llanystumdwy
Sylw(adau)	Yn awgrymu y dylid sicrhau bod llais cryf gan deuluoedd ifanc lleol sy'n methu fforddio prynu tai/ methu â chael tŷ a hwythau yn aros yn eu cynefinoedd Yn holi os ydy "papurau cymunedol" yn cynnwys papurau bro
Ymateb Swyddog	Ydy
Diwygiad a awgrymir	Dim yn berthnasol

Cwestiwn 3c Ydy'n glir pa gyfraniad allwch chi wneud neu sy'n ddisgwyliedig gennych?

Sylwebydd(ion)	CTC – Gwynedd & Mon
Sylw(adau)	Rydym yn croesawu'r cyfeiriad i gludiant, diogelwch, iechyd, cynaladwyedd ac i waharddiad cymdeithasol. Fe all CTC gyfrannu i hyn i gyd
Ymateb Swyddog	Diwygio'r Atodiad trwy ychwanegu CTC i'r rhestr o'r cyrff ymgynghori cyffredinol
Diwygiad a awgrymir	Cynnwys CTC yn y rhestr yn Atodiad 7

Cwestiwn 3ch A ydych yn gwybod am gyrff statudol, penodol neu gyffredin ychwanegol i'r rhai sydd yn y CC drafft?

Sylwebydd(ion)	CTC – Gwynedd & Mon
Sylw(adau)	Cynnwys
Ymateb Swyddog	Diwygio'r Atodiad trwy ychwanegu CTC i'r rhestr o'r cyrff ymgynghori cyffredinol
Diwygiad a awgrymir	Gweler Atodiad 7 i'r Cytundeb Cyflawni
Sylwebydd(ion)	Grwp Bae Hirael
Sylw(adau)	Ychwanegu'r canlynol i'r rhestr o'r rhai a ymgynghorir a hwy: CTC Sustrans RSPB N W Wildlife Trust Ramblers Association Friends of the Earth Transition Town Bangor Rail and Bus User Group Grwp Bae Hirael
Ymateb Swyddog	Cynnwys yr uchod yn Atodiad 7
Diwygiad a awgrymir	Gweler Atodiad 7 i'r Cytundeb Cyflawni

Sylwebydd(ion)	Cartrefi Watkin Jones
Sylw(adau)	Ychwanegu'r canlynol i'r rhestr o'r rhai a ymgynghorir a hwy: Chartered Institute of Building – North Wales Centre HBF – Home Builders Federation
Ymateb Swyddog	Diwygio'r Atodiad trwy ychwanegu'r cyrff a enwir uchod i'r rhestr o'r cyrff ymgynghori cyffredinol
Diwygiad a awgrymir	Cynnwys CTC yn y rhestr yn Atodiad 7

Sylwebydd(ion)	SUSTRANS
Sylw(adau)	Ychwanegu'r canlynol i'r rhestr o'r rhai a ymgynghorir a HWY: Sustrans Cymru TAITH TRACC
Ymateb Swyddog	Cynnwys yr uchod yn Atodiad 7
Diwygiad a awgrymir	Cynnwys CTC yn y rhestr yn Atodiad 8

Sylwebydd(ion)	Entec
Sylw(adau)	(1) Mae Transco nawr yn rhan o National Grid (2) Cynnwys cwmniau dosbarthu nwy a trydan yn yr ardal
Ymateb Swyddog	Diwygio'r Atodiad yn unol a'r sylw uchod
Diwygiad a awgrymir	Dileu cyfeiriad at Transco yn Atodiad 8 Ychwanegu SP Energy Networks & Wales and West Utilities i Atodiad 8/ to Appendix 8

Cwestiwn 3d A ydych yn meddwl fod y Partneriaethau Traws-Asiantaethol priodol wedi cael eu hadnabod er mwyn cael cynllun cynrychiadol?

Sylwebydd(ion)	Grwp Bae Hirael
Sylw(adau)	Fe ddylai mwy o NGOs amgylcheddol a chludiant fod yn rhan o'r broses
Ymateb Swyddog	Sicrhau bydd Atodiad 7 yn cynnwys amrediad o fudiadau a chyrff amgylcheddol a chludiant sy'n weithredol yn yr ardal leol
Diwygiad a awgrymir	Gweler Atodiad 7 i'r Cytundeb Cyflawni

Cwestiwn 4 A oes gennych sylwadau ychwanegol neu awgrymiadau am y Cytundeb Cyflawni Drafft?

Sylwebydd(ion)	Grwp Bae Hirael
Sylw(adau)	(1) More needed on WAG 3% carbon cut, peak oil, rising sea levels, transport and planning, active travel and public health, localism, ensuring investment remains in local area. (2) Include road safety stats on page 31
Ymateb Swyddog	Rhaid cofio mai dogfen brosiect yw'r Cytundeb Cyflawni sy'n rhoi'r amserlen bras a manwl ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd yn ogystal a dweud sut gall budd-ddeiliaid gymryd rhan yn y broses. Tra mae disgwyl i'r ddogfen ddisgrifio'r ardal nid oes angen mynd i fanylder. Cytunnir bod y materion a gyfeirwyd atynt yn rhai sydd angen sylw. Bydd rhagor o fanylion amdanynt yn cael eu cynnwys yn adroddiad sgopio'r Arfarniad Cynaladwyedd ac mewn Papurau Cefndir a fydd yn ymdrin a phynciau/ themau penodol. Ond, cytuno y gellir diwygio Atodiad 2 i roi gwybodaeth pennawd perthnasol ychwanegol.
Diwygiad a awgrymir	Gweler Atodiad 2 i'r Cytundeb Cyflawni

Sylwebydd(ion)	Cartrefi Watkin Jones

Sylw(adau)	Mae'r ddogfen drafft yn cyfeirio at Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn sawl man ac fe ddylid diwygio'r rhain i adlewyrchu'r newid diweddar yn yr enw – Llywodraeth Cymru
Ymateb Swyddog	Cytuno bod angen diwygio'r ddogfen i adlewyrchu newid diweddar.
Diwygiad a awgrymir	Sicrhau bod y ddogfen yn cyfeirio at Llywodraeth Cymru yn hytrach na Llywodraeth Cynulliad Cymru

Sylwebydd(ion)	Fforwm Mynediad Lleol Arfon & Dwyfor
Sylw(adau)	(1) Yn siomedig na chafodd y Fforymau Mynediad Lleol eu cynnwys yn y rhestr o aelodau posib y Grwp Rhanddeiliaid Allweddol. Yn credu'n gryf y dylai'r Fforymau Mynediad Lleol fod yn rhan o'r broses yn eu hanfod eu hunain neu trwy gynrychiolaeth ar Baneli Dinasyddion Gwynedd a MonNi chafodd tabl 5 ei gynnwys yn y ddogfen/ Table 5 was missing from the document. (2) Yn bryderus nad oes ond ychydig o gyfeiriad at faterion mynediad a hawliau tramwy. Credir y dylai'r ddogfen gynnwys cyfeiriadau i'r materion yma a'u pwysigrwydd i iechyd a lles cymunedau lleol ac i economi'r ardal, e.e. ystadegau am werth i dwristiaeth, yn arbennig twristiaeth cerdded, a'r nifer o swyddi mae'r sector yn ei ddarparu (3) Hoffi gweld amcangyfrifiad da o'r gost o gynhyrchu'r cytundeb yma, yn arbennig cost ymgynghorwyr allanol, ac hefyd amcangyfrifiad cywir o fudd y Cynllun i'r Awdurdodau Lleol.
Ymateb Swyddog	(1) Cytuno i gynnwys cynrychiolydd o'r Fforymau Mynediad Lleol ar restr aelodaeth y Grwp Rhanddeiliaid Allweddol a chynnwys enwau y Fforymau Mynediad Lleol i gyd yn Atodiad 7 (2) Cafodd tabl 5 ei gynnwys ar dudalen 16. Gellir rhoi blwch o gwmpas y geiriau I wella eglurder (3) Rhaid cofio mai dogfen brosiect yw'r Cytundeb Cyflawni sy'n rhoi'r amserlen bras a manwl ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd yn ogystal a dweud sut gall budd-ddeiliaid gymryd rhan yn y broses. Tra mae disgwyl i'r ddogfen ddisgrifio'r ardal nid oes angen mynd i fanylder. Cytunnir bod y materion a gyfeirwyd atynt yn rhai sydd angen sylw. Bydd rhagor o fanylion amdanynt yn cael eu cynnwys yn adroddiad sgopio'r Arfarniad Cynaladwyedd ac mewn Papurau Cefndir a fydd yn ymdrin a phynciau/ themau penodol. Ond, cytuno y gellir diwygio Atodiad 2 i roi gwybodaeth pennawd perthnasol ychwanegol. (4) Cafodd y Cytundeb Cyflawni ei baratoi yn unol a'r Rheoliadau perthnasol a llawlyfr Llywodraeth Cymru. Ni does angen rhoi manylion am y gost o baratoi'r Cytuneb. Ni ddefnyddiwyd

	ymgynghorwyr allanol i'w baratoi. Mae'n bosib iawn y bydd rhaid ychwanegu at gapasiti'r Cynghorau i wella'u dealltwriaeth o rai pynciau neu agweddau ohonynt. Mae'n bwysig bod adnoddau'n cael eu rhoi o'r neilltu ar gyfer hynny. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi faint sydd wedi ei neilltuo ar gyfer comisiynu gwaith allanol os fydd angen gwneud hynny. Nid yw'n bosib amcangyfrif gydag unrhyw sicrwydd beth fydd budd ariannol y CDLl ar y Cyd i'r ddau Gyngor ac nid oes disgwyliad yn ol y Rheoliadau na'r llawlyfr i'r Cytundeb Cyflawni wneud hynny.
Diwygiad a awgrymir	Gweler Atodiad 2 i'r Cytundeb Cyflawni a'r newidiadau golygyddol
Sylwebydd(ion)	SUSTRANS
Sylw(adau	Pryder mai dim ond unwaith cyfeirir at gludiant yn y cytundeb cyflawni drafft. Caiff y CDLl ar y Cyd effaith ar gludiant ac fe ddylid rhoi sylw i hyn yn fuan yn y broses.
Ymateb Swyddog	Nid oes disgwyl i'r Cytundeb fynd i ormod o fanylder ynglyn a'r materion sy'n bwysig yn lleol. Bydd mwy o fanylion yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Sgopio i'r Arfarniad Cynaladwyedd ac mewn papurau cefndir am feysydd penodol. Bydd yr rhain a thrafodaethau gyda budd-ddeiliaid yn eu tro'n dylanwadu ar gynnwys y CDLL ar y Cyd
Diwygiad a awgrymir	Dim diwygiad
Sylwebydd(ion)	Asiantaeth Amgylchedd Cymru
Sylw(adau)	Yn croesawu'r bwriad i gyflawni Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol, fel y nodir yn Nhabl 5 o'r Cytundeb Cyflawni Drafft. Hefyd croesawn ein bod wedi nodi fel Corff Ymgynghorol Pendant yn Atodiad 8. Sut bynnag, awgrymwn weld risg llifogydd wedi ei nodi fel Ffaith a Figwr Strategol Allweddol o fewn Atodiad 2, oherwydd bydd hyn yn pwysicach pan cymeryd newid hinsawdd mewn i ystyriaeth yn y dyfodol.
Ymateb Swyddog	Cytuno gyda'r sylw
Diwygiad a awgrymir	Cynnwys cyfeiriad at y mater a godwyd yn Atodiad 2

Derbyniwyd sylwadau cyffredinol o gefnogaeth i gynnwys y CC gan y canlynoll

Cyngor Cymuned Llanengan
Yr Awdurdod Glo

Atodiad 5 - Llythyr gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r llithriad yn yr amserlen

Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Department for Environment, Sustainability and Housing

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

N H Davies
Planning Manger
Joint Planning Policy Unit
Town Hall
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT

Eich cyf:
Ein cyf: qA907404
Dyddiad: 25ain Tachwedd 2011

Annwyl Nia,

Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn - Cytundeb Cyflawni

Rheoliad 9 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

Yr wyf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â'r Cytundeb Cyflawni (CC) sy'n cynnwys yr Amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn, a gafodd ei anfon ar 17eg Tachwedd 2011.

Yr ydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr ymdrech a wnaed gan yr awdurdodau i baratoi a gwneud trefniadau ar gyfer y cynllun ar y cyd, ac am baratoi'r Cytundeb Cyflawni. Nòd Llywodraeth Cymru yw cael system gynllunio sydd â phwyslais ar y cynllun, gyda'r math newydd o gynlluniau wedi eu mabwysiadu'n swyddogol cyn gynted a bo modd.

O ganlyniad, yr wyf yn medru cadarnhau ar ran Llywodraeth Cymru fod y ddogfen â anfonwyd **wedi cael ei derbyn** fel y darperir gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Adran 63 (4) a Gorchymyn (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2005, ynghyd â Rheoliadau 3 a 9 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Mae'r cytundeb wedi ei seilio ar y rhagdybiaeth fod yr Arolygiaeth Gynllunio yn fodlon â'ch amserlen arfaethedig.

Gan fod y ddau awdurdod wedi ymrwymo i'r Cytundeb Cyflawni, disgwylir y bydd yn cael ei ddilyn yn gydwybodol. Bychan yw'r llithriad amser sydd wedi ei gynnwys a dylid osgoi newidiadau i'r amserlen.

Dylid deall bod y cytundeb hwn wedi ei wneud ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i'r ffaith mai hwn yw Cytundeb Cyflawni cyntaf Gwynedd a Môn ar y cyd, ac mai system newydd ddatblygol yw'r Cynlluniau Datblygu lleol a'r Cytundeb Cyflawni sy'n gysylltiedig â hwy.

Atodiad 6 – Rhestr o'r papurau Testun a Chefndir

Papur Testun 1	Asesiad Safleoedd Posib (2013)
Papur Testun 1A	Asesiad Safleoedd Posib – diweddariad (2015)
Papur Testun 1B	Asesiad Safleoedd Posib – Diweddariad (2016)
Papur Testun 2	Strategaethau a Chynlluniau Perthnasol (2015)
Papur Testun 2A	Strategaeth a Chynlluniau Perthnasol - Diweddariad (2016)
Papur Testun 3	Poblogaeth a Thai (2015)
Papur Testun 3A	Poblogaeth a Thai – Diweddariad (2016)
Papur Testun 4	Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol (2013)
Papur Testun 4A	Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol – diweddariad (2014)
Papur Testun 4B	Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol – diweddariad (2016)
Papur Testun 5	Datblygu'r strategaeth aneddleoedd (2015)
Papur Testun 5A	Datblygu'r strategaeth aneddleoedd – Diweddariad (2016)

Papur Testun 6	Astudiaeth Cynhwysedd Trefol (2015)
Papur Testun 7	Manwerthu (2013)
Papur Testun 8	Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (Lefel 1) (2013)
Papur Testun 8A	Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (Lefel 1) – Diweddariad (2016)
Papur Testun 9	Twristiaeth (2015)
Papur Testun 9A	Twristiaeth – Diweddariad (2016)
Papur Testun 10	Iaith Gymraeg a Diwylliant (2013)
Papur Testun 10A	Proffil Ieithyddol - Gwynedd (2014)
Papur Testun 10B	Proffil Ieithyddol - Ynys Môn (2014)
Papur Testun 11	Mwynau (2015)
Papur Testun 11A	Mwynau – Diweddariad (2016)
Papur Testun 12	Gwastraff (2015)
Papur Testun 13	Isadeiledd Cymunedol (Gwybodaeth Gwaelodlin) (2015)
Papur Testun 14	Asesiad Llecynnau Agored (2015)
Papur Testun 14A	Asesiad Llecynnau Agored - Diweddariad (2016)

Papur Testun 15	Trafnidiaeth (2015)
Papur Testun 15A	Trafnidiaeth - Diweddariad (2016)
Papur Testun 16	Llety Myfyrwyr (2015)
Papur Testun 17	Tai Marchnad Angen Leol (2015)
Papur Testun 17A	Tai Marchnad Angen Leol (2016)
Papur Testun 18	Adnabod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (2015)
Papur Testun 18A	Adnabod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – Diweddariad (2016)
Papur Testun 19	Proffiliau aneddleoedd (2016)
Papur Testun 20	Taflwybr Tai (2016)

Papur Cefndir	Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy (2013)
Papur Cefndir	Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy – diweddariad (2014)
Papur Cefndir	Astudiaeth Tir Cyflogaeth (2012)
Papur Cefndir	Astudiaeth Manwerthu Gwynedd a Môn (2013)
Papur Cefndir	Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig Gwynedd a Môn (2013)
Papur Cefndir	Strategaeth Tirwedd Gwynedd (Diweddariad 2012)

Papur Cefndir Strategaeth Tirwedd Ynys Môn (Diweddariad 2011)

Papur Cefndir Sgopio Cyfleoedd am Ynni Adnewyddadwy yng Ngwynedd (2012)

Papur Cefndir Astudiaeth Capasiti Ynni Adnewyddol Ynys Môn (2014)

Papur Cefndir Astudiaeth Tai ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn (2014)

Papur Cefndir Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd Gwynedd ac Ynys Môn: Rhagdybiaethau, methodoleg a chanlyniadau'r senarios (2014)

Papur Cefndir Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagolygon Llywodraeth Cymru sail 2008 a sail 2011 ar gyfer Gwynedd (2014)

Papur Cefndir Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagolygon Llywodraeth Cymru sail 2008 a sail 2011 ar gyfer Ynys Môn (2014)

Papur Cefndir Asesiad Risg Llifogydd Strategol Lefel 2 Porthmadog (2015)

Papur Cefndir Asesiad Risg Llifogydd Strategol Lefel 2 Hirael, Bangor (2015)

Atodiad 7 – Rhybudd Swyddogol ac Erthygl "Galw am Safleoedd"

CYNGOR SIR YNYS MÔN /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Gwynedd a Môn

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Galw am Safleoedd Posib

Mae Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. Mae Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) fydd yn adnabod tir i fodloni anghenion datblygu'r ardal am y 15 mlynedd nesaf.

Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC), ar ran Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, eisiau gwybod am safleoedd posib i'w datblygu neu i'w gwarchod o fewn ardal y CDLl ar y Cyd. Estynnir gwahoddiad ffurfiol i ddatblygwyr, tirfeddianwyr, Cynghorau Cymuned, aelodau'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb gyflwyno safleoedd fel safleoedd posib i'w cynnwys yn y cynllun. **Nodwch nad yw ardal y CDLl ar y Cyd yn cynnwys ardal Parc Cenedlaethol Eryri.**

Bydd y cyfnod Galw am Safleoedd Posib yn cychwyn ar **11 Hydref ac yn para am bedwar mis, hyd 13 Chwefror 2012. Rhaid llenwi ffurflen Safle Posib. Bydd gofyn i unrhyw un a gyflwynodd achos am safle posib yn ystod cyfnod galw am safleoedd posib y cyn CDLl Môn, gyflwyno'u hachos unwaith eto mewn perthynas â'r CDLl ar y Cyd.**

Nodwch y bydd yr holl Safleoedd Posib a gyflwynir yn cael eu cynnwys ar **Gofrestr Safleoedd Posib**, a bydd modd gweld y gofrestr hon ar y gwefannau a bydd copïau papur ar gael i'w darllen yn Neuadd y Dref, Bangor; Derbynfa'r Gwasanaeth Cynllunio, Pwllheli; ac yn Nerbynfa Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Rovacabin), Cyngor Sir Ynys Môn. **Mae'n bwysig nodi bod y broses o ystyried Safleoedd Posib yn un agored a thryloyw, felly, ni ellir ymdrin ag unrhyw achos a gyflwynir mewn modd cyfrinachol.**

Nodwch nad yw'r broses Safleoedd Posib gyfystyr ag ymrwymiad gan y Cynghorau i ddwyn safleoedd ymlaen i'r CDLl ar y Cyd.

Gweler gwybodaeth bellach a manylion ynghylch y meini prawf asesu ar gyfer y broses o ystyried safleoedd ar wefannau'r Cynghorau:
www.gwynedd.gov.uk/cofrestrsafleposib
www.ynysmon.gov.uk/cofrestrsafleposib

Fel arall, gallwch gysylltu â'r UPCC ar 01286 685002, neu anfon e-bost at polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

Anglesey and Gwynedd
Joint Planning Policy Unit

Joint Local Development Plan

Call for Candidate Sites

Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 places a duty on Local Authorities in Wales to produce a Local Development Plan. Gwynedd and Anglesey Councils are preparing a Joint Local Development Plan (JLDP) that will identify land to meet the area's development needs for the next 15 years.

The Joint Planning Policy Unit (JPPU), on behalf of Gwynedd Council and the Isle of Anglesey County Council, want to know about candidate sites for development or protection within the JLDP area. Developers, landowners, Community Councils, members of the public and other interested parties are formally invited to submit sites for potential inclusion within the plan. **Please note the JLDP area does not cover the Snowdonia National Park area.**

The Call for Candidate Sites period will start on the **11 October and will remain open for 4 months, until 13 February 2012. A Candidate Site form must be completed. Anyone who made a case for a candidate site during the former Anglesey LDP call for sites stage will need to make it again in relation to the JLDP.**

Please note all of the Candidate Sites submitted will be included on a **Candidate Site Register**, which will be available for inspection on the websites and paper copies will be made available for inspection in the Town Hall, Bangor, in the Planning Service Reception, Pwllheli, and in the Planning and Public Protection Reception (Rovacabin) of the Isle of Anglesey County Council. **It is important to note that the consideration of Candidate Sites is an open and transparent process, therefore submissions cannot be treated as confidential.**

Please note that the Candidate Sites process does not represent a commitment on the part of the Councils to take sites forward to the JLDP.

Further information and details about the assessment criteria for consideration of sites can be found on the Councils' website:
www.gwynedd.gov.uk/candidatesiteregister
www.anglesey.gov.uk/candidatesiteregister

Alternatively you can contact the JPPU on 01286 685002 or via email at planningpolicy@gwynedd.gov.uk

Dyddiad/Dated: 06.10.11

Aled Davies
Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd /
Head of Regulatory Department, Gwynedd Council

Jim Woodcock
Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn /
Head of Planning and Public Protection Service, Isle of Anglesey County Council

Atodiad 8 – Y Can Cyfranogi Cyn-Adnau – Ymateb y Grwpiau Rhanddeiliaid Swyddogol

1 Cyflwyniad

1.1 Rydym yn y cyfnod Cyfranogiad cyn Adneuo sydd ei angen o dan Rheol 14 o'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (2005). Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i greu startegaethau cynllunio amgen ac opsiynau ar gyfer datblygiad yn y dyfodol

1.2 Dyma'r grwpiau a gafodd sylw:

(i) Grwp Rhanddeiliaid Allweddol (traws ffiniol)
(ii) Grwp Tai (traws ffiniol)
(iii) Fforwm Pobl Hyn Gwynedd
(iv) Grwp Pobl Hyn (Llangefni & Amlwch)
(v) Llais Ni (Plant a Phobl Ifanc Mon)
(vi) Fforwm Plant a Phobl Ifanc – Gwynedd
(vii) Grwp Anabledd Craidd - Gwynedd
(viii) Grwp Prosiect CDLl – Gwynedd

Fe drefnwyd seminarau ar gyfer Cynghorwyr hefyd.

1.3 PMae Rhan 1 yr Atodiad yma'n rhoi sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cyfarfodydd y grwpiau uchod. Cafodd fformat y cyfarfodydd ei deilwra yn ol gofynion y grwpiau a'r amser a oedd ar gael i godi ymwybyddiaeth a thrafod materion.

1.4 Cafodd holiadur ei ddosbarthu gyda'r Ddogfen ymgysylltu Drafft a oedd yn gofyn i randdeiliaid roi barn am faterion, gweledigaeth, amcanion a'u hoff opsiwn twf tai a'r opsiwn dosbarthiad a welwyd yn y Ddogfen Ymgysylltu Drafft.

1.5 Mae'r ymateb i'r holiadur wedi cael ei grynhoi yn rhan 2 i'r Atodiad yma

1.6 Fe wnaeth rai sylwadau am faterion nad yw'n berthnasol i gynllunio. Bydd y sylwadau yma'n cael eu cyfeirio i'r Gwasanaethau perthnasol yn yr Awdurdodau. Fe wnaeth eraill sylwadau am faterion a gaiff sylw adeg mwy manwl yn y broses o baratoi'r CDLL ar y Cyd

1.7 Fe wnaeth y grwpiau a'r rhai gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig gyflwyno safbwyntiau amrywiol iawn. Nid yw'n syndod nad yw pob un o'r rhain yn gytun a'i gilydd. Fodd bynnag mae hi wedi bod yn bosib adnabod themau a dymunaidau cyffredin sydd wedi bod yn ddefnyddiol i adnabod materion, gweledigaeth, amcanion, opsiynau twf tai ac opsiynau dosbarthiad gofodol amgen.

RHAN 1

Dyma nodiadau o'r cyfarfodydd gyda gwahanol randdeilaid:

Grwp Rhanddeilaidi Allweddol a gafodd ei sefydlu'n unol a'r Cytundeb Cyflawni

Rhif Mater Allweddol	Crynhoad o'r Drafodaeth
1	**Hygyrchedd electronig –** mynediad i hwn yn hollol allweddol erbyn hyn, dylid fod yn bwynt ar ben ei hun.
6	**Tai –** Mae oed y stoc tai yn broblem oherwydd cyflwr ac ati.
12	**Bywiogrwydd Canol Trefi –** • Mae pentrefi mawr yn chwarae rôl bwysig mewn rhai ardaloedd ac fe ddylid cynnwys cyfeiriad tuag at rain hefyd. • Cafwyd trafodaeth rhwng beth yw dymuniad cyffredinol pobl ar gyfer lleoliad siopau yn erbyn rôl ganol trefi/pentrefi mawr. Y farn oedd bod cydbwysedd yn bwysig er mwyn gwarchod pobl sydd ond yn gallu mynd i ganol y dref yn enwedig os yw costau tanwydd yn cynyddu yn y dyfodol. • Lleoliad datblygiadau sydd yn bwysig ar gysylltiadau trafnidiaeth iddynt hefyd.
14	**Twristiaeth –** • Angen nodi budd economaidd sydd yn dod o dwristiaeth i'r ardal. • Credu fod angen ychwanegu iaith at y pwynt yma.
19	**Ynni -** Angen sicrhau fod cyfleoedd i ficro cynhyrchu ar lefel lleol yn bosib. Hefyd hybu ynni cynaliadwy yn ehangach e.e. diwydiant adeiladu.
20	**Gwastraff –** Angen ychwanegu rheoli gwastraff.
22	**Isadeiledd -** Nodi fod yn bosib fod yna prinder dŵr mewn rhai rhannau o'r ardal (buasai Dŵr Cymru efo mwy o wybodaeth).
Bwlch	**Cymunedau saff -** dim cyfeiriad tuag at hyn o fewn rhain er bod tudalen 5 o'r ddogfen yn cyfeirio tuag at "..Angen cymunedau diogel a saff...". Hefyd angen cyfeirio tuag at hyn yn y weledigaeth.
Bwlch	**Sgiliau'r gweithlu -** Angen sicrhau fod gan y gweithlu'r sgiliau priodol i fanteisio ar y cyfleoedd posib yn y dyfodol i gael budd tymor hir i'r ardal. Sicrhau na fyddai rhaid cael gweithlu o thu allan i'r ardal leol er mwyn gwireddu gweledigaeth Ynys Ynni / Gwynedd Gwyrdd a phrosiectau eraill. Cynnwys Wylfa B ynghyd a phrosiectau ynni bach eraill.
Bwlch	**Addysg -** Teimlo y dylid fod yna gyfeiriad tuag at bwysigrwydd Addysg Alwedigaethol yn y ddogfen.
Cyffredinol	Nodwyd fod angen ystyried fod sail yr ystadegau yn mynd i newid yn enwedig pan fydd ffigyrau cyfrifiad 2011 yn cael ei ryddhau - fe fyddai hynny'n efallai yn arwain at roi ffocws gwahanol i rai o'r gweledigaethau. Cyfeirwyd at wybodaeth fwy diweddar am amddifadedd.
Cyffredinol	Cyfeiriwyd at y ffaith fod angen cynllunio ar gyfer poblogaeth sydd yn heneiddio. Mae'n bwysig cael darpariaeth leol o gyfleusterau ynghyd a thrafnidiaeth gyhoeddus dda.

Gweledigaeth

- Fe ddylai'r weledigaeth ganolbwyntio ar alluogi pobl i fyw a gweithio yn yr ardal
- Yn bwysig canolbwyntio ar yr agenda werdd yn nhermau cyfleon gwaith
- Angen cyfeirio at gymunedau saff a diogel
- Yn bwysig bod yn gyson gyda chynlluniau darparwyr gwasanaethau
- Mae'r eirfa yn y pwynt bwled olaf yn negeyddol a holwyd ynglyn a'i gynnwys yn y weledigaeth

Amcanion Strategol

Pwynt 19 - Yn y fersiwn Saesneg dylid newid yr eirfa o "needs of minerals' i "needs for minerals".
Pwynt 20 - Mae parcio / rhannu ceir yn broblem yn yr ardal. Dylid ychwanegu cyfeiriad at 'man parcio strategol ar gyfer rhannu ceir'. Dylid yn ogystal cyfeirio at 'Cynllun Trafnidiaeth Cynaliadwy'
Pwynt 6 a 14 - Angen meddwl yn greadigol ynglŷn â defnyddiau ar gyfer band eang. Angen annog y syniad o weithio yn lleol i'r cartref, er enghraifft mewn unedau bychan diwydiannol.
Pwynt 1 - Mae hwn yn cyfeirio tuag at fannau mae pobl yn dymuno byw eto mae'r opsiynau dosbarthiad yn mynd yn groes i hyn.
Pwynt 4 - Teimlo fod hwn yn rhy eang ac efallai yn mynd yn ehangach na chynllun defnydd tir yn benodol y cyfeiriad tuag at "lliniaru eu hofnau ynglŷn â throseddu".
Pwynt 8 – Hwn yn nod uchelgeisiol ofnadwy ac efallai yn well mewn Cynllun Cymunedol.

Opsiynau twf

- Angen sicrhau bod yr opsiynau twf yn gynaliadwy
- Yn bwsig sicrhau y gall pobl ifanc gael mynediad i wahanol fathau o lety sydd wedi cael eu lleoli mewn mannau sy'n gyfleus i fannau gwaith
- Angen sicrhau bod opsiynau twf yn hwyluso cyfleon am dai fforddiadwy angen lleol oherwydd y diffyg cyflenwad presennol a chyflogau isle sydd yn yr ardal
- Angen ystyried effaith Wylfa, yn arbennig yn nhermau rhoi llety i adeiladwyr dros gyfnod gymhaol fyr. Cyfeirwyd at astudiaeth arfaethedig a fyddai'n edrych ar fodelau ymarferol i ddarparu'r llety angenrheidiol
- Fe fydd datblygiadau isadeiledd mawr yn darparu cyfleon euraidd i gael sgiliau'n gysylltiedig a thechnegau adeiladu cynaliadwy
- Pwysig rhoi sylw i dai gwag wrth adnabod ffigyrau – angen hyrwyddo ail-ddefnyddio tai
- Angen cynhwyso rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd yn ofalus gan eu bod nhw'n adlewyrchu tueddiadau diweddar
- Fe ddylai'r opsiwn twf fod yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gydag amgylchiadau gwahanol
- Pwyslais ar gael tystiolaeth digonol i wneud penderfyniad gwybodus

<u>Opsiynau dosbarthiad gofodol</u>

- Cefnogwyd datblygiad du allan i'r canolfannau er mwyn cefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant mewn cymunedau gwledig
- Angen gallu ymateb i anghenion y dyfodol a bod yn hyblyg

Cyfnod Cyfranogiad Cyhoeddus Gaeaf 2011/12

Fforwm Pobl Hyn Gwynedd

Canolfan Gymunedol, Porthmadog

9 Rhagfyr 2011

Swyddogion yn bresennol: Heledd Hughes a Nia Davies (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd)

Y Grwp:

1. **Cyflwyniad**

Rhoddwyd cyflwyniad byr i'r grwp gan ddefnyddio sleidiau er mwyn:

- Rhoi gwybodaeth am yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Nodi beth yw'r broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd a'r amserlen
- Rhoi gwybod sut allai'r Grwp gyfrannu i'r broses
- Rhoi gwybod am y materion sydd wedi cael eu hadnabod
- Awgrymu gwahanol lefelau twf tai allai fod ei angen yn yr ardal
- Awgrymu posibiliadau am ddosbarthu twf.

Cyfeirwyd at yr amserlen ar gyfer cyflwyno sylwadau a sut i wneud hynny. Gofynwyd am farn dechreuol gan y grwp am faterion sydd yn eu barn nhw angen eu taclo, faint o unedau tai sydd eu hangen a sut i'w dosbarthu.

2. **Materion**

- Parcio ar strydoedd yn creu problemau
- Amserlenni bysus ddim yn hwylus pob tro
- Lleoliad llefydd aros am fysus yn anghyfleus – cyfeirwyd yn bendodol at leoliad lle aros am fysus yn Ysbyty Gwynedd – trefniant dros dro oedd o i fod
- Eiddo gwag a chyfleon i wneud defnydd amgen ohonynt, e.e. fel unedau preswyl, yn cael eu colli
- Rheoli argaeledd a meddianaeth tai fforddiadwy – angen edrych ar eiriad Cytundebau 106
- Gwastraff – gormod yn cael ei greu, diffyg cyfleon i algylchu pob math o wastraff, dulliau o gasglu gwastraff
- Siopau gwag yng nghanol trefi – creu argraff wael a diffyg argaeledd siopau sy'n hawdd i'w cyrraedd i bawb
- Safleoedd cyflogaeth yn cael eu creu ond yn aros yn wag am hir iawn – a oes eu hangen?
- Llefydd yn cael eu hanwybyddu – cyfeirwyd at lefydd ger afonydd a nentydd mewn trefi a gerllaw nhw
- Colli cyfleusterau cyhoeddus fel toiledau – effaith ar gymunedau ac ymwelwyr

3 **Lefelau twf tai a lleoliad**

- Waeth faint o dai gaiff eu hyrwyddo, mae'n bwysig cael yr amrwyiaeth cywir o fathau o dai o ran daliadaeth (marchnad agored a cymdeithasol), math (byngalos, llety preswyl pobl hyn)
- A oes angen mwy o dai newydd gan fod llawer o dai ar werth a thai gwag o gwmpas y lle
- Cyfeirio mwy o dai i Fangor
- Ystyried effaith y Brifysgol ar argaeledd unedau tai i deuluoedd a phobl eraill sydd angen tai parhaol
- Ystyried effaith tai haf a gwyliau wrth benderfynu faint o dai a'u lleoliad nhw
- Angen llenwi swyddi gwag

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn
Cyfnod Cyfranogiad Cyhoeddus Gaeaf 2011/12

Cyfarfod Pobl Hyn Môn

Neuadd yr Eglwys, Llangefni

8 Rhagfyr, 2011

Presennol - Roedd yna 5 person yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd yr unigolion hyn yn aelodau o grŵp Pobl Hyn Llangefni.

Ymddiheuriadau - Dim i'w nodi

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan bwysleisio ei fod yn bwysig fod aelodau o'r cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses.

2. Trafodaeth

Agorwyd y drafodaeth er mwyn derbyn gwybodaeth gan aelodau'r grŵp ynglŷn â pha faterion sydd yn ei boeni nhw. Roedd rhai o'r materion a godwyd fel a chanlyn:-

- Canran o ddatblygiadau tai angen cael eu dynodi ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol (yn debyg i bolisïau tai fforddiadwy).
- Angen dynodi cartrefi lloches yn y Cynllun Datblygu
- Gwasanaeth bysiau mewn ardaloedd gwledig
- Canllaw Cynllunio Atodol ar gartrefi lloches a chartrefi i'r henoed.
- Mae yna angen polisi yn y CDLl ar y Cyd ar anghenion yr henoed (anghenion cartrefi lloches, cartrefi'r henoed ayyb)
- Cymunedau caeedig ar gyfer pensiynwyr.
- Cefnogaeth ar gyfer Age Cymru.
- Dylai cymdeithasau adeiladu a datblygwyr preifat ddarparu adeiladau llai eu maint ar gyfer pensiynwyr.
- Dim digon o dai yn y lleoliadau cywir.
- Dim digon o siopau bychan yn ŷ pentrefi.
- Tai - dylid mewngorffori byngalo (2 ystafell wely) i mewn i bob datblygiad tai. Sydd wedi ei ariannu yn breifat neu gan y Cyngor.

- Prisiau yn bygwth dyfodol stondinau marchnad - Llangefni i fod yn dref marchnad!!
- Siopau gwag yn y trefi.
- Gormod o wastraff yn cael ei greu.
- Pobl ifanc yn gadael yr ardal
- Fflatiau gwag, ayyb, Cyngor yn eu gadael yn wag am gyfnodau hir pan fod yna alw ar gyfer llety.
- Mwy o fusnesau bach (siopau) digonedd o lefydd trin gwallt a llefydd bwyta ar gael.
- Gwella marchnadoedd a chefnogi mwy o fasnachwyr.
- Cefnogi Age Cymru gan ei fod o fantais fawr i gymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd pellennig, ble mae yna fygythiad iselder. Mae integreiddio yn eithriadol o bwysig.
- Gormod o dai mawr yn cael ei adeiladu. Cyplau ifanc ddim hefo gobaith o gael tai.
- Siopau gwag / fflatiau gwag.
- Cartrefi lloches – angen ar gyfer mathau arbennig o dai i fathau arbennig o bobl.
- Wylfa - hyfforddi pobl leol er mwyn cystadlu am swyddi.
- Diffyg bysiau o 2-5 yn y pentrefi. Dylid cael bws ar gyfer 7 person.
- Car Link Môn.
- Twristiaeth – llwybrau beicio.
- Dim digon o lefydd chwarae yn yr ardal.
- Angen band eang ansawdd da ar gyfer busnesau.

3. Dosbarthiad tai

Roeddem yn awyddus i wybod os oedd aelodau'r grŵp yn credu y dylid datblygu tai mewn ardaloedd trefol yn unig, yntau y dylid cael cymysgedd o ddatblygiadau tai mewn ardaloedd trefol a gwledig. Roedd y farn yn unfrydol y dylid dosbarth datblygiadau tai i'r lleoliadau trefol a gwledig yn hytrach na lleoli yn yr ardaloedd trefol yn unig.

4. Ffigyrau Tai

Mae yna nifer o opsiynau gwahanol o ran y niferoedd dai y bydd angen ei ddatblygu yn ystod oes y Cynllun. Cyflwynwyd yr opsiynau hyd i aelodau'r grŵp. Wedi trafodaeth, penderfynwyd y dylid cael cydbwysedd o ran y ffigyrau tai, gan gael cyfartaledd o'r cyfanswm yr holl opsiynau.

Cynllun Datblygu Lleo ar y Cyd Gwynedd & Môn
Cyfnod Cyfranogiad Cyhoeddus (Gaeaf 2011/12)

Cyfarfod Pobl Hyn Môn

Neuadd Goffa, Amlwch

23 Ionawr 2012

Presennol - Roedd yna 20 o bobl yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd yr unigolion hyn yn aelodau o grŵp Pobl Hyn Amlwch.

Ymddiheuriadau - Dim i'w nodi

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan bwysleisio ei fod yn bwysig fod aelodau o'r cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses.

2. Trafodaeth

Agorwyd y drafodaeth er mwyn derbyn gwybodaeth gan aelodau'r grŵp ynglŷn â pha faterion sydd yn ei boeni nhw. Roedd rhai o'r materion a godwyd fel a chanlyn:-

- Siopau yn cau yn dref yn dilyn i lai o ddewis a cystadleuth prisiau
- Mae yn rhatach i wneud prif siopa yn Gaergybi neu Fangor yn hytrach na Amlwch
- Gofynion am cyfleusterau cymunedol gwell
- Pryderu am golli'r siop fferyllydd yn y dref, er bod y fferyllfa yn y Ganolfan Meddygol. Mae hyn wedi achosi llai o ddewis mewn taclau molchi ayyb.
- Dirywiad yn Farchnad Amlwch yn y blynyddoed diwethaf, pris stondin yn £15 – yn profi i fod yn rhy ddrud
- Awgrym i gael Marchnad dan do
- Yn bryderus ynglyn a darparu cynllun ar ddau ardal ACLl a'r pellter sydd yn ymglymedig i fynychu cyfarfodydd.
- Pryderus am gwasanaeth bws anaml a'r costau teithio
- Awgrym gwneud mwy o ddefnydd o bwsys bychan
- Costau tacsi yn ddrud
- Mae niferoedd o siopa a tai gwag yn Amlwch yn uchel
- Nifer wedi mynegi ddiddordeb i cyfle i symud i fath o lety cysgodol gyda cyfleusterau (prynu, rhan brynu / rhent, rhan o rent)
- Ffafrio tai unllawr yn hytrach na fflatiau / tŷ fflatiau
- Yn bryderus am Pwll Nofio Amlwch yn cau – mae yn ganolfan brysur
- Awgryniad i symyleiddio prisiau yn hytrach yn gorfod talu swm wahanol am wahanol weithgareddau
- Dim digon o gweithgareddau i bobl ifanc. Mae yn ddau clwb ieuencit yn Amlwch ond dim digon o arweinwyr.
- Band llydyn yn araf sydd yn creu anfanteision i busnesau bychan.
- Yn bryderus ynglyn a nifer a maint o gynigion twrbeini gwynt sydd yn creu niwed i olygfeydd hardd
- Yn gyffredinol cefnogaeth i Wylfa B oherwydd fydd yn creu swyddi.
- Yn bryderus fydd yna ddim cyngion gwaith i bobl leol
- Dylir meddianu tai gwag cyn adeiladu tai newydd
- Yn bryderus am ysgolion yn cau

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn
Cyfnod Cyfranogiad Cyhoeddus Gaeaf 2011/12

Llais Ni Môn

Cae Sioe Mona

15 Rhagfyr, 2011

Presennol – Roedd 6 person yn bresennol yn y cyfarfod a oedd yn cynnwys unigolion o Ysgolion Uwchradd y sir ynghyd a Choleg Menai.

Ymddiheuriadau – Dim i'w nodi

1 Cyflwyniad

Cyflwynwyd y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd iddynt ac yna fe agorwyd trafodaeth mewn perthynas â pha faterion sydd yn eu poeni nhw.

2. Trafodaeth

Roedd y materion a godwyd fel a chanlyn:-

Trafnidiaeth

- Trafnidiaeth gyhoeddus
- Angen gwella bysiau – ddim ar amser
- Gwasanaeth bysiau ddim yn ddibynadwy
- Dim digon o drafnidiaeth gyhoeddus
- Dim digon o lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus
- Angen llwybrau ar gyfer beics
- Mewn lleoliadau gwledig mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gallu cymryd amser hir.

Cyfleusterau

- Angen Canolfannau Hamdden
- Angen sinema ar Ynys Môn
- Angen datblygu mathau eraill o gyfleusterau hamdden sydd ddim yn cynnwys canolfannau hamdden.
- Angen gwasanaethau lleol
- Angen mwy o siopau

Tai

- Prisiau tai yn uchel
- Angen tai newydd yn Ynys Môn
- Tai yn ddrud - sut mae posib cadw pobl leol ar yr Ynys
- Unigolion yn cael blaenoriaeth dros bobl sydd yn gweithio'n galed
- Angen tai i bobl leol. Ystyried datblygiadau tai i'w rannu gyda phobl eraill ar rent

Swyddi

- Angen mwy o swyddi – dim digon o swyddi ar gael i drigolion yr ynys
- Sut mae posib cael swyddi da hefo cyflogau da heb gael effaith ar lefydd.
- Diffyg swyddi llawn amser
- Diffyg swyddi heriol/diddorol
- Datblygiad Wylfa B yn mynd i ddod a chyfleon

Cyrsiau

- Angen cyrsiau sydd yn galluogi pobl i gael sgiliau yn yr ysgol/addysg uwch, e.e. cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch, diogelwch tan
- Coleg Menai wedi datblygu llawer iawn yn ddiweddar. Oes angen datblygiad pellach?
- Angen fwy o gyrsiau yn y colegau/prifysgol

Twristiaeth

- Dim byd yn atynnu pobl i'r Ynys
- Diffyg marchnata o'r Ynys
- Angen marchnata ar y cruise ships
- Angen defnyddio nature er mwyn denu pobl
- Gemau'r Ynysoedd - Angen i Ynys Môn ei gynnal ond ddim cyfleusterau ar gael

3. Lle hoffech fyw?

Gofynnwyd i'r unigolion nodi ar dabl lle yr oeddem yn dymuno byw yn y dyfodol. Roedd y canlyniad fel a ganlyn:-

Caergybi	
Amlwch	
Llangefni	
Bangor	
Caernarfon	✓
Porthmadog	✓
Pwllheli	
Tref arall ym Môn / Gwynedd	
Pentref arall ym Môn / Gwynedd	✓ (Llannerch-y-medd)
Cefn gwlad Môn /Gwynedd	
Caerdydd	✓
Rhywle arall yng Nghymru	✓
Lloegr	
Rhywle arall	✓ (Awstralia)

4. Lle dylid datblygu tai

Roeddem yn awyddus i wybod os oedd aelodau'r grŵp yn credu y dylid datblygu tai mewn ardaloedd trefol yn unig, yntau y dylid cael cymysgedd o ddatblygiadau tai mewn ardaloedd trefol a gwledig. Roedd y farn yn unfrydol (6 - 0) y dylid dosbarth datblygiadau tai i'r lleoliadau trefol a gwledig yn hytrach na lleoli yn yr ardaloedd trefol yn unig.

Presennol - Roedd yna 13 person yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd yr unigolion hyn yn aelodau o grŵp Pobl Hyn Llangefni.

Ymddiheuriadau - Dim i'w nodi

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ac yna fe agorwyd y drafodaeth er mwyn derbyn barn ynglŷn â pha faterion oedd yn eu poeni nhw.

2. Trafodaeth

Roedd yr ymatebion a derbyniwyd yn cynnwys:-

Defnydd Tir

- Angen gwneud defnydd da o dir
- Coedwigoedd wrth ochr trefi/tai yn rhwystro datblygiad pellach

Swyddi

- Dim swyddi ar gael
- Angen mwy o swyddi

Trafnidiaeth

- Angen ail osod wyneb ar lonydd cefn - mewn cyflwr gwael
- Angen golau stryd well
- Gwell trefn ar y system byses drafnidiaeth gyhoeddus
- Diogelwch ffyrdd. Awgrymu gosod drychau ar ffyrdd peryglus
- Angen biniau grit halen mewn lleoliadau gwledig

.**Tai**

- Dim Tai. Dim Pres. Dim Tir
- Angen adeiladu tai ar gyfer mwy o bobl
- Methu fforddio prynu tŷ gan nad oed yna swyddi ar gael
- Diffyg tai ym Mlaenau Ffestiniog

Cyfleusterau

- Angen parc gwell
- Angen clwb/canolfan ieuenctid sydd ar agor i bobl ifanc bob nos, tynnu pobl ifanc oddi ar y strydoedd
- Diffyg adloniant – sinema a llefydd bowlio.
- Gwell neuadd bentref
- Angen siop yn Mynydd Llandygai
- Cyngor angen helpu cael siop yn Nhregarth
- Eisiau mwy o siopau yn y pentrefi bach
- Angen siopau mwy o faint.

Dosbarthiad tai

Holwyd os oeddynt o'r farn y dylai tai gael eu dosbarthu yn bennaf i leoliadau trefol yntau a ddylid eu dosbarthu i'r ardaloedd pentrefol a gwledig. Roedd 8 o blaid dosbarthu tai i'r lleoliadau trefol a gwledig a 3 o blaid dosbarth i leoliadau trefol yn unig.

3. Lle hoffech fyw?

Gofynnwyd i'r unigolion nodi ar dabl lle yr oeddem yn dymuno byw yn y dyfodol. Roedd y canlyniad fel a ganlyn:-

Bangor	✓
Caernarfon	
Pwllheli	✓
Porthmadog	
Dolgellau	
Bala	
Caergybi	
Amlwch	
Llangefni	
Tref arall yng Ngwynedd / Môn	
Pentref yng Ngwynedd / Môn	✓✓✓ Bethesda / Mynydd Llandygai
Cefn gwlad Gwynedd / Môn	✓✓
Caerdydd	✓✓
Rhywle arall yng Nghymru	
Lloegr	✓
Rhywle arall	✓✓✓ Efrog Newydd x 3

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn
Cyfnod Cyfranogiad Cyhoeddus Gaeaf 2011/12

Grŵp Craidd Anabledd

Canolfan Hamdden Porthmadog

12 Rhagfyr, 2011

Presennol – Roedd yna 8 person yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheuriadau - Dim i'w nodi

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol iddynt ac yna fe agorwyd y drafodaeth er mwyn derbyn gwybodaeth mewn perthynas â pha faterion sydd yn eu poeni hwy.

2. Trafodaeth

Roedd y prif negeseuon o'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Siopau gwag yn y trefi – pawb yn dueddol o fynd i siopa yn yr archfarchnadoedd sy'n golygu fod siopau bach yn cael eu gorfodi i gau.
- Angen mwy o gyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig. Diweithdra'n golygu fod pobl ifanc yn fwy tebygol o allfudo.
- Mae angen denu cwmnïau sy'n cynhyrchu nwyddau bach o werth uchel i'r ardal.
- Mae angen hybu'r diwydiant twristiaeth.
- Angen i dai newydd fod yn hygyrch e.e. lleol, drysau llydan. Mae'n bwysig eu bod yn dai gydol oes mewn amgylchedd diogel.
- Pobl ifanc yn allfudo oherwydd bod prisiau tai mor uchel ac o ganlyniad mae'r iaith Gymraeg yn cael ei effeithio'n andwyol. Mae angen mwy o dai fforddiadwy i bobl ifanc lleol.
- Ansawdd tai gwael mewn rhai mannau. Rhai pobl yn hollol ddibynnol ar gyflenwad trydan.
- Angen cyflenwad tai sy'n addas ar gyfer pobl hŷn.
- Trafnidiaeth – nid yw gwasanaethau bysus yn ddigon hygyrch.
- Tlodi tanwydd (fuel poverty) yn broblem e.e. prisiau olew yn cynyddu. Hyn yn debygol o effeithio ar dai sydd mewn ardaloedd gwledig yn ddibynnol ar olew i gynhesu eu tai. Mae angen tai sy'n fwy effeithiol o ran ynni.
- Melinau gwynt - dim llawer o wynt yn yr ardal ond digon o ddŵr. Beth am fwy o olwynion dŵr i gynhyrchu ynni?

Arall

- Mae angen ymgorffori'r gair 'diogel' yn y papur opsiynau pan sonnir am ansawdd bywyd.

3. Dosbarthiad tai

Roeddem yn awyddus i wybod os oedd aelodau'r grŵp yn credu y dylid datblygu tai mewn ardaloedd trefol yn unig, yntau y dylid cael cymysgedd o ddatblygiadau tai mewn ardaloedd trefol a gwledig. Roedd y farn o'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Mae'n bwysig ymgynghori â phentrefi.
- Byddai canolbwyntio ar ddatblygu yn y trefi yn lleihau'r dewis o symud i fyw i'w wlad.
- Mae angen cydbwysedd. Cytunwyd mai Opsiwn Dosbarthiad Cymesur Gwledig a Threfol yw'r gorau.

4. Ffigyrau Tai

Mae yna nifer o opsiynau gwahanol o ran y niferoedd dai y bydd angen ei ddatblygu yn ystod oes y Cynllun. Cyflwynwyd yr opsiynau hyd i aelodau'r grŵp. Wedi trafodaeth, penderfynwyd ei fod yn anodd rhagweld beth fydd yn digwydd yn y dyfodol – llawer yn dibynnu ar dyfiant yn yr economi.

Intec, Parc Menai, Bangor

17 Ionawr 2012

Prif faterion

- Cynnig fod angen nodi fod anghenion tai yn wahanol mewn gwahanol leoliadau.
- Cysylltiad gyda oedran y boblogaeth. Disgwyliad am gynnydd mawr yn y boblogaeth yr oedrannau 60 + a 85+ fydd yn effeithio ar y math o stoc sydd ei angen.
- Angen sicrhau fod yna gysylltiad efo strategaeth gofal y ddau Gyngor ar gyfer ystyried anghenion tai.
- Mae'r ardal yn cael ei effeithio gan allfudiad o bobl ifanc.
- Effaith iselhau mewnfudo ar yr angen i ddatblygwyr baratoi tai fforddiadwy yn yr ardal.
- Effaith polisïau'r Parc Cenedlaethol ar ardaloedd cyfagos yng Ngwynedd.
- Tanfeddiannaeth o'r stoc bresennol yn fater arall i'w ystyried.
- Dylid ystyried grwpio'r materion fesul pynciau penodol.
- Cymhwyso gofynion Cytundebau 106.

Gweledigaeth

- 5ed Pwynt bwled - ddim yn siŵr am yr eirfa "ymdopi â newid hinsawdd" gwell fuasai defnyddio geirfa megis "gallu byw a gweithio yn gynaliadwy".
- Tra'n cyfeirio tuag at gymunedau bywiog, nid oes cyfeiriad tuag at gryfhau sail economaidd (h.y. bod yn 'lewyrchus').

Amcanion strategol

- Mae'r eirfa "lle mae pobl yn dymuno byw" ychydig bach yn gamarweiniol gan fod yna gyfyngiadau o ran rhai llefydd.
- Codwyd y pwynt fod yna gyfeiriad penodol tuag at boblogaeth yn heneiddio ond dim cyfeiriad penodol tuag at boblogaeth ifanc. Fe all hyn weithio yn erbyn amcan o greu lle bywiog i bobl ifanc.
- Angen dadansoddi gwahaniaethau rhwng gwahanol ardaloedd yn y ddwy Sir. Nodwyd fod ardal y Cynllun yn ardal ddearyddol fawr ac na ddylid cael ymagwedd cyson ar gyfer yr holl ardal.
- Angen cael y defnydd gorau o'r stoc tai presennol. Hyn ddim yn digwydd ar hyn o bryd.
- Rhaid bod yn ofalus nad yw cymunedau llai yn colli allan ar y cyfle i gael tyfiant yn y dyfodol. Dylid gwella'r mynediad iddynt yn hytrach na chyfyngu cyfleoedd yno.
- Pwysigrwydd cael cyfleoedd gwaith mewn ardal ar gyfer galluogi pobl i fforddio tai fforddiadwy. Cyswllt yma gyda hygyrchedd – os nad oes gwaith, pobl methu fforddio tai.
- Pwysig buddsoddi mewn T.G. er mwyn ehangu ar gyfleoedd i bobl weithio o adref.
- Angen hyblygrwydd ar gyfer anghenion tymor byr gweithlu (e.e. adeiladu gorsaf bwer posib yn Wylfa) ac anghenion poblogaeth leol yn y tymor hir.
- Teimlo fod y ddogfen yn defnyddio'r gair 'tai' ar gyfer 'Houses' ac 'Housing' a theimlo buasai'r gair 'cartref' yn well

Twf tai ac opsiynau dosbarthu

- Pwysig rhoi sylw i nifer yr ymrwymiadau presennol a sut mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu yn yr ardal. Cydnabuwyd fod hyn yn ffactor pwysig i'w ystyried wrth asesu sut i gyfarfod gyda'r lefel angen mewn gwahanol aneddleoedd.
- Neges o ymchwiliad Dinbych yw ei bod yn bwysig ymgynghori efo cymunedau unigol ar gyfer ei hanghenion hwy. Gwerth mynd allan a gofyn i wahanol gymunedau beth maent eisio tua'r dyfodol.
- Gellir dadlau fod rhai opsiynau ddim yn cyd-fynd â'r weledigaeth.
- Ffigyrau a nodir yn opsiwn T4 yn ymddangos yn isel wrth ystyried effaith posib Wylfa a datblygiadau cysylltiol.
- Opsiwn 4 i'w weld yn negyddol iawn i gymunedau gwledig.
- Ystyriaeth o ran y gallu i ddarparu'r unedau preswyl mewn mannau gwledig ('deliverability').
- Mae trydydd paragraff yn opsiwn D2 yn cyfeirio tuag at yr ardal dylanwad. Teimlir nad oes fawr o aneddleoedd y tu allan i'r ardal yma.
- Cwestiynwyd os yw'r lefel tai o dan opsiwn T2 yn realistig. Cydnabuwyd fod yn rhaid rhoi ystyriaeth i gyfyngiadau ffisegol a capasiti adeiladu wrth ystyried yr opsiynau.
- Os eisiau datblygu, rhaid sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael yn yr anheddle e.e. ysgol.
- Yn y dyfodol efallai bydd mwy o bobl yn rhentu gan mai problem ar hyn o bryd yw cael blaendal ar gyfer morgais. Gweld newid yn y dyfodol efo cytundebau rhentu tymor hir (3 neu 5 mlynedd). Y math o dai mae pobl eisio ei rentu yn wahanol i dai i'w brynu e.e. dim angen gerddi mawr.
- Teimlo nad yw opsiwn D2 yn gyson hefo amcanion y Cynllun, ond fod opsiwn D3 yn agosach ati.
- Pwyslais yn opsiwn D1 & D2 ar y canolfannau mawr felly effeithio ar gymunedau gwledig.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn
Cyfnod Cyfranogiad Cyhoeddus Gaeaf 2011/12

Seminar Cynghorwyr Mon

Siambr y Cyngor, Llangefni

25ain Tachwedd 2011

Materion

Materion Strategol Allweddol	**Sylw**
4. (Poblogaeth yn Heneiddio)	Yn debygol o gynyddu tua'r dyfodol. Angen sicrhau fod Betsi Cadwaladr yn rhoi mewnbwn i'r Cynllun.
6. (Anghenion Tai)	Cytuno gyda'r angen am dai ond yn poeni fod yna ormod o bwyslais tuag at drefi yn hytrach na Chefn Gwlad. Eisio sicrhau fod yna gymunedau bywiog yn cael eu cadw yn y cefn gwlad.
8. (Iechyd)	Gan mae cynllun defnydd tir yw hwn ddim yn sicr faint o rôl sydd gan y cynllun yn y maes yma.
9. (Tir Cyflogaeth)	• Angen sicrhau fod yna safle mawr ar

Materion Strategol Allweddol	Sylw
	gael ar gyfer anghenion cyflogaeth i'r dyfodol. • Mae angen sicrhau fod buddsoddiad yn dod i Gaergybi ac Amlwch a ddim rhoi'r holl fuddsoddiad ym Mangor.
10. (Parc Cenedlaethol Eryri)	Angen sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei roi i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar Ynys Môn yn ogystal ar Barc Cenedlaethol.
13. (Amddifadedd)	Mae yna ardaloedd gwledig efo amddifadedd e.e. Rhosyr sydd hefyd efo llawer o ddynodiadau yn yr ardal. Angen sicrhau fod gwahanol asiantaethau yn rhoi mewnbwn i'r broses i sicrhau gwelliant i'r fath ardaloedd.
14. (Twristiaeth)	• Hwn yn sector bwysig yn yr ardal ac angen sicrhau fod darpariaeth briodol yn cael ei wneud i ymwelwyr. • Angen pwysleisio pwysigrwydd treftadaeth forol.

Gweledigaeth

Mater	Sylwadau
Iaith Gymraeg	• Tra bod angen ei gryfhau mae angen dallt beth maen ei olygu o ochr busnes. • O bosib bydd pwyslais gwahanol rhwng Môn a Gwynedd. • Fodd bynnag fe ategwyd mantais gweithlu aml ieithyddol ac fe ddylid edrych ar yr iaith fel mantais.
Twristiaeth	• Poeni nad yw'r Ynys yn manteisio digon o gychod mordaith foethus sydd yn ymweld ar ardal. • Y sialens yw creu cyfleoedd ac anogi ddatblygiadau er mwyn cadw ymwelwyr ar yr Ynys.
Realistig	• Teimlo fod y Weledigaeth yn rhy wtopian ac felly yn beryg o fethu. • Onid fuasai yn well canolbwyntio ar rhai pethau? • Rhai o'r pethau yn faterion cenedlaethol a thu allan i reolaeth y Cyngor a'i phartneriaid.
Cyflogaeth	• Ddim yn cyfeirio tuag at Dwristiaeth, hefyd yn enwi rhai meysydd onid fuasai yn well cyfeirio tuag at feysydd cryf yn hytrach nai enwi nhw?

Amcanion

Amcanion Strategol Posib	Sylw
1. & 2. (Tai)	• Angen darparu tai yn lle mae pobl eisio byw a bod yn fwy hyblyg i rywun lleol. • Tŷ 2 stafell wely ddim yn ddigonol agen arweiniad yn y cynllun i sicrhau nad yw tai rhy fach o ran maint yn cael eu codi. • Pwysig dod a Thai Gwag yn ôl i mewn i ddefnydd.
8. (Graddedigion)	• Fe ddylid hefyd cyfeirio tuag at fentrwyr yn yr amcan yma.
9. (Canol Trefi)	• Angen diffinio beth yr ydym yn ei olygu efo 'bywiog a bwrlwmus'.
12. (Ynni Adnewyddol)	• Gallu cynnwys ynni niwclear o fewn hwn. • Yr awdurdod yn gorfod delio hefo cymaint o geisiadau trybini gwynt ar hyn o bryd.
15. & 16. (Tirwedd & Bioamrywiaeth)	• Tra bod cael gwaith yn bwysig rhaid sicrhau fod yr amgylchedd yn cael ei warchod.
19. (Mwynau)	• Ddim yn hollol glir beth mae'r amcan yma yn ceisio ei gyflawni.

Opsiynau Twf a Dosbarthiad

- Yn gyffredinol yn ffafrio opsiwn 3a sef Dosbarthiad efo mwy o bwyslais ar yr ardaloedd Gwledig.
- O ochr llygredd mae canoli popeth yn gallu arwain at fwy o lygredd o geir ond derbyn fod angen 'critical mass' ar gyfer rhai pethau hefyd.
- A ddylid dewis gwahanol opsiynau onid yw'n bosib cyfarfod ag anghenion pawb?
- Cwestiynu rôl Amlwch fel prif ganolfan os yw cyfleoedd gyflogaeth ar hyd yr A55.
- Angen cymryd i ystyriaeth y nifer mawr o ganiatâd cynllunio presennol mewn ardal wrth edrych ar lefel twf i'r dyfodol.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn
Cyfnod Cyfranogiad Cyhoeddus Gaeaf 2011/12

Seminar Cynghorwyr Gwynedd

Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon

5 Rhagfyr 2011

Materion

- Dim cyfeiriad yn y rhestr at dai haf. Pryder mewn rhai cymunedau bod gormod o dai haf yno.
- Trosi eiddo i dai mewn amlfeddiannaeth yn arwain at broblemau cymdeithasol mewn trefi, yn enwedig felly ym Mangor.
- Problem o ran y ffaith fod fflatiau'n cael eu datblygu yn y prif ardaloedd siopa e.e. pan fo siopau a banciau yn cau.
- Diffyg cyfleusterau adloniant i bobl ifanc.

- Diffyg gwaith i bobl ifanc. Gormod o ddibyniaeth ar dwristiaeth.
- Angen darparu rhagor o randiroedd.
- Nid yw'r gair 'cadwraeth' yn ymddangos yn y rhestr. Nodir bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd e.e. Afon Menai.
- Cyfle i fod yn heriol ac yn wahanol i'r hyn a nodir yn y polisi/canllawiau cenedlaethol.

Gweledigaeth

- Materion o ran ynni niwclear/Wylfa. Cyfeirio at y sector 'ynni' a dileu'r gair 'niwclear' o'r rhestr?
- Effaith ar y farchnad dai yng Ngwynedd os bydd Wylfa yn cael ei ddatblygu. Byddai hefyd yn creu cyfleon cyflogaeth, ond yn deall fod y pwnc hwn yn un sensitif.

Amcanion

- Pwynt 12 – Ychwanegu cyfeiriad at 'baneli solar', 'ynni o donnau' a 'pŵer trydan dŵr', fel agweddau i'w hybu.

Opsiynau twf a dosbarthiad

a) Nifer o unedau tai

- Mae nifer y plant yng Ngwynedd yn lleihau ac mae nifer y bobl hŷn yn cynyddu. Cwestiwn o ran os oes angen tai newydd o gwbl?
- Pwysig ystyried y caniatadau cynllunio byw ar gyfer tai.

b) I ble ddylai'r tyfiant fynd?

- Cyfyngiadau o fewen rhai aneddleoedd i ymdopi efo mwy o ddatblygu.
- Angen sicrhau bod cyfleon cyflogaeth a.y.b. yn yr aneddleoedd ble ystyrir rhoi tai.
- Dylid cyflwyno opsiwn 3 ('Dosbarthiad Cymesur Trefol a Gwledig') mewn perthynas â dosbarthu cyflogaeth.
- Mae gan y cymunedau lleol rôl o ran penderfynu faint o ddatblygu sy'n dderbyniol. Ni ddylid dweud wrth y cymunedau beth i'w wneud.
- Mae angen i drigolion pentrefi unigol benderfynu ar y tyfiant mae'r aneddleoedd penodol hynny eu hangen.
- Dylid anelu am y ffigwr uchaf o ran yr unedau preswyl newydd sydd angen eu darparu'n flynyddol er mwyn rhoddi'r hyblygrwydd eithaf o safbwynt penderfynu ble i ddosbarthu'r tai.
- Byddai opsiwn 2 yn amddifadu cefn gwlad ac yn rhoi pwysau mawr ar anheddle fel Y Felinheli. Byddai'n golygu darparu mwy o dai yno nag mae ei angen. Os na fyddai'r tai hyn yn rhai fforddiadwy a fyddai'n diwallu angen lleol, yna byddai hyn yn cael effaith ar y gymuned ac ar yr iaith Gymraeg.
- Dylid ystyried yn gyntaf ble mae angen y tai e.e. tebygol bod y mwyafrif o dai eu hangen ym Mangor.
- Cefnogaeth i opsiwn 3 gan y bydd yn parhau i gynnal a chefnogi cymunedau yng nghefn gwlad.
- Angen bod yn wyliadwrus o ran effaith dosbarthu tai ar ysgolion yn y pentrefi llai.

- Ystyried sicrhau bod twf anheddle yn gymesur â maint yr anheddle hwnnw e.e. os yn penderfynu ar gynnydd o 1% mewn pentref gyda 200 o dai, yna dylid datblygu 2 uned preswyl yn yr anheddle hwnnw.
- Cysylltiad rhwng y dosbarthiad o dai â allyriadau carbon. Byddai datblygu tai mewn man ble nad oes gwasanaeth bws digonol yn annog pobl i yrru car preifat i'w gwaith.
- Cynaliadwyedd ieithyddol yn bwysig.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn
Cyfnod Cyfranogiad Cyhoeddus Gaeaf 2011/12

Seminar Cynghorwyr Gwynedd

Dwyryd, Penrhyndeudraeth

7 Rhagfyr 2011

Roedd llawer o'r drafodaeth yn ymwneud a nodweddion yr ardal a materion sydd angen eu taclo neu roi sylw iddo.

- Caniatadau cynllunio hen ar gyfer tai yn arbennig rhai sydd wedi cychwyn yn nhermau cynllunio a'u heffaith ar yr angen am dir ar gyfer tai. Fe allant fod yn gwahardd rhyddhau tir mwy priodol ar gyfer ei ddatblygu;
- Angen sicrhau bod y strategaeth yn rhoi sylw i faterion gwledig
- Perthynas agos gyda chymunedau yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri ac yn bwysig felly gwneud yn fawr o'r cysylltiadau yma
- Iaith Gymraeg a diwylliant – pwysig gwarchod a'i hyrwyddo a bod y mater yn cael sylw llawn yn ystod pob cam o'r broses paratoi'r Cynllun
- Angen ceisio creu cymunedau hunan gynhaliol
- Gall datblygiad economaidd a thwf dynnu pobl o gymunedau eraill – angen ymateb cytbwys
- Gall pwyslais y Llywodraeth ar y cysylltiadau gorllewin – dwyrain a gogledd – de olygu bod rhai cymunedau cael ei anghofio, e.e. Tywyn, Llyn. Angen cynnal a gwella llwybrau eilaidd sy'n cysylltu gyda chymunedau gwledig;
- Annog sail economaidd amrywiol sy'n cynnwys rhai diwydiannau llai deniadol hefyd, h.y. rhai cymydog gwael – lle i bob dim;
- Mae Opsiwn T2 yn ymddangos yn lefel uchel iawn o dwf o'i gymharu a phatrwm adeiladu'r gorffennol ac opsiynau eraill. Gall annog mewnlifiad uwch yn lle diwallu anghenion mwy lleol am dai.
- Mae Opsiwn D3 yn ymddangos yn cynnig ymagwedd mwy cytbwys

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd

Cyfranogiad y Cyhoedd cyfnod Gaeaf 2011/12

Grŵp Prosiect Strategol Cynllun Datblygu Lleol - Cyngor Gwynedd

Crynodeb:

Materion

- Sylwch fod cyfeiriad at hygyrchedd yr ardal. Mae hygyrchedd digidol yn broblem fawr sy'n cael ei thrafod gan brosiect Gwynedd Ddigidol. Dylai'r CDLlC hwyluso darparu'r seilwaith gofynnol.
- Croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir ynghylch colli pobl ifanc a'r angen i hwyluso datblygiad sy'n rhoi cyfle realistig i bobl ifanc fyw a gweithio yn lleol - cyflenwad o dai addas (lleoliad, deiliadaeth, pris) a chyfleoedd i gael y sgiliau sydd eu hangen ac i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn lleol
- Gwahaniaeth rhwng ardaloedd
- Mae tlodi tanwydd yn broblem yn lleol

Gweledigaeth

- Angen cyfleu bod y Cyngor a'i bartneriaid yn anelu at greu ardal fwy ffyniannus

Opsiynau twf a dosbarthu

Angen bod yn realistig, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol.

- Mae angen bod tebygolrwydd rhesymol o gyflenwadwyedd yr opsiwn a ffefrir - fel arall bydd y portffolio o dir heb ei ddatblygu yn parhau. Gallai Opsiwn T2 felly fod yn rhy uchel.

- Opsiwn T3 - cyfradd adeiladu'r gorffennol - yn debygol o barhau'r problemau economaidd a chymdeithasol presennol

- Angen elfen o hyblygrwydd - adeiladu lefel wrth gefn rhesymol

- Angen lefel digon uchel o dwf a fyddai'n darparu'r màs critigol gofynnol i ddenu buddsoddiad, a fyddai yn ei dro'n cynorthwyo i gadw gwasanaethau a chyfleusterau allweddol a galluogi adfywio pellach

- Byddai opsiwn trefol–gwledig cymesur yn adlewyrchu nodweddion yr ardal a fyddai'n cyd-fynd â Rhaglenni'r Cyngor

- Angen cau'r bwlch rhwng aneddiadau, h.y. peidio cynnal y twf mewn rhai aneddiadau ar draul eraill

- Peth capasiti dros ben mewn pentrefi llai o faint sy'n cynnwys rhai gwasanaethau allweddol, lle gallai datblygiad priodol helpu i gadw gwasanaethau a chreu cymuned fwy hunangynhaliol

  Casgliad:

  Cefnogi lefel twf realistig sy'n uwch na'r hyn sy'n cael ei gynllunio ar hyn o bryd yn y CDU, ond yn is na'r amcanestyniadau seiliedig ar duedd (Opsiwn T2)

  Cefnogi opsiwn dosbarthiad gofodol a fyddai'n hwyluso datblygiad ar draws ardal y Cynllun, ond yn gyrru cyfran uwch o'r twf i'r prif ganolfannau

RHAN 2

Mae'r paragraffau canlynol yn cyflwyno trosolwg o'r sylwadau/ gwybodaeth a gyflwynwyd yn yr holiaduron neu lythyrau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu.

Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - materion posibl

Cwestiwn: A oes unrhyw faterion eraill y dylid eu cynnwys, pa rai ydynt a pham?

O'r rhai atebodd y cwestiwn hwn yn benodol, nid oedd 47% yn cyfeirio at unrhyw faterion ychwanegol. Mae'r canlynol yn rhoi rhestr o eiriau / ymadroddion allweddol a ddefnyddiwyd i gyfeirio at faterion ychwanegol neu i awgrymu amrywiad i'r mater a nodwyd yn y Ddogfen Ymgysylltu Drafft:

Diboblogi a reolir
Disbyddu adnoddau a reolir
Pwysigrwydd twristiaeth o safon uchel i'r economi lleol
Datblygu cymunedau gwledig bywiog a chynaliadwy
Cynnal a gwella'r seilwaith telathrebu symudol er mwyn hwyluso llwyddiant y gweithrediadau busnes a ffyrdd o fyw unigol
Cynnal a gwella rôl trefi llai sy'n gwasanaethu ardal wledig ehangach
Pwysau anghyfartal ar setliadau / rhai aneddiadau yn datblygu ar draul eraill / Colli cyfle i ddarparu tai marchnad ar gyfer pobl leol mewn pentrefi llai o faint
Galluogi canol trefi i ailddyfeisio eu hunain
Darparu ar gyfer Teithwyr
Ymdrin â'r angen am dai newydd ar gyfer grwpiau oedran gwahanol - hen ac ifanc / rhoi blaenoriaeth i fodloni anghenion pobl leol ar gyfer tai yn hytrach na mewnfudwyr / bodloni anghenion y boblogaeth leol ar gyfer tai
Dosbarthiad cyfleusterau addysg / Hygyrch a dewis o addysg o ansawdd priodol yn lleol lle bo hynny'n bosibl
Hwyluso cyfleoedd gwaith newydd
Safonau addysg a dyheadau yn y cartref ac mewn lleoliadau addysg ffurfiol ac mewn diwydiant / cyrhaeddiad addysgol gwael gan bobl ifanc a'i effaith ar yr economi lleol
Cyfleoedd hyfforddi i bobl leol
Cydbwysedd rhwng diwallu anghenion cyflogaeth a thai cymunedau gwledig yn eu lle a'r rheidrwydd economaidd tybiedig o gyfeirio datblygiad newydd i nifer cyfyngedig o aneddiadau mwy
Adnewyddu adeiladau diffaith a rhai a gwblhawyd yn rhannol / gwella stoc bresennol cyn adeiladu rhai newydd / strategaeth ar gyfer gosod tai gwag i ddiwallu angen lleol / adfywio stoc bresennol o dai teras hŷn mewn trefi i wella stoc tai a chreu swyddi
Rôl y pentrefi llai i gynnal cymunedau gwledig / cyfleusterau
Cyfleusterau parcio ar y stryd cyfyngedig yn achosi tagfeydd
Diffyg gallu rhai pentrefi i ymdopi â datblygiad ychwanegol / effaith datblygiad ychwanegol, yn enwedig datblygu ar raddfa gymharol fawr ar gymeriad gwledig / iaith Gymraeg a diwylliant rhai pentrefi / cynnal pentrefi ac ardaloedd gwledig gyda'r lleiafswm o adeiladau newydd

Diffyg cyfatebiaeth mewn deiliadaeth tai - aelwydydd bach (henoed) yn byw mewn tai mawr - diffyg cyflenwad o'r math cywir o dai yn y lleoliad cywir - cartrefi unllawr ar gyfer yr henoed a'r anabl
Llai o gyfleoedd i adeiladu cartrefi newydd neu adnewyddu yn y cefn gwlad
Cyflenwad is o dai cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig o gymharu â threfi
Llai o bobl ifanc yn siarad Cymraeg mewn ardaloedd / Hyrwyddo'r defnydd ac ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau drwy gadw cyfleusterau iaith Gymraeg traddodiadol / cynnal diwylliant cymunedau gwledig
Amlygrwydd ail gartrefi neu gartrefi gwyliau mewn rhai aneddiadau a'u heffeithiau niweidiol / mewnfudiaeth
Diffyg dynodiad amddiffyn tirwedd priodol yn ardaloedd Bangor / Afon Menai
Diogelu safleoedd tir glas ac ardaloedd amgylcheddol sensitif eraill i gadw cymeriad ardal a diogelu bywyd gwyllt / atal ymledu trefol
Safleoedd datblygu heb eu gweithredu
Llety ar gyfer gweithwyr dadgomisiynu (Wylfa A) a gweithwyr adeiladu (Wylfa B) a'i effaith ar dir ar gyfer tai ar gyfer pobl leol, yr iaith Gymraeg
Heriau a chyfleoedd yn ymwneud â Wylfa B
Lleihau / rheoli effaith y datblygiad ar yr amgylchedd, h.y. datblygu cynaliadwy, gan gynnwys datblygiad sy'n ymwneud â'r defnydd o ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel
Angen i amddiffyn ac / neu ailddefnyddio safleoedd treftadaeth allweddol / amgylcheddol ac enghreifftiau o hynodrwydd lleol
Darparu cyfleusterau hamdden hygyrch ar gyfer plant / rhandiroedd
Diffyg amgueddfeydd / orielau ar gyfer arddangos a dathlu llwyddiannau creadigol a diwylliannol

Cwestiwn: Pa 5 mater, yn nhrefn blaenoriaeth, sy'n bwysig i'r Cynllun (1 = y pwysicaf; 5 = y lleiaf pwysig)?

O'r rhai a ddewisodd gategoreiddio materion yn nhrefn blaenoriaeth, dynodwyd y materion canlynol fel y materion pwysicaf

1af - Diffyg tai o ran math, maint a fforddiadwyedd i bobl leol
2il - Colli trigolion ifanc economaidd weithgar
3ydd - Dirywiad mewn bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi fel lleoedd sy'n cynnig cyfleoedd o ran adwerthu, hamdden, cyflogaeth a chartrefi
4ydd - Darparu ar gyfer ymwelwyr â'r ardal, mewn ffyrdd cynaliadwy ac, ar yr un pryd, hyrwyddo treftadaeth yr ardal a'i diwylliant
Cyfartal 5ed - Llai o drigolion yn cael eu cofnodi fel siaradwyr Cymraeg a llai o ardaloedd ble mae mwy na 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg
Cyfartal 5ed - Diffyg gwasanaethau lleol mewn cymunedau gwledig a phwysau ar wasanaethau lleol, mannau agored a chyfleusterau mewn ardaloedd eraill
Cyfartal 5ed - Materion yn ymwneud â hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig oherwydd diffyg dewis mewn dulliau trafnidiaeth
Cyfartal 5ed – Angen diogelu, cryfhau a hyrwyddo bioamrywiaeth, cysylltiadau ecolegol a mwynderau gweledol

Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - gweledigaeth bosib

Cwestiwn: A ydych yn cytuno â'r weledigaeth ar gyfer yr ardal?

O'r rhai a roddodd farn ynghylch y geiriad / negeseuon a oedd wedi'u cynnwys yn y weledigaeth ddrafft, roedd 82% yn cytuno â'r geiriad.

Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys geiriau / ymadroddion a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r weledigaeth a awgrymwyd, neu i awgrymu gwelliannau.

Egluro neges yn y pwynt bwled olaf
Lleihau carbon a chynaliadwyedd yn elfen hanfodol mewn penderfyniadau adeiladu, trafnidiaeth a chynllunio / patrwm cynaliadwy yn seiliedig ar ddull hierarchaeth
Sicrhau cymunedau lleol sydd wedi derbyn addysg a hyfforddiant da
Efallai na chyrhaeddir aneddiadau canolbwynt fel rhai sy'n cynnal yr holl aneddiadau
Cynnwys cyfeiriad at "ffynnu" yn ogystal â chymunedau bywiog
Ddim yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth / LlC / Dibyniaeth ar lywodraeth genedlaethol a rhanbarthol ar gyfer cyflenwi
Cynnwys cyfeiriad at dwristiaeth fel diwydiant pwysig yn yr ardal / prif gyrchfan i ymwelwyr
Pryderu am y cymorth a roddir i'r diwydiant niwclear / cefnogi dadgomisiynu yn Nhrawsfynydd a Wylfa yn hytrach nag adeiladu niwclear o'r newydd
Diwygio 7fed pwynt bwled i ddarllen "lle mae'r holl gymunedau a busnesau yn gwbl ddwyieithog"
Diwygio 9fed pwynt bwled i ddarllen "lle mae'r rhwydwaith presennol o aneddiadau, trefol a gwledig, wedi cael eu cynnal a'u gwella, a lle y gwellwyd cysylltiadau cyfathrebu electronig rhyngddynt gan leihau'r angen i deithio, a lle mae hawliau tramwy cyhoeddus a darpariaeth cludiant cyhoeddus wedi cael eu gwella gan leihau'r angen i deithio yn y car. "
Os cyfeirir at wella / cynnal rhwydwaith o aneddiadau, mae'n aneglur pam y cyfeirir at leihau teithio
Cynnwys cyfeiriad penodol at ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a threftadaeth naturiol / ecosystemau iach, gweithredol, cyfoeth o fywyd gwyllt brodorol a nodweddion naturiol, a'r cynefinoedd a'r prosesau naturiol y byddant yn dibynnu arnynt
Hyrwyddo cymunedau sy'n edrych tuag allan ac sy'n barod i dderbyn syniadau newydd, sy'n croesawu arloesi ac yn annog buddsoddiad mewn modd gweithredol

Generig ac anysbrydoledig
Ychwanegu "lle yr eir ar ôl amcanion amgylcheddol eraill yn egnïol, e.e. lleihau gwastraff a llygredd
Hyrwyddo rhannu ceir, gan gynnwys darparu cyfleusterau parcio a rhannu
Ymdrin ag effaith safleoedd etifeddiaeth ddiwydiannol
Sicrhau ei fod yn realistig
AHNE a SoDdGA a thirwedd yn cael eu cynnwys yn gadarnhaol, a rhoi gwarchodaeth lwyr iddynt
Defnyddio 'brodorol' yn lle 'cymunedau lleol
Egluro "manteisio ar gyfleoedd economaidd newydd"
Egluro "rhagweld”
Yn hytrach na 'rhwydwaith bywiog .. cynhwysol' cynnwys 'hunangynhaliol'
Nid oes rhaid i’r iaith Gymraeg fod yn rhan annatod o gymunedau a busnesau gan y gallai hyn atal pobl rhag byw a gweithio yn yr ardal
Cynnwys blaenoriaethau lleol
Mwy o bwyslais ar ardaloedd gwledig

Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – amcanion strategol posib

Cwestiwn: Beth yw eich barn ynghylch yr amcanion strategol a awgrymir? A ydym wedi hepgor unrhyw amcanion strategol?

Roedd 57% o'r rhai a roddodd sylwadau ar yr amcanion strategol yn cytuno â nhw. Mae'r canlynol yn rhestr o newidiadau a awgrymwyd i eiriad rhai o’r amcanion drafft a sylwadau ynghylch yr amcanion

Mae angen blaenoriaethu o gofio’r hinsawdd economaidd bresennol
Delio gydag / ail gartrefi/cartrefi gwyliau / Rheoli'r cyflenwad o ail gartrefi mewn ardaloedd gwledig sensitif
Rheoli datblygu safleoedd mewn modd amserol
Hyrwyddo ailddefnyddio neu ailddatblygu tir a ddatblygwyd eisoes ac adeiladau addas gwag neu rai nad ydynt yn cael eu defnyddio i'r eithaf ar gyfer defnyddiau amgen priodol
Pwyslais ar ardaloedd gwledig
Annog cynhyrchu bwyd
Hyrwyddo amrywiaeth arloesol o hyfforddiant o ansawdd a chyfleoedd addysgol yn seiliedig ar y dreftadaeth leol, yr amgylchedd, iaith a diwylliant

A ddylid rhoi blaenoriaeth i raddedigion (pwynt 8) / annog graddedigion lleol i ddychwelyd i'r ardal / a all awdurdod lleol reoli hwn Cynnwys cyfeiriad at 'garthffosiaeth' - pwynt 17
Pwyslais ar ddatblygu economaidd
Cyswllt penodol i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ogystal â henoed
Rôl sefydliadau gofal preswyl
A ddylid rhoi blaenoriaeth i raddedigion (pwynt 8) / annog graddedigion lleol i ddychwelyd i'r ardal / a all awdurdod lleol reoli hwn
Cynnwys cyfeiriad at 'garthffosiaeth' - pwynt 17
Addysg ddwyieithog yn bwysig /Cyfleusterau addysg modern / Ychwanegu addysg fel sector allweddol a sector gwerth uchel ym mhwynt 4
Angen cryfhau pwynt 3
Angen asesiad effaith iaith Gymraeg ar gyfer pob cais, er mwyn diogelu, cryfhau a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg
Nid oes angen i'r iaith Gymraeg fod yn rhan hanfodol o fywyd cymunedol – mae rhan o fywyd cymunedol yn fwy realistig / angen bod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg oherwydd busnes rhyngwladol
Cynnwys cyfeiriad at lety twristiaeth o safon, atyniadau amrywiol, gweithgareddau ardderchog / cynnydd mewn capasiti llety
Llenwi bylchau yn y seilwaith gweithgaredd - gwella cysylltedd a dod â chyfleusterau i fyny i'r safon angenrheidiol
Egwyddorion datblygu cynaliadwy yn cael blaenoriaeth
Dylai pwynt 16 gyfeirio at "wella bioamrywiaeth"
Mae'n debyg mai eitemau 4,10, 13, 15, 16, 18 yw'r unig rai perthnasol
Ystyried effaith tyrbinau gwynt a'u hallbwn gwirioneddol
Diwygio 1 trwy roi "mewn lleoliadau cynaliadwy" yn lle "mewn mannau"
Diwygio 5 drwy fewnosod "mewn lleoliadau cynaliadwy" ar ôl "diogelu a dyrannu"
Diwygio 6 drwy fewnosod "a chynaliadwy" ar ôl "positif"
Diwygio 5 drwy fewnosod "lefel briodol" ar ôl "sicrhau bod"
Diwygio 12 trwy gynnwys cyfeiriad at leoli datblygiadau er mwyn lleihau'r angen i deithio
Diwygio 17 i hyrwyddo'r angen am gyflenwad digonol o seilwaith gwyrdd
Defnyddio geiriad mwy cadarnhaol yn lle "annog", "hyrwyddo" a "sicrhau"
Diwygio 20 i gyfeirio at ymrwymiad i wella'r rhwydwaith cyfan o lwybrau troed er mwyn darparu buddiannau iechyd a hamdden pwysig
Cyfeirio at yr amgylchedd hanesyddol yn 6, 9, 15 & 16 neu gynnwys amcan ychwanegol
Cynnwys y cyflenwad dŵr ac isadeiledd carthffosiaeth fel enghreifftiau o seilwaith angenrheidiol
Diwygio 1 trwy ddileu "lle mae pobl eisiau byw" a chyfeirio at ddarparu amrywiaeth o ddaliadaeth
Cwestiynu'r angen am amcan 7
Cwestiynu cyflenwadwyedd 9 oherwydd ehangu siopa tu allan i'r dref
Cwestiynu cyflenwadwyedd 11 oherwydd diffyg cefnogaeth ryngwladol
Diwygio 20 trwy gynnwys "ac annog gwasanaeth cludiant cyhoeddus sy'n ymatebol i anghenion y gymuned a thrwy hynny leihau ....." ar ôl "beic"

Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – OPSIYNAU TWF TAI POSIBL

CWESTIWN: pa opsiwn twf yn nhrefn blaenoriaeth sydd orau gennych (h.y. 1af, 2il, 3ydd ayb)?



CWESTIWN: a oes opsiwn strategol amgen? Os oes un, rhowch wybod inni

Roedd ymatebwyr yn cyfeirio at bwysigrwydd diwallu anghenion tai cymunedau lleol, gan bwysleisio'r angen i ystyried effaith galluogi gormod o dai marchnad agored anghyfyngedig mewn cymunedau penodol.

Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – OPSIYNAU DOSBARTHU GOFODOL POSIB

CWESTIWN: pa opsiwn dosbarthu sydd orau gennych chi yn nhrefn blaenoriaeth? (h.y. 1af, 2il, 3ydd ayb)?


D1
D2
D3
D3a
D4

Atodiad 9 – Rhybudd Swyddogol yr Ymgynghoriad Cyn-Adnau

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Rheoliadau Asesiad Amglycheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol)(Cymru) 2005 (Rheoliad 15)

Hysbysiad o Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn-Adneuo ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi paratoi dogfen Hoff Strategaeth ar gyfer y cynllun uchod. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd), ar ôl ei fabwysiadu, yn disodli'r cynllun(iau) datblygu presennol a bydd yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir ar gyfer ardal awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae'r ddogfen Hoff Strategaeth yn amlinellu gweledigaeth, amcanion, opsiynau strategol, hoff strategaeth a'r polisïau strategol ar gyfer ardal y Cynllun ac mae'n cynnwys gwybodaeth gefndir allweddol. Gellir gweld adroddiad cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r adroddiad Sgrinio o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd..

Mae copïau o ddogfennau ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn rhad ac am ddim yn Swyddfeydd Cyngor Gwynedd ym Mangor, Caernarfon, Dolgellau, a Phwllheli, Pencadlys ac Adran Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni rhwng dydd Llun i ddydd Gwener o 9:00 y bore hyd at 5:00 yr hwyr. Gellir gweld dogfennau hefyd yn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol Gwynedd a Môn ac ar wefan y ddau Gyngor sef www.gwynedd.gov.uk/cdll a ww.ynysmon.gov.uk/cdll.

Dylid anfon sylwadau (gan gynnwys gwrthwynebiadau) yn ysgrifenedig i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Neuadd y Dref, Bangor, Gwynedd LL57 1DT, neu i polisicynllunio@gwynedd.gov.uk cyn 5:00 yr hwyr ar y 27ain o Fehefin 2013. Dylai'r sylwadau (gan gynnwys gwrthwynebiadau) nodi'r materion maent yn ymwneud a hwy.

Mae ffurflen ar gyfer gwneud sylwadau ar gael o'r cyfeiriad uchod neu ar-lein yn www.gwynedd.gov.uk/cdll a ww.ynysmon.gov.uk/cdll.

Dull rhoi adborth i'r Awdurdod

Cam nesaf yn y broses o baratoi cynllun fydd y cam 'adneuo' pan gaiff y CDLl ar y Cyd Adneuo ei hysbysebu ar gyfer sylwadau. Ar ôl cyflwyno'r CDLl ar y Cyd Adneuo i Lywodraeth Cymru yn ffurfiol, rhaid i Arolygydd annibynnol ei ystyried a fydd yn asesu pa una yw'n 'gadarn' a'i pheidio. Ceir nifer o brofion cadernid a gellir gweld nhw yn y ddogfen Hoff Strategaeth.

Dim ond sylwadau a wneir yn unol â'r hysbysiad hwn y mae'n ofynnol i'r Awdurdod eu hystyried. Ni chaiff sylwadau a wneir ar y cam Hoff Strategaeth (cyn adneuo) presennol eu hystyried gan yr Arolygydd a benodwyd i gynnal yr Archwiliad Annibynnol. Bydd cyfle arall i gyflwyno sylwadau ar y cam adneuo ac ystyrir y sylwadau hyn yn yr archwiliad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan yr Uned Polisi ar y Cyd, Ffon: 01766 771000; e-bost: polisicynllunio@gwynedd.gov.uk.

Planning and Compulsory Purchase Act 2004
The Environmental Assessment of Plans and Programmes (Wales) Regulations 2004
The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 (Regulation 15)

Notice of Pre-Deposit Public Consultation for a Local Development Plan,

ANGLESEY AND GWYNEDD JOINT LOCAL DEVELOPMENT PLAN

The Isle of Anglesey County Council and Gwynedd Council have prepared a Preferred Strategy document for the above plan. The Joint Local Development Plan (JLDP) will, upon adoption, replace the current development plan and be the basis for decisions on land use planning for the Isle of Anglesey and Gwynedd Local Planning Authority Area.

The Preferred Strategy document outlines the Plan area's vision, aims, strategic options, preferred strategy and strategic policies and includes key background information. The initial Sustainability Appraisal report and the Habitat Regulation Assessment Screening Report are also available

Copies of documents are available for public inspection free of charge at Gwynedd Council Offices in Bangor, Caernarfon, Dolgellau and Pwllheli, the Isle of Anglesey County Council Headquarters and Planning Department, Llangefni on Mondays to Fridays from 9:00am to 5:00pm. Documents are also available for public inspection at the public libraries within Anglesey and Gwynedd and on the both Councils' websites at www.gwynedd.gov.uk/ldp or www.anglesey.gov.uk/ldp.

Representations (including objections) should be sent in writing to the Joint Planning Policy Unit, Town Hall, Bangor Gwynedd LL57 1DT or to planningpolicy@gwynedd.gov.uk before 5:00pm on the 27th of June 2013. Representations (including objections) should specify the matters to which they relate.

A form for making representations is available from the above address or on-line at www.gwynedd.gov.uk/ldp or www.anglesey.gov.uk/ldp.

The Authority's feedback mechanism

The next stage of plan preparation will be the 'deposit' stage when the deposit Joint LDP will be advertised for representations. Following formal submission of the deposit Joint LDP to the Welsh Government it must be considered by an independent Inspector who will assess whether it is 'sound'. There are a number of tests of soundness and these can be seen in the Preferred Strategy document.

The Authority is only required to consider representations made in accordance with this notice. Representation made at the current pre-deposit stage will not be considered by the Inspector appointed to carry out the Independent Examination. There will be a further opportunity for representations to be made at the deposit stage and these representations will be considered at the examination.

Further information is available from the Joint Planning Policy Unit, Phone@ 01766 771000: email planningpolicy@gwynedd.gov.uk.

Atodiad 10 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cyn-Adnau ac Ymateb y Cynghorau

Cyflwyniad

1.0 Cynhaliwyd proses ymgynghori ar Hoff Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd dros gyfnod o 7 wythnos rhwng 9 Mai a 27 Mehefin 2013.

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi'r materion a godwyd ac ymatebion y Cynghorau i'r materion hyn.

1.2 Roedd y ddogfen Hoff Strategaeth yn cynnwys naw cwestiwn penodol, ac mae gweddill yr adroddiad hwn yn ymdrin â phob cwestiwn unigol mewn tabl ar wahân.

1.3 Isod ceir crynodeb o'r cwestiynau penodol:

Tabl 1	Cwestiwn 1 - A oes yna faterion eraill sydd yn ymwneud â chynllunio defnydd tir y dylid eu hystyried?
Tabl 2	Cwestiwn 2 - A ydych yn cytuno bod y Weledigaeth a'r Amcanion yn cyfarch y materion a nodwyd?
Tabl 3	Cwestiwn 3 – Ai'r opsiwn Lefel Twf Tai a Ffafrir yw'r un fwyaf addas?
Tabl 4	Cwestiwn 4 – Ai'r Opsiwn Ofodol a Ffafrir yw'r un gorau i ddosbarthu twf yn ardal y Cynllun?
Tabl 5	Cwestiwn 5 - A ydych yn cytuno fod yr Hoff Strategaeth a'r Polisïau Strategol yn darparu fframwaith briodol i gyfarch y Weledigaeth a'r Amcanion Strategol?
Tabl 6	Cwestiwn 6 - A ydych yn cytuno gyda strwythur y CDLl ar y Cyd Adnau?
Tabl 7	Cwestiwn 7 – Unrhyw Sylwadau neu Awgrymiadau pellach?
Tabl 8	Cwestiwn 8 - Unrhyw Sylwadau ar yr Arfarniad Cynaladwyedd?
Tabl 9	Cwestiwn 9 – Unrhyw Sylwadau ar yr Adroddiad Sgrinio ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)?

1.4 Er mai crynodeb o'r ymatebion a geir yma, dylid nodi bod y swyddogion wedi rhoi ystyriaeth lawn i bob ymateb yn unigol.

Cwestiwn 1: A oes yna faterion eraill sydd yn ymwneud â chynllunio defnydd tir y dylid eu hystyried? Pa rai ydynt a pham?

Crynodeb o'r Prif Faterion a Nodwyd	Ymateb
Mae'n bwysig fod 'ochr cyflenwi' y broses gynllunio yn ddigon cadarn er mwyn sicrhau fod yr economi leol yn barod i fanteisio i'r eithaf ar y prif gyfleoedd datblygu economaidd megis Wylfa a'r dynodiad Parth Menter sydd newydd ei gyhoeddi.	Mae'r Papurau Cefndir a Phapurau Testun wedi adnabod y dystiolaeth berthnasol am effaith y buddion economaidd arfaethedig fyddai'n deillio o'r rhaglen Ynys Ynni. O ganlyniad mae safleoedd wedi'u dynodi o fewn y Cynllun i wireddu'r potensial hwn.
Cwestiwn ynglŷn â pham fod angen isafswm maint plot o fewn y Cynllun ac y dylid cefnogi safleoedd mewnlenwi.	Bwriedir defnyddio'r isafswm maint i ystyried safleoedd i'w dyrannu ar gyfer tai, a bydd darparu safleoedd mewnlenwi drwy ddatblygiadau ar hap yn cael ei gefnogi yn yr hierarchaeth aneddiadau
Teimlad y dylid cael cynllun unigol ar gyfer	Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi

Crynodeb o'r Prif Faterion a Nodwyd	Ymateb
Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, neu o leiaf gysylltiadau agos ac asesiad o'u heffaith ar ei gilydd.	mabwysiadu CDLl ac felly nid ydyw'n rhan o'r CDLl ar y Cyd. Fodd bynnag, mae perthynas weithio agos yn bodoli gydag Awdurdod y Parc o ran y gwaith o baratoi'r CDLl ar y Cyd, a'i effaith ar y Parc.
KI29 O'r farn ei bod yn rhy hawdd newid siopau yn fflatiau.	Bydd mater o'r fath yn cael sylw yn y polisïau manwerthu a fydd yn ceisio diogelu canolfannau manwerthu.
Angen cydnabod pwysigrwydd y fasnach dwristiaeth.	Mae polisi strategol ar yr Economi Ymwelwyr sy'n amlygu ei bwysigrwydd o fewn yr economi leol.
Diffyg eglurder mewn rhai achosion a yw'r ffigurau'n cyfeirio at Ardal Gynllunio Gwynedd neu Gwynedd gyfan.	Bwriedir cael eglurder ar y sefyllfa yn y Cynllun Adnau, fodd bynnag mewn rhai achosion nid oes ffigur ar wahân ar gyfer Ardal Gynllunio Gwynedd ar gael.
Ffigurau anghywir ar gyfer nifer yr aelwydydd ym Môn.	Bydd yn cael ei gywiro.
Mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng, fodd bynnag mae angen astudiaeth fanylach ynghylch yr agweddau demograffig.	Bydd y Papurau Testun ac Asesiad ar yr Iaith Gymraeg yn asesu'r newidiadau a welwyd yn y gwahanol fandiau oedran.
Ni ddarparwyd gwybodaeth ar lefelau diweithdra a'u dosbarthiad fesul oedran ac yn ddaearyddol.	Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn cyfeirio at y cyfraddau gweithgarwch economaidd a diweithdra. Hefyd bydd y Cynllun Adnau yn cynnwys proffil ystadegol yn cyfeirio at y lefelau diweithdra. Rhoddir ystyriaeth i Ddatganiadau diweddaraf y Llywodraeth ar y mater wrth baratoi'r adroddiad monitro blynyddol.
Angen eglurder ynghylch a fyddai tai i'r henoed yn cael eu cynnwys yn ffigur tai y Cynllun, neu a fyddai'n ychwanegol ato?	Byddai unrhyw dai a ddarperir i'r henoed yn rhan o darged tai y Cynllun.
Angen mwy o reolaeth dros ail gartrefi / cartrefi gwyliau mewn rhai ardaloedd.	Ar hyn o bryd nid oes unrhyw reolaeth dros newid uned breswyl yn ail gartref gan ei fod yn yr un dosbarth defnydd ag uned breswyl. Bydd y Cynllun yn ceisio adnabod ardaloedd lle y dylai datblygiadau gael eu cyfyngu i'r Farchnad Dai Leol, a bydd lefel yr ail gartrefi / cartrefi gwyliau yn un o'r dangosyddion a ddefnyddir i adnabod lleoliadau ar gyfer y polisi hwn.
Nid oes cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai, ac er bod cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai, mae'n cynnwys y safleoedd anghywir yn y lleoliadau anghywir, ac nid yw'n cyd-fynd â galw'r farchnad.	Cynhelir adolygiad blynyddol o'r safleoedd gyda chaniatâd cynllunio, sy'n cael ei ystyried wrth gyfrifo'r cyflenwad tir ar gyfer ardal. Ar gyfer y Cynllun, nodir safleoedd newydd i ddiwallu'r lefel twf, a dylai hyn sicrhau bod cyflenwad digonol o dir i gwrdd â'r angen.
Dylai'r polisïau gefnogi teithio gwyrdd cynaliadwy gan sicrhau bod dulliau trafnidiaeth wedi'u cysylltu â'i gilydd. Dylai'r polisïau leihau'r twf mewn problemau iechyd drwy sicrhau y darperir cyfleusterau sy'n annog teithio llesol ar gyfer teithiau hwylustod a hamdden.	Bydd y polisïau trafnidiaeth yn annog dulliau trafnidiaeth cynaliadwy ac yn cefnogi cynigion am drosglwyddiadau rhwng dulliau trafnidiaeth.
Dylai gydnabod capasiti safleoedd segur	Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru ni ystyrir

Crynodeb o'r Prif Faterion a Nodwyd	Ymateb
diwydiannol a masnachol i gyfrannu at y cyflenwad tir ar gyfer tai ar yr ynys.	unrhyw safleoedd cyflogaeth presennol nad ydynt eisoes wedi'u dynodi yn y Cynllun sy'n dod i'r amlwg, fel safleoedd tai.
Nodir fod y diwydiant chwareli yn dod i ben, fodd bynnag mae'r chwareli yn parhau i fod yn fusnes pwysig o fewn y rhanbarth.	Mae'r Cynllun yn nodi dirywiad yn y diwydiant chwareli, ond bydd y polisïau manwl yn ymwneud â Mwynau yn cyfeirio at y diwydiant hwn, sut i ddiogelu adnoddau a chefnogi estyniadau addas.
Dylid rhoi mwy o feddwl yn y cynllun i ddarparu tir at ddefnydd cyfleusterau iechyd megis clinigau a meddygfeydd, yn rhai meddygol a deintyddol.	Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw ddarnau penodol o dir y dylid eu diogelu ar gyfer datblygiadau o'r fath. Fodd bynnag, bydd polisïau caniataol o fewn y Cynllun a fydd yn cefnogi datblygiadau o'r fath.
Ym mharagraff 4.12, cyfeirir at hyrwyddo cerbydau ecogyfeillgar, ond nid oes unrhyw gyfeiriad at gerbydau ecogyfeillgar yn PS22.	Mae hyrwyddo cerbydau ecogyfeillgar yn cael ei weld fel un ffordd o liniaru effaith cerbydau ar newid hinsawdd. Mae'r polisi trafnidiaeth strategol yn cyfeirio at leihau'r angen i deithio, sy'n adlewyrchu natur defnydd tir y Cynllun.
Nid yw'r potensial mawr ym Mhorthaethwy ar gyfer datblygiadau manwerthu wedi'i gofnodi.	Mae Papur Cefndir ar Fanwerthu wedi'i baratoi, sy'n adnabod y cyfleoedd yn y gwahanol ganolfannau manwerthu ledled ardal y Cynllun.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno bod y weledigaeth a'r amcanion sydd ym Mhennod 5 yn ymateb yn ddigonol o'r materion a welir ym Mhennod 4

Crynodeb o'r prif faterion a godwyd	Ymateb
Aildrefnu'r geiriad i ddangos y berthynas rhwng y weledigaeth, amcanion strategol, allbynnau a strategaethau'n well.	Aildrefnu yn unol â'r sylwadau.
Adolygu i'w wneud yn fwy lleol, gan gynnwys canllaw ar ffurf a swyddogaeth llefydd.	Ymestyn i gynnwys disgrifiad o aneddleoedd neu grwpiau o aneddleoedd.
Adolygu i dynnu sylw at faterion sydd angen ymdrin â nhw a dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn, gan gynnwys twf economaidd yn gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni a Pharth Menter.	Cynnwys cyfeiriad penodol at: • Sectorau ynni adnewyddol a charbon isel, • Yr angen i'r ddau Gyngor i gadw/ denu mwy o bobl oed gweithio.
Pwysigrwydd i unigolion gael cefnogaeth gan weddill y gymuned leol, yn arbennig o ran materion iechyd meddwl.	Mae datblygiad y Cynllun yn destun Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb. Mae'r Cynllun yn cefnogi datblygiad cymunedau cynhwysol.
Yn ystyried bod 'pob' yn SO2 yn gamarweiniol.	Y bwriad yw hyrwyddo marchnad tai cytbwys sy'n cwrdd â gofynion aelwydydd amrywiol.
Anghytuno gyda threfn yr amcanion	Gweler y rhestr ddiwygiedig
Yn bryderus am effaith ail dai/ tai haf	Nid oes angen caniatâd cynllunio i ddefnyddio tai fel ail gartrefi neu dai haf. Er hynny, mae Papurau Testun yn cofnodi'r mater ac mae'r wybodaeth wedi dylanwadu ar ddatblygiad polisïau tai'r Cynllun.
Yn bryderus bod yna risg y bydd carafanau yn cael eu defnyddio fel llety parhaol.	Mae polisïau tai a thwristiaeth y Cynllun yn rheoli'r mater.
Fe ddylid cynnwys canllawiau ar gyfer	Mae SO9 yn ymdrin â hyn

datblygiad i sicrhau darpariaeth ddigonol o lefydd agored cymunedol ar gyfer yr hen a'r ifanc, gan gynnwys llefydd chwarae i blant.	
Fe ddylid cyfeirio'n benodol at lwybrau bysus ar draws yr Ynys yn y rhan am gludiant.	Ystyried bod SO21 yn ymdrin â'r mater yn ddigonol.
Fe ddylai'r amcanion hyrwyddo buddsoddiad yn y sector twristiaeth, lle mae'n briodol, gan ei fod yn gyflogwr hanfodol ac yn darparu ysgogiad economaidd yn ardal y Cynllun.	Ystyried bod SO11 yn darparu'r bachyn i ddatblygu polisïau a fydd yn hyrwyddo'r buddsoddiad angenrheidiol, yn unol â'r Cynlluniau Rheoli Cyrchfan.
Ni ddylai amcan i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol wahardd twristiaeth newydd.	Mae Polisïau Strategol perthnasol yn adlewyrchu'r angen i gyrraedd cydbwysedd priodol.
Fe ddylai'r Cynllun ganiatáu gwella/ ehangu llety twristiaeth a chyfleusterau mewn ffordd wahanol i ddatblygiadau eraill mewn llefydd sydd dan fygythiad llifogydd.	Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau sydd yn rheoli datblygiad mewn ardaloedd sy'n cael eu diffinio yn y Cynllun Rheoli Traethlin fel rhai dan fygythiad llifogydd/ erydiad arfordirol.
Ceisiadau bod termau a ddefnyddir yn yr amcanion yn cael eu diffinio.	Bydd rhestr termau'n cael ei ddarparu a bydd gwybodaeth ychwanegol hefyd yn y polisïau perthnasol.
Dylid cydnabod y gallai tir a ddatblygwyd o'r blaen neu adeiladau presennol ildio tai marchnad agored.	Bydd polisïau'n darparu'r fframwaith manwl i ymdrin â'r mater.
Yn ystyried bod y nifer o dai fforddiadwy yn rhy isel.	Edrychir ar dystiolaeth i adnabod targed tai fforddiadwy.
Yn bryderus am effaith Parth Menter ar fusnesau presennol yn Ynys Môn.	Edrychir ar dystiolaeth cyn paratoi polisïau manwl.
Cytunodd nifer o bobl gyda'r weledigaeth yn y ddogfen Hoff Strategaeth.	Nodir y sylwadau cefnogol. Rhagwelir y bydd y newidiadau ddaw yn sgil y sylwadau uchod yn cryfhau'r gefnogaeth ymhellach.
Fe ddylai'r weledigaeth a'r amcanion ddarparu targedau clir ar gyfer tai a thwf economaidd.	Gweler yr eirfa ddiwygiedig.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno mai'r opsiwn Twf Tai a Ffafrir yw'r un mwyaf priodol i gwrdd a'r materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Cynllun

Crynodeb o'r prif faterion a godwyd	**Ymateb**
Dylid creu mwy o dai er mwyn creu cyflogaeth adeiladu ac argaeledd nifer fawr o dai er mwyn gostwng prisiau.	Nodir nad oes barn unfrydol am y lefel twf tai, gyda rhai yn ffafrio lefel uchel ac eraill yn ffafrio lefel is. Nid mater syml yw gosod gofyniad tai addas. Nid oes un ateb cywir. Bydd y ffigwr ddefnyddir mewn cynllun datblygu yn un fydd rhaid bod yn destun elfen o farn, gan roi ystyriaeth lawn o'r cyd-destun polisi ar gyfer pennu gofynion tai, tueddiadau demograffig a datblygiad diweddar a ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar yr angen am dai a'r galw i'r dyfodol. Yn ogystal a rhoi ystyriaeth i ddyheadau lleol am y galw am gartrefi newydd, mae angen sicrhau bod y gofyniad terfynol yn un ellir ei gredu a'i ddarparu. Ers y cyfnod ymgynghori am yr Hoff Strategaeth cafodd y sail dystiolaeth ei
Bydd y targed tai canolig o 7,665 yn cyfrannu rhyw gymaint i gwrdd y galw am dai ond ni fydd yn cwrdd twf demograffig. Angen mwy o dai i gyfarch targedau tai fforddiadwy, cynnal pobl ifanc, creu swyddi.	
Mae angen lefel twf uwch er mwyn cyd-fynd a chyfleoedd economaidd o nifer o brosiectau isadeiledd mawr. Os ellir rheoli twf fe all fod o fudd i gymunedau lleol.	
Mae'r graff yn cuddio effaith mudwyr o Lloegr ac Ewrop a bod pobl ifanc yn gorfod gadael	

yr ardal i gael swyddi. Mae angen swyddi da ar gyfer cadw pobl leol a thai addas i bobl leol. Ystyried bod yna ormod o bwysau'n cael ei roi ar gyfarch mewnfudwyr.	fireinio a'i ddiweddaru er mwyn deall mwy am deilyngdod yr opsiwn twf tai canolig a gafodd ei gyhoeddi yn yr Hoff Strategaeth. Roedd y cyfnod rhwng cyhoeddi'r Hoff Strategaeth hefyd yn gyfle pwysig i gymharu'r lefel twf tai oedd yn cael ei ffafrio gan y Cynghorau gyda rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru, sef y rhai sail 2011. Mae'r sail dystiolaeth ddiweddaraf am boblogaeth ac aelwydydd yn cael ei gofnodi yn y fersiwn ddiweddaraf o Bapur Testun 3 a cheir cofnod o'r materion a gafodd ystyriaeth wrth ddatblygu'r lefel twf tai ym Mhapur Testun 4A (sy'n diweddaru Papur Testun 4). Mae'r fethodoleg du cefn i'r Asesiad Capasiti Trefol yn rhoi sylw i argaeledd posib tai gwag tymor hir. Mae'r strategaeth yn nodi bod angen rheoli lefel twf tai mewn aneddleoedd yn unol a'u statws yn y goeden aneddleoedd.
Angen selio'r galw am dai ar alw lleol nid mewnfudwyr neu ragolygon Llywodraeth Cymru, gan roi ystyriaeth i effaith ar yr iaith Gymraeg a diwylliant.	
Angen gohirio'r broses hyd nes bod cytundeb am yr AEIG.	
Mwy o dai eu hangen er mwyn gwneud i fyny am y rhai sy'n cael eu defnyddio gan fewnfudwyr a rheini sy'n methu fforddio tai marchnad agored.	
Mwy o dai eu hangen er mwyn cwrdd a galw am dai a ddylid cyd-fynd a rhagolygon Llywodraeth Cymru. Dim digon o dystiolaeth i gefnogi gwyriad oddi wrth rhagolygon cenedlaethol.	
Bydd angen i'r Cyngor ystyried rhagolygon poblogaeth a thai sail 2011.	
Angen ystyried effaith prosiect adeiladu niwclear newydd ar y farchnad tai.	
Dylai gwella stoc tai presennol fod yn flaenoriaeth.	
Yn annog lefel twf is er mwyn gwarchod pentrefi ger Bangor.	

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno mai'r opsiwn Gofodol a Ffafrir yw'r un gorau i ddosbarthu twf yn ardal y Cynllun

Crynodeb o'r prif faterion a godwyd	**Ymateb**
Angen mwy o ddatblygiad yng nghefn gwlad i dynnu'r pwysau oddi ar drefi a phentrefi.	Credir y dylid rheoli datblygiad yng nghefn gwlad er mwyn hyrwyddo rhwydwaith mwy cynaliadwy o aneddleoedd.
Cefnogi strategaeth datblygu wasgaredig gan y byddai'n darparu cyfleoedd cytbwys i bob cymuned.	Nodir sylw.
Yn cefnogi strategaeth sy'n dosbarthu tai a chyflogaeth ond yn anghytuno gyda chyfyngu twf ym mhentrefi arfordirol a gwledig, ar sail eu bod nhw'n gymunedau cynaliadwy, yn arbennig ar yr Ynys.	Mae dadansoddiad o'r ffactorau perthnasol yn dangos bod aneddleoedd sy'n cael eu hadnabod fel un ai pentref arfordirol neu wledig un ai heb wasanaethau a chyfleusterau digonol i gynnal twf uwch o'i gymharu ag aneddleoedd eraill a/ neu mae'r farchnad dai yn fwy bregus ynddynt.
Cefnogir D2 yn amodol bod blaenoriaeth yn cael ei roi i siaradwyr Cymraeg rhugl .	Ni ddylai polisïau cynllunio anelu i reoli meddiannaeth tai ar sail ieithyddol.
Angen mwy o dystiolaeth i i'r cyfeiriad a roddir.	Bydd y sail dystiolaeth yn parhau i gael ei adolygu a'i gofnodi mewn papurau testun, e.e. Papur Testun 5 – datblygu'r goeden aneddleoedd.
Angen ystyried yr effaith ar isadeiledd.	Mae gwybodaeth am isadeiledd cymdeithasol a ffisegol yn cael ei gasglu a'i gofnodi ym Mhapur Testun 13. Bydd

	argaeledd isadeiledd yn derbyn ystyriaeth mewn ymgynghoriad a'r darparwyr wrth ymdrin â safleoedd ar y Gofrestr Tir Posib.
Byddai Opsiwn D3a (ffocws ar ardaloedd gwledig) yn caniatáu mwy o dai mewn pentrefi gwledig sy'n dirywio.	Cafodd yr opsiwn yma ei roi o'r neilltu gan na fyddai'n gyson gyda swyddogaeth y canolfannau lefel uwch ar hyn o bryd na'r rôl ddylent chwarae yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo patrwm datblygu cynaliadwy.
Angen mwy o ffocws ar Ganolfannau Gwasanaeth Lleol gyda llai yn mynd i'r Ganolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol a'r pentrefi a chlystyrau er mwyn sicrhau bod datblygiad yn digwydd.	Mae tystiolaeth yn dangos y gall y mwyafrif o'r canolfannau lefel uwch ymdopi gyda'u targedau. Lle mae yna ddiffyg mae'r Cynllun yn ei gyfeirio at Ganolfannau Gwasanaeth Lleol.
Fe ddylai Llanfairpwll, Porthaethwy a Biwmares fod yn fwy amlwg yn y cynllun er mwyn sicrhau ymagwedd draws ffiniol.	Cafodd y llefydd yma eu hadnabod fel canolfannau Gwasanaeth Lleol. Pe fyddai diffyg tir ym Mangor neu aneddleoedd cyfagos ar y tir mawr, mae dadansoddiad o'r berthynas rhwng aneddleoedd yn dangos y rhain fel rhai posib i lenwi'r bwlch.
Fe ddylid hyrwyddo hybrid o D1 a Dw er mwyn sicrhau bod llefydd llwyddiannus yn parhau i ffynnu wrth roi cyfle i rai eraill dyfu.	Trwy hyrwyddo 75% o'r lefel twf tai i'r prif ganolfannau, sy'n cyd fynd a lleoliad y cyfleoedd gyflogaeth mawr bresennol neu arfaethedig, credir bod yr opsiwn gofodol a ffafrir yn hyrwyddo'r allbynnau a awgrymwyd.
Yn ystyried y dylai'r Strategaeth hyrwyddo fframwaith sy'n galluogi ailddefnyddio ac ailddatblygu safleoedd llwyd ar gyfer cyflogaeth neu gyflogaeth a thai lle mae'r safleoedd yn hygyrch i gludiant cyhoeddus a dulliau teithio heblaw am geir.	Yn unol â NCT 23 bydd y Cynllun rhoi fframwaith i ymdopi gyda chynigion am ddefnydd amgen ar safleoedd cyflogaeth.
Angen ystyried effaith strategaeth wasgaredig ar iechyd a lles aelwydydd er mwyn osgoi aelwydydd dan anfantais oherwydd lleoliad yr anheddle o'i gymharu â llwybrau cludiant cyhoeddus. Mae D2 yn cael ei ffafrio.	Mae'r goeden aneddleoedd yn cydnabod bod hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau yn ffactor bwysig i'w ystyried.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno fod yr Hoff Strategaeth a'r Polisïau Strategol yn darparu fframwaith briodol i gyfarch gweledigaeth ac amcanion strategol y CDLl ar y Cyd fel y'u gwelir ym Mhennod 5? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	**Ymateb**
PS1 – Datblygiad Cynaliadwy	
Mae'r Polisi ar y cyfan yn ailadrodd polisi cenedlaethol, ond pe byddai'n cael ei wneud yn fwy unigryw yn lleol a chael ei gadw, dylai adlewyrchu'r rhagdybiaeth genedlaethol o blaid datblygiad cynaliadwy.	Cytuno bod cyfle i egluro lle bydd polisi cynllunio cenedlaethol yn gweithredu, ac argymell bod y Polisi'n cael ei newid yn unol â hynny.
Dylai Amcan 2 yn y Polisi ganolbwyntio datblygiad tu mewn i aneddiadau, nid mewn mannau eraill.	Mae Amcan 2 yn delio gydag ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddatblygwyd yn gynharach ac yn disgrifio'r angen i ganolbwyntio fel arfer ar y safleoedd hynny tu mewn i'r Canolfannau a'r Pentrefi sydd wedi cael eu henwi. Fodd

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
	bynnag, yn unol gyda pholisi cynllunio cenedlaethol, mae'r Polisi'n cydnabod y gallai rhai safleoedd neu adeiladau sydd wedi cael eu datblygu'n gynharach ac sydd y tu allan i Ganolfannau a Phentrefi fod yn gyfleoedd priodol i ddarparu ar gyfer newid. Dim angen newid.
Mae'n anffodus bod yr amgylchedd naturiol yr olaf ar y rhestr pan fo newid hinsawdd yn gyntaf ar y rhestr. Maen nhw'n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n awgrymu mai ychydig iawn o berthynas sydd rhyngddynt. Bydd y ffordd rydym ni'n rheoli ein hamgylchedd naturiol yn ganolog i roi sylw i faterion newid hinsawdd. Efallai bydd modd cyfuno'r ddau neu o leiaf eu cyflwyno ar ben y rhestr, wrth ymyl ei gilydd? Yn croesawu'r polisi ac yn credu ei fod yn ateb Prawf Cadernid C2.	Doedd y rhestr o feini prawf ddim yn cael ei chyflwyno mewn unrhyw drefn benodol. Fodd bynnag, mae newidiadau mewn ymateb i sylwadau eraill yn golygu bod angen aildrefnu'r meini prawf, fydd efallai'n bodloni sylwadau Adnoddau Naturiol Cymru.
Awgrymu y byddai cynnwys y gair 'celfyddydau' ym maen prawf 3 yn gwella'r Cynllun o ran cysondeb a pharhad.	Nodi'r sylw ac argymell newid i'r maen prawf perthnasol yn unol gyda'r sylw a gyflwynwyd.
Yn cefnogi cynnwys y polisi hwn, ac yn benodol y pwyslais ar leihau faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio a'i wastraffu, gan leihau'r effaith ar adnoddau dŵr o ran swm ac ansawdd, a defnyddio gymaint ag y bo modd ar systemau draenio cynaliadwy. Mae mynd i'r afael â dŵr wyneb yn lle bynnag mae'n tarddu yn gydran hanfodol o datblygiad cynaliadwy ac mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn atgyfnerthu'r dyletswyddau i ddatblygwyr ymgorffori systemau draenio cynaliadwy fel rhan o'u datblygiadau.	Nodi'r sylwadau cefnogol.
Awgrymu y dylai'r Cynllun sicrhau talu sylw i wahanol anghenion grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig. Yn ystyried y dylid cyfeirio'n benodol at y Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol lleol a'r amcanion. Awgrymu y dylai'r cynllun bwysleisio cael mynediad i bawb i ddatblygiadau a chartrefi / cymdogaethau ar gyfer safonau byw.	Cytuno y dylai'r Cynllun hwyluso datblygiad i'r holl ddefnyddwyr. Mae datblygiad y Cynllun wedi digwydd ar sail Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Cytuno y dylid newid y maen brawf tu mewn i'r Polisi Strategol er mwyn dangos y mater yma'n eglur.
Mae Polisi Strategol 1 yn rhestru 13 o amcanion ond ddim yn cynnwys cyfeiriad at fwynau.	Mae Polisi Strategol PS18 yn delio'n benodol gyda mwynau.
Ystyried nad yw'r fath ffordd o weithredu polisi yn ddigon hyblyg i gael cydbwysedd rhesymol rhwng manteision economaidd datblygiadau arfaethedig ac ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol. Awgrymu y dylid newid Polisi PS1, i ganiatáu ystyried cynigion datblygu yn ôl eu cryfderau eu hunain, lle mae manteision	Mae meini prawf 6 a 7 o'r Polisi hwn yn hyrwyddo datblygu economaidd cynaliadwy. Mae casgliad o Bolisïau Strategol a Pholisïau Manwl yn ehangu ar yr amcanion hyn. Yn unol gyda pholisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae'r Polisi Strategol hwn yn dod â rhagdybiaeth o blaid cynigion sy'n unol

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
economaidd datblygiad yn cael eu cydbwyso yn erbyn ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Byddai gweithredu fel hyn yn caniatáu gwella llety twristiaeth a'r cyfleusterau cysylltiedig sy'n bodoli'n barod, yn ogystal ag annog darparu cyfleusterau a llety twristiaeth newydd, gyda golwg ar gael sector twristiaeth sy'n weithredol gydol y flwyddyn, gwella niferoedd ymwelwyr i'r ardal ac ateb disgwyliadau uwch yr ymwelwyr.	gydag egwyddorion / amcanion allweddol datblygiad cynaliadwy. Dylai cynigion geisio cael cydbwysedd ac integreiddio rhwng yr egwyddorion/amcanion hyn i gael cymaint ag o fudd ag y bo modd o ddeilliannau datblygiad cynaliadwy. Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol, mae cyfrifoldeb ar yr un sy'n gwneud y penderfyniad i farnu ai felly y mae pethau, gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth ar gael a chymryd i ystyriaeth egwyddorion / amcanion allweddol cynllunio ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Dim angen newid.
Mae cynigion datblygu wedi'u gosod mewn 13 o eitemau. Mae angen egluro'r ail frawddeg, neu ei mynegi'n well: sut byddai cynigion datblygu'n dangos symud tuag at gyflawni'r amcanion hyn? Mae'r holl amcanion yn berthnasol, ond gellir rhagdybio mai'r ystyr a fwriedir yw 'y cyfan o'r amcanion a ganlyn, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r datblygiad.'	Cytuno bod angen egluro sut byddai'r polisi'n cael ei weithredu. Felly mae'n cael ei argymell bod y polisi'n cael ei wella i egluro pa feini prawf sy'n gymwys i bob datblygiad a pha rai y byddai angen eu defnyddio fesul achosion unigol.
Croesawu'r ffaith y bydd angen i gynigion datblygu ddangos symud tuag at gyflawni'r amcanion datblygiad cynaliadwy sydd wedi'u rhestru. Ar gyfer yr un olaf y soniwyd amdano, fodd bynnag, mae angen dangos cydnabyddiaeth eglur o werth cynhenid yr asedau amgylchedd naturiol, tirweddau a bioamrywiaeth, tu hwnt i'w gwerth fel gwasanaethau ecosystem.	Mae'r maen prawf yn cydnabod gwerth cymdeithasol ac economaidd yr asedau hyn. Dim angen newid.
PS2 – Lliniaru ac Addasu i Effeithiau Newid Hinsawdd	
Mae Newid Hinsawdd yn gorgyffwrdd gyda PS1 a byddai modd eu cyfuno.	Mae'n cael ei gytuno bod mynd i'r afael â newid hinsawdd yn rhan sylfaenol o gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae'n cael ei gytuno y gallai fod graddau o orgyffwrdd rhwng y ddau Bolisi. Er hynny, o gofio'r oblygiadau difrifol bosibl yn amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol o wneud dim am hyn, mae'n cael ei ystyried bod y mater yn haeddu ystyriaeth mewn Polisi ar wahân.
Croesawu cynnwys 100 mlynedd a 75 mlynedd ar gyfer newid hinsawdd. Efallai bydd angen i chi egluro mai'r ddau gyfod yma o amser yma fyddem ni'n ei ystyried yn "hydoedd oes datblygiad" y dylid ystyried newid hinsawdd ar eu cyfer o ran y ddau fath o ddatblygiad. Croesawu'r polisi ac yn credu ei fod yn ateb Prawf Cadernid C2.	Nodi'r sylw cefnogol ac yn cytuno y byddai cynnwys y geiriad sy'n cael ei awgrymu yn egluro'r maen prawf perthnasol.
Cefnogi'r polisi, yn enwedig pwynt 10 o'r polisi sy'n cyfeirio at fesurau i gynnal llif ac ansawdd dŵr. O dan gytundeb trwyddedig oddi wrth Adnoddau Naturiol Cymru mae cwmnïau dŵr	Nodi'r sylw cefnogol.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
yn cymryd dŵr o afonydd a thyllau turio dŵr daear sydd, ar ôl ei drin, yn ateb anghenion y galw domestig presennol a'r galw i'r dyfodol. Mae amodau'r drwydded oddi wrth Adnoddau Naturiol Cymru yn pennu ansawdd a swm y dŵr ac felly mae'n rhaid i'r ddau gael eu diogelu.	
Rydym ni'n cytuno bod mynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon yn amcan allweddol. Rydym ni'n cefnogi'r cysyniad o 'goeden ynni' sy'n cael ei gynnig yn PS2 (Addasu i Newid Hinsawdd) lle mae blaenoriaeth yn nhrefn eu pwysigrwydd yn cael ei rhoi i (1) Lleihau'r angen (2) Defnyddio'n effeithiol a (3) Cyflenwad effeithiol, cyn (4) defnyddio ynni adnewyddol. Rydym ni hefyd yn cytuno y dylai'r defnydd o ynni adnewyddol fod "yn gyson â'r angen i ymgysylltu a chynnwys cymunedau lleol, gwarchod mwynderau gweledol, amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol a'r dirwedd".	Nodi'r sylw cefnogol.
Credu y dylai'r Polisi gymryd i ystyriaeth: nodweddion penodol a pha mor agored i niwed ydi unrhyw ddefnydd tir presennol neu arfaethedig (er enghraifft, mae rhai mathau o ddefnydd ar gyfer twristiaeth angen bod, neu barhau i fod, yn agos at ddŵr a byddai'n anymarferol iddynt adleoli); a yw'r risgiau llifogydd sy'n parhau i fodoli, i bobl ac eiddo, yn dderbyniol a bod modd eu rheoli'n foddhaol; ac a yw'r datblygiad arfaethedig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i leihau neu reoli risg llifogydd. Wedyn o ran llifogydd ac erydu arfordirol, mae'n cael ei ystyried y dylid cydnabod pwysigrwydd cynnal a pharhau gyda defnydd twristiaeth yn y parth arfordirol; dylid rhoi cefnogaeth polisi i weithredu a chynnal gwaith amddiffyn yr arfordir sydd ei angen er mwyn diogelu eu buddiannau.	Mae hyn y codi pwyntiau perthnasol, fydd yn cael sylw mewn polisïau manwl sy'n disgrifio'r ffordd o weithredu tuag at ddatblygiad newydd mewn ardaloedd lle dangoswyd bod risg o lifogydd oddi wrth afonydd, cyrsiau dŵr arferol, dŵr arfordirol neu ddŵr wyneb, a datblygiad fyddai'n cynyddu'r risg o lifogydd neu risg fod mwy o ddŵr yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth ddatblygiad wedi'i leoli mewn man arall.
Croesawu'r gefnogaeth ym mharagraff 7.29, ac yn PS2 ei hunan, i wneud gymaint o ddefnydd ag y bo modd o ynni adnewyddol, trosglwyddo i economi carbon isel, a gwelliannau i effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, gallai gael ei gymryd oddi wrth (2d) fod y "angen i ... gwarchod mwynderau gweledol, amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol a'r dirwedd" yn mynd i gael blaenoriaeth bob tro dros ddatblygu ynni carbon isel neu ynni adnewyddol. Mae'n debyg y bydd pob datblygiad yn cael ei weld gan rai fel un sy'n cael o leiaf effaith niweidiol gymedrol ar un o'r agweddau hyn. Felly mae	Mae'r ffordd o weithredu sydd wedi'i dangos ym maen prawf 2d yn unol gyda pholisi cynllunio cenedlaethol. Bydd polisïau manwl tu mewn i'r Cynllun yn disgrifio'r ffordd o weithredu o ran isadeiledd ynni adnewyddol newydd yn ardal y Cynllun.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
angen cael ffordd gytbwys o weithredu sy'n cymryd i ystyriaeth yr effeithiau niweidiol posibl trwy wneud asesiad trylwyr mewn achosion unigol, sy'n cyfeirio at ganllawiau sydd wedi cael eu sefydlu ac yn defnyddio meini prawf sydd wedi'u sefydlu. Rydym ni'n awgrymu bod angen adolygu'r geiriad yn y rhan hon.	
Mae hefyd faterion gyda'r "Goeden Ynni" fel mae'n cael ei dangos. Mae'n cyfeirio at "Gyflenwi ynni'n effeithiol" fel y drydedd reng. Mewn gwirionedd y goeden ynni fel sydd wedi'i chefnogi gan, er enghraifft, Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol yw (1) cadwraeth ynni, (2) effeithlonrwydd ynni, (3) ynni adnewyddol, cynaliadwy, (4) cyflenwadau ynni eraill carbon isel (ffynonellau cyflenwi eraill sy'n lleihau nwyon tŷ gwydr), (5) cyflenwadau tanwydd confensiynol. Fe allai ddigwydd bod rhoi "Cyflenwi ynni'n effeithiol" (sydd, heb ddiffiniad manwl, yn ddiystyr beth bynnag) yn cael ei weld fel bod yn tanseilio'r ymrwymiad i ynni adnewyddol, yn yr ystyr ei fod yn rhoi blaenoriaeth i gyflenwi yn hytrach na'r modd o gynhyrchu. Dylai gael ei ddileu, a dangos y goeden draddodiadol.	Cytuno bod lle i wella'r geiriad o ran cyfeirio at y "goeden ynni". Mae'n cael ei argymell bod y polisi'n cael ei newid i ddisgrifio'r goeden fel sydd yn TAN 12 Dyluniad a TAN 22 Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy.
PS3 – Strategaeth Aneddleoedd	
Pwysleisio'r angen i ganolbwyntio datblygiadau yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy.	Nodi'r sylw. Mae'r strategaeth yn anelu i gyfeirio'r mwyafrif o'r dynodiadau newydd i ganolfannau a phentrefi sydd eisoes yn ffocws cartrefi, gwaith a chyfleusterau i'r cymunedau. Fodd bynnag mae natur wasgaredig yr ardal a barn rhanddeiliaid eisio sicrhau fod yna elfen o gyfleoedd ar gael mewn nifer o gymunedau llai yn yr ardal.
Efo aneddiadau gerllaw ffiniau sicrhau cydweithio i leihau unrhyw oblygiadau trawsffiniol.	Mae papur testun 5 yn adnabod pwysigrwydd hyn ac mae awdurdodau cyfagos yn rhanddeiliaid allweddol yn y broses.
Bod goblygiadau cyfyngiadau sylweddol e.e. perygl llifogydd, argaeledd seilwaith, rhaglenni ysgolion a diddordeb yn y farchnad yn llywio'r strategaeth fanwl.	Mae rhain yn faterion sydd yn cael eu hystyried wrth asesu cyfleon a chyfyngiadau sydd yn gwynebu gwahanol aneddleoedd.
Dylid ystyried maint, lleoliad, amseriad a dulliau ariannu seilwaith er mwyn dangos digon o sicrwydd y gellir ei ddarparu dros gyfnod y cynllun.	Mae gwaith ar gasglu gwybodaeth seilwaith yn cael ei wneud yn gyson. Angen cydbwysedd rhwng cyfarch twf i leoliadau ble mae capasiti neu gynlluniau seilwaith yn erbyn anghenion yr ardal ac arwain buddsoddiad a'r seilwaith ar sail strategaeth y cynllun.
Maint y datblygiadau arfaethedig mewn pentrefi a chlystyrau'n ymddangos yn ormodol. Gall diffyg rheolaeth gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.	Rydym yn diweddaru gwybodaeth am y nifer o unedau wedi ei cwblhau a'r nifer sydd efo caniatâd cynllunio yn y categori yma. Teimlir fod elfen uchel o'r twf yma efo caniatâd yn barod. Fe fydd y polisi arfaethedig yn rhoi

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
	ffigyrau pendant i'r aneddleoedd yma.
Dylai parthau dylanwad neu ddibyniaeth gan gynnwys twf i aneddiadau cysylltiedig fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.	Rydym yn casglu tystiolaeth gan rhanddeiliaid perthnasol ar gyfer gwahanol safleoedd mewn canolfannau gwasanaethol. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth gadarn os na ellid cyfarch y twf disgwyliedig o fewn canolfan benodol fydd angen ei leoli mewn parth dylanwad neu aneddiad cysylltiedig.
Bydd angen cynnal adolygiad manwl o'r holl aneddiadau a nodwyd er mwyn sefydlu'r capasiti ar gyfer datblygiad a lefel y twf y gellir ei ganiatáu ar sail rôl, swyddogaeth a chyfyngiadau.	
Mae'r polisi yn cynnwys elfennau y byddai'n well ei gynnwys mewn testun yn disgrifio/amlinellu'r strategaeth. Gellid cynnwys y manylion mewn tabl gan groesgyfeirio at y polisi.	Cytuno efo hyn ac am dynnu'r rhestr yr aneddleoedd allan i'r rhesymeg ar ôl y polisi.
Nid yw'r polisi yn cyfeirio at sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a chyfran/nifer y datblygiadau a ganiateir.	Am gynnwys geirfa briodol yn y polisi arfaethedig a chynnwys manylion ar gyfer y nifer o ddatblygiadau a ganiateir.
Ni chyfeirir at ffiniau aneddiadau.	Fe fydd yna gyfeiriad tuag at ffiniau aneddiadau i'r categorïau perthnasol.
Cefnogi'r haen uwch arfaethedig yn yr hierarchaeth aneddiadau.	Nodi'r sylw.
Dylai adlewyrchu pwysigrwydd rhanbarthol hwb Bangor / Menai, swyddogaeth strategol Caergybi fel porthladd a phwysigrwydd cenedlaethol prosiectau seilwaith ynni mawr.	Mae'r fethodoleg i adnabod rôl canolfannau yn adlewyrchu pwysigrwydd yr ardal yma efo Canolfan Is-Ranbarthol a Chanolfannau Gwasanaethol Trefol a Lleol wedi ei adnabod ynddynt. Bydd gwaith pellach yn adnabod barthau dylanwad y canolfannau.
Mae mathau amrywiol o 'bentrefi' yn ychwanegu at gymhlethdod ac yn peri dryswch. Dylid cael cysylltiad uniongyrchol â gofyniad polisi arbennig efo gwahanol fath o Bentrefi e.e. 'pentrefi arfordirol' mewn cysylltiad â pholisïau arbennig i ddelio efo effaith ail gartrefi lle gellir dangos tystiolaeth o hyn.	Oherwydd natur a rôl gwahanol fathau o bentrefi o fewn yr ardal cafwyd is gategorïau o bentrefi er mwyn rhoi math a lefel o dwf priodol iddynt. Fe fydd gwaith pellach ar dai marchnad agored pobl leol yn adnabod rhai aneddleoedd ble mae'n briodol cyflwyno polisi arbennig ond nid yw'n sicr ar hyn o bryd os fydd hyn yn cynnwys yr holl bentrefi o fewn categori penodol. Cytuno i newid y polisi i roi mwy o eglurder ar gyfer y gwahanol fathau o bentrefi.
Gwrthwynebu 'clystyrau' bach Gan nad oes ganddynt gyfleusterau heb dystiolaeth glir o anghenion lleol na ellir eu diwallu mewn anheddiad haen uwch cyfagos. Yn rhan helaeth o'r ardal ymddangos y gellir ymdrin â gwasgariad daearyddol a diwallu anghenion ardaloedd gwledig mewn aneddiadau sydd â rhai gwasanaethau. Bwysig dangos sut y byddai hyrwyddo mwy o ddatblygiadau preswyl mewn 'clystyrau' bach iawn yn hytrach na chanolfannau gwasanaeth gwledig gerllaw, yn cefnogi'r iaith yn well. Dim ond mewn ardaloedd gwledig anghysbell a phrin iawn eu poblogaeth, lle na cheir aneddiadau mwy, y byddai'r rhain yn lleoliadau priodol.	Mae paragraff 9.2.22 o Bolisi Cynllunio Cymru yn datgan "Mewn sawl rhan o gefn gwlad agored ceir grwpiau ynysig o anheddau. Gallai mynd ati'n sensitif i fewnlenwi bylchau bach neu wneud mân estyniadau i grwpiau o'r fath fod yn dderbyniol, yn enwedig ar gyfer tai fforddiadwy i fodloni anghenion lleol. Serch hynny mae llawer yn dibynnu ar gymeriad yr hyn sydd o gwmpas, y patrwm datblygu yn yr ardal a'r gallu i gyrraedd y prif drefi a phentrefi'n rhwydd." Mae'r egwyddorion yma yn cael ei ailadrodd yn TAN6. Mae'r clystyrau sydd wedi cael ei adnabod yn y CDLl ar y cyd yn adlewyrchu natur wasgaredig yr ardal. Cyfeirir yn rhan 2.3.3 o Bapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd yn

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Ni ddylid caniatáu datblygiadau mewn clystyrau o gwbl ond yn sicr, ni fyddai lleiniau sy'n ymestyn clystyrau yn ychwanegol at leiniau mewnlenwi yn briodol.	adnabod ar sail Dosbarthiad Trefol / Gwledig 2004 ar gyfer ffigyrau poblogaeth Cyfrifiad 2011, fod 44% o boblogaeth Gwynedd a 51.7% yn Ynys Môn wedi ei leoli mewn unai Pentrefi, Pentrefannau neu Anheddau ar eu Pennau eu Hunain. Hyn yn cymharu efo 16.4% o'r boblogaeth yng Nghymru'n byw mewn lleoliadau o'r fath. Y dull yn y CDLl ar y cyd oedd adnabod Clystyrau oedd efo grŵp cydlynus o dai a gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch. Mae nifer o grwpiau ynysig o anheddau ledled ardal y Cynllun heb gael ei chynnwys yn y polisi Clystyrau gan nad ydynt yn gyd fynd ar feini prawf yma. Bydd datblygiad o fewn y Clystyrau yn cael ei gyfyngu i uchafswm o ddwy uned ar sail anghenion y gymuned. Bydd gweithredu y polisi yma yn gallu arwain at 224 o unedau yn ardal y Cynllun, sef 2.8% o gyfanswm targed tai y Cynllun. Rhagwelir bydd hwyluso tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol yn cyfrannu tuag at cynnal neu gwella cydbwysedd ieithyddol o fewn yr ardal. Bydd y twf yn seiliedig ar yr angen o pob Clwstwr unigol. Un o'r prif negeseuon or Astudiaeth Tai ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn (2014) yw bod cysylltiad rhwng darparu tai fforddiadwy a cynaladwyaeth yr iaith. Bydd unrhyw fwriad sydd yn ymestyn y Clwstwr yn gorfod dangos na fydd yn creu nodwedd ymwthiol yng nghefn gwlad, ac ni fydd yn cyflwyno patrwm datblygu tameidiog, nac yn creu datblygiad rhuban.
Dylid cyfyngu haen isaf yr hierarchaeth i'r raddfa pentref bach ond dal ond yn diwallu angen lleol penodol am anheddau fforddiadwy.	Teimlo fod categoreiddio'r haen is fel Clystyrau yn gliriach na chynnwys is gategori newydd yn yr haen Bentrefi. Mae sylw gan Lywodraeth Cymru yn honni fod yna ormod o fathau o bentrefi yn barod.
Mae'r eirfa "Dros oes y Cynllun caiff lefel uwch o dwf tai a chyflogaeth ddigwydd yn y Pentrefi Gwasanaethol..." yn defnyddio'r 'run geirfa ar hyn a ddefnyddir i Fangor ar Canolfannau Gwasanaethol Trefol. Cynnig geirfa "Bydd mwyafrif o'r twf tai i'w ddynodi mewn pentrefi wedi ei leoli mewn Pentrefi Gwasanaethol".	Cytuno fod hyn yn creu dryswch ac am adolygu'r eirfa yn y polisi.
Ar gyfer Clystyrau cynnig bod y polisi yn cael ei newid i ddatgan tai angen lleol fforddiadwy ble mae yna 'angen' amdanynt.	Cytuno y dylid cyfeirio tuag at cael tystiolaeth fod yna 'angen' am yr unedau o fewn y clystyrau yma.
Efo gofidion am y lefel o dwf disgwyliedig yn yr	Fe fydd adolygiad o'r nifer o unedau efo

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
ardal wledig yn enwedig mewn lleoliadau sydd ddim yn hyfyw trwy drafnidiaeth gyhoeddus. Oherwydd hyn angen mwy o wybodaeth am y lefel twf mewn Pentrefi Gwasanaethol a Chlystyrau.	caniatâd cynllunio presennol ynghyd a faint sydd wedi eu cwblhau ers 2011 yn dangos faint mwy sydd ei angen yn yr ardal yma. Rhaid cofio fod yna nifer fawr o aneddleoedd (195 Yn y Hoff Strategaeth) o fewn y categorïau Pentrefi a Chlystyrau.
Diffiniad - Dylid diffinio 'Tai Fforddiadwy' gael ei selio ar gyfartaledd o fewn 5 milltir a 'lleol' olygu o fewn 5 milltir i'r safle.	Yn hanesyddol fe ddefnyddir ffiniau Ardaloedd Dalgylch Dibyniaeth neu Gynghorau Cymuned a rhai cyfagos fel ffiniau ardal. Fe fydd rôl y ganolfan hefyd yn ystyriaeth ar gyfer pa ardal mae disgwyl iddo gyfarch anghenion tai fforddiadwy ar ei gyfer.
Categorïau - Teimlo fod y teitlau presennol yn aneglur a dylid ail gategorïo i Dref / Pentref Mawr / Pentref Bach / Clwstwr.	Nodi'r sylw, fe fydd adolygiad o'r polisi yn rhoi mwy o eglurder ar gyfer rôl y gwahanol categorïau yn y polisi.
Parc Eryri – Dylid ei gwneud yn glir fod rhai aneddleoedd yn rhannol o fewn y Parc e.e. Llanberis, Nantlle, Garndolbenmaen ayb.	Mae hyn yn cael ei gydnabod yn y Papur Testun a bydd y Map Cynigion a'r Mapiau Mewnosodiad yn adnabod lleoliad a maint y Parc Cenedlaethol yng nghyd destun aneddleoedd unigol.
Pentrefi Gwasanaethol – Angen gwella'r gwasanaethau lleol i wneud y pentrefi yma yn fwy atyniadol i bobl fyw yna.	Fe fydd yna bolisïau eraill yn y Cynllun yn cefnogi gwasanaethau ar raddfa briodol o fewn fath ganolfannau.
Pentrefi Lleol a Phentrefi Arfordirol/ Gwledig - Anghytuno efo gwahaniaethu rhwng rhain. Mae nifer o bentrefi arfordirol yn hybiau i'r cefn gwlad a buasai atal datblygu, gan gynnwys tai marchnad agored, yn rhain yn arwain tuag dirywiad yn y gwasanaethau ynddynt. Buasai tai marchnad agored yn gallu hybu tai fforddiadwy yn y pentrefi yma.	Nodi'r sylw fodd bynnag angen sicrhau fod datblygiadau mewn rhai Pentrefi arfordirol yn cyfarch anghenion tai a ddim yn arwain at lety gwyliau. Fe fydd gwaith asesu tystiolaeth cyflwyno polisi tai marchnad agored i bobl leol yn adnabod aneddleoedd ble mae angen ystyried hyn yn bellach.
Pentrefi Arfordirol/Gwledig - Dylid cael gwared â'r categori yma (dim tystiolaeth benodol pam).	Ddim yn cytuno efo hyn, teimlir fod y categori yma yn adnabod haen benodol o aneddleoedd o fewn yr ardal. Mae'r dystiolaeth sydd i'w weld yn y Papur Testun sydd yn egluro fod angen polisi sy'n rheoli datblygiad tai'n ofalus.
Clystyrau – Yn erbyn cyfyngu twf y rhain i dai fforddiadwy yn unig, credu y gwnaiff hyn effeithio ar dwf tai a datblygiad economaidd.	Anghytuno efo hyn mae Polisi Cynllunio Cymru yn glir y dylid cyfyngu ar ddatblygiad yn rhain i dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.
Ysgolion – Angen sicrhau fod pentrefi yn cael ei dewis ar sail fod ysgol gynradd hyfyw ynddynt.	Mae Pentrefi wedi cael ei adnabod oherwydd bod yna o leiaf un cyfleuster allweddol ynddynt a all fod yn Ysgol. Mae'r Uned yn trafod efo Gwasanaeth Addysg y ddau awdurdod eu strategaeth ynglŷn ag ysgolion. Fodd bynnag mae amserlen adolygu ysgolion yn brosiect tymor hir a ni yw'r holl benderfyniadau wedi ei gwneud hyd yma. Hyd yn oed os yw ysgol yn cau fe fydd ysgol arall (newydd) ar gael mewn man hygyrch arall ac fe fydd y pentref yn dal efo rôl i gynnal yr ysgol newydd.
Anghenion Cymunedau - Angen mwy o bendantrwydd am sut bydd datblygiadau mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol yn cael	Bydd y gwaith tai marchnad agored person lleol yn cynhyrchu sail tystiolaeth all gyfiawnhau cyfyngu datblygiadau i'r categori

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
eu cyfyngu i anghenion y cymunedau hynny mewn ffordd all wrthsefyll her mewn apêl.	yma yn unig.
Mewnlenwi – Teimlo bod dim ond cefnogi mewnlenwi yn mynd i ddinistrio Pentrefi Bach. Yn hytrach dylid rheoli twf o fewn fath ganolfannau gan y Cyngor Cymunedol.	Un o'r profion o gadernid yw bod mecanwaith clir ar gyfer gweithredu polisïau'r cynllun. Buasai rhoi rheolaeth twf mewn Pentrefi i Gynghorau Cymuned a ddim ei ddiffinio yn glir yn y cynllun yn creu ansicrwydd dros y lefel twf y gellid ei ddisgwyl ynddynt. Fodd bynnag mae gan Gynghorau Cymuned rôl i'w chwarae wrth ddatblygu'r cynllun.
Ffin Datblygu – Mae ffin ddatblygu yn lleihau cyfleon ar ymylon pentrefi ac yn gallu codi gwerth tiroedd o fewn y ffin gan eu gwneud yn llai fforddiadwy i'r gymuned leol.	I'r gwrthwyneb mae ffin datblygu yn gallu rhoi sicrwydd bod safle oddi fewn yn addas i'w ystyried ar gyfer tŷ. Mae adolygiad o hen gynlluniau'r ddau awdurdod wedi dangos mwy o wendidau wrth beidio â chynnwys ffin. Y bwriad yw cyflwyno ffin datblygu i'r pentrefi fodd bynnag ble nad oes dynodiad penodol sicrhau fod yna rhai safleoedd i blotiau unigol yn cael ei chynnwys o fewn y ffin.
Plotiau mewn Clystyrau - Cefnogi ceisiadau am blotiau unigol mewn clystyrau ar gyfer cyfarch anghenion lleol. Fodd bynnag ni ddylid cyflwyno cytundeb 106 efo datblygiadau o'r math yma gan fod hyn yn effeithio ar gyfleoedd bobl i gael morgais.	Buasai yn rhaid defnyddio mecanwaith cynllunio berthnasol i reoli datblygiad lleiniau mewn achosion fel yma. Fel arfer cytundeb 106 sy'n cael eu defnyddio i sicrhau fod y plotiau yn cael ei chadw fel rhai fforddiadwy i'r dyfodol. Mae'r Adran Gynllunio yn gweithio efo Gwasanaeth Tai'r ddau awdurdod a rhanddeiliaid allanol i wella cyfleoedd gael morgais i fath ddatblygiadau.
Canolfan Isranbarthol Bangor - Cyfeirir tuag at ddatblygiad y tu fewn i Fangor ac ar ei ymylon. Gofynnir am ddiffiniad o 'ar ei hymylon'.	Bydd cynllun mewnosodiad manwl yn cyflwyno ffin datblygu i'r Ddinas ac yn adnabod safleoedd datblygiad perthnasol.
Bangor – Angen cynllunio pa rannau o Fangor sydd yn addas ar gyfer myfyrwyr a pha rannau a ddylid eu gwarchod ar gyfer teuluoedd lleol. Ni ddylid caniatáu tai i fyfyrwyr ar y stryd fawr.	Mae gwaith yn cael ei gario allan ar effaith myfyrwyr ar y Ddinas ac opsiynau i'r dyfodol. Bydd polisi manwl yn y cynllun ar gyfer anghenion myfyrwyr.
Canolfannau Gwasanaethol Trefol Caergybi - Cefnogi lleoli mwyafrif o dwf yr Ynys i Gaergybi. Angen eglurhad i ba raddau bydd y ffin datblygu yn cael ei ymestyn.	Oherwydd ei rôl a'i sgôr yn Bapur Testun 5 fel Canolfan Gwasanaethol Trefol bydd Caergybi yn cael canran uchel o dwf Ynys Môn. Bydd y map mewnosodiad manwl o'r dref yn nodi ffin datblygu a thiroedd addas i gyfarch y lefel twf disgwyliedig.
Canolfannau Gwasanaethol Lleol Porthaethwy, Llanfairpwll a Biwmares - Dylid cyfuno'r rhain i greu grŵp o aneddleoedd sydd yn cefnogi'r ganolfan Isranbarthol ac yn chwarae rôl fel Canolfan Gwasanaethol Trefol.	Mae'r 3 canolfan wedi cael eu hadnabod fel Canolfannau Gwasanaethol Lleol. Mae eu lleoliad ar ymyl y Fenai ger Bangor yn golygu fod yna gysylltiad efo'r ganolfan Isranbarthol. Bydd fersiwn nesaf o Bapur Testun 5 yn cofnodi ardal dylanwad Bangor a'r Canolfannau Gwasanaethol Trefol. Credir bod y dull yma yn ffordd fwy ymarferol o ddangos y

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
	berthynas rhwng y Canolfannau dan sylw a'r berthynas gyda Bangor. Felly nid ydym o'r farn eu bod yn ffurfiol grŵp penodol ar gyfer rôl Canolfan Gwasanaethol Trefol.
Porthaethwy - Ddim eisio gweld datblygiad yn stadau Tyddyn Isaf / Pen Llon oherwydd effaith ar fioamrywiaeth a safon y seilwaith presennol. Dylid lleoli datblygiadau mawr dai yn agos i aneddleoedd allweddol megis Bangor. Angen sicrhau bydd yna letem las rhwng Porthaethwy a Llanfairpwll.	Mae'r gwaith o asesu addasrwydd safleoedd ar gyfer eu datblygu'n mynd yn ei flaen yn unol â'r fethodoleg a gafodd ei chymeradwyo. Bydd mewnbwn rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn adnabod unrhyw gyfyngiadau ar safleoedd posib yn ardal Tyddyn Isaf/ Pen Lon. Fel Canolfan Gwasanaethol Lleol bydd disgwyl i Borthaethwy gymryd canran o dwf yr Ynys os na fydd yna gyfyngiadau penodol arwyddocaol yn atal hyn. Bydd polisïau ar y dirwedd yn asesu'r angen am letem las rhwng Porthaethwy a Llanfairpwll.
Abersoch - Dylid ystyried cyfleoedd gyflogaeth tua'r dyfodol ar gyfer Abersoch. Teimlir ei fod yn lleoliad addas i gymryd unrhyw dwf na ellid ei gyfarch ym Mhwllheli. Ar y llaw arall ceir sylw na ddylid cael safleoedd marchnad agored yno oherwydd lefel uchel o ail gartrefi yn y gymuned.	Mae sail tystiolaeth cyflogaeth yn adnabod anghenion i'r dyfodol a ble mae yna fylchau. Mae angen adnabod tiroedd yng nghyffiniau Pwllheli ac mae gwaith wrthi'n cael ei gario allan yn asesu safleoedd posib yn yr ardal yma. Dylid cofio fod Abersoch o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Tra na ydy'r dynodiad yma'n gwahardd datblygiad mae angen rhoi ystyriaeth i argaeledd llefydd du allan i'r AHNE neu ddulliau eraill o gyfarch angen yn enwedig yn achos datblygiad ar raddfa fawr fel stad busnes/ diwydiannol. Ar gyfer safleoedd marchnad agored fe fydd gwaith asesu tystiolaeth cyflwyno polisi tai marchnad agored i bobl leol yn adnabod aneddleoedd ble mae angen ystyried hyn yn bellach.
Y Fali - Mae wedi ei leoli yn agos i Gaergybi a safle Wylfa, efo cysylltiad trên i Fangor a nifer o gyfleusterau yn y ganolfan. Credir y dylid cyfarch lefel twf uwch o oddeutu 170 o unedau yn Y Fali os na all canolfannau haenau uwch gymryd eu twf disgwyliedig.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 wedi cymharu gwahanol wasanaethau a chategorïo'r anheddle fel Canolfan Gwasanaethol Lleol ar sail hyn. Nid oes bwriad rhoi lefel twf o 170 o unedau yn Y Fali os na all canolfannau eraill yn yr ardal ymgymryd â'i lefel twf disgwyliedig.
Pentrefi Llannerch-y-medd – Dylid ei gategoreiddio fel Canolfan Gwasanaethol Lleol gan fod ganddo nifer o wahanol gyfleusterau. Buasai hyn yn sicrhau twf cynaliadwy i warchod y cyfleusterau yma yn y tymor hir.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 wedi cymharu gwahanol wasanaethau a chategorïo canolfan fel Pentref Wasanaethol ar sail hyn. Mae ei rôl fel Pentref Gwasanaethol yn golygu bydd yna ddynodiadau tai o fewn y Pentref.
Trearddur - Ddim yn cytuno efo'i gategoreiddio fel Pentref Arfordirol/Gwledig heb ddynodiad a thai marchnad agored. Angen ystyried ei leoliad ger ardaloedd twf uchel gyflogaeth e.e. Parc Cybi a safle Alwminiwm Môn. Yn hytrach dylid ei gategoreiddio fel Pentref	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 wedi cymharu gwahanol wasanaethau a chategorïo canolfan fel Pentref Arfordirol ar sail hyn. Rhagwelir y gallai hyrwyddo mwy o dai marchnad agored i anheddle tebyg i Drearddur yn gwaethygu'r

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Gwasanaethol.	anghydbwysedd yn y farchnad tai lleol. Er hynny, os na all canolfannau fwy yn yr ardal ymdopi efo'u dwf disgwyliedig yna bydd yn rhaid ystyried aneddleoedd yn y cyffiniau. Fel canolfan sydd yn boblogaidd fel cyrchfan gwyliau gall y gwaith tai marchnad agored i bobl leol bod yn briodol i'r ganolfan yma.
Trearddur – Angen sicrhau fod datblygiad yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion y Pentref a'i berthynas i ganolfannau haen uwch.	
Moelfre - Anghytuno efo'i gategoreiddio fel Pentref Arfordirol/ Gwledig. Mae ganddo seilwaith cymdeithasol da, ysgol gynradd a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da. Oherwydd hyn ni ddylid cyfyngu twf i dai fforddiadwy angen lleol yn unig.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 wedi cymharu gwahanol wasanaethau a chategorïo canolfan fel Pentref Arfordirol ar sail hyn. Rhagwelir y gallai hyrwyddo mwy o dai marchnad agored i anheddle tebyg i Foelfre yn gwaethygu'r anghydbwysedd yn y farchnad tai lleol. Fel canolfan sydd yn boblogaidd fel cyrchfan gwyliau / ar gyfer mewnfudo i ymddeol, gall y gwaith tai marchnad agored i bobl leol bod yn briodol i'r ganolfan yma. Gall hyn gyfiawnhau dynodiad tai marchnad agored i bobl leol yn y ganolfan.
Llanbedrog - Dylai gael ei ail gategoreiddio fel Canolfan Wasanaethol Leol gan ei fod ddim ond un marc yn is na Botwnnog sydd wedi ei adnabod fel Canolfan Wasanaethol Leol. Mae yna fwy o wasanaethau yn Llanbedrog. Fodd bynnag yn cytuno na ddylid cael dynodiadau tai marchnad agored yno. Angen cadw a denu pobl ifanc i'r gymuned trwy sicrhau tai a gwaith iddynt.	Os na bod cyfyngiadau penodol fe ddisgwylir lefel uwch o dwf mewn Canolfannau Gwasanaethol Lleol o'i gymharu â Phentrefi Gwasanaethol. Fel rhywle sydd yn boblogaidd fel cyrchfan gwyliau / ar gyfer mewnfudo i ymddeol, gall y gwaith tai marchnad agored i bobl leol bod yn briodol i'r anheddle yma. Gall hyn gyfiawnhau dynodiad tai marchnad i bobl leol yn y ganolfan.
Rachub - Argymell y dylid ei ail gategoreiddio fel Pentref Lleol yn hytrach na Phentref Gwasanaethol.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 wedi cymharu gwahanol wasanaethau a chategorïo'r anheddle fel Pentref Gwasanaethol ar sail hyn. Ni chafodd tystiolaeth ei gyflwyno i gyfiawnhau peidio defnyddio'r fethodoleg neu fod y manylion yn anghywir. Bydd gwaith manwl yn asesu os oes cyfleoedd priodol i ymgymryd ar lefel yma o dwf yn y ganolfan.
Bontnewydd – Pryderu am or-ddatblygu gan ei fod yn Bentref Gwasanaethol. Dylai gael ei ail-gategoreiddio yn Bentref Lleol gan fod yna ganiatâd am 30 o unedau yna, prinder lle yn yr ysgol ac effaith colli tir amaethyddol.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 wedi cymharu gwahanol wasanaethau a chategorïo anheddle fel Pentref Gwasanaethol ar sail hyn. Ni chafodd tystiolaeth ei gyflwyno i gyfiawnhau peidio defnyddio'r fethodoleg neu fod y manylion yn anghywir. Bydd unrhyw diroedd efo caniatâd cynllunio ers 2011 yn cyfrif tuag at anghenion twf i'r cynllun yma.
Morfa Nefyn & Edern – Croesawu eu dynodiad fel Pentrefi Arfordirol/Gwledig a'u cyfyngu i ddatblygiadau sy'n cyfarch anghenion y gymuned yn unig.	Nodi'r sylw.
Llandegfan - Wedi ei adnabod fel Pentref Lleol eto o fewn pellter cerdded ac efo cysylltiadau	Nodi'r sylw am leoliad Llandegfan. Cytuno fod angen rhoi marc ychwanegol ar gyfer y dafarn

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
trafnidiaeth gyhoeddus da efo Porthaethwy sef Canolfan Gwasanaethol Lleol efo nifer o gyfleusterau. Dadlau hefyd fod yna fwy o gyfleoedd ddatblygu yn Llandegfan. Mae'r sgôr iddo yn anghywir gan nad yw wedi derbyn marc am y dafarn leol hefyd mae yna 3 neuadd bentref yno ac Eglwys o fewn 200m i'r ffin datblygu. Credi'r dylid ei sgorio yn ganolig ar gyfer cyfleoedd gyflogaeth oherwydd yr Ysgol Gynradd. Buasai hyn yn golygu ei fod yn debycach i sgôr Gwalchmai a Niwbwrch ac felly yn cael ei gategoreiddio fel Pentref Gwasanaethol.	o fewn y pentref a marc pellach gan fod ganddo fwy nag un neuadd pentref. Mae'r system sgorio yn y Papur Testun wedi rhoi marc ar gyfer ysgolion o fewn pellter cerdded i anheddle fodd bynnag ni yw cyfleusterau eraill megis Eglwysi a Chapeli wedi cael marc am hyn. Mae aneddleoedd sydd efo ysgol gynradd a rhai cyfleusterau eraill wedi cael eu categoreiddio fel Bach yn nhermau sgôr cyflogaeth. Dyma yw'r sefyllfa hefyd efo Gwalchmai a Niwbwrch. Yng ngoleuni hyn derbynnir y dylid rhoi 2 farc ychwanegol i Landegfan ond ni ddylid ei ail gategoreiddio fel Pentref Gwasanaethol.
Angen gwella'r gwasanaethau lleol yng Ngwalchmai, Llannerch-y-medd a Niwbwrch er mwyn denu mwy o bobl i fyw yno.	Bydd polisïau manwl y Cynllun yn cefnogi cynigion gwasanaethau lleol o raddfa a lleoliad addas o fewn y Pentrefi Gwasanaethol hyn.
Clystyrau Llansadwrn - Dylid ei adnabod fel Pentref yn hytrach na chlwstwr oherwydd bod ganddo Ganolfan Gymunedol, lleoliad ger Biwmares er mwyn tynnu pwysau oddi ar Fiwmares ac efo seilwaith priodol.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 yn nodi fod rhaid cael un o'r 9 Gwasanaethau Allweddol i anheddle gael ei gategoreiddio fel Pentref. Ar ddallt fod y Ganolfan Gymunedol wedi cau erbyn rŵan.
Porth Llechog – Dylai gael ei ail gategoreiddio fel Pentref (dim cyfiawnhad penodol wedi ei roi).	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 yn nodi fod rhaid cael un o'r 9 Gwasanaethau Allweddol i anheddle gael ei gategoreiddio fel Pentref. Oherwydd nad os un o rain ym Mhorth Llechog mae wedi ei adnabod fel Clwstwr.
Llanedwen – Dylai gael ei gategoreiddio fel Clwstwr gan ei fod yn debyg i Star sydd yn glwstwr.	O waith blaenorol gan yr Uned nid oes yna grŵp cydlynol o 10 tŷ yn Llanedwen i ffurfio clwstwr.
Bryn Du – Dylai gael ei ail gategoreiddio fel Pentref Lleol oherwydd ei faint, lleoliad a natur.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 yn nodi fod rhaid cael un o'r 9 Gwasanaethau Allweddol i anheddle gael ei gategoreiddio fel Pentref. Oherwydd nad os un o rain yn Bryn Du mae wedi ei adnabod fel Clwstwr.
Llanddeiniolen - Dylai gael ei gategoreiddio fel Clwstwr gan ei fod yn debyg i Bentir sydd yn glwstwr.	O waith blaenorol gan yr Uned nid oes yna grŵp cydlynol o 10 tŷ yn Llanddeiniolen i ffurfio clwstwr.
Paradwys - Dylai gael ei gategoreiddio fel Clwstwr gan ei fod yn debyg i Star sydd yn glwstwr.	O waith blaenorol gan yr Uned nid oes yna grŵp cydlynol o 10 tŷ yn Paradwys i ffurfio clwstwr.
Llanfaes - Dylai gael ei ail gategoreiddio fel Pentref Lleol oherwydd ei faint, lleoliad a natur.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 yn nodi fod rhaid cael un o'r 9 Gwasanaethau Allweddol i anheddle gael ei gategoreiddio fel Pentref. Fodd bynnag bydd rhaid asesu gallu Biwmares i ymdopi efo'i dwf disgwyliedig. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i asesu'r cyfleoedd a chyfyngiadau yn y Dref ac yn yr aneddleoedd sydd o fewn cyrraedd hwylus iddi. Os na ellid cyfarch y twf yma yn y

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
	Dref ei hun yna gall ei leoli yn Llanfaes fod yn un opsiwn i'w ystyried. Gall hyn olygu uwchraddio'r Clwstwr i fod yn Bentref.
Brynteg - Dylai gael ei ail gategoreiddio fel Pentref Lleol oherwydd ei faint, lleoliad a natur.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 yn nodi fod rhaid cael un o'r 9 Gwasanaethau Allweddol i anheddle gael ei gategoreiddio fel Pentref. Oherwydd nad os un o rain yn Brynteg mae wedi ei adnabod fel Clwstwr.
Saron (Llanwnda) - Dylai gael ei ail gategoreiddio fel Pentref Lleol oherwydd ei faint, lleoliad a natur.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 yn nodi fod rhaid cael un o'r 9 Gwasanaethau Allweddol i anheddle gael ei gategoreiddio fel Pentref. Oherwydd nad os un o rain yn Saron (Llanwnda) mae wedi ei adnabod fel Clwstwr.
Rhostrehwfa - Dylai gael ei ail gategoreiddio fel Pentref Lleol oherwydd ei faint, lleoliad a natur.	Mae'r fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Testun 5 yn nodi fod rhaid cael un o'r 9 Gwasanaethau Allweddol i anheddle gael ei gategoreiddio fel Pentref. Oherwydd nad os un o rain yn Rhostrehwfa mae wedi ei adnabod fel Clwstwr.
Gyrn Goch - Dylai gael ei gategoreiddio fel Clwstwr gan ei fod yn debyg i Fethesda Bach sydd yn glwstwr.	O waith blaenorol gan yr Uned nid oes yna grŵp cydlynol o 10 tŷ yn Gyrn Goch i ffurfio clwstwr.
Bryn Eglwys - Dylai gael ei gategoreiddio fel Clwstwr gan fod yna nifer o esiamplau o aneddleoedd llinellol yng Ngwynedd.	Ni chafodd ei gynnwys gan fod y gwaith blaenorol heb adnabod fod yna lwybr trafnidiaeth gyhoeddus i'r Clwstwr. Ar sail hynny ac yn ddibynnol ar ddim newid arall yn y dull o adnabod aneddleoedd cynaliadwy i dderbyn datblygiad yn ystod oes y Cynllun fe ddylid ei gynnwys fel Clwstwr.
Llanfaglan – Dylid cynnwys Llanfaglan yn yr hierarchaeth.	O waith blaenorol gan yr Uned nid oes yna grŵp cydlynol o 10 tŷ yn Llanfaglan i ffurfio clwstwr.
Tyn Lon (Bangor) - Ni ddylid ei gategoreiddio fel Clwstwr ond yn hytrach ei gynnwys o fewn ffin datblygu Bangor.	Wedi adolygu'r ffin bresennol Bangor yn y CDU ynghyd a natur clwstwr Tyn Lon (Bangor) nid yw'r Uned o'r farn ei fod yn addas i gynnwys yr ardal yma o fewn ffin datblygu Bangor. Yn hytrach ei fod yn cael ei ystyried fel Clwstwr.
Machroes - Dylai gael ei gategoreiddio fel Clwstwr gan fod yn bodloni'r meini prawf.	Mae'r gwrthwynebiad wedi tynnu sylw'r Uned at wybodaeth newydd. Mae'r Uned yn cytuno fod yr anheddle'n cyd-fynd a'r meini prawf presennol. Fodd bynnag fe dderbyniwyd sylwadau am y fethodoleg gan awgrymu nad ydy o'n mynd i ildio datblygiad cynaliadwy. Felly os na fydd y fethodoleg yn cael ei newid mewn ymateb i'r sylwadau hynny fe ddylid ei gynnwys fel Clwstwr ar sail methodoleg i'r Hoff Strategaeth.
Tynygongl - Cael ei adnabod fel Clwstwr eto mae rhannau helaeth ohono yn agosach i gyfleusterau Benllech na rhannau o Benllech ei hun. Mae'r lleoliad arfordirol ac ardal yr	Tynygongl - Bydd rhaid asesu gallu Benllech i ymdopi efo'i dwf disgwyliedig. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i asesu'r cyfleoedd a chyfyngiadau ym Menllech ac yn yr

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
AHNE yn effeithio ar Benllech. Dylid cydnabod yn y Cynllun gall Tynygongl gyfarch peth o dwf Benllech.	aneddleoedd sydd o fewn cyrraedd hwylus iddi. Os na ellid cyfarch y twf yma ym Menllech ei hun yna gall ei leoli yn Nhynygongl fod yn un opsiwn i'w ystyried. Gall hyn olygu uwchraddio'r Clwstwr i fod yn Bentref.
Llanfairynghornwy – Ni yw'r cynllun yn cydnabod ble mae rhai gweithgareddau penodol yn gallu effeithio ar gymunedau cyfagos. Esiampl yw lleoliad yr Awyrlu ger Llanfairynghornwy a dylid cydnabod hyn yn y Cynllun.	Nodi'r sylw. Ni yw'r sail tystiolaeth cyflogaeth hyd yma wedi adnabod angen mawr am swyddi newydd yn yr awyrlu dros gyfnod y Cynllun.
Gerlan - Cwestiynu pam nad yw Gerlan wedi cael ei gynnwys fel Pentref Lleol gan ei fod yn fwy na nifer sydd wedi cael ei chynnwys.	Fe fydd Gerlan yn cael ei gynnwys o fewn ffin datblygu Bethesda sydd wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaethol Lleol.
PS4 – Datblygiad yng Nghefn Gwlad	
Mae llawer ohono'n bolisi cenedlaethol ond nid yw'r meini prawf fel pe baent yn cwmpasu anheddau amaethyddol?	Nodi'r sylw am bolisi cenedlaethol ac wedi adolygu'r polisi o'r farn nad oes angen cynnwys polisi manwl am hyn yn y cynllun. Fodd bynnag bydd rhaid sicrhau fod y cynllun yn cynnwys cyfeiriad clir tuag at bolisi cynllunio cenedlaethol priodol am ddatblygiadau tai y gellid ei gefnogi yng nghefn gwlad. Ar gyfer hyn felly cynigir cynnwys polisi ychwanegol a fydd yn nodi'r angen i ddatblygiadau fod yn gyson a datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol a datganiadau o bolisi cenedlaethol ar reoli datblygu.
Efallai bod angen cyfeirio at bolisïau eraill fel AHNE a bioamrywiaeth a allai effeithio ar ganiatâd.	Dim yn briodol os yw'r polisi yn cael ei dynnu allan. Fe fydd polisïau strategol eraill yn y Cynllun yn ymdrin â'r materion yma.
Paragraff 7.37 - Os yw datblygiad yn y cefn gwlad yn cael ei gyfyngu i rai sydd yn cefnogi'r economi wledig, anghenion lleol am dai fforddiadwy a darparu ynni adnewyddol yna ni yw'n glir pam fod angen polisi ar wahân ar gyfer clystyrau. Argymell felly nad oes angen am bolisi ar gyfer clystyrau.	Y bwriad ym mholisi PS4 oedd cyfeirio tuag at dai fforddiadwy ar safleoedd eithriad gwledig ac ar gyfer newid defnydd adeiladau ble mae'r meini prawf priodol wedi cael ei bodloni. Mae'r polisi Clystyrau yn adnabod aneddleoedd priodol yng nghefn gwlad ble cefnogir tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Teimlir felly fod angen cynnwys cyfeiriad at glystyrau o fewn Polisi Strategol 3.
Newid geirfa'r polisi i gyfeirio tuag at ddatblygiad o 'raddfa briodol'.	Cytuno bydd cyfeiriad tuag at bolisi cenedlaethol yn y mannau priodol o fewn y Cynllun yn cyfeirio tuag at ddatblygiad o raddfa briodol.
Adeiladau yn y Cefn Gwlad - Dylid cael hyblygrwydd yn y polisi i alluogi newid defnydd i dy ble nad yw defnyddiau eraill yn briodol. Oherwydd costau trosi mae'n annhebyg y buasent yn hyfyw fel tai fforddiadwy ac felly dylent gyfrannu tuag at anghenion tai'r ardal.	Mae yna bolisi cenedlaethol ar gyfer yr ail ddefnydd o adeiladau yng nghefn gwlad i ddefnydd economaidd neu fel tŷ fforddiadwy. Bydd polisi manwl arall yn y Cynllun yn ymdrin ag addasu adeilad i fod yn dy.
Datblygiadau Cysylltiedig efo Wylfa - Gellir lleoli datblygiadau hamdden a datblygiadau yn gysylltiedig efo Wylfa yn y cefn gwlad. Dylid cael hyblygrwydd o fewn y polisi i alluogi hyn.	Bydd polisïau penodol yn rhoi sylw i gyfleon a chyfyngiadau datblygiadau megis Wylfa. Rhaid rhoi ystyriaeth i gynaladwyedd lleoliad wrth ystyried datblygiadau yng nghefn gwlad.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Cefnogi'r cyfeiriad tuag trafnidiaeth, alldynnu mwynau a chyfleusterau gwastraff.	Nodi'r sylw.
. Budd Economaidd - Cefnogi'r cyfeiriad tuag at ddatblygiadau twristiaeth ac adloniant ond y dylid ychwanegu cyfeiriad tuag at y budd economaidd o'r fath ddatblygiadau.	Oherwydd bwriad i ddiddymu'r polisi mae hyn yn fater i'w gynnwys mewn polisïau manwl ar gyfer Economi'r Ynys.
PS5 – Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr	
Bod goblygiadau **cyfyngiadau** sylweddol (e.e. perygl o lifogydd), argaeledd seilwaith (capasiti dros ben/darpariaeth a rhaglenni'r), rhaglenni ysgolion a diddordeb yn y farchnad/hyfywedd cyffredinol ac ati, yn llywio'r strategaeth fanwl a bod dyraniadau'n cael eu dosbarthu mewn ffordd dryloyw.	Mae'r Uned wedi bod yn trafod efo Rhan-ddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau fod ystyriaeth berthnasol yn cael ei roi tuag at gyfyngiadau o'r math yma. Fodd bynnag rhaid pwyso cyfyngiadau yn erbyn strategaeth y cynllun a ble yn briodol hybu darparwyr i gyfarch twf disgwyliedig y Cynllun.
Bod y **seilwaith** sydd ei angen i gefnogi datblygiadau yn rhan annatod o'r cynllun ac y caiff hynny ei nodi. Yn gyffredinol, dylid ystyried maint, lleoliad, amseriad a dulliau ariannu seilwaith er mwyn dangos digon o sicrwydd y gellir ei ddarparu dros gyfnod y cynllun.	Mae papur cefndir ar gyfer Isadeiledd yn cael ei baratoi bydd yn adnabod bwriad darparwyr isadeiledd yn yr ardal. Rydym yn trafod cynnwys y Cynllun efo rhan-ddeiliad i ddylanwadu ar ei rhaglenni gwariant hwy. Mae'r Ardoll Isadeiledd Cymunedol yn fecanwaith cynllunio a all hyrwyddo hyn.
Y gellir dangos y **dulliau cyflawni, camau cyffredinol** (e.e. mewn perthynas â seilwaith) ac **amserlenni** ar gyfer rhyddhau a gweithredu.	Cytuno efo'r sylw a bydd y gwaith a gyfeirir tuag ato mewn ymateb i'r ddau sylw uchod yn rhoi'r sail tystiolaeth briodol ar gyfer lliwio Strategaeth Gofodol a Cynigion y Cynllun.
Seilwaith cyflenwi dŵr a dŵr gwastraff: Rhaid i gynlluniau/dyraniadau cynlluniau fod yn gyflawnadwy. Prin yw'r dystiolaeth hyd yma o gapasiti'r seilwaith dŵr gwastraff a chyflenwi dŵr a gallai hyn godi amheuon ynghylch y gallu i gyflwyno safleoedd mewn lleoliadau penodol. Nodir y caiff papur testun arall ei baratoi.	Wrthi yn casglu gwybodaeth gan y Rhan-ddeiliaid i'r Papur Cefndir ac ar gyfer cynigion unigol.
Y perygl o lifogydd: Cyfeirir at y perygl o lifogydd a pharatowyd Asesiad Strategol o'r Perygl o lifogydd. Fodd bynnag, wrth bennu manylion yr hoff strategaeth a dyrannu safleoedd penodol, mae'n hanfodol y rhoddir pwys digonol ar osgoi'r perygl o lifogydd yn unol â pharagraffau 13.2/3 o PCC a TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd.	Cytuno efo hyn. Rydym yn cysylltu efo Cyfoeth Naturiol Cymru a hidlo safleoedd sydd o dan berygl o lifogydd.
Bydd yn bwysig sicrhau: Bod unrhyw seilwaith ffisegol a chymdeithasol arall sy'n ofynnol drwy amodau, rhwymedigaethau A106 neu'r ardoll seilwaith cymunedol yn hyfyw ac yn gyflawnadwy. bod y flaenoriaeth a roddir i ofynion A106 mewn lleoliadau/o dan amgylchiadau penodol yn glir ac yn adlewyrchu cyfyngiadau yn y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol. bod cyfyngiadau o ran seilwaith a'r atebion arfaethedig yn cael eu nodi'n llawn.	Cytuno efo'r sylwadau. Bydd gwaith ar y broses Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) yn gorfod sicrhau fod yr hyn a ofynnir amdano yn hyfyw. Efo'r ASC bydd newidiadau i'r hyn y gellid ei ofyn o dan gytundebau Adran 106 a bydd yn rhaid ystyried hyn o fewn y Cynllun.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Dylid nodi'n glir sut mae argaeledd seilwaith (capasiti dros ben/darpariaeth a rhaglenni'r), y strategaeth ysgolion gwledig, unrhyw gyfyngiadau trech sylweddol (e.e. perygl o lifogydd) a dosbarthiad ymrwymiadau ar hyn o bryd wedi dylanwadu ar yr opsiynau ar gyfer yr hoff strategaeth ofodol, y strategaeth ofodol a ddewiswyd, a manylion y strategaeth honno.	Gweler ymateb i cyfyngiadau sylweddol a seilwaith uchod. Yn ogystal mae yna her i'r Cynllun ble mae amserlen strategaeth benodol yn wahanol i un y cynllun e.e. strategaeth ysgolion gwledig. Ar gyfer y Hoff Strategaeth gofynnwyd am farn gan wahanol wasanaethau / rhan-ddeiliaid.
Camau gweinyddol yw rhan ohoni, nid polisi. Er y crybwyllir yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, mae angen dangos yn gliriach sut y bydd y polisi'n gweithio o fewn y Rheoliadau. Gallai'r rhestr ddymunol godi disgwyliadau afresymol. Mae angen ystyried hyfywedd a blaenoriaethau.	Cytuno y dylid adolygu'r polisi er mwyn tynnu allan materion sydd yn debycach i gamau gweinyddol. Gellid hefyd cryfhau'r Cyflwyniad trwy esbonio yn gliriach sut bydd y polisi yng nghyd fynd efo'r broses Ardoll Seilwaith Cymunedol. Yn olaf fe adolygir y rhestr o faterion isadeiledd y cyfeiri tuag atynt trwy gysylltu tuag at y Papur Cefndir sydd yn adnabod Isadeiledd sylfaenol, angenrheidiol a dewisol.
Nid yw'r Hoff Strategaeth wedi mynd i'r afael yn iawn â chyflawni. Wrth ddatblygu'r cynllun adneuo, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r mater hwn, gan egluro'r seilwaith hollbwysig a sut y caiff ei gyflawni, gan gynnwys amserlenni gweithredu. Ceir arwyddion y bydd angen ystyried y perygl o lifogydd a materion allweddol eraill, fodd bynnag nid archwiliwyd y rhain yn llawn eto.	Cytuno efo'r sylw. Bydd y papur cefndir yn adolygu rhaglenni gwariant darparwyr isadeiledd a hefyd yn rhoi ystyriaeth i gyfyngiadau penodol megis perygl o lifogydd.
Yn ystyried fod y polisi yn cyfarch prawf cadernid C2.	Nodi'r sylw.
Bydd cyflwyno'r angen am gyfraniad ariannol yn cael effaith negyddol ar hyfywdra datblygiadau economaidd yn cynnwys seilwaith a datblygu parciau busnes. Gall hyn olygu nad oes modd datblygu'r fath stadau. Tystiolaeth ddiweddar yn dangos lefel isel o adeiladu tiroedd masnachol yng Nghymru gyfan. Hyn yn mynd yn groes i'r ffaith fod Ynys Môn yn cael ei adnabod fel Ardal Menter. Cwestiynu cynnwys rhai elfennau yn y rhestr megis mynwentydd fel seilwaith ar gyfer hybu datblygiad economaidd.	Mae proses yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn golygu bod yn rhaid i ddatblygiadau fod yn hyfyw er mwyn cyfrannu tuag at brosiectau isadeiledd. Fe adolygir y rhestr o faterion isadeiledd y cyfeiri tuag atynt trwy gysylltu tuag at y Papur Cefndir sydd yn adnabod Isadeiledd sylfaenol, angenrheidiol a dewisol.
Bwysig bod unrhyw gyfraniad ddim yn gwneud datblygiad yn anhyfyw. Oherwydd hyn fe ddylid cynnwys cyfeiriad tuag at hyn o fewn y polisi.	
DC/WW yn cefnogi'r polisi yma ar gysylltiad efo AIC gan ei bod yn fecanwaith effeithiol ar gyfer ychwanegu arian i gyfarch unrhyw ddiffyg mewn costau gwariant cyfalaf. Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i sicrhau bod y seilwaith priodol mewn lle ar gyfer ymdopi efo'r twf disgwyliedig.	Nodi'r sylw. Fe fydd hyn yn cael ei thrafod efo nhw wrth ddatblygu'r gwaith ASC.
Teimlo nad yw'r cynllun yn rhoi sylw priodol i	Rydym yn adolygu'r rhestr o fewn y polisi, fodd

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
bwysigrwydd celf ar gelfyddydau mewn bywyd pobl er mwyn creu diwylliant bywiog a hybu crefftau lleol ar gyfer twristiaeth.	bynnag fe ddylid sylweddoli nad yw'r rhestr yma yn gyflawn.
Credu bod yna rôl bwysig i'r trydydd sector a grwpiau cymunedol i sicrhau fod dylunio a gweithredu datblygiadau seilwaith yn cyfarch anghenion yr holl boblogaeth.	Nodi'r sylw.
Cytuno y dylid cynnwys cyfeiriad tuag at reoli bygythiad o lifogydd ond dylid cael polisi penodol ar gyfer datblygu a chynnal amddiffyniad arfordirol (coastal defence works) gan dirfeddianwyr a busnesau arfordirol i warchod ei buddiannau.	Nodi'r sylw fodd bynnag ddim yn berthnasol i'r Polisi strategol yma. Bydd y Cynllun yn cydnabod bod rhannau o'r ardal dan fygythiad llifogydd neu erydiad, gan gynnwys polisi a fydd yn ymdrin â'r angen am amddiffyniad arfordirol.
Credu bod anghenion y polisi yma yn groes i reoliadau AIC y benodol y cronni o gyfraniadau ar gyfer gwahanol fathau o seilwaith. Dylai'r polisi fod yn gliriach ar gyfer AIC gan na fydd modd defnyddio'r polisi yma pan fydd rheoliadau AIC y dod i fodolaeth.	Bydd y newidiadau i'r cyflwyniad yn esbonio yn gliriach y cysylltiad rhwng ASC a chyfraniadau trwy gytundebau A106.
Dileu'r term 'cyfleusterau cymunedol' ac ychwanegu enghreifftiau eraill megis cyfleusterau iechyd, llyfrgelloedd, canolfannau crefyddol, mentrau celfyddydol a chanolfannau hamdden. Newid yr ail bwynt bwled drwy roi 'difyrrwch' yn lle 'hamdden'.	Bydd polisi arall ar wahân yn cael ei gyflwyno a fydd yn rhestru amrediad o wasanaethau a chyfleusterau y gellid eu darparu.
Am bob kW neu galwyn o ddŵr a gynhyrchir yn ystod bywyd prosiect adnewyddadwy dylid gwneud cyfraniad i'r gymuned leol, wedi'i gysylltu â chwyddiant.	Bydd y polisi manwl yn mynd ar drywydd buddion cymunedol o gynigion adnewyddadwy yn unol â Pholisi Cenedlaethol, fodd bynnag nid yw'n addas nodi lefel benodol.
PS6 – Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr	
Gellir cyfuno PS6 hefo PS7 lle bo materion tebyg yn codi.	Ystyriwyd cyfuno y polisïau, fodd bynnag, oherwydd oblygiadau datblygiad y Wylfa Newydd teimlwyd bod angen Polisi Strategol ar-wahân ar gyfer hyn.
Dylai'r polisi gysylltu â gofynion o ran gwneud penderfyniadau ar ddatblygiadau cysylltiedig ag efallai y byddai'n fwy priodol cynnwys gwybodaeth am y ffordd o ymateb i ymgynghoriad fel testun.	Wrth fireinio'r Polisïau byddwn yn sicrhau eu bod yn ymdrin â materion sy'n unigryw i'r datblygiadau isadeiledd mawr. Er hynny, credir ei bod yn dal yn berthnasol i gyfeirio at rôl y Cynghorau fel cyrff yr ymgynghorir a hwy gan fod y dull yma o lunio polisi wedi cael ei gymeradwyo gan ddau Arolygydd Cynllunio a oedd yn craffu datblygiad Strategaethau Craidd awdurdodau eraill lle fydd yna ddatblygiadau isadeiledd mawr tebyg.
Angen cryfhau'r polisi er mwyn adlewyrchu'r raddfa ac effaith gwahanol y prosiectau isadeiledd cenedlaethol nodweddiadol.	Mae datblygiad y Polisïau yma'n adlewyrchu gwaith sydd wedi cael ei wneud gan Gynghorau eraill sydd hefyd yn wynebu'r run math o heriau a chyfleoedd o ran bod yn gartref i ddatblygiadau isadeiledd mawr. Mae'r rhain wedi cael eu cymeradwyo gan Arolygwyr Cynllunio. Wrth fireinio'r Polisïau i ymateb i

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
	sylwadau eraill byddwn yn sicrhau eu bod yn ymdrin â materion sy'n unigryw i'r datblygiadau isadeiledd mawr. Fe fydd yna fwy o bwyslais yn cael ei roi i raddfa ac effaith datblygiadau prosiectau isadeiledd nodweddiadol cenedlaethol. Yn ychwanegol i hynny bydd polisïau eraill strategol a rhai manwl yn cyfeirio'n fwy manwl at effeithiau'r datblygiadau yma, e.e. cyflogaeth, cludiant.
Angen rhoi ystyriaeth i'r opsiwn amgen o ran y modd o drosglwyddo ynni yn gysylltiedig hefo datblygiadau prosiectau isadeiledd mawr. Ni ddylai Môn fod yn bwynt trawstaith ar gyfer y datblygiadau hyn (peilonau).	Nodi'r pwynt o ran ystyried dulliau amgen, hyn eisoes wedi cael ei gynnwys yn y polisi.
PS7 - Datblygiad yn Ymwneud â Niwclear yn yr Wylfa	
Gellir cyfuno PS6 hefo PS7 lle bo materion tebyg yn codi.	Ystyriwyd cyfuno y polisïau, fodd bynnag, oherwydd oblygiadau datblygiad y Wylfa Newydd teimlwyd bod angen Polisi Strategol ar-wahân ar gyfer hyn.
Dylai'r polisi gysylltu â gofynion o ran gwneud penderfyniadau ar ddatblygiadau cysylltiedig ag efallai y byddai'n fwy priodol cynnwys gwybodaeth am y ffordd o ymateb i ymgynghoriad fel testun.	Wrth fireinio'r Polisïau byddwn yn sicrhau eu bod yn ymdrin â materion sy'n unigryw i'r datblygiadau isadeiledd mawr. Er hynny, credir ei bod yn dal yn berthnasol i gyfeirio at rôl y Cynghorau fel cyrff yr ymgynghorir a hwy gan fod y dull yma o lunio polisi wedi cael ei gymeradwyo gan ddau Arolygydd Cynllunio a oedd yn craffu datblygiad Strategaethau Craidd awdurdodau eraill lle fydd yna ddatblygiadau isadeiledd mawr tebyg.
Nid yw Polisi PS7 yn mynd i afael a safleoedd tai etifeddiaeth. Gallai cysylltiadau â'r Canllawiau Cynllunio Ategol presennol arfaethedig fod yn briodol.	Derbyn y sylw gan ddiwygio'r wybodaeth gefndir/ cyflwyniad i'r polisi i gyfeirio at y mater yma a chynnwys arweiniad ychwanegol priodol yng ngeiriad y Polisi.
Angen mwy o sylw at effeithiau ar draul datblygiad Wylfa B, sef tai, swyddi, addysg.	Ystyrir fod yr angen i liniaru'r effaith posib a ddaw ar draul Wylfa B yn cael ei amlygu mewn nifer o bwyntiau o fewn y Polisi Strategol.
Dim ond ar gyfer 5% o weithwyr y dylid darparu tai pwrpasol. Byddai'r gweddill yn gallu aros mewn tai lleol ar rent neu mewn gwestai lleol gan greu mwy o gyflogaeth. Ar ddiwedd y cyfnod adeiladu dylai'r 5% o dai pwrpasol drosglwyddo i fod yn rhai amod 106 lleol fforddiadwy.	Diwygio'r wybodaeth gefndir / cyflwyniad i'r polisi i gyfeirio tuag at leoliad tai etifeddiaeth. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi datgan ei fod yn disgwyl i'r galw am lety i weithwyr adeiladu gael ei ddiwallu mewn tair ffordd. Ni chyflwynwyd tystiolaeth amgen gan y sylwebydd i gefnogi dull ymateb gwahanol. Bydd y Cynllun yn hyrwyddo tai mewn mannau sydd fwyaf priodol a chynaliadwy. Oni bai am dai fforddiadwy nid yw'r Cynllun yn gallu rheoli meddiant tai newydd.
Angen arweiniad pellach ynglŷn ag anghenion y gweithwyr dros dro. Awgrymir ail eirio pwynt 4. Fe ddylai anghenion y gweithlu gael ei ddarparu mewn modd sydd yn lleihau'r effaith	Awgrymir tynnu'r eirfa "i lawr i lefel sy'n dderbyniol". Mae'r 'Opsiwn a Ffafrir' a gynhwysir yn y 'Datganiad Safbwynt' o ran sut y dylai gweithlu yn gysylltiedig hefo Wylfa gael

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
ar y farchnad dai lleol i'r eithaf. Gellir cyflawni hyn drwy ddarparu llety dros dro pwrpasol i'r gweithlu.	eu lletya yn nodi y ffafrir yr opsiwn o'r dull o ddarpariaeth gymysg. Golygai hyn y byddai 33% o'r gweithlu yn aros mewn llety pwrpasol, 33% wedi ei lleoli mewn tai preifat ar rent a 33% yn aros mewn llefydd pwrpasol ar gyfer twristiaeth.
Ystyrir y gallai rhai o'r safleoedd gwyliau mawr ddiwallu peth o anghenion y 1,600 o unedau llety gweithwyr dros dro. Dylid pwysigrwydd safleoedd gwyliau presennol i ddiwallu'r angen hyn gael ei adlewyrchu yng ngeirfa'r polisi.	
Datblygiadau yn gysylltiedig hefo Wylfa B a dad-gomisiynu Wylfa A yn cynnig cyfleon gyflogaeth.	Nodi'r sylw, ystyrir fod yna gyfeiriadau digonol o fewn y polisi at y cyfleon gyflogaeth sydd yn deillio o Wylfa B.
Pwynt 5, "Dylid ystyried ffurfiau etifeddiaeth o ddefnyddio" - Annelwig, angen eglurder.	Cytuno fod angen ail-eirio'r pwynt yma i fod yn fwy eglur.
PS8 – Darparu Cyfle ar Gyfer Economi Ffyniannus	
Angen ailwampio a mireinio'r rhan hon ar ffurf polisi a meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau.	Derbyn y sylw a diwygio'r polisi i gynnwys meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau.
Mae rhai rhannau yn gamau gweinyddol ac mae angen i rannau eraill nodi goblygiadau o ran defnydd tir.	
Angen cyfeiriad at y mapiau cynigion a pha un yw'r meini prawf yn ymwneud a dyraniadau neu gynigion safleoedd ar hap ychwanegol.	Diwygio maen prawf 3 i gyfeirio tuag at safleoedd cyflogaeth ychwanegol/ar hap.
Angen dealltwriaeth ac eglurhad pellach ynglŷn â'r bwriad o warchod 168ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun.	Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r angen i warchod 168ha o dir cyflogaeth yn cael ei gyflwyno yn y ddogfen gefndir 'Astudiaeth Tir Cyflogaeth', ac mae'n bosib derbyn y fersiwn gyflawn o'r Astudiaeth gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
Angen eglurder os yw'r ychwanegiad o 5ha o dir cyflogaeth ym Mhwllheli wedi ei gynnwys yn y cyfanswm o 168ha.	5ha o dir cyflogaeth ym Mhwllheli/Porthmadog yn ychwanegol i'r 168ha a warchodir. Diwygio'r maen prawf er mwyn esbonio hynny.
Er mwyn sicrhau fod y ddarpariaeth a chyfleoedd gyflogaeth yn gynaliadwy ac yn lleihau'r effaith amgylcheddol argymhellir fod maen prawf 1 yn cael ei ddiwygio drwy gynnwys "lleihau effaith amgylcheddol cyn 'lleihau'r angen i deithio'.	Yn sgil sylwadau Llywodraeth Cymru (uchod), bwriedir dileu maen prawf 1. Bydd polisi arall sy'n berthnasol i bob datblygiad yn delio efo'r mater yma.
Sylwadau'n cefnogi'r bwriad o warchod 168ha o dir cyflogaeth ac yn benodol y bwriad o warchod safle Lledwigan, Llangefni.	Nodi'r sylw.
Cefnogi egwyddorion y polisi yn enwedig y gydnabyddiaeth o'r diwydiant twristiaeth.	Nodi'r sylw.
Bwriedir dynodi cyn safle Friction Dynamex, Caernarfon fel safle cyflogaeth eilaidd. Ni fydd y dynodiad o'r math hyn yn ddigon proffidiol er mwyn caniatáu i'r safle gael ei ail-ddatblygu. Fe ddylai'r Cynllun ddarparu ar gyfer defnydd amgen i'r safle os nad yw defnydd cyflogaeth yn hyfyw, megis defnydd cymysg neu dai.	Nodi'r sylw. Bydd polisi manwl yn gosod y fframwaith perthnasol ar gyfer ystyried datblygiadau amgen ar safleoedd gaiff eu gwarchod ar gyfer defnydd cyflogaeth.
Angen cyfeiriad tuag at ddatblygiadau mawr hamdden drawsnewidiol gan ei fod yn	Cyfeiriad manylach tuag at hamdden yn cael ei wneud ym Mholisi PS9. Ni ystyrir gan hynny ei

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
cyfrannu tuag at yr economi leol a chyflogaeth.	fod yn briodol diwygio Polisi Strategol 8.
Yn deillio o ddatblygiadau ynni mawr fe fydd yna amryw o fuddiannau anuniongyrchol. Angen sicrhau fod y buddiannau economaidd hyn yn cael eu huchafu a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngeiriad y polisi.	Nodi'r sylw, yn sgil ymateb i sylwadau Llywodraeth Cymru, fe fwriedir diwygio geiriad maen prawf 4. Cynigir cynnwys cyfeiriad tuag at uchafu cyfleoedd gyflogaeth o fewn y Polisi Strategol yma.
Angen diwygio'r polisi i gynnwys cyfeiriad tuag at Raglen Ynys Ynni Môn, Parth Menter a datblygiadau ynni mawr. Mae angen i'r Hoff Strategaeth ganolbwyntio mwy ar sut gall y liferi cynllunio sydd ar gael helpu i hwyluso twf ac integreiddio cynllunio a datblygiadau economaidd.	Bydd Rhaglen Ynys Ynni Môn a Pharth Menter Môn yn declynnau allweddol i ddod a'r datblygiadau sy'n angenrheidiol i drawsnewid yr economi ar yr Ynys ymlaen. Mae angen hefyd cynnal rôl yr ardal mewn sawl gwahanol ffordd, gan warchod ac adnabod ystod a dewis o safleoedd ar gyfer cyfarch yr anghenion ar draws y sectorau. 'Roedd y Polisi yma ar ei ffurf wreiddiol yn ymdrin â phob agwedd o ddatblygu'r economi. Ystyrir fod yna gyfeiriad digonol yn cael ei wneud tuag at y teclynnau yma o fewn y testun cefndirol mewn sawl lle yn y Cynllun ynghyd a Pholisi Strategol 7. Bydd testun ychwanegol hefyd yn cael ei gynnwys mewn mannau priodol i gyfeirio at sut gaiff y polisïau eu gwireddu. Yn ychwanegol i'r sylwadau yma dylid nodi hefyd nad yw Parth Menter nad yw'n hwyluso datblygiad drwy Orchymyn Datblygu Lleol yn ddynodiad defnydd tir, ond yn hytrach yn declyn sydd yn hwyluso derbyn arian/cymhorthdal er mwyn adfywio a chefnogi twf economaidd/buddsoddi mewn seilwaith angenrheidiol. Fe fyddai unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n cael eu hwyluso gan Raglen Ynys Ynni/Parth Menter yn destun ystyriaeth yn erbyn polisïau manwl eraill perthnasol o fewn y Cynllun. Yn y Polisi Manwl a fydd yn rhestru'r safleoedd cyflogaeth a fwriedir ei warchod, bwriedir dangos y safleoedd hynny sydd wedi cael eu hadnabod fel rhan o'r rhaglen Parth Menter fel safleoedd sydd angen buddsoddiad.
Angen mwy o bwyslais ar y dull hyblyg yn ymwneud a chyflogaeth a dyrannu tir ar gyfer tai oherwydd prosiectau isadeiledd ynni mawr o'r cyfleoedd sydd yn deillio.	Hyn yn cael ei amlygu ym mhwynt 4 o'r Polisi Strategol. Fe fyddai ceisiadau o'r math yn destun ystyriaeth polisïau manwl perthnasol o fewn y CDLl ar y Cyd.
Cwestiynir yr angen ar gyfer ychwanegiad o 5ha o dir yng nghyffiniau Pwllheli/Porthmadog. Fe ddylid sicrhau fod safleoedd presennol yn cael ei ddefnyddio i'w llawn potensial cyn ystyried safleoedd newydd.	Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r angen ar gyfer ychwaneg o dir cyflogaeth yng nghyffiniau Porthmadog/Pwllheli yn cael ei roi yn y Papur cefndir 'Astudiaeth Tir Cyflogaeth'
PS9 – Yr Economi Ymwelwyr	
Ystyriaeth bellach angen ei roi i'r bwriad o ddarparu llety hunan gwasanaethol yn y canolfannau gwasanaethol gwledig a	Polisi Cynllunio Cymru yn annog datblygiad twristiaeth gynaliadwy sydd yn cyfrannu tuag at ddatblygiad economaidd, cadwraeth,

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
phentrefi, hyn yn gwrth-ddweud PS3 sydd yn cyfeirio twf tai marchnad agored a chyflogaeth i'r aneddleoedd mwy (h.y. ddim y pentrefi).	arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant trefol. Wrth geisio gwneud hynny dylid cydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol. Ymhellach fe gydnabyddir fod twristiaeth yn gallu bod yn sbardun ar gyfer diogelu, adfywio a gwella'r amgylchedd mewn ardaloedd gwledig. Yn sgil yr arweiniad cenedlaethol hwn ni ystyrir ei fod yn briodol diwygio'r polisi.
Cymeradwyir bwriad y polisi.	Nodi'r sylwadau.
Cymeradwyir y bwriad o annog sector twristiaeth drwy gydol y flwyddyn.	
Cefnogir y bwriad o ail-ddefnyddio adeiladau presennol ar gyfer defnydd ymwelwyr ynghyd ac arallgyfeirio ffermydd.	
Cytunir hefo egwyddorion y polisi o ran safleoedd carafanau statig.	
Dylid ffafrio carafanau statig dros rhai teithiol.	
Dylai PS9 annog ehangu safleoedd gwyliau arfordirol presennol, gan gynnwys ychwanegu lleiniau ac ymestyn tymor agor. Dylid asesu buddiannau pob safle yn unigol.	Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r angen i "gyfyngu ar ddatblygiadau newydd i osgoi niweidio'r amgylchedd (er enghraifft mewn ardaloedd arfordirol nad ydynt wedi'u eu datblygu)" Para 11.1.6. Mae ardaloedd arfordirol Gwynedd a Fôn yn sensitif i ddatblygiadau newydd yn enwedig yr ardaloedd sydd wedi ei leoli o fewn yr AHNE. Bydd ystyriaeth bellach i'r posibilrwydd o ehangu safleoedd carafanau presennol, yn ddarostyngedig i nifer o faterion a gynhwysir yn y polisi manwl.
Gallai PS9 gynnwys cyfeiriad at osgoi effaith andwyol datblygiadau ynni mawr ar ansawdd a darpariaeth o lety twristiaeth ym Môn. Fe allai hyn gael ei gefnogi drwy'r angen i gynnal Asesiad o Effaith ar Dwristiaeth.	Nodi'r sylw, fodd bynnag mae'n annhebygol y gallai'r system gynllunio rheoli unrhyw effaith andwyol datblygiadau ynni mawr.
Oherwydd rhesymau tirwedd, ieithyddol a chymdeithasol ni ddylid caniatáu i safleoedd gwersylla/carafanau agor am fwy na 10 mis a hanner (drwy gydol y flwyddyn). Ymhellach nid oes yna adnoddau gorfodaeth ar gael i reoli meddiannaeth y safleoedd.	Mae'r Polisi yn hyrwyddo sector twristiaeth drwy gydol y flwyddyn. Bydd manylion parthed a chyfnod agor safleoedd carafanau yn cael ei gynnig yn y Polisi manwl o fewn y fersiwn Adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd. Nodir for Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth yn annog y defnydd o amod gwyliau yn hytrach nac amod tymhorol. Fodd bynnag fe allai amodau tymhorol fod yn briodol ble nad yw'r uned yn briodol ar gyfer ei feddiannu yn ystod tymor y gaeaf neu ble fo angen gwarchod yr amgylchedd naturiol lleol.
Er mwyn cyd-fynd a'r crynodeb fe ddylai pwynt bwled 1 ddarllen "Diwylliant, celfyddydau, adloniant a chwaraeon".	Derbyn y pwynt a diwygio'r polisi yn unol â hynny.
Os yw cynlluniau ar gyfer gwella/ail-ddatblygu meysydd carafanau presennol yn arwain at	Bydd manylion ynglŷn â sut i ymdrin â cheisiadau ar gyfer uwchraddio/ehangu

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
welliannau amgylcheddol ac economaidd yna fe ddylid ei ganiatáu.	safleoedd carafanau presennol yn cael ei gynnwys o fewn y polisïau manwl.
Dylid cynnwys cyfeiriad tuag at y budd economaidd sydd yn deillio o safleoedd carafanau.	Mae budd economaidd y sector twristiaeth yn cael ei amlygu ym mhrif destun y polisi. Ni ystyrir ei fod yn briodol ail-adrodd hynny.
Gall pwynt 5 gael ei ail-eirio er mwyn cyfleu fod angen lleihau effaith datblygiadau twristiaeth flaenorol ac adfer y niwed sydd wedi ei wneud yn y dirwedd.	Derbyn a chynnwys cyfeiriad at yr angen i adfer niwed blaenorol i'r dirwedd.
Ni ddylid caniatáu safleoedd teithiol newydd o fewn ardaloedd dan bwysau, megis AHNE Llyn ac Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llyn.	Bydd manylion a'r sut i ymdrin â cheisiadau carafanau teithiol yn cael eu cynnwys mewn polisi manwl.
Dylai'r polisïau yn ymwneud a charafanau sicrhau fod yna fanylion dyluniad yn gysylltiedig â'r cynlluniau a mesurau tirweddu priodol.	Derbyn y dylid cynnwys cyfeiriad at leihau'r effaith ar y dirwedd.
Para 7.61, " Mae ased twristiaeth fwyaf ardal y Cynllun yn ei amgylchedd naturiol a hanesyddol. Fodd bynnag, yn ogystal â bod yn asedau twristiaeth fwyaf gwerthfawr ardal y Cynllun, mae'r cefn gwlad ac arfordir, sydd heb gael eu difetha, a'r nodweddion hanesyddol hefyd yn adnoddau mwyaf sensitif yr ardal...." Angen ail-ysgrifennu'r cymalau yma, i'w gwneud yn haws i ddeall.	Cytuno i ddiwygio geiriad Para 7.61
Cyfeirir at y ganolfan is-ranbarthol, canolfannau gwasanaeth trefol a chanolfannau gwasanaeth gwledig, felly a yw'r polisi yn diystyru Canolfannau Gwasanaeth Lleol megis Abersoch? Byddwn yn gwrthwynebu'n chwyrn petai'n cael ei hepgor.	Er mwyn eglurder bydd y cyfeiriad at Ganolfannau Gwasanaeth Gwledig yn cael eu newid i Ganolfannau Gwasanaeth Lleol.
PS10 – Canol Trefi a Manwerthu	
Mae angen cydgysylltu gwaith asesu anghenion a galw manwerthu i'r dyfodol a'r lefelau dosbarthiad twf poblogaeth/tai. Dylai'r hierarchaeth manwerthu a gynigir cysylltu â'r hierarchaeth aneddiadau. Dylid ystyried patrwm presennol y canolfannau a'r archfarchnadoedd yn nhermau parthau dylanwad a'r angen i deithio.	Ystyrir fod y Papur testun yn ymwneud a Manwerthu ynghyd a'r ddogfen gefndirol yn ymwneud a'r Astudiaeth Manwerthu yn cyfeirio at y materion hyn yn ddigonol.
Dylai effaith hirdymor manwerthu dros y rhyngrwyd gael ei hadlewyrchu'n briodol yn yr amcangyfrif o anghenion.	
Mae angen ymdrin â goblygiadau lleol polisi cenedlaethol drwy nodi'r hierarchaeth fanwerthu leol, dynodi canolfannau manwerthu, croesgyfeirio'n glir at y ffaith y dylid seilio penderfyniadau ar dabl anghenion.	Cynnig diwygio'r polisi strategol er mwyn cynnwys yr hierarchaeth (goeden) aneddleoedd o ran manwerthu
Nid yw'n eglur sut mae'r angen ychwanegol am arwynebedd manwerthu wedi cael ei gyfrifo. Fe ddylai'r CDLl neu'r dogfennau atodol gynnwys mwy o fanylder ynglŷn â'r	Mae'r Astudiaeth Manwerthu yn esbonio'n fanwl y rhesymeg o ran yr angen ar gyfer ychwaneg o arwynebedd llawr manwerthu ym Mangor.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
mater.	
Cwestiynir yr angen am fwy o siopa o gofio fod angen 25% yn llai o siopa yng Nghymru.	Nodi'r sylw. Mae'r Astudiaeth Manwerthu yn esbonio'n fanwl y rhesymeg o ran yr angen ar gyfer ychwaneg o arwynebedd llawr manwerthu ym Mangor.
Dylid cynnwys amcan o sicrhau'r anghenion parcio beicwyr er mwyn galluogi beicwyr i siopa'n lleol. Ystyrir yn briodol cynnwys amcan er mwyn sicrhau fod yna gysylltiadau hygyrch a chynaliadwy rhwng cartrefi, siopau a gweithle.	Cytuno i gynnwys amcan a fyddai'n hyrwyddo cysylltiadau cynaliadwy a chanol trefi.
Angen eglurder ynglŷn â beth olygir hefo 'nwyddau cyfleus' a 'nwyddau cymhariaeth'.	Cytuno i gynnwys eglurder ynglŷn â'r term 'nwyddau cymhariaeth' a 'nwyddau cyfleus'. A diwygio'r polisi yn unol â hynny.
Fe ddylai'r polisi gynnwys cyfeiriad tuag at warchod cyfleusterau hamdden a diwylliannol presennol sydd yn hanfodol bwysig ar gyfer bywiogrwydd canol trefi yn enwedig yr economi fin nos.	Ystyrir fod yna gyfeiriad digonol o fewn y polisi mewn perthynas â rôl ganol trefi, boed fel canolfan siopa neu fel canolfan cymdeithasu.
Fe ddylai polisïau hyrwyddo amrywiaeth o ddefnyddiau o fewn canol trefi gan gynnwys defnyddiau cymysg sydd yn cynnwys manwerthu, adloniant, bwytai a thai.	
Bangor – gellid gwneud mwy i gynorthwyo'r Stryd Fawr a denu mwy o dwristiaid i'r Ddinas	Bydd polisïau manwl yn darparu fframwaith i gynorthwyo'r canolfannau manwerthu o fewn ardal y Cynllun.
PS11 – Darpariaeth Tai Cytbwys	
Mynegir y rhan hon fel strategaeth, nid polisi.	Cytuno fod y polisi presennol yn darllen fel strategaeth. Hefyd o'i adolygu teimlo y dylid cael Polisi Strategol ar gyfer y ffigwr twf efo polisi manwl ar gyfer Darpariaeth Tai Cytbwys.
Nid yw'n glir a gynhwysir ffigyrau ar gyfer llithriad yn lefel twf y Cynllun.	Wrth adnabod lefel twf i Gynlluniau Datblygu mae'n arferol i gynnwys lefel wrth gefn o dir ar gyfer tai rhag ofn ceir llithriad darparu'r lefel tai disgwyliedig, e.e. safleoedd ddim yn ildio'r nifer unedau tai disgwyliedig adeg paratoi'r Cynllun. Yn draddodiadol mae hyn oddeutu 10% i 15% a fuasai yn golygu cynnwys rhwng 766 i 1,150 o unedau ychwanegol. Mae'r profion cadernid sydd angen eu cymhwyso wrth baratoi'r Cynllun ac a gaiff eu cymhwyso gan y Llywodraeth a'r Arolygydd yn dweud y dylai'r Cynllun fod ddigon realistig a hyblyg i allu rheoli newid yn yr ardal. Byddai ymgorffori lwfans llithriad yn cynorthwyo'r Cynllun i wneud hynny. Cytuno newid y cyflwyniad i'r polisi i gyfeirio tuag at gynnwys lefel o lithriad yn ffigwr y Cynllun a chyfeiriad at yr angen i fonitro ac adolygu'r Cynllun i weld os ydy o'n llwyddo.
Dylid cysylltu â thabl cynhwysfawr o leoliadau a darpariaeth.	Cytuno i gynnwys cyfeiriad tuag at ddynodiadau tai o fewn y Cynllun yn y polisi manwl.
O'r farn dylai'r ffigwr o 7,665 o unedau gael ei	Heb gael lefel clir o uchafswm twf yn y Cynllun

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
adnabod fel isafswm twf a ddim uchafrif. Fe ddylid delio efo datblygiadau tai mewn lleoliadau cynaliadwy ar eu rhinweddau ei hun yn hytrach na os oes yna gyflenwad 5 mlynedd o dir am dai.	buasai yn anodd iawn asesu effaith datblygiadau ar yr amgylchedd yn ogystal ag effeithiau ieithyddol ayb. Yn ogystal mae'r canllaw polisi cenedlaethol yn glir fod creu uchafswm o lefel twf ar sail tystiolaeth yn briodol.
Teimlo nad yw'r asesiadau anghenion lleol yn ystyried gwahaniaethau mewn math a lleoliad gwahanol fathau o dai i gyfarch anghenion gwahanol fathau o gymunedau.	Bydd polisi manwl ar gyfer cael cymysgedd priodol o dai yn sicrhau bod yn rhaid cael cyfiawnhad efo ceisiadau unigol i ddangos sut bydd y bwriad yn cyfarch anghenion penodol ardal y cais.
Angen sicrhau fod tai hygyrch i gyfarch anghenion pobl efo anabledd yn cael ei ystyried. Angen asesiad manwl o anghenion pobl anabl ynglŷn â maint a math o dai maent angen.	Mae maen prawf 4 yn cyfeirio tuag at sicrhau'r gymysgedd gywir o fathau o unedau. Fodd bynnag i sicrhau fod sylw penodol yn cael ei roi tuag at hyn fe ellid cynnwys cyfeiriad o fewn maen prawf 5.
Dylid ymchwilio i mewn i'r posibilrwydd o gael cwota ar gyfer cartrefi gydol oes i'w gyflwyno trwy'r cynllun.	Mae yn fwy addas i'r cynllun hyrwyddo math yma o ddatblygiad yn hytrach na chynnwys cwota. Bydd trafodaethau efo'r Gwasanaethau Tai yn sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei roi ar gyfer anghenion cartrefi gydol oes.
Fe ddylid cael ymrwymiad i sicrhau bod y lefel uchaf posib o effeithlonedd egni. Ni fydd tai yn fforddiadwy os nad ydynt yn fforddiadwy i'w cynhesu. Dylid cyfeirio tuag at 'Code for Sustainable Homes' ac i dai fforddiadwy bod yn o leiaf lefel 4.	Mae Polisi Strategol 1 a 2 yn hyrwyddo datblygiadau sydd yn effeithiol o ochr egni. Fodd bynnag mae yn fater o gydbwysedd rhwng hybu tai sydd yn effeithlon o ochr egni yn erbyn costau ychwanegol i'w codi ac effaith hyn ar bris fforddiadwy i brynu'r tai yma.
Yr angen i baratoi tai ar gyfer yr henoed.	Nodi'r sylw. Awgrymir bod polisi penodol yn cael ei gynnwys sy'n ymdrin â chartrefi gofal ychwanegol, cartrefi preswyl a chartrefi gofal
Dylid cyfeirio tuag at dai fforddiadwy fel rhai tai cymdeithasol tra bod tai lleol gydag amodau fel cytundeb 106 ar gyfer pobl sydd yn gallu fforddio ei adeiladu ac felly ni ddylid cyfyngu ar eu maint.	Mae Polisi a Chyngor Cenedlaethol yn cydnabod fod tai fforddiadwy yn cynnwys tai cymdeithasol a hefyd tai canolradd. O ran maint unedau penodol yna bydd y polisi manwl yn gofyn am gyfiawnhad ar gyfer yr hyn sydd yn cael ei gynnig. Bydd y canllawiau cynllunio atodol presennol hefyd yn cael eu hadolygu er mwyn cynhyrchu un a fydd yn cefnogi polisïau'r Cynllun newydd. Bydd hwnnw'n rhoi mwy o fanylion.
Dylid cael mwy o hyblygrwydd i dai hunan-adeiladol i bersonau lleol tu fewn a thu allan i ffiniau adeiladu gydag amodau. Hyd yn oed os yw gwaith y person peth pellter i ffwrdd.	Ni fydd polisïau'r Cynllun yn gwahaniaethu rhwng hunan adeiladwyr a chwmnïau adeiladu. Buasai rhoi hyblygrwydd ar gyfer datblygiadau y tu allan i ffiniau adeiladu yn mynd yn groes i Bolisi Cenedlaethol a'r Strategaeth ar gyfer rheoli datblygiadau yng nghefn gwlad yn ofalus.
Angen cyfyngu ar ddymchwel tai presennol a chodi tai mawr ar y safle neu estyniadau mawr i dai presennol er mwyn lleihau colli tai fforddiadwy o ardal.	Nodi'r sylw a phwrpas y polisi manwl bydd sicrhau fod cyfiawnhad priodol yn cael ei roi i wahanol fathau o ddatblygiadau arfaethedig. Byddwn yn edrych ar y dystiolaeth yn yr astudiaethau marchnad tai lleol i weld a oes angen ceisio cynnal rhywfaint o'r stoc tai

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
	presennol er mwyn cyfrannu at gael marchnad dai cytbwys.
Nid yw'n adlewyrchu Polisi Cenedlaethol gan wneud y mwyaf o ailddefnyddio tir a ddatblygwyd eisoes at ddibenion tai cyn rhyddhau safleoedd Tir Glas.	Bydd yr Astudiaeth Capasiti Trefol yn gwerthuso nifer y cyfleoedd tir llwyd sy'n bodoli yn yr aneddleoedd mwy, i sicrhau mai dim ond nifer angenrheidiol y safleoedd tir glas a ddefnyddir.
PS12 – Tai Fforddiadwy	
Bod unrhyw ddatblygiadau pellach i'r hoff strategaeth a'r cynigion/polisïau manwl a gynhwysir yn y cynllun adneuo yn adlewyrchu'r **dystiolaeth** a'r **polisi cenedlaethol** fel tai fforddiadwy.	Mae sail tystiolaeth am anghenion tai fforddiadwy wedi cael ei gasglu ac yn cael ei ddiweddaru yn gyson. Wrth greu polisïau manwl mae ystyriaeth berthnasol yn cael ei roi i'r polisi cenedlaethol.
Cynnwys gwybodaeth am yr angen cyffredinol am dai fforddiadwy a ffigwr targed yn y cynllun. Dylai polisïau anelu at sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf bosibl ond rhaid iddynt gael eu hategu gan dystiolaeth gadarn o angen a hyfywedd a gaiff ei diweddaru'n gyson.	Fe fydd polisi strategol a fydd yn cynnwys ffigwr targed isafswm fwyaf posib am dai fforddiadwy yn cael ei gynnwys yn y Cynllun.
Sail Tystiolaeth - Bod modd dangos y caiff tai fforddiadwy eu darparu a'u cynyddu i'r eithaf wrth i'r ffactorau amrywiol sy'n effeithio ar hyfywedd newid dros amser.	Nodi'r sylw a sicrhau fod yna hyblygrwydd o fewn y polisi i sicrhau cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth i'r eithaf.
Mae'r rhan hon yn debycach i strategaeth na pholisi. Mae angen gadael rhywfaint o le i negodi er mwyn adlewyrchu hyfywedd safleoedd penodol a lefel resymol o uchelgais neu ffordd o wella os bydd y marchnadoedd yn gwella. Dylai'r polisi nodi'n glir ganrannau penodol ar gyfer lleoliadau penodol os bwriedir gwneud hyn. O gofio'r angen am dai fforddiadwy, nid yw'n glir pam bod y nifer wedi'i chyfyngu i 5 mewn ardaloedd trefol? Mae angen ystyried goblygiadau darparu anheddau rhent cymdeithasol o ran hyfywedd.	Cytuno fod y polisi presennol yn darllen fel strategaeth. Hefyd o'i adolygu teimlo y dylid cael Polisi Strategol ar gyfer targed penodol ar gyfer yr isafswm o dai fforddiadwy fydd y Cynllun yn ei baratoi. Yn ychwanegol cynnig cynnwys polisi manwl ar gyfer manylu sut fydd y lefel o dai fforddiadwy yn cael ei gyfarch. Sail tystiolaeth o'r gwaith Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy sydd yn argymell trothwy o 5 mewn ardaloedd trefol. Pan fydd rhestr gyflawn o ddynodiadau tai'r cynllun wedi ei gadarnhau fe ellid adolygu addasrwydd y trothwy yma er mwyn asesu faint o dai fforddiadwy all y cynllun ei baratoi.
Hanfodol peidio â gosod targedau tai fforddiadwy sydd yn afrealistig o uchel. Hefyd fe ddylid cael hyblygrwydd yn y polisi i alluogi ar sail hyfywdra lleihau'r lefel o dai fforddiadwy.	Mae'r sail tystiolaeth yn y Papur Cefndir Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy yn cyfiawnhau'r targed ar gyfer tai fforddiadwy. Mae'r polisi yn esbonio gellid derbyn lefel is ond fod rhaid cyfiawnhau hyn.
Teimlo fod y ffigwr o 10% yn rhy isel ac eisio gweld y lefel isafswm yma yn cael ei godi.	Y lefel o 10% yn un o'r opsiynau ar sail tystiolaeth yn y papur cefndir astudiaeth hyfywdra tai fforddiadwy. Mae hyn yn adlewyrchu natur y farchnad tai mewn rhai rhannau o ardal y Cynllun.
Oherwydd bod yr angen am dai fforddiadwy mor uchel onid ddylai fod yr angen am dai fforddiadwy fod yn 100%.	Mae polisi cenedlaethol yn gwneud hi yn ofynnol fod rhaid cael tystiolaeth i gyfiawnhau'r lefel o dai fforddiadwy o fewn y cynllun. Fel cyfeirir uchod mae yna bapur testun wedi ei baratoi sydd yn adnabod lefel o rhwng 10% i 30% i'r gwahanol ardaloedd marchnad tai.
Paragraff 7.78 – O weld y lefel o angen am dai fforddiadwy cwestiynu pam mae ond 10% -	

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
30% o gyfran tai fforddiadwy a argymhellir yn y Polisi Strategol oni ddylai fod yn 100%?	
Ddim yn gweld sut all y Cyngor sicrhau tai fforddiadwy o faint a dyluniad priodol a hefyd hybu cwmnïau adeiladu i ddarparu swyddi. Y ffordd orau i sicrhau tai fforddiadwy yw sicrhau fod gan bobl swyddi da a chynaliadwy. Dylid dilyn esiampl Catalonia sydd yn rhoi gwaith cyn yr iaith ac erbyn gwan efo swyddi a'r iaith yn llewyrchu.	Nodi'r sylw. Mae'r cynllun yn hybu datblygiadau a allai gryfhau'r economi er mwyn gwella gallu'r boblogaeth i allu fforddio prynu tai marchnad agored. Mae'r polisi yma yn ymwneud yn benodol efo tai fforddiadwy fel y diffinnir gan bolisi cenedlaethol.
Ddim yn cytuno efo'r sail tystiolaeth hyfywdra sydd yn cefnogi'r canrannau yn y polisi. Fodd bynnag teimlo nad yw'n briodol mynd i mewn i'r manylion tan geir y cynllun adneuo.	Nodi'r sylw fodd bynnag tan geir sylwadau manwl nid oes modd ymateb yn bellach.
Paragraff 7.74 – Byddai defnyddio'r gair 'gosod' yn gryfach na 'negodi'	Nodi'r sylw, fodd bynnag negodi yw'r term mae Polisi Cenedlaethol yn ei hyrwyddo.
Paragraff 7.75 – Dechrau efo "...ai Fforddiadwy..." cymal ar goll.	Cytuno, bod geirfa "Mae Tai..." ar goll o ddechrau'r frawddeg yma.
Ble mae tirfeddianwyr / datblygwyr yn dangos amgylchiadau i gyfiawnhau cyfraniad is o dai fforddiadwy ni ddylid derbyn gôr dalu am y tir fel rheswm dilys?	Nodi'r sylw. Mae'r broses asesiad hyfywdra yn gweithio allan beth yw gwerth y safle o ystyried yr holl gostau gan gynnwys darparu lefel briodol o dai fforddiadwy. Mae'n bosib cymharu'r gwerth gweddilliol gyda gwerth presennol y tir. Fodd bynnag rhaid ystyried ym mhob achos unigol effaith peidio negodi lefel is o dai fforddiadwy yn erbyn y posibilrwydd na fyddai dim tai yn dod yn ei flaen oherwydd na fyddai'n hyfyw i wneud hyn.
Cytundeb 106 - Ddim yn teimlo ei fod yn deg fod unigolyn ar safle y tu allan i'r ffin datblygu ond ar ymyl Pentref yn gorfod cael cytundeb 106 tra bod adeilad yng nghefn gwlad sydd wedi cael caniatâd i newid defnydd heb gytundeb arno.	Mae hyn yn adlewyrchiad o bolisïau presennol Ynys Môn. Yn y cynllun newydd o bosib ni fydd yna bolisi yn cefnogi newid defnydd adeiladau allanol i dai marchnad agored.
PS13 – Darpariaeth i Sipsiwn a Theithwyr	
Bod unrhyw ddatblygiadau pellach i'r hoff strategaeth a'r cynigion/polisïau manwl a gynhwysir yn y cynllun adneuo yn adlewyrchu'r **dystiolaeth** a'r **polisi cenedlaethol** fel safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr.	Mae sail tystiolaeth am anghenion Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gasglu ar lefel rhanbarthol. Wrth greu polisïau manwl mae ystyriaeth berthnasol yn cael ei roi i'r polisi cenedlaethol.
Safle Sipsiwn a Theithwyr - **Rhaid i'r cynllun adneuo ddyrannu safleoedd priodol (rhai parhaol a phontio) i fodloni'r gofynion** a chynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf i ddiwallu unrhyw anghenion annisgwyl eraill. Dylai'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gwblhau a dylai unrhyw newidiadau ers 2010 gael eu cynnwys yn y sail dystiolaeth. Bydd cydweithio ag Isadran Ddyfodol Decach Llywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau bod y cynnwys, y dull a'r ymateb a fabwysiadir yn briodol ac y gellir eu cefnogi pan gânt eu harchwilio.	Y bwriad yw adnabod safleoedd priodol parhaol a theithiol yn y Cynllun mewn ymgynghoriad ag awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Dylai'r polisi ddiffinio'r angen a rhaid iddo nodi safleoedd. Ni ddylid defnyddio gwaith ar y cyd, er y cefnogir gwaith o'r fath, fel esgus dros beidio â dyrannu safleoedd yn briodol.	
I sicrhau fod y lleoliad yn dilyn egwyddorion datblygiad cynaliadwy cynnig fod PS 13 yn cael ei ddiwygio trwy gynnwys 'mewn lleoliadau priodol' ar ôl 'Dyrannu tir' yn yr ail gymal yn y polisi. Hyn i sicrhau ei fod yn cyd fynd efo prawf cadernid CE1.	Cytuno i ymgorffori'r newid yma.
Paragraff 7.81 - Cyfeirir tuag at "(i'w gadarnhau)" ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr, mae angen cadarnhau'r ffigwr yma.	Mae ffigyrau o astudiaeth Gogledd Cymru ar gael erbyn rŵan a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y cynllun.
PS14 - Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol	
Wedi ei fynegi ar ffurf camau gweinyddol yn hytrach na pholisi gwneud penderfyniad.	Derbyn y sylw a chynnig diwygio'r testun er mwyn ei wneud yn llai gweinyddol ac yn fwy perthnasol fel polisi rheoli datblygu.
Bydd angen cyfiawnhau ardaloedd tirwedd arbennig.	Mae'r cyfiawnhad ar gyfer yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig i'w weld yn y Papur Cefndir ynglŷn â'r mater.
Dylai'r polisi wahaniaethu rhwng safleoedd bioamrywiaeth 'rhyngwladol' lle mae'n rhaid cymhwyso meini prawf gwahanol a llymach.	Dim newid. Cytuno fod yna wahaniaethau rhwng safleoedd bioamrywiaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol. Ystyrir fod y cyfeiriad a wneir ym maen prawf 1 yn amlygu hynny.
Dylid diwygio'r geiriad fel a chanlyn:- Maen prawf 1: …hanes a thirweddau ardal y Cynllun gan gynnwys amddiffyn a gwella safleoedd…' Maen prawf 4: 'Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig er mwyn cynorthwyo rheoli datblygiad' Maen prawf 5: 'Diogelu gosodiad Parc Cenedlaethol Eryri, Arfordir Môn a AHNE Llyn'. Ymhellach fe ddylid cyfeirio at yr angen i warchod eu harddwch naturiol. Maen prawf 6: Diwygio'r maen prawf i gynnwys darpariaeth ar gyfer gwarchod rhywogaethau pwysig yng Nghymru a rhywogaethau CGBLI (LBAP).	Maen prawf 1 - Cytuno i ddiwygio a chynnwys yr eirfa 'gan gynnwys' er mwyn sicrhau fod rhywogaethau tu allan i safleoedd diwygiedig yn cael eu gwarchod. Maen prawf 4 - Gweler y sylw uchod. Yn dilyn sylwadau eraill sydd wedi eu cynnwys mewn perthynas â'r Polisi Strategol hwn fe argymhellir dileu maen prawf 4. Maen prawf 5 - Gweler y sylw uchod. Yn dilyn sylwadau eraill sydd wedi eu cynnwys mewn perthynas â'r polisi Strategol hwn fe argymhellir dileu maen prawf 5. Maen prawf 6 - Cytuno i ddiwygio'r maen prawf yn unol â'r argymhelliad.
Ni ystyrir ei fod yn briodol cynnwys cyfeiriad at leihau colli tir amaethyddol o fewn polisi sydd yn cyfeirio tuag at yr amgylchedd naturiol. Dylid cyfeirio at yr angen i warchod tir amaethyddol mewn polisi ar wahân, e.e. fel rhan o bolisi PS4 Datblygiad yng Nghefn Gwlad.	Cytuno nad yw'n briodol cynnwys cyfeiriad tuag at ddiogelu tir amaethyddol yn y Polisi Strategol yma, a chynigir dileu'r cyfeiriad a'i gynnwys mewn Polisi Cyffredinol a fydd yn ymwneud ag egwyddorion rheoli datblygu generig.
Nid oes cyfeiriad o fewn y polisi tuag at adfer neu ailddefnyddio safleoedd tir llwyd neu warchod a gwella'r amgylchedd ddŵr. Mae pwysigrwydd ailddefnyddio tir llwyd yn cael ei amlygu ym mharagraff 7.84, fodd bynnag nid	Cytuno hefo egwyddor y sylw. Credir fod yna gyfeiriad digonol yn cael ei wneud yn y cyflwyniad i'r Polisi Strategol tuag at adfer ac ôl-ofal tir llwyd/gwarchod a gwella yr amgylchedd.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
oes cyfeiriad yn y polisi strategol.	
Cwestiynir ffiniau'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig Arfaethedig mewn rhai o'r lleoliadau. Gan gynnwys:- Ymestyn ATA 2 a 3 fel byffer i'r Parc Cenedlaethol. Ymestyn AG 7 i gynnwys yr Ardal gwarchod y dirwedd bresennol fel byffer i Barc Cenedlaethol Eryri. 8, 9, 10 – ymestyn er mwyn gwarchod yr Afon Menai Cwestiynir y bwriad o eithrio ardal Cwmorthin, Cwm Bowydd/Blaenau Ffestiniog ar y sail eu bod rhy fychan a'u gwarchodaeth fel Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig. Ni chytunir hefo'r bwriad i gael Ardal Gwarchod y Dirwedd yn ardal Dyffryn Nantlle. O fewn ardal y chwareli ystyrir y gallai'r dynodiad hyn fod yn fygythiol i'r economi chwareli lleol. Nid yw ardaloedd chwareli traddodiadol eraill yng Ngwynedd yn cael eu heffeithio yn yr un modd (Penrhyn a Blaenau Ffestiniog). Gwrthodir y bwriad o ddynodi Ardal Gwarchod y Tirwedd yn Corris/Aberllefenni.	Nodi'r sylw. Mae'r sylwadau hyn yn benodol ymwneud a'r Astudiaeth Gefndir sydd wedi ei gynnal er mwyn adnabod yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Gan nad ydynt yn ymwneud yn benodol a geiriad Polisi Strategol 14, nid yw'n briodol ymateb i'r sylwadau yn yr Adroddiad yma. Fe fydd y sylwadau a dderbyniwyd yn derbyn sylw priodol wrth baratoi'r polisi manwl a fydd yn y fersiwn Adnau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Y polisi manwl fydd yn gosod y cyfeiriad i ddelio a datblygiadau mewn ardaloedd tirwedd arbennig ac felly'n adnabod y safleoedd unigol ar fapiau. Os yw'r fersiwn Adnau o'r Cynllun yn parhau i beri gofid i'r sylwebyddion fe fydd posib cyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol i'r Cynllun yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.
Angen cyfeirio tuag at Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol. Angen cynnwys cyfeiriad atynt ym mhwynt 7.83.	Nodi'r sylw a chynnig diwygio'r Polisi Strategol yn unol â hynny.
Angen edrych ar yr eirfa a ddefnyddir, e.e. gwarchod yn lle amddiffyn.	Cytuno i ddiwygio'r eirfa er mwyn cyfeirio tuag at 'gwarchod' yn lle 'amddiffyn'.
Ail-eirio maen prawf 2 i ddarllen, "Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth o fewn ardal y cynllun a gwella/neu…"	Cytuno y byddai geiriad a awgrymir yn fwy priodol a chynnig diwygio'r maen prawf yn unol â hynny.
Angen fwy o bwyslais ar yr angen i warchod a gwella ymyl ffyrdd 'arbennig'.	Dim newid. Mae yna gyfeiriad yn para 7.84 tuag at bwysigrwydd ymylon ffyrdd.
Mae angen mwy o gyfyngiadau cynllunio er mwyn sicrhau fod adeiladau newydd yn gweddu a'r adeiladau traddodiadol.	Nodi'r pwynt, mae Polisi Strategol 15 yn benodol ymwneud a materion dyluniad a chadwraeth.
Ystyrir fod y polisi yn rhy drwm. Angen ymdriniaeth gytbwys o ran cadwraeth a'r amgylchedd naturiol sydd yn parhau i ganiatáu datblygiadau twristiaeth sydd o fudd i'r economi leol yn ogystal a ddatblugiadau presennol megis chwareli o fewn i'r rhai o'r ardaloedd yma. Mae yna fodd o leihau effaith datblygiad ar y dirwedd, hyd yn oed yn y lleoliadau mwyaf sensitif.	Mae rhannau eraill o'r Cynllun yn benodol ymwneud a hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth a'r economi a gan hynny ni ystyrir yn briodol ymhelaethu ar yr agwedd yma o fewn y Polisi Strategol penodol yma. Ystyrir fod y cyfeiriad tuag at gefnogi anghenion cymdeithasol/economaidd ar gychwyn y Polisi Strategol yn ddigonol.
Ni ystyrir fod y polisi yn ddigon eglur o ran yr angen i warchod a gwella'r dirwedd. Angen eglurder ynglŷn â'r pwysau a roddir i'r dynodiadau.	Fe fydd yna fwy o fanylder a disgrifiad yn cael ei roi i'r dynodiad yng ngeiriad y polisi manwl.
Pwynt 3: Eglurder ynglŷn â hyn a olygir gan	Fe fydd y Cynllun Adnau efo Rhestr Termau

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
'rwydwaith o isadeiledd gwyrdd/glas'.	fydd yn cynnwys cyfeiriad tuag at isadeiledd gwyrdd/glas.
Pwynt 4, sut fydd dynodiad Ardal Gwarchod y Dirwedd yn rheoli datblygiad?	Manylder hyn i'w gynnwys mewn polisi manwl ynglŷn â'r mater.
Angen cyfeiriad at warchod gosodiad yr AHNE yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Eryri.	Yn sgil sylwadau arall sydd wedi ei dderbyn mewn perthynas â'r Polisi Strategol mae'r maen prawf 5 yn cael ei ddileu. Ystyrir fod maen prawf 1 yn ei ffurf ddiwygiedig yn pwysleisio'r pwysigrwydd i warchod a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
Croes gyfeiriad yn unig yn cael ei wneud i SO24 sydd ddim yn gwneud synnwyr.	Cytuno a'r sylw. Bydd y tabl 'Cysondeb a Strategaeth a Pholisïau Eraill' yn cael ei ddiwygio yn dilyn adolygiad o rannau eraill o'r Cynllun.
Dylid cynnwys cyfeiriad at sicrhau na fyddai datblygiad yn cael effaith andwyol ar yr arfordir.	Dim newid. Credir fod yna gyfeiriad digonol yn cael ei wneud at sicrhau na fyddai datblygiadau yn cael effaith andwyol ar yr arfordir yn rhan gyntaf y polisi.
PS15 – Amddiffyn a Gwella Asedau Diwylliannol a Threftadaeth	
Wedi ei fynegi ar ffurf camau gweinyddol yn hytrach na pholisi gwneud penderfyniad.	Cytuno fod angen ail-eirio'r polisi er mwyn ei wneud yn bolisi mwy perthnasol i reoli datblygu a dileu'r cyfeiriadau sydd yn fwy gweinyddol ei natur.
Mae PS15 yn cyfeirio at y ffaith bod Diwydiant Llechi Gogledd Cymru yn ymgeisydd am Statws Treftadaeth y Byd. Mae hwn yn gam pwysig yn y broses enwebu y dylid ei holrhain yn y cynllun adneuo drwy gynnwys polisi priodol a chyfeirio at gamau gweinyddol pellach.	Derbyn y sylw a chynnig cynnwys y manylion mewn polisi manwl.
Angen ehangu ar bwynt 2, angen ei wneud yn glir fod hyn yn cynnwys 'treflun' a 'gosodiad tirwedd aneddleoedd'.	Yn sgil ymateb i'r sylw uchod fe gynigir fod pwynt 2 yn cael ei ddileu. Cynigir cynnwys maen prawf 2 o fewn y cyflwyniad ynghyd a chynnwys cyfeiriad at dreflun a gosodiad tirwedd aneddleoedd'.
Dylid ystyried diwygio maen prawf 5 drwy gynnwys "a'u gosodiad" ar y diwedd.	Peidio derbyn, gan fod y rhan cychwynnol i'r polisi yn cyfeirio tuag at osodiad.
Cefnogir mewn egwyddor y bwriad o faen prawf 3, 'Yr Ymgeisydd am Statws Treftadaeth y Byd, Diwydiant Llechi Gogledd Cymru'. Bydd angen ystyried yn ofalus y cyfyngiadau cynllunio a allai ddeillio o ymgeisio am y statws.	Nodi'r sylw
PS16 - Technoleg Adnewyddadwy	
Ynni adnewyddadwy: Nodir bod Asesiad o Ynni Adnewyddadwy wedi'i gynnal yn unol â PCC, TAN 8, y Pecyn Cymorth Ynni	Cytuno efo'r sylw ac fe fydd canfyddiadau'r gwaith yma yn bwydo i mewn i'r cynllun adneuo.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Adnewyddadwy a llythyrau egluro cysylltiedig. Dylid cynnwys y canfyddiadau yn y cynllun adneuo. Sicrhau y caiff adnoddau ynni adnewyddadwy eu hyrwyddo drwy ddatblygu polisïau manwl.	
Wedi'i fynegi ar ffurf camau gweinyddol yn hytrach na pholisi gwneud penderfyniadau.	Cytuno y dylid adolygu'r polisi er mwyn tynnu allan materion sydd yn debycach i gamau gweinyddol.
Wrth gefnogi'r ddarpariaeth o fewn maen prawf 1 yn cwestiynu beth sydd yn cael ei gyfeirio tuag ato fel dynodiad tirwedd "ryngwladol". Yn ogystal er mwyn cael eglurder yn y cynllun fe ddylid cyflwyno diffiniadau i dermau megis dynodiadau tirwedd ryngwladol a cenedlaethol yn y cynllun.	Mae dynodiad tiroedd rhyngwladol yn cyfeirio tuag at Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu safleoedd RAMSAR. Fodd bynnag cytuno y dylid cynnwys rhestr termau o fewn y cynllun adneuo.
Wrth groesawu a chefnogi cynnwys maen prawf 2 argymell ei fod yn cael ei adolygu trwy newid "amcanion" efo "cyfanrwydd" er mwyn adlewyrchu yn well terminoleg mewn deddfwriaeth.	Cytuno efo'r newid.
Cefnogi maen prawf 3 ond er mwyn cyflawnrwydd dylid cynnwys cyfeiriad tuag at fioamrywiaeth hefyd ar safleoedd y tu allan i ddynodiadau cadwraeth benodol.	Cytuno efo'r newid.
Dylid cryfhau'r cyd-destun i'r polisi yma trwy gyfeirio tuag at baragraff 12.8.2 o Bolisi Cynllunio Cymru sydd yn nodi y dylai polisïau cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni Datganiad Polisi Ynni cyffredinol Llywodraeth Cymru, a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy.	Cytuno i gynnwys y frawddeg berthnasol o baragraff 12.8.2 o Bolisi Cynllunio Cymru o fewn cyflwyniad i'r polisi strategol.
Croesawu'r cyfeiriad tuag at effaith cronnol safleoedd ynni adnewyddol ar y dirwedd. Ystyried fod angen polisïau penodol ar y mater yma yn benodol ar gyfer tyrbeini gwynt a all arwain at effaith cronnol sylweddol ar y dirwedd.	Cadarnhau bydd yr effaith gronnol o ddatblygiadau ynni adnewyddol ynghyd a datblygiadau eraill yn ffactor bwysig i'w ystyried o fewn polisi yn y Cynllun adneuo.
Dylid cael strategaeth ar wahân ar gyfer datblygiad ynni gwynt ar y tir oherwydd ei effaith ar y dirwedd.	Tra nad yw'n berthnasol i gael strategaeth ar wahân ar gyfer ynni gwynt ar y tir mewn cynllun, mae'n rhesymol cael polisi ar wahân am y math yma o ddatblygiad. Bydd gwaith ymchwil am sensitifrwydd a chapasiti'r tirwedd i ymdopi efo tyrbinau gwynt yn dylanwadu ar y polisi.
Angen strategaeth ar gyfer capasiti, nifer a dosbarthiad y tyrbeini gwynt o fewn yr ardal y mae'r cynllun yn disgwyl i'w gyfarch.	Fe fydd gwaith mae'r Cyngor wedi ei gomisiynu yn edrych ar sensitifrwydd y dirwedd i allu ymdopi efo datblygiadau yn cyfeirio tuag at hyn.
Oherwydd bod ardal eang o Wynedd yn y Parc Cenedlaethol neu'n AHNE mae yn rhoi pwysau ar ardal eithaf bach sydd efo dynodiad is. Hyn yn arwain at beryg o rhwng-weledd o un twrbein i'r llall.	Nodi'r sylw.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Ni ddylid cefnogi tyrbeini o fewn y AHNE.	Rhaid cael sail tystiolaeth i gefnogi hyn gan nad yw'r Polisi Cenedlaethol yn atal datblygiadau yn y AHNE. Bydd yn rhaid adolygu canfyddiadau'r gwaith sensitifrwydd i weld os bydd yna argymhelliad penodol i'r AHNE neu uchder penodol o tyrbeini yn rhannau eraill o ardal y cynllun.
Dylid cyfyngu ei uchder i rhwng 11-15m y tu allan i ardaloedd wedi ei dynodi.	
Paragraff 7.86 – Cyfeirir tuag at nad oes bwriad gosod targedau penodol yn y CDLl ar y cyd ar yr adeg hon. Gofynnir pryd bydd hyn yn cael ei wneud.	Byddwn yn edrych ar gasgliadau'r Asesiad Ynni Adnewyddol a'r Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd i weld os oes tystiolaeth digon grymus i gyfiawnhau cynnwys targed yn y Cynllun.
Dylid cyflwyno isafswm pellteroedd oddi wrth dai.	Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir nad oes sail tystiolaeth i gyflwyno isafswm pellteroedd oddi wrth dai ar gyfer tyrbeini gwynt. Fodd bynnag bydd effaith ar dai cyfagos yn ffactor bwysig o fewn polisi manwl. Bydd gwaith ymchwil yn rhoi sail i adnabod pellteroedd i'w hystyried er mwyn gwarchod mwynderau preswyl.
Dylid cyfyngu ar faint egni o'r twrbein i gyd fynd ag anghenion unigol yr ymgeisydd gan gynnwys datblygiadau ar ffermydd.	Nid oes sail polisi cynllunio i gyfyngu ar faint o egni all tyrbin ei gynhyrchu.
Cefndir - Anghytuno efo cynnwys cyfeiriad i gefnogi datblygiadau cymunedol o dan 5MW. Dylid diffinio'r term ffermydd gwynt bychan wedi'u seilio ar y gymuned. Cefnogi'r datblygiadau cymunedol ble mae'r gymuned leol yw'r brif ran ddeiliaid.	Mae paragraff 2.12 o TAN8 yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol annog datblygiadau hyd at 5MW. Bydd CCA ar Lleoli datblygiad ynni adnewyddol ar wahân yn cael ei baratoi a fe all hwn ddiffinio'r term ffermydd gwynt bychan wedi'u seilio ar y gymuned.
Disgwyl i'r ACLl egluro sut bydd polisïau a strategaeth briodol i'r ardal leol yn cael ei weithredu. Mae TAN 8 yn rhoi dewis eang i ACLl ar gyfer polisi ynni gwynt y tu allan i'r Ardal Chwilio Strategol (ACS).	Mae'r gwaith ymchwil sydd wedi cael ei wneud yn rhoi darlun o'r ardal leol ac felly mynd i ddylanwadu ar y polisi lleol.
Teimlo fod yr ardal yn cyfarch elfen ddigonol o ynni adnewyddol trwy niwclear, hydro, storfa bwmp ac ynni gwynt ar y môr. Mae datblygiadau presennol yn cyfarch anghenion Cymru.	Nodi'r sylw.
Dylid cynnwys ynni gwynt oddi ar y môr yn y ffigyrau oherwydd bydd gwifrau trosglwyddo trydan yn mynd trwy ardal y cynllun.	Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddol yn adolygu cyfleoedd ar y tir ac felly ni yw'n briodol i gynnwys ffigyrau ynni gwynt oddi ar y môr.
Mae rhan fwyaf o darged 2015/17 (2GW) am ynni gwynt ar y tir yn dod o'r ACS efo rhan fwyaf o'r ardal y tu allan o rain i'w cadw yn rhydd o ddatblygiadau mawr ynni gwynt ar y tir. Adroddiad yn 2012 yn dangos fod ceisiadau presennol yn cyfarch y targed yma.	Nodi'r sylw.
Mae anghenion targedau Llywodraeth Cymru o 2016/17 ymlaen yn symud tuag at dechnoleg adnewyddol arall megis amrediad llanw a llanw afonydd / tonnau morol. Dylai'r strategaeth yn y CDLl ar y cyd ganolbwyntio ar	Fe fydd polisïau ynni adnewyddol y Cynllun Adneuo yn cyfeirio tuag at holl dechnolegau adnewyddol.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
y sectorau yma.	
Tydi'r cyfeiriad tuag at PS15 a SO24 ddim yn glir.	Teimlir fod yn berthnasol cyfeirio tuag at PS15 fodd bynnag mae'r cyfeiriad tuag at SO24 yn gamgymeriad gweinyddol a dylid tynnu hwn allan o'r bocs Cysondeb gyda pholisïau a strategaethau eraill.
Ceir byffer o amgylch maes awyr Caernarfon fodd bynnag mae yna 2 twrbein ar y safle.	Pwrpas y byffer yw adnabod ardaloedd ble mae angen ymgynghori ar gyfer effaith datblygiad ar radar neu ddefnydd gweithredol y maes awyr.
Fe all ffermydd solar yn y cefn gwlad ddod yn ddatblygiad adnewyddol i'r dyfodol. Oherwydd hyn fe ddylid creu polisïau penodol ar gyfer y math yma o ddatblygiad.	Nodi'r sylw a chadarnhau bydd polisi yn y cynllun adnau yn cyfeirio tuag at ffermydd solar.
Dylid egluro'r cyfeiriad at yr Ardaloedd Chwilio Strategol ym mhwynt bwled 4.	Mae'r Cynllun yn esbonio pam nad oes unrhyw ardal chwilio strategol o fewn ardal y Cynllun, a bydd y Rhestr Termau yn esbonio'i ystyr.
PS17 – Rheoli Gwastraff	
Mae Nodyn egluro'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn nodi'r safbwynt dros dro tra bod PCC a TAN21 yn cael ei hadolygu. Dylid ystyried polisïau a gaiff eu cyflwyno ond ni ddylai hyn beri oedi i'r cynllun. Dylid parhau i ddefnyddio ystodau cymryd tir, meini prawf lleoliadol ac ardaloedd chwilio o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol er mwyn helpu i ddarparu seilwaith gwastraff amrywiol. Dylai cynlluniau nodi nifer ddigonol o safleoedd i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o gyfleusterau er mwyn bodloni Cyfarwyddebau Ewropeaidd.	Nodi'r sylw
Bydd angen sicrhau fod y polisi yn adlewyrchu cyngor diweddaraf Llywodraeth Cymru.	Nodi'r sylw
Efallai na fydd geiriad y polisi yn adlewyrchu'r hyn a gynhwysir yn TAN21 sydd i fod i gael er ryddhau hwyrach yn 2013.	Nodi'r sylw
Fel rhan o'r dynodiadau cyflogaeth fe ddylai'r CDLl nodi, ble yn briodol safle priodol ar gyfer y ddarpariaeth o weithgaredd trin gwastraff er mwyn rhoi rhyw fath o sicrwydd i weithredwyr sydd â diddordeb mewn cyflawni'r angen yn yr ardal.	Nodi'r sylw - plethu hefo'r polisïau manwl yn ymwneud a chyflogaeth/safleoedd 'Cymydog Gwael' a fwriedir ei gynnwys.
Er mwyn dilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy fe ddylid cynnwys "mewn lleoliadau priodol" ar ôl bod tir digonol ar gael"	Derbyn y sylw a diwygio'r polisi yn unol â hynny.
Mae TAN21 yn nodi y dylid adolygu'r Cynllun Rhanbarthol Gwastraff bob 3 mlynedd, mae yna 4 mlynedd wedi pasio ers i'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru gael ei baratoi. Ystyrir gan hynny fod angen adolygu'r ddogfen ar frys. Gan fod y Cynllun heb gael ei ddiweddaru nid yw'n rhoi sail tystiolaeth gadarn ar gyfer cynnwys y CDLl ar y Cyd.	Mae'r adolygiad o'r Cynllun Rhanbarthol Gwastraff (2009) wedi cael ei ddisodli gan 'Cynllun Sector ynghylch Casgliadau a Marchnadoedd', Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r cyfarwyddyd sydd wedi ei dderbyn, dim ond i'r agweddau gofodol o'r Cynllun y dylai awdurdodau roi sylw iddo bellach.
Dylid cynnwys datganiad clir o fewn y CDLl ar	Derbyn y sylw a chynnig cynnwys yr egwyddor

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
y Cyd o'r ymroddiad i'r hierarchaeth gwastraff. Dylid nodi'r ymroddiad i leihau gwastraff ac uchafu cyfleon ailgylchu a chompostio, gyda phwyslais ar ailgylchu yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer gael dyfodol diwastraff.	yn y polisïau manwl.
Dylid nodi'r ymroddiad i osgoi llosgi gwastraff a allai gael ei ail-ddefnyddio neu ail-gylchu.	Nodi'r sylw a chynnig cynnwys cyfeiriad o fewn y polisi manwl cysylltiedig.
Angen amlygu'r cyfleoedd gwaith a allai ddeillio drwy ddarpariaeth trin gwastraff yn lleol.	Nodi'r sylw a chynnig cynnwys cyfeiriad o fewn y polisi manwl cysylltiedig.
PS18 – Mwynau	
Dylid sicrhau fod y polisi yn adlewyrchu'r mapiau diogelu diweddaraf, MTAN 2 Glo a chanllawiau eraill.	Cytuno fod angen cynnwys cyfeiriad tuag at y polisïau cenedlaethol i gyd a diwygio'r polisi i adlewyrchu hynny.
Dylid adfer i safon dda, nid safon ddigonol.	Cytuno i newid y geiriad i gyfeirio at safon 'dda' yn hytrach na 'digonol'.
Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn destun adolygiad, fe ddylai'r CDLl adlewyrchu'r datganiad pan ar gael.	Nodi'r sylw
Darpariaeth fwy na digonol o wastraff llechi ar gael yng Ngwynedd ac yn enwedig ym Mlaenau Ffestiniog sydd hefo cysylltiadau rheilffordd ar gyfer ei gludo.	Nodi'r sylw
Diwygio geiriad maen prawf 3 i ddarllen, "Cydnabod bod estyn chwareli agregau sy'n bodoli'n barod yn briodol lle mae modd cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy yn unol â chyfres o feini prawf". Hyn yn caniatáu i'r penderfyniad ynglŷn ag ymestyn chwareli gael ei wneud mewn modd gwrthrychol seiliedig ar feini prawf a hefyd yn cynnwys y chwareli llechi ble na all cynhyrchu agregau fel y prif gynnyrch.	Bydd y polisi manwl yn cynnwys meini prawf yn berthnasol i'r egwyddor o wneud penderfyniadau.
Maen prawf 4, os gellir cyflawni egwyddorion datblygiad cynaliadwy nid oes angen ychwanegu "yn debygol". Os yw'r amodau cynllunio yn eu lle dylid caniatáu'r datblygiad.	Peidio diwygio, yn ogystal ag egwyddorion datblygu cynaliadwy mae yna ystyriaethau eraill megis mwynderau a fyddai angen derbyn ystyriaeth cyn penderfynu os yw cais i ymestyn chwarel yn dderbyniol.
Maen prawf 4, angen ei ail-eirio i fod yn fwy positif ac yn cynnwys chwareli nid agregau yn unig, cynigir geiriad megis, "pan mae'r Cynghorau yn cydnabod fod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn gallu eu cyflawni, dylid caniatáu ymestyn y chwarel".	Cytuno, dileu'r gair 'agregau' o'r polisi.
Angen rhannu'r polisi i faterion darpariaeth a materion eraill megis gwarchod ac adfer.	Ystyrir fod y polisi wedi ei eirio'n briodol.
Dylid cynnwys cyfeiriad at dargedau DTRh (RTS) o ran y ddarpariaeth o agregau yn nhermau rhifiadol, gan fod cyfnod y DTRh yn mynd hyd at 2021 fe fydd angen ystyried ffigwr ar gyfartaledd (pro rata) hyd at ddiwedd cyfnod y Cynllun.	Cyfeiriad wedi ei wneud i'r DTRh yn yr ail bwynt bwled o'r cyflwyniad.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Gwarchod - mae'r ddyletswydd i warchod yn bolisi cynllunio cenedlaethol yn cyfeirio at holl fwynau nid agregau yn unig. Dylid diwygio'r testun er mwyn gwneud hyn yn glir.	Cytuno i ddiwygio geiriad y polisi i gyfeirio at fwynau yn hytrach nac agregau yn unig.
Ystyrir yn ddefnyddiol pe fyddai yno restr o fwynau a fwriedir ei warchod oherwydd eu pwysigrwydd economaidd, fel y rhai a restrir ym mharagraff 7.88.	Mae'r mwynau a fwriedir ei warchod yn cael ei amlygu ym mharagraff 7.88.
Byddai'n ddefnyddiol i'r testun gyfeirio at y bwriad strategol i adnabod ardaloedd gwarchod mwynau, nid yw'r modd a fwriedir gwarchod yn cael ei gyfeirio ato.	Bydd y modd mae'r adnodd mwynau yn cael ei adnabod ar gyfer gwarchodaeth yn cael ei amlygu yn y polisi manwl a fydd yn ategu'r Polisi Strategol.
Dylid manylu sut bwriedir adnabod ardaloedd diogelu mwynau.	Derbyn y sylw a chynnig cynnwys yr eglurhad yn y polisïau manwl ategol.
Nid yw'n eglur pam gyfeiri tuag at gyflenwad 12 mlynedd tywod a graen a 15 mlynedd carreg fal. Mae Polisi Cenedlaethol yn cyfeirio at yr angen ar gyfer cyflenwad 10 mlynedd carreg fal a 7 mlynedd tywod a graean. Dylid cyfeirio at yr arweiniad a roddir yn y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau o ran y mater hwn.	Cytuno i ddiwygio'r polisi yn unol â'r argymhelliad.
Mae polisi cenedlaethol yn pwysleisio'r angen i ail gylchu deunyddiau eilaidd, nid yw hyn yn cael ei nodi fel amcan yn y testun.	Gweler maen prawf 3 sydd yn cyfeirio at yr angen i ail-gychu deunyddiau eilaidd.
Fawr o bwerau gan Awdurdodau Cynllunio o ran agregau morwrol. Awgrymir newid geiriad i gyfeirio at lanio a chludiant o agregau morwrol, a fyddai'n gwneud mwy o synnwyr ac yn fwy cyraeddadwy.	Cytuno gydag egwyddor y sylw a diwygio'r maen prawf yn unol. Ynghyd ac ychwanegu cyfeiriad at derfynfeydd rheilffordd sydd hefyd yn fodd cynaliadwy o annog cludiant agregau.
PS19 – Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig	
Yr iaith Gymraeg - Dylai'r goblygiadau i'r iaith fod yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu'r strategaeth a'r dyraniadau, gan gynnwys unrhyw ddatblygiadau ar hap y dibynnir arnynt i gyflawni'r strategaeth. Ni ddylai bod angen asesiad pellach ac eithrio o bosibl i bennu camau lliniaru priodol neu os ceir datblygiad hollol annisgwyl. Ni ddylai hyn amharu ar y broses o gyflawni'r cynllun.	Fe fydd oblygiadau i'r iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth fanwl wrth i'r Cynllun gael ei baratoi. Oherwydd bod ardal y cynllun yn un o gadarn leoedd yr iaith Gymraeg teimlir ei bod yn bwysig cynnwys meini prawf ar gyfer effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg.
Mae pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg yn cael ei adlewyrchu o fewn y cynllun, ond ni cheir fawr ddim am agweddau eraill o ddiwylliant sydd hefyd yn fregus i newid o ganlyniad i ddatblygiad anaddas. Er enghraifft pensaernïaeth ac arddull adeiladu, traddodiadau artistig, digwyddiadau cymunedol, cerddoriaeth, dawnsio a bwyd a chynnyrch lleol, gan gynnwys mynegiad hanesyddol a cyfoes.	Nodi'r sylw. Fodd bynnag ni yw y rhan fwyaf o'r materion a restrir yn faterion defnydd tir. Pwrpas y Cynllun fydd darparu a gwarchod yr isadeiledd sydd ei angen i gefnogi a hybu'r materion yma. Yn ogystal bydd polisïau ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth yn gwarchod rhai o'r agweddau y cyfeirir tuag atynt.
Yn hanesyddol roedd yr amgylchedd naturiol a sut yr oeddem yn gweithio oddi fewn iddo i greu'r dirwedd ac aneddleoedd yr ydym yn ei	Nodi'r sylw.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
weld heddiw, yn siapio ein diwylliant o weithio, bywoliaeth neu ddod at ein gilydd fel cymuned. Heddiw mae llawer o ddylanwadau diwylliannol cyfoes yn cynnwys datblygiadau yn esblygu o du allan i'r ardal, ond yn cael eu croesawu fel ffyrdd cyfleus i wasgaru syniadau da a gwella ein bywydau.	
Gan fod hunaniaeth yn bwysig i ni, mae angen amlygrwydd yn y cynllun i warchod a gwella priodoleddau craidd o fynegiad diwylliannol lleol nodedig, os yr ydynt am oroesi, esblygu a ffynnu yn y dyfodol.	Nodi'r sylw. Mi fydd y Cynllun yn rhoi pwyslais i faterion diwylliannol ac ieithyddol.
Eisio gweld y polisi yn datgan yn fwy cryf na gwarchod y Gymraeg, fe ddylid ei hyrwyddo mewn ffordd gadarnhaol trwy gymreigio cymunedau lle nad yw'r iaith yn brif iaith.	Nodi'r sylw ac wrth gefnogi'r egwyddor rhaid sylwi mae cynllun defnydd tir yw hwn ac felly i'r mwyafrif o lefydd dim ond ychydig o newid bydd yna. Oherwydd hyn dim ond ar y datblygiadau newydd yma bydd y Cynllun yn gallu cael dylanwad. Fodd bynnag fe fydd polisïau eraill y Cynllun yn rhoi isadeiledd priodol mewn lle i roi cyfleoedd i greu cymunedau cynaliadwy.
Pwynt 3 & 4 - Teimlir fod pwyntiau 3 a 4 yn wan iawn. Fe ddylid ei chryfhau'n sylweddol e.e. cynllun penodol 'Cymraeg yn y gweithle', hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, sefydlu 'Mentrau iaith a Gwaith' gyda chyfrifoldeb i hyrwyddo menter garwch trwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae TAN20 wrth gyfeirio tuag at arwyddion a hysbysebion yn annog Cynlluniau i hybu darparu arwyddion dwyieithog. Teimlir fod y materion yma yn briodol i'w cynnwys fel mesuriadau lliniaru mewn eglurder i bwynt 1 yn y polisi.
Pwynt 3 & 4 – Dylid newid 'Annog' i 'Mynnu'.	
Pwynt 2 - Teimlir fod hwn yn negyddol iawn ac nad oes tystiolaeth uniongyrchol ar effaith adeiladu tai ar allu pobl i siarad unrhyw iaith. Dylid dileu amod 2 allan o'r polisi.	Ni chytunir efo'r sylw gan fod angen i ddatblygwyr ddangos sut fod maint, math ayb eu bwriad yng nghyd fynd efo angen ardal am fath penodol o dai.
Ystyrir fod y polisi presennol yn rhy negyddol. Cynigir ail eiriad sydd yn deud "Bydd y Cynghorau yn hybu a chefnogi'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn ardal y cynllun...." Bod ceisiadau a all gael effaith ar ddyfodol Iaith Gymraeg mewn cymunedau yn gorfod paratoi Datganiad Effaith Ieithyddol neu Asesiad Effaith Ieithyddol ar gyfer datblygiadau mwy. Mewn rhai achosion gellid cael 'lliniariad' trwy gyfraniad ariannol trwy gytundeb 106.	Mae TAN20 yn hyrwyddo methodoleg ble mae'r Cynllun Integredig Sengl a phroses y Cynllun Datblygu Lleol ynghyd ar Arfarniad Cynaliadwyedd yn asesu effaith dynodiadau a lefel twf hap y cynllun ar ardal y cynllun. Oherwydd hyn mae paragraff 4.2 o'r TAN yn nodi ni ddylid cynnal asesiad pellach o effaith safleoedd sydd heb eu neilltuo ar y Gymraeg. Er hyn mae'r Uned o'r farn y dylid cyfeirio tuag at yr angen bosib am asesiad neu ddatganiad ieithyddol os bydd cais annisgwyl yn dod yn ei flaen. Fodd bynnag, dylai hyn fod mewn eglurder i'r polisi ac o fewn unrhyw Ganllaw Cynllunio Atodol ar gyfer y polisi strategol.
PS20 – Isadeiledd Cymunedol	
Gorgyffwrdd rhwng PS5 a PS12.	Bydd y polisi'n cael ei gyfuno gyda PS5 Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr a'r polisïau manwl fydd yn amlinellu amrediad o gyfleusterau y gellir eu darparu.
Bydd angen polisïau manwl o fewn y CDLl	Cytuno a'r sylw.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
sydd yn cyfeirio tuag y math o wasanaeth ynghyd a'r angen ar gyfer darpariaeth rheoli hirdymor.	
Angen diffiniad o isadeiledd gwyrdd/glas.	Mae angen ceisio osgoi ychwanegu gormod o fanylder yn y polisïau strategol. Fe fydd y Cynllun Adnau efo Rhestr Termau fydd yn cynnwys cyfeiriad tuag at isadeiledd gwyrdd/glas.
Angen pwysleisio fod angen i ddatblygiadau weddu a'r amgylchedd ffisegol yn ogystal â'r cyd-destun cymdeithasol/diwylliannol.	Dim newid, ystyrir fod gofynion polisïau eraill yn cyflawni'r gofyn yma.
Cytunir hefo egwyddorion y polisi.	Nodi'r sylw
Angen esbonio'r term "Cymunedau Cytbwys eu Hoed Cynaliadwy".	Cynnig diwygio'r geiriad er mwyn ei symleiddio.
Fe ddylai llecynnau gwyrdd, parciau a chefn gwlad fod yn fwy hygyrch i bawb.	Cytuno hefo egwyddor yn y sylw. Cynnig diwygio maen prawf 4 gan ddileu'r cymal olaf.
O ran diogelwch fe ddylai'r llecynnau hyn gael eu goleuo yn briodol.	Ni chredir fod angen cyfeiriad penodol yn y Polisi Strategol yma. Fe fydd polisi Strategol 1 ac unrhyw Bolisi manwl rheoli datblygu yn cyfeirio tuag at faterion diogelwch.
Dylai gynnwys disgrifiad o'r 'cyfleusterau isadeiledd cymdeithasol'.	Bydd y polisi'n cael ei gyfuno gyda PS5 Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr a'r polisïau manwl fydd yn amlinellu amrediad o gyfleusterau y gellir eu darparu. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol hefyd yn cael ei pharatoi i gefnogi'r polisïau manwl a fydd yn rhoi canllawiau ychwanegol.
PS21 – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	
Wrth groesawu'r cynnig o gefnogi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu argymhellir fod y cynllun adneuo yn nodi y dylid defnyddio strwythurau presennol ble bynnag mae hyn yn bosib a lleihau'r defnydd o wifrau uwchben ('overhead lines') yn enwedig yn yr AHNE ac ardaloedd eraill ble mae'r dirwedd yn sensitif. Mewn math achosion yn seiliedig ar ddim effaith arwyddocaol ar ddiddordebau eraill fe ddylid gosod fath isadeiledd dan ddaear.	Cytuno i gynnwys geirfa ychwanegol o fewn y Polisi er mwyn lleihau gwifrau uwchben pan mae hyn yn bosib.
PS22 - Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd	
Pwynt 3 - I'w groesawu fodd bynnag mae'r profiad o greu rhwydwaith beicio yn golygu y gallent fod yn anuniongyrchol, bryniog, tameidiog, efo safon isel o'u cynnal neu mewn lleoliad annymunol e.e. ger lôn brysur. Buasem yn croesawu fod y polisi strategol yn ymrwymo i fwy na dim ond mynediad.	Derbyn y sylw fodd bynnag oherwydd cyfyngiadau mewn rhai lleoliadau ni oes dewis ond lleoli math lwybrau ger ffyrdd prysur. Tra nad oes cynnig ar gyfer materion yn ychwanegol i fynediad wedi ei dderbyn cynigir geirfa ychwanegol i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi tuag at ddiogelwch.
Pwynt 2 - Dylid ystyried effaith posib lleoli ardaloedd twf ger y rhwydwaith rheilffyrdd presennol. Buasai 'Network Rail' angen cynlluniau mwy manwl gan y Cyngor ar gyfer effaith twf masnachol neu dai ar lein neu orsaf benodol. Dylid talu am welliannau rhwydwaith	Mae'r egwyddor du cefn i'r Polisi Strategol yn gyson a pholisi cynllunio cenedlaethol sydd am gyfeirio datblygiadau i lefydd sy'n hygyrch i wahanol fathau o ddulliau teithio, yn arbennig y datblygiadau sy'n denu llawer o bobl. Mater i'w benderfynu adeg cais cynllunio fydd effaith

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
ar sail twf datblygiad masnachol trwy 'CIL', hefyd dylid cael cyfraniad pan mae angen gwelliannau uniongyrchol i gefnogi cais penodol.	datblygiad ar lein neu orsaf benodol. Bydd y Cynghorau'n edrych i mewn i ymarferoldeb datblygu CIL i'w gweithredu yn ardal y Cynllun rhwng rŵan a phan gaiff y Cynllun ei fabwysiadu. Nid teclyn polisi ydy'r CIL, ond mecanwaith i hyrwyddo darpariaeth o isadeiledd priodol os nad ydy gwneud hynny'n effeithio ar hyfywdra datblygiad.
Dylid cael cyfraniad gan ddatblygwr neu trwy 'CIL' ar gyfer gwelliannau rheilffordd o'r math yma.	
Pwynt 3 - Angen ystyried os bydd y gwelliannau yma yn arwain at lwybr yn croesi rheilffordd trwy groesfan wastad. Buasai 'Network Rail' yn gwrthwynebu i unrhyw lwybr beicio sydd yn croesi'r rheilffordd neu yn defnyddio tir 'Network Rail'. Hefyd yn gwrthwynebu i lwybr troed sydd yn defnyddio tir 'Network Rail' neu yn croesi y rheilffordd ar croesfan wastad. Buasai 'Network Rail' yn y fan gyntaf eisio gweld cau croesfan wastad a gosod pont troed yn ei lle neu ble nad yw hyn yn bosib gwelliannau i sicrhau diogelwch.	Nodi'r sylw. Cynnig bod cyfeiriad yn cael ei wneud ar gyfer llwybrau yn croesi y rhwydwaith rheilffyrdd mewn eglurder i'r polisi strategol neu unrhyw bolisi manwl bydd yn cael ei gyflwyno.
Dylid cael rhwydwaith rheilffyrdd ysgafn rhwng Gwynedd a Môn yn defnyddio'r rhwydwaith rheilffordd presennol, hen lwybrau ynghyd a ymestyniadau bach. Buasai hyn yn creu rhwydwaith cyflym trwy'r ardal hyd at cyffordd Llandudno ac yn cynyddu ymwelwyr i'r ardal.	Nodi'r sylw fodd bynnag ddim yn ymwybodol bod yna unrhyw fwriad ar gyfer datblygu rhwydwaith o'r math yma ar hyn o bryd. Oherwydd hyn ni fuasai yn briodol cynnwys hyn o fewn y cynllun.
Angen cynyddu diogelwch i gerddwyr a beicwyr. Dylid symud oddi wrth rhannu palmentydd tuag at rhai ar wahân.	Derbyn yr egwyddor fodd bynnag mewn rhai achosion ni oes lle ar y rhwydwaith ffyrdd ar gyfer creu llwybrau ar wahân. Gellid cynnwys cyfeiriad tuag at ddiogelwch o fewn y polisi.
Hyrwyddo beicio trwy'r ardal a chreu rhwydwaith cerdded integredig. Fe ddylid sicrhau fod llwybrau beicio yn addas i bobl anabl yn defnyddio sgwter symudedd.	Nodi'r sylw a chredir fod y polisi strategol yn barod yn hyrwyddo hyn. Derbyn y sylw ar gyfer defnyddwyr anabl a chytuno i gynnwys geirfa ychwanegol ar gyfer hyn.
Oherwydd prinder cyfleoedd i bobl anabl allu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer nifer o'u hanghenion ac efo gwelliannau mewn trafnidiaeth gyhoeddus dros gyfnod y cynllun fe ddylid cynyddu'r nifer o lefydd parcio i'r anabl.	Nodi'r sylw. Mae'r safonau'n gysylltiedig â llefydd parcio i'r anabl yn seiliedig ar ganllaw cenedlaethol. Bydd monitro polisïau trafnidiaeth y cynllun ar gyfer newid mewn patrymau teithio o fewn yr ardal yn gallu cefnogi cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer llefydd parcio i'r anabl os yn bosib.
Dylai cynllun trafnidiaeth strategol sicrhau bod bysiau a threnau efo mannau mynediad sydd yn hygyrch i bobl anabl.	Nodi'r sylw ac ychwanegu geirfa newydd i sicrhau bod gwelliannau yn ystyried anghenion pobl anabl.
Cefnogi egwyddor y polisi. Fodd bynnag eisio gweld ymrwymiad cryf i hyrwyddo system trafnidiaeth integredig yn enwedig i ddatblygiadau mawr.	Nodi'r sylw a chytuno i newid cyfeiriad tuag at system integredig o fewn y frawddeg sy'n cyfeirio tuag at ddatblygiadau mawr.
Hefyd eisio gweld ymrwymiad i leihau'r nifer o dripiau ar draws y pontydd (e.e. polisi teithio i'r ysgol), er mwyn osgoi'r gost ac effaith	Mae'r Polisi Strategol yn hybu lleoli datblygiad newydd mewn lleoliadau i leihau'r angen i deithio.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
amgylcheddol trydedd bont.	
Ar gyfer cael trydedd groesfan ar draws y Menai dylid cael twnnel tebyg i un Conwy o Griffith crossing, yn hytrach na phont.	Nodi'r sylw. Fodd bynnag ddim yn ymwybodol fod yna gynlluniau penodol ar gyfer trydedd groesfan felly ddim yn briodol ar hyn o bryd i warchod llwybr penodol o fewn y cynllun.
Porthaethwy - Dylid cael system unffordd trwy Borthaethwy i leihau tagfeydd.	Nodi'r sylw. Ddim yn ymwybodol bod yna unrhyw fwriad ar gyfer creu system unffordd ym Mhorthaethwy. Oherwydd hyn ni yw'n briodol ei gynnwys o fewn y cynllun.
Bangor – Angen gwaith i daclo y cynydd mewn trafnidiaeth yn dod fewn i'r Ddinas. Yn croesawu y cyfeiriad tuag at parcio a theithio ac yn y tymor hir eisio hyrwyddo un ar safle stad diwydiannol Bryn Cegin.	Nodi'r sylw. Bydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn trafod anghenion yn gysylltiedig â Dinas Teithio Gynaliadwy, Bangor gyda'r Gwasanaeth Trafnidiaeth Integredig ac os fydd cynigion penodol angen sylw yn ystod oes y Cynllun daw hynny i'r amlwg trwy bolisi manwl yn y Cynllun Adnau.
Pwynt 5 – Ddim yn cefnogi mewn egwyddor y polisi na chwaith gwerth am arian trydydd croesfan i'r Fenai.	Nodi'r sylw.
Dylid ei adolygu i adlewyrchu meddylfryd mwy ymarferol tuag at opsiynau trafnidiaeth posib mewn perthynas â datblygiadau twristiaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu mewn lleoliadau ymylol.	Bydd polisïau twristiaeth, gan annog lleoliadau a dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, hefyd yn cydnabod, bod rhai atyniadau a chyfleusterau angen lleoliad yng nghefn gwlad agored, allan o'r dref, a gallai'r rhain gael eu caniatáu o bosib pe byddent yn arwain at gyfleuster twristiaeth a buddion i gyflogaeth wledig trwy gydol y flwyddyn.
Trydanu rheilffordd o Gaergybi i Hull er mwyn hybu cyfleoedd gludo llwyth.	Pe bai ymrwymiad penodol tuag at hyn yna gellid ei gynnwys o fewn Polisi Strategol 22 Trafnidiaeth. Ddim yn ymwybodol bod yna unrhyw fwriad ar gyfer trydanu rheilffordd o Gaergybi i Hull. Oherwydd hyn ni yw'n briodol ei gynnwys o fewn y cynllun.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno gyda strwythur y CDLl ar y Cyd Adnau?

Crynodeb o'r Prif Faterion a Nodwyd	Ymateb
Awgrymu cynnwys Rhestr Termau i esbonio'r gwahanol dermau.	Cytuno i gynnwys Rhestr Termau yn y cynllun Adnau.
Mae angen i'r strategaeth fod yn hyblyg yn y gwahanol rannau o ardal y Cynllun, gan roi ystyriaeth i anghenion lleol, yn enwedig o ran amaethyddiaeth.	Bydd y polisïau yn y Cynllun Adnau yn cefnogi'r economi leol gan gynnwys amaethyddiaeth, er y bydd yn rhaid ei ystyried yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol a'r angen i amddiffyn cefn gwlad agored rhag datblygiadau ymwthiol.
Nodir y bydd nifer o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn cefnogi'r Cynllun. Mae'n hanfodol fod y dogfennau allweddol ar gael i gyflwyno sylwadau arnynt ar yr un pryd â'r Cynllun Adnau, ac nad ydynt yn cael eu	Bydd y CCA yn esbonio sut y bydd polisïau'n cael eu rhoi ar waith, a byddant yn cael eu llunio ar ôl y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Adnau. Ni fydd CCA yn cyflwyno polisïau drwy'r drws cefn; eu rôl yn syml fydd esbonio

Crynodeb o'r Prif Faterion a Nodwyd	Ymateb
mabwysiadu fel polisi drwy'r drws cefn, sy'n groes i ganllawiau cenedlaethol.	sut y bydd y polisïau a fabwysiadwyd yn cael eu rhoi ar waith. Mae'n amhriodol cyflwyno polisïau newydd yn y modd hwn.
Eisiau gweld Cynghorau Tref yn cael mwy o fewnbwn i'r system Gynllunio.	Nodi'r sylw. Mae cynghorau tref / cymuned wedi'u hadnabod fel cyrff ymgynghori penodol yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun. Yn y modd hwn maent wedi cyfrannu tuag at ffurfio'r Hoff Strategaeth. Disgwylir y bydd rhagor o ymgysylltu'n digwydd cyn penderfynu ar y Cynllun Adnau terfynol, e.e. drwy gyfrwng seminarau neu gyfarfodydd a drefnwyd gan Un Llais Cymru. Nid yw rhoi mwy o bwerau i Gynghorau Tref / Cymunedau o fewn cylch gorchwyl y CDLl ar y Cyd.
Mae angen adran yn cynnwys Monitro ac Adolygu.	Bydd adran ar fonitro ac adolygu'n cael ei chynnwys yn y Cynllun Adnau.
Roedd nifer o adrannau allweddol heb gynnwys tystiolaeth gefnogol, ac yn enwedig yr adran ar drafnidiaeth a oedd yn fwlch arwyddocaol.	Bydd y sail dystiolaeth yn esblygu yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Adnau. Bydd yr holl Bapurau Testun a Chefndir yn cael eu cyhoeddi gyda'r Cynllun Adnau, fydd hefyd yn darparu cysylltiadau neu gyfeiriadau at ffynonellau eraill o wybodaeth.

Cwestiwn 7: Os oes gennych chi ragor o sylwadau neu awgrymiadau am y ddogfen Hoff Strategaeth wnewch chi eu nodi yma os gwelwch yn dda. Mae'n rhaid i chi ddweud pa ran o'r ddogfen rydych yn cyfeirio ati, h.y. rhif paragraff/ polisi

Crynodeb o'r Prif Faterion a Nodwyd	Ymateb
Mae adolygiadau blaenorol o dir cyflogaeth wedi adnabod yr angen am dir cyflogaeth newydd ger yr A55 yn gwasanaethu rhan ddeheuol yr Ynys. Mae safle Lledwigan yn Llangefni wedi'i nodi fel y lleoliad mwyaf addas.	Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth wedi adnabod safle Lledwigan fel safle datblygu arfaethedig. Bydd y safle'n cael ei gynnwys o fewn y polisi manwl ar diroedd cyflogaeth dynodedig.
Mae angen rhoi ystyriaeth i effaith y Cynllun ar yr ardaloedd cyfagos, yn enwedig Parc Cenedlaethol Eryri.	Cynhelir cyfarfodydd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i sicrhau fod polisïau a dyraniadau'r Cynllun yn unol â pholisïau, strategaethau ac adolygiad CDLl y Parc.
Dylid nodi hen safle Lairds ym Miwmares fel safle strategol yn y Cynllun gan y gallai gynnig elfen sylweddol o dai a chyflogaeth.	Ystyriwyd y safle yn ystod yr Adolygiad Tir Cyflogaeth ond cafodd ei hepgor yn dilyn Arfarniad Cam 1. Bydd yr adolygiad o hierarchaeth aneddiadau a'r gofynion am dai yn ardal y Cynllun yn pennu a fydd angen y safle ar gyfer tai.
Dylid cynnwys y cyfiawnhad dros leoliad y safleoedd allweddol ar y Diagram Allweddol.	Ar ôl adolygu sefyllfa'r safleoedd a ddynodwyd, penderfynwyd nad oedd unrhyw un ohonynt yn haeddu eu gosod yn y categori safle strategol, felly bydd y dynodiad yn cael ei hepgor o'r Diagram Allweddol yn y cynllun adnau.
Dylid nodi hyd a lled Hwb Menai ar y Diagram Allweddol.	Mae Cynllun Gofodol Cymru yn un o'r strategaethau sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygiadau yn ardal y CDLl ar y Cyd. Yng

Crynodeb o'r Prif Faterion a Nodwyd	Ymateb
	ngoleuni hyn rhoddwyd ystyriaeth i'w ardaloedd Hwb yn y Cynllun, yn arbennig yn nosbarthiad a lefelau'r twf mewn aneddiadau unigol. Felly, nid ydym o'r farn bod angen ei gynnwys yn y Diagram Allweddol.
Angen cyfeiriad pellach at y bwlch rhwng y galw a'r cyflenwad sgiliau, a'r rôl sydd gan datblygu sgiliau a hyfforddiant i'w chwarae wrth gynyddu cyfleoedd lleol.	Bydd y Cynllun Adnau yn ystyried yr angen i ddatblygu sgiliau preswylwyr lleol er mwyn iddynt allu manteisio ar y swyddi sydd ar gael o ganlyniad i'r prosiectau mawr hyn.
Angen eglurder ar sut y rhoddir y Cynllun ar waith a'i fonitro.	Bydd adran ar fonitro yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Adnau.
Mae dau safle ychwanegol â chanddynt botensial i arwain at newidiadau economaidd cadarnhaol ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol, sef Tŷ Mawr Llanfairpwll a safle Coleg Menai yn Llangefni.	Yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth amlygwyd dyhead i ddatblygu parc gwyddoniaeth ynni newydd. Adeg llunio'r adroddiad, adnabuwyd safle ger Coleg Menai fel safle posib. Cyfeiriwyd hefyd at safle Tŷ Mawr, a oedd hefyd wedi'i ystyried yn flaenorol ar gyfer dyraniad safle cyflogaeth arwyddocaol. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn argymell y dylid cynnwys y safleoedd hyn yn nyraniadau tir cyflogaeth y Cynllun.
Dylai'r cyfeiriad at y Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) esbonio ei fod mewn perthynas â'r NPS Niwclear, ac mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.	Cytuno i addasu'r Cynllun i adlewyrchu'r sefyllfa mewn perthynas â datblygiad Wylfa Newydd.
Dylid ystyried sefydlu strategaeth ar wahân yn ymwneud â'r boblogaeth sy'n heneiddio.	Bydd y polisïau manwl yn ystyried y boblogaeth sy'n heneiddio fel un o'r materion allweddol sy'n wynebu'r ardal. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylid integreiddio hwn gyda materion allweddol eraill yn hytrach na'i fod yn strategaeth ar wahân yn y Cynllun.

Cwestiwn 8 - A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)? Os oes, a fyddwch cystal â'u nodi nhw isod. Mae'n rhaid i chi ddweud pa ran o'r ddogfen rydych chi'n cyfeirio ato, h.y. testun / rhif paragraff, a pha newidiadau sydd eu hangen.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
O'r 1 Ebrill 2013, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cymryd dyletswyddau a chyfrifoldebau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Er mwyn egluro a hwyluso'r broses asesiad strategol, bydd CNC yn sefydlu un Porth AC, er mwyn gallu cyflwyno'r holl ymholiadau a'r ymgynghoriadau ynghylch yr AAS a'r ARhC ar lefel cynllun.	Nodwyd.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
1.9: Byddai CNC yn awgrymu fod yr adran hon, fel mae wedi'i hysgrifennu, yn awgrymu mai ffocws y broses AAS yw adnabod effeithiau amgylcheddol andwyol ac argymell camau lliniaru priodol. Yn y broses AAS mae angen ystyried effeithiau positif ac effeithiau negyddol gweithredu cynlluniau a'u polisïau, a gellir eu defnyddio i ffurfio a galluogi mesurau amgylcheddol positif a rhagweithiol.	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
1.14: Gweler ymateb CNC i'r sgrinio ARhC ar gyfer yr Hoff Strategaeth.	Nodwyd.
Tabl 3.1: Negeseuon Allweddol: **Bioamrywiaeth.** Byddai CNC yn awgrymu y dylid nodi negeseuon allweddol ychwanegol o ran yr angen i gynnal a gwella swyddogaethau a chysylltedd ecolegol.	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
Ffactorau'r Hinsawdd. Dylid cyfeirio at yr angen i adeiladu a hyrwyddo gwytnwch yng nghyswllt newid hinsawdd yn ardal y cynllun.	Gweler yr ymateb uchod.
Treftadaeth Ddiwylliannol. Dylid cyfeirio at dirweddau diwylliannol a hanesyddol sydd ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru a'r angen i warchod cyfanrwydd adnoddau a nodweddion y dirwedd ddiwylliannol.	Gweler yr ymateb uchod.
Y Dirwedd Byddem yn croesawu eglurder ar yr hyn ellid ei ystyried yn 'ddatblygiad ymwthiol', ar wahân i dyrbinau gwynt.	Nodwyd ac yn cytuno. Darperir eglurder pellach yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
Priddoedd, Mwynau a Gwastraff Byddai CNC yn awgrymu bod materion allweddol ychwanegol sy'n ymwneud â 'selio' pridd a 'chynnal a gwella swyddogaethau'r pridd' gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â dal a storio carbon a lliniaru rhag llifogydd.	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
Dŵr. Dylid cyfeirio at adeiladu gwytnwch i newidiadau hinsawdd mewn adnoddau dŵr, a'r angen i ystyried perygl llifogydd o ddyfroedd wyneb a dyfroedd arfordirol.	Gweler yr ymateb uchod ar gyfer priddoedd, mwynau a gwastraff.
Tabl 3.2: Esblygiad Tebygol heb Weithredu'r Cynllun: **Bioamrywiaeth.** Byddai CNC yn awgrymu y gallai diffyg fframwaith strategol beryglu swyddogaeth a chysylltedd ecolegol.	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
Ffactorau'r Hinsawdd. Byddai CNC yn awgrymu bod newid hinsawdd yn debygol o achosi peryglon eraill hefyd o ran sychdwr, perygl daearegol i rwydweithiau	Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
trafnidiaeth (tirlithriad, ymsuddiant y tir ac ati).	
Y Dirwedd. Dylid cyfeirio at y posibilrwydd o golli hynodrwydd y dirwedd, a cholli asedau a chyfanrwydd y dirwedd – y pethau y gall datblygiad economaidd fod yn seiliedig arnynt, gan gynnwys llonyddwch y dirwedd.	Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth.
Tabl 3.3: **Bioamrywiaeth.** Byddai CNC yn awgrymu cyfeirio'n benodol at yr angen i gynnal a gwella swyddogaethau a chysylltedd ecolegol.	Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth.
Ffactorau'r Hinsawdd. Dylid cyfeirio at yr angen i hyrwyddo a chreu gwytnwch ac addasrwydd i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys creu gwytnwch i'r newid yn yr hinsawdd mewn tai ac isadeiledd sy'n bodoli.	Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth.
Y Dirwedd. Dylid cyfeirio nid yn unig at yr ardaloedd AHNE yn ardal y Cynllun, ond hefyd at y Parc Cenedlaethol cyfagos.	Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth.
Priddoedd, Mwynau a Gwastraff. Dylid cyfeirio at yr angen i alluogi lleihau/lliniaru llygryddion yn y dŵr a'r aer sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth ddwys.	Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth.
Dŵr. Dylid cyfeirio at yr angen i leihau'r risg o 'lygredd' yn mynd i ddyfroedd arfordirol, llynnoedd a dŵr daear yn ogystal â chyrsiau dŵr afonydd.	Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth.
Tabl 3.4: Y Fframwaith AC: **Bioamrywiaeth.** Dylid ychwanegu amcanion ychwanegol yng nghyswllt yr angen i gynnal a gwella swyddogaeth a chysylltedd ecolegol yn ardal y Cynllun. Dylai dangosyddion arfaethedig fod yn berthnasol ac yn ymateb i'r Cynllun a'r Polisïau sy'n cael eu craffu. Awgrymir er enghraifft y gall nifer o ffactorau a materion ddylanwadu ar dueddiadau ymysg rhywogaethau NERC/Adran 42, nad ydynt o reidrwydd wedi'u cyfyngu i Gynllun ar y Cyd Gwynedd a Môn.	Nodwyd ac yn cytuno. Bydd y cwestiwn a ganlyn yn cael ei gynnwys dan Amcan 1 yr AC er mwyn cynorthwyo â phenderfyniadau: *A fydd y cynllun yn cynnal ac yn gwella swyddogaeth a chysylltedd ecolegol?* Nodwyd; fodd bynnag, mae hyn yn berthnasol i nifer o ddangosyddion. Gall y dangosyddion hyn dal fod o gymorth i ddangos a oes problem, a gall ymchwil pellach bennu a yw hynny o ganlyniad i'r CDLl ar y Cyd.
Newid Hinsawdd. Dylid datblygu dangosyddion sy'n galluogi mesur perfformiad y Cynllun o ran ei wytnwch i newid hinsawdd e.e. datblygiadau sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon ac yn gallu gwrthsefyll perygl llifogydd.	Nodwyd. Caiff y dangosyddion monitro arfaethedig eu haddasu a'u mireinio trwy'r broses AC ailadroddol i ystyried canfyddiadau'r arfarniad a'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rhoddir ystyriaeth i hyn yng nghamau diweddarach y broses AC.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Dylai dangosyddion arfaethedig fod yn berthnasol ac yn ymateb i'r Cynllun sy'n cael ei graffu a dylid gallu eu mesur/monitro. Byddem felly'n croesawu eglurder ar p'un a yw'n ymarferol mesur y % newid mewn carbon deuocsid sy'n deillio o ddatblygiad yn ardal y Cynllun.	
Pridd. Byddem yn croesawu amcanion ychwanegol o ran yr angen i warchod swyddogaethau pridd, yn cynnwys lliniaru rhag llifogydd a dal a storio carbon. Gallai dangosyddion posib gynnwys ardal o bridd sydd wedi'i 'selio'n' barhaol ac ardal o briddoedd organig/llawn carbon a ddatblygwyd.	Nodwyd ac yn cytuno. Bydd y cwestiwn a ganlyn yn cael ei gynnwys dan Amcan 9 yr AC er mwyn cynorthwyo â phenderfyniadau: *A fydd y cynllun yn gwarchod swyddogaethau pridd, gan gynnwys lliniaru rhag llifogydd a dal a storio carbon.* Nodwyd.
Y Dirwedd. Cynigir dangosydd ychwanegol ar gyfer y pwnc hwn – cyfran / nifer y datblygiadau o fewn pob math gwahanol o dirwedd. Er enghraifft: nifer / cyfran y datblygiadau newydd mewn AHNE neu nifer / cyfran y datblygiadau newydd mewn ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu'n rhai eithriadol gan LANDMAP.	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff y dangosydd hwn ei gynnwys a'i gyflwyno yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
Y boblogaeth, iechyd bodau dynol Nodwn fod 'Cyfran y ffynonellau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur' yn ddangosydd arfaethedig ar gyfer y pwnc hwn. Er nad yw technolegau'n cael eu defnyddio'n helaeth ar hyn o bryd, efallai y byddai'n fuddiol hefyd monitro nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan a'r ffynonellau tanwydd hydrogen sydd ar gael.	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff y dangosydd hwn ei gynnwys a'i gyflwyno yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
Tabl 4.1 Gweler y sylwadau ar Dabl 3.4 uchod.	Gweler yr ymatebion i'r sylwadau ar Dabl 3.4 uchod.
4.9. Amcan AC 3: mae CNC yn croesawu'r argymhelliad i gryfhau Amcan 3, fodd bynnag, byddem hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth well o'r angen i adeiladu gwytnwch i effeithiau newid hinsawdd. Amcan AC 5: mae CNC yn croesawu'r argymhelliad i gryfhau'r amcan hwn o ran treftadaeth ddiwylliannol. Amcan AC 8: mae CNC yn cytuno y dylid rhoi ystyriaeth bellach i bwysigrwydd a gwerth adnoddau tirwedd a morlun ardal y Cynllun.	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Tabl 4.9. Byddai CNC yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r diffiniad o 'leoliad cynaliadwy'. Fel mae wedi'i ysgrifennu, caiff 'lleoliadau cynaliadwy' eu diffinio yn ôl ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn unig. Er mwyn bod yn gynaliadwy, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol yn cynnwys bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol.	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
5.8 – 5.23. Nodwn fod arfarniad cynaladwyedd (AC) ar gyfer Opsiynau Twf T1, T2, T3 a T4 wedi'i gynnal. Nodwn hefyd fod yr Opsiwn a Ffafrir yn cyfuno elfennau o Opsiynau T2 a T3. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r effeithiau arwyddocaol sy'n benodol i'r Opsiwn a Ffafrir wedi derbyn ystyriaeth. Er ei bod yn bosib fod yr asesiad o'r ddau opsiwn amgen, T2 a T3, yn ymgorffori holl effeithiau amgylcheddol positif a negyddol yr Opsiwn Cyfun yn llawn, hwyrach nad dyma'r achos o reidrwydd. Cynghorwn felly fod yr awdurdodau yn egluro'n llawn a oes unrhyw effeithiau arwyddocaol yn gysylltiedig â'r Opsiwn a Ffafrir sy'n wahanol i'r rheini a nodir ar gyfer Opsiynau Twf T2 a T3, ac os oes, sut maent wedi'u hymgorffori yn yr AC.	Nodwyd, ni ystyrir fod yr Opsiwn Cyfun yn debygol o gael unrhyw effeithiau arwyddocaol penodol neu wahanol (positif a negyddol) i'r rheini a ystyriwyd eisoes trwy arfarnu Opsiynau T1, T2, T3 a T4. Bydd yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau yn egluro hyn yn well.
Tabl 6.5: Pwynt 4. Dylid ei gwneud yn glir pa ddatblygiadau fydd yn cael caniatâd mewn ardaloedd o Gefn gwlad sydd wedi'u dynodi.	Nodwyd, caiff hyn ei wneud yn fwy clir yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
Tabl 7.1: Argymhellir y newidiadau a ganlyn i sgoriau'r polisïau yn y tabl hwn. Gweler y sylwadau manwl ynglŷn ag Atodiad 6 isod am eglurhad pellach. PS3 Y Strategaeth Aneddleoedd – Amcan AC 3 – dylid newid yr opsiwn hwn i Negyddol Bach (-). PS5 Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr – Amcan AC 11 – dylid newid y sgôr hwn i fod yn Ddibynnol ar Weithredu'r Opsiwn (**+/-**). PS9 Yr Economi Ymwelwyr – Amcan AC 10 – dylid newid y sgôr hwn i fod yn Ddibynnol ar Weithredu'r Opsiwn (**+/-**).	Gweler yr ymatebion i'r sylwadau ar Atodiad 6 isod.
Tabl 9.1: Y Dirwedd. Gweler y sylwadau ar Dabl 3.4 Y Dirwedd uchod.	Gweler yr ymatebion i'r sylwadau ar Dabl 3.4 uchod.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
Atodiad 4: D3. Bioamrywiaeth: Mae CNC yn cytuno bod datblygiad bach yn debygol o gael llai o effaith o'i gymharu â datblygiad mawr yn lleol. Fodd bynnag, os cwblheir llawer o ddatblygiadau bach yn hytrach nag un mawr, gallai'r effaith yn y pen draw fod yn gyfartal, ond ei fod wedi'i wasgaru dros ardal fwy. Gallai hyn hefyd beri mwy o gynefinoedd darniog nag un datblygiad mawr a gallai fod yn anos ei fonitro.	Nodwyd.
Atodiad 5: Gweler sylwadau 5.8 – 5.23 uchod.	Gweler yr ymatebion i'r sylwadau ar 5.8 - 5.23 uchod.
Atodiad 6: **PS3 – Newid Hinsawdd.** Bydd cynnydd mewn datblygiadau yn cynyddu allyriadau'n gyffredinol, fodd bynnag ni fydd yn cynyddu allyriadau o'r 'adeiladau eu hunain'. Dylid geirio hwn yn fwy clir. Gellid lleihau allyriadau y pen trwy ddatblygu'n agos at y prif ardaloedd cyflogaeth. Fodd bynnag, gan fod disgwyl i'r boblogaeth gynyddu, bydd allyriadau gros yn cynyddu. Gan y bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar ganolfannau trefol a lleol, nid yw'n glir sut y bydd hyn yn lleihau nifer yr ardaloedd crynodedig sydd ag ansawdd aer gwael. Oherwydd y rhagwelir cynnydd yn y boblogaeth a thwf, mae'r cynllun/polisi yn annhebygol o arwain at leihad cyffredinol yn y defnydd o geir. Gan ystyried y pwyntiau uchod, ystyrir y dylid newid yr asesiad ar yr Amcan AC hwn i Negyddol Bach (**-**).	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff yr arfarniadau eu haddasu i adlewyrchu hyn.
PS3 – 8 Y Dirwedd a'r Drefwedd. I sicrhau dyluniad, graddfa a lleoliad priodol i brosiectau, dylai Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella ar gyfer yr amcan hwn gynnwys yr amodiad na fydd effeithiau arwyddocaol ar ardaloedd megis yr AHNE / y Parc Cenedlaethol o ganlyniad i ddatblygiad.	Nodwyd. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn unrhyw waith arfarnu pellach.
PS4 – 1 Bioamrywiaeth. Dylid ei gwneud yn eglur pa fath o ddatblygiad fydd yn cael ei ganiatáu mewn ardaloedd a ddosberthir fel 'Cefn gwlad'.	Nodwyd, caiff hyn ei wneud yn fwy clir yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau.
PS5 – 11 Dŵr a Pherygl Llifogydd. Fel sy'n cael ei gydnabod yn y testun, bydd hyn yn cynyddu'r pwysau ar adnoddau dŵr ac yn cynyddu'r perygl o lifogydd. Felly, dylid newid yr asesiad o'r Amcan AC hwn i fod yn Ddibynnol ar Weithredu'r Opsiwn (**+/-**).	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff yr arfarniadau eu haddasu i adlewyrchu hyn.
PS9 – 10 Trafnidiaeth. Mae potensial hefyd am draffig uwch ar yr holl ffyrdd o ganlyniad i'r cynllun hwn. Felly, dylid	Nodwyd ac yn cytuno. Caiff yr arfarniadau eu haddasu i adlewyrchu hyn.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
newid yr asesiad o'r Amcan AC hwn i fod yn Ddibynnol ar Weithredu'r Opsiwn (**+/-**).	
PS14 – 3 Newid Hinsawdd a 11 Dŵr a Pherygl Llifogydd. Gallai Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella pellach ar gyfer yr opsiynau hyn hefyd gynnwys amodiad i annog rheolaeth ar ddalgylchoedd uwch. Yn enwedig mewn ardaloedd o fawn sy'n hanfodol ar gyfer storio carbon, rheoleiddio lefel y dŵr ac ansawdd dŵr.	Nodwyd. Caiff yr arfarniadau eu haddasu i adlewyrchu hyn.
Nodwn fod yr Hoff Strategaeth wedi bod yn destun AC / AAS interim ac wedi bod yn destun sgrinio ARhC. Mae'n awr yn fwy priodol i gyfeirio at CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn hytrach na CCGC neu'r AA.	Nodwyd.
Dan y pennawd 'Esblygiad Tebygol y Waelodlin Heb Weithredu'r Cynllun', nodir y caiff ei ddatgan yn Nhabl 3.2 mai 'diffyg safleoedd cyflogaeth digonol mewn lleoliadau cynaliadwy' fyddai'r canlyniad. Er mwyn bod yn gyson â'r sylwadau a wnaed, byddem yn gwneud y sylw y dylid newid hwn i: 'ddiffyg safleoedd cyflogaeth digonol mewn lleoliadau cynaliadwy a hyfyw.'	Nodwyd ac yn cytuno.
Rydym yn anghytuno gyda'r asesiad cyffredinol mai D3 yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy. Mae'r Arfarniad Cynaladwyedd ac asesiadau eraill o'r amrywiol opsiynau, D1 i D4, yn hynod o ddiffygiol. Rydym yn cwestiynu sail yr arfarniadau hyn. Y prif ffactor sy'n atal grwpiau bregus rhag medru gwella eu sefyllfa yw'r diffyg llwybrau diogel i ganolfannau cyflogaeth a chyfleusterau canolog eraill. Bydd yr opsiwn a ffafrir ar hyn o bryd, D3, yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth mewn ardaloedd gwledig ond ni fydd yn arwain at welliant sylweddol i'w mynediad at gyfleusterau neu gyfleoedd cyflogaeth – ni ellir darparu'r naill na'r llall yn effeithiol mewn ardaloedd gwledig ar y raddfa angenrheidiol. Bydd y boblogaeth wledig ychwanegol naill ai o dan anfantais ddifrifol oherwydd ynysu daearyddol, neu byddant yn ddibynnol ar drafnidiaeth fodur (os gallant ei fforddio), fydd yn gwneud y ffyrdd yn llai croesawus fyth. Os mai'r bwriad yw darparu rhwydwaith addas	Mae'r arfarniad yn cydnabod bod Opsiynau D1, D2 a D4 yn perfformio'n well yn erbyn amcanion amgylcheddol, sy'n cynnwys lleihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod bod yr opsiynau hyn yn diystyru anghenion y boblogaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig, gan felly gynyddu anghydraddoldebau o bosib, a lleihau hygyrchedd at dai, cyflogaeth a chyfleusterau/gwasanaethau. Cafodd opsiwn D3 ei arfarnu i fod â'r potensial i leihau'r angen i deithio; fodd bynnag, cydnabyddir hefyd na fyddai'n digwydd i'r un graddau ag a allai ddigwydd dan Opsiwn D1 a D2. Byddai natur wasgaredig datblygiadau yn gwella hygyrchedd i rai cymunedau gwledig gan y byddai peth datblygiad yn cael ei gyfeirio yma. Byddai'r ddarpariaeth dai trwy holl ardal y Cynllun yn cyfrannu at greu a chynnal lefel boblogaeth sydd yn cefnogi gwasanaethau a busnesau lleol yn y trefi a'r pentrefi llai. Byddai hyn yn gwella hygyrchedd ac yn lleihau'r angen i bobl deithio. Arfarnwyd opsiwn D3 hefyd i fod â'r potensial i leihau

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
o lwybrau trafnidiaeth lesol, mae'n amlwg mai opsiwn D2 a ffafrir ar bob un o'r prif feini prawf. Bydd opsiwn D2 yn canolbwyntio twf y boblogaeth o fewn cyrraedd rhwydd at gyflogaeth a chyfleusterau, trwy deithio llesol. Bydd opsiwn D1 yn eu crynhoi'n ormodol, gan adael allan ardaloedd sy'n medru cefnogi datblygiad cynaliadwy iach o fewn poblogaethau, a bydd opsiynau D3, D3a, a D4 yn caniatáu twf mewn ardaloedd bregus sydd dan anfantais, lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn dibynnu ar drafnidiaeth fodur i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Bydd llai o ddibyniaeth ar drafnidiaeth fodur yn gwella cynaladwyedd, ac yn lleihau allyriadau carbon yn arbennig. Rydym felly'n cefnogi opsiwn D2, sy'n ymgorffori ardal 'teithio i'r gwaith' sydd ymhell o fewn cyrraedd trafnidiaeth lesol. Dyma'r opsiwn sy'n fwyaf addas er mwyn creu teithiau drws-i-ddrws rheolaidd heb ddefnyddio car. Nodwn fod yr Iseldiroedd wedi cymryd tua wyth mlynedd i ddarparu rhwydwaith o'r fath – mae'r cyfnod amser hwn oddi mewn i sgôp y Cynllun.	anghydraddoldebau trwy hwyluso dosbarthu datblygiadau'n fwy cyfartal yn nhermau gofodol. Mae'r arfarniad yn nodi er y byddai gwasgaru datblygiad yn gallu lleihau cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at isadeiledd a chyfleusterau cymunedol (e.e. tai fforddiadwy, mannau agored cyhoeddus, gwelliannau i gludiant ac ati), bydd hyn yn ddibynnol ar nifer y tai gaiff eu hadeiladu. Os caiff digon o dai eu datblygu, gall yr opsiwn arwain at ddigon o adfywio neu gyfraniadau gan ddatblygwyr i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth iechyd, e.e. cyfleusterau meddygol a llwybrau beicio neu gyfleusterau chwaraeon. Mae'r opsiynau a ystyrir yn strategol ac yn ofodol eu natur. Mae'r polisïau strategol a amlinellir yn yr Hoff Strategaeth yn rhoi manylion pellach ar sut y bydd gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant cynaliadwy yn lleihau'r angen i deithio. Mae Polisi Strategol PS5 (Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr) yn ceisio cyfraniadau gan ddatblygiadau newydd i ddarparu isadeiledd, sy'n cynnwys trafnidiaeth gynaliadwy. Mae Polisi Strategol PS22 (Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd) yn ceisio gwella hygyrchedd a newid ymddygiad pobl yng nghyswllt teithio trwy nifer o fesurau, gan gynnwys gwell cludiant cyhoeddus a troedffyrdd / llwybrau beicio. Bydd y CDLl ar y Cyd Adnau yn cynnwys manylion pellach ar sut y bydd yr angen i deithio yn cael ei leihau, a'r gwelliannau penodol sy'n cael eu cynnig i'r isadeiledd trafnidiaeth.
Rydym yn anghytuno gyda'r asesiad cyffredinol mai D3 yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy. Mae'r Arfarniad Cynaladwyedd ac asesiadau eraill o'r amrywiol opsiynau, D1 i D4, yn hynod o ddiffygiol. Nodwn mai diffyg llwybrau diogel i ganolfannau cyflogaeth a chyfleusterau canolog eraill yw'r prif ffactor sy'n atal grwpiau bregus rhag medru gwella eu sefyllfa. Bydd yr opsiwn a ffafrir ar hyn o bryd, D3, yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth mewn ardaloedd gwledig ond ni fydd yn arwain at welliant sylweddol i'w mynediad at gyfleusterau neu gyfleoedd cyflogaeth – ni all y Cynllun arwain y naill na'r llall yn effeithiol. Bydd y boblogaeth ychwanegol naill ai o dan anfantais ddifrifol oherwydd ynysu daearyddol, neu byddant yn ddibynnol ar drafnidiaeth fodur (os gallant ei	Gweler yr ymateb uchod.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
fforddio), fydd yn gwneud y ffyrdd yn llai croesawus fyth. Os mai'r bwriad yw darparu rhwydwaith addas o lwybrau trafnidiaeth lesol, mae'n amlwg mai opsiwn D2 a ffafrir ar bob un o'r prif feini prawf. Bydd opsiwn D2 yn canolbwyntio twf y boblogaeth o fewn cyrraedd rhwydd at gyflogaeth a chyfleusterau, trwy deithio llesol. Bydd opsiwn D1 yn eu crynhoi'n ormodol, gan adael allan ardaloedd sy'n medru cefnogi datblygiad cynaliadwy iach, a bydd opsiynau D3, D3a, a D4 yn caniatáu twf mewn ardaloedd bregus sydd dan anfantais, lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn dibynnu ar drafnidiaeth fodur i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Rydym felly'n cefnogi opsiwn D2. Mae'r opsiwn hwn yn fwy addas ar gyfer creu teithiau drws-i-ddrws rheolaidd heb ddefnyddio car. Nodwn fod yr Iseldiroedd wedi cymryd tua wyth mlynedd i ddarparu rhwydwaith o'r fath – mae'r cyfnod amser hwn oddi mewn i sgôp y Cynllun.	
Rydym yn bryderus fod diffyg adroddiad ar Drafnidiaeth wedi cyfyngu gallu'r Asesiad Cynaladwyedd i roi ystyriaeth ddigonol i'r effaith mae trafnidiaeth yn ei gael ar yr hoff strategaeth. Cynigiwn ein sylwadau cyfyngedig isod fel modd o amlygu'r potensial am archwiliad mwy trylwyr yn y dyfodol rhyw dro. Mae'n cefnogi ein dadl mai opsiwn D2 ddylai fod yr opsiwn a ffafrir.	Nodwyd.

Cwestiwn 9: A oes genych unrhyw sylwadau ar yr Adroddiad Sgrinio ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)? Os oes , a fyddwch cystal â'u nodi nhw isod. Mae'n rhaid i chi ddweud pa ran o'r ddogfen rydych chi'n cyfeirio ato, h.y. testun / rhif paragraff, a pha newidiadau sydd eu hangen.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
0.7: Nododd CNC yr effeithiau arwyddocaol posib fyddai'n deillio o bolisïau PS3, PS8, PS11 a PS22 yn yr adroddiad sgrinio hwn (yn sgil y cynllun ei hun ac wrth ei gyfuno â chynlluniau eraill). Byddai CNC yn croesawu derbyn eglurder o fewn y crynodeb gweithredol hwn o natur a chynnwys y polisïau hyn, ynghyd â gwybodaeth ar y Safleoedd Ewropeaidd fydd o bosib yn cael eu heffeithio.	Nodwyd. Bydd y gwaith sgrinio pellach yn adnabod y Safleoedd Ewropeaidd a ystyrir i gael eu heffeithio gan Bolisiau Adnau.
0.8: Nodir a chroesawir y bwriad i ymgymryd â	Nodwyd. Mae amserlen y gwaith sgrinio

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
gwaith sgrinio ARhC ychwanegol (Prawf Arwyddocâd). Buasem yn croesawu eglurder ynghylch amserlen debygol y gwaith sgrinio ychwanegol.	ychwanegol yn dibynnu ar raglen y CDLl ar y Cyd.
0.9: Ers 1 Ebrill 2013, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn cyflawni cyfrifoldebau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Er mwyn egluro a hwyluso proses yr asesiad strategol, bydd CNC yn sefydlu un Porth AC, er mwyn gallu cyflwyno'r holl ymholiadau a'r ymgynghoriadau ynghylch yr AAS a'r ARhC ar lefel cynllun.	Nodwyd.
1.3: Noda CNC fod y 'pymtheg mlynedd nesaf' yn estyn o 2011 hyd 2026. Buasem yn croesawu eglurder ynghylch y polisïau hynny a'r dynodiadau fydd yn cael eu trosglwyddo o'r cynlluniau datblygu mabwysiedig blaenorol ac o gynlluniau datblygu heb eu mabwysiadu / sy'n anghyflawn.	Nodwyd. Bydd yr adroddiad ARhC nesaf yn nodi pa bolisïau a dynodiadau sydd wedi'u trosglwyddo o gynlluniau datblygu mabwysiedig ac o gynlluniau datblygu heb eu mabwysiadu / sy'n anghyflawn.
1.5: Y gofyn yn yr Hoff Strategaeth am 168ha o dir diwydiannol a busnes a 7665 yn ychwanegol o gartrefi rhwng 2011 a 2026. Croesawir gwybodaeth bellach o fewn yr adroddiad sgrinio hwn ynghylch lleoliad gofodol y safleoedd hyn ac, o gofio fod y dynodiadau hyn yn cyfeirio at gyfnod amser sydd eisoes yn mynd rhagddo, faint o'r tiroedd cyflogaeth a'r dynodiadau tai sydd eisoes wedi derbyn caniatâd ac sydd wedi'u datblygu?	Bydd y Cynllun Adnau yn darparu mwy o fanylion ar leoliad gofodol y safleoedd hyn a faint o ddynodiadau sydd eisoes wedi derbyn caniatâd ac sydd wedi'u datblygu. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn sgil gwaith sgrinio pellach.
2.4: Dylid nodi fod Arweiniad 2009 CCGC ar 'Asesu Prosiectau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd' wedi cael ei ddiweddaru yn 2012 yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth Ewropeaidd a chyfraith achos.	Nodwyd.
1.6: Gweler y sylwadau ar 0.9. Dylid newid y corff cadwraeth natur perthnasol i Gyfoeth Naturiol Cymru.	Nodwyd.
3.0 Sgrinio ARhC – cam 1. Adolygiad Polisi (gweler y sylwadau manwl ar atodiad 3) 3.4: Mae CNC yn croesawu ystyried llwybrau achlysurol yn hytrach na phellteroedd gofodol yng nghyd-destun y potensial am effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd a 'rhywogaethau symudol' perthnasol.	Nodwyd.
3.9 Mae CNC yn croesawu'r amodau a ddarperir o fewn polisïau penodol ac yn yr amddiffyniad cyffredinol a ddarperir gan PS14,	Nodwyd.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
sydd, yn ddibynnol ar y mân bwyntiau eglurder isod, yn lliniaru'n effeithiol yr effeithiau andwyol posib ar y safleoedd Ewropeaidd a nodwyd yn ystod y cam hoff strategaeth.	
3.10 Nodem fod mesurau lliniaru ychwanegol wedi cael eu nodi ar gyfer nifer o bolisïau strategol (PS6, PS7 a PS16) a bod hyn wedi'i gynnwys ar ffurf ychwanegiadau i'r geiriad, neu newidiadau i'r geiriad yn yr hoff strategaeth.	Nodwyd.
3.10: Yn ogystal ag argymhellion ARHC ar lefel prosiect ar gyfer Polisïau Strategol 6 a 7, awgrymir y dylai'r polisïau hyn gynnwys gofyn penodol i'r prosiectau isadeiledd mawrion hyn a'r holl ddatblygiadau atodol ac anwythol fod yn destun yr holl brosesau asesu perthnasol, gan gynnwys Asesiad Effaith Amgylcheddol.	Nodwyd ac yn cytuno. Rhoddir ystyriaeth i hyn yng nghamau diweddarach y broses ARhC.
3.11 Nodem hefyd fod yr effeithiau posib wedi cael eu nodi ar gyfer polisïau PS3, PS8, PS11 a PS22 o ran aflonyddwch posib, effeithiau ansawdd aer, dŵr ffo sy'n rhedeg o'r tir / ansawdd dŵr neu gymryd tir gan arwain at ddarnio cynefinoedd. Croesawn y dull rhagofalus a ddefnyddir wrth asesu'r polisïau hyn ac y byddant yn derbyn asesiad pellach yng ngham nesaf proses y Cynllun, naill ai pan ddaw data ychwanegol ar gael neu drwy asesu polisïau /dynodiadau penodol manylach.	Nodwyd.
3.12 Rydym yn nodi ac yn cytuno fod y prif effeithiau'n debygol o ymwneud â: llygredd atmosfferig oherwydd cynnydd traffig, allai ddirywio ansawdd yr aer; lefelau cynyddol o aflonyddwch – gweithgareddau hamdden, llygredd sŵn a golau; lefelau cynyddol o echdynnu ; dŵr ffo a charthffosiaeth sy'n rhedeg o'r tir, allai leihau ansawdd a lefelau dŵr; a chymryd tir, allai arwain at golli a darnio cynefinoedd.	Nodwyd.
3.12: Gweler y sylwadau uchod ar 0.7.	Nodwyd. Bydd y gwaith sgrinio pellach yn adnabod y Safleoedd Ewropeaidd a ystyrir i gael eu heffeithio.
3.13: Dŵr. Mae fersiwn drafft diweddaraf Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP)(2015), Dŵr Cymru, ynghyd â'i ARhC ac AAS yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd a dylid eu cynnwys o fewn yr ystyriaeth a roir i 'effeithiau cyfunol', yn enwedig gan fod opsiynau'r adroddiad drafft hwn yn cynnwys datblygiad isadeiledd dŵr sylweddol yng Ngwynedd ac Ynys Môn.	Nodwyd. Bydd yr WRMP diweddaraf a'r dogfennau cysylltiol yn cael eu hystyried yn sgil gwaith sgrinio pellach.
3.14 Asesiad effeithiau cyfunol - nodwn fod	Nodwyd.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
gan y pedwar polisi strategol sy'n cynnwys PS3 - Strategaeth Aneddiadau, PS8 - Twf Economaidd, PS11 - Ffigyrau Tai Strategol a PS22 - Trafnidiaeth a nodir uchod hefyd y potensial i arwain at effeithiau cyfunol gyda'r cynlluniau a'r prosiectau a nodir.	
Sylwadau Atodiad 3 - sgrinio polisïau PS3 Strategaeth Aneddiadau – wedi nodi EAT. Mae CNC yn croesawu'r dull rhagofalus a ddefnyddir wrth asesu'r polisi strategol ac yn cytuno, gan y bydd y polisïau manwl yn diffinio natur unrhyw effeithiau posib yn fwy effeithiol, mai doeth fyddai oedi cyn cynnal unrhyw asesiad pellach ar y polisi strategol hwn hyd nes y bydd y wybodaeth ar gael.	Nodwyd.
PS5 Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr - dim EAT wedi'u nodi. Er nad yw CNC yn anghytuno â chasgliad yr asesiad dylid nodi y gall polisïau fel hyn, a'r polisïau mwy manwl fydd yn rhan ohonynt, fod yn allweddol os yw asesiad mwy manwl y Cynllun adnau yn nodi fod angen lliniaru pellach, er enghraifft, pan fo isadeiledd trin carthffosiaeth wedi cyrraedd ei lawn gapasiti, neu'n agos at hynny, ac mae risg y gall mwy o ddatblygu danseilio elfennau'r amcanion cadwraeth safle sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr.	Nodwyd.
PS6 Cynigion ar gyfer prosiectau isadeiledd mawr - dim EAT wedi'i nodi. Cytuna CNC gyda chasgliad asesiad y polisi hwn, ac er ei fod o bosib yn gwella'r eglurder yn gyffredinol, cyn belled ag y caiff pwynt 7 sy'n ymwneud â bodloni gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd ei gadw, teimlir nad oes angen cyfeirio ymhellach at yr angen am ARhC yn yr achos hwn.	Nodwyd.
PS7 Datblygiadau Niwclear yn Wylfa - dim EAT wedi'u nodi. Cytuna CNC gyda'r casgliad hwn gan hefyd groesawu'r argymhelliad y dylid cynnwys yr angen am ARhC ar lefel prosiect gyda'r polisi ei hun gan awgrymu y dylai hefyd gynnwys unrhyw ddatblygiad atodol sy'n berthnasol i gynigion Wylfa.	Nodwyd ac yn cytuno. Adlewyrchir hyn yng nghamau diweddarach y broses ARhC.
PS8 Darparu cyfle ar gyfer economi ffyniannus – EAT posib wedi'u nodi. Rydym yn croesawu'r dull rhagofalus a ddefnyddir ar gyfer asesu'r polisi strategol hwn. Dylid bod modd lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posib sy'n codi o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn, trwy ddefnyddio polisïau amddiffynnol megis PS14, fodd bynnag doeth fyddai aros am y manylion ychwanegol ddaw ar gael yn y cam polisïau manwl a dynodiadau i benderfynu a oes angen unrhyw addasiadau i'r polisi neu	Nodwyd.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
fesurau lliniaru i safleoedd penodol. Cyfeirer hefyd at sylwadau blaenorol gan CCGC (ac Asiantaeth yr Amgylchedd?) ar 24 Ionawr 2013 ynghylch safle strategol arfaethedig 64, Ferodo.	
PS11 – Darpariaeth tai cytbwys - EAT posib wedi'u nodi. Mae CNC yn croesawu'r dull rhagofalus a ddefnyddir wrth asesu'r polisi strategol ac yn cytuno, gan fod effeithiau sylweddol tebygol ynghlwm â'r lleoliad hwn, bydd lleoliad, sgôp a graddfa'r dynodiadau datblygu yn cael eu hasesu'n well pan fydd y manylion hynny ar gael. Noder, er nad yw cyfaint dŵr wedi'i adnabod fel prif fater sy'n berthnasol i Safleoedd Ewropeaidd ardal y Cynllun, mae WRMP drafft Dŵr Cymru yn cael ei lunio ar hyn o bryd a dylid cyfeirio at hynny yn yr ARhC hwn. Yn ychwanegol, mae ansawdd dŵr a materion capasiti isadeiledd wedi'i nodi ar nifer o safleoedd. Yn yr un modd gall materion aflonyddwch fod yn ystyriaeth ar gyfer datblygu ger rhai safleoedd sensitif penodol. Bydd y materion hyn yn cael eu hasesu'n fwy cywir yn ystod y cam manwl ac mae'n bosib y bydd angen mesurau lliniaru ychwanegol neu amodau polisi i sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol yn derbyn sylw priodol.	Nodwyd, bydd y materion hyn yn derbyn ystyriaeth bellach yn sgil sgrinio'r CDLl Adnau.
PS14 Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol - dim EAT wedi'u nodi. Er bod CNC yn croesawu'r polisi hwn ac yn cytuno gyda chasgliad yr asesiad, dylid nodi y bydd hwn yn bolisi lliniaru allweddol ar gyfer unrhyw bolisïau eraill o fewn y Cynllun sydd â'r potensial am EAT neu effeithiau andwyol posib. Felly, mae'n bosib fod y polisi hwn ac unrhyw bolisïau manylach sy'n deillio ohono, yn adnabod y rôl a'r swyddogaeth hon yn glir a bod hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y dangosyddion ar gyfer monitro'r strategaeth.	Nodwyd.
PS16 Polisi ynni adnewyddadwy - Dim EAT wedi'u nodi. Mae CNC yn croesawu cryfhau'r polisi hwn trwy ychwanegu at bwynt 2 ond yn nodi fod Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ychwanegol wedi'u llunio ar gyfer y CDU ac wedi bod yn destun ARHC ar wahân. Buasem yn croesawu pe bai'r ARhC hwn yn cyfeirio at hyn ac yn nodi p'un a fydd CCA pellach yn cael ei lunio ar gyfer y CDLl ai peidio.	Nodwyd, rhoir sylw i hyn yn Adroddiad ARhC y CDLl Adnau.
S22 Cludiant cynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd – EAT posib wedi'i nodi. Rydym yn croesawu'r dull rhagofalus a ddefnyddir ar gyfer asesu'r polisi strategol hwn. Nodwn yn	Nodwyd.

Crynhoad o'r Prif Faterion a Godwyd	Ymateb
gyffredinol fod tri chynllun trafnidiaeth strategol wedi'u nodi'n benodol i fod â'r potensial i beri effeithiau sylweddol; ffordd osgoi A487 Dinas – Bontnewydd – Caernarfon, ffordd groesi'r Fenai a'r A5052 a gwelliannau trafnidiaeth eraill sy'n gysylltiedig â datblygu Wylfa. Bydd yn bwysig asesu'r cynigion hyn yng nghyd-destun y CDLl, gan gynnwys ystyried unrhyw wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar asesiad lefel prosiect, i sicrhau y caiff unrhyw effeithiau posib eu lliniaru'n llawn.	
Cyn belled â bod y sylwadau uchod a'r sylwadau manwl ar atodiad 3 yn derbyn sylw, ar y cyfan, rydym yn cytuno gyda chasgliadau'r asesiad a'r cynigion ar gyfer asesu pellach.	Nodwyd.

Atodiad 11 – Lleoliadau galw heibio

Dyddiad	Amser	Lleoliad
23/2/15	3.00 – 6.00	Neuadd y Dref, Caergybi
				Gymraeg	senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim newid
384	Mr Gareth Dobson [2917]	2.14	Gwrthwynebu	Credaf fod y Cynllun Hoff Strategaeth sydd yn sail i'r Cynllun Adnau yn ddiffygiol. Dylid sefydlu patrwm datblygu ar angen cymunedol a chanllawiau ymarfer da cynllunio dinesig nid ar fudd preifat fel sydd yn codi pan mae gwahoddiad i ddatblygwyr preifat a pherchnogion tir gyflwyno tir i sylw'r awdurdod.	**Dim yn derbyn** - Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddleoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd. Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. 'Roedd y cyfnod galw am safleoedd i'r rhoi ar y Gofrestr Tir Posib yn ddull safonol o gael gwybodaeth am argaeledd tir ar gael i'w ddatblygu neu dir a ddylid ei warchod. Cafodd y safleoedd eu hasesu wedyn yn unol â methodoleg gydnabyddedig er mwyn sefydlu os oeddynt yn cyd-fynd a strategaeth y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					cadernid y Cynllun. **Dim newid**

PENNOD 3 – CYD-DESTUN POLISI (CENEDLAETHOL, RHANBARTHOL A LLEOL)

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
158	Mr Aled Evans [2646]	3.1	Gwrthwynebu	Polisïau Rhanbarthol a chenedlaethol Mwy o bwyslais ar y lleol yn hytrach na'r rhanbarthol a chenedlaethol	**Dim yn derbyn** – Rhoddir ystyriaeth briodol i'r cyd-destun lleol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
854	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	3.2	Gwrthwynebu	Nodwn fod paragraff 3.2 yn darparu crynodeb eang o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) (Gorffennaf 2014 - Rhifyn 7). Er ein bod yn gwerthfawrogi fod crynhoi PCC a'i Nodiadau Cyngor Technegol yn dasg amhosib mewn dau baragraff, rydym yn bryderus na wneir unrhyw gyfeiriad at amcan cyffredinol Llywodraeth Cymru a PCC, sef cyflawni datblygiadau cynaliadwy ac yn unol ag Adran 4.2, amlinellu darpariaeth sy'n rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy yn y broses o greu	**Dim yn derbyn** – Mae'r paragraff eisoes yn nodi bod polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn rhoi pwyslais ar rôl y system gynllunio defnydd tir i gyfrannu at sicrhau datblygiad cynaliadwy. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				cynllun a gwneud penderfyniadau. Dylid cyfeirio at y rhagdybiaeth o blaid datblygiad cynaliadwy.	cadernid y Cynllun. **Dim newid**
819	Jina Gwyrfai [3092]	3.5	Gwrthwynebu	Nid yw'r Cynllun Adnau'n cyflawni gweledigaeth Cynllun Gofodol Cymru am ardal Eryri a Môn sef "cynnal economi .. a fydd yn gymorth i'r ardal gynnal ei chymeriad unigryw ... i gynnal yr iaith Gymraeg" oherwydd mae'r cynlluniau wedi selio ar fewnfudo sydd yn tanseilio cymeriad unigryw & iaith yr ardal. Mae'r ddamcaniaeth "Population & Household Forecasts" yn defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar dwf cyson mewn mewnfudo a hyn yn newid cymeriad ein hardal. Yn ogystal nid yw ei fethodoleg wedi cysylltu'n ddigonol gyda Gwynedd (cyf App A A.5) Astudiaeth ddichonadwy ar yr angen am dai yn ôl twf naturiol yn unig - sef model "Natural Change" yn unig gan gyplysu tai gwag ac ail gartrefi sydd yn y Sir.	**Dim yn derbyn** - Mae datblygiad y Cynllun Adnau wedi rhoi ystyriaeth lawn i weledigaeth y Cynllun Gofodol ar gyfer yr ardal. Mae Papur Testun 4A yn disgrifio'r gwahanol senarios twf a gafodd ystyriaeth yn ogystal â ffactorau lleol sy'n gyrru'r farchnad tai lleol. Rhoddwyd ystyriaeth i fodolaeth tai gwag a thai haf/ gwyliau wrth drosi cyfanswm aelwydydd i'r cyfanswm galw am unedau tai. Nid ellir rhoi llawer o bwyslais ar y senario 'Newid Naturiol' oherwydd nad ellir atal unigolion rhag symud i mewn ac allan o'r ardal. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1099 1100 1101	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	3.7, 3.8 & 3.9	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn ystyried y byddai modd gwella eglurder y paragraffau hyn, yn enwedig y gwahaniaeth cyfreithiol yn Neddf Cynllunio 2008 o ran y term "datblygiad cysylltiedig" fel mae'n ymwneud â Chymru. Dylai'r rhestr o fwledi ddangos mathau o	**Derbyn** - Cytuno bod angen i'r geiriad fod yn gyson gyda therminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth. Cytunir hefyd y dylid bod yn eglur ynglŷn â pha fathau o ddatblygiad a ellir eu hystyried yn rhai sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd, ac felly yn gallu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ddatblygiad cysylltiedig gael ei gwneud yn gyson efo cynnwys canllawiau cynllunio atodol y Wylfa. Dylai mân gamgymeriadau yn y disgrifiad o drefn Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd Safle'r Wylfa hefyd gael eu cywiro.	bod yn destun cais cynllunio i'r Cyngor lleol. **Argymhelliad** – Diwygio geiriad paragraffau 3.7 – 3.9 i sicrhau cywirdeb ac eglurder. **Newid â Ffocws: NF2**
297	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	3.10	Gwrthwynebu	O gofio'r pwyslais a roddir ar warchod bioamrywiaeth, dylid cyfeirio at y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol ar gyfer Gwynedd a Môn	**Nodi'r sylw** - Nid amcan y rhan yma ydi cyfeirio at bob cynllun, dogfen bolisi a strategaeth leol. Mae rhan 7.5 o'r Cynllun Adnau yn dangos sut roddwyd ystyriaeth i'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol. **Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
1081	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	3.10	Gwrthwynebu	Tabl 5 - yn cyfeirio at flaenoriaethau'r Cynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol Taith a Trac. Bydd y Cynlluniau hyn yn cael eu disodli gan Gynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd Gogledd Cymru a Chynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd Canolbarth Cymru. Dylai'r cynllun gyfeirio at unrhyw welliannau priffordd yr ymrwymwyd iddynt pan fo'n briodol.	**Derbyn y sylw -** ers i'r Cynllun Adnau gael ei baratoi cafodd Cynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru eu cyhoeddi. Cytunir y dylid diwygio'r rhan yma o'r Cynllun i adlewyrchu hynny. **Argymhelliad** Diwygio'r tabl i trwy gynnwys cyfeiriad at y Cynlluniau Lleol yn lle'r Cynlluniau Rhanbarthol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Newid â Ffocws: NF3 Er mwyn sicrhau cywirdeb
1095	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	Table 5: Cyd-destun Polisi	Gwrthwynebu	Mae CNC yn argymell bod Tabl 5 yn cynnwys cyfeiriad at Bolisïau Cynllunio Cenedlaethol, yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol.	**Dim yn derbyn** – ceir cyfeiriad digonol i Bolisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol ym mharagraffau 3.2 a 3.3. **Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

PENNOD 4 – PROFFIL GOFODOL A PHRIF FATERION

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
79	Cyngor Cymuned Y Felinheli (Cyng. Sian Gwenllian) [2683]	4.7	Cefnogi	Rydym yn cytuno efo'r prif faterion sydd wedi eu hadnabod.	**Nodi'r sylw cefnogol.** **Argymhelliad** **Dim newid**
269	Mr Aled Evans [2646]	4.7	Gwrthwynebu	K1 Nid yw K1 yn son am y symudiad o bobol sydd wedi eu geni tu allan i Gymru sy'n ychwanegu at y	**Dim yn derbyn** – mae KI1 yn adlewyrchu'r mater a gyfeirir ato.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				niferoedd o bobol mewn oed sydd yn yr ardal. Dylai ryw gydnabyddiaeth gael ei wneud o hyn o gofio bod yr ardal fel petai yn cael ei gwerthu fel ardal hamdden - (Golff, Hwylio) lle da i ddod i ymddeol.	**Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
298	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	4.7	Cefnogi	Mae croeso i KI 24-29	**Nodi'r sylw cefnogol.** **Argymhelliad** **Dim newid**
350	WYG/Alliance Planning (Mr Mark Walton) [2905]	4.7	Cefnogi	Mae ein Cleient, Admiral Taverns, yn cefnogi KI6. Rhaid i'r cynllun roi sylw i'r cyflenwad, cymysgedd a'r ystod o dai mewn ardaloedd gwledig yng Ngwynedd er mwyn cefnogi gwead cymdeithasol a diwylliannol yr ardal a chyfrannu at gyflawni amcanion economaidd y Cynllun.	**Nodi'r sylw cefnogol.** **Argymhelliad** **Dim newid**
445	Bourne Leisure Ltd [2768]	4.7	Gwrthwynebu	Dylid ychwanegu at KI22 i gyfeirio at yr angen am ailddatblygiad/ ailwampio parhaol o lety gwyliau er mwyn cynnal rhywbeth sy'n cwrdd â disgwyliadau'r ymwelwyr. Mae Bourne Leisure yn siomedig bod yr eirfa a welwyd ym mharagraff 7.60 o'r Hoff Strategaeth wedi cael ei eithrio o'r Proffil Gofodol yn y Cynllun Adnau. Mae'r eirfa yma yn rhoi'r cyd-destun defnyddiol o ran pwysigrwydd twristiaeth fel cyfrannwr i'r economi leol a sut mae wedyn yn siapio Gweledigaeth Ofodol a Materion Allweddol.	**Dim yn derbyn** - mae KI22 yn cyfeirio at yr angen i 'wella a rheoli'r ddarpariaeth twristiaeth' a chredir bod hynny'n ddigonol. Mae'r wybodaeth ystadegol a gyfeirir ato wedi cael ei gynnwys ar ddechrau'r gyfres o bolisïau a fydd yn hyrwyddo datblygiad ar gyfer y sector ymwelwyr. **Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
850	Mr Rob Booth [3033]	4.7	Gwrthwynebu	Ni fydd cymunedau yn elwa o Fater Allweddol 10 a bydd yn arwain at leihad mewn cyfleusterau i'r gymuned leol, yn enwedig cymunedau sydd â phoblogaeth sy'n heneiddio. Bydd yn arwain at nifer fwy o bobl yn gorfod teithio a mwy o deithiau mewn ceir. Mae'n gwrthdaro â Mater Allweddol 11 "Hyrwyddo cyfleoedd i bobl gael byw'n iach a chael mynediad rhesymol at ofal iechyd, yn enwedig o fewn y boblogaeth sy'n heneiddio". Nid yw'n briodol chwaith ar gyfer un o'r polisïau strategol dan PS5 ar dudalen 75, pwynt 4, "Hyrwyddo canolfannau a phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau..." Eisiau gweld Mater Allweddol 10 yn cael ei ddileu.	**Dim yn derbyn** - Mae'r rhan yma o'r Cynllun yn rhestru'r heriau a'r cyfleoedd sydd yn wynebu ardal y Cynllun. Mae KI10 yn cydnabod bod darparwyr cyfleusterau addysg ac iechyd yn edrych i mewn i resymoli eu gwasanaethau neu yn gweithredu ar gynlluniau i wneud hynny. Mae'r Cynllun Adnau wedyn yn cynnwys strategaeth ofodol a pholisïau sy'n anelu i gyfrannu i fynd i'r afael a'r ffenomenau. Dylid nodi bod y Cynllun Adnau yn rhan o ddull integredig i daclo'r materion a nodir. **Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
851	Mr Rob Booth [3033]	4.7	Gwrthwynebu	Mater Allweddol 20 yw dirywiad yn ffyniant a bywiogrwydd canol trefi. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod archfarchnadoedd mawr a pharciau busnes yn cael eu hadeiladu tu allan i ganol trefi. Mae siopau a swyddfeydd tu allan i drefi yn annog y defnydd o geir. Awgrymaf bolisi sy'n ffafrio cadw siopau a busnesau yng nghanol trefi ac nad yw'n cynyddu datblygiad parciau busnes ac archfarchnadoedd tu allan i drefi a phentrefi.	**Nodi'r sylw** - Mae'r rhan yma o'r Cynllun yn rhestru'r heriau a'r cyfleoedd sydd yn wynebu ardal y Cynllun. Mae KI20 yn cydnabod beth sydd wedi digwydd yng nghanol trefi dros y blynyddoedd. Mae cyfres o bolisiau yn rhan 7.3 o'r Cynllun Adnau yn rhoi'r fframwaith ar gyfer hyrwyddo canol trefi. **Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
908	Mr Rob Booth [3033]	4.7	Gwrthwynebu	Tudalen 37. Problem Allweddol 20 yw'r dirywiad yn ffyniant a hyfywdra canol trefi. Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i archfarchnadoedd a pharciau busnes mawr gael eu hadeiladu ar gyrion canol trefi. Mae siopau a swyddfeydd allan o'r dref yn annog y defnydd o geir. Rwy'n awgrymu polisi sy'n ffafrio cadw siopau a busnesau yng nghanol trefi, nad yw'n cynyddu datblygiad parciau busnes ac archfarchnadoedd y tu allan i drefi a phentrefi.	**Nodi'r sylw** – mae'r materion a godir yn cyd-fynd a pholisiau manwerthu sydd yn y Cynllun **Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun i gyfarch y materion a godwyd. **Dim newid**
1089	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	4.7	Cefnogi	Mae CNC yn ystyried bod y gwaith o adnabod ac adolygu'r tueddiadau allweddol sydd wedi dod yn amlwg wrth adolygu'r strategaethau, cynlluniau a rhaglenni sydd wedi'u henwi ym Mhennod 3 wedi llwyddo i adnabod y prif faterion i gael eu taclo gan y CDLl ar y Cyd.	**Nodi'r sylw cefnogol.** **Argymhelliad** **Dim newid**
1406	Admiral Taverns [3348]	4.7	Cefnogi	Cefnogi KI6 - Mae ein cleientiaid yn cefnogi'r cynsail y dylai'r CDLl ar y Cyd ddarparu ystod a chymysgedd digonol a phriodol o dai y mae modd eu datblygu mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn diwallu gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth, cefnogi gwead cymdeithasol a diwylliannol yr ardal a chyfrannu at gyflawni amcanion economaidd y Cynllun.	**Nodi'r sylw cefnogol.** **Argymhelliad** **Dim newid**
1450	Bourne Leisure Ltd [2768]	4.7	Gwrthwynebu	Fe ddylid ehangu KI22 i gyfeirio at yr angen ar gyfer ailddatblygiad/ ailgyfuniad parhaol llety gwyliau er mwyn cynnal rhywbeth sy'n cwrdd â dyheadau ymwelwyr. Mae angen buddsoddiad	**Dim yn derbyn** – mae KI22 yn cyfeirio at yr angen i 'wella a rheoli'r ddarpariaeth twristiaeth' a chredir bod hynny'n ddigonol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				sylweddol i gynnal a gwella hyfywdra a pha mor ddeniadol ydi gweithredwyr presennol fel rhywle i ymweld ag ef, i wella beth sydd ar gael ac i ymateb i newidiadau yn y farchnad, gan gynnwys gwella cyfleusterau gwesteion a llefydd chwarae a hamdden. Fe ddylai KI22 gael ei enwid i ddarllen; "Rheoli, diwygio a gwella..."	**Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
1451	Bourne Leisure Ltd [2768]	4.7	Gwrthwynebu	Mae Bourne Leisure yn siomedig bod yr eirfa yn 7.60 o'r Hoff Strategaeth wedi cael ei eithrio o'r rhan am broffil gofodol y Cynllun Adnau. Mae'r eirfa yma yn rhoi cyd-destun defnyddiol o ran pwysigrwydd twristiaeth fel cyfranwyr economaidd a sut mae felly yn siapio'r weledigaeth ofodol a'r prif faterion. Roedd yr eirfa fel a ganlyn:"Mae twristiaeth yn dod a dros £233 miliwn i economi leol Ynys Môn a dros £851 miliwn i Wynedd (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri) pob blwyddyn ac mae'n cefnogi dros 4,100 a 15,819 o swyddi, yn y drefn honno." Mae Bourne Leisure yn gofyn i ail-osod yr eirfa yma yn y Cynllun sydd ar y gweill.	**Dim yn derbyn** – Mae'r wybodaeth ystadegol a gyfeirir ato wedi cael ei gynnwys ar ddechrau'r gyfres o bolisiau a fydd yn hyrwyddo datblygiad ar gyfer y sector ymwelwyr. **Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

PENNOD 5 – GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
138	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	5.2	Gwrthwynebu	Dywedir yma "Dyma ei weledigaeth: "Cryfhau cymunedau yng Ngwynedd a Môn." Anghytunwn	**Nodi'r sylw** - mae paragraff 5.2 yn cyfeirio at weledigaeth y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	(Mr Richard J Roberts) [1550]			a'r gosodiad hwn gan na fydd y Cynllun yn cryfhau cymunedau gwledig a chefn gwlad.	Gwynedd a Môn a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd. **Argymhelliad** Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
160	Mr Aled Evans [2646]	5.2	Gwrthwynebu	Gweledigaeth i gryfhau'r cymunedau Newid y dyraniad , a lleihau niferoedd y tai	**Dim yn derbyn** - Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1103	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	5.4	Gwrthwynebu	Mae diffyg cefnogaeth amlwg yn y CDLl ar y Cyd i Brosiect Wylfa Newydd. Er bod yr ystyriaeth ar gyfer polisi datblygu yn ymwneud â Wylfa Newydd yn cael ei gydnabod (ar ffurf PS9) nid yw'n ddigon eglur ac nid yw, yn ei ffurf bresennol	**Derbyn** - Mae'r Cynllun Adnau yn cydnabod pwysigrwydd Prosiect Wylfa Newydd i Ynys Môn a gweddill ardal y Cynllun (yn ogystal ag ardaloedd tu hwnt i hynny). Mae bodolaeth y Prosiect a'r budd a ddaw yn ei sgil wedi bod yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				yn unig, yn galluogi fframwaith benderfynu gydlynol ar gyfer datblygiad cysylltiedig. Yn ogystal, nid yw'r diffyg datganiadau eglur yn cefnogi Prosiect Wylfa Newydd yn gyson efo canllawiau cynllunio atodol y Wylfa.	ystyriaeth bwysig ac mae wedi goleuo gweledigaeth ac amcanion y Cynllun ac felly ei strategaeth. Credir y byddai ychwanegu'r geiriad awgrymir yn ychwanegu at werth y rhan yma o'r Cynllun. **Argymhelliad** Diwygio'r Cynllun trwy ychwanegu paragraff ar ol 5.4 i gyfeirio at bwysigrwydd y Prosiect. **Newid â ffocws: NF4**
357	Mr Gareth Dobson [2917]	5.5	Gwrthwynebu	Mae perygl sylweddol i sylfaenu gweledigaeth ar un prosiect sydd eto i'w gadarnhau'n derfynol. Yn hanesyddol ni fu i Wylfa na Trawsfynydd gael effaith cadarnhaol ar y cymunedau hynny sydd yn agos iddynt - megis Amlwch ym Môn na Ffestiniog yng Ngwynedd. Yn wir gellid dadlau fod y ddau brosiect yma wedi llesteirio datblygiadau mwy addas i'r cymunedau lleol hyn oherwydd peryglon ynni Niwclear.	**Dim yn derbyn** - mae'r galw am atomfeydd ynni niwclear wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Prydain. Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 wedi adnabod safle Wylfa Newydd fel lleoliad sydd o bosib yn addas i ddatblygu pwerdy newydd erbyn diwedd 2025. Mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi fframwaith bolisi cynllunio lleol yn ei le i gefnogi a rheoli elfennau pwysig o Brosiect Wylfa Newydd. Fe fydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol wneud penderfyniad am sawl datblygiad a fydd eu hangen i wireddu'r datblygiad ar safle Wylfa Newydd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					cadernid y Cynllun. **Dim newid**
115	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	5.6	Gwrthwynebu	Mae angen cyfeiriad cryfach at dai preifat. Dylai fod yn fwy na dim ond anghenion tai'r gymuned. Mae angen tai newydd i wasanaethu'r twf economaidd cynlluniedig a daw hyn â phobl newydd i mewn i'r ardal.	**Dim yn derbyn** - mae lefel twf priodol yn ffurfio rhan o'r weledigaeth ar gyfer cymunedau ffyniannus a llawn bywyd, fel y gwelir wedyn yn yr amcanion strategol, y strategaeth a pholisïau'r Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
136	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	5.6	Gwrthwynebu	Croesewir y datganiad hwn ond dylai'r Cynllun Datblygu ddiffinio ffyrdd o gyflawni'r amcan hwn. Dylai bod mwy o fanylion ar sut cyrhaeddir y nod hwn.	**Dim yn derbyn** - Mae'r weledigaeth yn rhoi ciplun o sut fydd ardal y Cynllun yn edrych yn 2026. Nid rhoi datganiad polisi terfynol ydi pwrpas y weledigaeth. Dylid cyfeirio at yr amcanion strategol sy'n adeiladu ar y weledigaeth yn ogystal â'r polisïau a'r dynodiadau yng ngweddill y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
270	Mr Aled Evans [2646]	5.6	Cefnogi	Gweledigaeth (cytuno ond amheus o sut bydd pethau'n gweithio)	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
300	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	5.6	Gwrthwynebu	Dylai paragraff agoriadol y weledigaeth bwysleisio'r amgylchedd naturiol fel mewn rhan arall o'r ddogfen. Cynnwys y gair "naturiol" cyn amgylchedd.	**Dim yn derbyn** - mae'r gair 'amgylchedd' yn yr achos yma yn cyfeirio at yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig fel ei gilydd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
379	Mr Gareth Dobson [2917]	5.6	Gwrthwynebu	Mae'r weledigaeth yn rhy niwlog - yn llawn o ansoddeiriau ond fawr ddim sylwedd. Does dim digon o dystiolaeth o allu'r Awdurdod i gyflawni'r weledigaeth yn ei ffurf bresennol.	**Dim yn derbyn** - Mae'r weledigaeth yn rhoi ciplun o sut fydd ardal y Cynllun yn edrych yn 2026. Nid rhoi datganiad polisi terfynol ydi pwrpas y weledigaeth. Dylid cyfeirio at yr amcanion strategol sy'n adeiladu ar y weledigaeth yn ogystal â'r polisïau a'r dynodiadau yng ngweddill y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
849	Mr Rob Booth [3033]	5.6	Gwrthwynebu	Mae'n siomedig iawn gweld fod gan Gyngor Gwynedd ac Ynys Môn weledigaeth sy'n cynnwys gorsaf bŵer niwclear newydd, mae risgiau mawr ynghlwm ag adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd fel rydym wedi'i weld yn y trychineb diweddar yn Fukushima. Mae risg enfawr i'n cartrefi, diwylliant a thwristiaeth. Byddai gorsaf bŵer newydd angen nifer o ddatblygiadau mawr cysylltiedig megis tai i'r gweithwyr adeiladu, ac isadeiledd (e.e. ffyrdd, pibelli a pheilonau). Bydd adeiladu'r orsaf bŵer niwclear yn effeithio ar y diwylliant Cymreig oherwydd y mewnlifiad o weithwyr adeiladu dros dro. Nid yw pŵer niwclear yn gynaliadwy, mae gofyn cael tanwydd gwenwynig ar ei gyfer ac mae'r gwastraff yn broblemus iawn.	**Dim yn derbyn** - mae'r galw am atomfeydd ynni niwclear wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Prydain. Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 wedi adnabod safle Wylfa Newydd fel lleoliad sydd o bosib yn addas i ddatblygu pwerdy newydd erbyn diwedd 2025. Mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi fframwaith bolisi cynllunio lleol yn ei le i gefnogi a rheoli elfennau pwysig o Brosiect Wylfa Newydd. Fe fydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol wneud penderfyniad am sawl datblygiad a fydd eu hangen i wireddu'r datblygiad ar safle Wylfa Newydd. Dylid cyfeirio at yr amcanion strategol sy'n adeiladu ar y weledigaeth yn ogystal â'r polisïau a'r dynodiadau yng ngweddill y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
858	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	5.6	Gwrthwynebu	Mae'r weledigaeth yn gadarnhaol ar y cyfan ac yn rhoi syniad da o'r hyn y mae'r Cynllun yn gobeithio ei gyflawni'n gyffredinol ac mewn ardaloedd penodol o Ynys Môn a Gwynedd. Fodd bynnag, rydym yn bryderus nad oes unrhyw gyfeiriad at gyflawni datblygu cynaliadwy a'r	**Dim yn derbyn -** Nid rhoi datganiad polisi terfynol ydi pwrpas y weledigaeth. Dylid cyfeirio at yr amcanion strategol sy'n adeiladu ar y weledigaeth yn ogystal â'r polisïau a'r dynodiadau yng ngweddill y Cynllun. Gyda'i gilydd fe fyddant yn hyrwyddo datblygu a fydd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy yn y Weledigaeth, sy'n un o gonglfeini Polisi Cynllunio Cymru.	yn golygu y bydd ardal y Cynllun yn un sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1104	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	5.6	Gwrthwynebu	Er mwyn rhoi sylw priodol i Brosiect Wylfa Newydd, mae Horizon yn credu y dylai gael ei adlewyrchu yn y Weledigaeth.	**Derbyn y sylw -** Cytunir bod Prosiect Wylfa Newydd yn un o'r gyrwyr pwysig sy'n mynd i gyfrannu at daclo nifer o faterion yn ardal y Cynllun, ac felly mae llwyddiant y Prosiect yn tanategu'r Cynllun. Bydd ychwanegu geiriad at weledigaeth y Cynllun yn cadarnhau hynny a sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun. **Argymhelliad** Ychwanegu cyfeiriad at y Prosiect yng ngeiriad y weledigaeth. **Newid â Ffocws: NF5**
323	Sally Baxter (Ms Sally Baxter) [2883]	5.7	Gwrthwynebu	Croesewir y dull gweithredu o gysylltu amcanion â'r Cynllun Integredig Sengl. Fodd bynnag, nid yw amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu'n ddigonol amcan y Cynllun Integredig Sengl o gymunedau cynhwysol lle mae iechyd a lles pobl yn dda. Byddai'n ddefnyddiol	**Dim yn derbyn** - mae'r amcanion strategol yn adeiladu ar y weledigaeth sy'n cyfeirio at y nod i hyrwyddo ardal lle mae yna "rwydweithiau egnïol o gymunedau cynhwysol lle mae'r preswylwyr yn mwynhau iechyd a lles da". Ni chafodd yr amcanion strategol eu paratoi ar

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				pwysleisio hyn yn yr amcanion.	wahân i'w gilydd ac ni ddylid eu hystyried ar wahân i'w gilydd. Mae nifer o'r amcanion strategol gyda'i gilydd yn fynegiant o'r weledigaeth ac maent yn eu tro yn sail i'r polisïau strategol a manwl sydd yn y Cynllun Adnau. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
116	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	5.8	Gwrthwynebu	Dan thema 3 dylid cyfeirio at yr angen i ddarparu digon o dai addas i gefnogi twf economaidd yr ardal. Mae targedau tai'r cynllun wedi'u seilio ar dwf economaidd ac fel arall, felly mae angen croesgyfeirio at hyn yn well yng ngeiriad y ddogfen.	**Derbyn** - cytunir y byddai ychwanegu at y geiriad yn SO14 i gyfeirio at y cysylltiad rhwng y lefel twf tai a'r twf economaidd yn ychwanegu at werth yr amcan strategol. **Argymhelliad** – diwygio SO14 i gyfeirio at yr angen i gyfarch twf economaidd yn ystod cyfnod y Cynllun. **Newid â Ffocws**: NF7 Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.
134	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	5.8	Gwrthwynebu	Amcan strategol arall y Cynllun yw: "I roi cyfle i bawb gael mynediad i gartref sy'n bodoli i'w hanghenion." Cytunwn ond beth am y tai gweigion sy'n bodoli'n barod. Hyd y gwelwn y	**Dim yn derbyn** - Pwrpas yr amcanion strategol ydi rhoi mwy o fanylion am y weledigaeth, gan ddweud sut fydd y Cynllun yn mynd ati i'w gyfarch. Yn hyn o beth nid rôl yr amcanion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				bwriad yw creu stadau unffurf a gor-ganoli mewn ychydig o lefydd yn hytrach na chefnogi datblygiad naturiol sy'n ymateb i anghenion lleol. Mae'r stadau hyn ar draul datblygiadau yng nghefn gwlad, a chefnogir y sylwadau gan y pwyntiau o dan y pennawd "Poblogaeth, Demograffeg a Thai (t. 35/36) sef KI.1 a KI.5 a KI.33	strategol ydi rhoi manylion sydd i'w cynnwys mewn rhannau eraill o'r Cynllun, e.e. polisïau strategol a manwl, neu mewn dogfennau tystiolaeth, e.e. Papur Testun 3 Poblogaeth a Thai **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
135	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	5.8	Gwrthwynebu	Dywedir mai amcan strategol y Cynllun hwn yw "Cynnal a chreu cymunedau diogel, iach a bywiog." Yn ôl ein tystiolaeth ni (Adroddiad Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Llanystumdwy) mae 61.4% yn methu fforddio prynu tŷ. Yr unig symudiad sydd ei angen yw o dy mawr i un llai neu deulu mawr i dy mwy. O adeiladu 40 o dai yn Chwilog ychydig o bobl leol fyddai'n medru eu prynu. Pwy felly fyddai'n dod i fyw ynddynt gan nad oes cyfleoedd cyflogaeth yma? Mae'n debygol felly mae pobl hyn fyddai'n dod yno, ac ni fyddid yn creu cymdeithas fywiog.	**Dim yn derbyn** - Pwrpas yr amcanion strategol ydi rhoi mwy o fanylion am y weledigaeth, gan ddweud sut fydd y Cynllun yn mynd ati i'w gyfarch. Yn hyn o beth nid rôl yr amcanion strategol ydi rhoi manylion sydd i'w cynnwys mewn rhannau eraill o'r Cynllun, e.e. polisïau strategol a manwl, neu mewn Canllawiau Cynllunio Atodol, neu mewn dogfennau tystiolaeth, e.e. Papur Testun 3 Poblogaeth a Thai, Papur Testun 17 Tai Marchnad Leol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
276	Mr Aled Evans [2646]	5.8	Cefnogi	Amcanion Strategol	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
301	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	5.8	Gwrthwynebu	Mae SO16 yn cynnwys ystod eang iawn o faterion; ceid mwy o eglurder trwy wahanu'r materion hyn yn amcanion gwahanol. Dylai asedau naturiol a threftadaeth fod ar wahân er mwyn adlewyrchu gwerth cynhenid yr amgylchedd naturiol. Newid SO16 hefo dau amcan. 1. Gwarchod, gwella a rheoli'r asedau naturiol ardal y cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt a chymeriad y dirwedd. 2. Gwarchod, gwella a rheoli'r asedau diwylliannol ardal y cynllun a chymeriad y dirwedd a'r amgylchedd adeiledig.	**Nodi'r sylw** - Cytunir bod amcan strategol SO16 yn cynnwys y ddau bwnc. Ni chredir bod hynny yn tanseilio pwrpas yr amcan. Dylid cyfeirio at sut mae'r amcan wedi cael ei drosglwyddo i bolisïau manwl y Cynllun sydd yn ymdrin â'r pynciau ar wahân. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
306	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	5.8	Gwrthwynebu	Dylid rhoi mwy o bwyslais ar warchod safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol yn allbynnau allweddol thema 5. Ychwanegu " neu ddifrod i'w nodweddion".	**Derbyn** - Cytunir y byddai ychwanegu "neu ddifrod i'w nodweddion" yn egluro'r allbwn yn well. **Argymhelliad** – diwygio'r trydydd allbwn o dan Thema 5 yn unol â'r uchod. **Newid â Ffocws: NF8** Er mwyn gwella eglurder a chysondeb mewnol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					y Cynllun.
349	WYG/Alliance Planning (Mr Mark Walton) [2905]	5.8	Cefnogi	Mae ein Cleient, Admiral Taverns, yn cefnogi amcan strategol SO14 ac SO15 i gyflawni ystod briodol a chymysgedd o safleoedd tai y mae modd eu codi mewn lleoliadau cynaliadwy i gwrdd ag anghenion tai'r holl boblogaeth.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
855	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	5.8	Gwrthwynebu	Nid oes un amcan cyffredinol o gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 3.1.2 a 4.2), yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac mae hyn wrth galon dull Llywodraeth Cymru o greu cynllun a gwneud penderfyniadau. Caiff hyn ei egluro yn Adran 4.2 PCC ac yn benodol ym mharagraff 4.2.2. Mae hyn yn rhywbeth mawr i'w adael allan, ac wrth astudio polisïau'r Cynllun mae'n glir nad yw'r Cynllun yn ymgorffori dull Llywodraeth Cymru fel mae wedi'i amlinellu yn PCC, sef rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy a Chynllunio Cadarnhaol. Dylid ymgorffori'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy trwy'r Cynllun cyfan.	**Dim yn derbyn -** Ni chafodd yr amcanion strategol eu paratoi ar wahân i'w gilydd ac ni ddylid eu hystyried ar wahân i'w gilydd. Mae nifer o'r amcanion strategol gyda'i gilydd yn fynegiant o'r weledigaeth ac maent yn eu tro yn sail i'r polisiau strategol a manwl sydd yn y Cynllun Adnau. Gyda'i gilydd fe fyddant yn hyrwyddo datblygu a fydd yn golygu y bydd ardal y Cynllun yn un sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol heb fod angen cyfeiriad penodol at ragdybio o blaid datblygu cynaliadwy. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
871	Ffrindiau Borth-y-Gest (Tom Brooks) [3036]	5.8	Cefnogi	Mae nodau ac amcanion Ffrindiau Borth y Gest yn cynnwys: "ceisio gwarchod natur arbennig yr ardal fel pentref glan môr prydferth, tawel sydd wedi'i	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				leoli mewn ardal wledig eithriadol o hardd". Yn y cyswllt hwn cymeradwywn Thema 1 yn y Datganiad Ysgrifenedig - cefnogi a chreu cymunedau diogel, iach, nodedig a bywiog, a Thema 5 - gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.	
1090	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	5.8	Cefnogi	Mae'n cael ei ystyried y bydd y gyfres o Amcanion Strategol yn rhan 5.8 o'r Cynllun o gymorth i sicrhau y cyflawnir gweledigaeth y Cynllun a bod hyn yn gosod y cefndir sy'n sail i Bolisïau Strategol a Pholisïau Manwl.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
1097	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	5.8	Cefnogi	Mae'n cael ei gydnabod bod Amcan Strategol Thema 5 rŵan yn cynnwys yr angen i warchod, gwella a rheoli asedau naturiol.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
1105	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	5.8	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn credu y byddai'n briodol cynnwys amcan strategol newydd o dan Thema 3 sy'n cefnogi datblygu Prosiect Wylfa Newydd, i sicrhau bod y CDLl ar y Cyd yn cynnwys fframwaith polisi cydlynol i reoli Prosiect Wylfa Newydd. Gweler hefyd os gwelwch yn dda'r Fframwaith Polisi Arfaethedig ar gyfer Wylfa Newydd, sydd wedi cael ei baratoi i ddangos y fframwaith polisi penodol yn ei gyfanrwydd ar gyfer Wylfa Newydd.	**Derbyn** - nodi'r bod Thema 3 a'r amcanion strategol a'r prif ganlyniadau gyda'i gilydd yn rhoi'r fframwaith sy'n fynegiant o elfen o weledigaeth y Cynllun sy'n ymwneud a datblygu'r economi leol. Maent fel nifer o'r amcanion strategol eraill yn rhoi'r bachau ar gyfer y polisiau a fydd yn hyrwyddo'r datblygiadau a fydd eu hangen i gyfarch gofynion Prosiect Wylfa Newydd. Er hynny, cytunir y byddai ychwanegu amcan strategol arall yn cryfhau'r rhan yma o'r Cynllun, gan sicrhau ei gysondeb mewnol. **Argymhelliad** – ychwanegu amcan strategol arall o dan Thema 3 i gyfeirio at gefnogi a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					gwneud yn fawr o'r cyfleoedd ddaw i'r ardal yn sgil Prosiect Wylfa Newydd. **Newid â Ffocws: NF6** Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun
1111	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	5.8	Gwrthwynebu	Mae'n cael ei ddatgan fel allbwn allweddol "ni fydd datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio wedi arwain at golli safle o werth cadwraeth natur ryngwladol neu genedlaethol". Mae'r geiriad yma'n rhy anhyblyg. Er enghraifft mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof tu mewn i ffiniau safle Gorsaf Bŵer Niwclear y Wylfa ac mae CSYM yn ymwybodol o'r potensial i waith adeiladau Prosiect Wylfa Newydd gael effaith andwyol arno. Nid yw'r allbwn y ceisir ei gael yn dangos digon o hyblygrwydd ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau ac nid yw'n cydnabod bod proses yn bodoli ar gyfer dileu dynodiad SoDdGA.	**Dim yn derbyn** - Cytunir y gallai datblygiad mewn eithriadau arwain at golli safle o werth cadwraeth natur ryngwladol neu genedlaethol. Byddai hynny ond yn digwydd ar ôl dilyn proses gydnabyddedig o asesu'r cynnig. Ni chredir bod hynny yn tanseilio'r prif ganlyniad anelir ei gyrraedd, sy'n gyson ag amcan strategol SO16. Dylid cyfeirio at sut mae'r amcan wedi cael ei drosglwyddo i bolisïau manwl y Cynllun sydd yn adlewyrchu gofynion statudol a pholisi cynllunio cenedlaethol, gan nodi y byddai angen cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol neu fudd gor-redol i gyfiawnhau colli safle neu effeithio'n andwyol ar ei nodweddion pwysig. Noder bod y gwrthwynebydd yn cyfeirio at ddileu dynodiad SoDdGA. Os fydd y SoDdGA yn cael ei ddileu ni fyddai'n safle a fyddai'n destun gwarchodaeth o dan y Polisi. Felly, nid yw'n glir pam fod angen cyfeiriad at y broses ddileu yn y Cynllun. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1407	Admiral Taverns [3348]	5.8	Cefnogi	SO14 a SO15 - Mae ein cleientiaid yn cefnogi'r cynsail y dylai'r CDLl ar y Cyd Adnau ddarparu ystod a chymysgedd digonol a phriodol o dai y mae modd eu datblygu mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn diwallu gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth, cefnogi gwead cymdeithasol a diwylliannol yr ardal a chyfrannu at gyflawni amcanion economaidd y Cynllun.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

PENNOD 6 – Y STRATEGAETH

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
67	Cyngor Cymuned Llanddyfnan (Mr Graham Owen) [1378]	6.1	Gwrthwynebu	Gweler uchod Mae'r aelodau hefyd yn cynnig bod cynghorau Gwynedd a Môn yn mynd yn ôl i'r dechrau gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac yn ailedrych yn ddifrifol ar y cynigion.	**Dim yn derbyn** **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
216	PAWB (Robat	6.1	Gwrthwynebu	Mae cynsail y Cynllun yn wallus, gan ei fod yn	**Dim yn derbyn** - mae'r galw am atomfeydd ynni

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Idris) [2814]			rhagdybio y bydd gorsaf niwclear Wylfa B yn cael ei hadeiladu. Gan fod y strategaeth yn wallus, mae'r holl Gynllun yn annilys. Credir bod methiant i adeiladu pwerdy Hinkley hyd yma yn arwydd na fydd Wylfa B yn cael ei adeiladu. Cyfeirir at ystyriaethau'n ymwneud a chael gwared o'r gwastraff yn ddiogel. Yn ogystal a hyn cyfeirir at symudiadau i beidio dibynnu ar nifer fechan o ddarprwyr, gan edrych ar brosiectau i gyfarch galw yn lleol, buddsoddi mewn ynni adnewyddol a dulliau i leihau'r galw am ynni. Oherwydd yr ansicrwydd ynglyn a dyfodol y pwerdy arfaethedig dylid cael dau gynllun: un i gyfarch senario efo'r pwerdy a'r llall heb y pwerdy. Byddai hyn yn osgoi rhoi caniatad i ormodedd o dai heb eu hangen yn Ynys Mon a fyddai'n cael effaith andwyol ar gymunedau lleol.	niwclear wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Prydain. Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 wedi adnabod safle Wylfa Newydd fel lleoliad sydd o bosib yn addas i ddatblygu pwerdy newydd erbyn diwedd 2025. Mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi fframwaith bolisi cynllunio lleol yn ei le i gefnogi a rheoli elfennau pwysig o Brosiect Wylfa Newydd. Bydd rhaid i'r Cynllun gael ei fonitro'n flynyddol a bydd rhaid ei adolygu ar ôl 4 mlynedd, oni bai bod y gwaith monitro yn dangos bod angen un cynharach. Bydd y gwaith monitro ac adolygu yn cofnodi os bydd Wylfa Newydd yn digwydd ai pheidio. Os na fydd Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu yn ystod oes y Cynllun, bydd angen i'r Cyngor ddangos trwy'r adolygiad sut fydd yn ymdopi â hynny. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
863	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	6.1	Gwrthwynebu	Credwn fod angen i'r Cynllun amlygu pynciau allweddol: * poblogaeth sy'n heneiddio: mae sawl agwedd i hwn ac mae'n anodd dod i gasgliad ynghylch dull holistaidd y Cynllun; * plant a phobl ifanc - fel yr uchod;	**Dim yn derbyn** - Bydd y mathau o unedau tai ar safleoedd a chynllun/ dyluniad y safleoedd yn faterion a gaiff eu trafod adeg cais cynllunio. Nid yw hyn yn gwahardd datblygu ar gyfer yr henoed neu grwpiau eraill o'r gymuned. Mae Polisi TAI 1 yn hyrwyddo cymysgedd o fathau o dai ac mae

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				* pobl anabl - fel yr uchod. Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl anabl na gwledydd a rhanbarthau eraill y DU ac yn 2010 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan fod lefelau anabledd (o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd) yn un o bob pump o'r boblogaeth weithio. * lliniaru tlodi - maes arall lle mae Cymru yn tanberfformio ac a ddylai fod yn greiddiol i ddiben y Cynllun.	Polisi TAI4 yn son am gartrefi preswyl, tai gofal ychwanegol neu lety gofal ychwanegol ar gyfer yr henoed. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisïau safle penodol a meini prawf yn rhan 7.3 sydd yn hyrwyddo gwahanol fathau o gyfleoedd cyflogaeth mewn mannau sy'n hygyrch i gymunedau'r ardal er mwyn trawsnewid yr economi leol. Mae Polisi PS5 a Pholisi PCYFF2 yn rhoi'r fframwaith i ofalu am anghenion pobl anabl. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1003	Cyngor Sir Ceredigion (Mrs Llinos Quelch) [1286]	6.1	Cefnogi	Ar ôl ystyried strategaethau a pholisïau CDLl adnau Gwynedd ac Ynys Môn, nid yw Cyngor Sir Ceredigion o'r farn fod angen cyflwyno sylwadau ar unrhyw bolisïau na materion penodol. Mae'r strategaeth arfaethedig yn cyfateb yn fras i Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion, gyda hierarchaeth aneddiadau a strategaeth cyfraniadau tai fforddiadwy yn seiliedig ar raddfa 'symudol'. Ni fyddai'r CDLl adnau yn gwrthdaro â strategaeth a pholisïau CDLl Ceredigion nac yn cael unrhyw effaith	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				niweidiol arnynt, nac i'r gwrthwyneb, ac felly rydym yn croesawu'r drafft arfaethedig.	
848	Mr Rob Booth [3033]	6.3	Gwrthwynebu	Ar dudalen 46 yn nhabl 8 un o brif elfennau'r strategaeth yw twf economaidd. Nid yw twf economaidd yn gynaliadwy. Awgrymaf y dylai'r brif strategaeth geisio cynnal statws economaidd.	**Dim yn derbyn** - Mae'r strategaeth ac felly'r polisïau a'r cynigion sydd yn y Cynllun Adnau yn gadarn ac yn gallu cael eu gwireddu oherwydd eu bod nhw'n seiliedig ar dystiolaeth rymus ac wedi cael eu hystyried yn erbyn yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
133	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	6.4	Gwrthwynebu	Cefnogwn y sylw "Hyrwyddo cymunedau ffyniannus a chynaliadwy sy'n cefnogi gwasanaethau lleol gan gynnwys darparu tai ychwanegol a datblygiadau cysylltiedig yn gymesur a gofynion lleol." Mae casgliadau'r "Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy" yn gymesur a'r gofyn lleol ac yn cadarnhau nad oes angen y math o ddatblygiad a gynigir yn y Cynllun Adnau yn Chwilog.	**Dim yn derbyn** - Mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Cafodd ei ddatblygu ar ôl ystyried yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
128	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	6.5	Gwrthwynebu	Dywedir "Gosodir lefel o dwf yr ystyrir sy'n cynrychioli'r dull mwyaf cadarn, cytbwys a phriodol, o ystyried yr holl ffactorau perthnasol, yn cynnwys gwaith a wnaed gan ragolygon tai ac economaidd annibynnol." Anghytunwn, eto ar sail Adroddiad Anghenion Tai Ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy.	**Dim yn derbyn** - Mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Cafodd ei ddatblygu ar ôl ystyried yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
278	Mr Aled Evans [2646]	6.5	Gwrthwynebu	Strategaeth Nid yw'r dystiolaeth yr wyf i wedi ei weld yn cefnogi'r gosodiadau a geir yma.	**Nodi'r sylw** - Mae'r sail dystiolaeth a welir mewn cyfres o Bapurau Testun, Papurau Cefndir yn ogystal â dogfennau a gyhoeddwyd gan eraill wedi goleuo'r Cynllun. Mae'r gofynion a gafodd eu hadnabod ydynt yn cael eu hadlewyrchu ym mholisïau a dynodiadau'r Cynllun Adnau. Credir felly bod tystiolaeth rymus wedi cael ei

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					ddefnyddio i oleuo strwythur a chynnwys y Cynllun a, lle mae'n briodol i wneud hynny, mae'r Cynllun yn cyfeirio at y dogfennau cefndir perthnasol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
834	Cyngor Cymuned Tudweiliog (Mrs Glenys Peters) [1236]	6.8	Gwrthwynebu	Dylai'r pentrefi sydd ddim ar y rhestr gael eu hystyried yn ôl y galw lleol.	**Dim yn derbyn** - Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddleoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd. Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1029	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	6.8	Gwrthwynebu	Mae angen mwy o gyfiawnhad i esbonio nifer y pentrefi rydych wedi'u cynnwys yn y polisi hwn. Mae rhai o'r clystyrau hyn wedi cael sgôr isel iawn yn y matrics cynaliadwyedd a welwch ym mhapur testun 5 (Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd). Mae'r sgoriau is yn awgrymu eu bod yn ddatblygiadau diarffordd llai cynaliadwy, heb gysylltiad da â gwasanaethau a chyfleusterau - ac felly angen egluro pam eu bod wedi'u henwi. Mae Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu bod cymaint o 'glystyrau' wedi'u henwi heb ddigon o gyfiawnhad.	**Derbyn yn rhannol** - Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o aneddleoedd sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddleoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd. Mae'n bwysig bod y strategaeth ofodol yn cydnabod bod yr ardal yn un gwledig iawn ac yn un sy'n cynnwys rhwydwaith o wahanol aneddleoedd gwasgaredig. Mae'r Cynghorau wedi ceisio sicrhau y bydd datblygiad yn y dyfodol wedi ei leoli mewn llefydd lle ceir mynediad i gludiant cyhoeddus. Mae'r clystyrau sydd wedi cael eu hadnabod yn rhai lle gall preswylwyr fynd at wasanaethau a chyfleusterau mewn aneddleoedd sy'n uwch i fyny yn y goeden Aneddleoedd heb orfod defnyddio'r car. Mae adnabod y Clystyrau hefyd yn mynd i fod yn cyfrannu at gynnal cymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn gryf. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisïau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau ar raddfa briodol sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Felly, mae'r Cynghorau o'r farn bod y categori

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Clwstwr mewn ardal sydd yn wledig iawn ei natur yn mynd i hyrwyddo canran bychan o'r twf i aneddleoedd bychan yn mynd i gyfarch yr elfen gymdeithasol o'r amcanion cynaliadwyedd Er hynny, cytunir bod lle i esbonio sut cafodd y clystyrau eu hadnabod ac fe wneir hynny trwy ychwanegu at Bapur Testun 5. **Argymhelliad** Nid oes angen newid y Cynllun Adnau i ymateb i'r gwrthwynebiad yma, ond dylid cyfeirio at Bapur Testun 5 diwygiedig. **Dim newid**
403	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	6.10	Cefnogi	Cefnogi	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
1093	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	6.10	Cefnogi	Mae CNC yn fodlon efo nod y strategaeth o ddosbarthu datblygiad yn gymesur o gwmpas ardal y cynllun. Y canolbwynt yn hyd ydi lleoli datblygiad yn y mannau hynny sy'n darparu'r cyfle gorau i gael datblygiad cynaliadwy h.y. datblygu'r canolfannau isranbarthol, trefol a gwasanaeth lleol, a swm priodol o ddatblygiad yn y pentrefi, gan ganolbwyntio ar bentrefi	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				gwasanaeth ac wedyn rywfaint o ddatblygiad mewn Clystyrau.	
302	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	6.11	Gwrthwynebu	Dylai'r frawddeg olaf bwysleisio'r themâu sydd mewn rhan arall o'r cynllun o ran gwarchod yr amgylchedd naturiol. Newid "cefn gwlad" i "amgylchedd naturiol" yn y frawddeg ddiwethaf.	**Derbyn** - Cytunir y byddai cynnwys “amgylchedd naturiol” yn y rhan yma o’r Cynllun yn cynorthwyo i gynnal cysondeb mewnol y Cynllun. **Argymhelliad** – diwygio’r frawddeg trwy ychwanegu “amgylchedd naturiol” ar ol “cefn gwlad”. **Newid â Ffocws NF9** Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.
856	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	6.13	Gwrthwynebu	Mae paragraff 6.13 yn cyfeirio at Astudiaeth Capasiti Trefol y Canolfannau, lle mai'r nod a'r flaenoriaeth yw ailddefnyddio tir llwyd a ddatblygwyd o'r blaen pan fo hynny'n bosib. Fodd bynnag, roedd yr astudiaeth hon wedi'i chyfyngu'n llwyr i ganolfannau trefol presennol. Roedd yn anwybyddu cyn safle Friction Dynamics sy'n fawr, yn segur ac yn llygredig. Fodd bynnag, yn nhermau cynaladwyedd mae'r safle wedi'i leoli'n agos at Gaernarfon. Caiff ei wasanaethu'n dda gan lwybrau bysus sy'n bodoli, a thaith 5 munud ydyw i'r orsaf bws, ac mae wedi'i gysylltu â Chaernarfon gan lwybr beicio o ansawdd da - taith feic o 10 munud. Mae yna hefyd balmant o'r safle i Gaernarfon. Mae'r safle yn dir a ddatblygwyd o'r blaen, mae'n llygredig ac mae strwythur concrid a dur anferth arno sy'n dominyddu'r safle a'r ardal	**Dim yn derbyn** - Wrth baratoi’r Cynllun fe roddwyd sylw i ofynion polisi cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae’r ddogfen yma yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol i gyfeirio datblygiad i leoliadau cynaliadwy, gan gynnwys ystyried tir a ddefnyddiwyd o’r blaen ac adeiladau sydd du mewn i aneddleoedd yn gyntaf, yna estyniadau i aneddleoedd ac yn olaf datblygiad newydd o gwmpas aneddleoedd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus dda. Cafodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Astudiaeth Capasiti Trefol ei ddatblygu gyda hynny mewn golwg. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ehangach o amgylch - gweler y gwrthwynebiadau i safleoedd penodol.	cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1674	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	6.14	Gwrthwynebu	Methodoleg Asesu Safleoedd - Er mwyn i'r asesiad hwn fod yn effeithiol, bydd angen i'r awdurdodau egluro faint yn union o'r safle sydd ar dir a ddynodwyd fel Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, a sut mae hyn wedi effeithio ar benderfyniadau ynghylch defnydd o dir o'r fath.	**Nodi'r sylw** - Wrth ddewis safleoedd i'w cynnwys fe wnaeth y Cynghorau geisio adnabod ansawdd amaethyddol y safleoedd ac fe gafwyd gwybodaeth gan Adran Amgylchedd Naturiol ac Amaeth Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth i ofynion polisi cynllunio cenedlaethol a fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd. Mae blaenoriaeth wedi cael ei roi hefyd i ddod o hyd i safleoedd ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen sydd du mewn i aneddleoedd. Lle mae angen i ymestyn aneddleoedd rhoddwyd blaenoriaeth i dir sydd yn y categorïau isaf oni bai bod cyfiawnhad clir ac argyhoeddedig i beidio gwneud hynny, e.e. oherwydd y byddai cyfeirio datblygiad i safleoedd sydd mewn categori is yn groes i strategaeth ofodol y Cynllun. Wrth weithredu yn y modd yma credir bod y Cynghorau wedi isafu'r golled o dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. Er hynny, cytunir bod lle i wella sut caiff y wybodaeth ei gyflwyno. Cyfeirir at Bapur Testun 1A sydd yn rhoi gwybodaeth allweddol am ddynodiadau'r Cynllun. **Argymhelliad** – Nid oes angen newid y Cynllun Adnau i ymateb i'r gwrthwynebiad yma, ond dylid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					cyfeirio at Bapur Testun 1A diwygiedig. **Dim newid**
404	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	6.17	Cefnogi	Nid yw'r Cwmni'n dymuno gweld y ffin ddatblygu ar ochr ogleddol Porthmadog yn cael ei hymestyn.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
1112	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	6.19	Gwrthwynebu	Mae cyfeiriad at "Habitats Regulation Appraisal" ac mae hynny'n gamgymeriad teipio, ddylai ddweud "Habitats Regulation Assessment" ("HRA"). Dylai'r testun hwn fod yn eglur beth bynnag o ran ba gamau o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr ymgymerwyd â nhw (h.y. sgrinio, asesu priodol ayyb).	**Derbyn yn rhannol** – cytunir nad ydi'r fersiwn Saesneg o'r Cynllun Adnau yn cynnwys yr enw cywir. Mae'r paragraff yma o ran 6 o'r Cynllun yn enwi'r asesiadau sydd wedi goleuo'r penderfyniad i gyfeirio twf a fyddai fel arall wedi mynd i Borthmadog. Nid yw'n briodol cynnwys manylion am yr asesiadau yma yn y rhan yma o'r Cynllun. Mae'r adroddiadau am yr asesiadau yn darparu'r wybodaeth berthnasol. Felly, nid oes angen diwygio'r Cynllun i ymateb i'r rhan yma o'r gwrthwynebiad. **Argymhelliad** – cywiro'r fersiwn Saesneg o'r Cynllun i ddweud "Habitat Regulation Assessment" er mwyn sicrhau cywirdeb. **Newid Bychan: NB1** Er mwyn sicrhau cywirdeb.
873	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom	6.20	Gwrthwynebu	Nodwn y testun cefnogol i 6.20 ac rydym yn cefnogi llunio'r ffiniau datblygu yn dynn o	**Derbyn** - Cytunir y byddai cynnwys geiriad sy'n nodi bod sawl math o 'bentrefi' wedi cael eu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Brooks) [3036]			amgylch ymyl gwirioneddol yr aneddleoedd. Mae ein gwrthwynebiad yn gofyn am addasu a darparu eglurder a chysondeb yn y cynllun. Rydym yn bryderus fod y diffiniad o ffiniau datblygu yn cyfeirio at "y Ganolfan Is-ranbarthol, Canolfan Gwasanaeth Trefol, Canolfannau Gwasanaeth Lleol a phentrefi". Nodwn nad oes categori a elwir yn bentrefi ym mholisïau ffurfiol y datganiad ysgrifenedig, ond mae categorïau a elwir yn "bentrefi lleol" a "phentrefi arfordirol/gwledig". Byddai'r testun yn well pe bai'n rhoi egluro bod y ffiniau datblygu yn berthnasol i bob un o'r pentrefi hyn.	hadnabod yn y Cynllun yn gwella eglurder a sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun. **Argymhelliad** Cywiro ail frawddeg ym mharagraff 6.20 i gyfeirio at bentrefi lleol, pentrefi gwledig a phentrefi arfordirol. **Newid Bychan NB1** Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.
909	Tom Brooks [3034]	6.20	Gwrthwynebu	Rwy'n cefnogi llunio'r ffiniau datblygu yn dynn o amgylch ymyl gwirioneddol yr aneddleoedd. Mae'r gwrthwynebiad hwn yn gofyn am addasu a darparu eglurder a chysondeb yn y cynllun. Rwyf yn bryderus fod y diffiniad o ffiniau datblygu yn cyfeirio at "y Ganolfan Is-ranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol, Canolfannau Gwasanaeth Lleol a phentrefi". Nodwn nad oes categori a elwir yn bentrefi ym mholisïau ffurfiol y datganiad ysgrifenedig, ond mae categorïau a elwir yn "bentrefi lleol" a "phentrefi arfordirol/gwledig". Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, byddai'r testun yn well pe bai'n egluro bod y ffiniau datblygu yn berthnasol i bob un o'r pentrefi hyn. Ymofyn am gysondeb mewn diffiniadau mewn	**Derbyn** - Cytunir y byddai cynnwys geiriad sy'n nodi bod sawl math o 'bentrefi' wedi cael eu hadnabod yn y Cynllun yn gwella eglurder a sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun. **Argymhelliad** Cywiro ail frawddeg ym mharagraff 6.20 i gyfeirio at bentrefi lleol, pentrefi gwledig a phentrefi arfordirol. **Newid Bychan NB1** Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				perthynas â phentrefi. Nid ydwyf yn ystyried y 10 prawf cydnabyddedig yn brofion cadernid cynhwysfawr. Gall anghysondebau mewn terminoleg creu ansicrwydd a bod hynny yn brawf cadernid cyfartal.	
1434 1455	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261] Cyng/Counc Gareth Thomas [402]	6.24	Gwrthwynebu	Nid yw'r strategaethau a'r bwriadau arfaethedig wedi'u seilio ar sail tystiolaeth gredadwy yn unol â Phrawf Cadernid CE2. Mae yma anghysondebau a chroesddweud ac anallu i sylweddoli arwyddocâd ystadegau. Mae yna ddatganiadau yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol am Benrhyndeudraeth ar gyfeirion yn llwyr. Hefyd, lle y cyfeirir at y ganran o boblogaeth Penrhyndeudraeth sy'n medru'r Gymraeg, mae'r trydydd pwynt bwled yn nodi bod 74.8% o'r boblogaeth yn ei medru, sydd yn 4.8% yn uwch na'r trothwy, ond yn yr adran 'Casgliadau' nodir mai 76.5% a 6.5 % ydyw'r canrannau. Pa un sy'n gywir?	**Derbyn yn rhannol** - Mae'r sail dystiolaeth a welir mewn cyfres o Bapurau Testun, Papurau Cefndir yn ogystal â dogfennau a gyhoeddwyd gan eraill wedi goleuo'r Cynllun. Mae'r gofynion a gafodd eu hadnabod ydynt yn cael eu hadlewyrchu ym mholisïau a dynodiadau'r Cynllun Adnau. Credir felly bod tystiolaeth rymus wedi cael ei ddefnyddio i oleuo strwythur a chynnwys y Cynllun a, lle mae'n briodol i wneud hynny, mae'r Cynllun yn cyfeirio at y dogfennau cefndir perthnasol. Cytunir bod angen cywiro'r rhan berthnasol o'r adroddiad am yr Asesiad Effaith Ieithyddol er mwyn sicrhau cysondeb. Dylid cyfeirio at yr adroddiad diwygiedig. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Cytunir i gywiro'r rhan berthnasol o'r adroddiad am yr Asesiad Effaith Ieithyddol, sy'n cael ei gyhoeddi ar wahân i'r Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
1429	Cyngor Tref Penrhyddeudr-aeth (Mr Glyn Roberts) [1261]	6.25	Gwrthwynebu	Mae diwylliant y maes cynllunio yn mynnu bod rhywogaethau o greaduriaid ac o blanhigion sydd wedi bod o dan warchae a rhai mathau o adeialadau i'w trin gyda gofal a pharch rhag eu niweidio ymhellach gan gynlluniau adeiladu a pheirianegol ac ati. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, rhwystrir y drefn gynllunio rhag rhoi yr un ystyriaeth a pharch i'r Gymraeg. Er ei bod hithau dan warchae trwm ac ar encil, gorfodir hi i fod y tu allan i'r diwylliant cynllunio. Dylid ei chynnwys o fewn y diwylliant cynllunio a'i hamddiffyn trwy naws statudol. Gyda hynny mewn golwg, adeiladu tai yn ol anghenion ein cymunedau yn unig ac nid yn ol rhagamcanion y system.	**Nodi'r sylw** - Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol rhoddwyd ystyriaeth fanwl trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun i anghenion a buddiannau'r Gymraeg er mwyn gallu sicrhau bydd y Cynllun yn cyfrannu at ei lles. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd o'r Cynllun wedi cynnwys yr angen i hyrwyddo datblygiad sy'n cynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg o fewn y fframwaith gynaliadwyedd. Mae gofynion adran 11 ac 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) wedi arwain at ychwanegiad sy'n rhoi statws statudol i'r Gymraeg. Mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Cafodd ei ddatblygu ar ôl ystyried yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Dylid cyfeirio at yr ystod o bolisïau strategol a manwl sy'n mynd i gynorthwyo'r Cynllun i gyfrannu at les y Gymraeg. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1436	Cyng./Counc Gareth Thomas)[402]	6.25	Gwrthwynebu	Mae yna deimlad bod yr iaith Gymraeg dan warchae trwm ac yn cael ei bygwth, ac mae yna deimlad nad ydi'r broses a'r diwylliant cynllunio yn ei hystyried yn bwysig. Gyda hyn mewn golwg, fe ddylai adeiladu tai ddim ond cyfarch anghenion ein cymunedau lleol ac nid y system rhagolygon, sydd yn groes i hyn.	**Nodi'r sylw** - Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol rhoddwyd ystyriaeth fanwl trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun i anghenion a buddiannau'r Gymraeg er mwyn gallu sicrhau bydd y Cynllun yn cyfrannu at ei lles. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd o'r Cynllun wedi cynnwys yr angen i hyrwyddo datblygiad sy'n cynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg o fewn y fframwaith gynaliadwyedd. Mae gofynion adran 11 ac 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) wedi arwain at ychwanegiad sy'n rhoi statws statudol i'r Gymraeg. Mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Cafodd ei ddatblygu ar ôl ystyried yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Dylid cyfeirio at yr ystod o bolisïau strategol a manwl sy'n mynd i gynorthwyo'r Cynllun i gyfrannu at les y Gymraeg.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1113	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	6.26	Gwrthwynebu	Nid oes digon o gefnogaeth i Brosiect Wylfa Newydd yn y Cynllun. Dylai'r paragraffau hyn gynnwys cefnogaeth i Brosiect Wylfa Newydd, fel y datblygiad sy'n gyrru fwyaf ar y trawsnewid economaidd mae awydd amdano.	**Derbyn y sylw** – mae'r Cynllun Adnau yn cyfeirio at bwysigrwydd Prosiect Wylfa Newydd i Ynys Mon a'r ardal ehangach sawl gwaith, gan gynnwys y paragraff yma. Er hynny, cytunir y byddai ychwanegu geiriad i'r paragraff yn unol ag awgrymiad y gwrthwynebydd yn atgyfnerthu hynny. **Argymhelliad** Diwygio'r paragraff yn unol ag awgrymiad y gwrthwynebydd. **Newid â ffocws NF11, NF12** I sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun
1114	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	6.28	Gwrthwynebu	'Does dim digon o gefnogaeth i Brosiect Wylfa Newydd yn y Cynllun. Dylai'r paragraffau hyn gynnwys cefnogaeth i Brosiect Wylfa Newydd, fel y datblygiad sy'n gyrru fwyaf ar gyfer y trawsnewid economaidd mae awydd amdano. Awgrymir y dylid cyfeirio at hyrwyddwyr prosiectau yn y bedwaredd frawddeg.	**Derbyn** – Er nad oedd bwriad i'r frawddeg gynnwys rhestr lawn o bobl fydd y Cynghorau yn cydweithio â hwy, cytunnir y byddai ychwanegu cyfeiriad at 'hyrwyddwyr prosiectau' yn rhoi darlun llawnach. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Ychwanegu 'hyrwyddwyr prosiectau' at y rhestr o bobl fydd y Cyngor yn cydweithio er mwyn gwella eglurder. **Newid a Ffocws NF12**
203	John Brinley Jones [2087]	6.31	Gwrthwynebu	Mae hi hefyd yn hanfodol fod perchenogion busnes sy'n creu cyflogaeth a chyfoeth yn yr ardal yn cael eu hannog i symud i mewn i'r ardal neu os oes angen cartref arnynt yn un o'r pentrefi hyn a bod ganddynt ddarn o dir, ni ddylent orfod codi anheddau maint fforddiadwy caeth iawn gan y byddai o bosib angen cyfleusterau ychwanegol arnynt yn eu cartrefi, megis gofod swyddfa neu fannau lle gallent weithio o'r cartref. I ystyried bob cais cynllunio ar eu rhinweddau yn hytrach na chael polisi cyffredinol sy'n amlwg methu cwrdd â'r holl anghenion.	**Dim yn derbyn** – mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
214	Ffedarasiwn Adeiladwyr	6.40	Gwrthwynebu	Nid ystyrir ei bod yn glir pam y dewiswyd y ffigwr tai gan nad yw'n ffitio i mewn gyda'r un	**Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]			o'r senarios a brofwyd (pwynt a wnaed yn nogfennau'r Cyngor ei hun). At hyn, nid yw'n ymddangos fod y ffigwr yn cynnwys lwfans cyfradd gwacter o 4% sy'n ofynnol i'r farchnad dai weithredu'n arferol. Mae ffigwr Gwynedd hefyd yn is na'r ffigwr a ragwelwyd sy'n mynd yn groes i gyngor Carl Sargeant AC sy'n cynghori mai'r pwynt cychwyn y dylai'r rhain fod. Angen eglurhad pellach ar yr opsiwn dewisol. Cynyddu'r angen tai i 7471 i adlewyrchu'r 4% graddfa'r unedau gwag. Angen egluro pam fod y ffigwr tai yng Ngwynedd llai na'r ffigwr rhagamcaniad tai 2011 .	ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro’r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a’r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy’n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy’n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae’n rhoi ffigwr sy’n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a’i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Mae’r broses o drosi cyfanswm nifer aelwydydd i gyfanswm nifer unedau tai wedi rhoi sylw i’r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					raddfa unedau gwag, sy'n uwch na 4%. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
117	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	6.41	Gwrthwynebu	Ni cheir unrhyw gyfeiriad at lwfans am eiddo gwag. Mewn Cynlluniau Datblygu Lleol diweddar, derbyniwyd yn gyffredinol y dylid gwneud lwfans o 4% ar gyfer hyn oherwydd bod angen lefel penodol o eiddo gwag ar y farchnad i weithredu. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng eiddo gwag tymor hir y mae modd i bolisi Cyngor roi sylw iddynt ac eiddo sy'n wag am gyfnod byr.	**Derbyn yn rhannol** - Mae Cyfrifiad 2011 yn rhoi ffigwr 12.2% i Wynedd a 10.5% i Ynys Môn o ran bodolaeth tai gwag. Mae'r lefel yma wedi cael ei gymhwyso ar gyfer y senarios ystadegol i gyd ac wedi ei gofnodi yn y Papur Cefndir am ragolygon poblogaeth, aelwydydd a thai. Cytunnir y byddai ychwanegu cyfeiriad at y wybodaeth yma yn y Cynllun Adnau ac ym Mhapur Testun 4A cynorthwyo i wella dealltwriaeth o'r cyfanswm unedau tai. **Argymhelliad** Diwygio paragraff 6.40 i gyfeirio at lwfans tai gwag ac ychwanegu at Bapur Testun 4A yn unol â hynny. **Newid â ffocws: NF13**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Er mwyn sicrhau eglurder
293	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	6.42	Gwrthwynebu	Cred y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi y dylai mwy o'r gofynion tai ddod o Ganolfannau Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaethau Trefol gan y byddai hyn yn gwneud y cynllun yn fwy cynaliadwy ac ymateb i'r galw yn y farchnad. Cynyddu'r niferoedd o dai yn y ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Gellid gwneud hyn drwy ddynodi fwy o safleoedd a fydd hefyd yn rhoi'r niferoedd ychwanegol a awgrymir yn ein sylwadau ar ddarnau arall y cynllun	**Dim yn derbyn** - Mae'n bwysig bod y strategaeth ofodol yn cydnabod bod yr ardal yn un gwledig iawn ac yn un sy'n cynnwys rhwydwaith o wahanol aneddleoedd gwasgaredig. Cafodd y strategaeth ddosbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisïau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
118	Ffederasiwn	6.43	Gwrthwynebu	Codir pryder ynghylch y ddibyniaeth drom ar	**Dim yn derbyn** – Mae'r Cynghorau o'r farn bod y

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]			safleoedd sydd eisoes wedi cael caniatâd. Mae nifer o'r rhain wedi cael caniatâd ers tro ac efallai bod rhesymau eraill ar wahân i'r farchnad pam nad ydynt wedi cyflawni hyd yn hyn. A gynhaliwyd asesiad o'r tebygolrwydd y bydd y rhain yn cyflawni? Caiff hyn ei gefnogi gan Gydastudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai i bob ardal eleni a nodwyd ganddo nifer o safleoedd oedd wedi bod i mewn er dros bum mlynedd a llawer mwy oedd wedi dangos eu bod wedi dechrau ar y safle er mwyn cadw'r caniatâd yn fyw neu adnewyddu'r caniatâd.	safleoedd a ddynodwyd yn gyson a strategaeth y Cynllun ac y gallant ildio tai o fewn oes y Cynllun er mwyn cwrdd â'r galw hyd at 2026. Mae gwybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn yr Astudiaeth Tir ar gyfer Tai wedi goleuo'r Cynllun. Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf yn un o'r partneriaid sydd wedi cytuno i'r dadansoddiad a welir yn yr adroddiadau am yr Astudiaethau blynyddol. Nid yw pob safle sydd gan ganiatad cynllunio wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun oherwydd tystiolaeth sy'n awgrymu na fyddant yn cael eu datblygu o fewn oes y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
896	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	6.43	Gwrthwynebu	Mae paragraff 6.43 yn cadarnhau y byddai oddeutu 50% o'r gofyniad tai yn cael ei ddiwallu drwy ymrwymiadau a chaniatâd cynllunio sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y caniatâd a'r ymrwymiadau hyn yn cael eu gwireddu. Mae nifer eang o resymau pam nad yw caniatâd cynllunio ac ymrwymiadau presennol yn cael eu gwireddu, gan gynnwys tir sydd ym mherchnogaeth trydydd parti, mynediad, cyfyngiadau'r safle, gwerth y tir, diffyg marchnad, cyfyngiadau	**Dim yn derbyn** - Mae'r Cynghorau o'r farn bod y safleoedd a ddynodwyd yn gyson a strategaeth y cynllun ac y gallant ildio tai o fewn oes y Cynllun er mwyn cwrdd â'r galw hyd at 2026. Mae gwybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn yr Astudiaeth Tir ar gyfer Tai wedi goleuo'r Cynllun. Nid yw pob safle sydd gan ganiatâd cynllunio wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun oherwydd tystiolaeth sy'n awgrymu na fyddant yn cael eu datblygu o fewn oes y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				cytundebau 106 etc. Dylid darparu gwybodaeth am bob safle a'u hasesu, yn hytrach na chynnwys yr holl safleoedd fel ymrwymiad heb eu cwestiynu. Nid yw'n eglur pa lefel o'r tai sydd wedi'u hymrwymo a'u cynnig fydd ar safleoedd tir glas a safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen.	Mae'r Cynllun yn dosbarthu datblygiad yn unol â'r goeden Aneddleoedd ac yn unol â gallu'r aneddleoedd i ymdopi gyda thwf. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
204	John Brinley Jones [2087]	6.45	Gwrthwynebu	Mae'n hanfodol fod perchenogion busnes sy'n creu cyflogaeth a chyfoeth yn yr ardal yn cael eu hannog i symud i mewn i'r ardal neu os oes angen cartref arnynt yn yr ardal a bod ganddynt ddarn o dir, ni ddylent orfod codi anheddau maint fforddiadwy caeth iawn gan y byddai o bosib angen cyfleusterau ychwanegol arnynt yn eu cartrefi, megis gofod swyddfa neu fannau lle gallent weithio o'r cartref. I gysidro pob cais cynllunio ar ei deilyngdod yn hytrach na chael yr un polisi sydd wrth reswm dim yn gallu cyrraedd pob gofyniad.	**Dim yn derbyn** – mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

PENNOD 7.1 CYMUNEDAU DIOGEL, IACH, NODEDIG A BYWIOG

Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

PS 1 – Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
763	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	7.1.1	Gwrthwynebu	Mae Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn cytuno y dylid rhoi pwyslais ar gefnogi cymunedau, gan gynnwys yn arbennig rhoi uchafiaeth i bolisïau sy'n cynnal ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Mae YDCW yn bryderus bod y rhan fwyaf o'r polisïau 'cymunedol' eraill a geir yn ymwneud â darparu isadeiledd ffisegol gan gynnwys ffyrdd. Er bod y rhain yn berthnasol nid ydynt yn mynd i'r afael â'r canfyddiad fod tuedd tuag at ganoli mwy ar bolisïau a phenderfyniadau cynllunio yn lleihau'r dylanwad sydd gan gymunedau bychain gwledig dros eu hamodau byw lleol a datblygiad eu cymunedau, a bod ymgynghoriadau lleol gwirioneddol yn wan a bod cynrychiolaeth leol trwy gynghorau cymuned yn aneffeithiol. Mae angen rhoi mwy o sylw i fecanweithiau i gynyddu dylanwad cymunedau bychain gwledig dros eu hamodau	**Dim yn derbyn** – Cafodd y Cynllun Adnau ei baratoi yn dilyn sawl cyfnod cyfranogiad ac ymgynghoriad cyhoeddus, a roddodd gyfle i gymunedau fynegi barn. Mae gorfodi bod cynghorau cymuned i gyfrannu i ymgynghoriadau cyhoeddus yn fater du hwnt i gylch gorchwyl proses paratoi'r Cynllun. Mae'r Cynllun yn darparu cyfres o bolisïau a chynigion a fydd yn sail i asesu amrediad o ddatblygiadau yn ystod oes y Cynllun. Credir eu bod yn hyrwyddo datblygiad a fydd er lles cymunedau gwledig. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				byw lleol a datblygiad eu cymunedau.	**Dim newid**
72	Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710]	PS1	Cefnogi	Cymeradwyir bod PS1 yn nodi bod modd gwrthod cynigion ar sail eu potensial i achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Dylai canlyniadau Cyfrifiad 2011 parthed newidiadau mewn proffil iaith cymuned gael eu hystyried yn dystiolaeth ar gyfer dod i farn ar botensial cynigion i newid cymeriad ieithyddol. Dylai effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith fod yn ystyriaeth cynllunio gadarn yng Ngwynedd, a thu hwnt.	**Nodi'r sylw cefnogol** - Bydd proffiliau aneddleoedd a fydd yn cael eu cyhoeddi fel Papur Testun ychwanegol ar gyfer y cam cyflwyno yn cofnodi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Gallir diweddaru'r wybodaeth ar adegau priodol pan ddaw gwybodaeth fwy cyfredol am yr aneddleoedd i law. **Argymhelliad** **Dim newid**
73	Adran Cynllunio a Thai, Cyngor Sir Ddinbych (Angela Loftus) [2719]	PS1	Cefnogi	Cefnogi cynnwys polisi yn y Cynllun	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
125	Cyngor Cymuned	PS1	Cefnogi	Dywed 2 "Gwrthod cynigion fyddai oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed	**Nodi'r sylw cefnogol**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]			sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned' a 4 "Annog defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd." Rydym yn llwyr gefnogi'r polisïau hyn.	**Argymhelliad** **Dim newid**
127	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	PS1	Gwrthwynebu	Ystyrir bod pwynt 2 yn rhy feichus ac mae angen rhagor o eglurhad yn ei gylch. Byddai angen profi ac asesu'r cyfryw asesiad a châi hyn ei wneud fel arfer trwy ryw fath o 'asesiad ar effaith'. Yn hytrach, dylai'r polisi osod trothwyon uwchlaw'r hyn y mae angen asesiad ar eu cyfer. Mae angen meintioli'r geiriau 'maint a graddfa'. Wrth osod trothwy ar gyfer datblygu tai rhaid cymryd gofal i beidio â'i osod yn rhy isel gan y bydd hyn yn cadw adeiladwyr bychain draw oherwydd y gwaith ychwanegol a'r gost sy'n gysylltiedig â'r datblygiad newydd. Dileu pwynt 2 neu ail-eirio er mwyn ychwanegu eglurder fel yr uchod.	**Derbyn** - Mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisïau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglŷn â beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus. **Argymhelliad** Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Newid â Ffocws NF 15, NF19, NF21 Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.
279	Mr Aled Evans [2646]	PS1	Gwrthwynebu	Yr iaith Gymraeg Cyfyngu ar ddatblygiadau mawr yn gyffredinol.	**Dim yn derbyn** – Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
339	Miss Ffion Jones	PS1	Gwrthwynebu	Dyweder bydd y Cyngor yn gwrthod cynigion a	**Dim yn derbyn** - Mae strategaeth y Cynllun yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[2856]			fydd oherwydd eu graddfa, maint neu leoliad yn achosi difrod arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned. Mae'n fwriad adeiladu stadau mawr o dai yn ein pentrefi a threfi lleol. Heb amheuaeth fe fydd hyn yn newid cymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymunedau. Heb astudiaeth addas, pwy a ŵyr pwy fydd yn prynu'r tai newydd - ac yn fwy pwysig pwy fydd yn gallu fforddio nhw? Mae cyflogau pobl ifanc lleol yn isel iawn ac mae llawer yn brwydro i gael morgais. Bydd llenwi'r stadau newydd yma efo mewnfudwyr di-gymraeg yn siŵr o gael ardrawiad andwyol ar ein cymunedau ac iaith.	anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
392	Dr Richard Roberts [2938]	PS1	Gwrthwynebu	Ni ellir cysoni 'SO1 Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg' a tharged tai o 7902 (sy'n seiliedig ar fewnfudo) yn wyneb rhagolygon twf poblogaeth naturiol statig ac yng ngoleuni canlyniadau iaith Cyfrifiad 2011. Gellid nodi'n onest effeithiau niweidiol tebygol y CDLl ar y Gymraeg, gan ymhelaethu ar	**Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				dderbynioldeb yr effeithiau niweidiol oherwydd y flaenoriaeth a roir i ryw amcan strategol arall. Byddai hynny'n rhagdybio dadansoddiad mwy soffistigedig o flaenoriaethau mewn sefyllfa real (awgrymir yn naïf yn fersiwn adnau'r CDLl fod yr holl amcanion yn gydnaws a'i gilydd). Dewis arall fyddai ailystyried nifer y tai yr argymhellir eu codi yng nghyfnod y cynllun.	rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
793	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	PS1	Cefnogi	Cefnogir Polisi PS1.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
794	Tom Brooks [3034]	PS1	Cefnogi	Rwy'n cefnogi PS1 ar yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig yn enwedig pan noda "Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Gellir sicrhau hyn trwy: 1. Ddefnyddio mecanweithiau priodol i sicrhau y darperir mesurau addas sy'n lleddfu effeithiau negyddol neu i sicrhau y gwneir cyfraniad atynt"	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
797	Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541]	PS1	Gwrthwynebu	Mae'r Cynllun yn cyfeirio fod yn rhaid i bopeth fod yn ddwyieithog, oni ddylai hyn fod "Y Gymraeg" neu ddwyieithog. Rhaid cofio ein bod yng nghadarnle'r iaith Gymraeg ym Mhen Llyn.	**Dim yn derbyn** - Noder y sylw. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, gyda dwy iaith swyddogol. Mae'r Polisi yn cydnabod y safonau a ddisgwylir i gyrff cyhoeddus gyrraedd, ac yn annog busnesau masnachol preifat i roi run statws i'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Gymraeg are u arwyddion. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
800	Jina Gwyrfai [3092]	PS1	Gwrthwynebu	Hyrwyddo'r iaith yn egwyddor sylfaenol? Ac yn yr un gwynt mae yn son am 'liniaru effeithiau negyddol'. Nid yw'r iaith a ddefnyddir yn ddigon cryf - annog' arwyddion dwyieithog, 'annog' defnydd o lefydd Cymraeg. Nid yw 'annog' yn hyrwyddo cadarn. Y casgliad yw nad yw'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o'r Cynllun Adnau. Does dim tystiolaeth gadarn yn dangos eich gwir gonsyrn dros y Gymraeg Rheidrwydd defnyddio'r iaith Gymraeg gyda'r Cynghorau'n cydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i orfodi enwau ac arwyddion, asesiad effaith ar yr iaith yn orfodol ar bob un datblygiad, pob un datblygiad i fod yn nwylo pobl leol. Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn orfodol.	**Derbyn yn rhannol** - Mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisïau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglŷn â beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus. Cytunir byddai cryfhau'r eirfa yn rhoi mwy o

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Cynghorau yn cydweithio gyda'r Comisiynydd Iaith i ymofyn am enwau/arwyddion Cymraeg; Asesiad Ardrawiad Iaith yn ofynnol ar gyfer pob datblygiad. Dylai pob dyblygiad fod ar gyfer pobl leol h.y. fforddiadwy.	sicrwydd ynglŷn â disgwyliadau'r Cynghorau o ran defnyddio arwyddion dwyieithog. **Argymhelliad** - diwygio'r maen prawf i ddweud 'sicrhau' yn lle 'annog'. **Newid â Ffocws NF 15, NF16, NF19, NF21** Er mwyn gwella eglurder y Cynllun.
874	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	PS1	Cefnogi	Mae SO1 yn ceisio "diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a hyrwyddo ei defnydd fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol". Rydym yn cefnogi PS1 yn enwedig lle mae'n cofnodi "Bydd y Cynghorau yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Caiff hyn ei gyflawni trwy: ddefnyddio mecanweithiau priodol i sicrhau y darperir mesurau addas sy'n lleddfu effeithiau negyddol neu i sicrhau y gwneir cyfraniad atynt."	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
885	Mr John Tripp [252]	PS1	Gwrthwynebu	Cofio'r angen i warchod yr iaith. Dim digon yn cael ei wneud. Cyswllt i Agenda 21 Lleol.	**Dim yn derbyn** - Yn unol â'r Cynllun Integredig Sengl mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisiau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
937	Cyng/Counc Alwyn Gruffydd [381]	PS1	Gwrthwynebu	Mae'r Polisi Strategol i'w groesawu ond mae angen edrych ar y Cynllun yn fwy cydlynol i sicrhau y gweithredir y polisi hwn i sicrhau nad oes elfennau eraill o'r cynllun, fel y polisi ar y nifer o dai yn milwrio yn ei erbyn. Oherwydd natur unigryw'r Sir mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth bwysig yn y drefn gynllunio. Credir bod angen ymestyn y ffiniau er mwyn amddiffyn y Gymraeg a'n cymunedau.	**Derbyn yn rhannol** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglŷn â beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Argymhelliad Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol. **Newid â Ffocws NF15, NF16, NF19, NF21** Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.
955 958	Menter Môn (Helen Thomas) [1615] Hunaniaith (Debbie A. Williams Jones) [3037]	PS1	Gwrthwynebu	Mae'r Polisi Strategol i'w groesawu ond mae angen edrych ar y Cynllun yn fwy cydlynus i sicrhau y gweithredir y polisi hwn i sicrhau nad oes elfennau eraill o'r cynllun, fel y polisi ar y nifer o dai yn milwrio yn ei erbyn. Oherwydd natur unigryw'r Sir mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth bwysig yn y drefn gynllunio. Credir bod angen ymestyn y ffiniau er mwyn amddiffyn y Gymraeg a bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg yng nghymunedau Môn a Gwynedd. Mae angen i'r Cynllun Adnau adlewyrchu'r ffaith fod y Gymraeg yn thema lorweddol ar draws yr holl Gynllun. Mae angen eglurder o'r modd y bwriedir diogelu'r iaith	**Derbyn yn rhannol** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglyn a beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Gymraeg.	CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus. Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam. Er hynny, credir bod sail i wneud rhai newidiadau â ffocws i amlygu'n well sut fydd y Cynllun yn hyrwyddo datblygiad, a fydd ar y cyd a mesurau eraill, er lles yr iaith Gymraeg. Noder hefyd cynnwys dogfennau cefndir sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg. **Argymhelliad** Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun. Diwygio geiriad i amlygu'n well sut bwriedir diogelu'r iaith Gymraeg. **Newid â Ffocws NF15, NF16, NF19, NF21** Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					y Cynllun
1115	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	PS1	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn credu ei bod, yn absenoldeb y Canllawiau Cynllunio Atodol (sydd i ddod, fel y dywedwyd ym mharagraff 7.1.4), yn aneglur sut bydd y prawf polisi hwn yn cael ei ddefnyddio. Fel mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae perygl i'r elfen hon o'r Polisi Strategol ddod yn rhwystr i dwf economaidd a dyheadau eraill yn y Cynllun. Barn Horizon ydi bod angen newid y paragraff i gynnwys mwy o hyblygrwydd ac egluro, ymysg pethau eraill, beth ydi ystyr "andwyo sylweddol", y ffactorau perthnasol wrth asesu andwyo posibl, a sut bydd amcanion polisi eraill yn y Cynllun yn cael eu pwyso yn erbyn yr amcan polisi hwn.	**Derbyn** - Mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisiau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglyn a beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiadau'r Archwiliad Cyhoeddus. **Argymhelliad** Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol. **Newid â Ffocws NF15, NF16, NF19, NF21**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.
1432	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261]	PS1	Gwrthwynebu	Mae Cyngor Tref Penrhyndeudraeth o'r farn nad yw'r ystyriaeth a roir yn y Cynllun hwn i'r strategaeth gymunedol (Prawf Cadernid C4) yn llesol i'r gymuned hon, hynny yw:- os na fydd y tai a gaiff eu codi yn cael eu prynu gan drigolion y ganolfan, y mae pob siawns y bydd yr adeiladwyr yn eu gwerthu i bwy bynnag â'i myn e.e. mewnfudwyr, a byddai hynny'n golygu gostyngiad arall yng nghanran y siaradwyr Cymraeg.	**Dim yn derbyn** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1438	Cyng/Counc Gareth Thomas	PS1	Gwrthwynebu	Rwyf o'r farn nad yw'r ystyriaeth a roir yn y Cynllun hwn i'r strategaeth gymunedol (Prawf Cadernid C4) yn llesol i'r gymuned hon, hynny	**Dim yn derbyn** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[402]			yw:- os na fydd y tai a gaiff eu codi yn cael eu prynu gan drigolion y ganolfan, y mae pob siawns y bydd yr adeiladwyr yn eu gwerthu i bwy bynnag a'i myn e.e. mewnfudwyr, a byddai hynny'n golygu gostyngiad arall yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Felly ni ddylid adeiladu tai ac eithrio ar gyfer anghenion lleol sef cymuned Penrhyndeudraeth.	Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
107	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	7.1.4	Cefnogi	Argymhelliad LLC i ystyried effaith ar y Gymraeg ym Mangor. Darn o waith wedi ei gwblhau yn edrych ar wardiau ar draws Gwynedd, felly yn edrych ar Hirael ond nid ar Fangor fel endid. Angen ymchwil manwl ar yr iaith a chynllunio ym Mangor er mwyn darparu gwybodaeth i'r broses gynllunio, a'r effaith ar y Gymraeg	**Dim yn derbyn** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dylid rhoi sylw i bolisïau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
120	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	7.1.4	Gwrthwynebu	Dywedir yma "Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo drwy wahanol bolisïau yn y Cynllun." Pa bolisïau yw'r rhain? Pam na'u rhestrwyd? Dywedir ymhellach hefyd "Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach am y mater." Credwn y dylai'r canllawiau hyn fod yn rhan weithredol o'r Cynllun gwreiddiol.	**Derbyn yn rhannol** - Dylid rhoi sylw i Dabl 7 yn rhan 5 y Cynllun, sydd yn darparu rhestr o bolisïau a fydd yn cefnogi'r amcanion unigol. Er hynny, cytunir y byddai newid i'r rhan yma o'r Cynllun yn gwella eglurder. Nid yw CCA yn rhan o gynlluniau datblygu lleol. **Argymhelliad** Diwygio'r paragraffau cyn y polisi i roi trosolwg o bolisïau eraill perthnasol. **Newid â ffocws NF14**

Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwr

Cyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1433 1454	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261] Cyng/Counc Gareth Thomas [402]	7.1.5	Gwrthwynebu	Mae rhwydwaith / isadeiledd presennol Penrhyndeudraeth a Minffordd e.e. ffyrdd, parcio,gwasanaethau meddygon teulu dan bwysau. Am ● nad oes dir cyfagos i ymestyn yr ysgol bresennol; ● y byddai cynnydd yn nifer y cleifion yn cynyddu'r pwysau, sydd eisoes yn sylweddol, ar feddygon teulu; ● am y bydd y cynnydd sylweddol yn y drafnidiaeth drwy Benrhyndeudraeth pan gwblheir y Bont Briwet newydd yn sicr o arafu symudiad cerbydau ar hyd y briffordd drwy'r pentref, ni ddylid disgwyl iddynt allu ymdopi â 152 o dai ychwanegol. Bydd ymdopi â 59 yn hen ddigon. Y mae'r Rheoliadau sy'n caniatáu i awdurdodau godi ar ddatblygwyr i '(d)defnyddio arian (ar gyfer) amrediad eang o isadeiledd yn amherthnasol yng nghyswllt yr uchod.	**Dim yn derbyn** Mae Polisi Strategol PS2 yn sicrhau y bydd disgwyl i gynigion sicrhau bod darpariaeth ddigonol o isadeiledd er mwyn bod yn dderbyniol. Hefyd, mae Polisi ISA1 yn sicrhau y bydd y datblygwr yn cyflwyno ceisiadau am gyfraniadau ariannol i sicrhau isadeiledd hanfodol oddi ar y safle os nad oes modd sicrhau isadeiledd hanfodol ar y safle. Hefyd, mae Dangosydd D8 ar gyfer Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau y bydd y Cynllun yn monitro unrhyw faterion sy'n codi ar safleoedd sydd wedi'u dynodi yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau ac yn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1118 1119 1120	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	7.1.7 & 7.1.8 & 7.1.9	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn credu y dylid gwella eglurdeb y paragraffau hyn. Dylid dangos yn llawn sut bydd y Cynghorau yn rheoli cyfyngiadau cronni wrth symud ymlaen ar ôl 6 Ebrill 2015 gan fod hyn yn hollbwysig i ddatblygwyr, yn cynnwys Horizon, fedru ei ddeall. Mae Horizon yn gwneud sylwadau pellach ar y termau efo arian Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r defnydd o'r arian hwnnw, cytundebau adran 106 a buddion cymunedol yn gysylltiedig â Pholisïau PS2 ac ISA1.	**Derbyn** Cytunir y dylid diwygio'r paragraffau hyn yn unol â'r awgrym, er mwyn i'r Cynllun fod yn fwy clir a chywir. **Argymhelliad** Diwygio paragraffau 7.1.8-7.1.10 i nodi'r cyfyngiadau ar gyfuno o ran CIL. **Newid â Ffocws NF17**
416	Rheilffordd Ucheldir Cymru (Mr Graham Farr) [254]	7.1.9	Gwrthwynebu	Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i effaith andwyol bosib Ardoll Seilwaith Cymunedol ar hyfywedd datblygiadau newydd megis yr un y gallai'r Cwmni ei gynnig yn unol â Safleoedd Arfaethedig cyfeirnodau cyflwyniad: SP552 ac SP870 (copïau o ffurflenni ynghlwm).	**Nodi'r sylw** Mesur gwirfoddol yw cyflwyno trefn CIL a dim ond os bydd tystiolaeth gadarn i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y bydd yn cael ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau'n cynnal yr ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 - 2017. Yn y cyfamser, ac os na fydd y farchnad yn hyfyw, bydd y Cynghorau'n parhau i geisio cyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau Adran 106 os ydynt yn bodloni'r profion statudol sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau CIL.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Argymhelliad Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

PS2 – Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
144	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	Nid oes diffiniad o ba ddatblygiad fydd â pha rwymedigaethau cynllunio. Wrth ystyried nodweddion penodol echdyniad mwynau, ni ddylai datblygu mwynau fod yn destun CIL.	**Dim yn derbyn** Pan fydd yr isadeiledd angenrheidiol i alluogi cynllun i fynd yn ei flaen wedi'i ystyried(megis mynediad a gwasanaethau), bydd y blaenoriaethau a roddir i ddarparu mathau gwahanol o isadeiledd a buddion cymdeithasol yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth fanylach ar drothwyon a fformwlâu a fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy'n berthnasol i wahanol fathau o ddatblygiadau.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Mae cyflwyno system CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol, ASC) yn fesur gwirfoddol, a dim ond pan fo tystiolaeth gref i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y caiff ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 – 2017. Yn y cyfamser, ac os bydd y farchnad yn parhau'n anhyfyw, bydd y Cynghorau yn parhau i chwilio am gyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau 106 pan fyddant yn cwrdd â'r profion statudol a bennir yn y Rheoliadau ASC. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
119	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	Gwneud i ffwrdd â'r ail frawddeg gan nad oes angen hon yn y polisi a dylai fod yn y testun cefnogi. Wrth gyfeirio at symiau a gyfnewidiwyd, mae angen i hwn hefyd gyfeirio at fabwysiadu gan nad oes modd cael un heb y llall. Mae angen diffinio 'Seilwaith Hanfodol'. Mae angen eglurder rhwng seilwaith megis gwasanaethau a ffyrdd sy'n hanfodol a	**Derbyn** Ystyrir y dylid cynnwys cyfeiriad at daliadau cynnal posibl yn y polisi er mwyn sicrhau eglurder ac i sicrhau bod modd dehongli'r polisi'n rhwydd. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol ar

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				chyfraniadau eraill Datblygwyr fel y'u rhestrir ym mholisi ISA1 y dylid negodi yn eu cylch yn seiliedig ar effaith /hyfywedd y cynllun ac na ddylent fod yn 'ddisgwyliedig'. Dileu'r ail frawddeg. Cynnwys cyfeiriad tuag at fabwysiadu. Diffinio 'isadeiledd angenrheidiol'.	Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth ynghylch â'r lefelau trothwy a'r fformiwlas fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy'n benodol i fathau gwahanol o dddatblygiadau. **Argymhelliad** Diwygio'r Polisi i adlewyrchu'r angen i gyfeirio at y gofyn posib am fathau gwahanol o isadeiledd er mwyn galluogi i gynllun fynd ymlaen yn lle 'isadeiledd hanfodol'. **Newid â Ffocws NF18**
145	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	Nid oes diffiniad o ba ddatblygiad fydd â pha rwymedigaethau cynllunio. O ystyried nodweddion penodol cloddio mwynau, ni ddylai datblygiadau mwynau fod yn destun ASC.	**Dim yn derbyn** Pan fydd yr isadeiledd angenrheidiol i alluogi cynllun i fynd yn ei flaen wedi'i ystyried(megis mynediad a gwasanaethau), bydd y blaenoriaethau a roddir i ddarparu mathau gwahanol o isadeiledd a buddion cymdeithasol yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth ynghylch â'r lefelau trothwy

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					a’r fformiwlas fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy’n benodol i fathau gwahanol o ddatblygiadau. Mae cyflwyno system CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol, ASC) yn fesur gwirfoddol, a dim ond pan fo tystiolaeth gref i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y caiff ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 – 2017. Yn y cyfamser, ac os bydd y farchnad yn parhau'n anhyfyw, bydd y Cynghorau yn parhau i chwilio am gyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau 106 pan fyddant yn cwrdd â'r profion statudol a bennir yn y Rheoliadau ASC. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw’r gwrthwynebydd. **Dim newid**
1088	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	Mae ANC yn dymuno tynnu sylw at fod ansicrwydd a fydd capasiti digonol o adnodd dŵr ar gael yn ystod gweithrediad yr Wylfa Newydd arfaethedig. Gallai'r gofynion i gynyddu capasiti dŵr gael effeithiau ar yr	**Nodi'r sylw** Bydd capasiti’r adnoddau dŵr yn cael ei ystyried fel rhan o Orchymyn Caniatâd Datblygiad ar gyfer prosiect Wylfa

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				amgylchedd. Dylai eich Awdurdod chi fod yn ymwybodol y gallai fod angen i'r newidiadau mewn beth mae'r CDLl yn canolbwyntio arno, neu ei waith yn monitro'r cynllun, fod yn ystyried unrhyw wybodaeth wedi'i diweddaru sy'n dod oddi wrth Horizon o ran y gofynion am gapasiti dŵr.	Newydd. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
1122	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	Nid ydi bwriad y Cynghorau'n eglur o ran ehangder y polisïau hyn. Roedd y newidiadau'n dangos yn eglur bod rhaid i rwymedigaethau adran 106 y gofynnwyd amdanynt gael eu gosod yn unol efo'r profion rheoleiddio h.y. rhaid i gyfraniadau ateb profion rheoliad 122 y Rheoliadau Ardoll Cymunedol 2010 sef bod: * yn angenrheidiol er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio; * yn ymwneud yn uniongyrchol efo'r datblygiad; a hefyd * yn ymwneud yn deg a rhesymol efo graddfa a math y datblygiad. Dylai'r polisïau hyn gael eu hailystyried i wneud hyn yn eglur.	**Derbyn** Cytunir y bydd y newid sy'n cael ei argymell yn gwneud y polisi'n fwy clir a chywir yn unol â'r rheoliadau. **Argymhelliad** Diwygio'r polisi er mwyn cyfeirio at y gofyniad posibl am daliadau statudol. **Newid â Ffocws NF18**

ISA 1 - Darpariaeth Isadeiledd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
146 147	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735] Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Nid oes diffiniad o ba ddatblygiad fydd â pha rwymedigaethau cynllunio. O ystyried nodweddion penodol cloddio mwynau, ni ddylai datblygiadau mwynau fod yn destun ASC.	**Dim yn derbyn** Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth fanylach ynghylch pa fathau o ddatblygiadau fydd yn dod o dan ba rwymedigaethau cynllunio. Mae cyflwyno system CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol, ASC) yn fesur gwirfoddol, a dim ond pan fo tystiolaeth gref i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y caiff ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 – 2017. Yn y cyfamser, ac os bydd y farchnad yn parhau'n anhyfyw, bydd y Cynghorau yn parhau i chwilio am gyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau 106 pan fyddant yn cwrdd â'r profion statudol a bennir yn y Rheoliadau ASC. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
303	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd	Polisi ISA1	Cefnogi	Rydym yn croesawu cynnwys cadwraeth natur yn rhestr y pwrpasau y gellid ceisio cyfraniadau	**Nodi'r sylw cefnogol**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]			iddynt	**Argymhelliad** **Dim newid**
439	Rheilffordd Ucheldir Cymru (Mr Graham Farr) [254]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith andwyol y gallai unrhyw ofyn yng nghyswllt cyfraniadau datblygwyr ei gael ar hyfywedd datblygiadau newydd y gallai'r Cwmni eu cynnig yn unol â chyflwyniadau Safleoedd Arfaethedig cyfeirnodau: SP552 a SP870 (Copïau o'r ffurflenni ynghlwm). Dileu'r frawddeg "Os yw cynnig...datblygiad gael ei ariannu."	**Derbyn yn Rhannol** Pan fo perygl na fydd datblygiad yn cael ei wireddu o ganlyniad i faint y rhwymedigaethau cynllunio a chostau eraill, efallai y bydd angen astudiaeth hyfywedd. Dylai hyn gynnwys manylion am amgylchiadau penodol y safle a'r datblygiad arfaethedig sydd o dan sylw. Wrth asesu hyfywedd safle penodol mae angen dadansoddiad manylach nag ar lefel y cynllun. Cytunir y dylid egluro hyn yn yr esboniad i'r Polisi. Bydd rhagor o ganllawiau yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio. **Argymhelliad** Diwygio'r eglurhad i'r Polisi er mwyn egluro bydd hyfywdra'n cael ei ystyried mewn cam rheoli datblygu, er mwyn ychwanegu eglurder. **Newid â Ffocws NF20**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
469	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Nid oes cyfeiriad at yr angen i asesu hyfywedd y datblygiad er mwyn rhoi'r cyfraniadau y gofynnwyd amdanynt a hefyd yr angen i benderfynu rhwng gofynion cystadleuol nad oes modd i'r datblygiad eu darparu i gyd. Mae angen nodi'r gwahaniaeth rhwng seilwaith gofynnol megis gwasanaethau a chyfraniadau A106 eraill.	**Derbyn** Pan fydd yr isadeiledd angenrheidiol i alluogi cynllun i fynd yn ei flaen wedi'i ystyried(megis mynediad a gwasanaethau), bydd y blaenoriaethau a roddir i ddarparu mathau gwahanol o isadeiledd a buddion cymdeithasol yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau. Yn ogystal, bydd y flaenoriaeth a roddir i wahanol fathau o isadeiledd yn amrywio yn ôl y maint, y math a'r polisïau penodol sy'n berthnasol i'r datblygiad. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y gofyniad ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio yn ceisio mynd i'r afael â materion allweddol y Cynllun, gyda darparu tai fforddiadwy yn fater o'r pwys mwyaf. Pan fo perygl na fydd datblygiad yn cael ei wireddu o ganlyniad i faint y rhwymedigaethau cynllunio a chostau eraill, efallai y bydd angen astudiaeth hyfywedd. Dylai hyn gynnwys manylion am amgylchiadau penodol y safle a'r datblygiad arfaethedig sydd o dan sylw. Wrth asesu hyfywedd safle penodol mae angen dadansoddiad manylach nag ar lefel y cynllun. Cytunir y dylid egluro hyn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					yn yr esboniad i'r Polisi. Cytunir y dylid egluro hyn yn yr esboniad i'r Polsi **Argymhelliad** Newid yr esboniad i'r Polisi i adlewyrchu'r angen i ystyried hyfywedd a nodi y bydd yr angen i flaenoriaethu yn amrywio o safle i safle, yn amodol ar ystyried y blaenoriaethau corfforaethol. Hefyd, newid y Polisi i wahaniaethau rhwng isadeiledd hanfodol / galluogi, ac isadeiledd angenrheidiol. **Newid â Ffocws NF20**
511	Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Dylid ystyried dehongli, cadwraeth a gwella nodweddion hanesyddol, henebion, adeiladau neu elfennau tirwedd yn y rhestr hon	**Derbyn** Bydd y gofynion isadeiledd yn amrywio mewn gwahanol leoliadau, ac yn dibynnu ar raddfa a natur y datblygiad arfaethedig. Efallai y bydd angen isadeiledd i hwyluso datblygiad, neu i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol. Gall gynnwys elfennau o'r rhestr a gynhwysir fel rhan o'r Polisi. Ni fwriedir i'r rhestr isod fod yn gynhwysfawr, na chyfyngu ar y dewisiadau, ond mae'n awgrymu beth yw amrediad yr isadeiledd a allai fod yn angenrheidiol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Fodd bynnag , byddai cynnwys y nodweddion sy'n cael eu hawgrymu gan y gwrthwynebydd, yn y polisi, yn sicrhau cywirdeb. **Argymhelliad** Ychwanegu pwynt bwled ychwanegol at y polisi. **Newid â Ffocws NF19**
697	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod cyfraniadau ariannol neu isadeiledd yn cael eu darparu gan gynigion datblygu pan fo angen er mwyn eu gwneud yn dderbyniol a galluogi'r datblygiad fynd yn ei flaen. Fodd bynnag, mae'n ceisio cyfraniadau ar gyfer ystod eang o ddibenion posib nad ydynt yn cael eu diffinio'n glir nac yn gysylltiedig â chynllunio, neu nad ydynt o dan reolaeth ymgeisydd neu'n wir y Cyngor i'w cyflawni. Mae'r polisi yn methu a bodloni'r rheoliadau CIL a dylid ei addasu'n unol â hynny. Felly nid yw'r polisi yn cydymffurfio â Phrawf Cadernid C2 gan nad yw'n cydymffurfio â	**Derbyn** Cytunir fod 'Adfywio' a 'Cyfraniad arall yr ystyrir sy'n briodol i'r cynnig' yn enghreifftiau amhenodol a dylent gael eu gadael allan o'r polisi er mwyn osgoi amwysedd. **Argymhelliad** Dileu 'Adfywio' a 'Cyfraniad arall yr ystyrir yn briodol i'r cynnig'. Cynnwys 'Tir y Cyhoedd' a diwygio'r eglurhad ei egluro nad yw'r rhestr yn gyfyngiedig neu'n drwyadl.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				Pholisi Cynllunio Cymru a CE2.	**Newid â Ffocws NF19**
948	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Mae angen sicrhau fod isadeiledd Bangor yn medru ymdopi efo'r anheddau ychwanegol. Nid yw'r heolydd, ysgolion, meddygfeydd, system ddŵr, system garthffosiaeth, gwasanaethau heddlu, ysbyty, heb son am y mwynderau cyffredinol yn addas ar gyfer y boblogaeth sydd ym Mangor yn barod heb son am ychwanegu mwy atynt. Ni ddylid adeiladu dim os nad oes angen y trigolion fynediad rhwydd i isadeiledd addas gan gynnwys ysgolion, meddygon, siopau, mwynderau cymunedol.	**Dim yn derbyn** Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried sut bydd isadeiledd presennol yn ymdopi ag unrhyw ddatblygiad newydd fel rhan o broses y cais cynllunio yn ddarostyngedig ar Bolisi ISA a'r Rheoliadau CIL. Petai angen isadeiledd ychwanegol mae'r polisi hwn yn caniatáu i gynghorau ofyn am isadeiledd o'r fath fel rhan o'r datblygiad. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
1060	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Mae angen pa seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r safleoedd a ddynodwyd, a dangos sut a phryd y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun, ac ystyried p'un oes angen datblygu graddol. Nid yw'n glir a yw Polisi ISA1 yn blaenoriaethu'r seilwaith gofynnol neu ai rhestr yn unig yw hon. Mae'r	**Derbyn yn rhannol** Mae Papur Testun 13 'Seilwaith Cymunedol' yn nodi'r isadeiledd presennol a'r hyn sydd yn yr arfaeth yn ardal y Cynllun. Bydd y broses o baratoi'r Papur Testun hwn yn ailadroddus, a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				gwaith ar hyfywedd safle mewn perthynas â'r gallu i gyflawni hefyd yn wan. Dylai'r awdurdod hefyd fedru dangos rhestr flaenoriaeth gyffredinol ynghylch y rhwymedigaethau y bydd yn eu ceisio gan ddatblygiad a baich ariannol rhwymedigaethau o'r fath ynghyd ag effaith hyfywedd. Os nad oes Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn lle, mae perygl bydd bwlch yn y polisi ac yng ngallu'r cynllun i gasglu arian i helpu gyda'r datblygiadau.	chaiff ei adolygu pan dderbynnir gwybodaeth newydd. Mae'r broses o asesu Safleoedd Arfaethedig hefyd wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol iawn ar lefel y safleoedd penodol. Felly, mae'r holl isadeiledd sydd ei angen i gyflawni Strategaeth y Cynllun eisoes wedi'i asesu. Ar hyn o bryd, rhagwelir y daw'r cyllid o fecanweithiau y tu allan i gylch gorchwyl ASC, ac felly ni ragwelir y bydd cyfuno 5 neu ragor o gyfraniadau i gynorthwyo i ddarparu isadeiledd yn broblem. Dyma'r dull a fydd yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd, ond bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Bydd y Papur Testun sy'n ymwneud ag isadeiledd cymunedol a'r gwaith a wneir i gyfiawnhau'r dyraniadau yn y Cynllun yn ffurfio man cychwyn defnyddio i ystyried a oes angen atodlen ffioedd ASC. Byddai'r ystyriaethau hyn yn cael eu hasesu mewn astudiaeth i ba mor hyfyw fyddai mabwysiadu atodlen ffioedd ASC. Pan fo datblygiadau'n arwain at angen i wella isadeiledd neu greu isadeiledd o'r newydd, megis gwelliannau i briffyrdd, hyrwyddo teithio llesol, cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth, darpariaeth addysg, yr iaith Gymraeg, gwelliannau amgylcheddol neu wella ardaloedd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					cyhoeddus a mannau agored, fe'u cynhwysir fel rhan o'r datblygiad a rhoddir esboniad manylach yn y Rhwymedigaethau Cynllunio a'r Canllawiau Cynllunio Atodol arfaethedig. Ni fwriedir i'r rhestr yn y Polisi fod yn gynhwysfawr, na chyfyngu ar y dewisiadau, ond mae'n awgrymu beth yw amrediad yr isadeiledd a allai fod yn angenrheidiol. Ni ystyrir ei bod yn briodol i adnabod a blaenoriaethu'r union ofynion isadeiledd, y gellid eu defnyddio ymlaen llaw i bennu pa fath o gyfraniad fyddai'r datblygwr yn ei ddarparu. Er hyn, ystyrir y gellid gwella dealltwriaeth y darllenydd o'r Cynllun yn sylweddol petai'r wybodaeth am y gofynion isadeiledd yn cael ei nodi. I'r perwyl hwn, bydd papur testun ar aneddiadau yn cynnwys briffiau datblygu fydd yn amlinellu pa isadeiledd fydd yn ofynnol ar gyfer pob safle sydd wedi'i ddynodi a bydd yn nodi a fydd gofyn cyflwyno unrhyw ddatblygiad fesul cam. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pa rwymedigaethau y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn eu ceisio gan ddatblygiad.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Argymhelliad Diwygio'r esboniad i'r polisi i ddatgan nad yw'r rhestr yn un drwyadl neu gyfyngedig ac i gynnwys cyfeiriad at y papur testun newydd. **Newid â Ffocws NF20**
1173	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Polisi ISA1	Cefnogi	Er mwyn sicrhau bod digon o seilwaith yn bodoli ar gyfer datblygiadau domestig, byddwn yn ceisio ateb diffygion trwy wneud buddsoddiad cyfalaf yn ein Cynllun Rheoli Asedau 5 mlynedd. Bydd cael Cynllun Lleol wedi'i fabwysiadu, efo twf wedi'i ddangos ynddo, o gymorth i gryfhau'r achos y gall y cwmni ei roi ymlaen o ran prosiectau sydd angen eu hariannu yn y Cynllun Rheoli Asedau. Mae'r fframwaith reoli mae'n rhaid i DCWW weithio tu mewn iddi'n golygu y gallai fod gwahaniaeth rhwng amserlenni ein Cynllun Rheoli Asedau ni a'r Cynllun Datblygu Lleol. Gallai ddigwydd ei bod yn cymryd cyfnod o amser cyn cael prosiect isadeiledd a'r ariannu sy'n gysylltiedig efo fo at ei gilydd a chwblhau'r gwaith. Lle bydd angen gwelliannau penodol yn yr isadeiledd a hynny cyn cael buddsoddiad o'r Cynllun Rheoli Asedau, rydan ni'n cefnogi'r ddarpariaeth o fewn y polisi o geisio cael	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				cyfraniadau ariannol oddi wrth ddatblygwyr er mwyn gwneud y gwelliannau sydd eu hangen.	
109	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	7.1.10	Cefnogi	Dim digon o sylw wedi ei roi i isadeiledd Bangor wrth adeiladu. Ni allwch adeiladu'r un tŷ arall ym Mangor heb ystyried isadeiledd - heolydd, carthffosiaeth, cyflenwad dwr, meddygfeydd, ysgolion, siopau, parciau, heddlu, ysbytai, canolfannau cymunedol a chwarae ayb	**Dim yn derbyn** Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried sut bydd isadeiledd presennol yn ymdopi ag unrhyw ddatblygiad newydd fel rhan o broses y cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
1125 1126 1127	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	7.1.10 – 7.1.12	Gwrthwynebu	Credir y dylid gwella eglurder y paragraffau hyn. Ychydig o gysondeb sydd yn y termau a ddefnyddir, fel bod y Cynllun yn aneglur yn y disgwyliadau o ran beth mae'r Cynghorau'n ei fwriadu wrth gyfeirio at y "buddion cymunedol". Mae'n ymddangos bod gorgyffwrdd yn y defnydd o'r term yma i gynnwys nifer o gysyniadau: * Rhwymedigaethau Adran 106 (fel y cyfeiriwyd atynt yn PS2). * "cyfraniadau seilwaith cymunedol" (7.1.10) a "darpariaeth seilwaith" (7.1.11)	**Derbyn** Cytunir y dylai'r derminoleg a ddefnyddir yn y polisi fod yn fwy cyson. **Argymhelliad** Diwygio'r polisi yn unol â'r awgrym i sicrhau eglurder a chysondeb. **Newid â Ffocws NF20**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				* Rhwymedigaethau cynllunio (7.1.10 a 7.1.11) * Taliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (7.1.10) * "Buddion cymunedol" gwirfoddol a gynigir gan ddatblygwyr. Cynigir termau a diffiniadau.	
121	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	7.1.10	Gwrthwynebu	Achosir dryswch trwy ddefnyddio nifer o dermau sy'n ymddangos eu bod yn gysylltiedig â'r un peth, sef 'seilwaith', 'budd cymunedol' a 'cyfraniadau i seilwaith y gymuned'. Nid oes cyfeiriad at y ffaith bod angen asesu hyfywedd y cynllun er mwyn darparu'r 'buddion cymunedol'. Angen geirfa ychwanegol neu baragraff newydd i drafod asesiadau hyfywedd ar gyfer y nifer a'r amrediad o fudd cymdeithasol y gofynnir amdano. Defnyddio un gair i ddisgrifio cyfraniadau C106 i osgoi dryswch.	**Derbyn yn rhannol** Cytunir y dylid cael mwy o gysondeb o ran y derminoleg a ddefnyddir. Gweler yr ymateb i sylw 1125-1127 uchod. O ran y sylw sy'n ymwneud â'r angen i asesu hyfywdra cynllun, gweler yr ymateb i sylw 439. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pa rwymedigaethau y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu ceisio gan ddatblygiad. **Argymhelliad** Diwygio'r geiriad i wella eglurder a chysondeb gyda'r Rheoliadau. **Newid â Ffocws NF20**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1087	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	7.1.13	Gwrthwynebu	Mae Paragraff 7.1.13 o'r Cynllun Adnau'n nodi yr ymgysylltwyd efo Dŵr Cymru / Welsh Water yn ystod paratoi'r Cynllun. Mae CNC'n ymwybodol y gallai fod materion o ran capasiti gwaith Trin Dŵr Gwastraff Treborth, sy'n gwasanaethu Bangor, Y Felinheli, Bethel a rhan o dde Ynys Môn. Gallai hynny gyfyngu ar ddatblygiad yn yr ardaloedd hyn, ac felly rydan ni'n argymell yn gryf y dylid gofyn barn Dŵr Cymru / Welsh Water ar y mater penodol hwn.	**Dim yn derbyn** Ymgynghorwyd â Dŵr Cymru wrth ddynodi safleoedd posibl i'w datblygu. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori â Dŵr Cymru ynghylch sut gall yr isadeiledd presennol ymdopi â datblygiad fel rhan o broses cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

ISA2 – Cyfleusterau Cymunedol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
267	Ymddiriedolaeth Theatr (Ross Anthony) [2825]	Polisi ISA2	Cefnogi	Mae Ymddiriedolaeth y Theatrau'n cefnogi'r polisi hwn. Bellach mae'n rhoi datganiad clir ar gyfer gwarchod a gwella eich cyfleusterau cymunedol a diwylliannol hanfodol ac, ynghyd â pholisi ISA1, anogaeth i ddarparu cyfleusterau newydd ac ychwanegol.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
1128	Pwêr Niwclear	Polisi ISA2	Gwrthwynebu	Ar y cyfan yn cefnogi Polisi ISA2, ond mae	**Dim yn derbyn**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]			angen cydnabod na ddylai'r polisïau fod yn weithredol ar gyfer unrhyw gyfleusterau y gallent gael eu dosbarthu fel cyfleusterau cymunedol y gallent ddod ymlaen tu mewn i gampysau llety gweithwyr fel rhan o'i Strategaeth Llety Gweithwyr. Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i ISA2, fodd bynnag, mae Horizon yn dibynnu ar y polisïau penodol arfaethedig isod ar gyfer Wylfa Newydd. Rheiny fydd y polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm yma, nid ydi Horizon yn cynnig y dylid cau allan yn benodol o'r polisïau hyn ei ddatblygiad cysylltiedig (h.y. llety dros dro i weithwyr).	Bydd unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi PS9 a nifer o bolisiau eraill y Cynllun. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
1394	Cyng/Counc RH Wyn Williams [367]	Polisi ISA2	Gwrthwynebu	Oherwydd bod y cynllun am fod dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, fe hoffwn i chwi ystyried y canlynol i Abersoch: Ardal gyda ffin yn cael ei adnabod fel lleoliad Gwasanaethau heb unrhyw gynnydd.	**Dim yn derbyn** Mae'r Polisi yn cydnabod mewn rhai achosion, na fydd modd lleoli ôl-troed cyfleuster cymunedol arfaethedig o fewn y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio. Felly, mae'n darparu rhywfaint o hyblygrwydd rhesymol i leoli unrhyw ddatblygiad cymunedol hanfodol. Mae'r esboniad i'r Polisi yn egluro fod yn rhaid i gynigion sydd y tu allan i anheddiad ddangos mai'r lleoliad arfaethedig yw'r un gorau sydd ar gael, a'i fod yn hygyrch i'r gymuned leol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Argymhelliad Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
1417	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	Polisi ISA2	Gwrthwynebu	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisïau Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:- * Byddai'n darparu cyfleusterau cymunedol sy'n diwallu angen lleol	**Dim yn derbyn** Nod Polisi ISA2 yw gwarchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd pan fo hynny'n briodol. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

ISA3 – Datblygiadau Addysg Bellach ac Uwch

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1129	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI ISA3	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn nodi bod y cyfyngiadau hyn ar ddewis safleoedd o bosibl yn cyfyngu gormod os defnyddir nhw ar gyfer ei ddatblygiad	**Dim yn derbyn** Bydd unrhyw gynigion ar gyfer

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				cysylltiedig. Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i ISA3, fodd bynnag, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol arfaethedig isod ar gyfer Wylfa Newydd, a'r rheiny fyddai'r polisïau perthnasol y bydd ei geisiadau datblygu cysylltiedig yn cael eu penderfynu. Am y rheswm yma, nid ydi Horizon yn cynnig y dylid cau allan yn benodol o'r polisïau hyn ei ddatblygiad cysylltiedig (h.y. adeilad efelychydd).	datblygiadau sy'n ymwneud â'r maes niwclear, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi PS9 a pholisiau eraill y Cynllun. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

ISA4 - Diogelu Llecynnau Agored Presennol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
110	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	7.1.20	Cefnogi	Ni ddylid adeiladu na dinistrio llecynnau agored presennol o gwbl	**Nodi'r sylw'n cefnogi** **Argymhelliad** Dim newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1071	Mr Mark Newey, Llywodraeth Cymru	Polisi ISA 4 (paragraff 7.1.21)	Gwrthwynebu	'gormodedd' neu 'orddarpariaeth' - Nid yw'n glir sut y bydd Cynghorau'n dangos bod gorddarpariaeth o ofod agored, fel sy'n cael ei ddisgrifio yng nghymal 1 a pharagraff 7.1.21.	**Dim yn derbyn -** ceir canllaw yn rhan 2 o NCT 16 ar gyfer ymgymryd ag Asesiad Mannau Agored er mwyn adnabod ardaloedd sydd hefo gorddarpariaeth neu tan ddarpariaeth o fannau agored cyhoeddus. Yn ogystal bydd CCA yn cael ei baratoi i roi canllaw pellach i ddatblygwyr ar gyfer ymgymryd ag asesiad mannau agored yng nghyd-destun unrhyw ddatblygiad tai yn y dyfodol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

ISA5 – Darparu Llecynnau Agored Mewn Datblygiadau Tai Newydd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
122	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	Polisi ISA5	Gwrthwynebu	Mae pwynt 1 yn annerbyniol gan nad oes modd disgwyl i ddatblygwr ddarparu gofod agored oddi ar y safle ar dir nad yw'n berchen arno. Os nad oes modd cael darpariaeth ar y safle yna	**Dim yn derbyn** Mae Pwynt 1 yn nodi efallai na fyddai darpariaeth oddi ar y safle'n ymarferol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				dylid cymryd cyfraniad oddi ar y safle er mwyn gwella'r cyfleusterau sydd eisoes yn yr ardal ym mhwynt 2. Nid oes cyfeiriad at fabwysiadu/rheoli'r cyfryw ofodau. Dylid dileu neu ail-eirio pwynt 1. Mae angen cyfeirio yn y rhinweddau a dangos gyda'r gwybodaeth cefnogol gyda cais cynllunio y gall hyn weithio gyda neu heb lliniaru. Ail-eirio i ganiatau hyblygrwydd.	mewn rhai amgylchiadau, ac os mai dyma'r achos, dylai datblygwyr gyfrannu tuag at gyfleusterau newydd neu well. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar ddarparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd yn rhoi manylion ynghylch mabwysiadu/rheoli mannau o'r fath. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
304	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	Polisi ISA5	Gwrthwynebu	Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu gofod agored anffurfiol yn y polisi hwn ac ym mharagraff 7.1.23 ac eraill. Ar adeg pan fo gan bobl ifanc fwy o wybodaeth am faterion amgylcheddol ond sy'n gynyddol â dim cysylltiad uniongyrchol â natur, credwn fod angen darparu cyfleoedd i weld yr awyr agored gyda'ch llygaid eich hun. Trwy gysylltiadau â pholisïau a strategaethau eraill, gall y Cynllun Datblygu Lleol ganiatáu i bobl ifanc ymwneud mwy â'u hamgylchedd gydag enghreifftiau o gadwraeth a chynaliadwyedd ar waith.	**Derbyn** Mae Polisi ISA5 yn cyfeirio'n benodol at y gofyn i ddatblygiadau tai o faint penodol i gyfarch yr angen am gyfleon ar gyfer adloniant iach a gweithgareddau hamdden ar gyfer preswylwyr datblygiadau newydd. Derbynnir nad yw'r Polisi yn ddigon clir o ran hwyluso mynediad gwell i fannau agored presennol, mannau gwyrdd ffurfiol nac anffurfiol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Argymhelliad Newid maen prawf 2 i gyfeirio at y cyfraniad tuag at wella mynediad i gyfleusterau mannau agored neu lecynnau gwyrdd sydd eisoes yn bodoli.. Mae hyn yn gyson â pholisi PS5, sy'n cynnwys yr angen i wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol o ran ei gyfraniad cymdeithasol. **Newid â Ffocws NF22**
1130	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	Polisi ISA5	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn nodi nad ydi'r cyfyngiadau yn y polisi hwn yn briodol ar gyfer ei lety i weithwyr adeiladu dros dro. Er enghraifft byddai'n safon amhriodol i'r bobl fyddai'n debygol o breswylio yno e.e. gweithwyr adeiladu, myfyrwyr mewn llety person sengl dros dro, i fynnu bod angen llefydd chwarae i blant. Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i ISA5, i geisio atal defnyddio'r polisi hwn ar gyfer llety i weithwyr, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol arfaethedig isod ar gyfer Wylfa Newydd. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm yma, nid ydi Horizon yn cynnig y dylid cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig yn benodol o'r polisïau hyn.	**Dim yn Derbyn** Bydd unrhyw gynigion ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi PS9 a nifer o bolisiau eraill y Cynllun gan gynnwys Polisi TAI3. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

PS3 – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
533	Mobile Operators Association (Mr John Cooke) [1638]	POLISI STRATEGOL PS3	Cefnogi	Rydym yn cefnogi cynnwys Polisi Strategol PS3 yr ydym yn ystyried i fod yn unol â pholisi ac arweiniad cenedlaethol.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
1415	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI STRATEGOL PS3	Cefnogi	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisiau Rheoli Datblygu yn y Cynllun drafft. Angen cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol: * caniatau datblygiad technolegol i hwyluso datblygiad cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig; * cefnogi gweithio o gartref a mesurau a fydd yn gwella'r band eang a chyfathrebu yn yr ardaloedd anghysbell yn arbennig.	**Nodi'r sylw cefnogol** Mae Polisi PS3 yn hwyluso hygyrchedd ardaloedd gwledig drwy gyfrwng technoleg gwybodaeth. **Argymhelliad** **Dim newid**

Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd

PS4 – Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
664	Mr Noel Davey, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Rydym yn cefnogi'r hierarchaeth drafnidiaeth yn PS4 a pharagraff 7.1.28 sy'n rhoi blaenoriaeth i fynediad trwy gerdded a beicio, er mwyn lleihau'r angen i deithio mewn car preifat. Mae PS4 #3 yn anelu i "wneud ychwanegiadau neu welliannau i'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio er mwyn gwella diogelwch a hygyrchedd trwy'r dulliau teithio hyn". Byddem yn ychwanegu "ac i gynyddu buddion iechyd, hamdden, lles a thwristiaeth i drigolion lleol ac i ymwelwyr". Ymddengys bod y strategaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar fynediad ar gyfer prosiectau datblygu newydd, ond dylai hefyd roi sylw i faterion ehangach sy'n ymwneud â'r rhwydwaith hawliau tramwy.	**Derbyn** – Yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny. Credir y byddai'r geiriad ychwanegol yn ychwanegu gwerth at y polisi drwy amlygu budd cerdded a beicio. **Argymhelliad –** Cynnwys y diwygiad arfaethedig yn fersiwn ddiwygiedig Polisi Strategol PS4. **Newid â Ffocws NF23** **Newid Bychan NB3**
1131	Horizon	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn croesawu'r gofyn yn y polisi bod datblygiad wedi'i leoli er mwyn lleihau gymaint ag y bo modd ar yr angen i deithio. Mae hyn yn cefnogi rhan gyntaf yr ymgynghori gan Horizon cyn gwneud cais, sydd wedi seilio'r gwaith o ddewis safleoedd ar gyfer llety ar (ymysg ffactorau eraill) agosrwydd ar safle'r Wylfa. Mae'r ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau ar y safle yn cefnogi	**Derbyn yn rhannol** – Cytuno gyda'r sylw, a bod angen newid y testun yn unol â hynny. Fodd bynnag byddai diwygio'r polisi gyda chyfeiriad at brofion penodol o fewn y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi. Rhoddir sylw i'r mater hwn yn y cyflwyniad i bolisi PS2 Seilwaith a Chyfraniadau Datblygwyr. **Argymhelliad** – Diwygio'r geiriad mewn perthynas â gwelliannau sy'n gysylltiedig â

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ymhellach y ffordd yma o weithredu, lle mai ystyriaeth eilaidd ydi'r cysylltiad efo aneddiadau eraill sy'n bodoli'n barod. Mae gwelliant Horizon yn ceisio tynnu ymaith y cysylltiad, fel na fydd gwelliannau rheilffordd sy'n dod efo'r prosiect hwn yn cael eu cysylltu efo'r polisi'n benodol ar seilwaith rheilffordd. Mae Horizon wedi egluro bod rhaid i welliannau seilwaith sy'n ofynnol fod yn rhai mae angen amdanynt yn unol efo'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol.	rheilffyrdd a chyfeiriad at rwymedigaethau Adran 106. **Newid â Ffocws NF23**
148	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Wedi nodi Bodychain, Llanllyfni fel ardal chwilio a ffafrir am dywod a gro dan Bolisi MWYN3, gellid defnyddio'r safle peiriannau presennol yng Nghefn Graianog pe bai'r ardal hon yn profi'n fasnachol hyfyw ac y ceid caniatâd cynllunio, ond byddai angen cysylltiad dan y llwybr troed/beicio presennol. Fel y cyfryw, efallai y byddai rhai yn ystyried na fyddai hyn yn gwella'r llwybr troed/beicio. Ym mhwynt 3 dechrau efo "Ble yn bosib diwygio a gwella...."	**Derbyn** – Yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny. Teimlir bod y geiriad ychwanegol yn ychwanegu hyblygrwydd at Bolisi Strategol PS4. **Argymhelliad** – Ychwanegu'r geiriad ychwanegol at Bwynt 3 ym Mholisi Strategol PS4. **Newid â Ffocws NF23**
448	Bourne Leisure Ltd	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Ystyrir dylid ychwanegu'r frawddeg ganlynol i PS4: "Mewn ardaloedd gwledig, mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes dewis amgen i deithio efo car	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn hyrwyddo

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				preifat."	datblygiad cynaliadwy. Ym mharagraff 4.7.7 o PCC ceir cyfarwyddyd y dylid lleoli'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn yr aneddiadau hynny sy'n gymharol hygyrch drwy ddulliau heblaw ceir. Mae strategaeth ofodol y Cynllun yn seiliedig ar yr egwyddorion ym mharagraff 4.7.7 o PCC. **Argymhelliad –** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
527	Cymdeithas Ddinesig Bangor	Polisi Strategol PS4	Cefnogi	PS4 - Trafnidiaeth Gynaliadwy	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
617	Mr Mark Roberts, Barton Willmore, Cardiff	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Cefnogi nodau ac amcanion y polisi, fodd bynnag ni yw'r datganiad "caiff datblygiad ei leoli i leihau'r angen i deithio" yn adlewyrchu PCC. Yn hytrach mae PCC yn cyfeirio tuag at "lleihau'r angen i deithio a chynyddu hygyrchedd trwy ddulliau heblaw'r car preifat" (paragraff 4.7.4) a dim lleihau'r angen i deithio yn unig. Oherwydd hyn mae'r polisi yn rhy anhyblyg, ddim yn hyrwyddo darpariaeth bositif a ddim yn adlewyrchu gallu bysiau, beiciau a chysylltiadau	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid. Teimlir bod y polisi yn adlewyrchu dyheadau Polisi Cynllunio Cymru o ran lleihau'r angen i deithio wrth geisio cael gwelliannau trafnidiaeth fydd yn cynyddu mynediad i bob math o ddull trafnidiaeth. **Argymhelliad –** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				cerdded i gynnig mynediad cynaliadwy a chyfleus i wahanol wasanaethau.	**Dim newid**
1280	Bourne Leisure	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Dylai polisïau trafnidiaeth newydd adnabod, oherwydd lleoliadau sawl cyfleuster ac atyniad twristiaeth, yn aml nid oes opsiwn dichonadwy arall ar gael heblaw am ddefnyddio car preifat i gyrraedd rhai datblygiadau twristiaeth. Mae Bourne Leisure wedi siomi fod PS4 yn methu â chydnabod fod rhai safleoedd twristiaeth wedi'u lleoli mewn ardaloedd cefn gwlad ble nad oes cludiant cyhoeddus yn bodoli. Nid yw PS4, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn gadarn ac nid yw'n unol â pholisi cenedlaethol. Mae TAN18: Trafnidiaeth (Mawrth 2007) yn benodol yn adnabod fod rhai datblygiadau twristiaeth yn ddibynnol ar deithio mewn car ac yn cynghori: "..mewn ardaloedd gwledig mae angen cydbwyso diffyg mynediad i gludiant cyhoeddus yn erbyn y cyfraniad y mae twristiaeth yn ei wneud i'r economi wledig yn yr ardal benodol..." (para. 3.15) Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylid ychwanegu'r frawddeg hon i PS4: "mewn ardaloedd gwledig, mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes llawer o ddewis ond defnyddio car preifat i deithio."	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid. Gallai'r datganiad hwn gael ei ddehongli fel hyrwyddo'r defnydd o geir preifat. Mae hyn yn groes i ddyheadau Polisi Cynllunio Cymru o ran y defnydd o drafnidiaeth. Yn unol â pharagraff 3.11 o TAN 18 sy'n cyfeirio at ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau y dylai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau gael eu lleoli mewn mannau sy'n hygyrch drwy amrywiaeth o ddulliau teithio. **Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

TRA1 – Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1091	Cyfoeth Naturiol Cymru	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	Mae'r Cynllun yn rhoi amlinelliad o 4 cynllun cludiant fydd yn digwydd yn ystod cyfnod y Cynllun, yn cynnwys ffordd osgoi'r A487 Caernarfon i Bontnewydd, Ffordd Gyswllt Llangefni, darpariaeth newydd i groesi'r Fenai a gwelliannau ar yr A5025 o'r Fali i Wylfa Newydd. Byddai ANC yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn rhan o'r trafodaethau ar y cynlluniau arfaethedig yma mor fuan ag y bo modd, er mwyn gweld beth ydi'r cyfyngiadau allweddol ar ddatblygiad a chael darparu cyngor. Mae ANC wedi darparu cyngor Cwmpasu yn barod ar y cynlluniau sydd wedi'u henwi uchod.	**Dim yn derbyn** - Fel rhan o'r Broses Gynllunio ymgynghorir ag ymgynghorwyr statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai cynnwys cyfeiriad yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi. **Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1132	Pwêr Niwclear Horizon	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	Mae camgymeriad teipio yn 2. (ii) a (iii) lle yn y ddau achos dylid newid "facilitates" i ddarllen fel "facilities". (Nid ydi hyn wedi'i ddangos yn y newidiadau penodol y gofynnir amdanynt). Cynigiwyd newidiadau i 3(i) er mwyn eglurder, yn cynnwys dod â'r tabl i mewn i'r polisi er mwyn bod yn eglur ar ba ddatblygiad byddai hyn yn effeithio. Mae 3(ii) newydd wedyn yn codi o ail gangen y testun presennol (ar ôl y tabl). Gofynnir	**Derbyn yn rhannol** – Bydd y gwallau sillafu yn cael eu cywiro. Cytuno y byddai adran 3 o'r polisi yn elwa o fân ailddrafftio i wella eglurder. Fodd bynnag, teimlir ei bod yn fwy priodol cadw'r tabl ym mharagraff 7.1.31. Mae'r rhestr yn rhan 4 o bolisi TRA 1 yn adnabod cynlluniau cludiant mae'r Cynllun yn ceisio ei warchod trwy eu dangos ar y mapiau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				am newidiadau i 4(iii) i sicrhau nad oes unrhyw awgrym bod y Cynllun yn penderfynu ymlaen llaw ar yr asesiadau effaith amgylcheddol mae Horizon yn eu gwneud ac y dylai'r angen am welliannau i'r seilwaith cludiant fod yn deillio ohonynt.	cynigion. Yng ngoleuni sylwadau Horizon bod gwaith asesu effaith amgylcheddol ar gyfer yr angen am welliannau i'r seilwaith cludiant yn cymryd lle ar hyn o bryd yna dylai cyfeiriad tuag at rain, ynghyd ar map cynigion ohonynt, gael ei dynnu allan o bolisi TRA 1. **Argymhelliad** – Diwygio adrannau 3 a 4 (iii) i wella eglurder. **Newid â Ffocws NF24**
1133 & 1134	Pwêr Niwclear Horizon	Paragraffau 7.1.30 i 7.1.44	Gwrthwynebu	Yn ymwneud efo'r sylwadau ar TRA1, darparwyd geiriad newydd i fynd yn lle'r paragraff 7.1.41 presennol, er mwyn osgoi pennu ymlaen llaw ac i gyfeirio at ddatblygiad Strategaeth Traffig a Chludiant Integredig Horizon. Mae Horizon yn cefnogi cynnwys datganiad wedi'i eirio'n addas i gefnogi ei fod yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Cynghorau i ddatblygu Strategaeth Traffig a Chludiant Integredig wedi'i chytuno ar gyfer y Prosiect, i gael ei chefnogi trwy bolisi TRA1.	**Derbyn** - Cytuno i aralleirio'r teitl cyn paragraff 7.1.41 a pharagraff 7.1.44 i ddangos lle'r amlygwyd angen i uwchraddio'r seilwaith trafnidiaeth. Eisoes ceir cyfeiriad at Gynlluniau Teithio ym mharagraffau 7.1.30 a 7.1.32, fodd bynnag mae'r ymateb blaenorol wedi cytuno i gynnwys cyfeiriad at gynlluniau teithio ym mholisi TRA 1. **Argymhelliad** – Diwygio'r teitl i baragraff 7.1.41 a pharagraff 7.1.44. **Newid â Ffocws NF25** **Newid Bychan NB2**
1185,	Dwr Cymru	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	Mae'r llwybr arfaethedig yn mynd dros	**Dim yn derbyn** - Fel rhan o'r Broses Gynllunio

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1186, 1187				asedau DCWW mewn nifer o lefydd (yn garthffosydd cyhoeddus a phrif bibelli dŵr). O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased.	ymgynghorir ag ymgynghorwyr statudol fel Dŵr Cymru Welsh Water. Byddai cynnwys cyfeiriad yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi. **Argymhelliad –** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
525	Cymdeithas Ddinesig Bangor	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	TRA1: Rhwydweithiau Cludiant 4) 'Cynlluniau Cludiant' - nid oes unrhyw sôn am gynigion rheilffordd.	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid. Mae diogelu rheilffyrdd presennol wedi ei gynnwys yn TRA3. **Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
876	Mr John Tripp, Porthaethwy	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	* gormod o bwyslais ar geir; * llwybrau beic sydd i'w gweithredu (ddim yn ddigon positif); * rheilffyrdd a bysiau. Rheilffordd drydan - fel rhan o estyniad yr HS3 Caergybi i Hull.	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid. Teimlir bod Polisi TRA1 yn cydymffurfio â dyheadau Polisi Cynllunio Cymru o ran y defnydd o drafnidiaeth. **Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1055	Mr Mark Newey, Llywodraeth Cymru	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	Gallai'r dyraniadau tir olygu colli tua 40 hectar o'r Tir Gorau a Mwyaf Hyblyg am byth. Mae mwyafrif y tir wedi'i gynnwys yn nyraniadau TRA1, C14 a C15 a phrin yw'r dystiolaeth yn y cynllun i ddangos bod paragraff 4.10 wedi cael ei ystyried o gwbl wrth ddyrannu'r safleoedd hyn ar gyfer datblygu.	**Dim yn derbyn** – Mae'r tir a nodir ym mholisi TRA 1 yn gynlluniau gwella priffyrdd a nodwyd fel llwybrau sydd angen eu diogelu o fewn y cynllun. Cydnabyddir bod ffordd gyswllt Llangefni yn croesi tir amaethyddol o ansawdd uchel yng nghyffiniau Llangefni, fodd bynnag, mae gan y cynnig hwn fudd caniatâd cynllunio o dan 34LPA1013/FR/EIA/CC. Felly, aseswyd colli tir amaethyddol o ansawdd uchel fel rhan o'r cais. Byddid wedi ymgynghori â phob corff perthnasol ynglŷn â'r holl ddatblygiadau a amlygwyd ym Mholisi TRA1, a byddai colled barhaol o dir amaethyddol o ansawdd uchel wedi cael ei drafod ar adeg y cam ymgeisio. **Argymhelliad** – Dim newid i Bolisi TRA1. **Dim newid**
683	Barton Willmore	7.1.31	Gwrthwynebu	Mae paragraffau 7.1.31 a 7.1.32 yn cynnwys sylwebaeth eang am y gofyniad a'r angen am Asesiadau Trafnidiaeth, ond	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				yn dyblygu Polisi Cynllunio Cymru. Mae hyn yn ddianghenraid.	Mae paragraffau 7.1.31 a 7.1.32 yn darparu cyd-destun i Bolisi TRA1. **Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
530	Cymdeithas Ddinesig Bangor	7.1.37	Gwrthwynebu	Rhwydwaith Traws Ewrop E22 - Mae angen eglurhad o p'un a yw Pont Britannia a rhannau o ogledd Cymru dal yn rhan o E22.	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid. Teimlir bod paragraff 7.1.37 yn egluro bod yr A55 ar yr E22. **Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
877	Mr John Tripp, Porthaethwy	7.1.37	Gwrthwynebu	Croesfan ar draws y Fenai - beth am roi twnnel o dan y Fenai o Griffiths Crossing? Ydych chi wedi meddwl am: * ddefnyddio dwy lôn i groesi ar yr A55, i'w cyfnewid rhwng naill ochr y ffordd a'r llall * nid yw'r dec rheilffordd o dan yr A55 ond yn cael ei ddefnyddio 50% o'r amser.	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid. Mae opsiynau ar drydedd bont dros Afon Menai yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ond hyd yma nid oes penderfyniad ffurfiol wedi ei wneud. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
512	Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd	7.1.42 (Polisi TRA1)	Cefnogi	Bydd angen ymgynghoriad ffurfiol ar y gwelliannau hyn gan ei bod yn bosib y gallai rhai o'r ardaloedd hyn gael effaith ar yr adnodd archeolegol.	**Dim yn derbyn** Fel rhan o'r broses Gynllunio ymgynghorir ag ymgynghorwyr fel Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd. Byddai cynnwys cyfeiriad yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

TRA2 – Safonau Parcio

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1096	Mr Mark Newey, Llywodraeth Cymru	Polisi TRA2 (paragraff 7.1.45)	Gwrthwynebu	Dylid nodi bod Polisi Cynllunio Cymru'n datgan y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod datblygiadau newydd yn darparu lefelau is o ofod parcio na'r hyn a wnaed yn y gorffennol. Mae TAN 18 yn datgan y	**Derbyn** – Rydym yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny. Rhoddir cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 18 ym mharagraffau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				dylid defnyddio uchafswm safonau parcio ceir fel ffordd o reoli'r galw.	esboniad 7.1.45 a 7.1.46. **Argymhelliad** Gwneud newidiadau i baragraff 7.1.45 yn seiliedig ar y sylwadau a gyflwynwyd. **Newid â Ffocws NF26**

TRA3 – Diogelu Rheilffyrdd Segur

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
161	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited	Polisi TRA3	Gwrthwynebu	Fel gyda Pholisi PS4, wedi nodi Bodychain, Llanllyfni fel ardal chwilio a ffafrir am dywod a gro dan Bolisi MWYN3, gellid defnyddio'r safle peiriannau presennol yng Nghefn Graianog pe bai'r ardal hon yn profi'n fasnachol hyfyw ac y ceid caniatâd cynllunio ond byddai angen cysylltiad dan y llwybr troed/beicio presennol. Cynnig ail eirio a dyfynnu: “Ble yn briodol a hyfyw dylid hyrwyddo ac annog y posibilrwydd o ail agor isadeiledd segur rheilffyrdd ar gyfer defnydd fel	**Derbyn** – Rydym yn cytuno â’r sylw, a bod angen diwygio’r testun yn unol â hynny. Teimlir y dylid ychwanegu geiriad ychwanegol at y polisi, yn hytrach na disodli'r geiriad gwreiddiol, gan ei fod yn ychwanegu gwerth at amcan cynaliadwyedd y polisi. Fodd bynnag, dylid cadw’r geiriad gwreiddiol, oherwydd mae’n bwysig peidio ag annog datblygiadau a allai atal ailagor seilwaith rheilffordd segur neu nas defnyddir. **Argymhelliad –** Gwneud newidiadau i Bolisi TRA3 yn seiliedig ar y sylwadau a gyflwynwyd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				rheilffordd neu bwrpas trafnidiaeth arall.”	**Newid â Ffocws NF27**
440	Cyngor Tref Ffestiniog	Polisi TRA3	Cefnogi	Gobeithio y gall Cyngor Gwynedd helpu i ddatrys y broblem hon.	**Nodi’r sylwadau cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

TRA4 – Rheoli Ardrawiadau Cludiant

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
150 151	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	Polisi TRA4	Gwrthwynebu	Ystyrir bod y polisi'n rhy gaeth ac nid yw'n caniatáu cyfle ar gyfer gwaith lliniaru posib trwy rwymedigaethau ac amodau cynllunio. Dylid ymdrin â phob cais yn ôl ei haeddiant a dylai ddangos trwy wybodaeth gysylltiedig gyda chais cynllunio y gall weithio gyda gwaith lliniaru neu hebddo. Diwygio'r geiriad i er caniatáu hyblygrwydd.	**Derbyn** – Yn cytuno â’r sylw, a bod angen diwygio’r testun yn unol â hynny. Bydd y diwygiad a awgrymir yn ychwanegu hyblygrwydd at y polisi. **Argymhelliad** – Ychwanegu brawddeg ychwanegol at y polisi, er mwyn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd pellach wrth benderfynu ar geisiadau. **Newid Bychan NB3**
598	Mr Mark Roberts, Cardiff	Polisi TRA4	Gwrthwynebu	Rydym yn pryderu nad yw'r prawf "ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n peri	**Derbyn yn rhannol –** Cytuno y dylid diwygio’r Rhestr Termau i esbonio sut fath o ddatblygiad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd..." yn un manwl gywir ac nad yw wedi'i baratoi'n bositif. Nid oes unrhyw sôn yn y polisi am yr hyn a ystyrir yn "annerbyniol". Bydd y datblygiad yn effeithio ar rwydweithiau priffyrdd drwy gynyddu traffig. Yn ogystal, nid yw'r polisi yn ystyried gallu cynigion datblygu i leddfu neu leihau effeithiau ar y rhwydwaith. Newid: Ystyriwn y dylai'r polisi ddatgan mai datblygiadau fyddai'n peri "effaith weddilliol annerbyniol ddifrifol/sylweddol" yw'r prawf gofynnol.	fuasai yn cael ei ystyried yn annerbyniol o fewn gwahanol bolisïau yn y Cynllun. Dim yn cytuno efo'r newidiadau a chynigiwyd ar gyfer 'effaith gweddilliol difrifol/arwyddocaol annerbyniol...' gan y gall hyn alluogi datblygiad a fuasai'n effeithio ar weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau cludiant eraill. **Argymhelliad** Cynnwys cyfeiriad i annerbyniol yn y Rhestr Termau. **Newid â Ffocws NF111**
529	Cymdeithas Ddinesig Bangor	Polisi TRA4	Gwrthwynebu	TRA4: Ardrawiadau cludiant. Dileu 'fel sy'n briodol'. Dylid sicrhau darpariaeth ddiogel i'r grwpiau hyn pob amser.	**Derbyn yn rhannol** - Pwrpas yr eirfa yn y polisi oedd adlewyrchu nad oedd darpariaeth ar gyfer pob dull o deithio ddim yn berthnasol efo pob math o geisiadau. Fodd bynnag, cytunir bod y term 'ble bo'r angen' ychydig yn gamarweiniol. Yng ngoleuni hyn cynigir newid i 'Ble yn briodol' a bydd hyn yn golygu bod y polisi yn unol â'r eglurhad ym mharagraff 7.1.51 sydd yn cyfeirio tuag at fesurau sy'n briodol i gynnig

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					penodol. **Argymhelliad** – Gwneud newidiadau i Bolisi TRA4 i ddarllen 'Ble yn briodol' . **Newid Bychan NB3**
1835	Mr Noel Davey, Council for the Protection of Rural Wales	Polisi TRA4	Gwrthwynebu	Mae'r polisi yn eithaf gwan ac yn rhoi sylw brysiog o ymrwymiadau cynllunio i hawliau tramwy cyhoeddus. Dylid cael geirfa yn y CDLl ar y cyd yn debyg i'r hyn oedd ym mholisi CH22 o'r CDU Gwynedd 'Rhwydwaith Beicio, Llwybrau a Hawliau tramwy' yn rhoi ymrwymiad mwy manwl a phenodol i warchod a hybu'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Dylai'r CDLl ar y cyd gydnabod eu pwysigrwydd i'r economi ymwelwyr, budd hamdden, iechyd cenedlaethol a lles efo pwyslais cryf ar warchod a hybu'r Llwybr Arfordirol Cenedlaethol.	**Dim yn derbyn -** Pwrpas polisi TRA 4 yw sicrhau bod datblygiad newydd yn creu darpariaeth ddiogel a chyfleus ar gyfer pob dull o deithio ble bod hyn yn briodol. Mae polisi PS4 yn cyfeirio tuag at yr angen i ychwanegu a gwella rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio a theimlir bod hyn yn rhoi cefnogaeth ddigonol i lwybrau cyhoeddus yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

PENNOD 7.2 BYW'N GYNALIADWY

Datblygiad Cynaliadwy a Newid Hinsawdd

Cyd-destun a Chyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
770	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	7.2.4	Gwrthwynebu	Gwerthfawrogwn fod polisïau cenedlaethol newydd yn gweld 'datblygu cynaliadwy' fel prif bwrpas y system cynllunio defnydd tir ac yn gofyn i'r Cynllun Datblygu Lleol roi'r egwyddorion hyn wrth galon ei strategaeth leol. Fodd bynnag, cwestiynwn a fydd modd cymhwyso'r polisïau datblygu cynaliadwy arfaethedig yn effeithiol ar raddfa fwy lleol yn y system gynllunio. Mae gennym bryder mawr y bydd cymaint o bwyslais yn cael ei roi ar dri pholisi cyffredinol sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy (PCYFF1-3). Credwn y gallai profi pob un cynnig yn erbyn yr egwyddorion cyffredinol hyn yn hawdd iawn fynd yn ymarfer diddim heb fawr o ystyr ym mhob Datganiad Dyluniad a Mynediad. Ar yr un pryd, gallai penderfyniadau cynllunio fynd yn fwy mympwyol ac yn llai gwrthrychol pan gânt eu profi yn erbyn y datganiadau cyffredinol iawn hyn. Byddwn yn colli'r pwyslais a geir mewn meini prawf cwbl glir sydd ynghlwm â pholisïau unigol ar gyfer pob math o gynigion. Mewn nifer o achosion ni fydd yna bolisi cwbl benodol, dim ond gofyn i gyfeirio at y polisïau	**Dim yn derbyn** Ystyrir y Cynllun yn ei gyfanrwydd wrth asesu cynigion datblygu ac ni ddylid ystyried polisïau PCYFF 1-3 ar eu pen eu hunain. Rhoddir yr un pwysau ar holl bolisïau manwl y Cynllun. Mae cynnwys y tri pholisi yn golygu bod pob cais cynllunio'n dod o dan bolisi cynllunio cenedlaethol, ac mae'n osgoi ailadrodd diangen yn y cynllun. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				datblygu cynaliadwy ehangach.	
1056	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.2.4	Gwrthwynebu	Mae Asesiad Effaith Ynni Adnewyddadwy wedi'i gynnal yn y ddwy ardal. Er hynny, nid yw'r Cynllun Adnau yn manteisio ar y cyfle i ystyried y cyfraniad y gallai'r ardal ei wneud at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy a charbon isel ac i gynllunio'n bositif ar gyfer datblygiad addas. Mae angen ystyried yn fanylach sut i droi'r dystiolaeth yn set o bolisïau sy'n llywio datblygu addas. Er enghraifft, a allai'r asesiadau roi tystiolaeth i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cynnal safonau adeilad cynaliadwy uwch ar safleoedd strategol neu a allai lleoli datblygiadau yn yr un lle wella'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddol?	**Derbyn yn rhannol** Mae gan y Pecyn Cymorth newydd i Gynllunwyr ar Gynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Medi 2015) adran ychwanegol i asesu'r potensial ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Yn ogystal, mae llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, dyddiedig 10 Rhagfyr 2015, yn disgwyl dyraniadau neu ardaloedd chwilio ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel ar raddfa awdurdod lleol (5MW - 25MW). O ganlyniad, mae'r Cynghorau wedi comisiynu gwaith ychwanegol i ganfod unrhyw ardaloedd arfaethedig ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Yn ogystal, bydd asesiad yn erbyn astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd ar gyfer yr ardal yn fodd o benderfynu a ddylid nodi unrhyw ardaloedd chwilio ar raddfa awdurdod-lleol yn y Cynllun. Newidiwyd y cyflwyniad i bolisi PS7 i adlewyrchu'r gwaith hwn sydd ar y gweill.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Ni nodwyd unrhyw safleoedd strategol yn y Cynllun Adnau. Cytuno y gellid cynnwys meini prawf ychwanegol o fewn polisi PS5 mewn perthynas â hyrwyddo cyd-leoli datblygiadau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd am ynni adnewyddadwy. **Argymhelliad** Ychwanegu maen prawf ychwanegol o fewn Polisi PS5 mewn perthynas â chyd-leoli datblygiad. **Newid â Ffocws NF28**

PS5 – Datblygu Cynaliadwy

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
111	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	POLISI STRATEGOL PS5	Cefnogi	Dylid adeiladu ar dir llwyd ac nid ar dir gwyrdd. Argymhellir edrych ar sut i ailddefnyddio safleoedd tir llwyd cyn adeiladu o'r newydd ar safleoedd tir gwyrdd, gan gynnwys dymchwel tai os nad ydynt yn ffit i bwrpas. Dylid gwneud gwell defnydd o safleoedd tir llwyd er mwyn gwarchod safleoedd tir gwyrdd a chaeau. Er	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** Dim newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				enghraifft, mae ardal gyfagos i gylchfan Parc siopa Dewi Sant sy'n ddiffaith oherwydd dymchwel tai; Hendrewen; safle cornel gyferbyn ag Ysbyty Gwynedd. e.e. gellid adeiladu fflatiau wrth ymyl Parc siopa Dewi Sant efo llawr parcio i osgoi problemau llifogydd.	
167 168	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Nid yw'r polisi cyffredinol hwn yn eglur o ran yr hyn y mae'n berthnasol iddo e.e. nid pob ased tirwedd a bioamrywiaeth sydd â'r un gwerth ac ni fydd wastad yn bosib 'gwarchod a gwella' asedau. Os credir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau fel y nodir isod. Ystyried hierarchaeth i asesu effaith amgylcheddol datblygiadau arfaethedig (nid yw pob tirlun nag asedau bioamrywiaeth gyda'r un gwerth) ac yn ddi ystyriaeth i bolisïau eraill o fewn y cynllun datblygu. Ym mhwynt 3 dylid cynnwys safleoedd cyn chwareli yn niffiniad tir sydd eisoes wedi ei ddatblygu gan dynnu'r cyfeiriad tuag at ffiniau datblygu. Ym mhwynt 6 a 7 dechrau gyda "Ble'n bosibl..."	**Derbyn yn Rhannol** Bydd y polisi yn gymwys ar gyfer pob math o ddatblygiad. Derbynnir nad oes yr un gwerth i bob tirwedd ac ased bioamrywiaeth, a rhoddir ystyriaeth i hyn wrth asesu unrhyw geisiadau. Mae Ffigur 4.4 PCC yn diffinio tir a ddatblygwyd eisoes. Ni ystyrir y byddai'n briodol i gyfeirio at fathau penodol o ddefnyddiau o fewn y polisi. Mae'r cyfeiriad at ffiniau datblygu yn cynnig dull dilyniannol tuag at ddatblygu, ac nid yw'r maen prawf yn cyfeirio at y lleoedd mwyaf addas y tu allan i'r ffiniau. Er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddatblygiadau cyflogaeth, dylid ychwanegu cyfeiriad at PS10 a PS11 at faen prawf 3.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Argymhelliad Ychwanegu cyfeiriad at PS10 a PS11 ym maen prawf 3. **Newid â Ffocws NF28**
397	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI STRATEGOL PS5	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru'n cefnogi cynnwys y polisi hwn a'i bwyslais ar ostwng cyfaint y dŵr a ddefnyddir ac a gaiff ei wastraffu, a gostwng yr effaith ar adnoddau ac ansawdd dŵr, a gwneud y defnydd mwyaf posib o gynlluniau draeniau cynaliadwy. Rydym yn llwyr gefnogi hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac edrychwn at eich awdurdod i sicrhau bod dyluniau priodol yn cynnwys effeithlonrwydd dŵr, cadwraeth dŵr a draenio cynaliadwy er mwyn cydymffurfio â safonau uchel y Côd Cartrefi Cynaliadwy a BREEAM.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
766	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Mae gofyn i bob datblygiad gwrdd â naw o amcanion. Cytunwn yn llwyr gyda'r amcanion mewn egwyddor, ond nid ydym yn gweld sut all pob cynnig, megis estyniadau bychain i dai, ddangos yn ymarferol sut y byddent yn cyfrannu at bob un ohonynt, yn enwedig rhif 6 'cadw a 'gwella' ansawdd...asedau' a rhif 7 'gwarchod a 'gwella' ansawdd yr amgylchedd naturiol'. Mae'n debyg bod angen ychwanegu rhyw fath o amod e.e. 'lle bynnag y byddo'n	**Dim yn derbyn.** Derbynnir na all pob cynnig, fel estyniadau bychan, gyfrannu at yr egwyddorion sydd wedi'u rhestru yn y polisi. Ystyrir pob cynnig datblygu ar wahân a byddant yn cael eu hasesu fesul achos. Teimlir y byddai ychwanegu maen prawf

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				bosib'. Nodir fod y cyflwyniad i amcanion 10-14 yn cynnwys y geiriau 'pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd:'	fel yr awgrymwyd yn dibrisio'r gofyn i gynigion fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn mathau eraill o ddatblygiadau. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
767	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Maen prawf 4 'Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau; gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol, chwaraeon ac adloniant; ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith, isadeiledd ffisegol a chymdeithasol; a dewis o ddulliau teithio.' Bydd yr ymagwedd hon yn gwrthdaro â'r pwysau am 'arbedion maint' e.e. y dadleuon cyfredol am grynodiad gwasanaethau yn GIG Gogledd Cymru.	**Dim yn derbyn** Mae'n bwysig hyrwyddo aneddiadau hunangynhwysol er mwyn sicrhau bod cymunedau'n gytbwys, ac felly, yn hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy yn ardal y Cynllun, sy'n cael ei hyrwyddo mewn polisïau cynllunio cenedlaethol. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
768	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr	POLISI STRATEGOL	Gwrthwynebu	Maen prawf 13, gellid gwneud mwy o synnwyr ohono trwy roi 'car' i mewn a dileu 'means of'	**Derbyn yn rhannol**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	Noel Davey) [1169]	PS5		yn y fersiwn Saesneg. 'Lleihau'r angen i deithio mewn car ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn ac mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen'.	Bydd y newid a awgrymir yn gwneud y polisi'n fwy clir. Fodd bynnag, dylid nodi 'cludiant preifat' yn lle 'car'. **Argymhelliad** Cynnwys cyfeiriad ar gludiant preifat yn y polisi. **Newid â Ffocws NF28**
852	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Mae hwn yn bolisi gydag 14 rhan, ac mae gofyn cydymffurfio â thoreth o faterion. Nid yw'n ymgorffori rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy fel sydd wedi'i amlinellu yn PCC. Nid yw'n galluogi cydbwyso'r buddion a ddaw yn sgil datblygiad gyda themâu cymdeithasol, economaidd ac yn wir, amgylcheddol (adfer ac ailddatblygu safle llygredig a ddatblygwyd o'r blaen, er enghraifft) ac unrhyw effeithiau negyddol yn y meysydd hynny. Ar y cyfan mae'r polisi wedi'i eirio'n negyddol. Mae PCC yn darparu rhagdybiaeth glir o blaid datblygu cynaliadwy. Nid yw'n ymgorffori unrhyw agwedd o'r dull hwn a dylid ei ailysgrifennu i ddarparu polisi positif sy'n rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy. Dylid ei ail ysgrifennu er darparu polisi positif a rhagdybiaeth o blaid datblygiad cynaliadwy.	**Derbyn** Cytunir y byddai'n fuddiol i wneud rhai mân newidiadau golygyddol i eiriad y polisi er mwyn dangos y bydd y Cynllun yn mynd ati'n bositif i ganfod datblygiadau cynaliadwy. Disgrifir yn fanwl sut y caiff yr egwyddorion hyn eu rhoi ar waith mewn adrannau eraill o'r Cynllun. Mae'r meini prawf yn y Polisi yn arwain y darllenydd at y man priodol yn y Cynllun lle gellir canfod y polisïau. **Argymhelliad** Aralleirio brawddeg gyntaf ac ail frawddeg y polisi i sicrhau eu bod yn cadarnhau rhagdybiaeth y Polisi o blaid datblygu cynaliadwy yn unol â

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. **Newid â Ffocws NF28**
853	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Nodwn nad oes unrhyw bolisi sy'n mynegi yn nhermau cyffredinol ac sy'n sail i'r holl bolisïau eraill yn rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy. Mae hwn yn ddull sylfaenol gan Lywodraeth Cymru a PCC. Mae yna bolisi datblygu cynaliadwy, Polisi PS5, fodd bynnag, nid yw'n darparu "rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy." Mae'r diffyg hwn yn ddiffyg amlwg ac yn colli rhywbeth arwyddocaol sydd wrth wraidd polisïau'r Cynllun hwn a'r dull mae'n ei ddefnyddio. Polisi sy'n rhoi rhagdybiaeth o blaid datblygiad cynaliadwy.	**Derbyn** Gweler ymateb i sylw 852 **Argymhelliad** Gweler yr argymhelliad i sylw 852 uchod. **Newid â Ffocws NF28**
986	Welsh Slate Ltd [3147]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Tra'n rhestru 13 o amcanion mae yna fethiant llwyr i gynnwys unrhyw gyfeiriad i fwynau, waeth unrhyw gyfeiriad at Bolisi Strategol PS18.	**Dim yn derbyn** Mae Polisi PS18 yn ymwneud yn benodol â'r angen i sicrhau bod mwynau'n cael eu defnyddio'n gynaliadwy. Ystyrir fod y polisi hwn yn ddigonol yn hyn o beth. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Dim newid
1135	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn credu y byddai'n fuddiol cael gwared â rhywfaint o'r ail adodd, cylchogrwydd ac anghysonderau posibl yn deillio o gyfeiriadau at bolisïau eraill. Enghreifftiau o hynny ydi bod meini prawf 5, 6, 16, 10, 11, 12, 13, 14 ddim ond yn croes gyfeirio at bolisïau eraill fydd yn gymwys ar gyfer y materion hyn ac yn eu rheoli.	**Dim yn derbyn** Mae'r polisïau strategol yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y polisïau manwl yn y Cynllun. Byddai cael gwared ar y meini prawf fel yr awgrymir yn dibrisio ac yn gwanhau'r polisi o ran sicrhau bod cynigion yn mabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

PS6 – Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
126	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	Nid yw'n glir sut mae'r gofynion hyn yn cysylltu â Rheoliadau Adeiladu. Os ydynt, fel mae'n ymddangos, yn edrych ar gael safonau uwch na Rheoliadau Adeiladu yna mae hyn yn debygol o gael effaith ar hyfywedd cynllun. A roddwyd	**Dim yn Derbyn** Mae paragraff 4.12.6 PCC yn ceisio annog ceisiadau sy'n adlewyrchu prif egwyddorion datblygiadau sy'n ymateb

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				caniatâd yn y cynllun ar gyfer effaith ariannol cwrdd â'r gofynion hyn wrth brofi hyfywedd darparu tai/tai fforddiadwy? Darparu eglurhad.	i'r hinsawdd sy'n rhagori ar y safonau a nodir mewn rheoliadau adeiladu. Bydd hyfywedd yn ystyriaeth ar gyfer pob cais, ac mae'r geiriad yn y polisi yn nodi 'rhoi ystyriaeth lawn' mewn perthynas i ystyried lliniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd. **Argymhelliad** Dim tystiolaeth gadarn wedi ei dderbyn fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adneuo a sicrhau cadernid. **Dim newid**
169 170	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	Unwaith eto nid oes diffiniad yn y polisi cyffredinol yn nodi lle mae'n berthnasol iddo. Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau fel y nodir isod. Awgrymu hierarchaeth ar gyfer asesu effeithiau cynigion datblygu ac er gwaethaf polisïau yn y cynllun datblygu. Pwynt 6 "Ble'n bosib…" Pwynt 10 " Ble'n bosib…"	**Dim yn derbyn** Bydd y polisi yn gymwys ar gyfer pob math o ddatblygiad. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, un o swyddogaethau craidd y Cynllun yw sicrhau bod yr holl ddatblygiad yn ardal y Cynllun yn gynaliadwy, gan roi ystyriaeth lawn i'r oblygiadau o leihau'r defnydd o adnoddau a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'r Polisi hwn yn rhan o fframwaith ar gyfer twf cynaliadwy drwy hyrwyddo datblygiad sy'n lliniaru

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					effeithiau newid hinsawdd ac yn gallu addasu i'r effeithiau tebygol. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
398	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI STRATEGOL PS6	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru'n cefnogi cynnwys y polisi hwn a'r gofyn i ddatblygwyr anelu am y safon uchaf bosib o ran effeithlonrwydd dŵr a defnyddio systemau draenio addas. Mae mynd i'r afael â dŵr wyneb yn y man mae'n tarddu yn elfen hanfodol o ddatblygu cynaliadwy a bydd yn mynd yn bell iawn i liniaru yn erbyn carthffosydd sydd wedi gorlwytho a all, yn y pen draw, arwain at lifogydd. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ategu'r rhwymedigaethau i ddatblygwyr ymgorffori systemau draenio cynaliadwy fel rhan o'u datblygiadau.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
451 845	Bourne Leisure Ltd [2768] Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans)	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	Dylai'r Cynllun Lleol gydnabod bod defnyddiau penodol, fel twristiaeth, yn defnyddio ac maen nhw'n aml wedi eu lleoli'n barod ar yr arfordir neu mewn parth llifogydd afon a bod defnyddiau o'r math yma angen eu lleoli ger yr afon er mwyn cario'n mlaen i ddenu ymwelwyr.	**Dim yn derbyn** Yn unol â TAN15, nod y polisi yw cyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd oddi wrth ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	[2767]			Fe ddylai Cynllun Lleol felly ganiatáu cynigion am welliannau/ estyniadau i lety ymwelwyr a chyfleusterau i'w hystyried yn fwy hyblyg o'i gymharu â datblygiad newydd mewn lleoliadau o'r math yma.	Cydnabyddir fod llawer o ddatblygiadau wedi bod wrth ochr afonydd ac ar wastadedd arfordirol. Felly mae'n anochel, er gwaethaf y nod cyffredinol o geisio osgoi ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, y bydd rhai datblygiadau presennol mewn perygl o lifogydd. Er y byddai datblygiadau pellach mewn ardaloedd o'r fath o bosibl yn cael rhywfaint mwy o warchodaeth, ni fyddent yn rhydd o'r perygl ac mewn rhai achosion, gallent waethygu canlyniadau llifogydd ar gyfer datblygiadau sydd eisoes yn bodoli, felly mae gofyn dod i farn gytbwys. Bydd tuedd tir i ddioddef llifogydd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio. Ar gyfer cynigion mewn ardaloedd parth C, bydd yn rhaid i ddatblygwyr ddangos bod modd cyfiawnhau unrhyw ddatblygiad yn y lleoliad hwnnw, a bod y canlyniadau sy'n gysylltiedig â llifogydd yn dderbyniol, a bodloni'r awdurdod cynllunio o hynny. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
661	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS6	Cefnogi	Cytunwn fod mynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon yn amcan allweddol. Cefnogwn y cysyniad o 'hierarchaeth ynni' a gynigir yn PS6 lle rhoddir blaenoriaeth raddol i 1) lleihau'r angen 2) defnydd a chyflenwad effeithlon, cyn 3) defnyddio ynni adnewyddadwy. Cytunwn hefyd y dylid defnyddio ynni adnewyddadwy lle bynnag bo hynny'n 'ymarferol ac yn hyfyw' ac y dylai fod 'yn gyson â'r angen i ymgysylltu ac ymwneud â chymunedau lleol, gwarchod mwynderau gweledol, yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol a'r dirwedd'.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
769	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS6	Cefnogi	Cefnogir yr hierarchaeth ynni'n llwyr.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
846	Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans) [2767]	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	Mae Bourne Leisure yn cefnogi datblygu cynaliadwy yn ei adeiladau, ei leoliadau cyhoeddus a'i unedau llety. Mae pob adeilad newydd, gwaith ailwampio lleoliadau presennol a fflyd y cwmni o dai gwyliau i'w llogi yn ymgorffori nifer o'r nodweddion a ddyluniwyd i	**Dim yn derbyn** Mae Paragraffau 4.11.5 a 9.1.2 yn PCC yn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni gyda datblygiad newydd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				gyflawni datblygiad cynaliadwy. Ystyrir y dylid ceisio sicrhau dylunio ac adeiladu cynaliadwy yn y lle cyntaf trwy'r Rheoliadau Adeiladu. Cynigir y dylai'r Cynllun ei gwneud yn glir y bydd angen i ddyluniad cychwynnol adeilad ystyried y gallu i gwrdd â gofynion y Rheoliadau Adeiladu yn y dyfodol. Ar sail y ffaith fod TAN22 wedi cael ei ganslo nid yw'n angenrheidiol i'r Cynllun wneud cyfeiriad at fesurau a nodweddion effeithlonrwydd ynni.	Mae'r geiriad o fewn PS6 yn ddisgwyliad fod datblygwyr wedi 'cymryd i ystyriaeth' y ffactorau sy'n lliniaru ac addasu datblygiad i effeithiau newid hinsawdd. **Argymhelliad** Dim tystiolaeth gadarn wedi ei dderbyn byddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adneuo a sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
859	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	POLISI STRATEGOL PS6	Cefnogi	Cefnogir Polisi PS6	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
1057	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	Gellid defnyddio'r asesiad ynni i wella geiriad polisïau PS6 a PCYFF4, gan eu bod fel y maen nhw, yn aneglur. Gallai'r asesiad ynni ei gwneud hi'n glir beth yn union a ddisgwylir ac ar gyfer pa fath/faint o ddatblygiad y mae'r polisïau yn ymwneud â nhw.	**Derbyn yn rhannol** Byddai cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r asesiad ynni adnewyddol ym Mholisi PS6 yn ychwanegu manylion dianghenraid i'r Polisi Strategol. Fodd bynnag, cytunir y dylid ychwanegu gwybodaeth ychwanegol ym mholisi PCYFF4. Gweler ymateb i sylw rhif 1058. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Gwybodaeth ychwanegol i'w gynnwys ym Mholisi PCYFF4. **Newid â Ffocws NF32**

PCYFF1 – Meini Prawf Datblygu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
123	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Ym mhwynt 4, mae angen seilio'r gallu i godi nifer lai o dai nid yn unig ar amgylchiadau lleol ond hefyd mae angen iddo gadw mewn cof gyfyngiadau safle megis lefelau ar safleoedd neu hawddfreintiau gwasanaethau. Ychwanegu mewn cromfachau ym mhwynt 4 ar ôl 'lleol': "neu gyfyngiadau safle".	**Derbyn** Cydnabyddir y dylid ystyried cyfyngiadau safle wrth benderfynu ar ddwysedd datblygiad. **Argymhelliad** Cynnwys cyfeiriad at gyfyngiadau safle yn y polisi er mwyn sicrhau eglurder. **Newid â Ffocws NF29**
1136	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Mae gan Horizon bryderon yn parhau bod maen prawf 3 yn cyfyngu mwy o ran lleoliad datblygiad nag y mae rhannau eraill o'r Cynllun yn ei wneud. Nodir bod Polisi PS15 yn ymwneud ddim ond efo tai, lle mae geiriad PCYFF1 yn awgrymu ei fod yn ymwneud efo	**Derbyn yn Rhannol** Cytunir y dylid adlewyrchu rhywfaint o ddisgresiwn yn y polisi. Cydnabyddir y byddai'r newid sy'n cael ei argymell yn golygu bod y Cynllun yn fwy clir a chywir.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				pob math o ddatblygiad, felly mae perygl o achosi dryswch. Nid yw maen prawf 4 yn gyson efo'r ffordd mae'r meini prawf eraill wedi'u drafftio. Gofynion meini prawf 9 a 10, sy'n cael sylw mewn rhan arall o'r Cynllun ac y gellid eu dileu o'r rhan hon. Nid ydi maen prawf 14 yn ddigon eglur.	**Argymhelliad** Defnyddio rhywfaint o ddisgresiwn ym mhwyntiau bwled 1 a 2; a diwygio pwynt bwled 14. **Newid â Ffocws NF29**
774	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Mae'r polisi yn bolisi ag iddo 14 maen prawf, a'r ddau ofyn cyntaf yw "Rhaid i gynnig gydymffurfio â holl bolisïau perthnasol y Cynllun", a "rhaid cydymffurfio â pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol". Ystyrir hyn yn dasg amhosib, oherwydd nid yw'r Polisi yn: * ystyried y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac nid yw wedi cael ei baratoi'n bositif. * caniatáu ar gyfer defnyddio'r prif ofyn cynllunio, sef y cydbwysedd o amcanion sydd yn aml yn cystadlu â'i gilydd ac yn anghyson, gan felly ystyried: pa bolisïau sydd o berthnasedd allweddol, faint o bwysau ddylid ei roi ar amcanion sy'n cystadlu â'i gilydd a sut mae'r cynnig yn cydymffurfio â "rhagdybiaeth Llywodraeth Cymru o blaid datblygiad cynaliadwy", ac * mae'n ailadrodd polisïau eraill yn y Cynllun e.e. tirwedd, priffyrdd, dylunio ayb.	**Derbyn** Cytunir y dylid adlewyrchu rhywfaint o ddisgresiwn yn y polisi. **Argymhelliad** Gweler yr ymateb i sylw 1136 uchod. **Newid â Ffocws NF29**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				Mae angen ailysgrifennu'r Polisi mewn modd sydd wedi'i baratoi'n bositif gyda rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.	
124	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Ni ddylid defnyddio'r gair 'rhaid' gan nad yw hyn yn caniatáu'r hyblygrwydd i ystyriaethau cynllunio eraill o bwys fod yn rhan o'r broses benderfynu. Mae'r gallu hwn i ystyried ystyriaethau cynllunio eraill o bwys yn rhan sylfaenol o ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol. Newid y gair 'rhaid' i 'dylid' yn y pwyntiau lle defnyddir.	**Derbyn** Cydnabyddir y dylai'r cynllun ddangos rhywfaint o hyblygrwydd a dangos rhywfaint o ddisgresiwn mewn rhai amgylchiadau. **Argymhelliad** Diwygio geiriad y polisi yn unol â'r awgrym er mwyn sicrhau cywirdeb. Gweler yr ymateb i sylw 1136 uchod. **Newid â Ffocws NF29**
171 172	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Mae'r polisi cyffredinol yn debygol o fod wedi'i anelu at ddatblygu trefol ond nid yw'n mynd i fanylion. Nid oes cydnabyddiaeth i amgylchiadau penodol cloddio mwynau a'r angen lleoliadol i gloddio am fwynau lle ceir hyd iddynt. Awgrymu hierarchaeth ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol cynigion datblygu gan nad pob un ased amgylcheddol sydd â'r un gwerth. Os caiff ei ddefnyddio'n rhy gaeth yng nghyswllt safleoedd cloddio mwynau	**Derbyn yn Rhannol** Cytuno gall fod amgylchiadau ble gellid cyfiawnhau angen lleoliad penodol ar gyfer lleoli datblygiad penodol.. Er mwyn caniatau ystyriaeth amgylchiadau o'r fath dylid diwygio maen prawf 3 o fewn polisi PCYFF1 i gynnwys cyfeiriad at angen lleoliad penodol ar

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				yna ceir risg o steryllu diangen. Dylai'r polisi ymdrechu i gyflawni amcanion y polisi. Mewn eithriadau, ni fydd rhai datblygiadau fel mwynau yn gallu cydymffurfio gyda dyheadau'r polisi ond fe ddylai'r cynlluniau hynny dal fod yn ganiataol. Awgrymu dechrau'r polisi gyda: "Ble'n briodol, dylai bob cynnig ymdrechu…"; a dileu pwyntiau 1,2 ac 8 gan eu bod yn drwsgl a dianghenraid.	gyfer cynnig. **Argymhelliad** Diwygio maen prawf 3 ym mholisi PCYFF 1. **Newid â Ffocws NF29**
307	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Dylid rhoi mwy o bwyslais ar warchod yr amgylchedd naturiol yn y polisi hwn i adlewyrchu pwysigrwydd y mater hwn trwy'r Cynllun Datblygu Lleol drwyddi draw. Ychwanegu pwynt 15: "amgylchedd naturiol"	**Dim yn Derbyn** Mae'r eglurhad i'r polisi yn nodi mai pwrpas y polisi yw codi materion nad yw'n cael eu hystyried â hwy mewn mannau eraill o'r Cynllun. Mae'r amgylchedd naturiol (fel yr amgylchedd adeiledig) yn cael sylw mewn rhannau eraill o'r Cynllun. **Argymhelliad** **Dim newid**
399	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI PCYFF1	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru yn cefnogi'r ddarpariaeth yn y polisi hwn y bydd caniatâd cynllunio'n cael ei wrthod pe bai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ac annerbyniol ar iechyd, diogelwch neu fwynder preswylwyr tai lleol, ar	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				ddefnyddiau eiddo a thir eraill neu ar nodweddion yr ardal leol oherwydd llygredd o draeniau.	
437	Rheilffordd Ucheldir Cymru (Mr Graham Farr) [254]	POLISI PCYFF1	Cefnogi	Cefnogi.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
772	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Maen prawf 4, Dwysedd Tai. Er ein bod yn cytuno y gall datblygiad dwysedd uchel fod yn effeithlon yn nhermau defnydd ti ac ati, mae'r argraff ar y dirwedd o stadau dwys o dai ar wahân yn rhywbeth estron i dirwedd draddodiadol Gogledd Cymru lle nad yw aneddleoedd wedi cael eu crynhoi'n sylweddol, heblaw am ardaloedd chwarelyddol yr 19eg ganrif. (Gweler PCYFF2) Os mai'r bwriad yw annog dwysedd, dylid gwneud hynny trwy adeiladu tai teras, yn hytrach na bocsys bach. Mae tai teras neu hyd yn oed unedau pâr yn cynhyrchu blociau adeiladu sy'n llawer mwy cymesur. Ni ddylid anghofio am werth cymdeithasol (ac economaidd) gerddi.	**Dim yn derbyn** Bydd polisïau eraill yn y Cynllun yn sicrhau y bydd unrhyw gynigion datblygu a allai, o bosibl, gael effaith andwyol ar y dirwedd yn cael eu gwrthod. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
881	Mr John Tripp [252]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Yr ucheldiroedd - llawer yn cael eu pori'n ormodol. Hoffwn weld mwy o lefydd yn cael eu hadfer yn wyrdd er mwyn atal dwr yn llifo a llifogydd. Hefyd, mae coed yn cadw Co2	**Dim yn derbyn** Byddai diwygio yn unol â'r awgrym yn ychwanegu manylion diangen at y polisi.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Fodd bynnag, cytunir y dylid ystyried yr amgylchedd naturiol. Gweler yr ymateb i sylw 307. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
1015	Gweinyddiaeth Amddiffyn (MOD Safeguarding) [1275]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Prif ystyriaeth y MOD o ran datblygiad yn Ynys Môn a Gwynedd ydi sicrhau nad ydi strwythurau, yn arbennig adeiladau uchel, yn creu rhwystr i symudiadau trafnidiaeth awyr ym maes awyr y MOD neu'n cyfaddawdu cyfleusterau/ derbynfeydd llywio hedfan yn yr ardal. Mae parthau gwarchod uchder a thechnegol y MOD ar gyfer RAF Y Fali a Môn yn ymestyn dros Ynys Môn. Mae'r ardal hefyd yn destun y parth gwarchod statudol taro adar sy'n berthnasol i RAF Y Fali a Mona. Felly os yw/ pan fydd datblygiad yn digwydd fe ddylid ymgynghori gyda MOD i sicrhau bod asesiad cywir ac effeithiol yn cael ei wneud. Nid yw Gwynedd o fewn parthau gwarchod ymgynghori statudol.	**Dim yn derbyn** Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn fel rhan o unrhyw gais cynllunio, yn arbennig pan allai'r cynnig effeithio ar weithgareddau y mae'n gyfrifol amdanynt o bosibl. Byddai cynnwys cyfeiriad at yr angen i ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen at y Cynllun. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

PCYFF2 – Dylunio a Siapio Lle

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
173 174	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	Mae'n debygol y caiff polisi cyffredinol ei anelu at ddatblygu trefol ond nid yw'n mynd i fanylion e.e. (nid pob tirwedd sydd â'r un gwerth). Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau a nodir isod. Dylai bob cynnig gael ei drin ar ei rinweddau ei hun. Fodd bynnag, os yw'r polisi hwn yn cael ei gymhwyso i safleoedd echdynnu mwynau, fe fyddai'n anodd iawn cydymffurfio ag ef. Awgrymu dechrau'r polisi gyda "Ble'n bosib…"; a diwygio pwynt 2 i ddechrau "Ble'n bosib…"	**Dim yn derbyn** Dylid ystyried datblygiadau sy'n gysylltiedig ag echdynnu mwynau o dan bolisïau eraill sydd wedi'u nodi yn y cynllun, sef Polisïau PS19, MWYN1-10. Mae'r polisi yn nodi fod rhaid cydymffurfio â'r holl feini prawf, dim ond pan fo hyn yn berthnasol. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
400	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI PCYFF2	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru'n cefnogi'r gofyn bod systemau draenio'n cael eu dylunio i gyfyngu ar ddŵr wyneb yn llifo oddi ar y wyneb a pherygl llifogydd ac atal llygredd.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
436	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	POLISI PCYFF2	Cefnogi	Cefnogi.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Dim newid
775	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	Maen prawf 1 - Pa mor ymarferol fydd hi i brofi 'gwella' yn ogystal a gweddu. Pryd fydd hi'n briodol ei fod yn 'berthnasol'.	**Dim yn derbyn** Ystyrir y gall cynigion gyfrannu at gymeriad safle yn ogystal â gwella cymeriad safle. Tra bo dyluniad a 'gwneud lle' yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau esthetig a dylid ei fod yn brif amcan bob datblygiad, mae'r Polisi'n adnabod na fydd bob maen prawf yn berthnasol ar gyfer pob math o ddatblygiadau e.e. bydd blaenau actif ar lefel llawr daear yn fwy perthnasol i ddatblygiad wedi ei leoli yng nghanol trefi. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
776	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	5,9,11,12 Y defnydd o jargon dylunio - 'Diogelu trwy ddylunio.. dylunio cynhwysol.. hawdd i'w ddeall.. wyneb bywiog' - efallai nad yw'r ystyron yn ddealladwy i'r darllenwr lleyg; dylech aralleirio, darparu testun eglurhaol neu restr	**Derbyn yn rhannol** Ail-edrych ar y testun a darparu eglurhad ble'n ofynnol e.e. Dylid diffinio Diogelwyd trwy Ddyluniad a'i gynnwys yn yr eirfa er

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				termau.	mwyn bod yn fwy clir. **Argymhelliad** Diwygio'r Rhestr Termau i gynnwys testun ychwanegol. **Newid â Ffocws NF111**
778	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	Mae'n rhaid bod maen prawf 7ii yn golygu DIM yn gwahardd defnydd rhesymol o dir cyfagos.	**Derbyn** Cytunir nad yw eithrio datblygiad rhesymol tir cyfagos arall oherwydd gosodiad neu ffurf y datblygiad yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. **Argymhelliad** Ail-eirio'r pwynt bwled. **Newid â Ffocws NF30**
943	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	Credir y dylai fod cyfeiriad penodol at ddylunio safonol sy'n gweddu i'r cyd-destun yn yr AHNE.	**Dim yn derbyn** Mae nodweddion arbennig tirwedd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Ardal y Cynllun wedi'u gwarchod o dan Bolisi Strategol PS16 a deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a amlinellir yn nhabl 23. Fodd bynnag,

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					ystyrir byddai Polisi CYFF3 yn elwa gyda chyfeiriad at “neu asesiadau manwl eraill sydd wedi eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol “er mwyn adlewyrchu cyhoeddiad asesiad o nodweddion a all fod yn benodol i’r AHNE, a fyddai’n ystyriaethau cynllunio materol. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid i bolisi PCYFF2. Diwygio Polisi PCYFF3 fel y cyfeirir uchod. **Newid â Ffocws NF31**
1425	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisïau Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:- * Adeiladau amaethyddol newydd sy'n addas ar gyfer amaethu cyfoes wedi ystyried eu graddfa, lleoliad, dyluniad a'r deunyddiau lleihau'r effaith weledol ar y dirwedd * Lle mae'n bosib dylai adeiladau newydd yn cael eu grwpio gydag unrhyw adeiladau presennol er mwyn lleihau eu heffaith weledol	**Dim yn derbyn** Ystyrir fod y materion y mae’r gwrthwynebydd yn eu codi wedi derbyn sylw mewn polisïau eraill yn y Cynllun. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw’r gwrthwynebydd. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				ar y dirwedd. Fodd bynnag, dylai adeiladau ynysig cael eu caniatáu lle mae eu lleoliad yn hanfodol i'r gweithgaredd amaethyddol sy'n cael ei wneud lle nad ydynt yn cael eu lleoli mewn man amlwg	
779	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	7.2.9	Cefnogi	Byddwn yn cytuno na ddylai agosrwydd at ddatblygiad gwael gyfiawnhau datblygiad newydd o safon wael.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
780	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	7.2.10	Gwrthwynebu	Mae hyn yn awgrymu na fydd angen Datganiad Dylunio a Mynediad ar rai cynigion - eglurwch pa rai a beth sydd ei angen yn ei le.	**Dim yn derbyn** Byddai cynnwys gwybodaeth ynghylch ym mha amgylchiadau y byddai gofyn cael datganiad Dylunio a Mynediad yn ychwanegu manylion diangen at y Cynllun. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

PCYFF3 – Dylunio a Thirweddu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
175 176	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI PCYFF3	Gwrthwynebu	Mae'n debygol y caiff y polisi cyffredinol ei anelu at ddatblygu trefol ond nid yw'n mynd i fanylion e.e. (nid pob tirwedd sydd â'r un gwerth). Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu'r newidiadau a nodir isod. Ni ddylai echdyniad mwynau gael ei gynnwys yn y polisi hwn ac awgrymir diwygio'r geiriad i gychwyn: "Ble'n bosib, ac mewn cytundeb â pholisiau eraill yn y cynllun…"	**Dim yn derbyn** Rhoddir ystyriaeth i effeithiau cynlluniau penodol, gyda thirlunio i liniaru unrhyw effeithiau, fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. O ran safleoedd cloddio mwynau, lle na ellir tirlunio, rhoddir ystyriaeth i raglen adfer safle mewn perthynas ag unrhyw effaith gweledol byrdymor o'r datblygiad. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
781	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF3	Gwrthwynebu	Rydym yn cytuno gyda'r amcanion, ond mae gennym bryderon am y gallu i fonitro a gorfodi cynlluniau tirweddu ac amcanion mewn gwirionedd.	**Nodi'r sylw** **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
773	Ymgyrch Diogelu	POLISI	Gwrthwynebu	Maen Prawf 1 Nid ydym wedi gallu dod o hyd i'r	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	PCYFF3		Asesiad Cymeriad Morlun manwl.	**Dim yn derbyn** Mae gwybodaeth ynghylch Asesiadau Ardal Cymeriad y Forwedd ar gael yn y Cyngor. **Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**

PCYFF4 – Rheoli Carbon

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
81	Adran Cynllunio a Thai, Cyngor Sir Ddinbych (Angela Loftus) [2719]	POLISI PCYFF4	Cefnogi	Cefnogi'r polisi manwl a phosib hwn.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
385	Cyfeillion y Ddaear Môn a Gwynedd (Mr Richard Mills) [2937]	POLISI PCYFF4	Gwrthwynebu	Mae'n ymddangos bod yna fethiant i adnabod unrhyw safleoedd strategol lle dylai mesurau effeithlonrwydd ynni ragori ar safonau adeiladu safonol. Mae Polisi Cynllunio Cymru, cyfrol 5, para 6.6 a 6.7 yn berthnasol yn hyn o beth, yn ogystal â llythyr gan Carl Sargeant, dyddiedig 5	**Dim yn derbyn** Nid oes safle strategol wedi'i ddynodi yn y Cynllun. Felly, nid oes angen rhoi sylw i fesur effeithlonrwydd ynni yn hyn o beth.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				Mehefin 2014, sy'n dweud y dylai ACLl wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol barhau i asesu eu safleoedd strategol i adnabod cyfleoedd i gael safonau uwch na beth sydd eu hangen o dan reoliadau (adeiladu cynaliadwy). Rydym felly yn ystyried nad yw'r CDLl ar y Cyd Adnau yn cyd fynd a phrofion cadernid C2 a CE2 o ran tai/ effeithlonrwydd ynni.	**Argymhelliad** Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. **Dim newid**
438	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	POLISI PCYFF4	Cefnogi	Mae Cyngor Tref Ffestiniog yn cefnogi'r polisi pwysig yma am reoli carbon. Dylid cefnogi cynlluniau cyffrous i greu tai a chyfleusterau sydd yn ateb anghenion y dyfodol.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
453	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI PCYFF4	Gwrthwynebu	Mae Bourne Leisure yn nodi y dylia cael dyluniad ac adeiladu cynaliadwy yn bennaf trwy Reolaeth Adeiladu. Serch hynny, mae'r cwmni hefyd yn nodi y dylia dyluniad cynnar adeilad yn y cyfnod cynllunio ystyried y gallu i gyrraedd gofynion Rheolaeth Adeiladu yn y dyfodol. Dylia'r pwynt yma gael ei osod yn y CDLl i sicrhau na fydd yna unrhyw gamddealltwriaeth. Felly, nid oes angen i CDLl wneud cyfeiriad i nodweddion a mesurau effeithlonrwydd ynni.	**Dim yn Derbyn** Tra bo'r Rheoliadau Adeiladu yn chwarae rôl arwyddocaol wrth sicrhau fod dyluniad ac adeiladwaith datblygiadau newydd yn gynaladwy, mae gan y system gynllunio rôl wrth wireddu datblygiad cynaladwy. **Argymhelliad** **Dim newid**
1058	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI PCYFF4	Gwrthwynebu	Gellid defnyddio'r asesiad ynni i wella geiriad polisïau PS6 a PCYFF4, gan eu bod fel y maen nhw, yn aneglur. Gallai'r	**Derbyn** Cytunwn gyda'r sylw a dylid diwygio'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				asesiad ynni ei gwneud hi'n glir beth yn union a ddisgwylir ac ar gyfer pa fath/faint o ddatblygiad y mae'r polisïau yn ymwneud â nhw.	testun yn unol. Mae'r geiriad ychwanegol yn ychwanegu gwerth i'r polisi. **Argymhelliad** Ychwanegu'r frawddeg ganlynol i'r polisi i sicrhau eglurder bellach: "Gall asesiad ynni helpu i adnabod yr opsiynau rheoli carbon mwyaf priodol ar gyfer datblygiad a dylid ymgymryd ag ef cyn penderfynu ar y dull fwyaf addas i'w gymryd. Rhestrir yr opsiynau posib ar gyfer effeithlonrwydd ynni a chynhyrchiad ynni adnewyddadwy isod:" **Newid â Ffocws NF32**
1137	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI PCYFF4	Gwrthwynebu	Nid ydi'n eglur pa ofyn mae'r polisi yma'n ei osod ar ddatblygwyr o ran y "Dewisiadau Posibl". Er enghraifft, a oes angen ystyried pob dewis a gweithredu o leiaf un, ynte a ydi'n dderbyniol i beidio gweithredu unrhyw un o'r dewisiadau os bydd tystiolaeth i ddangos nad ydi unrhyw un o'r dewisiadau'n ymarferol? Byddai'n fuddiol ail eirio'r polisi hwn er mwyn dangos y rhwymedigaeth(au) penodol yn fwy eglur.	**Dim yn derbyn** Dim yn cytuno gyda'r sylw. Mae'r Dewisiadau Posibl yn ddewisiadau posib i ymgeiswyr, nid ymrwymiadau. Mae lefel effeithlonrwydd sydd ei angen mewn datblygiad newydd wedi ei osod gan y Rheoliadau Adeiladu. Pwrpas y polisi yw i osod paramedrau o ran pa fesurau rheoli carbon sydd yn debygol o

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					fod yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. **Argymhelliad** **Dim newid**

PCYFF5 – Cadwraeth Dŵr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
401	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI PCYFF5	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru'n cefnogi'r gofyn y dylai cynigion ymgorffori mesurau cadwraeth dŵr lle bo'n ymarferol, gan gynnwys Systemau Traeniau Trefol Cynaliadwy. Mae mynd i'r afael â dŵr wyneb yn y man mae'n tarddu yn elfen hanfodol o ddatblygu cynaliadwy a bydd yn mynd yn bell iawn i liniaru yn erbyn carthffosydd sydd wedi gorlwytho a all, yn y pen draw, arwain at lifogydd. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ategu'r rhwymedigaethau i ddatblygwyr ymgorffori systemau draenio cynaliadwy fel rhan o'u datblygiadau.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Technoleg Adnewyddol

PS7 – Technoleg Adnewyddadwy

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1080	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.2.23	Gwrthwynebu	Mae'n cyfeirio at Ddatganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru (2010). Mae bellach wedi'i ddisodli gan Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012).	**Derbyn –** cytuno i newid y cyfeiriad tuag at y ddogfen newydd briodol i sicrhau cywirdeb yn y Cynllun. **Argymhelliad** Newid paragraff 7.2.23 i gyfeirio tuag at ddogfen Ynni Cymru 2012. **Newid Bychan NB4**
180, 181	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI PS7	Gwrthwynebu	Ystyrir bod y polisi hwn yn ailadrodd y polisi cenedlaethol (e.e. nid pob tirwedd sydd â'r un gwerth). Mae'r polisi'n rhy gaeth ac nid yw'n gadarnhaol o ran technolegau ynni adnewyddadwy ar safleoedd cloddio mwynau cyfredol neu yng nghyswllt tir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio.	**Dim yn derbyn –** mae'r ardal efo asedau amgylcheddol hynod o arbennig, sydd wedi'u cydnabod a'u dynodi'n genedlaethol a rhyngwladol. Oherwydd hyn mae'r ardal yn denu nifer fawr o dwristiaid / ymwelwyr sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol. Tra bod polisïau Ynni Adnewyddol yn hybu mentrau technoleg adnewyddadwy neu garbon isel mae'n bwysig nad yw datblygiadau o'r fath yn cyfaddawdu amcanion dynodiadau tirwedd neu fioamrywiaeth yn yr ardal. Mae polisi ADN1 'Ynni Gwynt ar y Tir' yn cyfeirio tuag at ffermydd / tyrbinau gwynt raddfa ganolig (5MW i 25MW) ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol a fuasai yn gallu cynnwys safleoedd cloddio mwynau. Ar gyfer unrhyw fath arall o ynni adnewyddol mae polisi ADN2 yn gallu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					cefnogi cynigion ar raddfa fawr mewn amgylchiadau eithriadol ble gellid cyfiawnhau angen holl bwysig am y cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
607	Mr Paul Madden [3032]	POLISI PS7	Gwrthwynebu	Nid oes unrhyw sôn am warchod mwynderau i dwristiaid / ymwelwyr. Twristiaeth yw'r diwydiant pwysicaf ar Ynys Môn ac felly dylid ei ddiogelu. Newid meini prawf (i) a (iii) drwy ychwanegu 'twristiaeth' at y cyfeiriad at fwynderau preswyl'. Newid maen prawf (ii) i ddarllen "ii. nad yw cyfarpar mewn ardaloedd sy'n destun dynodiadau cadwraeth natur ryngwladol, genedlaethol a lleol yn unol â PS16 yn cyfaddawdu amcanion y dynodiadau un ai'n unigol neu'n gronnus."	**Derbyn yn rhannol -** nid oes tystiolaeth gadarn wedi cael ei gyhoeddi sydd yn dangos effaith arwyddocaol ar dwristiaeth mewn ardal oherwydd effaith tyrbinau gwynt. Ceir cyhoeddiad ar safle we Llywodraeth Cymru sydd yn cyfeirio tuag at 'Effaith Economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth' (Chwefror 2014) oedd yn dod i'r casgliad mae prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n profi fod ffermydd gwynt yn cael effaith ar dwristiaeth Cymru. Buasai asesiad o unrhyw gais am dyrbin yn asesu ei effaith ar unrhyw adeilad yn y cyffiniau bod hyn yn un preswyl neu dwristiaeth. Mae'r sail tystiolaeth cyflogaeth y Cynllun yn amlinellu pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth o fewn ardal y Cynllun a bod y diwydiant efo nifer o wahanol gyfleusterau ar draws cefn gwlad ardal y Cynllun. Yng ngoleuni hyn ac er mwyn sicrhau cysondeb

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					gyda Pholisi Strategol PS11 (Yr Economi Ymwelwyr) fe argymhellir bod cymal (i) a (iii) yn cael ei newid i ddarllen amwynder preswyl neu dai a ddefnyddir gan ymwelwyr. Credir bod geirfa maen prawf (ii) fel y maent yn bresennol yn addas a ni dderbynnir y cynnig gan y gwrthwynebydd. **Argymhelliad** Bod cymal (i) a (iii) yn cael ei ddiwygio trwy gynnwys cyfeiriad i amwynder tai a ddefnyddir gan ymwelwyr. **Newid a Ffocws NF34**
662	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PS7	Cefnogi	Rydym hefyd yn cefnogi'r egwyddorion yn PS7 sy'n disgrifio na ddylai cyfarpar ynni adnewyddadwy yn unigol neu gyda'i gilydd gyfaddawdu amcanion ardaloedd dynodedig lle caiff y dirwedd ei gwarchod, yn cynnwys ardaloedd 'sydd i'w gweld tu draw i'w ffiniau', ac 'yn enwedig o ran cymeriad y dirwedd, bioamrywiaeth neu amwynder preswyl'.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
765	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS7	Gwrthwynebu	Mae PS3 yn datgan yng nghyd-destun isadeiledd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, 'i leihau effaith weledol gwifrau newydd uwchben sy'n gysylltiedig â datblygiadau, yn enwedig mewn mannau sensitif, fe ddylid eu gosod dan ddaear'. Dylai hyn hefyd fod yn berthnasol i geblau	**Derbyn –** fel mae'r gwrthwynebydd yn ei nodi mae yna gymal wedi ei gynnwys ym mholisi PS3 i hybu gosod gwifrau newydd tan ddaear i leihau eu heffaith gweledol. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Cynllun Adnau. Tra bod yna achosion pan nad oes angen caniatâd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				trosglwyddo trydan, yn enwedig mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy newydd, lle mae'n arbennig o bwysig lleihau'r effaith weledol ar y dirwedd. Yn fwy na hyn, mae angen sefydlu'n glir y goblygiadau llwytho cronnus posib i brosiectau newydd yng nghyd-destun capasiti'r llinellau trosglwyddo sy'n bodoli, er mwyn osgoi unrhyw angen nas ragwelwyd i uwchraddio'r llinellau uwchben yn nes ymlaen gyda'r risg o effaith weledol andwyol o ganlyniad. Nid yw'n ddigon gadael y materion hyn yn nwylo Gweithredwr Rhwydwaith yr Ardal.	cynllunio ar gyfer gosod gwifrau credir bod cyflwyno'r egwyddor yma o fewn polisi PS7 yn rhoi cyfle i'r Cynghorau ofyn am hyn er mwyn lleihau effaith gweledol isadeiledd newydd i wasanaethu datblygiadau ynni adnewyddol, yn ddarostyngedig i ystyriaethau cydnabyddedig eraill a hyfywdra'r cynllun. **Argymhelliad** Ychwanegu cymal i bolisi PS7 i gyfeirio tuag at osod gwifrau newydd tan ddaear. **Newid a Ffocws NF34**
1420	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI PS7	Gwrthwynebu	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisïau Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:- * Byddai'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, sy'n briodol o ran graddfa a dyluniad i'w leoliad.	**Dim y derbyn –** credir bod y polisi presennol y cefnogi datblygiadau ynni adnewyddol sydd briodol o ran maint a dyluniad i'w lleoliad. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

ADN1 – Ynni Gwynt ar Tir

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
71	Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Mae Cyngor Tref Nefyn yn gadarn o'r farn bod angen glynu wrth bolisi C26 parthed maint tyrbinau gwynt yn AHNE Llyn, ac ni ddylid caniatáu cynnydd ym maint tyrbinau gwynt yno.	**Dim yn derbyn –** mae astudiaeth 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau' (2014) yn asesu addasrwydd gwahanol fathau o deipoleg tyrbinau mewn gwahanol ardaloedd yn ardal y Cynllun. Canfyddiadau'r gwaith yma oedd y gellid cefnogi bwriadau raddfa ddomestig (hyd at 15m i'r llafn) yn yr AHNE cyn belled a bod y meini prawf (i) i (vii) yn cael eu bodloni. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
74	Mr David Coucill [2629]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Nid oes modd ystyried tyrbinau gwynt sy'n mesur 50m i bigyn y tyrbin fel tyrbinau bychain. Mae hyn yn arbennig o wir yn nhirwedd gymharol wastad Môn lle mae modd gweld strwythur 50m, uchder adeilad wyth llawr, o filltiroedd i ffwrdd. Ar ôl ymgynghoriad lle cymerodd bron i 10% o boblogaeth Môn ran, mabwysiadodd Cyngor Sir Môn bellter sylfaenol o 20 gwaith uchder y brig rhwng y tyrbinau ac eiddo domestig. Mae hyn wedi'i anwybyddu'n llwyr.	**Dim yn derbyn -** Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is ardaloedd o fewn ardal y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Caiff effaith sŵn tyrbin gwynt ar eiddo cyfagos ei anwybyddu yn adroddiad Gillespies er y caiff ei chydnabod yn broblem mewn ardaloedd eraill e.e. Dyfnaint. Ni ddylid anwybyddu'r CCA ar drybini gwynt gafodd ei fabwysiadu gan Gyngor Môn ar ôl ymgynghoriad eang, yn hytrach fe ddylid ei ymgorffori o fewn y Cynllun Adnau.	Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLl ar y cyd. Canllaw i bolisïau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLl yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisïau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLl ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi. Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisïau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion. Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos. Mae'r gwrthwynebydd yn cyfeirio tuag at nifer o esiamplau ble mae effaith sŵn o dyrbinau gwynt ar dai cyfagos fel rheswm ar gyfer cyflwyno pellteroedd gwahanu. Safbwynt Llywodraeth Cymru (LlC) ym mholisi cynllunio Cymru a TAN 8 yw y dylid defnyddio ESTU-R-97 i asesu effaith sŵn unrhyw ddatblygiad (gan gynnwys unrhyw effaith gronnol) ar dai cyfagos. Mae llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2015 gan LlC sydd yn benodol yn cyfeirio tuag at TAN 11 yn sôn am ESTU-R-97 ar chwe nodyn canllaw ategol sydd wedi ei chyhoeddi i gefnogi'r canllaw a bod gwaith pellach ar fodyliad osgled yn cymryd lle ar hyn o bryd. Fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r Cynllun cafwyd gwaith ar 'Tyrbinau Gwynt a Pheilonau - Canllaw a'r Gymhwyso Pellteroedd Gwahanu oddi wrth eiddo Preswyl (2014). Canfyddiadau'r gwaith yma oedd nad oes tystiolaeth derfynol i gefnogi cymhwyso'r isafswm pellteroedd gwahanu rhwng eiddo preswyl a thyrbinau gwynt neu beilonau o ran mwynder preswyl gweledol. Am y rheswm hwn, argymhellwyd y dylid ystyried pob datblygiad arfaethedig ar ei rinweddau ei hun ar sail achos wrth achos. Er nad argymhellir pellteroedd gwahanu llym, ystyrir bod y defnydd o bellteroedd dangosol i gychwyn asesiad mwynder gweledol preswyl (o fewn hyn mae

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					posibilrwydd y ceir ardrawiadau gweledol ar raddfa fawr iawn), yn declyn gwerthfawr i adnabod unrhyw leoliadau ble y dylid ymgymryd ag asesiad mwynder gweledol preswyl i nodi'r ardrawiadau annerbyniol posib o ran mwynder gweledol preswyl. Mae hwn wedi ei gynnwys o fewn yr eglurhad i bolisi ADN 1. Nid yw'r gwrthwynebwr wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau cynnwys pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau a thai ac felly ni argymhellir newid i'r polisi ar gyfer hyn. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
75	Mrs Carolyn Williams [2721]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Rwyf yn gwrthwynebu Polisi ADN1. Mae'r rhan fwyaf o Wynedd wedi'i gwarchod rhag datblygiadau trwy fod yn Barc Cenedlaethol (Eryri) neu'n Ardal Tirwedd Arbennig (Penrhyn Llŷn). Dim ond Môn sy'n agored i gael ei cham-drin ar draws ardal helaeth. Fe ddaru 8000 o drigolion yr Ynys arwyddo deiseb yn 2012 yn galw am bellteroedd gwahanu o 1.5km rhwng tyrbeini masnachol a thai a mae hyn	**Dim yn derbyn –**Bydd rhaid ystyried pob bwriad cais wrth gais er mwyn gallu rhoi sylw i'r ffactorau sy'n berthnasol i'r bwriad. Gall effaith gronnol bod yn ffactor bwysig mewn rhai ardaloedd ym Môn ble mae datblygiadau presennol wedi cael eu datblygu neu dderbyn caniatâd. Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLl ar y cyd. Canllaw i bolisïau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ynghyd ar CCA a gafodd ymgynghoriad trwyadl wedi cael ei daflu allan. Rwyf yn gwrthod y polisi ynni gwynt fel mae wedi cael ei gyflwyno yn y cynllun anddemocrataidd ac anghynaladwy yma. Dylid cadw'r pellter gwahanu o 1.5km ar CCA ar ynni gwynt ar y tir. Dim mwy o dyrbeini 50m (mawr). Dylai Cynghorwyr Môn wrando a chefnogi eu cymunedau lleol, a gwrthod y polisi ynni gwynt drafft yma. Ni yw'r cymunedau wedi cael eu hymgynghori nac wedi cytuno i fod yn ynys ynni.	Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLl yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisïau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLl ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi. Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisïau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion. Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael ei phenderfynu yn lleol achos wrth achos. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
99	Mr Nigel Ayliffe [2639]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	1. Pellter o Eiddo Preswyl. Bu ymgynghori eang ar y pwynt hwn gyda'r cyhoedd a'r Cynghorwyr hefyd wrth ddrafftio a chytuno ar y Canllaw Cynllunio Atodol. Er gwaethaf y dystiolaeth hon o ewyllys y bobl nid yw wedi'i gynnwys yn y Cynllun uchod. Ni ddylid ei anwybyddu. Dylid rhoi'r lleiafswm pellteroedd a gytunwyd i mewn. 2. Ail-bweru tyrbinau/ffermydd gwynt sy'n bodoli. Dylai'r ystyriaethau cynllunio ar gyfer y rhain fod yr un fath ag ydynt i dyrbinau newydd arfaethedig, neu bydd y difrod a wnaed eisoes i gefn gwlad ac atyniadau i dwristiaid yn cael eu gwaethygu gan y tyrbinau newydd llawer mwy.	**Dim yn derbyn -** Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLl ar y cyd. Canllaw i bolisïau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLl yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisïau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLl ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi. Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisïau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion. Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael ei phenderfynu yn lleol achos wrth achos. Mae'r gefnogaeth i ffermydd / tyrbinau gwynt ar raddfa ganolig o fewn safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol yn adlewyrchu'r cyfarwyddyd o fewn paragraffau 2.11 i 2.14 yn TAN 8. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
100	Mr Christopher Marjot [2624]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	1. Gwrthwynebu categoreiddio tyrbinau gwynt 50m fel rhai 'bach', ymddengys bod hyn yn seiliedig ar yr allbwn pŵer yn hytrach na'r uchder. Mae'r effaith amgylcheddol a'r effaith ar fwynderau yn cyfateb yn uniongyrchol i uchder y tyrbin gwynt, nid yr allbwn pŵer . Nid yw tyrbinau 50m yn 'fach' mewn perthynas â maint yr aneddiadau a'r amgylchedd lleol. Dylid ailddiffinio'r dosbarthiad i adlewyrchu'n gywir eu graddfa mewn	**Dim yn derbyn -** Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				perthynas ag aneddiadau a'r amgylchedd lleol. 2. Roedd CCA Môn ar 'Ynni Gwynt ar y Tir' yn argymell pellteroedd llawer mwy rhesymol rhwng aneddiadau a thyrbinau gwynt. Dylai'r CDLl ar y Cyd gydymffurfio â phellteroedd gwahanu'r CCA.	gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is ardaloedd o fewn ardal y Cynllun. Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael ei phenderfynu yn lleol achos wrth achos. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
131	Mr Mark Edwards [2769]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Profwyd bod tyrbinau gwynt yn cadw twristiaid draw. Mae Gogledd-orllewin Cymru yn hynod ddibynnol ar y busnes a roddir gan ei ymwelwyr. O'r herwydd,	**Dim yn derbyn -** Nid oes tystiolaeth gadarn wedi cael ei gyhoeddi sydd yn dangos effaith arwyddocaol ar dwristiaeth mewn ardal oherwydd effaith tyrbinau gwynt. Ceir cyhoeddiad ar safle we LlC sydd yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				dylid diystyru unrhyw beth ac eithrio tyrbinau graddfa ficro. Mae diffinio "tyrbin gwynt bychan" fel un hyd at uchder o oddeutu 50m yn gamgymeriad mawr. Mae hyn oddeutu deg gwaith uchder crib bwthyn traddodiadol. Mae pellteroedd oddi wrth dai yn nhabl 14 oddeutu 50% o'r hyn sy'n rhesymol. Mae'r geiriau "niwed sylfaenol" yng nghymalau iii ac i y meini prawf cydymffurfio'n methu dangos digon o barch ac ystyriaeth at anghenion trigolion lleol ac mae angen eu diwygio. Ar gyfer cyfyngu i dyrbinau micro a domestig angen newid eitemau 1, 2 a 3. Angen newid tabl 13 i roi categorïau uchderau realistig. Angen dyblu'r pellteroedd yn nhabl 14. Geirfa newydd ar gyfer meini prawf iii. a iv. wedi ei gynnig.	cyfeirio tuag at 'Effaith Economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth' (Chwefror 2014) oedd yn dod i'r casgliad mae prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n profi fod ffermydd gwynt yn cael effaith ar dwristiaeth Cymru. Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun. Fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r Cynllun cafwyd gwaith ar 'Tyrbinau Gwynt a Pheilonau - Canllaw a'r Gymhwyso Pellteroedd Gwahanu oddi wrth eiddo Preswyl (2014). Canfyddiadau'r gwaith yma oedd nad oes tystiolaeth derfynol i gefnogi cymhwyso'r isafswm pellteroedd gwahanu rhwng eiddo preswyl a thyrbinau gwynt neu beilonau o ran mwynder preswyl gweledol. Am y rheswm hwn, argymhellwyd y dylid ystyried pob datblygiad arfaethedig ar ei rinweddau ei hun ar sail achos wrth achos. Er nad argymhellir pellteroedd gwahanu llym, ystyrir bod y defnydd o bellteroedd dangosol i gychwyn asesiad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					mwynder gweledol preswyl (o fewn hyn mae posibilrwydd y ceir ardrawiadau gweledol ar raddfa fawr iawn), yn declyn gwerthfawr i adnabod unrhyw leoliadau ble y dylid ymgymryd ag asesiad mwynder gweledol preswyl i nodi'r ardrawiadau annerbyniol posib o ran mwynder gweledol preswyl. Mae hwn wedi ei gynnwys o fewn yr eglurhad i bolisi ADN 1. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
166	Mr DAVID THOMAS [2775]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Wedi ymgynghoriad sylweddol ceir Canllawiau Cynllunio Atodol y cytunwyd arnynt a'u derbyn ond nid yw'n ymddangos y gweithredir arnynt yn y Cynllun Adnau. Pam? Dylai pellter sylfaenol oddi wrth adeiladau preswyl fod wedi'i nodi. Beth sydd nawr i rwystro rhagor o dyrbinau rhag cael eu codi ar draws Ynys Môn? Yn fy marn i, mae'r ynys eisoes wedi'i llwytho â thyrbinau gwynt a bydd mwy yn difetha ei chymeriad a'i hatyniad i dwristiaid ddod i ymweld. Mabwysiadu'r ddarpariaeth sydd yn y CCA. Pellter o leiaf 1.5km rhwng tŷ a	**Dim yn derbyn -** Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLl ar y cyd. Canllaw i bolisïau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLl yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisïau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLl ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi. Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisïau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				thyrbin.	Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael ei phenderfynu yn lleol achos wrth achos. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
177, 194	Rod Dixon [2774] Mrs Irene Stott [2780]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	ADN1 pwynt 2. Dylai hwn gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ar y Tir y ddau Gyngor - canllawiau y cytunwyd arnynt - sy'n nodi na fydd uchder y pigyn	**Dim yn derbyn -** Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLl ar y cyd. Canllaw i bolisïau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ar gyfer meintiau dynodedig y tyrbinau yn ddim uwch na: micro - 11m; bychan - 20m; canolig - 65m; mawr - 135m. Cafodd y cynghorau sicrwydd y câi'r rhain eu trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu Lleol. Nid ydynt wedi'u trosglwyddo ac mae'r categorïau newydd yn llawer uwch na'r rhai gwreiddiol. Defnyddio'r hen feintiau sydd eisoes wedi eu cytuno.	arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLl yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisïau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLl ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi. Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisïau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion. Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
201	Kingsbridge Caravan Park (Mr Andrew Bate) [2778]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Dylai tyrbinau gwynt ar y tir ym Môn gael eu cyfyngu i ddefnydd 'domestig' a'u gosod ger yr annedd gysylltiedig. Byddai toreth o beiriannau mwy o amgylch yr ynys yn cael effaith negyddol ar y dirwedd a gallent beri i ymwelwyr geisio lleoliadau eraill, llai diwydiannol. Ceir effaith weledol sylweddol andwyol gyda chodi llinellau trosglwyddo ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gallu i greu trydan ychwanegol o Wylfa B. Bydd y gallu i greu trydan o ffermydd gwynt arfaethedig yn y môr a Wylfa B yn troi'r fantol yn gryf yn erbyn yr hyn y gellid ei greu ar y tir felly'n diogelu'r dirwedd o 'gefn gwlad ac arfordir nad ydynt wedi'u difethaf' fel y tynnir sylw ato yn y Cyflwyniad ar yr Economi Ymwelwyr. Cyfyngu maint trybini gwynt ar y tir i'r raddfa "Domestig"	**Dim yn derbyn -** Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun. Nid oes yna sail tystiolaeth wedi ei gyflwyno gan y gwrthwynebydd i gyfiawnhau cyfyngu datblygiad i raddfa ddomestig yn unig drwy ardal y Cynllun. Nid oes tystiolaeth gadarn wedi cael ei gyhoeddi sydd yn dangos effaith arwyddocaol ar dwristiaeth mewn ardal oherwydd effaith tyrbinau gwynt. Ceir cyhoeddiad ar safle we LlC sydd yn cyfeirio tuag at 'Effaith Economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth' (Chwefror 2014) oedd yn dod i'r casgliad mae prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n profi fod ffermydd gwynt yn cael effaith ar dwristiaeth Cymru. Mae cymal (vi) yn y polisi yn cyfeirio tuag at effeithiau cronnus sydd yn cynnwys unrhyw nodweddion amlwg arall yn y dirwedd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
299	Mr Owain Evans [2837]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Yn 2012/13 casglodd Cyngor Môn ynghyd Ganllawiau Cynllunio Atodol, ymgynghori yn eu cylch a chytuno arnynt. Roedd y Canllawiau hyn yn nodi'n benodol derfynau penodol ar dwf tyrbinau gwynt. Mae'r Cynllun Adnau hwn yn anwybyddu'r penderfyniadau hynny'n llwyr. 'Rwyf eisiau gweld cynnwys y CCA yn nhermau tyrbeini gwynt i oresgyn beth sydd yn y cynllun.	**Dim yn derbyn -** Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLl ar y cyd. Canllaw i bolisïau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLl yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisïau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLl ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi. Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisïau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
305	Mr Barry Roberts	POLISI	Gwrthwynebu	Rwyf yn gwrthwynebu'r cynllun gan ei	**Dim yn derbyn -** Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[2878]	ADN1		fod yn dosbarthu tyrbinau gwynt hyd at 3, 50 metr yn rhai ar raddfa fach. At hyn, mae'r cynllun yn nodi fod y rhan fwyaf o Wynedd wedi'i gwarchod rhag datblygiadau trwy fod yn Barc Cenedlaethol (Eryri) neu'n Ardal Tirwedd Arbennig (Penrhyn Llŷn). Dim ond Môn sy'n agored i gael ei cham-drin ar raddfa eang, a bydd hyn yn digwydd. Bu cytundeb y byddai cynllunwyr a chynghorwyr Môn yn ystyried pellter sylfaenol unwaith y câi Canllawiau Cynllunio Atodol 2013 eu mabwysiadu yn sgil deiseb wedi'i llofnodi gan 8,000 o bobl yn mynnu pellter sylfaenol. Unwaith eto mae pellter sylfaenol wedi'i anwybyddu. Dyna i chi werth ddemocratiaeth!	polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun. Bydd rhaid ystyried pob bwriad cais wrth gais er mwyn gallu rhoi sylw i'r ffactorau sy'n berthnasol i'r bwriad. Gall effaith gronnol bod yn factor bwysig mewn rhai ardaloedd ym Môn ble mae datblygiadau presennol wedi cael eu datblygu neu dderbyn caniatâd. Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
312	Cyfeillion Llŷn (Mrs Sian Parri) [2871]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Gwahardd tyrbinau yn yr AHNE Dim tyrbin uwch na 11.1 yn y ATA a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Gwrando ar gyngor Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE sydd yn ystyried fod yn rhaid cadw at yr uchod er mwyn cyd-fynd ar ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor o dan y ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000	**Dim yn derbyn –** mae sail tystiolaeth i'r Cynllun Adnau o fewn astudiaeth 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau' (2014) yn asesu addasrwydd gwahanol fathau o deipoleg tyrbinau mewn gwahanol ardaloedd yn ardal y Cynllun. Canfyddiadau'r gwaith yma oedd y gellid cefnogi bwriadau raddfa ddomestig (hyd at 15m i'r llafn) yn yr AHNE ac ATA cyn belled a bod y meini prawf (i) i (vii) yn cael ei bodloni. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
388	Mon a Gwynedd Friends of the Earth (Mr Richard Mills)	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Ymddengys fod ADN1 a'r meini prawf yn nhabl cysylltiedig 13 yn cyfyngu nifer o ddatblygiadau ynni gwynt sy'n llai na	**Dim yn derbyn –** mae sail tystiolaeth i'r Cynllun Adnau o fewn astudiaeth 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau (2014) yn asesu addasrwydd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[2937]			5MW i Ardaloedd Chwilio Strategol a safleoedd gwledig/diwydiant, tir llwyd. Byddai hyn yn groes i NCT8 sy'n nodi, "...the Assembly Government would support local planning authorities in introducing local policies in their development plans that restrict almost all wind energy developments, larger than 5 MW, to within SSAs and urban/industrial brownfield sites." Rydym hefyd yn ystyried nad yw ADN1 yn gadarn gan iddo fethu rhoi ystyriaeth bwysig i brosiectau cymunedol a phrosiectau ym mherchenogaeth y gymuned a chynlluniau ail-bweru.	gwahanol fathau o deipoleg tyrbinau mewn gwahanol ardaloedd yn ardal y Cynllun. Casgliadau'r gwaith yma oedd y gellid cefnogi bwriadau raddfa ficro a bychan (h.y. hyd at 5MW) y tu allan i'r AHNE, ATA a gosodiad y Parc Cenedlaethol a Safle Treftadaeth y Byd. Er mwyn cysondeb efo'r sail tystiolaeth rydym hefyd yn cynnig newid a ffocws i gyfeirio tuag at osodiad yr AHNE ac ATA. Felly mae'r Cynllun yn cefnogi datblygiadau hyd at 5MW y tu allan i ardaloedd sydd efo dynodiad tirwedd neu ardal sydd yn effeithio ar eu gosodiad, cyn belled bod yr holl feini prawf yn y polisi yn cael eu bodloni. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
477	CSJ Planning Consultants Ltd (Mr John Cocking) [1558]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Mae'r eirfa yn y llinell gyntaf yn ormodol o gyfyngedig. Mae geirfa pwynt 1, 2, a 3 yn rhy ragnodol. Dylid diwygio'r ddau i adlewyrchu'r angen i fod yn fwy hyblyg a rhagweithiol i ddatblygiad ffermydd gwynt. Fe ddylid penderfynu ceisiadau ar sail achos -wrth- achos.	**Dim yn derbyn -** mae'r eirfa yn y polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth sydd yn y Papur Cefndir Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau (2014). Mae hyn yn adlewyrchu asedau amgylcheddol hynod o arbennig sydd o fewn ardal y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
531	John Bircham [2989]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Mae tyrbinau gwynt yn cael effaith weledol annerbyniol ar gefn gwlad wledig. Bydd sylfaen concrid pob tyrbin yn dal yna ym mhell ar ôl i'r tyrbinau a'r grantiau ddiflannu.	**Dim yn derbyn -** Mae meini prawf o fewn y polisi i ystyried effaith weledol y bwriad a hefyd i sicrhau bod cynllun ôl ofal priodol mewn lle. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
532	Jason Bowes [2991]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Er bod angen ynni adnewyddol gwynt nid oes ei angen yn y ffurf yma. Nid yw tyrbinau 50m yn fach. Efallai 10 - 15 m. Dylid lleoli tyrbinau 15 - 30 m o leiaf 1.5km oddi ar y tŷ agosaf. Dylid lleoli tyrbinau gwynt 30m fel ffermydd gwynt mor bell o olwg ag sy'n bosib. Nid wyf yn dymuno gweld Ynys Môn yn cael eu difetha gan yr angenfilod yma. Gadael i ffermwyr leoli tyrbinau bach 10-15m ar gyfer eu hanghenion eu hunain.	**Dim y derbyn -** Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun. Fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r Cynllun cafwyd gwaith ar 'Tyrbinau Gwynt a Pheilonau - Canllaw a'r Gymhwyso Pellteroedd Gwahanu oddi wrth eiddo Preswyl (2014). Canfyddiadau'r gwaith yma oedd nad oes tystiolaeth derfynol i gefnogi cymhwyso'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					isafswm pellteroedd gwahanu rhwng eiddo preswyl a thyrbinau gwynt neu beilonau o ran mwynder preswyl gweledol. Am y rheswm hwn, argymhellwyd y dylid ystyried pob datblygiad arfaethedig ar ei rinweddau ei hun ar sail achos wrth achos. Er nad argymhellir pellteroedd gwahanu llym, ystyrir bod y defnydd o bellteroedd dangosol i gychwyn asesiad mwynder gweledol preswyl (o fewn hyn mae posibilrwydd y ceir ardrawiadau gweledol ar raddfa fawr iawn), yn declyn gwerthfawr i adnabod unrhyw leoliadau ble y dylid ymgymryd ag asesiad mwynder gweledol preswyl i nodi'r ardrawiadau annerbyniol posib o ran mwynder gweledol preswyl. Mae hwn wedi ei gynnwys o fewn yr eglurhad i bolisi ADN 1. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
535	Brian Lee [2993]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	1) Dylid anrhydeddu'r CCA 2) Dylid derbyn y dosbarthiad uchder fel y mae ar hyn o bryd 3) Dylid derbyn pellter gwahanu o 1.5km yn ogystal 4) Dylid ailysgrifennu'r CDLl ar y Cyd gan gydnabod dymuniadau trigolion Ynys Môn	**Dim yn derbyn -** Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLl ar y cyd. Canllaw i bolisïau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLl yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisïau.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				arnynt yn y Canllawiau Cynllunio Atodol presennol yr oeddynt i fod i gael eu trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu Lleol a dylid eu defnyddio. Y defnydd o bellterau gwahanu fel cytunwyd yn SPG Môn.	fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLl ar y cyd. Canllaw i bolisïau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLl yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisïau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLl ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi. Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisïau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion. Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
571	Angela Williams [3016]	7.2.38	Gwrthwynebu	Mae Adroddiad Gillespie yn wallus gan ei fod yn dibynnu ar fanylder mathemategol yn hytrach nac ystyried bod amwynder yn seiliedig ar bobl. Ni chafodd ymatebion i'r CCA 2012/13 eu hystyried. Newidiadau: i) Cymryd darpariaethau'r CCA i ystyriaeth ii) Rhaid diystyru'r pellteroedd gwahanu yn Adroddiad Gillespie oherwydd cyfyngiadau eu gwaith ymchwil.	**Dim yn derbyn -** Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLl ar y cyd. Canllaw i bolisïau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLl yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisïau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLl ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi. Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisïau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion. Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

ADN2 – Technoleg Ynni Adnewyddadwy Arall

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
182, 183	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686], Lafarge Tarmac	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Ystyrir bod y polisi hwn yn ailadrodd y polisi cenedlaethol (e.e. nid pob tirwedd sydd â'r un gwerth). Mae'r polisi'n rhy gaeth ac nid yw'n gadarnhaol o ran technolegau ynni adnewyddadwy ar safleoedd cloddio mwynau	**Dim yn derbyn –** mae'r ardal efo asedau amgylcheddol hynod o arbennig, sydd wedi'u cydnabod a'u dynodi'n genedlaethol a rhyngwladol. Oherwydd hyn mae'r ardal yn denu nifer fawr o dwristiaid / ymwelwyr sy'n

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Trading Limited [2735]			presennol neu yng nghyswllt tir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio. Cael gwared ar y cyfeiriad i ffiniau datblygu. Cyfeirio at ddefnydd dros dro ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddol ar safleoedd echdynnu mwynau presennol gyda phwyslais cadarnhaol ar ffynonellau ynni adnewyddol ar dir sydd eisoes wedi ei ddatblygu.	gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol. Tra bod polisïau Ynni Adnewyddol yn hybu mentrau technoleg adnewyddadwy neu garbon isel mae'n bwysig nad yw datblygiadau o'r fath yn cyfaddawdu amcanion dynodiadau tirwedd neu fioamrywiaeth yn yr ardal. Mae polisi ADN1 'Ynni Gwynt ar y Tir' yn cyfeirio tuag at ffermydd / tyrbinau gwynt raddfa ganolig (5MW i 25MW) ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol a fuasai yn gallu cynnwys safleoedd cloddio mwynau. Ar gyfer unrhyw fath arall o ynni adnewyddol mae polisi ADN2 yn gallu cefnogi cynigion ar raddfa fawr mewn amgylchiadau eithriadol ble gellid cyfiawnhau angen holl bwysig am y cynllun. Tra bod y polisi yn fwy cefnogol i ddatblygiadau o fewn ffiniau datblygu nid yw'n ceisio cadw datblygiad o fewn fath ffiniau. Yn hytrach mae'r polisi yn amlinellu fod angen tystiolaeth briodol i gyfiawnhau lleoliadau y tu allan i'r ffin datblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
656	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Mae angen polisi arbennig ar wahân ar gyfer cynigion ynni solar a ddylai flaenoriaethu'r defnydd o doeau adeiladau masnachol ac adeiladau amaethyddol, rhagdybio o blaid rhesi micro-solar mewn caeau ar safleoedd addas a chaniatáu rhesi ar raddfa fwy mewn ardaloedd gwledig tu allan i'r AHNE a'r ATA yn unig a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol pan fo sgrinio naturiol da yn bodoli ar y safle ac nad oes modd gôr edrych arno o dir uwch cyfagos. Newid: Ychwanegu polisi arbennig sy'n ymdrin â rhesi solar mewn caeau.	**Dim yn derbyn -** Nid yw'r Uned o'r farn y dylid cael polisi ar wahân ar gyfer ynni solar. Mae'r meini prawf presennol o fewn y polisi ynghyd a pholisïau cenedlaethol am yr AHNE a pholisi'r Cynllun ar gyfer y ATA (AMG1) yn golygu bydd unrhyw effaith arnynt oherwydd bwriad cais solar yn cael ystyriaeth gofalus. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
878	Mr John Tripp [252]	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Nid yw rheoli carbon yn derbyn digon o sylw. Anelu am ddim allyriadau. Enghraifft - Wiltshire	**Dim yn derbyn –** Mae polisi PCYFF4 o fewn y Cynllun yn ymwneud a Rheoli Carbon. Mae'r polisi yma yn destun newid er mwyn cyflwyno geirfa ychwanegol am yr angen am asesiad ynni i gefnogi ceisiadau. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
879	Mr John Tripp [252]	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Paneli haul - ar raddfa fawr, gadael digon o le rhyngddynt er mwyn cael gwyrddni oddi tanynt, defaid yn pori.	**Dim yn derbyn –** Mae polisi PCYFF1 yn cyfeirio tuag at warchod tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. Bydd ystyriaeth efo unrhyw gais unigol yn ystyried dyluniad a gosodiad y bwriad a'r cyfle i ddefnyddio'r tir o dan y paneli ar gyfer tir pori. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
944	AONB Joint Advisory Committee (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Technoleg Ynni Adnewyddadwy arall. Credir fod y polisi hwn yn rhy benagored o ran cynigion tu allan i ffiniau datblygu a dylid ei gryfhau.	**Dim yn derbyn -** credir bod y polisi yn ei ffurf bresennol yn taro cydbwysedd trwy hyrwyddo datblygiadau o fewn ffin datblygu ond yn cefnogi datblygiadau eraill addas pan mae yna gyfiawnhad priodol ar eu cyfer y tu allan i'r ffin datblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1059	Llywodraeth	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Mae Polisi ADN2 yn ceisio cadw technolegau ynni	**Dim yn derbyn -** Credir bod y

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Cymru (Mr Mark Newey) [1561]			anadnewyddadwy o fewn ffiniau datblygu. Mae hyn yn cyfyngu gormod ac yn groes i bolisi cynllunio cenedlaethol. Dylai'r asesiad ynni roi'r dystiolaeth sydd ei hangen i allu cynllunio'n bositif ar gyfer pob math o ddatblygiad adnewyddadwy ac ynni isel.	gwrthwynebydd wedi camddehongli'r polisi. Tra bod y polisi yn fwy cefnogol i ddatblygiadau o fewn ffiniau datblygu nid yw'n ceisio cadw datblygiad o fewn fath ffiniau. Yn hytrach mae'r polisi yn amlinellu fod angen tystiolaeth briodol i gyfiawnhau lleoliadau y tu allan i'r ffin datblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
93	Mr Jon Cottrell [2734]	7.2.45	Cefnogi	Mae Solar Ffotofoltäig yn llawer mwy derbyniol nag ynni gwynt oherwydd y bydd uchder llwyr y tyrbinau'n hawlio'r dirwedd am filltiroedd ac yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rheoli Newid Arfordirol

ARNA1 –

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
760	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don	POLISI ARNA1	Cefnogi	Cefnogir Polisi ARNA1 Rheoli Newid Arfordirol.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Mathew) [2988]				**Dim newid**
762	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Mae Polisi ARNA1 yn cael ei gefnogi mewn egwyddor. Dylai polisi sy'n ceisio ymdrin â materion ac amcanion rheoli traethlin adlewyrchu'n llawn ganlyniadau ymgysylltu â pherchnogion tir yn gynnar yn y broses, a hefyd sicrhau digon o hyblygrwydd i alluogi perchnogion tir arfordirol a busnesau ar yr arfordir i adleoli adeiladau a chyfleusterau eraill i wagle agored o fewn safleoedd presennol, neu i dir sydd gyfochrog yn uniongyrchol â'u daliadau tir, pan fo angen, oherwydd erydu arfordirol. Dylai gyfeirio'n benodol at ganiatáu i berchnogion tir a busnesau gyfrannu at ariannu a chadw amddiffynfeydd arfordirol yn unol â'r polisi cenedlaethol ar gyfer cyfrannu at ariannu, yn ogystal â darparu a chynnal a chadw amddiffynfeydd.	**Dim yn derbyn** – mae maen prawf 7 Polisi ARNA1 yn hwyluso cynigion i ail-ddatblygu neu ymestyn eiddo neu ddwyshau defnyddiau ar safleoedd cyfredol sydd du mewn i ardaloedd rheoli newid arfordirol, yn ddarostyngedig i dystiolaeth ynglyn a risgiau i bobl ac eiddo. Mae Polisi TWR3 yn hwyluso cynigion i adleoli safle carafan statig neu siales presennol sydd mewn ardal rheoli newid arfordirol. Mae'r Polisi yn cyfeirio at amddiffynfeydd newydd neu amnewid rhai blaenorol. Yn hyn o beth credir bod y cymal yma yn ddigonol heb orfod ychwanegu cyfeiriad at bwy fydd yn ariannu'r gwaith. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
771	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey)	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Maen prawf 8 a'i arwyddocâd. (tu allan i'r cyfnod polisi dangosol at 2025)? Mae angen i chi egluro o dan ba amgylchiadau y bydd y datblygiadau dibreswyl hyn (cytiau traeth,	**Derbyn yn rhannol** - Cytuno nad ydi geiriad maen prawf 8 yn eglur. Mae'n son am ddatblygiadau newydd dibreswyl ar safleoedd sydd o fewn ardal lle mae polisi'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[1169]			siopau, meysydd gwersylla ac ati) yn cael eu caniatáu. Nid ydym wedi medru dod o hyd i'r mapiau CCMA ar-lein. Mae'r mapiau yn y Cynllun Rheoli Traethlin yn dangos lleoliad rhannau o'r arfordir, ond nid lled yr ardaloedd rheoli yr effeithir arnynt sy'n ymestyn tuag at yn ôl o'r arfordir. Maen prawf 3 - un ai ei glirio neu ei wneud yn ddiogel. (yn hytrach na 'a').	Cynllun Rheoli Traethlin fabwysiedig yn dweud 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'ail-lunio dan reolaeth' neu'r ddau hyd at 2025 ac yn ystod 2026 - 2055. Dewiswyd yr ail gyfnod polisi i adlewyrchu'r posibilrwydd y gallai cais am ddatblygiad gael ei gyflwyno cyn diwedd oes y Cynllun a fyddai'n golygu ei ddechrau yn ystod blwyddyn olaf oes y Cynllun. Ar hyn o bryd dim ond mapiau'r Cynllun Rheoli Traethlin sydd ar gael. Bwriedir edrych i mewn i allu darparu haen briodol o wybodaeth ym Map Cyfyngiadau'r Cynllun ar gyfer y cam mabwysiadu. Cytuno bod angen cynnwys 'a' ar ddiwedd maen prawf 3. **Argymhelliad** Diwygio maen prawf 3 trwy ychwanegu 'a' ar ei ddiwedd. Diwygio maen prawf 8 fel ei fod yn fwy eglur. Diwygio paragraff 7.2.49 i egluro bod y polisi yn berthnasol i ddau gyfnod polisi cyntaf y Cynllun Rheoli Traethlin, sef hyd at 2025 ac o 2026 i 2055. **Newid â ffocws NF37, NF38** Er mwyn gwella eglurder y Cynllun

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
864	Haulfryn Group Ltd [2986]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Mae paragraff 8(i) yn cyfeirio at safleoedd gwersylla ond nid yw'n cyfeirio at safleoedd carafanau gwyliau. Pan fo safleoedd carafanau gwyliau wedi eu lleoli mewn Ardal Rheoli Newid Arfordirol, ymddengys nad yw'r geiriad presennol yn caniatáu safleoedd carafanau gwyliau, dim ond safleoedd gwersylla. Dylid diwygio'r geiriad i gynnwys safleoedd carafanau gwyliau.	**Derbyn** - nid bwriad 8(i) oedd darparu rhestr drwyadl o fathau o ddatblygiadau dibreswyl sydd â chysylltiad uniongyrchol gyda'r arfordir a allai fod yn dderbyniol ar safle sydd du mewn i ardal lle rhagwelir risg iddo yn ystod 2026 - 2055. Er hynny, cytunir byddai ychwanegu cyfeiriad at safleoedd carafanau gwyliau yn gwella dealltwriaeth o'r polisi. Byddai ceisiadau am y math yma o ddatblygiad yn destun nifer o bolisïau eraill yn y Cynllun, e.e. Polisi TWR3 neu Bolisi TWR4. **Argymhelliad** Diwygio geiriad maen prawf 8(i) i gyfeirio at safleoedd carafanau gwyliau. **Newid Â Ffocws NF38** Er mwyn sicrhau eglurder y Cynllun.
865	Haulfryn Group Ltd [2986]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Pan fo parciau gwyliau wedi eu lleoli oddi mewn i'r ardal rheoli newid arfordirol (o fewn yr AHNE) a bod angen adleoli lleiniau er mwyn symud y safle'n ôl o'r draethlin, dylid caniatáu cynnydd bychan yn nifer y lleiniau er mwyn cynorthwyo ag ariannu'r gwaith o adleoli lleiniau gwyliau.	**Derbyn** – gweler yr ymateb i wrthwynebiadau am TWR3 **Argymhelliad** - diwygio Polisi TWR3 i gyfeirio at gynnydd bychan yn nifer y lleiniau yn ddarostyngedig i dystiolaeth am hyfywdra'r cynnig. **Newid â ffocws NF54**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.
872	Ffrindiau Borth-y-Gest (Tom Brooks) [3036]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Dymunwn i'r polisi ei gwneud yn glir fod ARNA1 yn dibynnu'n llym ar y diffiniad CYFREDOL o "Gynllun Rheoli Traethlin 2 Gorllewin Cymru". Nodwn yng Nghynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru fod Borth y Gest wedi'i marcio'n glir fel ardal "dal y llinell" a'i bod yn elwa o'r polisi hwn tan 2055 o leiaf. Ystyriwn y dylai'r polisi ei gwneud yn glir ar ôl i'r cynllun lleol gael ei fabwysiadu, na fydd unrhyw newid dilynol i Gynllun Rheoli Traethlin 2 Gorllewin Cymru yn newid yr ardaloedd y mae ARNA1 yn berthnasol iddynt.	**Dim yn derbyn** - ar ôl i'r Cynllun gael ei fabwysiadu fe gaiff Adroddiad Monitro Blynyddol ei gyhoeddi. Bydd yr AMB yn cofnodi cynnydd yn erbyn cyfres o ddangosyddion yn y fframwaith fonitro. Fe fydd hefyd yn cofnodi newidiadau arwyddocaol mewn amgylchiadau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol sy'n berthnasol i strategaeth a pholisïau'r Cynllun. Byddai angen adolygu Polisi ARNA1 pe fyddai yna newid arwyddocaol i'r Cynllun Rheoli Traethlin. Byddai angen ymgynghori ynglŷn ag unrhyw newidiadau i bolisïau yn sgil y gwaith monitro neu adolygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
940	Cyng./Counc Alwyn Gruffydd [381]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Mae angen i'r cynllun fod yn fwy cydlynol. Nid yw'n synhwyrol nodi ardal fel un sydd o risg llifogydd ar y naill law wrth nodi niferoedd o dai sydd ei angen ynddo ar y llall. Dylid cysidro Cynllun Rheoli Arfordir	**Dim yn derbyn** - Nid oes gan y Cynllun ddynodiadau tai du mewn i'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol. Nid yw Polisi ARNA1 yn cefnogi tai newydd du mewn i ffiniau aneddleoedd sydd du mewn i Ardal Rheoli

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Gorllewin Cymru (SMP) 2 a'i alinio hefo'r cynllun.	Newid Arfordirol, e.e. Fairbourne. Byddai gofynion Polisi PS5, Polisi PS6 a Pholisi PCYFF1, yn ogystal â Pholisi Cynllunio Cymru a NCT15 yn berthnasol i gynigion am dai newydd mewn ardaloedd o risg llifogydd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1070	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Cefnogir y Polisi mewn egwyddor ond byddai'n fuddiol ei fân olygu i sicrhau eglurder. Cymal 1 - awgrymir cynnwys "y rhagwelir y bydd dan fygythiad" yn lle "sydd dan fygythiad", er mwyn sicrhau cysylltiad â'r SMP. Cymal 2 - egluro a oes rhaid i'r cynigion fodloni'r ddau is-gymal, (i) a (ii), neu ddim ond un neu'r llall. Cymal 6 - nid yw'n glir pam fod y gofyniad am ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru yn benodol ac yn unigryw i'r cymal hwn. Cymal 8 - Mae'r testun o fewn y cromfachau'n aneglur, ymddengys fel petai'n awgrymu y byddai rhai datblygiadau penodol yn dderbyniol ar ôl y cyfnod polisi cychwynnol (2025). Nid yw'n glir sut mae hynny'n cyfateb i bolisi sy'n dod i ben yn 2026.	**Derbyn** – Cytuno y byddai'r Polisi yn fwy eglur trwy wneud newidiadau bychan. Cytunir bod angen cysoni'r Polisi gyda'r Cynllun Rheolaeth Traethlin trwy gyfeirio at y posibilrwydd o fod dan fygythiad. Cytunir y dylid gwneud yn fwy eglur os ydi'r meini prawf i gyd yn berthnasol ac nad oes y cyfeiriad manwl at ofynion CNC. Byddai golygu'r polisi trwy gyfeirio at ddatblygiadau dibreswyl gyda'i gilydd yn golygu byddai'r polisi fwy darllenadwy. Credir bod angen gwahaniaethu rhwng ardaloedd lle rhagwelir risg tymor byr a'r llefydd a ragwelir risg tymor canolig. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Diwygio'r Polisi trwy fan olygu yn unol ar sylwadau uchod. **Newid â Ffocws NF38, NF39**
1138	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i bolisi ARNA1 sy'n ceisio atal defnyddio'r polisi hwn ar gyfer y datblygiad cysylltiedig yn y môr, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar bolisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig isod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig bod ei ddatblygiad cysylltiedig yn cael ei gau allan yn benodol oddi wrth y polisïau hyn.	**Dim yn derbyn** - gweler yr ymateb i wrthwynebiadau eraill o ran addasrwydd cynnwys y polisïau newydd awgrymwyd gan y gwrthwynebydd. Pe fyddai safle ar gyfer datblygiad arfaethedig gan y gwrthwynebydd du mewn i ardal sy'n cael ei adnabod yn y Cynllun Rheoli Traethlin fel un dan fygythiad yn ystod oes y Cynllun, byddai'r cynnig yn cael ei asesu yn erbyn gofynion Polisi ARNA1. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

PENNOD 7.3 ECONOMI AC ADFYWIO

Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr

Cefndir a Cyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
866	Grid Cenedlaethol (Mrs Rebecca Evans) [2961]	7.3.1	Gwrthwynebu	Byddai National Grid yn disgwyl gweld cyfeiriad at Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs) o fewn cefndir polisi'r CDLl ar y Cyd ar brosiectau isadeiledd mawr, er enghraifft, gallai paragraffau 7.3.1 i 7.3.17 gynnwys gwybodaeth bellach ar rôl y Datganiadau Polisi Cenedlaethol, sy'n cael ei grybwyll yn fras ar ddechrau Polisi Strategol PS8.	**Derbyn** - Fe fydd yna wybodaeth ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y testun cefndirol er mwyn amlygu rôl y Datganiad Polisi Cenedlaethol. **Argymhelliad** I ddangos bod ystyriaeth briodol wedi ei roi i Bolisïau a Chanllawiau Cenedlaethol cynigir cynnwys gwybodaeth bellach yn ymwneud a rôl y Datganiadau Polisi Cenedlaethol. **Newid â Ffocws: NF40, NF41, NF42, NF45**
1139 1156 1140 1141 1142 1143 1144	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	7.3.1 7.3.2 7.3.3 7.3.4 7.3.5 7.3.6 7.3.7	Gwrthwynebu	Credir y gellid gwella eglurder y paragraffau yma, yn enwedig beth sy'n cael ei olygu gan y gwahaniaeth rhwng "prosiectau isadeiledd mawr" a phrosiectau isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol fel sydd wedi'u diffinio gan Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r bennod hon yn amrywio rhwng bod wedi'i hysgrifennu i'w defnyddio'n gyffredinol efo "prosiectau isadeiledd mawr" a bod wedi'i hysgrifennu'n benodol am Brosiect Wylfa Newydd. Mae rywfaint o'r testun sy'n egluro a pholisi yn cynnwys cymalau wedi'u drafftio ddim ond ar gyfer fersiynau cyn mabwysiadu (h.y. adnau) y Cynllun (a fydd felly'n dod i ben ar adeg mabwysiadu) ac eraill yn cynnwys cymalau ar gyfer y cyfnod cyn mabwysiadu, cyfnod y cais a'r cyfnod ôl adeiladu. Mae angen adolygu a safoni hyn er mwyn osgoi dryswch wrth	**Derbyn yn rhannol -** Ystyrir fod yna bwyslais digonol o fewn y Cynllun yn cael ei roi i gynlluniau Wylfa Newydd a'r manteision economaidd a fyddai'n deillio ohono yn y Cynllun. Ystyrir fodd bynnag fod y rhan yma o'r Cynllun angen ei ail-strwythuro er mwyn gwahaniaethu rhwng Wylfa Newydd a datblygiadau eraill o Brosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn ogystal cytunir fod angen cysoni'r derminoleg a ddefnyddir o fewn y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1145 1146 1147 1148 1149 1150 1151 1152 1153		7.3.9 7.3.10 7.3.11 7.3.12 7.3.13 7.3.14 7.3.15 7.3.16 7.3.17		ddehongli. Yn ogystal â hynny, ceir man wallau yn y disgrifiad o'r drefn PSCA a'r disgrifiad o "ddatblygiad cysylltiol".	**Argymhellion** I sicrhau cysondeb o fewn y Cynllun ac eglurder cynigir ail-eirio ac ailstrwythuro geiriad y Polisi (PS8 a PS9). Fe fydd y derminoleg a ddefnyddir hefyd yn cael ei ddiwygio yn unol. **Newid â Ffocws: NF40, NF41, NF42, NF45**
867	Grid Cenedlaethol (Mrs Rebecca Evans) [2961]	7.3.13	Gwrthwynebu	Mae gan Y Grid Cenedlaethol rai pryderon ynghylch y disgrifiad o gyfraniadau cynllunio, yn enwedig buddiannau cymunedol, ym mharagraffau 7.3.13 i 7.3.17. Bydd National Grid bob tro yn ceisio lleihau effeithiau negyddol ei ddatblygiadau arfaethedig trwy iteriadau dylunio sy'n cael eu hystyried yn ofalus ac sy'n seiliedig ar asesiadau ac ymgynghoriad; a thrwy adnabod mesurau lliniaru cynhwysfawr. Cydnabyddir mewn rhai achosion na fydd amodau cynllunio o bosib yn ddigon i sicrhau'r dyluniad cynhenid a mesurau lliniaru pellach ac felly efallai y byddai angen eu sicrhau yn nhermau cynllunio trwy gytundeb Adran 106. Yn achos Prosiectau Isadeiledd sydd o Bwysigrwydd Cenedlaethol, mae EN-1 yn gosod yr amgylchiadau pan ellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer isadeiledd ynni, ac mae'n pwysleisio na ellir ond rhoi pwysau i rwymedigaethau sy'n bodloni'r holl brofion ar gyfer eu	**Ddim yn derbyn -** Er nad yw Buddiannau cymunedol gwirfoddol yn orfodol i'r Grid Cenedlaethol mae'n berthnasol i gynlluniau Prosiectau Cenedlaethol Isadeiledd Mawr eraill a chan hynny ni ddylid dileu'r meini prawf. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				defnyddio. Diwygiwch faen prawf 4 yn PS8 a dilëwch faen prawf 5.	

PS8 – Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
466	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGOL PS8	Cefnogi	Mae Bourne Leisure yn credu y gallai'r stoc bresennol o lety gwyliau, gan gynnwys yr hyn a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr fod o gymorth i gwrdd â'r gofyn am dai ar gyfer y 8,500 o weithwyr adeiladu a fydd ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu brig. Mae'r Cynllun Adnau yn datgan y bydd llety ar gyfer y gweithlu trwy amryfal ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol a adeiladir gan Horizon	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
843	Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans) [2767]	POLISI STRATEGOL PS8	Cefnogi	Mae Bourne Leisure yn ystyried y byddai modd i'r stoc llety gwyliau presennol, yn cynnwys yr un a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr, gynorthwyo i gwrdd â'r gofyn am dai i 8,500 o weithwyr adeiladu fydd yn gweithio ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu prysuraf. Mae'r Cynllun Adnau yn nodi y byddai'r gweithlu yn cael lle i fyw trwy amryw o ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol fydd yn cael ei adeiladu gan Horizon.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1154	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS8	Gwrthwynebu	Mae sylwadau Horizon yn dymuno cael eglurhad mai PS9 sy'n gymwys ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn hytrach na chymysgedd o PS8 a PS9. Wedi cau PS8 allan o'r fframwaith polisi ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, nid oes angen felly i Horizon wneud sylwadau penodol ar PS8 heblaw am nodi y gallai fod yn fuddiol i unrhyw newidiadau i PS9 (yn unol efo'i sylwadau isod) barhau trwodd i PS8 er mwyn cysondeb.	**Derbyn yn rhannol** - Ystyrir yn briodol i ailstrwythuro y rhan yma o'r Cynllun er mwyn sicrhau fod yna ddiffiniad mwy clir rhwng yr adrannau sydd yn ymwneud a Wylfa Newydd a'r rhai sydd yn ymwneud a phrosiectau sydd yn cyfeirio at Brosiectau Isadeiledd Cenedlaethol Mawr.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Argymhelliad I sicrhau cysondeb o fewn y Cynllun fe fydd y polisïau yn cael ei ail-eirio a'i ail-strwythuro (PS8 and PS9). **Newid â Ffocws: NF41**

PS9 – Datblygiad yn Ymwneud â Wylfa Newydd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
464	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGOL PS9	Cefnogi	Mae Bourne Leisure yn credu y gallai'r stoc bresennol o lety gwyliau, gan gynnwys yr hyn a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr fod o gymorth i gwrdd â'r gofyn am dai ar gyfer y 8,500 o weithwyr adeiladu a fydd ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu brig. Mae'r Cynllun Adnau yn datgan y bydd llety ar gyfer y gweithlu trwy amryfal ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol a adeiladir gan Horizon.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
844	Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans) [2767]	POLISI STRATEGOL PS9	Cefnogi	Mae Bourne Leisure yn ystyried y byddai modd i'r stoc llety gwyliau presennol, yn cynnwys yr un a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr, gynorthwyo i gwrdd â'r gofyn am dai i 8,500 o weithwyr adeiladu fydd yn gweithio ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu prysuraf. Mae'r Cynllun Adnau yn nodi y byddai'r gweithlu yn cael lle i fyw trwy amryw o ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol fydd yn cael ei adeiladu gan Horizon.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
862	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew)	POLISI STRATEGOL PS9	Gwrthwynebu	Mae angen 'cynllun amgen' rhag ofn na wnaiff y prosiect yma, sydd flynyddoedd i ffwrdd oddi ar gael penderfyniad terfynol, gael ei weithredu.	**Dim yn derbyn –** Mae'r polisi yma'n benodol berthnasol i ddatblygiad Wylfa Newydd. Os ydi Wylfa Newydd ddim yn mynd yn ei flaen yna ni

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	[2988]				fydd angen defnyddio'r polisi yma. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
882	Mr John Tripp [252]	POLISI STRATEGOL PS9	Gwrthwynebu	Angen i gontractwyr Wylfa B gyflogi 85%+ o bobl leol. Mae angen ysgol hyfforddiant mawr.	**Dim yn derbyn -** Mae yna fuddsoddiad presennol yn mynd yn ei flaen i ddarparu cyfleusterau hyfforddi ar gyfer gweithwyr adeiladu ynghyd a gweithwyr gweithredol. Mae yna bolisïau o fewn y Cynllun a fydd angen cyfeirio atynt wrth ystyried ceisiadau ar gyfer cyfleusterau hyfforddi. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
930	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI STRATEGOL PS9	Cefnogi	Efallai bydd angen buddsoddi yn rhai o'n hasedau ni er mwyn hwyluso twf yn ymwneud efo Wylfa Newydd. Mae ein buddsoddi Cynllunio Rheoli Asedau (AMP) yn cael ei reoleiddio, o ran faint o arian a hefyd amseriad y gwaith sydd wedi'i gynllunio. Felly gallai fod enghreifftiau'n digwydd lle na fydd anghenion datblygwyr yn cyd-fynd efo amseriad ein buddsoddiad ni. Pe byddai angen gwella'r seilwaith cyn gallu mynd ymlaen efo buddsoddiad sydd wedi'i gynllunio, fe fyddem ni'n edrych ar ffyrdd eraill o lenwi'r bwlch ariannu hwnnw, fel trwy gael cyfraniadau oddi wrth ddatblygwyr	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				trwy rwymedigaethau cynllunio. Unwaith y bydd lleoliad y datblygiad cysylltiedig wedi cael ei gadarnhau, byddwn yn asesu'r effaith ar ein hasedau ni ac yn cynghori yn unol efo hynny.	
1155	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS9	Gwrthwynebu	Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cydnabod y cyfle unigryw i drawsnewid economi a chymunedau Môn dylid datblygu polisïau penodol i Horizon ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd a ddylent ynghyd â PS9 siapio'r ffordd o weithredu tuag at Brosiect Wylfa Newydd ac yn arbennig y cynigion ar gyfer datblygiad cysylltiedig. Gan gydnabod statws unigryw'r datblygiad, tra dylai polisïau eraill y Cynllun gael eu hystyried yn iawn, dylai PS9 a pholisïau arfaethedig penodol ar gyfer Wylfa Newydd gael blaenoriaeth lle mae anghysondeb neu wrthdaro rhwng y rhain a pholisïau eraill. Awgrymir newidiadau penodol i feini prawf 3, 7, 9, 11 & 12.	**Dim yn derbyn**- Ystyrir fod yna ystyriaeth briodol yn cael ei roi i gynlluniau Wylfa Newydd a'r manteision economaidd a fyddai'n deillio o'r Cynlluniau. Mae yna bolisïau eraill o fewn y Cynllun sydd yn cynnwys yr egwyddorion polisi cynllunio a fyddai angen derbyn ystyriaeth wrth ymdrin â cheisiadau cysylltiedig â Wylfa Newydd. Fe fydd yna waith pellach yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y Cynllun a'r Canllaw Cynllunio Atodol sydd yn ymwneud a Wylfa Newydd, sydd yn debygol o arwain at adolygu'r Canllaw. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Darparu Cyfleoedd ar Gyfer Economi Ffyniannus

PS10 – Darparu Cyfle ar Gyfer Economi Ffyniannus

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
455	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGAETH PS10	Gwrthwynebu	Dylid ychwanegu cyfeiriad penodol i PS10 i adlewyrchu pwysigrwydd rôl twristiaeth i sicrhau economi sy'n ffynnu. Dylid ychwanegu 4ydd pwynt bwled i ddarllen: "4 Cefnogi datblygiad twristiaeth newydd neu ailddatblygiad rhai presennol lle'n briodol, er mwyn cymryd mantais lawn y budd economaidd mai datblygiad twristiaeth yn dod i ardal y Cynllun Lleol."	**Dim yn derbyn -** Ystyrir fod rhannau eraill o'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol a buddiannau economaidd sydd yn deillio o fentrau twristiaeth. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
803	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Yn seiliedig ar yr 807 ha o dir cyflogaeth ac eiddo cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLl Adnau, mae dros 66 mlynedd o gyflenwad tir ac eiddo cyflogaeth o fewn ardal y Cynllun. Er y cydnabyddir y gallai Wylfa Newydd gael effaith economaidd sylweddol ar yr angen a'r gofyn am dir ac eiddo cyflogaeth, ni fydd angen y lefel hon o dir nac eiddo cyflogaeth. Felly, mae'r Cynllun yn gôr ddynodi a gôr ddiogelu tir ac eiddo cyflogaeth yn sylweddol ac yn enwedig safleoedd sy'n annhebygol o ddarparu cyflogaeth oherwydd nad yw'r safleoedd yn diwallu anghenion diwydiant, neu eu bod yn destun cyfyngiadau safle sylweddol. Felly, nid yw'r Polisi yn cydymffurfio â Phrawf Cadernid 2 gan nad yw'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a CE2 gan nad yw'n realistig wrth ystyried dewisiadau eraill neu'n seiliedig ar dystiolaeth gredadwy. Dylid diwygio'r polisi fel nad yw ond yn cynnwys tir cyflogaeth ddigonol fydd ei angen ac sydd ar gael, ac sy'n addas ac y gellir ei ddarparu yn ystod Cyfnod y Cynllun.	**Derbyn** - Derbynnir fod angen eglurhad pellach o'r angen i warchod/dynodi 807ha o dir cyflogaeth. Credir fod y ffaith fod y polisi yn gwarchod ynghyd a dynodi safleoedd cyflogaeth yn creu dryswch. Roedd y fersiwn adnau o'r Cynllun hefyd yn dynodi tir cyflogaeth newydd, h.y. Safleoedd tir gwyrdd lle nad oes isadeiledd yn bodoli. Mae'r rheini hefyd wedi cael eu cynnwys yn y rhestr ym Mholisi CYF1. Mae PS10 gan hynny yn adnabod safleoedd er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth bresennol ac i'r dyfodol. Mae'r ddarpariaeth wedi gwasgaru ar draws ardal y Cynllun ac yn cynnig dewis o ran lleoliad a maint. Mae'r ddarpariaeth o dir cyflogaeth yn rhoi elfen o hyblygrwydd o ran y dewis sydd ar gael. **Argymhelliad** Er mwyn gwella eglurder cynigir fod y Polisi Strategol yn cael ei ddiwygio i gynnwys eglurhad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					pellach ynglŷn â sut mae'r ffigwr o dir cyflogaeth wedi ei bennu. Cynigir fod y polisi yn cael ei ddiwygio er mwyn gwahaniaethu rhwng tir a ddynodir a beth sydd yn cael ei warchod. **Newid â Ffocws: NF46**
825	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	PS10 Sylw ar gasgliad yr anghenion am dir cyflogaeth o astudiaethau amgen.	**Derbyn yn rhannol -** Mewn ymateb i sylwadau gan wrthwynebwr arall fe fwriedir diwygio'r polisi er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth ynglŷn â chasgliadau Arolwg Tir Cyflogaeth. **Argymhelliad** I sicrhau eglurder cynigir diwygio'r Cynllun er mwyn cynnwys eglurhad pellach o ran y tir cyflogaeth a warchodir. **Newid â Ffocws: NF46**
828	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Rydym yn falch fod Parc Amaeth Llanystumdwy wedi'i gynnwys o dan Safleoedd Eilaidd ond teimlwn fod safleoedd eraill y gellid eu hystyried e.e. hen Olchdy Afonwen. Credwn y dylid gwneud mwy i gadw safleoedd diwydiannol pan maent yn newid dwylo ac nad oes digon yn y Cynllun i gefnogi busnesau bychain, y enwedig busnesau teuluol cefn gwlad.	**Dim yn derbyn -** Cydnabyddir fod gan fusnesau bychain gwledig rôl bwysig i chwarae o fewn yr economi leol a chredir fod Polisi CYF5 i o'r Cynllun yn ymdrin â'r mater yma'n ddigonol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
902	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Nid yw PS10 yn gyson gyda gweddill y CDLl gan nad yw'n cydnabod budd economaidd sylweddol yr ardal leol o ganlyniad i dwristiaeth. Mae paragraff 4.3 yn datgan bod	**Dim yn derbyn -** Ystyrir fod rhannau eraill o'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol a buddiannau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				twristiaid/ymwelwyr yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol. Felly, mae Bourne Leisure yn datgan y dylai PS10 adlewyrchu'r cyfraniad sylweddol i'r economi leol a ddaw yn sgil twristiaeth. Yn ogystal, mae cydnabyddiaeth o rôl bwysig twristiaeth o fewn Polisi Strategol PS10 yn angenrheidiol i sicrhau cysondeb â PCC (para 11.1.1). Byddai hyn hefyd yn unol â Chynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (2013 - 2020). Felly, mae Bourne Leisure yn datgan y dylid ychwanegu cyfeiriad penodol i PS10 er mwyn adlewyrchu rôl bwysig twristiaeth wrth sicrhau economi sy'n ffynnu.	economaidd sydd yn deillio o fentrau twristiaeth. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1046	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd, ond mae'n hanfodol bod y twf economaidd hwn yn gwireddu amcanion yr awdurdodau. Dylai'r awdurdodau esbonio sut na fydd gorgyflenwi'r farchnad fel hyn (tua 300ha) yn cael effaith negyddol ar werthoedd tir; na rhwystro datblygiad rhag dod i fod yna pheryglu dyheadau am dwf.	**Derbyn** - Derbynnir fod angen eglurhad pellach o'r angen i warchod/dynodi 807ha o dir cyflogaeth. Credir fod y ffaith fod y polisi yn gwarchod ynghyd a dynodi safleoedd cyflogaeth yn creu dryswch. Roedd y fersiwn adnau o'r Cynllun hefyd yn dynodi tir cyflogaeth newydd, h.y. safleoedd tir gwyrdd lle nad oes isadeiledd yn bodoli. Mae'r rheini hefyd wedi cael eu cynnwys yn y rhestr ym Mholisi CYF1. Mae PS10 gan hynny yn adnabod safleoedd er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth bresennol ac i'r dyfodol. Mae'r ddarpariaeth wedi gwasgaru ar draws ardal y Cynllun ac yn cynnig dewis o ran lleoliad a maint. Mae'r ddarpariaeth o dir cyflogaeth yn rhoi elfen o hyblygrwydd o ran y dewis sydd ar gael. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Er mwyn gwella eglurder cynigir fod y Polisi Strategol yn cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys eglurhad pellach ynglŷn â sut mae'r ffigwr o dir cyflogaeth wedi ei bennu. Cynigir fod y polisi yn cael ei ddiwygio er mwyn gwahaniaethu rhwng tir a ddynodir a beth sydd yn cael ei warchod. **Newid â Ffocws: NF45, NF46, NF47**
1166	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Mae yna bryderon am y diffyg hyblygrwydd i'r safleoedd yn y polisïau hyn o ran safleoedd i'w defnyddio ar gyfer datblygiad cysylltiedig heblaw am ar gyfer cyflogaeth (B1, B2 a B8), yn enwedig mewn perthynas â newid defnydd ar gyfer etifeddiaeth (e.e. i dwristiaeth) gan y byddai hyn yn lleihau'n gyffredinol y safleoedd B1, B2 a B8 sydd ar gael ac felly'n mynd yn groes i'r bwriad i'r rhain fod yn safleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i bolisïau PS10, CYF1 a CYF2 mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd a fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig.	**Dim yn derbyn** - Cydnabyddir fod yna bosibilrwydd y gallai safleoedd cyflogaeth aros yn segur am gyfnod o amser heb fuddsoddiad a chan hynny mae yna sail o bosib i ganiatáu defnydd amgen (i gyflogaeth) ar rhai safleoedd. Nodir fodd bynnag fod yr Arolwg Tir Cyflogaeth wedi nodi'r angen i warchod a dynodi'r safleoedd dan sylw (ym mholisi CYF1) ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarth Defnydd B1, B2 neu B8 yn bennaf) a hynny yn dilyn asesiad o'r angen a'u gallu gwirioneddol i ddod yn ei flaen ar gyfer y defnydd dan sylw. Gan hynny, yn y man cychwynnol defnydd cyflogaeth yw'r defnydd a ffafrir ar y safleoedd cyflogaeth a enwir ym Mholisi CYF1. Mae yna bolisi presennol sef Polisi CYF4 sydd yn rhoi elfen o hyblygrwydd ar y safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau amgen mewn achosion eithriadol yn unig, ble fo yna dystiolaeth gref yn cael ei gyflwyno i gyfiawnhau gwneud hynny. Mae'n gyson a Pholisi Cynllunio Cymru a TAN23. Mae Atodiad 9 y Cynllun Adnau yn adnabod cyfres o ganllawiau cynllunio atodol a fydd yn cael eu paratoi i gefnogi'r Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Mae'n adnabod bwriad i baratoi un a fydd yn rhoi arweiniad ynglyn a'r dystiolaeth a fydd ei angen yn gysylltiedig â datblygiadau amgen. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1301	Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Barn Cyngor y Ddinas yw y dylid gwarchod safleoedd presennol ym Mangor sy'n rhoi lle i'r fath fentrau rhag ailddatblygiad. Byddai enghreifftiau yn cynnwys yr unedau bychan yng nghefn rhan uchaf y Stryd Fawr a Ffordd yr Orsaf a'r safle rhwng Ffordd Sackville a Mentec. Dylid dynodi mwy o safleoedd ar gyfer defnydd o'r fath yn y CDLl ar y Cyd fel y byddai sefydlu busnesau bach yn cael ei annog er mwyn meithrin menter yn yr economi leol.	**Dim yn derbyn** – Mae yna Arolwg Tir Cyflogaeth wedi ei gynnal sydd wedi ceisio adnabod yr angen ar gyfer safleoedd cyflogaeth – mae'r angen hynny wedi cael ei adlewyrchu yn y Cynllun. Ni chredir ei fod gan hynny yn ystyriol i ddynodi ychwaneg o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth. Mae'r Cynllun ar ei ffurf bresennol yn caniatáu ar gyfer creu unedau diwydiannol newydd ble fo hynny'n briodol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1412	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y polisïau rheoli datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft. Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau	**Dim yn derbyn** – Mae yna Arolwg Tir Cyflogaeth wedi ei gynnal sydd wedi ceisio adnabod yr angen ar gyfer safleoedd cyflogaeth – mae'r angen hynny wedi cael ei adlewyrchu yn y Cynllun. Ni

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				canlynol: • ehangu busnesau priodol; • ailddefnyddio adeiladau gwledig sy'n addas ar gyfer creu cyflogaeth; • darparu unedau gwaith trwy addasu adeiladau gwledig traddodiadol; • arallgyfeirio yn yr economi amaethyddol; • cefnogi adfywiad cymdeithasol ac economaidd ardaloedd gwledig; • dylai addasu neu newid defnydd adeiladau gwledig segur y tu allan i unrhyw ffiniau datblygu tai gael eu caniatáu ar gyfer defnydd cyflogaeth; • cynllun hyfyw sydd a gallu i addasu i ofynion cyfredol ffermio a busnesau i ffynnu yng nghefn gwlad.	chredir ei fod gan hynny yn ystyriol i ddynodi ychwaneg o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth. Mae'r Cynllun ar ei ffurf bresennol yn caniatáu ar gyfer creu unedau diwydiannol newydd ble fo hynny'n briodol er mwyn cefnogi economi gwledig ynghyd a throsi adeiladu gwledig. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1418	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisïau Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun draft ac rydym yn awyddus i weld cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:- • Mentrau yn angenrheidiol i gwrdd ag anghenion ffermio a choedwigaeth gyfoes. Hefyd isadeiledd yn cynnwys egni gwyrdd, twristiaeth a mentrau eraill a fydd yn helpu i gefnogi'r economi gwledig cynaliadwy.	**Dim yn derbyn** Nodir y sylw **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1424	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Dymunai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol mewn perthynas â'r Polisïau Rheoli Datblygu o fewn y Cynllun draft. Fe ddylai'r Cynllun:-: • Gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o dir yn yr ardal ac mae angen cyfeiriad penodol yn y Cynllun tuag at werth	**Dim yn derbyn** Nodir y sylw **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				cynnyrch amaethyddol lleol. • Hyrwyddo ffyniant amaethyddol ac arallgyfeirio • Cydnabod gwerth mân-ddaliadau ym Môn a Gwynedd fel modd di ffermwr ifanc gychwyn a datblygu busnes. • Cydnabod gwerth y diwydiant fwyd ac amaeth lleol i'r economi leol, cyfleoedd gyflogaeth a'r iaith Gymraeg.	Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1608	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI STRATEGOL PS10	Cefnogi	Bydd modd cael y prif gyflenwad dŵr mae ei angen ar gyfer unrhyw ddatblygiad posibl trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau dŵr trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau). Bydd unrhyw safle arfaethedig sydd angen dŵr nad yw'n ddŵr yfed, i'w ddefnyddio mewn proses, angen sylw pellach i ddeall sut byddai modd ateb y gofyn yma. Bydd modd cael y carthffosydd mae eu hangen ar gyfer unrhyw ddatblygiad posibl trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosydd trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau).	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1609	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI STRATEGOL PS10	Cefnogi	Os bydd y defnyddwyr terfynol posibl o'r safleoedd hyn yn arwain at ollwng allan elifiant masnach newydd neu wahanol i gynt, bydd wedyn angen caniatâd ysgrifenedig DCWW.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1610	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI STRATEGAETH PS10	Cefnogi	Mae'r dyraniadau cyflogaeth arfaethedig yn arwynebedd sylweddol o dir ar gyfer datblygu, ac nid yw'n hysbys ar hyn o bryd beth allai'r galw yno fod. Mae'n hanfodol ein bod ni'n deall y galw yma, er mwyn gallu asesu'r effaith ar ein hasedau. Efallai bydd angen gwneud asesiadau modelu ar gyfer dŵr a charthffosiaeth, i weld sut byddem ni'n darparu'r cyflenwad dŵr a lle byddai modd cysylltu'r datblygiad arfaethedig efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae ein hymateb ni ar sail y galw domestig ar sail ardal a lleoliad y dyraniadau arfaethedig.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**

CYF1 – Gwarchod a Dynodi Tir Ac Unedau Ar Gyfer Defnydd Cyflogaeth

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
801	Menter Iaith Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762]	POLISI CYF1	Cefnogi	Cyflogaeth deg, yn allweddol i roi sail i gymuned sefydlog ym Mangor - sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg. Croesawi gynllun yn bwriadu gwarchod tir ac unedau ar y safleoedd cyflogaeth bresennol ym Mangor Angen mawr am ddatblygiad pellach Argymell sefydlu pwyllgor i edrych ar anghenion 21 ganrif dinas Bangor fel un endid. - angen sicrhau anheddau, isadeiledd, cyfleoedd am waith ac addysg, Canolfan siopa, amgylchedd glan a mwynderau addas ar gyfer trigolion a holl ddefnyddwyr y ddinas. Angen I'r Pwyllgor gynnwys cynrychiolaeth o garedigion y ddinas.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
826	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI CYF1	Gwrthwynebu	CYF1 Sylw ar y gwahaniaeth rhwng y nifer a ddiogelir a chyfradd targed y tir cyflogaeth a gymerir.	**Derbyn** - Cytunir fod angen diwygio'r Polisi er mwyn cael mwy o eglurder ynglŷn â sut mae'r ffigwr o'r tir i'w warchod a'i ddynodi wedi cael ei bennu. **Argymhelliad** Er mwyn eglurder cynigir fod y Polisi yn cael ei ddiwygio er mwyn gwahaniaethu rhwng dynodiadau a gwarchodaeth tir cyflogaeth ynghyd a chynnwys eglurder pellach ynglŷn â sut mae'r tiroedd wedi cael eu hadnabod. **Newid â Ffocws: NF47**
883	Mr John Tripp [252]	POLISI CYF1	Gwrthwynebu	Anelu i Gaergybi ddatblygu diwydiant	**Dim yn derbyn**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				• i ymchwilio Wylfa B • prif borthladd o Iwerddon.	Nodir y sylw **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1013	Cyngor Cymuned Pentir (Mr Dilwyn Pritchard) [1536]	POLISI CYF1	Gwrthwynebu	Mae'r Cyngor yn bryderus ynglyn a'r ffaith fod safle diwydiannol i gael ei sefydlu yn ardal Penrhosgarnedd. Nid gwrthwynebu cael mwy o lefydd gwaith y mae'r Cyngor, ond y teimlad yw bod hyn yn mynd i ychwanegu at brysurdeb yr ardal. Rhaid cofio bod arian mawr wedi eu gwario dros y ddegawd ddiwethaf at ddatblygu Stad Bryn Cegin a'r camau rhesymol fyddai rhoi'r safle yma ar waith. Byddai hefyd yn gallu bod yn gartref i stad gwyddoniaeth newydd sydd yn mynd i gael ei ddatblygu yn ardal y Gaerwen, Sir Fon.	**Dim yn derbyn** Nodir y sylw **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1385	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI CYF1, C10 - Ger garej betrol, Y Ffôr	Gwrthwynebu	Rydym yn cefnogi C10 o gwmpas y modurdy (Tir Dolwar). Wrth nodi bod C27 sy'n 2.8ha o dir cyflogaeth (stad ddiwydiannol, yn rhannol yn y CDU, yn dal yn wag awgrymwn y dylid felly dynodi C10 gyda hyblygrwydd, ar gyfer un ai tai neu gyflogaeth, yn dibynnu ar flaenoriaethau ar y gweill a chynigion datblygu.	**Derbyn yn rhannol** - Mae Polisi CYF4 yn hyrwyddo defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth pan fo yna gyfiawnhad i wneud hynny wedi ei dderbyn. Yn anochel, wrth ystyried unrhyw ddefnydd amgen fe fyddai rhaid rhoi ystyriaeth i'r polisïau a gynhwysir o fewn y cynllun yn ei gyfanrwydd, hynny yw'r polisïau sydd yn berthnasol ymwneud hefo'r defnyddiau dan sylw. Ni chredir fod yna dystiolaeth rymus wedi ei gyflwyno sydd yn golygu'r angen i ddiwygio'r Cynllun. **Argymhelliad** Cynigir fod yna eirfa newydd yn cael ei gynnwys yn y paragraffau eglurhad i'r polisi CYF4 a fydd yn cyfeirio tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol a fwriedir ei baratoi yn berthnasol i newid defnydd ar safleoedd cyflogaeth. **Newid Bychan: NB10**
1625	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C10 - Ger garej betrol, Y Ffôr	Gwrthwynebu	Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff y Ffôr, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	**Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion
					Dim Newid
1647	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C27 - Stad Ddiwydian nol Y Ffôr, Y Ffôr	Gwrthwynebu	Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. Mae angen i ddatblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod carthffos yn croesi'r safle. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased.	**Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1648	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C27 - Stad Ddiwydian nol Y Ffôr, Y Ffôr	Gwrthwynebu	Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff y Ffôr, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	**Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**

53) Llangristiolus

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion
1014	Watkin Jones (Mr Stuart Hardy) [3159]	Map 53 - Llangristiolus	Gwrthwynebu	Tir ger Llanfawr Newydd. Mae'r wybodaeth uchod, sy'n cynnwys arfarniad cynaladwyedd cynhwysfawr o'r safle, yn dangos bod y safle'n un strategol bwysig ym Môn a dylid ei ddyrannu ar gyfer ystod o ddefnyddiau (diwydiannol ysgafn / masnachol / defnyddiau cymysg / hamdden) y gellir eu datblygu yn ystod cyfnod y cynllun. Yn gryno, mae mynediad rhagorol i'r safle; gallai fod yn ffactor fyddai'n hwyluso cychwyn datblygiad ar safle'r orsaf wasanaeth gerllaw, byddai'n ei wneud yn fwy deniadol i fuddsoddwyr a byddai'n darparu synergedd rhwng cyflogaeth a datblygiadau defnydd cymysg.	**Dim yn derbyn –** Mae'r sylw yn gofyn am gael cynnwys y safle fel dynodiad cyflogaeth o fewn y Cynllun. Mae'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth gynhwysfawr a gynhaliwyd yn adnabod yr angen ar gyfer tiroedd cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun ac mewn canlyniad mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer yr angen hynny. Ni chyflwynwyd unrhyw wybodaeth yn nodi fod yr angen tu hwnt i'r hyn a adnabyddir. Ymhellach ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi cynnwys y safle dan sylw yn lle un o'r safleoedd eraill sydd wedi ei ddynodi ar gyfer dibenion cyflogaeth. **Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

II) Ferrodo

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion
1404	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI CYF1, C20 - Cyn safle Friction Dynamex, Caernarfon	Gwrthwynebu	Dim ond yn nodi ehangder cyn safle Friction Dynamex yn rhannol fel un sydd wedi'i ddyrannu ac yn amodol i gefnogaeth polisi ar gyfer datblygiad. Felly, mae'r dyraniad hwn wedi'i ddiffinio'n artiffisial ac anghywir, ac nid yw'n adlewyrchu ehangder y tir a ddatblygwyd eisoes ar y safle. Mae angen i'r cynllun ddarparu dull mwy hyblyg, ymatebol a phragmatig o ailddatblygu'r safle hwn. Er ei fod yn briodol o bosib ar gyfer datblygiadau B2, mae'r safle yn annhebygol o	**Derbyn yn rhannol** - Mae Polisi CYF4 yn hyrwyddo defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth pan fo yna gyfiawnhad i wneud hynny wedi ei dderbyn. Yn anochel, wrth ystyried unrhyw ddefnydd amgen fe fyddai rhaid rhoi ystyriaeth i'r polisïau a gynhwysir o fewn y cynllun yn ei gyfanrwydd, hynny yw'r polisïau sydd yn berthnasol ymwneud hefo'r defnyddiau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion
				sicrhau'r fath ddatblygiad fel deilydd unigol. Byddai glynu at y math hwn o bolisi yn golygu na fyddai'n debygol i'r safle hwn gael ei ddatblygu ar gyfer defnyddiau B2. Dylid dileu'r safle o Bolisïau PS10 a CYF1 a'i nodi fel safle datblygu adfywio / defnydd cymysg penodol. Dylid cyfeirio at y rhagdybiaeth o blaid datblygu gynaliadwy.	dan sylw. Ymhellach fe fwriedir diwygio'r map gwarchod tir cyflogaeth er mwyn cyd-fynd a'r safle cyflogaeth flaenorol. Ni fydd y diwygiad yma yn cydymffurfio ac ehangder y safle a oedd yn destun y gwrthwynebiad. **Argymhelliad** Cynigir fod yna eirfa newydd yn cael ei gynnwys yn y paragraffau eglurhad i'r polisi CYF4 a fydd yn cyfeirio tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol a fwriedir ei baratoi yn berthnasol i newid defnydd ar safleoedd cyflogaeth. Ymhellach fe fydd y map o'r warchodaeth yn cael ei ddiwygio er mwyn cywirdeb. **Newid â Ffocws: NF132**
1639	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C20 - Cyn safle Friction Dynamex, Caernarfon	Gwrthwynebu	Fe ddylai ein rhwydwaith dŵr lleol ni fod yn ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. Byddai angen hyd helaeth o garthffosydd oddi ar y safle i gysylltu efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Lle nad oes cyfleusterau carthffosiaeth gyhoeddus ar gael, mae darpariaethau 'Cylchlythyr 10/99 Gofynion Cynllunio mewn perthynas â Defnyddio Systemau Carthffosiaeth heb Brif Gyflenwad a Chynnwys Tanciau Septig mewn Datblygiadau Newydd' yn gweithredu ac mae angen ymgynghori efo Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae modd darparu carthffosydd ar gyfer y safle datblygu posibl trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (efo newidiadau).	**Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion
1640	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C20 - Cyn safle Friction Dynamex, Caernarfon	Gwrthwynebu	Pe byddai'n cael ei gysylltu efo'r rhwydwaith garthffosydd cyhoeddus, byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Caernarfon. Byddai angen eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	**Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1644	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C24 - Parc Amaeth, Llanystumdwy	Cefnogi	Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. Does dim carthffosydd cyhoeddus yn agos at y safle hwn, ac felly mae darpariaethau 'Cylchlythyr 10/99 Gofynion Cynllunio mewn perthynas â Defnyddio Systemau Carthffosiaeth heb Brif Gyflenwad a Chynnwys Tanciau Septig mewn Datblygiadau Newydd' yn gweithredu, a gallai datblygwyr posibl ystyried gosod pecyn offer gwaith trin preifat. Byddai angen ymgynghori efo Adnoddau Naturiol Cymru ar y mater yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1275	Karen Taylor [3291]	POLISI CYF1, C26 - Safle Wynnstay farmers, Rhosfawr	Gwrthwynebu	A fyddech gystal â diddymu'r ardal a amlygir yn wyrdd o ddyraniad cyflogaeth C26: - Estyniad annerbyniol o'r safle presennol i dir amaethyddol - Ymddengys nad oes llawer o ddefnydd o'r safle presennol - Byddai'n cael effaith andwyol ar fwynderau preswyl. Mae'r safle presennol eisoes yn creu problemau sŵn o'r gweithgareddau a symudiadau cerbydau trwm - Nid yw'r rhwydwaith priffyrdd yn ddigonol i gael mwy o ddefnydd. Mynediad peryglus i'r B4354 - Lleoliad anghynaladwy - na wasanaethir gan wasanaeth	**Dim yn derbyn -** Mae'r Arolwg Tir Cyflogaeth yn adnabod yr angen ar gyfer safle cyflogaeth yng nghyffiniau Llyn er mwyn gwella a chynnal rôl aneddleoedd Porthmadog a Phwllheli. Yn sgil cyfyngiadau (llifogydd) sydd yn gysylltiedig â safleoedd ym Mhwllheli a Phorthmadog ystyriwyd yn briodol i adnabod y safle yn Wynstay Farmers ar gyfer defnydd cyflogaeth er mwyn diwallu'r angen sydd yn deillio o'r Astudiaeth Cyflogaeth'.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion
				bws rheolaidd ac nid yw'n hygyrch ond drwy ddefnyddio car - Ymwthiad gweledol annerbyniol i gefn gwlad agored - Posibilrwydd bod y caeau o werth bioamrywiaeth uchel - tir pori heb ei wella.	Mae'r safle mewn defnydd cyflogaeth bresennol ac mae yna rwydwaith ffordd dda yn gwasanaethu'r safle. **Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1378	Mr & Mrs R Moore [3302]	POLISI CYF1, C26 - Safle Wynnstay farmers, Rhosfawr	Gwrthwynebu	Effaith annerbyniol ar fwynder preswyl. Mae'r safle presennol eisoes yn peri problemau sŵn ac aflonyddwch. Byddai safle mwy yn gwaethygu hyn ac yn dwyn y defnydd yn llawer agosach i gefn ein tŷ a byddai hynny'n ormesol ac yn llethol. Mae digon o lefydd gweigion o hyd ar ystadau diwydiannol eraill yn yr ardal leol fyddai'n fwy addas ac yn medru diwallu'r angen (pe bai'r angen yna). Nid yw'r rhwydwaith priffyrdd yn ddigonol i gael mwy o ddefnydd. Mae cyffordd y B4354 yn beryglus. Lleoliad anaddas - nid oes gwasanaeth bws rheolaidd. Ni ellir ond cael mynediad ato â char. Rhy bell i gerdded a dim palmant o'r Ffôr. Y dynodiad i gael ei ddileu'n llwyr fel safle cyflogaeth neu'r ardal yn y cynllun amgaeedig sydd wedi'i lliwio'n wyrdd i gael ei dileu o'r dynodiad fel ei fod wedi'i gyfyngu i'r safle	**Dim yn derbyn -** Mae'r Arolwg Tir Cyflogaeth yn adnabod yr angen ar gyfer safle cyflogaeth yng nghyffiniau Llyn er mwyn gwella a chynnal rôl aneddleoedd Porthmadog a Phwllheli. Yn sgil cyfyngiadau (llifogydd) sydd yn gysylltiedig â safleoedd ym Mhwllheli a Phorthmadog ystyriwyd yn briodol i adnabod y safle yn Wynstay Farmers ar gyfer defnydd cyflogaeth er mwyn diwallu'r angen sydd yn deillio o'r Astudiaeth Cyflogaeth'. Mae'r safle mewn defnydd cyflogaeth bresennol ac mae yna rwydwaith ffordd dda yn gwasanaethu'r safle. **Argymhelliad** - Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion
				datblygu presennol.	
1646	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C26 - Safle Wynnstay farmers, Rhosfawr	Cefnogi	Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. Does dim carthffosydd cyhoeddus yn agos at y safle hwn, ac felly mae darpariaethau 'Cylchlythyr 10/99 Gofynion Cynllunio mewn perthynas â Defnyddio Systemau Carthffosiaeth heb Brif Gyflenwad a Chynnwys Tanciau Septig mewn Datblygiadau Newydd' yn gweithredu, a gallai datblygwyr posibl ystyried gosod pecyn offer gwaith trin preifat. Byddai angen ymgynghori efo Adnoddau Naturiol Cymru ar y mater yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1660	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C34 - Tir ger Awyrlu Mona, Mona	Cefnogi	Mae ein rhwydwaith dŵr lleol ni'n ddigon ar gyfer y gofynion dŵr domestig, i wasanaethu'r ardal ddatblygu hon. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr yn deillio o'r ardal ddatblygu hon. Mae angen i ddatblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod carthffos yn croesi'r safle. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1661	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C34 - Tir ger Awyrlu Mona, Mona	Cefnogi	Mae Gorsaf Pwmpio Carthffosiaeth Mona yn agos at y safle ac efallai bydd angen gwneud asesiad o'r orsaf honno i weld a fyddai modd derbyn y cyfan o'r llif o'r dyraniad arfaethedig ynte a fyddai angen gwelliannau pellach i'r orsaf yn y dyfodol cyn gallu symud ymlaen efo'r datblygiad. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llangefni'n gallu derbyn y llif	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion
				dŵr budr o'r gofynion domestig yn deillio o'r ardal ddatblygu hon.	
1665	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C37 - Cyn safle Shell, Rhosgoch	Gwrthwynebu	Efallai bydd angen cael prif gyflenwad dŵr tu allan i'r safle hwn i'w wasanaethu. Bydd modd cael hynny trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau dŵr trwy Adrannau 41 - 44 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Does dim carthffosydd cyhoeddus yn agos at y safle hwn. Mae'r carthffosydd cyhoeddus agosaf tua 2km i ffwrdd yn Amlwch tua'r gogledd, neu tua 2km i ffwrdd yn Rhosybol tua'r de-ddwyrain. Byddai angen carthffosydd tu allan i'r safle ond byddai datblygiad o'r maint yma'n golygu ei bod yn ddrud cael atebion i'r ddarpariaeth garthffosiaeth tu allan i'r safle. Lle nad oes cyfleusterau carthffosiaeth gyhoeddus ar gael yn agos, fel efo'r safle hwn, bydd darpariaethau 'Cylchlythyr 10/99 Gofynion Cynllunio mewn perthynas â Defnyddio Systemau Carthffosiaeth heb Brif Gyflenwad a Chynnwys Tanciau Septig mewn Datblygiadau Newydd' yn gweithredu, a gallai datblygwyr posibl ystyried gosod pecyn offer gwaith trin preifat. Byddai angen ymgynghori efo Adnoddau Naturiol Cymru ar y mater yma.	**Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1693	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI CYF1, C37 - Cyn safle Shell, Rhosgoch	Gwrthwynebu	* Does dim carthffosydd cyhoeddus yn agos at y safle hwn. Mae'r carthffosydd cyhoeddus agosaf tua 2km i ffwrdd yn Amlwch tua'r gogledd, neu tua 2km i ffwrdd yn Rhosybol tua'r de-ddwyrain. Byddai angen carthffosydd tu allan i'r safle ond byddai datblygiad o'r maint yma'n golygu ei bod yn ddrud cael atebion i'r ddarpariaeth garthffosiaeth tu allan i'r safle. Lle nad oes cyfleusterau carthffosiaeth gyhoeddus ar gael yn agos, fel efo'r safle hwn, bydd darpariaethau	**Nodir y sylw.** Fe fydd y pwyntiau a godwyd yn derbyn ystyriaeth bellach adeg cyflwyno cais cynllunio, drwy gysylltiad hefo DCWW. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Argymhellion
				'Cylchlythyr 10/99 Gofynion Cynllunio mewn perthynas â Defnyddio Systemau Carthffosiaeth heb Brif Gyflenwad a Chynnwys Tanciau Septig mewn Datblygiadau Newydd' yn gweithredu, a gallai datblygwyr posibl ystyried gosod pecyn offer gwaith trin preifat. Byddai angen ymgynghori efo Adnoddau Naturiol Cymru ar y mater yma.	**Dim Newid**

Yr Economi Ymwelwyr

Cefndir a Chyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
294	Cyfeillion Llŷn (Mrs Sian Parri) [2871]	7.3.46	Gwrthwynebu	Dylid nodi'n glir fod gwrthdaro rhwng hybu twristiaeth yn y modd traddodiadol a gwarchod yr iaith Gymraeg.	**Dim yn derbyn** Ni ddylid darllen y cynllun ar ei ben ei hun. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei siapio gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, a chynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Dim newid
191	Kingsbridge Caravan Park (Mr Andrew Bate) [2778]	7.3.47	Cefnogi	Daw twristiaeth sy'n gysylltiedig â meysydd carafanau a gwersylloedd â swm sylweddol o arian i ardaloedd Môn a Gwynedd. Arian 'newydd' yw hwn a chwistrellir i mewn i'r economi lleol. Hoffwn weld agwedd fwy cadarnhaol, gan awdurdodau, tuag at ddatblygiad meysydd carafanau a gwersylloedd presennol a'u safon. Mae angen i berchenogion gael rhyw elw o'u buddsoddiad.	**Nodwyd** Mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i economi ardal y cynllun. **Argymhelliad** **Dim Newid**

PS11 – Yr Economi Ymwelwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
184	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI STRATEGOL PS11	Gwrthwynebu	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleusterau addysgol, llynnoedd pysgota, canolfannau chwaraeon dŵr, traciau beicio mynydd, beicio cwad, cyfleusterau gwifren uchel, cyfleoedd dringo creigiau, amffitheatr ar gyfer cynghorddau, cyfleoedd llety, gwersylloedd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol. Bydd yr holl gyfleusterau uchod yn creu cyflogaeth ac yn cefnogi economïau gwledig a dylid eu cefnogi ar dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio yn yr ardal wledig. Caniatáu hyblygrwydd yn y policy ar gyfer defnyddiau terfynol amgen a hyfyw o safleoedd mwynau.	**Derbyn** Mae Polisïau TWR1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr, TWR2: Llety Gwyliau, TWR3: Carafanau Sefydlog, Safleoedd Cabanau Gwyliau a Llety Gwersylla Amgen Parhaol yn caniatáu ar gyfer datblygiadau ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen sy'n cynnwys safleoedd mwynau a gwastraff (PCC, 2016, ffigwr 4.4). **Argymhelliad** Dim newidiadau i'r polisi ond cynnwys diffiniad o'r term, "Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen" yn y rhestr o dermau fel y gellir dehongli'r polisi yn hawdd. **Newid â Ffocws NF111**
185	Lafarge	POLISI	Gwrthwynebu	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau	**Nodwyd**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Tarmac Trading Limited [2735]	STRATEGOL PS11		hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleusterau addysgol, llynnoedd pysgota, canolfannau chwaraeon dŵr, traciau beicio mynydd, beicio cwad, cyfleusterau gwifren uchel, cyfleoedd dringo creigiau, amffitheatr ar gyfer cyngherddau, cyfleoedd llety, gwersylloedd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol. Bydd yr holl gyfleusterau uchod yn creu cyflogaeth ac yn cefnogi economïau gwledig a dylid eu cefnogi ar dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio yn yr ardal wledig. Caniatáu hyblygrwydd yn y policy ar gyfer defnyddiau terfynol amgen a hyfyw o safleoedd mwynau.	Mae Polisïau TWR1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr, TWR2: Llety Gwyliau, TWR3: Carafanau Sefydlog, Safleoedd Cabanau Gwyliau a Llety Gwersylla Amgen Parhaol yn caniatáu ar gyfer datblygiadau ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen sy'n cynnwys safleoedd mwynau a gwastraff (PCC, 2016, ffigwr 4.4) **Argymhelliad** Dim newidiadau i'r polisi ond cynnwys diffiniad o'r term, "Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen" yn yr rhestr o dermau fel y gellir dehongli'r polisi yn hawdd. **Newid â Ffocws NF111**
340	Mr Geoff Wood [2916]	POLISI STRATEGOL PS11	Gwrthwynebu	Mae gan lety hunanarlwyo, megis bythynnod a fflatiau, gyfraniad sylweddol i'r economi ymwelwyr ac ni chaiff y cyfleusterau hyn eu hystyried ym Mholisi Strategol PS11ar hyn o bryd.	**Derbyn** Cytuno bod y diwydiant hunanarlwyo yn chwarae rhan bwysig yn nhwristiaeth Ardal y Cynllun. **Argymhelliad** Diwygio pwynt 3 o'r polisi i gynnwys "bythynnod a fflatiau gwyliau" i sicrhau cysondeb mewnol y cynllun. **Newid â Ffocws NF51**
456 & 761	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGOL PS11	Gwrthwynebu	Mae Bourne Leisure yn cefnogi PS11 mewn egwyddor gan ei fod yn cefnogi datblygiad y diwydiant ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn. Serch hynny, mae Bourne Leisure yn ystyried y dylid ail-ddrafftio pwynt 3 i ddarllen: "Rheoli a chyfoethogi darpariaeth llety ymwelwyr hunan cynhaliol o safon uchel o ran pebyll, pebyll amgen moethus, parciau carafán statig neu	**Derbyn** Cytuno y dylai PS11 anelu at wella ansawdd y datblygiadau twristiaeth bresennol. **Argymhelliad** Diwygio pwynt 3 i gynnwys y gair "gwella" i

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				deithiol neu siales.	sicrhau cysondeb mewnol y cynllun **Newid â Ffocws NF51**
741	Tom Brooks [3034]	POLISI STRATEGOL PS11	Gwrthwynebu	Fel mae'n sefyll mae polisi PS11 yn bygwth datblygu mwy o lety ymwelwyr trwy drosi eiddo presennol i greu llety ymwelwyr. Mae dros 60% o'r eiddo ym Morth-y-Gest eisoes yn dai haf neu'n unedau i dwristiaid. Tu allan i dymor yr haf, sef y prif dymor, nid yw Borth-y-Gest yn hollol wag, ond byddai mwy o dai haf yn mynd â'r pentref i'r perwyl hwnnw yn gyflym iawn. Dylid addasu PS11 i ddarllen "atal datblygiadau fyddai'n cael effaith andwyol annerbyniol ar atyniadau i dwristiaid, gan gynnwys datblygiadau allai gael effaith andwyol ar bentrefi prydferth, yn cynnwys presenoldeb y diwylliant Cymreig a datblygiadau a allai beri niwed i fywyd trwy'r flwyddyn mewn pentrefi sy'n ddeniadol i dwristiaid."	**Dim yn derbyn** Mae'r meini prawf ym mholisi TWR2: Llety Gwyliau yn anelu at atal colled y stoc o dai parhaol, niweidio cymeriad preswyl yr ardal ac osgoi gor-grynodiad o lety gwyliau o fewn ardaloedd. **Argymhelliad** Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
777	Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541]	POLISI STRATEGOL PS11	Gwrthwynebu	Mae'r Cynllun yn cyfeirio at economi ymwelwyr - os yw hwn am fod yn effeithiol dylid datblygu a gwella ffyrdd, llwybrau a llwybrau beic. Mae angen dybryd ar y Cyngor ystyried y rhain er budd y trigolion lleol yn ogystal a thwristiaid. Petai wella'r cyfleusterau sy'n arwain i'r Penrhyn arbennig yma, efallai y gellid sefydlu diwydiant yma ac felly cwtogi ar niferoedd y rhai sydd heb waith.	**Dim yn derbyn** Ni ddylid darllen adran Yr Economi Ymwelwyr ar ei phen ei hun. Dylid darllen y cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae cyfres o bolisïau a thestun cefnogol yn y cynllun sy'n egluro sut y dylid rheoli datblygu. **Argymhelliad** Nid oes angen y newid hwn oherwydd ymdrinnir ag ef mewn rhannau eraill o'r cynllun ac mewn polisi cenedlaethol. **Dim newid**
785	Ymgyrch	POLISI	Gwrthwynebu	Rydym yn cydnabod rôl bwysig carafanau i dwristiaeth yn	**Dim yn derbyn**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	STRATEGOL PS11		ardal y CDLl ar y Cyd. Ein prif bryder yw difrod i'r dirwedd oherwydd gorddatblygu, carafanau teithiol yn mynd yn fwy parhaol, a sgrinio annigonol ar safleoedd. Credwn y dylai'r moratoriwm ar safleoedd sefydlog newydd gael ei ymestyn i safleoedd teithiol, o leiaf mewn ardaloedd dynodedig, ac y dylid parhau i ganiatáu ychwanegiadau bychain i safleoedd presennol yn gyfnewid am welliannau gwirioneddol i'r effaith weledol. Byddai mynd i'r afael â'r materion hyn yn arwain at well ansawdd yn hytrach na nifer uwch o lety carafán i dwristiaid ar draul y dirwedd, yn unol â phwynt 3 PS11 yn benodol. Dylid ceisio'n galetach i sicrhau gwelliannau o'r fath a'u gweithredu yn fwy effeithiol ar gyfer yr holl safleoedd agored, yn cynnwys carafanau sefydlog sengl ar eiddo unigol (gweler cyflwyniad 23 Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig). Dylai polisïau strategol ar gyfer twristiaeth adlewyrchu'r pryderon hyn.	Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt olygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. Mae Polisi TWR5 yn amcanu at leihau effaith safleoedd carafanau teithiol a gwersylla newydd ac estynedig ar y dirwedd. Hefyd nid yw'r polisi yn caniatáu ar gyfer storio carafanau dros y gaeaf a dylid eu symud oddi ar y safle pan na ddefnyddir hwy. Noda paragraff 7.3.72 y bydd y cynghorau angen tystiolaeth gref ar gyfer ceisiadau na fydd unedau pellach o lety ar neu ger yr arfordir ac yn yr AHNE yn niweidio cymeriad yr adnoddau naturiol. **Argymhelliad** Nid oes angen y newid i sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
791	Caravan Club [3039]	POLISI STRATEGOL PS11	Gwrthwynebu	Yn gryno, mae'r polisïau sy'n ymwneud â llety twristiaid yn cael eu hystyried yn rhy gyfyngedig ac mae diffyg eglurder ynghylch math y datblygiad sy'n dderbyniol ar safleoedd carafanau teithiol presennol. Dylid addasu'r polisi i sicrhau nad yw'r cynllun yn effeithio ar allu busnesau twristiaeth leol i addasu i anghenion newidiol yr economi ymwelwyr ac nad yw'n effeithio ar hyfywedd economaidd y busnesau hyn yn y dyfodol sy'n cefnogi economïau, cyflogaeth a chymunedau lleol.	**Dim yn derbyn** Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth ac mae'n gwneud digonedd o ddarpariaeth ar gyfer datblygiadau twristiaeth. Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod bod llawer o gyrchfannau ymwelwyr yn ardal y Cynllun mewn mannau o bwysigrwydd uchel yn amgylcheddol ac o ran tirwedd, ac y dylai unrhyw ddatblygiad posibl fod yn briodol o ran graddfa a natur, er mwyn bod yn gydnaws â chymeriad yr ardal.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
860	Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	POLISI STRATEGOL PS11	Cefnogi	Cefnogir Polisi PS11	**Nodwyd** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1414	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI STRATEGOL PS11	Gwrthwynebu	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y polisïau rheoli datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft. Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol: * mentrau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth briodol; * hamdden, ond dim ond pan fyddant yn briodol i leoliad cefn gwlad a defnydd arall o dir yn yr ardal yn cynnwys amaethu.	**Nodwyd** Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i ardaloedd gwledig, a bod angen i unrhyw ddatblygiadau newydd posibl fod yn briodol o ran maint a natur er mwyn bod yn gydnaws â chymeriad yr ardal. **Argymhelliad** Nid oes angen newid er mwyn ymateb i'r sylw **Dim Newid**

TWR1 – Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
186	Ellesmere	POLISI	Gwrthwynebu	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau	**Derbyn**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Sand & Gravel Company Limited [2686]	TWR1		hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleusterau addysgol, llynnoedd pysgota, canolfannau chwaraeon dŵr, traciau beicio mynydd, beicio cwad, cyfleusterau gwifren uchel, cyfleoedd dringo creigiau, amffitheatr ar gyfer cyngherddau, cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol. Bydd yr holl gyfleusterau uchod yn creu cyflogaeth ac yn cefnogi economïau gwledig a dylid eu cefnogi ar dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio yn yr ardal wledig. Diddymu cyfeiriad tuag at ffin datblygu. Caniatáu hyblygrwydd yn y policy ar gyfer defnyddiau terfynol amgen a hyfyw o safleoedd mwynau.	Mae Polisïau TWR1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr, yn caniatáu ar gyfer datblygiadau ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen sy'n cynnwys safleoedd mwynau a gwastraff (PCC, 2016, ffigwr 4.4). **Argymhelliad** Dim newid i'r polisi ond cynnwys diffiniad o'r term, "Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen" yn y rhestr o dermau fel y gellir dehongli'r polisi yn hawdd **Newid a Ffocws NF111**
187	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI TWR1	Gwrthwynebu	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleusterau addysgol, llynnoedd pysgota, canolfannau chwaraeon dŵr, traciau beicio mynydd, beicio cwad, cyfleusterau gwifren uchel, cyfleoedd dringo creigiau, amffitheatr ar gyfer cyngherddau, cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol. Bydd yr holl gyfleusterau uchod yn creu cyflogaeth ac yn cefnogi economïau gwledig a dylid eu cefnogi ar dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio yn yr ardal wledig. Diddymu cyfeiriad tuag at ffin datblygu. Caniatáu hyblygrwydd yn y policy ar gyfer defnyddiau terfynol amgen a hyfyw o safleoedd mwynau.	**Derbyn** Mae Polisïau TWR1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr, yn caniatáu ar gyfer datblygiadau ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen sy'n cynnwys safleoedd mwynau a gwastraff (PCC, 2016, ffigwr 4.4). **Argymhelliad** Dim newid i'r polisi ond cynnwys diffiniad o'r term, "Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen" yn y rhestr o dermau fel y gellir dehongli'r polisi yn hawdd **Newid a Ffocws NF111**
396	Rheilffordd Eryri (Mr	POLISI TWR1	Cefnogi	Cefnogi	**Nodi'r Sylw Cefnogol**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Graham Farr) [254]				**Argymhelliad** **Dim Newid**
457 & 744	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI TWR1	Gwrthwynebu	Dylid ail ysgrifennu Polisi TWR1 i ganiatáu ailddatblygiad/ailwampio/ estyniad i lety ymwelwyr sydd tu allan i ffiniau datblygu, cyn belled y gellir gweithredu mesurau lliniaru cyfatebol (er enghraifft cynnwys parth rhagod a thirweddu addas) er mwyn lleihau ardrawiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol.	**Dim yn derbyn** Noda canllawiau polisi cenedlaethol bod angen i ddatblygiadau mewn cefn gwlad agored, ymhell oddi wrth aneddleoedd presennol, gael eu rheoli'n llym. Mae meini prawf 1-3 yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer datblygiadau nad ydynt wedi eu lleoli o fewn ffiniau datblygu neu gerllaw iddynt. **Argymhelliad** Nid oes angen y newid i sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1170	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI TWR1	Gwrthwynebu	Mae angen eglurhad o beth ydi ystyr "ffin ddatblygu". Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i bolisi TWR1 mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig isod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r paragraffau hyn.	**Dim yn derbyn** Pwrpas ffiniau datblygu yw cyfeirio y rhan helaeth o ddatblygu i safleoedd sydd o fewn aneddleoedd er mwyn rheoleiddio datblygu a gwarchod cefn gwlad agored rhag datblygiadau amhriodol. Mae'r Cynllun yn adnabod fod rhai mathau o ddatblygiad angen lleoliad yn y cefn gwlad. Credir bod pwyslais digonol yn cael ei roi ar y prosiect Wylfa Newydd a'r manteision economaidd a fyddai'n arwain ohono yn y cynllun. Mae polisïau eraill yn y Cynllun sy'n cynnwys egwyddorion cynllunio a fyddai angen eu cyfeirio at wrth ymateb i geisiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd .

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

TWR2 – Llety Gwyliau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
190	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI TWR2	Cefnogi	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol. Caiff y polisi hwn ei gefnogi cyhyd ag y caiff safleoedd cloddio mwynau eu hystyried yn safleoedd sydd eisoes wedi'u datblygu ym mhwynt 4.	**Nodwyd** Mae Polisïau TWR2: Llety Gwyliau, yn caniatáu ar gyfer datblygiadau ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen sy'n cynnwys safleoedd mwynau a gwastraff (PCC, 2016, ffigwr 4.4). **Argymhelliad** Dim newid i'r polisi ond cynnwys diffiniad o'r term, "Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen" yn y rhestr o dermau fel y gellir dehongli'r polisi yn hawdd **Newid a Ffocws NF111**
193	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI TWR2	Cefnogi	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis, cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol. Caiff y polisi hwn ei gefnogi cyhyd ag y caiff safleoedd cloddio mwynau eu hystyried yn safleoedd sydd eisoes wedi'u datblygu ym mhwynt 4.	**Nodwyd** Mae Polisïau TWR2: Llety Gwyliau, yn caniatáu ar gyfer datblygiadau ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen sy'n cynnwys safleoedd mwynau a gwastraff (PCC, 2016, ffigwr 4.4). **Argymhelliad** Dim newid i'r polisi ond cynnwys diffiniad o'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					term, “Tir a Ddatblygwyd o’r Blaen” yn y rhestr o dermau fel y gellir dehongli’r polisi yn hawdd **Newid a Ffocws NF111**
342	Mr Geoff Wood [2916]	POLISI TWR2	Gwrthwynebu	Mae'n anodd meintioli beth yw gorgrynhoad o lety gwyliau, ac mae'n arwain at ansicrwydd i ymgeiswyr. Dileu neu ddiwygio rhan 8 "Nad yw’r datblygiad yn arwain at ormodedd o lety o’r fath yn yr ardal.”	**Derbyn** Diwygio esboniad y polisi. Bydd CCA yn cael ei gyhoeddi er mwyn darparu rhagor o wybodaeth ar y mater. **Argymhelliad** Dim newid i’r polisi ond cynnwys diffiniad o’r term i sicrhau y gellir dehongli’r polisi yn hawdd. **Newid â Ffocws NF52**
344	Mr Geoff Wood [2916]	POLISI TWR2	Gwrthwynebu	Cefnogi egwyddor y polisi ac, yn enwedig felly ran 4. Fodd bynnag, nid yw'n cadw mewn cof ddiogelu adeiladau gwerinol sydd â gwerth treftadaeth. Dan rai amgylchiadau, mae modd datblygu'r rhain yn hyfyw er mwyn diogelu cymeriad lleol a/neu dreftadaeth Gymreig. Diwygio rhan 4 i ddarllen “Yn achos llety sy’n adeilad newydd, bod y datblygiad yn cael ei leoli tu mewn i ffin ddatblygu, neu’n gwneud defnydd o safle addas a ddatblygwyd o’r blaen**,** neu’n golygu ailddefnyddio ased treftadaeth sy’n helpu i ddiogelu cymeriad lleol a/neu’r diwylliant Cymreig.”	**Dim yn derbyn** Ni ddylid darllen adran Yr Economi Ymwelwyr ar ei phen ei hun. Dylid darllen y cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae cyfres o bolisïau a thestun cefnogol yn y cynllun sy’n egluro sut y dylid rheoli datblygu. **Argymhelliad** Nid oes angen y newid hwn oherwydd ymdrinnir ag ef mewn rhannau eraill o’r cynllun ac mewn polisi cenedlaethol. **Dim newid**
742	Tom Brooks [3034]	POLISI TWR2	Gwrthwynebu	Mae llawer o'r golled o unedau tai ar gyfer teuluoedd lleol wedi digwydd oherwydd bod adeiladau presennol yn cael eu trosi yn "llety gwyliau â gwasanaeth a hunanwasanaeth parhaol". Mae hwn yn batrwm hynod o niweidiol i bentrefi megis Borth-y-Gest. Mae angen addasu TWR2 i warchod	**Dim yn derbyn** Mae Pwyntiau 6, 7 ac 8 y polisi yn amcanu at leihau effaith llety gwyliau ar gartrefi parhaol ac ardaloedd preswyl.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				rhag colli hyd yn oed mwy o unedau byw i deuluoedd. Ar hyn o bryd mae'n rhagdybio o blaid rhoi caniatâd, ac nid yw'r gwaharddiadau'n benodol nac yn ddisgrifiadol. Dylid addasu TWR2 i ddileu pwynt 2 (trosi adeiladau sy'n bodoli eisoes). Dylid ychwanegu polisi newydd i ganiatáu trosi adeiladau presennol dim ond yn yr aneddleoedd sy'n uwch i fyny yn y strategaeth aneddleoedd.	**Argymhelliad** Nid oes angen y newid i sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1072	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI TWR2	Gwrthwynebu	Byddai'r polisi'n gryfach pe bai'n cynnwys esboniad o'r hyn y byddai Cynghorau'n ei ystyried fel perygl o 'ormodedd' (Cymal 8) o lety penodol.	**Derbyn** Cynnwys cyfiawnhad rhesymedig yn esboniad y polisi. Bydd CCA yn cael ei gyhoeddi er mwyn darparu rhagor o wybodaeth ar y mater. **Argymhelliad** Dim newid i'r polisi ond cynnwys diffiniad o'r term i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn hawdd. **Newid â Ffocws NF52**
1171	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	7.3.55	Gwrthwynebu	Mae'r sylw yma'n ymwneud a pharagraffau 7.3.55 - 7.3.80 - mae Horizon am sicrhau nad ydi'r paragraffau hyn yn effeithio ar y llety i weithwyr adeiladu. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r paragraffau hyn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	**Dim yn derbyn** Credir bod pwyslais digonol yn cael ei roi ar y prosiect Wylfa Newydd a'r manteision economaidd a fyddai'n arwain ohono yn y cynllun . Mae polisïau eraill yn y Cynllun sy'n cynnwys egwyddorion cynllunio a fyddai angen eu cyfeirio at wrth ymateb i geisiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd . **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Dim newid

TWR3 – Safleoedd Carafannau Sefydlog a Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
96	BH&HPA [2733]	POLISI TWR3	Gwrthwynebu	Dylai Polisi TWR3 ddyfarnu ceisiadau cynllunio am feysydd carafanau gwyliau sydd yn yr AHNE a'r Ardal Tirwedd Arbennig yn erbyn set gyffredin o feini prawf a ddylai fod yn berthnasol i'r holl barciau. Os gall cynigion datblygu ddangos gwelliannau amgylcheddol sylweddol i ddyluniad, gosodiad ac edrychiad parc gwyliau, yna dylid eu hannog, waeth lle y cânt eu lleoli. Os caiff effaith gyffredinol safle ei gostwng a/neu fod hyn yn arwain at fanteision economaidd sylweddol, yna nid oes rheswm cadarn dros eithrio llecynnau ychwanegol. Rhaid i'r ysgogiad fod yno i gynorthwyo i ariannu'r prosiectau datblygu hyn a allai, yn aml iawn, fod yn ddrud. Newid y polisi trwy: 1. Dileu pwynt 3 2. Newid pwynt 4 i alluogi cynigion i wella safleoedd carafanau statig a chalet presennol trwy alluogi estyniad bach i faint y safle, ac/neu Ail leoli unedau ac/neu Cynydd bach yn y nifer o unedau yn ddarostyngedig i feini prawf manwl. Gweler sylw llawn am eirfa penodol a gynnigir.	**Dim yn derbyn** Amlygodd Papur Testun 9: Twristiaeth y dwysedd uchel o Barciau Carafanau Sefydlog a Chabanau Gwyliau sydd ar neu yn agos at yr arfordir, gan gynnwys rhannau helaeth o'r AHNE. Comisiynwyd Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i reoli datblygiadau fel safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau drwy nodi a diogelu ardaloedd sensitif ac arwahanol rhag datblygiadau amhriodol. Prif amcan dynodi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yw cadw a gwella eu harddwch naturiol, felly, rhaid rhoi'r statws uchaf o amddiffyniad iddynt rhag datblygiadau amhriodol. Gall effeithiau cronnus datblygiadau carafanau sefydlog a chabanau gwyliau mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ymwthio ar y dirwedd a niweidio cymeriad yr ardal wledig oni bai eu bod yn cael eu rheoli'n gaeth. Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ddynodiadau lleol anstatudol. Eu nod yw sicrhau nad yw'r dirwedd yn cael ei difrodi gan ddatblygiad amhriodol. Daeth yr astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti i'r casgliad yr ystyrir nad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					oes fel arfer unrhyw gapasiti ar gyfer datblygiadau parc carafanau sefydlog/cabanau gwyliau pellach, nac estyniadau iddynt yn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (na'r ardaloedd sy'n cyfrannu tuag at eu lleoliad). Mae awdurdodau cyfagos ac Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Nghymru wedi defnyddio dull o'r fath o ran safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
197	Kingsbridge Caravan Park (Mr Andrew Bate) [2778]	POLISI TWR3	Gwrthwynebu	Er y byddwn yn cytuno gyda'r bwriad i wrthod datblygu parciau NEWYDD yn yr AHNE, dylid rhoi ystyriaeth i'r bwriad i gyfyngu ar gynyddu nifer yr unedau mewn ardaloedd o AHNE. Gallai hyn esgor ar gynnydd yn y galw am ail dai gan ymwelwyr. Mae effeithiau hyn yn amlwg yn Rhosneigr a Threarddur. Hoffwn weld elfen o hyblygrwydd gyda phob cais yn cael ei gysidro ar ei deilyngdod ac efallai trafodaeth rhwng cynllunwyr a pherchenogion y parciau.	**Dim yn derbyn** Amlygodd Papur Testun 9: Twristiaeth y dwysedd uchel o Barciau Carafanau Sefydlog a Chabanau Gwyliau sydd ar neu yn agos at yr arfordir, gan gynnwys rhannau helaeth o'r AHNE. Comisiynwyd Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i reoli datblygiadau fel safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau drwy nodi a diogelu ardaloedd sensitif ac arwahanol rhag datblygiadau amhriodol. Prif amcan dynodi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yw cadw a gwella eu harddwch naturiol, felly, rhaid rhoi'r statws uchaf o amddiffyniad iddynt rhag datblygiadau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					amhriodol. Gall effeithiau cronnus datblygiadau carafanau sefydlog a chabanau gwyliau mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ymwthio ar y dirwedd a niweidio cymeriad yr ardal wledig oni bai eu bod yn cael eu rheoli'n gaeth. Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ddynodiadau lleol anstatudol. Eu nod yw sicrhau nad yw'r dirwedd yn cael ei difrodi gan ddatblygiad amhriodol. Daeth yr astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti i'r casgliad yr ystyrir nad oes fel arfer unrhyw gapasiti ar gyfer datblygiadau parc carafanau sefydlog/cabanau gwyliau pellach, nac estyniadau iddynt yn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (na'r ardaloedd sy'n cyfrannu tuag at eu lleoliad). Mae awdurdodau cyfagos ac Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Nghymru wedi defnyddio dull o'r fath o ran safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
222	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI TWR3	Cefnogi	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol	**Nodi'r Sylw Cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
223	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI TWR3	Cefnogi	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleoedd llety, gwersyllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol	**Nodi'r Sylw Cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
308	Point Lynas Caravan Park/Pant y Saer Caravan Park (Mr Peter Hoyland) [2886]	POLISI TWR3	Gwrthwynebu	Nid yw eitem 3 iii Polisi TW3 yn ddigon hyblyg i gyflawni nodau'r polisi. Cysidro cynnydd bychan yn niferoedd carafanau sefydlog neu siales ar y parc os gellid dangos ei bod angen ar gyfer i wneud cynllun gwella yn hyfyw.	**Dim yn derbyn** Amlygodd Papur Testun 9: Twristiaeth y dwysedd uchel o Barciau Carafanau Sefydlog a Chabanau Gwyliau sydd ar neu yn agos at yr arfordir, gan gynnwys rhannau helaeth o'r AHNE. Comisiynwyd Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i reoli datblygiadau fel safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau drwy nodi a diogelu ardaloedd sensitif ac arwahanol rhag datblygiadau amhriodol. Prif amcan dynodi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yw cadw a gwella eu harddwch naturiol, felly, rhaid rhoi'r statws uchaf o amddiffyniad iddynt rhag datblygiadau amhriodol. Gall effeithiau cronnus datblygiadau carafanau sefydlog a chabanau gwyliau mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ymwthio ar y dirwedd a niweidio cymeriad yr ardal wledig oni bai eu bod yn cael eu rheoli'n gaeth. Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ddynodiadau lleol anstatudol. Eu nod yw sicrhau nad yw'r dirwedd yn cael ei difrodi gan ddatblygiad amhriodol. Daeth yr astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti i'r casgliad yr ystyrir nad oes fel arfer unrhyw gapasiti ar gyfer

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					datblygiadau parc carafanau sefydlog/cabanau gwyliau pellach, nac estyniadau iddynt yn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (na'r ardaloedd sy'n cyfrannu tuag at eu lleoliad). Mae awdurdodau cyfagos ac Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Nghymru wedi defnyddio dull o'r fath o ran safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
458	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI TWR3	Cefnogi	Cefnogir agweddau o TWR3 gan ei fod yn hyrwyddo cynigion i wella safleoedd statig a silaes presennol cyn belled a'u bod nhw'n cydfynd a nifer o feini prawf.	**Nodi'r Sylw Cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
483	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	POLISI TWR3	Gwrthwynebu	Mae'r polisi gystal a gwahardd rhagor o garafanau statig yn yr AHNE ac AGT. Nid yw hyn yn rhoi dim i ysgogi perchnogion a gweithredwyr i wneud mwy o wellianau i'w safleoedd. Mae'r gwaharddiad yma yn groes bolisi cynllunio cenedlaethol sy'n rhoi pwyslais cynyddol ar fudd economaidd ddaw o dwristiaeth.	**Dim yn derbyn** Amlygodd Papur Testun 9: Twristiaeth y dwysedd uchel o Barciau Carafanau Sefydlog a Chabanau Gwyliau sydd ar neu yn agos at yr arfordir, gan gynnwys rhannau helaeth o'r AHNE. Comisiynwyd Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i reoli datblygiadau fel safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau drwy nodi a diogelu ardaloedd sensitif ac arwahanol rhag datblygiadau amhriodol. Prif

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
112	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	7.3.81	Cefnogi	Dylid defnyddio'r Stryd Fawr a chanol y ddinas hefyd ar gyfer anheddau, yn ogystal â masnach ac adloniant. Ni ddylid adeiladu yn uwch na thri llawr wrth adeiladu fflatiau neu neuaddau myfyrwyr mewn safleoedd nad ydynt ar gampws.	**Nodi** Mae'r pwynt bwled cyntaf ym mharagraff 7.3.81 yn cyfeirio at Bolisi Cynllunio Llywodraeth Cymru. Nid yw polisïau'r Cynlluniau yn atal defnydd preswyl yng nghanol trefi. Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau ar wahân sy'n cyfeirio at ddylunio ac integreiddio datblygiadau newydd yn eu hamgylchedd. **Dim Newid**

PS12 – Canol Trefi a Manwerthu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
432	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	POLISI STRATEGOL PS12	Cefnogi	Mae map y Cynllun Lleol yn dynodi canol y dref yn anghywir, yn ein barn ni. Mae yna lawer o siopau rhwng yr orsaf a Thafarn y Commercial. Mae nifer o siopau pwysicaf y dref ar y rhan yma o'r Stryd Fawr, gan gynnwys McColls, un siop bapurau ac un siop fwyd Tseinaidd. Dylid cadw'r adeiladau hyn fel siopau, yn ein barn ni.	**Nodi** Mae Map Blaenau Ffestiniog sy'n dangos canol y dref yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni. **Dim Newid**
606	Menter Iaith	POLISI	Cefnogi	Cytuna Menter Iaith Bangor gyda'r Polisi PS12	**Nodi**

	Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762]	STRATEGOL PS12		Canol Trefi a Manwerthu, a phwynt 1 - Annog cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau addas (fel y diffinnir yn PCC a NCT 4) mewn amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n denu ystod eang o bobl ar wahanol amseroedd o'r dydd, sy'n ddiogel ac yn hygyrch i bawb. Mae gormodedd o defnyddiau bwyd poeth i'w gario allan yng nghanol Bangor a phrinder gwestai a bwytai. Byddai'r Fenter yn croesawu busnesau cynhenid Cymreig a fyddai'n defnyddio'r Gymraeg ac yn rhoi awyrgylch Gymreig i'r prif strydoedd sydd ar hyn o bryd yn brin iawn o unrhyw arlliw o'r Gymraeg a Chymreictod.	Mae Polisi MAN7 yn darparu meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni wrth ystyried ceisiadau am siopau cludfwyd bwyd poeth, gan gynnwys ystyried gor-grynhoad. Mae Polisi Strategol PS1 yn ceisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg. **Dim Newid**
840	Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	POLISI STRATEGOL PS12	Gwrthwynebu	Croesawir polisïau sy'n gwarchod bywiogrwydd a hyfywdra Bangor fel Canolfan Fanwerthu Isranbarthol, a pholisïau sy'n diogelu Bangor wrth gyfyngu ar ehangiad datblygiadau manwerthu a hamdden allan o'r dref ac allan o ganol y dref. Fodd bynnag, dylid adnabod ardaloedd ailddatblygu arfaethedig o fewn canol y dref neu wrth ei ymyl, i sicrhau nad ydym yn colli cyfle manwerthu neu hamdden. Ymddengys bod nifer o safleoedd yn barod i'w datblygu: -Ochr dde-ddwyrain y Stryd Fawr rhwng Plas Llwyd a Chyffordd Stryd y Deon, gan gynnwys maes parcio Plas Llwyd. -Ochr ogledd-orllewin y Stryd Fawr gan gynnwys y Rose and Crown a'r White Lion. -Adeiladau'r brifysgol a'r maes parcio oddi ar Stryd James, yng nghefn Stryd y Deon, gan gynnwys adeilad Octagon gynt.	**Dim yn derbyn** Yn hytrach na dyrannu safleoedd penodol i gwrdd â'r arwynebedd llawr cyfleus a chymharol newydd ychwanegol a amcangyfrifir sydd ei angen dros gyfnod y Cynllun, mae'r Cynghorau o'r farn y byddai mwy o hyblygrwydd yn cael ei gyflawni drwy adael i rymoedd y farchnad ddod â safleoedd addas ymlaen ar gyfer datblygu neu ailddatblygu. Gellid hwyluso'r gwaith o ailddatblygu'r safleoedd a awgrymir yn yr Astudiaeth Manwerthu (2013), yn unol â Pholisi MAN1 a MAN3 a pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
861	Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew)	POLISI STRATEGOL PS12	Cefnogi	Cefnogir Polisi PS12 (gan nodi pwysigrwydd is-ranbarthol Bangor).	**Nodi** Amend text to provide explanation of the reason for using different hierarchies for retail and settlements. The retail hierarchy is based on the different retail roles of the centres and information in the Retail Study (2013). The settlement

	[2988]				hierarchy is based on a number of factors including the number, type and scale of existing services within each community. It is explained in greater detail in Topic Paper 5 Developing the Settlement Hierarchy **Argymhelliad** To ensure clarity the text within the policy will be amended to further explain how the retail hierarchy has been determined. **Dim Newid**
1067	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI STRATEGOL PS12	Gwrthwynebu	Gwahanol hierarchaeth i fanwerthu a thai - beth yw'r rhesymeg dros y gwahaniaeth?	**Derbyn** **Newid â Ffocws: NF:55**
1068	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI STRATEGOL PS12	Gwrthwynebu	Nid yw'n glir ble fydd y ddarpariaeth o ofod manwerthu'n cael ei leoli.	**Derbyn** Yn hytrach na dyrannu safleoedd penodol i gwrdd â'r arwynebedd llawr cyfleus a chymharol newydd ychwanegol a amcangyfrifir sydd ei angen dros gyfnod y Cynllun, mae'r UPCC o'r farn y byddai mwy o hyblygrwydd yn cael ei gyflawni drwy adael i rymoedd y farchnad ddod â safleoedd addas ymlaen ar gyfer datblygu neu ailddatblygu, yn unol â Pholisi MAN1 a MAN3 a pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Er hynny, ystyrir y dylid diwygio geiriad y Cynllun i ddangos canfyddiadau'r Astudiaeth Manwerthu, sy'n nodi sut y dylai'r gofyniad cyffredinol am arwynebedd llawr ychwanegol gael ei ddarparu ar sail anheddle unigol. **Argymhelliad** Diwygio'r Polisi a'r testun perthnasol i nodi pa ganolfannau manwerthu y disgwylir iddynt ddarparu arwynebedd manwerthu ychwanegol dros gyfnod y Cynllun. **Newid â Ffocws: NF: 56 a NF57**

1172	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS12	Gwrthwynebu	Mae'n bwysig gan Horizon y gallai Maen Prawf 6 "gwrthsefyll ymestyn datblygiadau manwerthu a hamdden y tu allan i ganol trefi" gyfyngu'n ormodol ar ddatblygu cyfleusterau hamdden ar safleoedd llety i weithwyr dros dro. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	Dim yn derbyn Mae Polisi PS12 yn cyd-fynd â chanllawiau polisi manwerthu a chanol trefi cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) 2014 a TAN 4 (1996). Ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol cynnwys polisïau manwl yn y cynllun sy'n ymwneud yn benodol â datblygiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd; mae polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun y bydd yn rhaid eu defnyddio wrth ystyried datblygiad cysylltiedig. **Argymhelliad** **Dim Newid**

MAN1 – Datblygiadau Arfaethedig Mewn Canol Trefi

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
536	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	POLISI MAN1	Gwrthwynebu	Nid yw Canol Tref Biwmares fel ag y mae ar y map hwn yn rhoi darlun cywir o ardal canol y dref go iawn y dref. Mae'n bwysig bod yr ardaloedd hyn yn cael eu nodi'n gywir yn y Cynllun Adnau fel bod swyddogaeth Biwmares fel canolfan gwasanaethau lleol a chyrchfan twristiaeth pwysig yn cael ei sicrhau gan y cynllun. Newidiadau i'r Cynllun: Newid yr ardaloedd sydd wedi'u marcio ar y map fel y nodwyd yn yr atodiad	**Dim yn derbyn** Mae Map Canol Tref Biwmares yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**

MAN2 – Prif Ardaloedd Manwerthu (Y Craidd Manwethu)

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1392	Cyng/Counc RH Wyn Williams [367]	POLISI MAN2	Gwrthwynebu	Oherwydd bod y cynllun am fod dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, fe hoffwn i chwi ystyried y canlynol i Abersoch:- Cais i gael cynnydd mewn ffin ardal siopau, oherwydd erbyn hyn mae yna sawl busnes ar hyd Lôn Engan yn barod, ac fe fydd angen ychydig o gynnydd gyda datblygiadau newydd yn ôl y galw a phrysurdeb Abersoch dros y 10 mlynedd nesaf ac fel cyrchfan Twristiaeth Lleol.	**Dim yn derbyn** Mae Map Canol Abersoch yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**
\	Cyng/Counc RH Wyn Williams [367]	POLISI MAN2	Gwrthwynebu	Oherwydd bod y cynllun am fod dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, fe hoffwn i chwi ystyried y canlynol i Abersoch: Ardal gyda ffin yn cael ei adnabod fel ardal Fasnachol a fydd yn hybu gwaith yn y diwydiant twristiaeth, budd economaidd.	**Dim yn derbyn** Mae Map Canol Abersoch yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**

MAN3 – Dim Sylw

MAN4 – Dim Sylw

MAN5 – Datblygiadau Manwethu Newydd Mewn Pentrefi

Rhif	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion

Sylw					
612	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI MAN5	Gwrthwynebu	Ystyrir y byddai Borth-y-Gest yn elwa o gael allfa manwerthu gan nad oes siop yn y pentref. Ystyrir bod Maen Prawf 5 MAN5 yn gyfyngol heb fod angen, yn enwedig ar adeg pan mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi ei fod yn mynd i gyflwyno ffioedd parcio yn y mannau parcio oddi ar y stryd agosaf. Newid a Awgrymir Diwygio maen prawf 5 MAN5 datblygiadau manwerthu newydd mewn pentrefi (trefniadau parcio i ganiatáu newid defnydd yr eiddo presennol i eiddo manwerthu heb fod angen cyfyngiadau parcio).	**Dim yn derbyn** Mae Polisi 2 yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**

MAN6 – Manwerthu yng Nghefn Gwlad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1175	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI MAN6	Gwrthwynebu	Nid yw'n eglur a fyddai'r polisi hwn yn cynnwys unrhyw ddatblygiad manwerthu sydd wedi'i gynnwys tu mewn i safleoedd llety i weithwyr dros dro. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisïau hyn.	**Dim yn derbyn** Mae Polisi MAN6 yn cyd-fynd â chanllawiau polisi manwerthu a chanol trefi cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) 2014 a TAN 4 (1996). Ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol cynnwys polisïau manwl yn y cynllun sy'n ymwneud yn benodol â datblygiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd; mae polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun y bydd yn rhaid eu defnyddio wrth ystyried datblygiad cysylltiedig. **Argymhelliad**

					Dim Newid

MAN7 – Defnyddiau Bwydd Poeth i'w Gario Allan

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
831	Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	POLISI MAN7	Gwrthwynebu	Mae'r Cyngor o'r farn - Y dylid cynnwys cyfyngiad o 10% ar ddarpariaeth siopau sy'n darparu bwyd poeth i'w gario allan yn y ddwy ardal ble mae digon ohonynt ar gael yn barod - yng ngwaelod Stryd Fawr Bangor o dan cyffordd Stryd y Deon ac yn Ffordd Caergybi ym Mangor Uchaf. - Ni ddylid caniatáu siopau sy'n darparu bwyd poeth i'w gario allan yn y brif ardal fanwerthu ddynodedig yng nghanol y dref, gan eu bod yn creu sbwriel, gwastraff a phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a all effeithio ar gymeriad canol y dref yn andwyol.	**Dim yn derbyn** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**

PENNOD 7.4 CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

Datblygiad Tai Cytbwys

PS13 – Darpariaeth Tai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
313	Cyfeillion LLyn (Mrs Sian Parri) [2871]	7.4.1	Gwrthwynebu	Gormod o dai i Bwllheli a Botwnnog. Dylid gwasgaru'r dyraniad drwy bentrefi'r ardal sydd yn cael ei gwasanaethu gan yr Ysgol Uwchradd a'r Feddygfa sydd wedi eu lleoli ym Motwnnog.	**Dim yn derbyn** - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
755	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	7.4.1	Cefnogi	Dywedir yn y trydydd pwynt bwled 'Rhaid i awdurdodau Cynllunio, mewn partneriaeth â'r gymuned... ddatblygu polisiau i gwrdd â'r heriau a'r amgylchiadau unigryw sy'n bresennol yn eu hardaloedd mewn lleoliadau penodol'. Croesawn y sylw yn y datganiad uchod	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				sef 'mewn partneriaeth â'r gymuned', a gobeithio y bydd pawb yn dilyn y canllaw hwn.	
280	Mr Aled Evans [2646]	7.4.2	Gwrthwynebu	Amcanion tai y llywodraeth Amcanion tai y Sir ddylsa gael y flaenoriaeth	**Dim yn derbyn** - Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
752	Cyngor Cymuned	7.4.2	Gwrthwynebu	Dywedir "...amcanion tai y Llywodraeth".	**Dim yn derbyn** - Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]			Ydi amcanion y Llywodraeth yn cyd-fynd â'r amcanion lleol tybed? Onid yr amcanion lleol ddylai reoli unrhyw ddatblygiad? Pa mor haearnaidd yw amcanion tai y Llywodraeth? Angen gwybodaeth am natur statudol amcanion tai y Llywodraeth.	ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
282	Ffedarasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	7.4.3	Gwrthwynebu	Mae angen eglurhad ar y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi os yw'r sylwadau am amodau'r farchnad yn seiliedig ar amodau lleol. Byddai'r Ffederasiwn yn nodi bod pethau'n fwy cadarnhaol trwy Gymru a'r Deyrnas Unedig. Dengys y ffigyrau diweddaraf gan y Ffederasiwn y	**Nodi'r sylw** – mae'r Astudiaethau Tir ar gyfer Tai blynyddol ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i ddangos bod y nifer o unedau tai sy'n cael eu adeiladu yn yr ardal yn gymharol isel ac y rhagwelir y bydd hynny'n parhau am gyfnod. Dengys dadansoddiad o dystiolaeth amrywiol bod nifer o aelwydydd yn yr ardal hefyd yn ei chael hi'n anodd i

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				bu cynnydd o 49% mewn eiddo preswyl a gafodd eu cymeradwyo yng Nghymru yn 2014. Dengys ffigyrau mis Ionawr 15 Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (yr NHBC) gynnydd o 12% mewn tai a gwblhawyd yng Nghymru yn 2014. Mae Cymorth i Brynu wedi cynorthwyo dros 1300 o bobl i brynu cartrefi yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf.	allu cael morgais neu rentu tai. Cofnodir hyn ym Mhapur Testun 3 Poblogaeth a Thai. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
751	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	7.4.6	Gwrthwynebu	Dywedir yma "...bod yn berchen ar dŷ ond yn opsiwn i'r rheini sydd ar incwm uchel ac i'r rheini sydd gan ecwiti o ffynonellau eraill, megis aelodau teulu neu etifeddiaeth". Mae 'Adroddiad Arolwg Anghenion Tai ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy' yn dangos fod plant yn dal i fyw adref adref a bod 61.4% yn methu prynu tŷ fforddiadwy. Fe ddylai'r Cynllun Adnau adlewyrchu anghenion lleol	**Nodi'r sylw** - Mae Papur Testun 3 Poblogaeth a Thai, er enghraifft, yn cofnodi'r sefyllfa o ran y farchnad tai yn ardal y Cynllun. Cyfeiriwn at ystod o bolisiau yn y Cynllun Adnau a fydd yn hyrwyddo cymysgedd o fathau o dai. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
749	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	7.4.7	Cefnogi	Rydym yn cytuno â'r sylw yn y paragraff hwn. Mae lle i ddatblygiadau tebyg ond llai mewn pentrefi gwledig hefyd.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
86	Y Mg. Carl Iwan Clowes [2728]	POLISI STRATE	Gwrthwynebu	Hoffwn weld dau opsiwn i) os yw Wylfa B yn mynd ymlaen ii) os yw'r cynllun yn	**Derbyn yn rhannol** - Dim ond twf gymharol fychan mae'r Cynllun yn hyrwyddo i fyny at 2018 oherwydd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
		GOL PS13		cael cymeradwyaeth ac nad yw Wylfa B yn mynd ymlaen, beth sy'n digwydd nesaf - tai gwag a gaiff ei lenwi gan pwy?	bod yr economi leol yn dal yn wan. Bydd rhaid i'r Cynllun gael ei fonitro'n flynyddol a bydd rhaid ei adolygu ar ôl 4 mlynedd, oni bai bod y gwaith monitro yn dangos bod angen un cynharach. Bydd y gwaith monitro ac adolygu yn cofnodi os bydd Wylfa Newydd yn digwydd ai pheidio yn ogystal â faint o unedau tai a gaiff eu hadeiladu. Os na fydd Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu, bydd angen i'r Cyngor ddangos trwy'r adolygiad sut fydd yn ymdopi â hynny. **Arghymhelliad** Er mwyn gwella eglurder credir byddai newid i greu dolen rhwng Polisi PS13 a'r Fframwaith Fonitro ym Mhennod 8 y Cynllun yn egluro'r sefyllfa yn well. **Newid â Ffocws: NF60, NF61** I sicrhau eglurdeb
130	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu'r gostyngiad o 7,665 yn y ddarpariaeth dai fel y nodir yn y Strategaeth a Ffafrir. Nid oes eglurhad yn y ddogfen pam fod hyn wedi digwydd. Ddim yn deall pam fod nifer yr unedau wedi'u rhannu'n gyfnodau o ddwy flynedd gan nad oes polisi fesul cam i gefnogi'r rhaniad hwn (er yr awgrymir hyn yn D26 y cynllun monitro). Nid oes modd i'r cynllun ei	**Derbyn yn rhannol** - mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				hun gynnal cyflenwad tir pum mlynedd fel y nodir yn y drydedd frawddeg - caiff hyn ei reoli gan rymoedd y farchnad. Angen esbonio pam bod y ffigwr wedi gostwng. Fel isafswm angen cynyddu'r ffigwr i 7471 ac adnabod cyfleoedd hyd at 8189. Tynnu allan y rhaniad tai rhwng y cyfnod o ddwy flynedd, mae'r polisi yn cyfeirio tuag ato fel targed eto mae'r rhan monitro yn themâu 4 D26 yn awgrymu ei fod yn gyfyngiad cam wrth gam. Angen ail eirio'r drydedd frawddeg.	galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Mae'r dadansoddiad o'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd effaith y dirwasgiad economaidd diweddar yn debygol o barhau i gael effaith yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cynllun. Mae diffyg cyllid ar gyfer datblygwyr ac argaeledd morgeisi i ddarpar berchnogion tai yn debygol o wahardd/ gyfyngu ar ddatblygiadau tai gael eu hadeiladu. Mae'r strategaeth tai yn glir nad ellir cyfarch y cyfanswm tai heb fod a dealltwriaeth o'r materion hyfywdra sydd yn yr ardal ar hyn o bryd. Rhagwelir felly y bydd nifer o unedau tai a gaiff eu hadeiladu yn gymharol isel yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cynllun, hyd at

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					2018, cyn gweld gwellhad i lefel uwch o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod weddill oes y Cynllun. Gwireddu Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau arwyddocaol a fydd y sbardun i'r adferiad. Bydd gwireddu'r cynllunio gam wrth gam yma yn dibynnu hefyd ar sefyllfa ariannol genedlaethol a rhyngwladol. Bydd y gwaith monitro blynyddol yn edrych i weld: ydi'r tai'n cael eu hadeiladu yn gynt neu'n arafach na beth ragwelwyd; ydi'r patrwm datblygu run fath a beth ragwelwyd. Os fydd yr atebion yn wahanol, yna bydd angen ystyried beth mae hynny'n golygu i ardal y Cynllun neu is-ardal. **Argymhelliad** Er mwyn gwella eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun credir bod sail i ychwanegu at baragraff 7.4.2 - 7.4.4 i ddangos sut cafodd dau gyfnod adeiladu ei adnabod ym Mholisi PS13 a chyfeirio at bwysigrwydd y monitro blynyddol. **Newid â Ffocws: NF59, NF60** I sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.
368	Mr Dave Eccles [269]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Caiff y gofynion tai cyfredol eu seilio ar ffigyrau sydd bellach yn bedair oed. Mae ffigyrau'r boblogaeth i'w gweld wedi gostwng yn gyffredinol er 2000.	**Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				Byddai gorgyflenwi'r un mor niweidiol â thangyflawni mewn ardal sydd mor ddibynnol ar dwristiaeth. Byddai prisiau eiddo'n syrthio yn yr achos cyntaf gan annog mwy o brynwyr 'ail gartref' a/neu boblogaeth sy'n gynyddol fynd yn hŷn. Yn yr ail achos, byddai pobl ifanc ar incwm cymharol is yn ei chael yn anodd prynu eu cartrefi eu hunain wrth i brisiau godi.	senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
447	WYG/Alliance	POLISI	Gwrthwynebu	Nid yw'r lwfans llithro 10% mewn twf	**Dim yn derbyn -** Edrychwyd ar agwedd awdurdodau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	Planning (Mr Mark Walton) [2905]	STRATEGOL PS13		tai yn ddigon i roi ystyriaeth lawn i rwystrau posib rhag gwireddu safle tai yn yr Ardal y mae'r awdurdodau'n gweithio ar y cyd, un ai trwy ddatblygwyr yn dod â safleoedd ymlaen neu ddarpar brynwyr yn sicrhau cyllid. Dylid darparu yn y Cynllun Datblygu Lleol fwy o hyblygrwydd o ran lleoliad a dewis o safleoedd tai sydd ar gael (dyraniadau).	cynllunio eraill ar draws Cymru. Yn gyffredinol gwelwyd mai 10% a ddefnyddiwyd gan lawer ohonynt er mwyn rhoi hyblygrwydd yn y cyflenwad o dir ar gael ar gyfer cyfarch y gal war gyfer unedau tai newydd. Byddai'n afresymol peidio cynnwys lwfans llithriad oherwydd byddai gwneud hynny'n dweud y bydd pob safle ym mhob man yn ildio 30 uned yr hectar yn union. Gwelwyd hefyd bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol mewn egwyddor i'r math yma o lefel. Edrychwyd hefyd ar batrymau'r gorffennol o safleoedd yn yr ardal gyda chaniatâd cynllunio ddim yn cael eu gwireddu a chaniatâd cynllunio ddim yn cael ei adnewyddu. Bydd nifer o unedau tai a gaiff eu hadeiladu yn destun monitro parhaol a fydd yn bwydo'r Astudiaeth Tir ar gyfer Tai Blynyddol a'r Adroddiad Monitro Blynyddol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
647	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS13	Cefnogi	Rydym yn cefnogi'r lefel darpariaeth tai a gynigir, y dyraniadau i gategori fforddiadwy, a'r polisi dyrannu tai cytbwys ac eang.	**Nodi'r sylw cefnogol.** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
657	Robert Llewelyn Jones [3058]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Rwy'n gofyn am gynllun i gynnwys y tai teras yng Nghaergybi a mannau eraill ar yr Ynys. Dylid cael cynllun yn ??? er mwyn galluogi eu diweddaru ac i drio gwella'r stoc tai preifat sydd gennym ar hyn o bryd. Mae dinasoedd megis Lerpwl yn y broses o foderneiddio eu canolfannau poblogaeth, mae'n hen bryd i ninnau wneud yr un peth. Dylech gynnwys cynllun radical i edrych ar ddyfodol ein stoc fawr o dai teras a llunio cynllun gweithredu i sicrhau eu bod yn dod yn rhan annatod o'n stoc tai cyfoes.	**Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro’r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a’r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy’n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy’n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae’n rhoi ffigwr sy’n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a’i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Nodir y sylw ynglŷn â gwneud defnydd effeithiol o’r stoc tai presennol. Fodd bynnag, er gall dod a thai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					sydd wedi bod yn wag ers peth amser gyfrannu i leihau'r galw am unedau tai newydd, mae sicrhau tai presennol yn cael eu huwchraddio tu hwnt i gylch gorchwyl y Cynllun. Bydd cynlluniau yn gysylltiedig ag Ardal Adfywio Caergybi yn gallu hyrwyddo cyfleoedd a fydd yn gwireddu amcanion i adfywio tref Caergybi. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
813	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS13	Cefnogi	Mae PS13 yn cynnig darparu tir ar gyfer 7902 o unedau tai newydd dros y cyfnod 2011-2026 yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd gyda'i gilydd (4084 yng Ngwynedd a 3817 yn Ynys Môn). O'r rhain mae 468 wedi cael eu cwblhau eisoes, mae gan 1476 arall ganiatâd cynllunio eisoes, sy'n gadael angen ychwanegol net o 2140 yng Ngwynedd. Mae hyn yn cynrychioli 3.5% (7% gros) o'r stoc tai presennol (cyfrifiad 2011) yng Ngwynedd. Mae'r nifer yn cymharu gyda 4178 uned (3187 net o safleoedd a gymeradwywyd) a ddarparwyd ar eu cyfer yn CDUG am y cyfnod 2001-2016.	**Nodi'r sylw cefnogol.** **Arghymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				Cefnogwn y ddarpariaeth tai yn y CDLl ar y Cyd ac ni welwn unrhyw reswm i ddadlau yn ei herbyn. Rydym hefyd yn cefnogi bod 15-20% o dai yn cael eu dyrannu i gategori 'fforddiadwy'.	
816	Cyngor Cymuned Tudweiliog (Mrs Glenys Peters) [1236]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Dylid codi tai yn ôl yr angen.	**Dim yn derbyn -** mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro’r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a’r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy’n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy’n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae’n rhoi ffigwr sy’n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a’i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
817	Cyngor Tref Pwllheli (Mr Robin W Hughes) [1235]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Gwrthwynebir niferoedd y ddarpariaeth tai. Maent yn rhy uchel ac am gael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg. Lleihau niferoedd darpariaeth tai i adlewyrchu twf yn y boblogaeth leol.	**Dim yn derbyn -** mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
818	Cyng./Counc Ann Williams [355]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Yn gyffredinol nid wyf yn credu fod astudiaeth ddigonol ar ardrawiad adeiladu cymaint o dai ar yr iaith Gymraeg, yng Ngwynedd gyfan, nag yn	**Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				y cymunedau unigol. Wrth son am Fethesda nodir nad yw mewnlifo yn broblem sylweddol yn yr ardal, ond ni nodir ar ba sail, na thrwy ddilyn pa ymchwil, y dywedir hyn. Byddwn yn fwy bodlon pe byddid yn gwneud yr ymchwil angenrheidiol ar effaith y bydd adeiladu nifer sylweddol o dai newydd yn ei gael ar yr iaith ym mhob rhan o'r ddwy sir	Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					chymunedau hyfyw. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
821	Jina Gwyrfai [3092]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Nid oes angen 7,902 o dai newydd. Nid oes digon o ystyriaeth i'r stoc tai presennol. Mae gormod (1,078) o dai gwag yn y 2 sir a chanran uchel iawn o dai haf. Dylid edrych ar y stoc yma a phrynu trwy orfodaeth, addasu a rhentu am bris teg i bobl leol sy'n methu fforddio tŷ o gwbl yn eu cynefin. Nid oes twf poblogaeth i warantu 8,000. Beth	**Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				am y tai ar werth sydd ddim yn gwerthu? Angen gwrthod y ffigyrau a chael polisïau cadarn i adfer defnydd tai gwag, codi trethi ar dai haf i gyllido digon o dai ar rent i bobl leol yn eu cymunedau.	ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Noder y sylw am dai gwag. Mae ystyriaeth wedi cael ei roi i fodolaeth tai gwag wrth drosi ffigwr aelwydydd i ffigwr galw am unedau tai ac wrth ystyried sut i gyfarch y galw am unedau tai newydd. Noder y sylw am dai haf. Fodd bynnag, mae codi treth ar y math yma o dai a defnyddio'r cyllid yn waith sydd tu hwnt i orchwyl y Cynllun. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
839	Menter Iaith Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Rhaid cyflawni gwaith ymchwil cadarn, sy'n perthnasu yn benodol i Fangor i ddarganfod y gwir angen lleol am dai yn y ddinas. Mae cred gref iawn gennym nad rôl Bangor yw darparu maestrefi noswylio i weithwyr gogledd ddwyrain Cymru a gogledd orllewin Lloegr. Bydd cyhoeddi Cynllun Datblygu terfynol sy'n seiliedig ar hynny yn niweidiol i hunaniaeth Gymreig Bangor ac yn tanseilio'r Gymraeg.	**Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					ddatblygu. Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisiau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisiau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal a Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
869	Hughes Bros Ltd - [3083]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Mae'r cydbwysedd y mae'n rhaid ei daro rhwng y gofyn am dai fydd yn codi yn ardal y cynllun, cyfyngiadau amgylcheddol a chapasiti'r dirwedd ym Mholisi PS13 yn mynd i arwain at ddiffyg darpariaeth o dai newydd. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol gan ystyried yr angen am dai marchnad agored a darpariaeth o dai fforddiadwy, a bydd hefyd yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer mathau gwahanol o lety preswyl, er enghraifft tai i bobl hŷn a phobl wedi ymddeol.	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro’r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a’r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy’n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy’n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae’n rhoi ffigwr sy’n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a’i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Bydd y mathau o unedau tai ar safleoedd a chynllun/

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					dyluniad y safleoedd yn faterion a gaiff eu trafod adeg cais cynllunio. Nid yw hyn yn gwahardd datblygu ar gyfer yr henoed neu grwpiau eraill o'r gymuned. Mae Polisi TAI 1 yn hyrwyddo cymysgedd o fathau o dai ac mae Polisi TAI4 yn son am gartrefi preswyl, tai gofal ychwanegol neu lety gofal ychwanegol ar gyfer yr henoed. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
870	Hughes Bros Ltd - [3083]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Mae'r lwfans llithriad 10% yn rhy isel i sicrhau fod anghenion tai'n cael eu cwrdd. Dylid cynnwys lwfans llithriad 20% o fewn y cyfanswm tir a ddynodir yn y cynllun.	**Dim yn derbyn** – Byddai'n afresymol peidio cynnwys lwfans llithriad oherwydd byddai gwneud hynny'n dweud y bydd pob safle ym mhob man yn ildio 30 uned yr hectar yn union. O ran adnabod lefel y lwfans llithriad yn y Cynllun, edrychwyd ar agwedd awdurdodau cynllunio eraill ar draws Cymru. Gwelwyd mai 10% a ddefnyddiwyd gan lawer ohonynt. Gwelwyd hefyd bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol mewn egwyddor i'r math yma o lefel. Edrychwyd hefyd ar batrymau'r gorffennol o safleoedd gyda chaniatâd cynllunio ddim yn cael eu gwireddu. Bydd nifer o unedau tai a gaiff eu hadeiladu yn destun monitro parhaol a fydd yn bwydo'r Astudiaeth Tir ar gyfer Tai Blynyddol a'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Adroddiad Monitro Blynyddol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
903	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu	Nid yw'n eglur pa ystyriaeth a roddwyd i'r effaith a ddaw yn sgil cyfnod adeiladu estynedig Wylfa Newydd ar yr angen am dai yn ardal y Cynllun. Rydym yn gwrthwynebu rhannu'r gofyniad tai i ddau gyfnod, fyddai'n cyfateb i 372 o gartrefi'r flwyddyn i gychwyn, gan ddyblu ar ôl hynny i 662 o dai'r flwyddyn. Dylai'r Cynllun gynnig gofyniad syml o 478 o dai'r flwyddyn dros gyfnod y cynllun. Byddai hyn yn symud y baich o'r cyfnod diweddarach ac yn rhoi amser i baratoi, cyflwyno a chaniatáu'r ceisiadau cynllunio er mwyn cynyddu'r cyfraddau adeiladu.	**Derbyn yn rhannol** - mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
526	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	POLISI TAI2	Cefnogi	TAI2: Tai Amlfeddiannaeth - rydym yn croesawu'r ymgais gyntaf i roi cap ar lety nad yw'n cael ei rannu a defnyddio 'parth chwilio a ffafrir'.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
629	Tom Brooks [3034]	POLISI TAI2	Gwrthwynebu	Mae newid defnydd adeiladau sydd yn addas ar gyfer teuluoedd yn y ffordd yma yn tynnu ffwrdd cartrefi sydd yn allweddol i breswylwyr ifanc lleol o'r stoc dai. Newid: Dylai'r gair 'teras' gael ei dynnu allan o faen prawf 1. Dylid ychwanegu maen prawf ychwanegol ar ôl A5 "Nad yw'r eiddo heb ei restru mewn anheddle o fewn polisi TAI5" os yw Borth y Gest yn cael ei ychwanegu i'r rhestr o gymunedau a enwir yn TAI5 neu fe ddylai y maen brawf ddarllen "Nad yw'r eiddo o fewn pentref arfordirol", os nad yw Borth y Gest ym mholisi TAI5.	**Dim yn derbyn -** mae isrannu tai i fflatiau hunangynhaliol a thai amlfeddiannaeth y gallu helpu i sicrhau bod yna gymysgedd briodol o dai yn cael ei pharatoi o fewn ardal y Cynllun. Fodd bynnag i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i broblemau all godi o fath ddatblygiadau mae yna gwahanol ffactorau sydd angen ei ystyried efo unrhyw gais sef addasrwydd y tŷ presennol i'r datblygiad arfaethedig a'i effaith ar fwynder defnyddiau cyfagos. Oherwydd hyn ni ystyrir bod tai teras dau lawr yn adeiladau addas i'w isrannu. Mae ymatebion eraill yn delio efo addasrwydd cynnwys Borth-y-Gest ym mholisi TAI 5 fodd bynnag buasai bwriad mewn anheddle ym mholisi TAI 5 neu Bentref Arfordirol yn cael ei ystyried yn erbyn meini prawf y polisi a lefel twf disgwyliedig yr anheddle yn hytrach na ar sail pa gategori mae'n disgyn ynddo. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
743	Cyngor Dinas	POLISI	Gwrthwynebu	Mae Cyngor y Ddinas yn croesawu'r rheolaeth	**Derbyn y sylw -** fe geir cyfeiriad i Dai mewn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	TAI2		a'r diogelwch a gynhwysir yn y CDLl ar y Cyd ynglŷn â'r math hwn o lety ym Mangor ac mae hefyd yn croesawu'r cyfyngiad a roddir ar ddwysedd y fath lety yng ngwahanol wardiau fel y nodir yn y ddogfen. Fodd bynnag, mae o'r farn bod angen i ddiffiniad y math hwn o lety gael ei wneud yn eglur ac yn ddiamwys yn y Cynllun. Croesawir y Papur Pwnc 'Llety Myfyrwyr' fel y croesawir yr ymrwymiad i ddiweddaru'r data yn y Papur Testun yn flynyddol.	Amlfeddiannaeth yn y tabl Rhestr Termau yn gefn y Cynllun Adnau. Fodd bynnag teimlir y gellid rhoi fwy o eglurhad yma ar gyfer ei chyd-destun efo polisi TAI 2. Yn ogystal ni cheir cyfeiriad i Fflatiau Hunangynhaliol yn y Rhestr Termau yma a chytunir i'w ychwanegu. **Argymhelliad** Diwygio Rhestr Termau er mwyn rhoi gwell diffiniad i Dai mewn Amlfeddiannaeth a Fflatiau Hunangynhaliol. **Newid a Ffocws NF111**
1177	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI TAI2	Gwrthwynebu	Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd (gweler sylwadau Horizon mewn perthynas â'r Cynllun). Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	**Derbyn yn rhannol -** gweler ymateb y Cynghorau i bolisïau newydd mae Horizon wedi ei gynnig ar gyfer delio efo Wylfa Newydd. Ni chredir bod angen polisi ar wahân ar gyfer delio efo bwriad fuasai yn gysylltiedig efo datblygiad Wylfa Newydd. Bydd y materion allweddol i'w ystyried efo bwriad isrannu eiddo presennol yn gyson pwy bynnag fydd yn defnyddio'r adeilad wedi iddo gael ei isrannu. Cytunir y gellid cynnwys geirfa yn yr eglurhad yn amlygu ystyried adeiladau gwag neu rhai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					sydd yn cael eu tanddefnyddio ar gyfer llety gweithwyr adeiladu dros dro cyn eu bod yn dod i ddefnydd preswyl. Fodd bynnag buasai yn rhaid ystyried angen ar hap aneddleoedd ac effaith fath ddatblygiadau ar hyn. **Argymhelliad** Cynnwys geirfa yn yr eglurhad i'r polisi i gadarnhau y gallai defnyddio adeiladau gwag/ rhai sy'n cael eu tanddefnyddio fod yn un o'r opsiynau i gyfrannu at gyfarch galw am lety gweithwyr dros dro. **Newid a Ffocws NF63**
1269	Partneriaeth Tai Gwynedd / Gwynedd Housing Partnership (Elfyn Owen) [3052]	POLISI TAI2	Cefnogi	Mae maint cyfartalog aelwydydd yn lleihau sy'n golygu newid mewn cyfansoddiad aelwydydd gyda nifer uwch o aelwydydd un person ynghyd a newidiadau mewn polisi lles yn golygu bod mwy o bobl yn chwilio am unedau llai. Mae gwybodaeth o ran nifer o bobl sydd yn chwilio am eiddo 1 llofft sydd wedi eu hadnabod i fod yn ddigartref gan y Cyngor yn dangos hyn yn glir. Yn yr un modd mae angen ar gyfer eiddo 2 lofft er mwyn sicrhau bod teuluoedd sydd yn cael eu heffeithio gan bolisi lles yn gorfod edrych i symud i eiddo llai. Gall y polisi hwn fod o gymorth er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol o eiddo 1 a 2 ystafell wely ar gael.	**Nodi'r sylw cefnogol.** **Argymhelliad** **Dim newid**

TAI 3 – Llety Pwrpasol Newydd, Tai Amlfeddiannaeth a Thai eraill gyda chyfleusterau a'u Rhennir ar gyfer Gweithwyr Adeiladu dros dro

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newidiadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
1176	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	7:4 Heb ei Gynnwys	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn gofyn am eglurhad o ran pa rai o'r polisïau ym Mhennod 7.4 sydd wedi'u bwriadu i gynnwys y strategaeth ar lety i weithwyr Wylfa Newydd ac, yn fwy penodol, pa agweddau o'r llety i weithwyr. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	**Dim yn derbyn –**Mae polisi TAI 3 yn cyfeirio yn uniongyrchol ar gyfer llety pwrpasol newydd ar gyfer gweithwyr adeiladu dros dro ar gyfer Wylfa Newydd. Mewn ymateb i sylw arall mae yna newid a ffocws ar gyfer cynnwys brawddeg ychwanegol yn yr eglurhad i bolisi TAI 2 'Isrannu Eiddo Presennol'. Mae hyn yn egluro y gall adeiladau gwag / rhai sy'n cael eu tan-ddefnyddio fod yn cyfrannu at gyfarch rhan o'r galw am lety gweithwyr dros dro. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1178	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI TAI3	Gwrthwynebu	Ar sail y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod, dylid dileu cyfeiriadau yn y polisi hwn at y "gweithwyr adeiladu dros dro"; yn eu lle, dylid defnyddio'r polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd. O ran weddill y polisi TAI3	**Derbyn yn rhannol -** Tra ddim yn derbyn y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sydd yn cael e i gynnig gan Horizon, gweler yr ymateb penodol i rain, cytuno i newid polisi TAI 3 trwy dynnu allan y cyfeiriad tuag at 'transient' yn y Saesneg fodd bynnag teimlir bod y term 'gweithwyr adeiladu dros dro' yn derm cywir yn y Gymraeg.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newidiadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
				hwn hefyd, yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi, sy'n pennu'n rhy dynn ar gyfer caniatáu'r cyfleusterau y bydd Horizon eu hangen, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd (gweler sylwadau Horizon mewn perthynas â'r Cynllun). Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	Mae yna newidiadau i eiriad ac ail-osod meini prawf o fewn y polisi. **Argymhelliad** Tynnu allan y term 'transient' o'r fersiwn Saesneg a newid geiriad ac ail-osod meini prawf o fewn y polisi. **Newid â Ffocws NF64**

TAI 4 – Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar Gyfer yr Henoed

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
424	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi TAI4	Cefnogi	Mae'r boblogaeth yn heneiddio, a rhaid wrth gyflenwad digonol o dai sy'n addas ar eu cyfer. Mae'n bwysig bod hyn yn cynnwys addasu tai presennol rhag gor ddarparu tai ychwanegol. Dylid ceisio galluogi pobl hŷn i aros yn eu cymunedau, sydd yn ei dro yn cyfrannu at gynaladwyedd cymdeithasol ac economaidd y cymunedau hynny	**Nodi'r sylw** - Credir fod y Cynllun yn hwyluso darpariaeth o'r math hwn. Cyfeirir hefyd at Bolisi TAI1. **Argymhelliad** **Dim newid**
1268	Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052]	Polisi TAI4	Cefnogi	Mae'r boblogaeth yn heneiddio ac felly mae angen darpariaeth o dai addas megis byngalos, fflatiau neu unedau gellir eu trosi'n hawdd. Mae dau gynllun tai gofal ychwanegol wedi eu datblygu yn y Sir gyda thrydydd cynllun i ddechrau ym mis Medi. Er bod y model hwn yn diwallu ychydig o'r angen mae angen cyflenwad cyson sy'n addas neu gellir ei addasu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio megis 'lifetime homes a safon ar gyfer datblygu tai sydd yn derbyn grant tai cymdeithasol. Mae'r Strategaeth Letya Pobl Hŷn wedi ei lunio gyda gwaith dadansoddol wedi ei gynnal i adnabod ardaloedd sydd gyda dwysder uwch o bobl hŷn a all olygu mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau gofal yn y dyfodol.	**Nodi'r sylw** - Credir fod y Cynllun yn hwyluso darpariaeth o'r math hwn. **Argymhelliad** **Dim newid**

TAI 5 – Tai Marchnad Lleol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1031	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Mae Paragraff 9.2.4 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn gwneud yn glir na fyddai amod meddiannaeth fel arfer ar gyfer tai marchnad ar gyfer anghenion lleol penodol. Byddai'n rhaid wrth dystiolaeth gref i gyfiawnhau gwyro o'r polisi cenedlaethol yn hyn o beth. Felly, dylai'r dystiolaeth fynd ymhellach ac esbonio'n fanwl pam na allai'r polisïau tai fforddiadwy a darparu tai fforddiadwy canolraddol, helpu i ddiwallu'r angen a nodwyd. At hynny, dywed paragraff 7.4.39 y cyfyngir tai'r farchnad leol a ganiateir o dan Bolisi TAI5 i'r rheini sy'n gymwys trwy gytundebau Adran 106 lleol. Nid yw felly yn cydymffurfio â PCC h.y. bod yr ymrwymiad yn angenrheidiol i "wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio" (PCC 3.7.6).	**Derbyn yn rhannol** – Credir fod geiriad paragraff 9.2.4 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi'n glir y cyfle i gyflwyno polisi o'r fath. Dyweder bod rhaid i awdurdodau lunio polisïau sy'n cyfarch yr heriau yn lleol ac os oes angen i'r polisïau hynny wyro oddi ar bolisi cenedlaethol bod gwneud hynny'n seiliedig ar dystiolaeth rymus. Credir fod tystiolaeth gref a chadarn yn cael ei ddarparu ym Mhapur Testun 17 i gefnogi a chyfiawnhau'r polisi a'r hyn mae'n ceisio ei gyflawni. Nodir nad ydi'r gwrthwynebydd wedi herio'r fethodoleg/ meini prawf sydd ynghlwm â'r polisi nac wedi atgyfnerthu eu barn gyda thystiolaeth rymus. Credir fod yn rhaid sicrhau fod yr unedau a fyddai'n destun y polisi hwn yn cwrdd ag anghenion lleol cydnabyddedig am byth. Tra nodai'r eglurhad i'r polisi yn y Cynllun Adnau y dylid ymglymu'r unedau drwy

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					gytundeb adran 106, cynigir diwygio'r geiriad er mwyn rhoddi'r cyfle i allu defnyddio dulliau eraill er mwyn sicrhau hyn e.e. amod cynllunio. Gellir ymhelaethu ar hyn yn y Canllaw Cynllunio Atodol perthnasol fydd yn cael ei baratoi o ran y maes hwn. O safbwynt defnyddio ymrwymiad cynllunio, credir fod hyn yn dderbyniol yn unol â geiriad paragraff 9.2.4 o PCC. Derbyn y dylid darparu rhagor o wybodaeth yn y polisi a Phapur Testun 17 i esbonio sut mae'r polisi hwn yn wahanol i'r polisïau tai fforddiadwy o ran diwallu anghenion penodol. **Argymhelliad** Dileu'r cyfeiriad at ddefnyddio Cytundeb Adran 106 yn yr eglurhad i'r polisi (paragraff 7.4.39) er mwyn rhoi'r cyfle i ddefnyddio dulliau eraill ar gyfer ymglymu'r tai i fod yn rhai marchnad lleol. Darparu rhagor o wybodaeth yn y polisi a hefyd ym Mhapur Testun 17 i esbonio sut mae'r polisi hwn yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					wahanol i'r polisïau tai fforddiadwy o ran diwallu anghenion penodol. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus i gyfiawnhau unrhyw ddiwygiad pellach i'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Newid â ffocws NF66** Er mwyn sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd.
599	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Bydd caniatáu tai marchnad leol a thai fforddiadwy yn unig yn gwanio cymunedau'n gymdeithasol ac yn economaidd ac yn cynyddu amddifadedd. Mae Polisi Cenedlaethol yn mynnu cymysgedd o dai fforddiadwy a thai ar y farchnad agored er mwyn sicrhau cymunedau cynaliadwy. Bydd cyfyngu datblygiadau i dai marchnad leol yn arwain at anghydbwysedd cymdeithasol. Byddai caniatáu tai angen lleol neu dai fforddiadwy mewn aneddiadau penodol yn debygol o sicrhau na ellir darparu'r lefel gofynnol o dai. Ni ellir cyflawni tai	**Ddim yn derbyn** - Credir fod y polisi hwn yn cryfhau cymunedau penodol ble mae problemau amlwg o fewn y farchnad dai leol, yn hytrach na'u gwanhau. Mae'n darparu cyfleoedd o fewn marchnadoedd tai lleol a gan hynny yn hybu cynaliadwyedd cymdeithasol. Mae'r lleoliadau hyn wedi eu dewis ar sail methodoleg glir ym Mhapur Testun 17. Nodir nad ydi'r gwrthwynebydd wedi herio'r fethodoleg/ meini prawf sydd ynghlwm â'r polisi nac wedi atgyfnerthu eu barn gyda thystiolaeth rymus. Noder y bydd tai marchnad agored dal ar gael yn y lleoliadau hyn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				angen lleol a thai fforddiadwy ond drwy ddatblygiadau cytbwys, hyfyw (gan gynnwys tai marchnad agored a thai fforddiadwy yn y datblygiadau). Mae 'tai angen lleol' yn dyblygu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ac nid oes ei angen ac ni ellir ei gyflawni. Dylid dileu'r Polisi.	o fewn y stoc dai bresennol. Yn hyn o beth credir yn gryf y dylid cadw'r polisi hwn. Credir fod PCC yn rhoddi'r cyfle i gyflwyno polisi o'r fath mewn lleoliadau penodol pan fo tystiolaeth yn cadarnhau hynny. Dyweder bod rhaid i awdurdodau lunio polisïau sy'n cyfarch yr heriau yn lleol ac os oes angen i'r polisïau hynny wyro oddi ar bolisi cenedlaethol bod gwneud hynny'n seiliedig ar dystiolaeth rymus. Problemau dwys o fewn rhai aneddleoedd penodol sydd wedi arwain at y Polisi hwn. Bydd yn bosib darparu tai marchnad agored newydd mewn lleoliadau eraill o fewn ardal y Cynllun. Mae tai marchnad leol yn wahanol i dai fforddiadwy. Credir bydd datblygiadau yn yr aneddleoedd a'u henwir yn y polisi yn hyfyw ar sail datblygiadau tai marchnad lleol yn unig neu wrth eu datblygu ar y cyd gyda thai fforddiadwy. Nid oes rheswm i ystyried y bydd y polisi hwn yn golygu na ellir darparu'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					lefel gofynnol o dai mewn aneddiadau penodol. Mae Papur Testun 17 yn cyfeirio at lwyddiant polisïau tebyg mewn ardaloedd sydd dan bwysau tai yn Lloegr. Bydd y fframwaith fonitro yn amlygu llwyddiant neu beidio'r Polisi. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
286	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai yn gwrthwynebu'r egwyddor o gyfyngu tai marchnad i 'bobl leol' gan ei fod yn gyfyngiad gormodol ar y farchnad breifat. Mae'n ymddangos fod y polisi hwn yn cyfyngu ormod ar ddatblygiad sy'n dderbyniol mewn egwyddor gan ei fod o fewn ffin anheddiad neu ffin ddatblygu sydd wedi'i dynodi. Dylid cyfyngu polisi o'r fath i safleoedd eithrio. Tynnu'r gofyniad 'tai marchnad leol'. Ychwanegu pwynt arall (1 iii.) sydd yn galluogi gwerthiant ar y farchnad agored os nad yw'r ddau faen prawf arall wedi eu cwrdd.	**Ddim yn derbyn** – Ar sail geiriad PCC, mae'n bwysig cyflwyno'r polisi mewn rhannau penodol iawn o ardal y Cynllun ble mae problemau dwys o fewn y farchnad dai a ble fyddai'n fuddiol yn gymdeithasol ac yn economaidd. Yn hyn o beth credir ei fod yn bwysig fod y polisi yn berthnasol ar gyfer datblygiadau o fewn ffiniau datblygu er mwyn iddo allu cyflawni ei fwriad. Mae Polisi TAI10 yn cynorthwyo i gynyddu'r ddarpariaeth o unedau fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol ar safleoedd eithrio gwledig. Nodir nad ydi'r gwrthwynebydd wedi herio'r fethodoleg/ meini prawf sydd ynghlwm â'r polisi nac wedi atgyfnerthu eu barn gyda thystiolaeth rymus. Ni ddylid cael gwared â'r gofyniad am dai marchnad leol gan ei fod yn ceisio sicrhau cyfleoedd mewn ardaloedd ble mae tystiolaeth yn dangos fod gwir broblemau yn bodoli. Ni chredir felly fod y polisi yn cyfyngu yn ormodol ar ddatblygiad yn y mannau hynny.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Ar sail yr hyn mae'r polisi yn ceisio ei gyflawni, ni ddylid ychwanegu maen prawf ychwanegol sydd yn rhoi cyfle i ddiwallu anghenion ar y farchnad agored. Fodd bynnag bydd cyfle i ryddhau eiddo i farchnad ehangach, er enghraifft drwy gymal o fewn cytundeb 106, os nad oes diddordeb yn lleol o fewn cyfnod penodol, er mwyn uchafu'r cyfle i gael morgais. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
611	Tom Brooks [3034]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Mae TAI5 yn afresymol o ran ei ddewis o "aneddiadau perthnasol". Yn y Papur Testun, priodolir nodweddion ward Gorllewin Porthmadog i Borth-y-Gest. Felly, mae'r dadansoddiad wedi creu canlyniad ffug o ran nodweddion Borth-y-Gest. O gymharu â Mynytho, Sarn Bach ac ati, byddai Borth-y-Gest yn fwy na chymwys i	**Derbyn** - Mae'r asesiad o ran pa aneddleoedd sydd yn berthnasol i'w hystyried o fewn y polisi hwn wedi ei seilio ar wybodaeth ar ffurf ddaearyddol wardiau. Derbynnir fod gwahaniaethau amlwg yn gallu bodoli o fewn rhai wardiau o safbwynt eu natur gymdeithasol, economaidd a.y.b.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				fod yn "anheddiad perthnasol". Dylid ychwanegu Borth-y-Gest i'r rhestr o gymunedau a nodir yn TAI 5. Byddai peidio yn debygol o ladd yr elfen honno o'r iaith Gymraeg sydd ar ôl yn y pentref yn gyflym a chreu pentref fyddai'n hollol wag y tu allan i'r tymor twristiaeth.	Ar sail y ffaith fod y polisi yn canolbwyntio ar wardiau ble mae yna broblemau dwys o fewn y farchnad dai, yna cafwyd asesiad o'r aneddleoedd sydd wedi eu hadnabod fel pentrefi arfordirol yn y Cynllun er mwyn sefydlu os ydynt yn berthnasol ar gyfer eu cynnwys yn y polisi hwn (gan fod y pentrefi arfordirol hyn gyda canran uwch na chyfartaledd yr ardal o gartrefi gwyliau neu ail gartrefi). Ynghyd â Borth-y-Gest, mae'r rhain fel y ganlyn: • Aberffraw • Llanddona • Llangoed • Malltraeth • Edern • Morfa Bychan • Morfa Nefyn Aseswyd aneddleoedd ar sail Ardaloedd Allbwn ('Output Areas'), sef yr ardal ddaearyddol lleiaf ar gyfer gwybodaeth o'r Cyfrifiad. Gan nad yw gwybodaeth ar gyfer pob dangosydd ar gael ar gyfer y lefel hwn a gan nad yw'n bosib, ar sail ei faint daearyddol a hefyd yr amrediad o dystiolaeth/

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					gwybodaeth sydd ar gael, gymharu aneddleoedd unigol fel Borth-y-Gest (sydd yn anheddle unigol o fewn ward ehangach) gyda'r sefyllfa o ran wardiau unigol, yna roedd angen gwneud asesiad gwrthrychol ar sail y wybodaeth sydd ar gael os dylid ei gynnwys fel anheddle perthnasol ym Mholisi TAI5. Canfyddiadau'r gwaith yma oedd y dylid cynnwys y Pentrefi canlynol o fewn Polisi TAI 5; • Borth-y-Gest • Morfa Bychan **Argymhelliad** Cynnwys Borth-y-Gest a Morfa Bychan o fewn polisi TAI 5. **Newid â ffocws NF65, NF 66** I sicrhau cywirdeb.
70	Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Gofynnir i bentrefi arfordirol Morfa Nefyn ac Edern gael eu hychwanegu at y rhestr o bentrefi Tai Marchnad Lleol yng Ngwynedd oherwydd y ganran uchel o ail	**Dim yn derbyn** – Fel y nodwyd eisoes, mae'n rhaid i'r aneddleoedd sydd yn cael eu cynnwys o fewn y polisi hwn gael ei seilio ar dystiolaeth gadarn a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				gartrefi. Tystiolaeth - yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 28.3% o aelwydydd ward Morfa Nefyn (sy'n cynnwys Morfa Nefyn ac Edern) heb breswylwyr arferol. Noder bod hyn yn uwch nag un gymuned a gynhwysir yn barod, sef Tudweiliog gyda 19.6%.	phenodol fel y nodir ym Mhapur Testun 17. Mae Morfa Nefyn ac Edern wedi eu hail-hystyried fel rhan o'r gwaith o asesu is-ardaloedd (gweler achos Borth-y-Gest) er mwyn sefydlu os dylent gael eu cynnwys yn y polisi hwn. Mae hyn ar sail y ffaith eu bod wedi eu hadnabod fel pentrefi arfordirol yn y Cynllun. Nodir mai dim ond un dangosydd yw ail gartrefi o ran dewis yr aneddleoedd perthnasol. Wedi ymgymryd â'r astudiaeth yn llawn, nid yw Morfa Nefyn nac Edern i'w cynnwys ym Mholisi TAI5. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
628	Iwan Edgar [251]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Cefnogi egwyddor y polisi, ond nid yw'n mynd yn ddigon pell. Dylid ymestyn y polisi dros Ddwyfor i gyd (+ Penrhyndeudraeth) ac ystyried hynny dros fwy o ardaloedd yng Ngwynedd a Môn. Dylai'r Cynllun Adnau fod yn rhagweithiol yn amddiffyn yr iaith yn gyson â'r hyn a fynegir yn rhannau eraill o'r Cynllun. Yn atgyfnerthu'r ddadl dros ehangu'r ardal mae adroddiad "tai ac Incwm Gwynedd" sy'n dangos pa mor anfforddiadwy yw tai i'r boblogaeth gynhenid ac adroddiadau Hanfod 1 a Hanfod 2 sy'n dangos bod cryn botensial mewnlifiad eisoes yn Nwyfor yn dilyn y tai a godwyd rhwng 2001 - 2011.	**Dim yn derbyn** - Mae paragraff 9.2.4 o PCC yn cyfeirio at “ddatblygu polisïau i gwrdd â’r heriau a’r amgylchiadau hynny sy’n benodol i fannau neilltuol yn eu hardaloedd”. Mae angen canolbwyntio felly ar yr ardaloedd penodol hynny o fewn ardal y Cynllun ble ceir y problemau mwyaf dwys o fewn y farchnad dai leol. Mae hyn yn fodd o daclo’r anghydbwysedd o fewn y marchnadoedd tai hynny ac i gynnal a chryfhau cymunedau bregus. Gan fod angen i’r polisi ymdrin yn benodol â’r mannau hynny ble ceir y problemau mwyaf dwys, mae’r wybodaeth ym Mhapur Testun 17 yn amlygu sut y dewiswyd yr ardaloedd hynny ar sail methodoleg a dangosyddion clir. Mae’n rhaid felly i’r ardaloedd a ddewisir gael eu seilio ar dystiolaeth gadarn fel nodir ym mharagraff 9.2.4 o PCC, “Os oes angen i’r polisïau hyn wyro o’r polisïau cenedlaethol er mwyn diwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored (na chyfyngir fel rheol ar feddiannaeth), bydd angen i awdurdodau cynllunio
633	Cyngor Tref Pwllheli (Mr Robin W Hughes) [1235]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Cefnogi yn rhannol y 6 ardal ond angen ehangu i gynnwys gweddill Dwyfor ac ystyried ardaloedd eraill o fewn Gwynedd.	
635	Grŵp Ffocws Cynllun Datblygu Lleol (Mr Iwan Edgar) [3050]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Cefnogi'r egwyddor sydd y tu ôl i'r polisi hwn - ond yn ei wrthwynebu am nad yw'n mynd yn ddigon pell. Dylai'r polisi weithredu dros Ddwyfor i gyd a rhannau pellach o'r 2 sir.	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				Dylai fod yn rhagweithiol i amddiffyn y Gymraeg i gyd-fynd â 5.6, 5.8, 6.23, 6.24, 6.25, 7.1.2, 7.1.3, 7.1.4 a Pholisi Strategol PS1. Dylid ymestyn y polisi dros Ddwyfor a mannau pellach yng Ngwynedd a Môn.	lleol gyfiawnhau'r gwyriad hwnnw yn ofalus gyda thystiolaeth gadarn sydd, yn eu barn hwy, yn briodol". Ar sail geiriad Polisi Cynllunio Cymru, dim ond y llefydd hynny ble mae'r problemau o fewn y farchnad dai yn fwyaf dwys a ble mae cyflwyno polisi o'r fath yn wirioneddol angenrheidiol i sicrhau buddiannau cymdeithasol ac economaidd ellir eu hystyried. Nodir fod yna bolisïau eraill o fewn y Cynllun Adnau sydd yn cynorthwyo pobl leol i gael cyfleoedd o fewn marchnadoedd tai eraill yn ardal y Cynllun e.e. darpariaeth berthnasol o dai fforddiadwy a chymysgedd briodol o dai. Ni ellir cysylltu polisi o'r fath yn uniongyrchol gyda'r iaith Gymraeg, h.y. ni ellir cyfyngu meddiannaeth unedau tai i siaradwyr Cymraeg yn unig. Nodir hyn ar sail geiriad paragraff 3.7.4 o Nodyn Cyngor Technegol 20 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (Hydref 2013) sydd yn datgan y "Dylid gofalu nad yw polisïau'r CDLl sy'n ystyried anghenion
941	Cynghorydd Alwyn Gruffydd [381]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Mae Polisi TAI5, 'Tai Marchnad Leol' yn un i'w groesawu'n fawr ond rhaid ymestyn y nifer o aneddleoedd penodol a ddynodir ar gyfer polisi o'r fath, y tu hwnt i'r 6 ardal a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos dirywiad yn y ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhan fwyaf o gymunedau'r Sir a byddai ymestyn yr ardaloedd Tai Marchnad Leol yn un arf defnyddiol i gyfarch hyfywdra cymunedol ac ieithyddol. Dylid cynyddu'r nifer o aneddleoedd penodol a enwir o dan bolisi TAI5 'Tai Marchnad Lleol' er mwyn gwarchod ein cymunedau ac amddiffyn y Gymraeg.	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
534	Hunaniaith (Ms Debbie Ann Williams) [1307]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Mae Polisi TAI5, 'Tai Marchnad Leol' yn un i'w groesawu'n fawr ond rhaid ymestyn y nifer o aneddleoedd penodol a ddynodir ar gyfer polisi o'r fath, y tu hwnt i'r 6 ardal a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos dirywiad yn y ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhan fwyaf o gymunedau'r Sir a byddai ymestyn yr ardaloedd Tai Marchnad Leol yn un arf defnyddiol i gyfarch hyfywdra cymunedol ac ieithyddol.	a buddiannau'r Gymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Ni ddylai polisïau cynllunio geisio rheoli pwy sy'n byw mewn tŷ ar sail ieithyddol". Fodd bynnag, mae'n rhesymol dod i gasgliad mai sgil-effaith yr hyn gaiff ei gyflawni trwy weithredu'r polisi fydd rhoi cyfleoedd i bobl sy'n weithgar economaidd aros neu ddychwelyd i'r ardal ac felly bod yn llesol i'r iaith Gymraeg. Pwysleisir mai'r wybodaeth a'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
630	Menter Môn (Helen Thomas) [1615]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Mae Polisi TAI5, 'Tai Marchnad Leol' yn un i'w groesawu'n fawr ond rhaid ymestyn y nifer o aneddleoedd penodol a ddynodir ar gyfer polisi y tu hwnt i'r 6 ardal a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos dirywiad yn y ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhan fwyaf o gymunedau'r Sir a byddai ymestyn yr ardaloedd Tai Marchnad Leol yn un arf defnyddiol i gyfarch hyfywdra cymunedol ac ieithyddol. Cynyddu'r nifer o aneddleoedd penodol a enwir o dan bolisi TAI5 'Tai Marchnad Lleol' er mwyn gwarchod cymunedau Gwynedd a hyfywedd y Gymraeg.	fethodoleg a nodir ym Mhapur Testun 17 yw'r sail i ddewis yr aneddleoedd penodol sydd yn berthnasol ar gyfer y polisi ond fel nodwyd gyda'r ymateb i sylw 611, mae asesiad yn ystyried os dylid cynnwys pentrefi sydd wedi eu lleoli o fewn wardiau ehangach. Bydd Papur Testun 17 yn cael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu gwaith ymchwil ychwanegol a gafodd ei wneud ers Chwefror 2015. **Argymhelliad** Er na chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun, nodir bod gwaith adolygu addasrwydd cynnwys unrhyw Bentrefi Arfordirol a leolir o fewn ward ehangach (fel nodir yn y sylw blaenorol) o fewn y polisi wedi cymryd lle. Bydd Papur Testun 17 yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol yma. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
644	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Mae yna bentrefi eraill lle mae pwysau sylweddol gan ail gartrefi, a dylent fod wedi'u cynnwys yn y rhestr hon. Cwestiynwn p'un a fyddai'r mecanwaith Adran 106 i ofyn am ddefnydd 'lleol' (heb amod fforddiadwy) yn gallu cael ei gymhwyso'n ymarferol, gan ystyried y cynsail ar ôl i nifer o'r rhain gael eu codi.	**Dim yn derbyn** - Mae'r aneddleoedd sydd wedi eu dewis ar gyfer y polisi hwn yn seiliedig ar ddangosyddion penodol. Mae ail gartrefi ond yn un o'r dangosyddion hyn. Tra bod enghreifftiau yng Ngwynedd o amodau tai lleol wedi eu codi, mae'r rhain yn ymwneud gydag unedau a ddatblygwyd yn unol â chyn Gynllun Lleol Dwyfor. Nid oedd cyfyngiad o ran maint yr unedau hynny ac felly, wrth ystyried yr amodau hyn yn unol â chynnwys CDU Gwynedd, ni ellir eu hystyried i fod yn fforddiadwy ychwaith. Yn ychwanegol i hynny, mae'r sail polisi ar gyfer yr unedau hynny bellach wedi mynd. Mae'r polisi arfaethedig yn wahanol gan ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth a methodoleg glir sy'n golygu ei fod ond yn berthnasol ar gyfer aneddleoedd penodol ble mae tystiolaeth yn dangos fod problemau dwys o fewn y farchnad dai leol. Mae hefyd yn deillio yn uniongyrchol o'r hyn a nodir ym mharagraff 9.2.4 o Bolisi Cynllunio
281	Mr Aled Evans [2646]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Tai Marchnad Lleol Ehangu'r ffiniau hefo hyn. Byddai hynny yn gwneud y farchnad yn fwy. e.e. Dwyfor Gyfan a Phenrhyndeudraeth yn farchnad leol.	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Cymru. Mae maint unedau preswyl hefyd yn cael eu cyfyngu er mwyn sicrhau fod y polisi yn cwrdd ag anghenion lleol ac yn fwy tebygol o fod o fewn cyrraedd aelwydydd tebyg yn y dyfodol. Fel nodwyd yn flaenorol, argymhellir tynnu'r cyfeiriad at Amod 106 o'r eglurhad i'r polisi er mwyn galluogi'r posibilrwydd o ddefnyddio dulliau eraill o ymglymu unedau i fod yn rhai marchnad lleol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
625	Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (Mr Arfon Hughes) [1189]	Polisi TAI5	Cefnogi	Croesawu'r papur sydd yn rhoi cymorth i bobl fyw yn eu hardaloedd a chyfrannu i'w cymunedau. Mae'n adnabod yr her i 'ddiwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored'. Cyfeirir at fodel canolraddol a byddai'r Uned yn croesawu'r opsiwn hwn. Nifer o bobl methu fforddio tŷ i'w brynu a ddim yn disgyn i'r categori o fod mewn angen ar gyfer tai cymdeithasol. Gwybodaeth o Tai Teg a Chofrestr Tai Cyffredin Gwynedd yn dangos bod angen am dai yn bodoli, a bod angen mwy o waith ar lawr gwlad i sicrhau dilysrwydd yr angen yma o safbwynt angen lleol.	**Nodi'r sylw** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
638	Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052]	Polisi TAI5	Cefnogi	Croesawu'r papur sydd yn rhoi cymorth i bobl fyw yn eu hardaloedd a chyfrannu i'w cymunedau. Mae'n adnabod yr her i 'ddiwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored'. Cyfeirir at fodel canolraddol a byddai'r Uned yn croesawu'r opsiwn hwn. Nifer o bobl methu fforddio tŷ i'w brynu a ddim yn disgyn i'r categori o fod mewn angen ar gyfer tai cymdeithasol. Mae gwybodaeth o Tai Teg a Chofrestr Tai Cyffredin Gwynedd yn dangos yn glir bod angen am dai yn bodoli.	**Nodi'r sylw** **Argymhelliad** **Dim newid**
428	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi TAI5	Cefnogi	Mae Polisi TAI5 yn addas i sefyllfa'r cymunedau a nodir ynddo	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
82	Adran Cynllunio a Thai, Cyngor Sir Ddinbych (Angela Loftus) [2719]	Polisi TAI5	Cefnogi	Cefnogi egwyddor y polisi o gyfyngu cartrefi marchnad agored i angen lleol mewn ardaloedd lle mae galw mawr am ail gartrefi.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
207	John Brinley Jones [2087]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Cael gwared â Pholisi TAI5 o'r fersiwn derfynol. Mae'r Polisi'n mynd yn groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol - Protocol Rhif.12 y Confensiwn ar gyfer Amddiffyn Hawliau Dynol a Rhyddidau Sylfaenol Rhufain, 4.XI.2000. Tynnu paragraff 7.4.37 Polisi TAI 5 o'r fersiwn derfynol.	**Dim yn derbyn** – Credir yn gryf y dylid cadw'r polisi. Credir fod geiriad paragraff 9.2.4 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir y cyfle i gyflwyno polisi o'r fath a bod tystiolaeth gref a chadarn yn cael ei ddarparu ym Mhapur Testun 17 i gefnogi a chyfiawnhau'r polisi a'r hyn mae'n ceisio ei gyflawni. Nodir yn ogystal fod Awdurdodau Cynllunio eraill wedi creu a defnyddio polisi tebyg ers blynyddoedd (fel nodir ym Mhapur Testun 17). Mae Protocol rhif 12 (h.y. y protocol a nodir gan y gwrthwynebydd) yn darparu ar gyfer gwaharddiad cyffredinol o anffafriaeth ar unrhyw sail megis rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu arall, tarddiad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad gyda lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall. Ni chredir fod y polisi hwn yn mynd yn groes i'r protocol. Ar sail y cynsail a osodir gan Awdurdodau eraill a'r dystiolaeth i gefnogi'r polisi, ni chredir bod sail i'r gwrthwynebiad. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
66	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	Para. 7.4.37	Cefnogi	Mae yna ddiffyg tai fforddiadwy ym Miwmares. Mae nifer gynyddol y tai haf a thai sy'n cael eu gosod yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae Cyngor Tref Biwmares yn croesawu gwneud y polisi tai marchnad leol yn berthnasol i Fiwmares.	**Nodi'r sylw –** Tra nodir nad yw'r polisi yn un ar gyfer tai fforddiadwy bydd yn cynorthwyo ardaloedd ble mae problemau dwys yn bodoli o fewn y farchnad dai. **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
205	John Brinley Jones [2087]	Para. 7.4.39	Gwrthwynebu	Mae'n hanfodol fod perchenogion busnes sy'n creu cyflogaeth a chyfoeth yn yr ardal yn cael eu hannog i symud i mewn i'r ardal neu os oes angen cartref arnynt yn un o'r pentrefi hyn a bod ganddynt ddarn o dir, ni ddylent orfod codi anheddau maint fforddiadwy caeth iawn gan y byddai o bosib angen cyfleusterau ychwanegol arnynt yn eu cartrefi megis gofod swyddfa neu fannau lle gallent weithio o'r cartref. Dylid ystyried pob cais cynllunio ar haeddiant ei hun yn hytrach na chael un polisi cyffredinol ar faint uned breswyl sydd yn amlwg methu cwrdd â phob anghenion.	**Dim yn derbyn** - Mae'r polisi hwn yn fodd o gynorthwyo'r mannau hynny o fewn ardal y Cynllun ble mae problemau dwys o fewn eu marchnadoedd tai. Mae'n berthnasol felly ar gyfer lleoliadau penodol iawn sydd wedi eu hadnabod drwy dystiolaeth. Mae'n fodd o geisio goresgyn y problemau o fewn y marchnadoedd tai hynny a'r problemau cymdeithasol ac economaidd a ddaw yn sgil hynny. Credir felly ei fod yn hollbwysig rheoli pa fathau o unedau tai a ellir eu hyrwyddo yn y lleoliadau a'u henwir yn y polisi er mwyn goresgyn y problemau dwys hyn. Bydd tai marchnad agored dal ar gael yn y lleoliadau hyn o fewn y stoc dai bresennol. Noder nad yw'r tai marchnad leol yn dai fforddiadwy ac o'r herwydd mae eu huchafswm maint, fel nodir yn y polisi, yn fwy na'r hyn fyddai'n berthnasol ar gyfer tai fforddiadwy.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Mae'n bwysig fod maint yr unedau marchnad lleol yn cael eu rheoli er mwyn sicrhau y bydd gwerth yr unedau yn fwy cydnaws gydag amcan y polisi o gynnal y cymunedau yn y tymor hir. Nid oes un maint penodol wedi ei nodi ar gyfer uchafswm maint unedau marchnad lleol ond yn hytrach mae ffigyrau gwahanol wedi eu nodi ar gyfer gwahanol fathau o unedau (ar sail os ydynt yn dai unllawr neu ddeulawr a hefyd o ran y nifer o ystafelloedd gwely sydd ynddynt). Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau fod y polisi yn diwallu gwahanol anghenion yn effeithiol. Nodir nad ydi'r gwrthwynebydd wedi herio'r fethodoleg/ meini prawf sydd ynghlwm â'r polisi nac wedi atgyfnerthu eu barn gyda thystiolaeth rymus. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
206	John Brinley Jones [2087]	Para. 7.4.39	Gwrthwynebu	Bydd cael byw mewn tai marchnad leol yn cael eu cyfyngu i'r rhai hynny sy'n gymwys, heb gytundeb cyfreithiol Adran 106. Byddir yn penderfynu ar uchafswm maint unedau yn ôl haeddiant a gofynion yr ymgeisydd. Ni fydd polisi cyffredinol ar gyfyngiad maint. Tynnu'r amod 106 a'r cyfyngiad uchafswm maint. Dylid ystyried pob cais cynllunio ar haeddiant ei hun yn hytrach na chael un polisi cyffredinol ar faint uned breswyl sydd yn amlwg methu cwrdd â phob anghenion.	**Dim yn derbyn** - Credir fod yn rhaid ymglymu'r unedau a fyddai'n cael eu caniatáu yn unol â'r polisi hwn i fod yn rhai marchnad leol er mwyn sicrhau fod y polisi yn gweithredu'n effeithiol ac yn cwrdd â'i amcanion yn y lle cyntaf ac yn y tymor hir cyn belled â phosib. Gellir ystyried y dulliau priodol o wneud hyn yn y Canllaw Cynllunio Atodol fydd yn cyd-fynd â'r polisi. Mae'n bwysig cyfyngu ar faint yr unedau marchnad lleol. Tra bod uchafswm maint yr unedau a fyddai'n berthnasol yn unol â'r polisi hwn yn fwy na maint tai fforddiadwy, ni allent fod yn ormodol o ran maint gan y byddai hyn yn mynd yn groes i amcanion y polisi - sicrhau gwerth sydd yn fwy cydnaws a'r amcan o

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					gynnal cymunedau. Mae uchafswm maint unedau marchnad lleol yn ddibynnol ar eu math. Nid oes un ffigwr cyffredinol ar gyfer pob eiddo. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau fod y polisi yn diwallu gwahanol anghenion yn effeithiol. Mae cysylltiad agos yma felly rhwng maint yr unedau a'r hyn y ceisir ei gyflawni drwy'r polisi. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

TAI 6 – Llety Myfyrwyr Pwrpasol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
674	Mr Noel Davey, Ymgyrch Diogelu	Polisi TAI6	Gwrthwynebu	Ymddengys bod yr ardal ar gyfer llety myfyrwyr yn rhy fawr ac mae pryderon na fyddai'r boblogaeth o fyfyrwyr yn gallu ei llenwi gan adael Bangor gyda gormod o	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid. Yr ardal chwilio yw lle mae'r rhan fwyaf o'r llety

	Cymru Wledig			dai ar gyfer un person.	myfyrwyr pwrpasol wedi'i leoli. Ystyrir bod hyn yn synhwyrol i ganolbwyntio'r datblygiadau llety myfyrwyr newydd yn yr ardal eang hon. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad gan y Cyngor i foddi'r ardal chwilio gyda lefel ormodol o lety myfyrwyr neu dai un person. Bydd rhaid i unrhyw gais ddarparu tystiolaeth o'r angen am y datblygiad. **Argymhelliad –** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
726	Hughes Brothers Ltd	Polisi TAI6	Gwrthwynebu	Mae rhai o'r meini prawf i asesu cynigion am lety myfyrwyr wedi'i adeiladu'n bwrpasol yn afresymol ac ni ellir eu cyfiawnhau. Awgrymir diwygiadau i'r polisi (gweler yr atodiad am y geiriad llawn).	**Dim yn derbyn** – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymell unrhyw newid. Mae'r diwygiad arfaethedig i Bwynt 1 yn lleihau'n sylweddol y gofynion gan yr ymgeisydd ac yn hepgor yr angen am asesiad cynhwysfawr o alw gan fyfyrwyr a chefnogaeth sefydliad addysg uwch – mae'r ddau beth hyn yn cael eu hystyried yn bwysig iawn wrth sefydlu'r lefelau mwyaf priodol o lety myfyrwyr. Byddai'r diwygiad yn gwanhau effaith y polisi o ran cyfarwyddo datblygiad llety i fyfyrwyr yn y dyfodol i'r lleoliadau mwyaf priodol a rheoli capasiti datblygiad o'r fath. Nid yw'r diwygiad arfaethedig hwn yn cymryd i ystyriaeth y Parth Chwilio a Ffafrir a nodwyd ar y Map Cynigion.

					Teimlir bod geiriad presennol Pwynt 4 yn gryfach na'r diwygiad arfaethedig a'i fod yn briodol i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu mynychu'r Coleg gyda modd cludiant cynaliadwy. Mae'r Parth Chwilio a Ffafrir yn y polisi yn ardal o ddefnyddiau cymysg yn y Ddinas yn agos at y rhan fwyaf o adeiladau a champws y Brifysgol. Gall ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth ar adeg ymgeisio i gefnogi cais ar gyfer adeilad newydd y tu allan i'r parth chwilio a ffafrir. **Argymhelliad –** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
738	Mr Gwyn Hughes, Cyngor Dinas Bangor	Polisi TAI6	Cefnogi	Mae'r Cyngor yn croesawu'r meini prawf a amlinellir yn y polisi hwn sy'n ymwneud â lleoli datblygiadau o'r fath a hefyd yn croesawu cynnwys y Parth Chwilio a Ffafrir ar y Map Cynigion.	**Nodi'r sylwadau cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
942	Menter Iaith Bangor	Polisi TAI6	Gwrthwynebu	Dylid rhoi ystyriaeth ofalus iawn i ganiatáu datblygiadau preswyl pellach ar gyfer myfyrwyr y Brifysgol ym Mangor. Yng ngwyneb ansicrwydd gallu myfyrwyr i gyllido eu haddysg uwch oddi cartref byddai cwymp yn y galw a gormodedd o lety gwag, mewn dwylo preifat yn andwyol tu hwnt i sefydlogrwydd	**Dim yn derbyn** – Mae maen prawf 1 yn y polisi hwn yn gofyn am dystiolaeth i gefnogi unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn nhermau angen. Gall rhyddhau'r stoc dai presennol i'r farchnad dai cyffredinol gynorthwyo i gwrdd â'r twf tai gan y boblogaeth bresennol a bydd yn cael ei fonitro'n flynyddol yn yr Adroddiad Monitro

				cymunedau Bangor a'r Gymraeg. Dylid cynnal ymchwiliad manwl i anghenion tai pobl Bangor. Cynnwys Penrhosgarnedd yn y ddinas! Dylid sicrhau fod tai rhent yn rhai fforddiadwy yn hytrach na chodi rhent enchwythedig fel sy'n cael eu talu gan fyfyrwyr.	Blynyddol. **Argymhelliad** – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

TAI 7 – Ail-Adeiladu Tai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
604	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	POLISI TAI7	Gwrthwynebu	Ystyrir bod peidio â chaniatáu ailadeiladu llety preswyl dros dro megis tai parod yn afresymol ac na fydd modd ei gyflawni. Os oes gan yr uned ddefnydd preswyl cyfreithiol, yna dylai gael yr hawl i gael ei haildadeiladu dan y polisi ail-adeiladu tai. Dylid adolygu'r polisi hwn a dylid dileu gofyniad rhif 5 y polisi a pharagraff 7.4.47.	**Dim yn derbyn** - Mae natur llety dros dro (e.e. carafán neu gabin gwyliau) neu adeiladau a'u hadeiladwyd â defnyddiau oes fer (e.e. tŷ parod) yn golygu na fyddai'n briodol darparu strwythur mwy parhaol yn eu lle. Mae rheolau llym dros ddatblygu unedau preswyl newydd yng nghefn gwlad a chredir y byddai galluogi adeiladu unedau parhaol yn lle llety dros dro / adeiladau oes fer yn mynd yn groes i egwyddorion y Cynllun a chanllawiau cenedlaethol o ran datblygiad cynaliadwy yng nghefn gwlad.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
642	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI7	Gwrthwynebu	Yn ogystal, dylai maen prawf 7 hefyd fod yn berthnasol O FEWN FFINIAU DATBLYGU. Mae ein pryder yn codi oherwydd y profiad o ailadeiladu tai haf mewn cymunedau arfordirol megis Abersoch ble roedd yr aneddiadau a gafodd eu cymeradwyo i'w hailadeiladu o faint, cyfaint ac ôl-troed llawer mwy na'r strwythur gwreiddiol. Rydym yn teimlo y dylai'r polisi gael ei atgyfnerthu'n glir o ran ailadeiladu tai. Mae'r testun presennol yn rhoi'r argraff na fyddai'r amodau hyn yn berthnasol o fewn ffiniau datblygu. Rydym yn nodi bod maen prawf 6 TAI 7, yn gofyn bod tŷ sy'n cael ei ailadeiladu 'o fewn yr un ôl-troed â'r adeilad presennol' pa un a fyddo'r tu allan neu'r tu mewn i'r ffin ddatblygu.	**Dim yn derbyn** – Maen prawf 6 - Mae'r maen prawf hwn yn berthnasol i bob tŷ sydd yn cael ei ailadeiladu, boed hwy y tu fewn neu y tu allan i ffin ddatblygu. Hyd yn oed y tu fewn i ffiniau datblygu, dylid rhoi blaenoriaeth i ailadeiladu tŷ ar yr un ôl troed a'r tŷ presennol. Mae hyn ar sail ystyriaethau gweledol a mwynderol. Mae'r maen prawf fodd bynnag yn rhoi peth hyblygrwydd i ailadeiladu tŷ o fewn yr un cwrtil os ystyrir hyn i fod yn fwy addas. Mae'r polisïau tai perthnasol hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ail-leoli addas o fewn ffiniau datblygu. Maen prawf 7 - Anghytuno gyda'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					sylw. Tra derbynnir egwyddor yr hyn a nodir, mae yna bolisïau eraill o fewn y Cynllun a fyddai'n ymdrin â cheisiadau o fewn y ffin ddatblygu. Mae'n bosib adeiladu tai mwy o fewn y ffin ddatblygu gan y gellir ystyried y cais fel tŷ o'r newydd. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yng nghefn gwlad ble mae'r polisïau tai yn llawer yn fwy llym. Byddai graddfa, dyluniad a.y.b. yn ystyriaethau perthnasol o ran unrhyw gais o fewn y ffin ddatblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
737	Cyngor Cymuned Llanengan (Ms Einir Wyn) [1548]	POLISI TAI17	Cefnogi	Gormod o dai wedi cael eu symud/dymchwel yn y gymuned yma yn ddiweddar - dwsin ers 2010 - a thai anferth wedi cael eu codi yn lle adeiladau traddodiadol a chynhenid.	**Nodi'r sylw** **Argymhelliad** **Dim newid**

TAI 8 – Defnydd Preswyl o Garafanau, Cartrefi Symudol a Mathau Eraill o Lety nad ydynt yn barhaol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
641	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI8	Gwrthwynebu	23.4 Crynodeb Carafanau Sefydlog Sengl. Pryderwn am y gormodedd o garafanau sefydlog sengl mewn ardaloedd gwledig, yn aml mewn lleoliadau agored sydd heb eu sgrinio, sy'n cael effaith andwyol ar y dirwedd. Nid yw polisi TAI8 yn rhoi sylw digonol i'r broblem sydd wedi codi'n rhannol oherwydd deddfwriaeth anfoddhaol y DU. Mae angen deddfwriaeth newydd sy'n berthnasol i Gymru, ond yn y cyfamser dylai polisi cynllunio wneud ymrwymiad clir i fonitro	**Dim yn derbyn** – Mae Polisi TAI8 yn nodi'n glir yr amgylchiadau hynny pryd y bydd yn berthnasol darparu carafán sefydlog mewn lleoliad gwledig i bwrpas defnydd preswyl. Mae'r polisi yn amlygu'n glir natur dros dro unedau o'r fath ac hefyd fe nodir fod "carafanau preswyl dros dro neu fathau eraill o lety nad ydynt yn rhai parhaol yn destun yr un ystyriaethau lleoliadol ag aneddleoedd preswyl parhaol".

				lleoliad a defnydd carafanau sefydlog sengl, a phan fo'n ymarferol, dylai orfodi amodau ynghylch lliw a sgrinio fyddai'n lleddfu'r effaith ar y dirwedd. Newid: ymrwymiad i gynyddu rheolaeth gynllunio dros garafanau sefydlog sengl niferus.	Mae polisïau eraill megis Polisi PCYFF2 hefyd yn berthnasol o ran hyn, yn benodol felly o ran effaith unedau o'r fath ar y dirwedd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Tai Fforddiadwy

Cyd-destun a Chyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
750	Rhys Llwyd [3087]	Para. 7.4.60	Gwrthwynebu	Rwy'n bryderus nad oes digon o bwyslais ar dai fforddiadwy yn y cynllun, yn enwedig i brynwyr ifanc tro cyntaf lleol. Mae angen tai addas i ateb yr angen lleol ar ddau lefel: i) ateb yr angen lleol o rai nifer; ii) ateb yr angen lleol o ran pris. Pam ddim gosod amodau y bydd 75%+	**Dim yn derbyn** – Credir fod y Cynllun yn hwyluso'r angen hwn. Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy wedi ei seilio ar dystiolaeth: • Y nifer o dai fforddiadwy i'w darparu wedi ei seilio ar Asesiadau Marchnad Tai Lleol (AMTLl) y ddau

				o'r tai yn fforddiadwy i bobl leol gan ganiatáu 25% neu 15% neu 10% yn unig o dai an-fforddiadwy? Mae'n drist gweld fod dim sylw wedi ei roi yn y cynllun i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf i adfer tai sydd eisoes yn y stoc dai a'u hystyried hwy fel tai fforddiadwy.	Gyngor; • Yr isafswm o dai fforddiadwy i'w darparu fesul safle (Polisi TAI9) wedi ei seilio ar Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy gan gwmni Andrew Golland Associates. Ni fydd y tai nad sydd yn cael eu hadnabod fel 'tai fforddiadwy' yn rhai anfforddiadwy. Er enghraifft, bydd yr aelwydydd hyn ar gael i bobl sy'n byw o fewn ardal y Cynllun na fyddent yn gymwys am dŷ fforddiadwy canolradd, a reolir drwy gytundeb adran 106 sy'n rheoli'r ddaliadaeth a phris, neu dŷ fforddiadwy cymdeithasol, sydd fel arfer yn cael ei reoli gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae strategaeth y Cynllun yn ceisio darparu'r math cywir o dai yn y lleoliadau cywir. Nodir polisi fod polisi TAI 5 ('Tai Marchnad Lleol') yn berthnasol i'r perwyl hwn yn ogystal. Mae'r ddau Gyngor, o fewn eu Strategaethau Tai, yn hybu adfer tai gwag er mwyn cwrdd ag anghenion tai lleol, gan gynnwys yr angen ar gyfer

					tai fforddiadwy. Yn ogystal mae Astudiaeth Capasiti Trefol y Cynllun yn ystyried y nifer o dai gwag yn y prif ganolfannau ac yn cynnwys y cyfleon yma o fewn ffigwr ar hap y Cynllun. Mae hyn yn rhywbeth mae'r Cynllun yn ei hwyluso. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

1033	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Para. 7.4.65	Gwrthwynebu	Dywed Polisi Cynllunio Cymru (PCC, paragraff 9.1.4) ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn deall eu system dai yn ei chyfanrwydd er mwyn iddynt allu datblygu polisïau tai marchnad a fforddiadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Elfen allweddol o'r dystiolaeth hon fydd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AMTLl). Dywed paragraff 9.2.16 (PCC) hefyd y dylai'r CDLl gynnwys targed cyflawni tai fforddiadwy ar gyfer yr awdurdod lleol, yn seiliedig ar yr AMTLl. Dylai'r CDLl fynegi cyfanswm yr angen am dai fforddiadwy (gan gynnwys unrhyw ôl-groniad) dros gyfnod cyfan y cynllun, yng nghyfiawnhad rhesymegol y polisi tai fforddiadwy.	**Derbyn yn Rhannol -** Mae'r Cynllun yn cyfeirio tuag at ganfyddiadau AMTLl cyfredol Ynys Môn a Gwynedd. Yn unol ag anghenion Llywodraeth Cymru mae'r AMTLl wrthi yn cael ei ddiweddaru gan y ddau Gyngor. Mae'r ffigwr tai fforddiadwy o fewn PS14 yn seiliedig ar y lefel o unedau fforddiadwy y gellid ei gyflawni ar sail unedau fforddiadwy wedi eu cwblhau ers 2011, y nifer efo caniatâd cynllunio yn y banc tir presennol a'r lefel twf disgwyliedig o ddynodiadau newydd ar sail % o dai fforddiadwy yn y gwahanol Ardaloedd Pris Tai. Fodd bynnag er mwyn egluro yn well y lefel twf disgwyliedig yma cytunir buasai ychwanegu tabl yn yr Eglurhad i PS14 yn esbonio yn well y lefel tai fforddiadwy mae'r cynllun yn gallu ei gyflawni. **Argymhelliad** Ychwanegu tabl yn yr Eglurhad i bolisi PS14 yn dangos sut bydd y ffigwr

					1,400 o dai fforddiadwy yn cael ei gyflawni. **Newid â Ffocws NF67** Er mwyn gwella eglurder y Cynllun
310	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470]	Para. 7.4.66	Gwrthwynebu	Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn ystyried fod y lwfans £5,000 ar gyfer cyfraniadau Adran 106 yn y profion hyfywedd yn rhy isel. Dylai fersiwn ddrafft y Canllaw Cynllunio Atodol ar Gyfraniadau Datblygwyr, y mae disgwyl iddo gael ei pharatoi ar gyfer yr ymchwiliad, fod o gymorth i roi goleuni ar hyn. At hyn, mae'r adroddiad yn nodi y caiff canran uchel o unedau eu cyflawni ar safleoedd llai. Cred y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi fod nifer o'r rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth brofi yn cael eu cymryd o ffigyrau Adeiladwyr Cenedlaethol ac nad ydynt yn llwyr gynrychioli math ac ystod y gwaith	**Dim yn derbyn** – Nodir mai ffigwr cyfartaledd yw'r £5000 (nad sydd yn cynnwys cyfraniadau mewn perthynas â thai fforddiadwy) sydd wedi ei sefydlu gyda'r ddau awdurdod ar sail y wybodaeth monitro oedd ar gael. Nodir hefyd fod trafodaeth wedi ei gynnal o ran y ffigwr hwn mewn gweithdy a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid o'r farchnad dai yn lleol. Mae'r Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy yn seiliedig ar dystiolaeth lleol h.y. caniatadau cynllunio rhwng

				datblygu sy'n mynd rhagddo yn y fwrdeistref. Ailystyriwch y ffigyrau sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfraniadau Adran 106 yn yr adroddiad hyfywdra. Cysylltwch gydag adeiladwyr bychan i ddeall yn well hyfywdra ar safleoedd bach a bwydwch y canlyniadau i mewn i'r profion hyfywdra.	2009 a 2012. Mae hyn yn amlygu pa mor gyffredin yw datblygiadau ar safleoedd llai yn yr ardal. Cytunir y bydd y Canllaw Cynllunio Atodol mewn perthynas â 'Ymrwymiadau cynllunio' yn rhoddi mwy o wybodaeth o ran y maes hwn. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

1036	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Para. 7.4.66	Gwrthwynebu	Mae angen mwy o eglurhad i esbonio pa gostau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau/cyfraniadau. Mae'r asesiad o hyfywdra yn ymdrin â hyn ond mae'r costau penodol yn aneglur. Mater i'r awdurdodau yw dangos beth y bydd ymrwymiadau/cyfraniadau cynllunio eraill yn ymdrin â nhw a ddim yn ymdrin â nhw (gweler hefyd y sylwadau ynghylch y gallu i gyflawni). Bydd angen seilio targedau heriol ar dystiolaeth a bydd gofyn medru eu cymhwyso i'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd ond gan ganiatáu i'r negodi ynghylch safleoedd penodol fynd rhagddynt, os/lle gwelir bod angen (ar nifer gyfyngedig o safleoedd). Rhaid gallu cyfiawnhau pob elfen o'r dystiolaeth o hyfywdra.	**Dim yn derbyn** – Mae paragraff 3.12 o'r Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy (2013) yn nodi cyfraniad o £5,000 i bob uned o ran holl gyfranaiadau adran 106 ar wahan i dai fforddiadwy. Cafodd y ffigwr hwn, sydd yn cynrhychiol'r cyfraniad cyfartalog fesul uned breswyl, ei ddefnyddio o fewn y gwaith profi gwaelodlin, sef y sail ar gyfer y wybodaeeth ym Mholisi TAI9. Fel nodir o ran yr ymateb i sylw 310, cytunir y bydd y Canllaw Cynllunio Atodol mewn perthynas â 'Ymrwymiadau cynllunio' yn rhoddi mwy o wybodaeth o ran y maes hwn. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

PS14 – Tai Fforddiadwy

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
727	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	Dywedir yma 'Caiff tir digonol ei adnabod i ddarparu targed lleiafswm o 1,400 o dai fforddiadwy newydd'. A yw hynny'n golygu fod gweddill y tai, tua 4,500 yn dai heb fod yn fforddiadwy? Mae ein tystiolaeth ('Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy') yn cadarnhau nad oes gan y bobl leol y modd i brynu hyd yn oed tŷ fforddiadwy. Angen cynyddu'r ganran o dai fforddiadwy o fewn y Cynllun.	**Dim yn derbyn –** Nid yw unedau 'marchnad agored' a hwylusir o fewn y CDLl ar y Cyd (h.y. unedau na elwir yn fforddiadwy) yn dai 'anfforddiadwy'. Er enghraifft, bydd yr aelwydydd hyn ar gael i bobl sy'n byw o fewn ardal y Cynllun na fyddent yn gymwys am dŷ fforddiadwy canolraddol, a reolir drwy gytundeb adran 106 sydd yn rheoli'r ddaliadaeth a phris, neu dŷ fforddiadwy cymdeithasol, sydd fel arfer yn cael ei reoli gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bydd darpariaeth tai marchnad agored yn sicrhau bod cynlluniau'n hyfyw yn ariannol ac yn hyn o beth yn sybsideiddio'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy. Mae'n bwysig nodi y dylai pob datblygiad preswyl newydd, yn unol â Pholisi TAI 1 ('Cymysgedd Addas o Dai'), gyfrannu at wella'r cydbwysedd o dai a diwallu anghenion y gymuned gyfan. Felly fe ragwelir y bydd tai marchnad agored mewn nifer
63	Mr Aled Evans [2646]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	Hyn yn golygu bydd llawer gormod o dai nad ydynt yn fforddiadwy yn gorfod cael eu cynnwys yn y cynllun. Astudiaeth iaith a thai'r cyngor yn dangos hyn. Canran llawer uwch o dai fforddiadwy.	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					o ardaloedd marchnad tai yn 'fforddiadwy' trwy ddyluniad / grym y farchnad heb yr angen am fecanwaith megis cytundeb adran 106. Mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi gallu hwyluso'r math yma o unedau tai. Ynghyd a gwybodaeth o'r Asesiadau Marchnad Tai Lleol, mae'r lefel o dai fforddiadwy sydd i'w darparu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy (Andrew Golland Associates). Mae'r Astudiaeth hon yn sefydlu hyfywedd tai fforddiadwy a pha mor bosib yw eu darparu o fewn ardaloedd is-farchnad penodol. O ganlyniad, cynigir polisi wedi'i rannu (Polisi TAI 9); mewn rhai ardaloedd is-farchnad gofynnir am o leiaf 25% o dai fforddiadwy (ble mae trothwy arbennig yn cael ei gyrraedd). O leiaf 15% yw'r ffigwr hwn mewn ardaloedd is-farchnad eraill. Felly, mae hyfywedd cynlluniau a pha mor bosib yw eu darparu yn ystyriaeth fawr o fewn polisi tai fforddiadwy. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Cadw'r ffigwr o 1,400 o dai fforddiadwy. **Dim Newid**
1179	Horizon Nuclear Power (Miss Sarah Fox) [2919]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	**Dim yn derbyn** – Tra bod polisïau megis TAI3 yn uniongyrchol berthnasol i ddatblygiadau mewn perthynas â Wylfa Newydd, mae hefyd yn hollbwysig ystyried nifer o bolisïau perthnasol eraill y Cynllun – gan gynnwys PS14 a TAI 9. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1034	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	Bydd angen i'r awdurdodau esbonio'r berthynas rhwng y targed o fewn yr Asesiad Marchnad Dai Lleol (AMTLl) a lefel y tai fforddiadwy/marchnad a gynigir yn y cynllun. Bydd gofyn i'r awdurdodau ddangos eu bod yn darparu cymaint ag y gallent trwy'r CDLl gan fod yr angen mor fawr. Mae angen mwy o eglurhad i esbonio'r cyfraddau darparu a ddisgwylir trwy'r ymrwymiadau cyfredol a sut y bydd y dyraniadau'n cyfrannu at gyflawni'r targed am dai fforddiadwy. Pery'n aneglur sut y disgwylir darparu 1,400 o dai fforddiadwy a ph'un a yw'r awdurdodau wedi ystyried pob opsiwn i ddarparu cymaint o dai â phosibl trwy'r CDLl o gofio maint yr angen a glustnodir ym 5 mlynedd y cynllun yn unig h.y. y berthynas â thai ar gyfer y farchnad agored.	**Derbyn yn rhannol** - Cytuno y gellid integreiddio cynnwys a chanfyddiadau AMTLl Môn a Gwynedd yn well yn y CDLl ar y Cyd. Gellir egluro rôl y ddau AMTLl yn y CDLl ar y Cyd yn well, a gwneud y cysylltiadau hyn yn fwy eglur. Mae'n bwysig nodi na fyddai pob uned fforddiadwy newydd a adnabuwyd yn yr AMTLl yn cael eu hadeiladu o'r newydd a'n cael eu rheoli o fewn polisïau'r CDLl ar y cyd hefo mecanwaith megis cytundeb adran 106. Felly, mae'n bwysig nodi mai un teclyn yn unig i sicrhau bod y galw am dai fforddiadwy yn cael ei ddiwallu yw'r CDLl ar y Cyd. Er bod yr UPC ar y Cyd yn credu fod modd darparu'r targed tai fforddiadwy a adnabuwyd yn y Cynllun, gellid gwneud y rhesymeg tu ôl i'r ffigwr hwn yn fwy eglur drwy gyfeirio at yr AMTLl. Pwysleisir mai ffigwr lleiafswm yw'r targed o 1,400 o dai fforddiadwy newydd. Mae gwaith i ddiweddaru AMTLl

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Gwynedd a Môn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodir fod AMTLl yn berthnasol am gyfnod o 5 mlynedd, tra bod y ffigwr a nodwyd yn y CDLl ar y Cyd yn berthnasol am gyfnod y Cynllun yn ei gyfanrwydd (hyd at 2026). Er mwyn egluro yn well y lefel twf disgwyliedig yma, cytunir buasai ychwanegu tabl yn yr Eglurhad i PS14 yn esbonio yn well y lefel tai fforddiadwy mae'r cynllun yn gallu ei gyflawni. Er enghraifft, pwysleisio rôl dynodiadau tai, safleoedd ar hap, safleoedd eithriedig, tai mewn clwstwr a throsi tai yng nghefn gwlad. **Argymhelliad** Ychwanegu tabl yn yr Eglurhad i bolisi PS14 yn dangos sut bydd y ffigwr 1,400 o dai fforddiadwy yn cael ei gyflawni. **Newid â Ffocws NF67**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Er mwyn sicrhau cysondeb gyda chynlluniau a strategaethau allweddol eraill ac i sicrhau eglurder
434	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi Strategol PS14	Cefnogi	Mae angen bod yn hollol glir beth ydy ystyr y term 'tai fforddiadwy' wrth weithredu'r polisi hwn	**Nodi'r sylw** – Mae'r rhestr termau yn niwedd y datganiad ysgrifenedig yn rhoddi gwybodaeth o safbwynt 'tai fforddiadwy'. **Argymhelliad** **Dim newid**
1266	Cyng. R.H. Wyn Williams [367]	Polisi Strategol PS14	Cefnogi	Croesawu unrhyw bolisi a chynllun am dai yn yr ardal sydd yn fforddiadwy gyda thystiolaeth o angen lleol hefyd er lles ein cymunedau.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
283	Mr Aled Evans [2646]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	Tai fforddiadwy Cynyddu'r targed lleiafswm i adlewyrchu'r hyn, fe ymddengys, y gall trigolion y sir ei fforddio. Ni all 61.4% o drigolion Gwynedd fforddio prynu tŷ felly nid yw petha'n gwneud synnwyr. Mae gofyn dod a'r nifer o dai yn y cynllun i lawr a chynyddu ganran o dai	**Dim yn derbyn –** Fel nodir mewn ymateb i sylw 1034, mae cysylltiad rhwng y targed o ddarparu lleiafswm o 1,400 o dai fforddiadwy newydd a'r wybodaeth yn Asesiadau Marchnad Tai Leol Ynys Môn a Gwynedd. Fel y nodir mewn cysylltiad â sylw 1034, bydd tabl yn cael ei baratoi sydd yn dangos sut bydd y ffigwr 1,400 o dai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				fforddiadwy.	fforddiadwy yn cael ei gyflawni. Nodir y cysylltiad yn ogystal gyda'r ymateb i sylwadau 728, 273 a 68 ar gyfer Polisi TAI9 o safbwynt fod y ganran o dai fforddiadwy sydd i'w darparu ar safleoedd penodol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy. Gweler ymateb i Bolisi Strategol PS13 o safbwynt ystyriaethau o ran y nifer o dai i'w darparu yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

TAI 9 – Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
728	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Mae Chwilog yn y categori 15% o dai fforddiadwy. I gyd-fynd â'r Adroddiad Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy, mae angen cynyddu hyn i 60-70% yn hytrach na 15%.	**Derbyn yn rhannol** - Mae'r canran o dai fforddiadwy sydd i'w darparu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy. Mae'r dull yn ei gyfanrwydd yn ystyried y berthynas ariannol rhwng gwerth gweddilliol a gwerth defnydd presennol mewn dau gam: 'Profion Lefel Uchel' (HLT) a phrofion 'Safle Generig'. Mae'r HLT yn edrych ar werth gweddilliol ar draws ystod o is-farchnadoedd a dwyseddau ac mae'r holl brofion yn ystyried cyfres o dargedau tai fforddiadwy (o 0% i 50%). Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i effaith cyfraniadau Adran 106 eraill. Yn hyn o beth, mae'r dull o sefydlu canran o dai fforddiadwy sydd i'w darparu o fewn yr is-farchnadoedd amrywiol yn seiliedig ar fethodoleg gadarn a chlir. Nodir bod y canrannau a nodwyd yn y Polisi yn ffigyrau lleiafswm, ac mae'n bosib y bydd angen ffigwr uwch os

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
273	Mrs Marian Jones [2832]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Tai Fforddiadwy 15% o dai fforddiadwy yn Llŷn. Pwy felly fydd yn prynu'r 85% yn weddill? Mae tystiolaeth yn dangos bod 60% + o drigolion Gwynedd yn methu fforddio prynu tai. Fydd hyn yn agor y llifddorau i fwy o ymfudwyr di-gymraeg?	yw'n hyfyw yn ariannol. Mae hefyd yn bwysig nodi fod Polisi TAI 5 ('Tai Marchnad Lleol') yn berthnasol i ardaloedd penodol o fewn ardal y Cynllun ble gwelir problemau difrifol yn y farchnad dai. **Argymhelliad** Ychwanegu testun yn eglurhad i'r polisi ynghylch methodoleg ar gyfer ailasesu prisiau tai cyfartalog mewn gwahanol ardaloedd a'i effaith ar hyfywedd y ganran o ddarpariaeth tai fforddiadwy a geisir. Gellir cyflwyno mecanwaith o'r fath o fewn CCA ar dai fforddiadwy. **Newid â Ffocws NF69** I sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd
68	Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Dylai'r ganran o dai fforddiadwy am ardal Llŷn fod yn 25%.	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
951	Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (Mr Arfon Hughes) [1189]	Polisi TAI 9	Cefnogi	Mae'r Polisi TAI 9 yn nodi'r angen i gael 'taliad pro-rata yn hytrach na dim darpariaeth fforddiadwy o gwbl ar y safle i'w groesawu gan fod hyn yn sicrhau cymorth i gael cyflenwad o dai fforddiadwy ac fe all fod o gymorth i Bartneriaid Tai er mwyn sicrhau bod cynllun yn hyfyw.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
1035	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Er mwyn darparu cymaint o dai fforddiadwy â phosibl a chyflawni'r prif amcan, mae'r asesiad o hyfywdra wedi adnabod ardaloedd lle ceir y prisiau uchaf o fewn ardal y cynllun. Dylai'r awdurdodau ystyried a yw geiriad TAI9 yn ddigon cryf i negodi canran uwch o gyfraniad yn yr ardaloedd penodol hyn.	**Dim yn derbyn –** Credir bod y geirfa presennol o fewn y polisi, sef 'o leiaf' 15% neu 25% yn golygu bod cyfle i gael lefel uwch o dai fforddiadwy mewn ardaloedd gyda'r prisiau uchaf o fewn ardal y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1263	Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052]	Polisi TAI 9	Cefnogi	Mae Partneriaid Tai yn barod i hybu datblygiadau addas o fewn ardaloedd sydd ag angen ac mae papur testun Tai a Phoblogaeth, tabl 8.2, yn nodi yn glir bod 'caniatadau cynllunio am dai a roddwyd i gyrff cyhoeddus/cymdeithasau tai yn ffurfio cyfran isel o'r unedau preswyl a ystyriwyd yn arolwg argaeledd tir ar gyfer tai Gwynedd (Ebrill 2013)'. Mae hyn yn dangos effaith isel sydd i waith cyfredol Cymdeithasau Tai mewn cymhariaeth a'r sector breifat. Mae Polisi Tai 9 yn nodi'r angen i gael 'taliad pro-rata yn hytrach na dim darpariaeth fforddiadwy o gwbl ar y safle' i'w groesawu gan fod hyn yn sicrhau cymorth i gael cyflenwad o dai fforddiadwy ac fe all fod o gymorth i Bartneriaid Tai er mwyn sicrhau bod cynllun yn hyfyw.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
443	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi TAI 9	Cefnogi	Mae'r trothwy 'nifer y tai yn y datblygiad' ar gyfer y gwahanol fath o gymunedau yn addas. Mae canran y tai fforddiadwy yn y datblygiad yn ôl lleoliad yn addas. Mae gofyn a derbyn swm cymunedol ar safleoedd lle nad oes modd darparu tai fforddiadwy yn briodol, fel bod modd i gynlluniau tai fforddiadwy neu dai cymdeithasol ar safleoedd eraill yn yr un ardal fod yn hyfyw.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
60	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	Polisi TAI 9	Cefnogi	Nid oes tai fforddiadwy ym Miwmares. Mae nifer gynyddol y tai haf a thai sy'n cael eu gosod yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae Cyngor Tref Biwmares yn croesawu gwneud y polisi tai fforddiadwy yn berthnasol i Fiwmares (25% mewn datblygiadau o bum uned neu fwy) a Llanfaes (100%).	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
345	Mr Geoff Wood [2916]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Nid yw'r polisi yn ystyried tai newydd mewn cefn gwlad agored (er yr ymdrinnir â hyn mewn rhan arall) ac nid yw'n glir beth fyddai'r ymrwymiad tai fforddiadwy ar gyfer datblygiad o'r fath. Ychwanegu	**Dim yn derbyn** – Mae Polisi PS15 ('Strategaeth Aneddleoedd') yn nodi mai dim ond datblygiadau tai sy'n cydymffurfio â chynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				lefel arall i'r hierarchaeth sy'n cyfeirio at dai newydd a throsi tai yng nghefn gwlad. Dylid cyfeirio at Bolisi Strategol PS15 er eglurder.	Technegol 6 fydd yn cael eu caniatáu yng nghefn gwlad agored. Nodir y dylai tai o'r newydd yng nghefn gwlad agored ddiwallu anghenion penodol yn gysylltiedig â mentrau gwledig. O safbwynt tai fforddiadwy, nodai NCT 6 (para. 4.13.4) "mewn achosion lle methir â dod o hyd i weithiwr menter wledig i fyw yn yr annedd menter wledig, dylai ymestyn cymhwysedd i gynnwys personau a fyddai'n gymwys i'w hystyried am dai fforddiadwy o dan bolisïau tai'r awdurdod lleol". **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
288	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Mae angen egluro geiriad 3 ii. oherwydd os bydd gofyn codi eiddo i safonau Gofynion Ansawdd Datblygu (y gofynnir yn bendant amdanynt gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig os rhoddir grant i'r cynllun), yna ni fydd yn bosib cydymffurfio â'r gofyn hwn oherwydd maint a gofynion allanol. Angen geiriau ychwanegol yn 3 iii. i gynnwys cyflafareddu annibynnol lle nad oes modd i'r Cyngor a'r datblygwr gytuno ar hyfywedd.	**Derbyn yn rhannol** **Gwrthdaro â safonau Gofynion Ansawdd Datblygu:** Mae'n bwysig iawn fod yr unedau tai fforddiadwy yn cael eu hintegreiddio'n llawn o fewn datblygiad preswyl. Os oes gwrthdaro rhwng hyn a'r angen i gwrdd â safonau Gofynion Ansawdd Datblygu, gellid trafod hyn yn ystod y cam cais cynllunio, ac mae modd sefydlu unrhyw faterion o ran hyfywedd yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd. Mewn termau polisi, er mwyn i gynllun fod yn llwyddiannus, mae'n hanfodol nad yw'r tai fforddiadwy yn amlwg yn wahanol i'r tai marchnad. Mae hyn yn bwysig er mwyn eu hintegreiddio'n gymdeithasol ac o ran ystyriaethau dylunio. **Cymodi annibynnol:** Derbyn y gellid cynnwys sylw yn ymwneud â chymodi o fewn y polisi neu'r eglurhad iddo. Sôn am y ffaith y bydd y ddau Gyngor yn asesu hyfywedd cynlluniau yn y man cyntaf er mwyn sefydlu p'un a yw'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					ddarpariaeth tai fforddiadwy'n briodol. Fodd bynnag, os oes anghytundeb, mae modd cynnal asesiad allanol (e.e. gan y Gwasanaeth Priswyr Dosbarth). Bydd yr ymgeisydd yn talu am y gwasanaeth hwn. **Argymhelliad** Ychwanegu sylw yn ymwneud â chymodi o fewn y polisi h.y. lle nad oes modd i'r Cyngor a'r datblygwr gytuno ar hyfywedd datblygiad. **Newid â ffocws NF68** Er mwyn sicrhau eglurder.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1043	Mr Mark Newey, Llywodraeth Cymru	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Ni ddylai polisïau'r CDLl ar dai fforddiadwy nodi'r ystod/math/cymysgedd o dai, oherwydd gallai'r sefyllfa newid dros oes y cynllun gan ei rwystro o bosibl rhag medru gwneud y ddarpariaeth. Fe ddylai CDLliau gyfeirio er hynny at yr wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfiawnhad rhesymegol i'w galluogi i negodi'n effeithiol. Gan ddibynnu ar y gymysgedd, a allai fod ag iddi oblygiadau ariannol, gallai effeithio hefyd ar y gallu i ddarparu tai fforddiadwy (y ganran y gofynnir amdani ar y safle). Mae'r AMTLl yn asesu'r ystod lawn o ofynion tai, ond nid yw'r CDLl yn cyfeirio'n benodol at hyn. Byddai'r cynllun ar ei ennill o gynnwys gwybodaeth o'r fath a'i hystyried wrth asesu hyfywdra'r cynllun er mwyn dangos ei fod yn gyson â'r dystiolaeth ac na châi ganlyniadau andwyol.	**Dim yn derbyn –** mae rhan 3(i) o'r polisi yn cyfeirio tuag at angen i ddatblygiadau gyflawni cymysgedd briodol o ran mathau a maint y tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad marchnad dai leol neu unrhyw asesiad amgen gan y Cyngor neu bartner. Felly nid yw'r polisi yn nodi'r ystod / math / cymysgedd o dai ond yn hytrach yn nodi bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i hyn yn seiliedig ar unrhyw dystiolaeth sydd ar gael wrth asesu cais unigol. Bydd y CCA ar Tai Fforddiadwy yn rhoi eglurhad ar gyfer oblygiadau posib gwahanol gymysgedd o dai fforddiadwy ar safleoedd unigol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
129	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470]	Para. 7.4.68	Gwrthwynebu	Pam y defnyddiwyd dull gweithredu dau gam yn hytrach na thri cham yng nghyswllt y gofyn am % y tai fforddiadwy a pham fod ardaloedd nad ydynt yn hyfyw ar hyn o bryd neu y gallent fynd yn anhyfyw os bydd amgylchiadau cyfredol y farchnad yn parhau wedi'u cynnwys? Angen esbonio pam y defnyddiwyd dull gweithredu dau gam yn hytrach na thri cam, a pam bod disgwyl i ardaloedd efo gwerth gweddilliol negyddol dal ddarparu tai fforddiadwy.	**Dim yn derbyn** <u>Dull Dau-gam</u>: • Ffafriwyd yr ymagwedd dau-gam o ganlyniad i gynnwys a chanfyddiadau'r Adroddiad Hyfywedd diweddaraf (Hydref 2014). Credir y bydd y dull hwn yn effeithiol o ran sicrhau bod y cyflenwad gofynnol o dai fforddiadwy yn cael ei ddarparu. <u>Ardaloedd sydd â gwerth gweddilliol negyddol</u>: • Derbyniwyd bod yr Adroddiad Hyfywedd diweddaraf (Hydref 2014) yn dangos gwerth gweddilliol negyddol i'r lleoliadau marchnad is, yn seiliedig ar senario 30 annedd fesul hectar. Fodd bynnag, nodir mai canfyddiad cyffredinol a generig yw hwn ar gyfer ardaloedd is-farchnad yn eu cyfanrwydd, a bydd angen asesu pob cais cynllunio yn unigol. Os oes modd profi yn ystod y cam cais cynllunio, i fodlonrwydd yr awdurdod cynllunio lleol, na

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					fyddai'n hyfyw yn ariannol i ddarparu tai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiad, yna ni fyddai'n angenrheidiol gwneud hynny. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
108	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	Para. 7.4.69	Gwrthwynebu	Sylweddoli fod angen tai fforddiadwy ym Mangor. Angen tai rhent a pherchnogaeth breifat. Angen tai a fflatiau efo 1/2/3 llofft. Angen gerddi ar blant. Dim gwaith manwl wedi ei wneud ar anghenion pobl Bangor. Angen cydweithio (ee efo'r Brifysgol) i weld be sydd angen - llawer o dai rhent gwag erbyn hyn	**Dim yn derbyn -** mae'r sail tystiolaeth i'r Cynllun yn nodi'r angen am dai fforddiadwy ar draws ardal y Cynllun. Mae rhan 3(i) o'r polisi yn cyfeirio tuag at yr angen i bob bwriad gyflawni cymysgedd briodol o ran mathau a maint y tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Bydd system monitro'r Cynllun yn golygu y gellid ystyried newidiadau ym mhatrwm defnydd myfyrwyr o'r stoc dai leol ym Mangor. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
698	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	Para. 7.4.69	Gwrthwynebu	Nid yw'r gofyn i ddarparu o leiaf 25% o dai fforddiadwy yn dderbyniol, gan ei fod yn awgrymu nad fydd terfyn ar yr angen am dai fforddiadwy ar safleoedd datblygu. Dylid nodi'n benodol mai hyd at 25% o dai fforddiadwy yw'r lefel. Nid yw'r polisi'n ystyried effaith goblygiadau adran 106. Nid yw'r polisi yn gosod cyfradd wahaniaethol ar gyfer tai fforddiadwy yn seiliedig ar safleoedd tir glas neu safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen. Nid yw'n ystyried hyfywedd datblygiadau ac nid yw'n adlewyrchu PCC.	**Dim yn derbyn** – Mae'n rhaid i ddatblygiad preswyl fod yn hyfyw, felly mae terfyn o ran y nifer o dai fforddiadwy y gellir gofyn amdano. Ni ellir gofyn am ganran o dai fforddiadwy sydd yn golygu nad yw datblygiad yn hyfyw. Mae'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy (gan Andrew Golland Associates), sydd yn rhoddi'r sail dystiolaeth ar gyfer y polisi hwn, wedi nodi isafswm o safbwynt y canran o unedau fforddiadwy y dylid eu darparu, fodd bynnag byddai'n hollbwysig ystyried amgylchiadau penodol pob cais yn unigol. Credir fod yr Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy wedi ystyried yn fanwl goblygiadau Cytundebau Adran 106. Mae hyfywedd hefyd wedi ei ystyried

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					felly o fewn y polisi ac o'r herwydd credir ei fod yn adlewyrchu Polisi Cynllunio Cymru (para. 2.2.2). Mae'r Astudiaeth Hyfywdra wedi ystyried caniatadau ar dir llwyd a thir glas. Mae cynnwys y polisi felly wedi ei seilio ar y wybodaeth hyn ond unwaith yn rhagor nodir ei fod yn bwysig ystyried y sefyllfa benodol fesul pob cais perthnasol o safbwynt y nifer o dai fforddiadwy sydd yn bosib ar safle. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

TAI 10 – Safleoedd Eithriad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
645	Cyfeillion Borth-y-Gest (Tom Brooks) [3036]	Polisi TAI 10	Gwrthwynebu	Mae safleoedd eithrio sy'n gyfagos ond y tu allan i ffiniau datblygu yn arwain at ddatblygiad heb ei gynllunio ac yn creu datblygiadau rhuban. Gallai hyn gael ei gyfiawnhau ar gyfer safleoedd 100% tai fforddiadwy ble mae'r angen am ddatblygiadau bach o'r fath yn bodoli, ond ni ellir ei gyfiawnhau ar gyfer unrhyw eithriadau ar y farchnad agored. Fel y'i drafftiwyd, byddai'r polisi hwn yn mynd ymhell tu hwnt i ganllawiau Polisi Cynllunio Cymru. Bod TAI 10 yn cael ei adolygu i gyfeirio tuag at dim ond caniatáu 100% tai fforddiadwy. Gellid gwneud hyn trwy ddileu y rhan olaf o'r polisi.	**Dim yn derbyn** - Tra derbynnir bod paragraff 9.2.23 o Bolisi Cynllunio Cymru'n cyfeirio at "darpariaeth arbennig ar ffurf safleoedd eithriedig tai fforddiadwy" ac "Nid yw safleoedd eithriedig tai fforddiadwy yn briodol ar gyfer tai ar y farchnad agored", mae paragraff 4.2.2 o TAN 6 ('Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy') yn datgan "Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio pob ymagwedd bolisi sydd ar gael, mewn modd arloesol, i sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl o dai fforddiadwy". Mae gwybodaeth a ddarparwyd ym Mhapur Testun 3 'Poblogaeth a Thai' yn nodi effaith cyfyngedig safleoedd eithriedig o ran darparu tai fforddiadwy ar ardal y Cynllun. Yn unol â geiriad TAN 6, mae'r polisi hwn felly'n darparu ymagwedd arloesol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ac felly gwireddu targed tai fforddiadwy'r Cynllun.
984	Rob Booth [3033]	Polisi TAI 10	Gwrthwynebu	Ni ddylid cael unrhyw dai marchnad agored y tu allan i ffin datblygu.	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1032	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi TAI 10	Gwrthwynebu	Yn ôl Polisi TAI10, Datblygu ar safleoedd eithrio, o dan amgylchiadau eithriadol gellid cynnwys tai marchnad i wneud cynnig yn hyfyw. Er hynny, ni ellir dosbarthu safleoedd sy'n gymysgedd o dai fforddiadwy a thai marchnad yn 'safleoedd eithrio' o dan bolisi cenedlaethol - dywed TAN 2 yn benodol nad yw safleoedd o'r fath yn briodol ar gyfer tai marchnad (para. 10.14).	Mae'r polisi hwn yn nodi y bydd tai marchnad ond yn cael eu caniatáu ar safle eithriedig mewn amgylchiadau eithriadol. Yn hyn o beth, bydd angen darparu tystiolaeth i ddangos nad yw darparu 100% o dai fforddiadwy ar safle yn hyfyw. Mewn amgylchiadau o'r fath, dim ond nifer fechan o anheddau ar y farchnad agored fydd yn cael eu darparu i draws-sybsideiddio'r unedau fforddiadwy ac i wneud y cynnig yn hyfyw. Yn ogystal, bydd rhaid i ddatblygiad o'r fath gael ei arwain neu fod mewn partneriaeth â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac/neu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol ac/neu'r Awdurdod Tai Strategol. Yn hyn o beth, bydd y nifer o safleoedd perthnasol yn cael ei reoleiddio'n llym, a bydd y nifer o dai marchnad a ddarperir yn lleiafrifol. O ystyried y cysylltiad â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol neu'r Awdurdod Tai, mae'n debyg y bydd y ddarpariaeth tai marchnad agored yn diwallu anghenion lleol. Mae nifer y tai marchnad fyddai'n cael ei ddarparu'n fychan, ond dyma

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					fyddai'n sbarduno darparu mwy o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. **Argymhelliad** Dim newid i'r polisi. Cryfhau a diweddaru'r dystiolaeth a ddarperir ym Mhapur Testun 3 i gyfiawnhau'r ddarpariaeth o nifer lleiafrifol o dai marchnad ar safleoedd eithriedig mewn amgylchiadau eithriedig. **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
945	Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (Mr Arfon Hughes) [1189]	Polisi TAI 10	Cefnogi	Rwy'n croesawu'r polisi hwn a fydd o gymorth i sicrhau bod model addas yn cael ei ddatblygu o fewn ardaloedd, mwy na thebyg ardaloedd gwledig. Mae darparu cynlluniau tai fforddiadwy yn anos i'w gwireddu heb y sicrwydd bod unedau marchnad ar gael i groes gymorth cynllun. Mae cyswllt cryf yma gyda Pholisi Tai Marchnad Leol yn ddull o sicrhau bod datblygiadau yn digwydd o fewn ardaloedd lle mae angen clir am dai fforddiadwy gydag elfen o werthu ar y farchnad agored er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn hyfyw.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1262	Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052]	Polisi TAI 10	Cefnogi	Mae'r Partneriaid yn croesawu'r polisi fydd o gymorth i sicrhau bod model addas yn cael ei ddatblygu o fewn ardaloedd, mwy na thebyg ardaloedd gwledig. Gallwn ddarparu gwybodaeth sydd yn dangos bod rhai cynlluniau yn anoddach i'w gwireddu heb y sicrwydd bod unedau ar gael i sybsideiddio'r cynllun. Mae'r tabl 7.13 ym Mhapur Testun tai a Phoblogaeth ar Safleoedd eithrio gwledig yn dangos faint o ddatblygiadau ar safle eithriedig sydd wedi bod gyda chymariaethau clir i'w gweld yn y niferoedd. Mae cyswllt cryf yma gyda Pholisi Tai Marchnad Lleol yn ddull o sicrhau bod datblygiadau yn digwydd o fewn ardaloedd lle mae angen clir am dai fforddiadwy gydag elfen o werthu ar y farchnad agored er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn hyfyw. Bydd hyn yn hwyluso datblygiadau megis Ymddiriedolaeth Tir mewn ardaloedd penodol.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
309	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	Polisi TAI 10	Gwrthwynebu	Mae'r polisi hwn yn mentro niweidio safleoedd neu nodweddion gwerth bioamrywiaeth leol neu nodweddion pwysig mewn coridorau bywyd gwyllt/gwyrdd. Ychwanegu cyfeiriad i'r angen i gydymffurfio gyda pholisïau'r cynllun yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gwarchod bioamrywiaeth.	**Dim yn derbyn** – Tra bod y polisi hwn yn darparu'r egwyddor o ddatblygu tai ar safleoedd eithriedig, ceir polisïau a chanllawiau eraill fyddai angen eu hystyried wrth asesu eu priodoldeb ar gyfer datblygiad o'r fath. Er enghraifft, byddai Polisi Strategol PS16 ('Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol'), Polisi AMG4 ('Gwarchod bioamrywiaeth lleol') a chanllawiau ym Mhennod 5 ('Gwarchod a Gwella Treftadaeth Naturiol a'r Arfordir') o Bolisi Cynllunio Cymru yn berthnasol o ran gwarchod safle sydd â gwerth bioamrywiaeth. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
446	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi TAI 10	Cefnogi	Mae'r Polisi TAI10 i'w groesawu yn fawr. Bydd yn caniatáu darparu cartrefi i rai y mae pris tai lleol ar y farchnad agored allan o'u cyrraedd. Bydd angen canllaw Cynllunio ynglŷn â natur a ffynhonnell y dystiolaeth angen fydd yn rhaid ei gyflwyno i gefnogi cais Cynllunio.	**Nodi'r sylw –** Nodir y bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig o ran 'Tai Fforddiadwy', fel nodir yn Atodiad 9, yn berthnasol ar gyfer Polisi TAI10. **Argymhelliad** **Dim newid**
452	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Para. 7.4.79	Gwrthwynebu	Dylid darparu canllaw Cynllunio i egluro natur y dystiolaeth fydd yn dderbyniol wrth geisio cyfiawnhau cynnwys tai marchnad agored.	**Dim yn derbyn** – Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig ar gyfer 'Tai Fforddiadwy', fel nodir yn Atodiad 9, yn berthnasol ar gyfer Polisi TAI10. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
449	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Para. 7.4.83	Cefnogi	Bydd hyn yn osgoi stigma ac yn sicrhau bod y tai fforddiadwy yn cael yr un sylw adeiladu.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Cyd-destun a Chyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1028	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.90	Gwrthwynebu	Mae angen eglurhad ynglyn a sut a phryd mae angen yr 16 o leiniau ychwanegol a beth yw anghenion yr awdurdodau o ran y 28 llain deithiol (welwyd sydd ei angen ar draws Gogledd Cymru) a phryd fydd eu hangen. Mae'r awdurdodau wedi cydnabod na fydd modd lletya pob grŵp o Sipsiwn a Theithwyr gyda'i gilydd ar yr un safle a bydd angen i awdurdodau esbonio a ydynt wedi cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	**Derbyn** Ystyrir y byddai cynnwys geiriad sy'n cyfeirio at y cyfnod pan fo angen y lleiniau ychwanegol yn rhoi cyswllt defnyddiol rhwng yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANA) diweddaraf a'r Cynllun, ac yn gwella gwaith monitro. Gwnaed gwaith ychwanegol gan y ddau Gyngor i ddangos sut y bydd yr angen nas diwallwyd a nodwyd yn y GTANA diweddaraf (2015) yn cael ei fodloni yn ystod y 5 mlynedd nesaf. **Argymhelliad**

					Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i sicrhau eglurder ac i ddangos bod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. **Newid â Ffocws: NF70**
1673	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.90	Gwrthwynebu	Mae'r testun yn Papur Testun 18: Siwpsiwn a Theithwyr yn datgan y bydd pob safle sy'n dod o dan restr o feini prawf yn cael eu diystyru. Fodd bynnag, ni ddylid diystyru dynodiad ardal llifogydd C1 yn awtomatig. Dylid profi'r cyfiawnhad dros safleoedd o'r fath yn hytrach na chyfyngu opsiynau addas posibl ymhellach.	**Nodwyd y sylw** I ddechrau, ystyrir y dylai'r safle a ffefrir barhau i fod yn safle nad yw o fewn parth C1, ond, os nad oes safleoedd posibl ar gael, yna dylai safleoedd ym Mharth C1 gael eu hasesu yn unol â TAN15. **Argymhelliad** Diwygio'r testun ym Mhapur Pwnc 18 diwygiedig i sicrhau eglurder ac i ddangos bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol. **Dim newid**

TAI 11 – Gwarchod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1076	Llywodraeth	POLISI	Gwrthw	Polisi TAI11 - mewn perthynas â diogelu safleoedd	**Derbyn yn rhannol**

	Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	TAI11	ynebu	presennol, dylid ehangu'r cymal i: "diogelu fel safleoedd preswyl parhaol i'w defnyddio gan Sipsiwn a Theithwyr yn unig".	Ychwanegu "a Theithwyr" at ddiwedd brawddeg gyntaf Polisi TAI 11. Diwygio geiriad yr ail frawddeg i sicrhau cysondeb o ran terminoleg. **Argymhelliad** Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod er mwyn sicrhau cysondeb. **Newid â Ffocws: NF71**
1260	Partneriaeth Tai Gwynedd / Gwynedd Housing Partnership (Elfyn Owen) [3052]	POLISI TAI11	Gwrthw ynebu	Mae'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn cynnal arolwg o anghenion Sipsiwn a Theithwyr erbyn Chwefror 2016 a bydd hwn yn ddilyniant i'r gwaith a wnaed yn 2011. Bydd hwn yn rhoi gwybodaeth gyfredol i ni o'r angen a byddwn yn edrych i gonisiynu'r gwaith yn rhanbarthol. Bydd Partneriaid Tai yn cefnogi'r gwaith hwn.	**Nodwyd y sylw** Derbynnir crynodeb o'r sylwadau fel mater o ffaith; mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) wedi ymgysylltu â'r Gwasanaethau Tai wrth baratoi'r GTANA (2015) **Argymhelliad** Nid oes angen unrhyw newidiadau i ymdrin â'r sylw **Dim newid**

TAI 12 – Dyrannu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1074	Llywodraeth Cymru (Mr	7.4.97	Gwrthw ynebu	Mae angen eglurhad pellach ynghylch cam 4 (mewn perthynas â'r 'asesiad manwl o safleoedd') ac fe ddylai'r polisi hefyd adlewyrchu'r ffaith bod y	**Derbyn** Awgrymir diwygio'r rhannau perthnasol o adran 7.4 yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd. Dylai Papur Pwnc 18: Dynodi

	Mark Newey) [1561]			broses yn ymwneud â dod o hyd i safleoedd cyhoeddus ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yn hytrach na safleoedd preifat.	Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig a ddiweddarwyd esbonio ac egluro'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu a nodi safleoedd preswyl parhaol posibl ar gyfer llety cymdeithasol i Sipsiwn a Theithwyr a'r mannau aros dros dro posibl. Diwygio geiriad Polisi TAI 12 i gyfeirio at bob safle a ddyrannwyd ar gyfer safleoedd preswyl parhaol posibl ar gyfer llety cymdeithasol i Sipsiwn a Theithwyr a'r mannau aros dros dro posibl. Nodi'r dyraniadau Safleoedd Sipsiwn Teithwyr arfaethedig ar yr Mapiau Cynigion. **Argymhelliad** Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i ddangos bod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. **Newid â Ffocws: NF72**
1075	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.99	Gwrthwynebu	Mae cynnwys 'ni chant aros am fwy na 5 diwrnod' yn cyfyngu Awdurdodau Lleol yn y dyfodol os byddant yn gweld y terfyn amser hwn yn wrthgynhyrchiol. Hefyd, nodir bod angen safle tramwy/aros allai gymryd hyd at 15 o leiniau er mwyn rhoi lle i 15 carafán. Fodd bynnag, mae canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru'n datgan y dylai pob llain dramwy fedru rhoi lle i ddwy garafán deithiol. Felly dylai safle 8 llain fod yn ddigonol..	**Derbyn** Awgrymir diwygio'r rhannau perthnasol o adran 7.4 yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd ac i gymryd i ystyriaeth Bapur Pwnc 18: Dynodi Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ddiweddarwyd, ac yn enwedig y fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu a nodi safleoedd mannau aros dros dro posibl. **Argymhelliad** Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod er mwyn sicrhau cywirdeb ac i ddangos bod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. **Newid â Ffocws: NF73**

TAI 13 – Safleoedd ar gyfer Lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1077	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI TAI13	Gwrthwynebu	Mae'r mae'r meini prawf hyn yn ymwneud yn benodol â safleoedd preswyl ac nid ydynt yn caniatáu ar gyfer anghenion safleoedd tramwy yn y dyfodol. Nid yw maen prawf 2 yn ei gwneud yn glir nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael bob tro, yn arbennig pan fo safleoedd yn cael eu dynodi yn unol â pharagraff 7.4.102. Mae maen prawf 4 yn hyblyg iawn yn sgil defnyddio'r cymal "yn cynnwys". Dylai'r awdurdodau ystyried cyfyngu'r ffactorau hyn i'r rhai a nodwyd eisoes, ac ychwanegu "oni bai bod mesurau lliniaru yn bosibl ac yn gymesur". Mae maen prawf 6 yn afresymol gan fod canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru'n ymwneud â safleoedd Awdurdodau Lleol ac nid safleoedd preifat. Gallai'r Awdurdod Lleol egluro y dylai'r safleoedd cyhoeddus ystyried y canllawiau hynny, tra byddai safleoedd preifat yn cael eu rheoleiddio dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Mae maen prawf 9 eisoes yn dod o dan bolisi TAI11.	**Derbyn** Awgrymir diwygio Polisi TAI13 i gymryd i ystyriaeth y sylwadau a gyflwynwyd. Er y derbynnir y byddai safleoedd preifat yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, ystyrir y dylid parhau i gyfeirio at Ganllawiau Arferion Da Llywodraeth Cymru ynglŷn â dylunio safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ond dylid ei wneud yn glir, yn achos safleoedd preifat, nad yw cydymffurfio'n orfodol. Cynnwys geiriad i ddweud bod yr awdurdodau cynllunio lleol o'r farn y dylai darparwyr preifat ei ystyried wrth ddylunio safleoedd a cheisio ymdrin â chymaint â phosibl o'r canllawiau. Ystyrir na ddylai'r Cyngor fod â disgwyliadau dylunio is ar gyfer dylunio safleoedd preifat ac estyniadau newydd o'u cymharu â safleoedd yn y sector cyhoeddus. **Argymhelliad** Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn hawdd. **Newid â Ffocws: NF74,**
1078	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.104	Gwrthwynebu	Gallai paragraff 7.4.104 fod yn rhesymol mewn perthynas â safleoedd preswyl parhaol ond nid mewn perthynas â defnyddwyr tramwy.	**Derbyn** Awgrymir diwygio paragraff 7.4.104 i gymryd i ystyriaeth y sylwadau a dderbyniwyd.

					Argymhelliad Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i sicrhau eglurder. **Newid â Ffocws: NF75**
1079	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.105	Gwrthwynebu	Mae paragraff 7.4.105 yn egluro nad oes gofyn i ddatblygwyr safleoedd preifat fyw yn yr ardal cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer safle, gan y gallai hyn gyfyngu ar ryddid symudiad. Mae cylchlythyr cynllunio 30/2007 Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir y byddai gofyniad o'r fath yn annerbyniol ac yn mynd yn groes i bolisi cenedlaethol.	**Derbyn** Hepgor y cyfeiriad at gysylltiadau lleol yn y testun ac ym Mholisi TAI 13. **Argymhelliad** Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i ddangos bod ystyriaeth briodol wedi ei rhoi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol. **Newid â Ffocws: NF75**

Lleoliad Tai

PS15 – Strategaeth Aneddleoedd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
289	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris)	7.4.113	Gwrthwynebu	Dylai rhagor o ddarpariaethau ddod o du'r Ganolfan Isranbarthol a'r Ganolfan Gwasanaethau Trefol. Mae'r canolfannau hyn yn fwy cynaliadwy o ran lle mae'r	**Dim yn derbyn** - Mae'n bwysig bod y strategaeth ofodol yn cydnabod bod yr ardal yn un gwledig iawn ac yn un sy'n cynnwys rhwydwaith o wahanol aneddleoedd gwasgaredig. Cafodd y strategaeth ddosbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	[1470]			farchnad yn dymuno codi tai a phobl yn dymuno byw. At hyn, mae'r cyfyngiadau ar dai fforddiadwy ac anghenion lleol tai mewn pentrefi, clystyrau a'r cefn gwlad agored yn golygu na fydd yr unedau hyn (1,976) yn cyfrannu at gyfanswm tai ar y farchnad agored. Cynyddu'r % o dai yn y Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol. Tynnu'r cyfyngiad 'tai farchnad leol' o'r ardaloedd sy'n cael ei hadnabod uchod.	chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisïau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
626	Dr Morag McGrath [231]	7.4.113	Gwrthwynebu	Mae'n anodd iawn cyfiawnhau datblygiad yn y cefn gwlad agored. Mae Tabl 18 yn dangos fod Ynys Môn yn barod efo 141 o unedau uwchben y lefel disgwyliedig dros gyfnod cyfan y cynllun (a 43 dros ben lefel y clystyrau). Oherwydd hyn fe ddylid bod yna	**Dim yn derbyn** – mae'r Cynllun yn cyfeirio'r mwyafrif o ddatblygiadau i drefi a phentrefi ardal y Cynllun. Credir bod y ffordd yma o ddosbarthu yn ogystal a pholisïau a fydd yn rheoli'r datblygiadau yn cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd y Cynllun a pholisïau cynllunio cenedlaethol. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				rhagdybiaeth yn erbyn unrhyw ddatblygiad pellach yn y cefn gwlad agored yn Ynys Môn heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.	**Dim newid**
938	Cyngor Cymuned Llanfihangel Esc (Alun Foulkes) [3121]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Pryderon ynglŷn â gorddatblygu pentref Gaerwen wrth ganiatáu gormod o dai yn y pentref, yn enwedig lle mae yna dai gwag yn y pentref yn barod. Mae'n bwysig bod tai sydd yn cael eu hadeiladu'n addas i'r lleoliad a bod yna nifer o dai fforddiadwy yn cael eu caniatáu.	**Nodi'r sylw** - Cafodd y strategaeth ddosbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisïau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. Bydd y mathau o unedau tai ar safleoedd a chynllun/ dyluniad y safleoedd yn faterion a gaiff eu trafod adeg cais cynllunio. Nid yw hyn yn gwahardd datblygu ar gyfer yr henoed neu grwpiau eraill o'r gymuned. Mae Polisi TAI 1 yn hyrwyddo cymysgedd o fathau o dai ac mae Polisi TAI 9 a TAI 10 yn son am dai fforddiadwy lleol. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
939	Menter Iaith Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Gormod o dai am gael eu hadeiladu ym Mangor. Pryderwn am effaith ar y Gymraeg. Dylid cwblhau astudiaeth fanwl o anghenion tai dinas Bangor i gyd (gan gynnwys Penrhosgarnedd) - angen diffinio fel endid. Nid oes gwaith o'r math wedi ei gwblhau yn y gorffennol. Cwblhau ymchwil manwl ar anghenion tai a'r effaith ar yr iaith ym Mangor fel un endid, yn hytrach nag edrych ar un ward (Hirael). Angen cynnwys Penrhosgarnedd hefyd.	**Dim yn derbyn** - Cafodd y strategaeth ddosbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisïau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1030	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Nid ydym yn cwestiynu strategaeth y cynllun; fodd bynnag, nid ydych wedi cyfiawnhau'r cyfyngiad twf a grëir gan eiriad y polisi ar gyfer y prif ganolfannau. Byddai'n fwy rhesymegol creu cyfyngiadau twf ar gyfer yr haenau is yn hytrach nag ar gyfer yr ardaloedd mwyaf cynaliadwy.	**Derbyn** Noder y sylw o gefnogaeth gyffredinol i strategaeth ofodol y Cynllun. Cytunir nad ydi hyn yn ddigon pendant, yn arbennig gan fydd rhaid monitro'r dosbarthiad yma yn flynyddol a'i adolygu ymhen 4 mlynedd. **Argymhelliad** Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun credir bod angen gwneud newid â ffocws i gyfleu'r dosraniad yn well. **Newid â Ffocws NF76**
1682 1683 1684	Cylch yr Iaith (Ieuan Wyn) [3128] Canolfan Hanes Uwchgwyrfai	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Mae'r sylwadau sy'n cael eu cyflwyno gennym yn ein dogfen yn ymwneud â'r twf tai, y dosbarthiad twf a'r dynodiadau, ac yn ymdrin ag effaith y Cynllun Adnau ar y	**Dim yn derbyn** Cafodd y strategaeth ddosbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisïau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1685	(Geraint Jones) [3130] Dyfodol i'r Iaith (Dr Simon Brooks) [3136] Cymdeithas yr Iaith (Dr Menna Machreth) [3138]			Gymraeg. Mae'r sylwadau yn tynnu sylw at ddiffygion yn yr asesiadau effaith ieithyddol a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan gyfeirio at absenoldeb tystiolaeth ynghyd â thystiolaeth annibynadwy. Dylid adolygu cyfansymiau niferoedd y twf tai ar gyfer y ddwy sir a'r dosbarthiad twf a'r dynodiadau o'u mewn. Dylai'r adolygiad fod yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o astudiaethau o ffactorau allweddol, sef: angen cymunedol am dai, stoc tai presennol, fforddiadwyedd tai, tai ar werth/ar osod, data Cyfrifiad 2011, asesiad effaith ieithyddol newydd yn unol ag egwyddorion cymdeithaseg iaith.	Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymiadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
1805	CPERA (Cynghorydd Elin Walker	POLISI STRATEGOL	Gwrthwynebu	Yn sicr, mae angen am dai o fewn cyffiniau cymunedol y ddinas. Tai fforddiadwy sydd angen; tai rhent	**Dim yn derbyn** Cafodd y strategaeth ddosbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	Jones) [2760]	PS15		a thai all gael eu prynu. Tai sy'n cael eu rheoli gan Gymdeithasau Tai os oes angen. Tai ar gyfer teuluoedd efo tair llofft, tai neu fflatiau ar gyfer unigolion neu gyplau neu deuluoedd bach; tai /fflatiau fforddiadwy efo un, dwy neu dair llofft. Tai efo gerddi bach addas ar gyfer plant. Dylai plant allu chwarae yn ddiogel o fewn eu gerddi yn hytrach nag ar diroedd gwyrdd mawr heb ffens wrth ffrynt y tai. Mae gwaith eisoes wedi ei gwblhau yn dangos yr angen am dai fforddiadwy o fewn ein sir (CG, 2013)	mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisïau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. Bydd y mathau o unedau tai ar safleoedd a chynllun/ dyluniad y safleoedd yn faterion a gaiff eu trafod adeg cais cynllunio. Nid yw hyn yn gwahardd datblygu ar gyfer yr henoed neu grwpiau eraill o'r gymuned. Mae Polisi TAI 1 yn hyrwyddo cymysgedd o fathau o dai ac mae Polisi TAI 9 a TAI 10 yn son am dai fforddiadwy lleol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

TAI 14 – Tai yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
285	Mr Aled Evans [2646]	POLISI TAI14	Gwrthwynebu	Tai yn y canolfannau. Newid i'r cynllun - Gormod o dai ar gyfer budd yr iaith Gymraeg. Bydd tai yn y canolfannau yma yn gwagio'r Cefn Gwlad e.e. mwy o dai ym Mhwllheli = llai o bobl yn aros ym Mhen Llyn. Ceir problemau maes o law i ysgolion ac Ysgol Botwnnog yn benodol	**Dim yn derbyn –** er mwyn sicrhau y caiff materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hystyried o'r cychwyn, mae'r Cynllun wed ibod yn destun i Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol). Mae'r iaith Gymraeg yn ffitio ym mhroses Asesiad Cynaliadwyedd am ei fod yn nodwedd ganolog o gymdeithas a chymunedau yn ardal y Cynllun. Yn wahanol i ofynion statudol a disgwyliadau polisi a chanllaw cynllunio cenedlaethol, cafodd Asesiad Effaith Ieithyddol ei wneud er mwyn ychwanegu at yr Asesiad Cynaliadwyedd. Mae ffigwr twf tai'r Cynllun yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng yr angen i uchafu rôl y Cynghorau i ymateb i'r dystiolaeth o alw am gartrefi newydd, y newid yn yr economi leol a'r gallu i ddangos y gellid adeiladu yn effeithiol a chynaliadwy. Ystyriwyd gwrthwynebiadau sydd wedi cael ei chyflwyno yn erbyn ffigwr twf tai'r Cynllun ym mholisi PS13 a'r farn yw nad oedd yna resymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau gostwng y ffigwr tai yn y Cynllun Adnau. Fe wnaeth y Cynghorau wrth lunio strategaeth dosbarthiad o fewn y Cynllun ystyried natur

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
					wasgaredig yr ardal yn erbyn polisïau cenedlaethol ar gyfer lleihau'r angen i deithio a lleoli'r twf mwyaf mewn lleoliadau cynaliadwy. Mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer adnabod rôl gwahanol aneddleoedd a dosbarthiad gofodol o lefel twf tai o fewn y Cynllun. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cynnwys unrhyw dystiolaeth sy'n tanseilio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Cynghorau i adnabod rôl yr aneddleoedd neu'r ffordd mae'r ffigyrau twf yn cael eu dosbarthu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau err mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
290	Ms Bethan Roberts [2747]	POLISI TAI14	Gwrthwynebu	Gormod o dai yn mynd i'w adeiladu. Newid i'r Cynllun - Dylid adeiladu yn ôl y galw. Onid fuasai yn well galluogi pobl sydd yn siarad Cymraeg i adeiladu fel bo'r angen? Fe	**Dim yn derbyn –** er mwyn sicrhau y caiff materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hystyried o'r cychwyn, mae'r Cynllun wedi bod yn destun i Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Asesiad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
				fydd yna arwain at fwy o fewnfudo a bydd yr iaith Gymraeg yn marw allan yn gynt na mae ar hyn o bryd.	Amgylcheddol Strategol). Mae'r iaith Gymraeg yn ffitio ym mhroses Asesiad Cynaliadwyedd am ei fod yn nodwedd ganolog o gymdeithas a chymunedau yn ardal y Cynllun. Yn wahanol i ofynion statudol a disgwyliadau polisi a chanllaw cynllunio cenedlaethol, cafodd Asesiad Effaith Ieithyddol ei wneud er mwyn ychwanegu at yr Asesiad Cynaliadwyedd. Mae ffigwr twf tai'r Cynllun yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng yr angen i uchafu rol y Cynghorau i ymateb i'r dystiolaeth o alw am gartrefi newydd, y newid yn yr economi leol a'r gallu i ddangos y gellid adeiladu yn effeithiol a chynaliadwy. Mae paragraff 4.13.3 o Bolisi Cynllunio Cymru yn dweud na ddylai polisïau geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli pwy sy'n byw yn y tai ar sail ieithyddol. Bydd unrhyw ddatblygiad yn cael ei ystyried yn erbyn polisi TAI 1 'Cymysgedd Briodol o Dai' sydd yn sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau err mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
406	Dr Richard Roberts [2938]	POLISI TAI14	Gwrthwynebu	Dim tystiolaeth o angen lleol am dai sy'n cyfiawnhau'r nifer a ddynodir ar gyfer Pwllheli. Effaith andwyol codi cymaint o dai ar y Gymraeg.	**Dim yn derbyn -** er mwyn sicrhau y caiff materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hystyried o'r cychwyn, mae'r Cynllun wedi bod yn destun i Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol). Mae'r iaith Gymraeg yn ffitio ym mhroses Asesiad Cynaliadwyedd am ei fod yn nodwedd ganolog o gymdeithas a chymunedau yn ardal y Cynllun. Yn wahanol i ofynion statudol a disgwyliadau polisi a chanllaw cynllunio cenedlaethol, cafodd Asesiad Effaith Ieithyddol ei wneud er mwyn ychwanegu at yr Asesiad Cynaliadwyedd. Mae ffigwr twf tai'r Cynllun yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng yr angen i uchafu rol y Cynghorau i ymateb i'r dystiolaeth o alw am gartrefi newydd, y newid yn yr economi leol a'r gallu i ddangos y gellid adeiladu yn effeithiol a chynaliadwy.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
					Ystyriwyd gwrthwynebiadau sydd wedi cael ei chyflwyno yn erbyn ffigwr twf tai'r Cynllun ym mholisi PS13 a'r farn yw nad oedd yna resymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau gostwng y ffigwr tai yn y Cynllun Adnau. Fe wnaeth y Cynghorau wrth lunio strategaeth dosbarthiad o fewn y Cynllun ystyried natur wasgaredig yr ardal yn erbyn polisïau cenedlaethol ar gyfer lleihau'r angen i deithio a lleoli'r twf mwyaf mewn lleoliadau cynaliadwy. Mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer adnabod rôl gwahanol aneddleoedd a dosbarthiad gofodol o lefel twf tai o fewn y Cynllun. Oherwydd y nifer o wasanaethau / cyfleusterau a geir ym Mhwllheli mae wedi cael ei adnabod fel Canolfan Wasanaethol Drefol sydd yn adlewyrchu'r ffaith ei fod yn lleoliad cynaliadwy. Mae canolfannau o'r fath yn boblogaidd ar gyfer cyfarch anghenion poblogaeth ehangach o fewn ardal y Cyllun na'i gymuned unigol ei hun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
					Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cynnwys unrhyw dystiolaeth sy'n tanseilio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Cynghorau i adnabod rôl yr aneddleoedd neu'r ffordd mae'r ffigyrau twf yn cael eu dosbarthu. Bydd unrhyw ddatblygiad yn cael ei ystyried yn erbyn polisi TAI 1 'Cymysgedd Briodol o Dai' sydd yn sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cyllun Adnau err mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
654	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI14	Gwrthwynebu	Rydym yn bryderus ynghylch y gyfran uchel o safleoedd ar hap a'r nifer cymharol isel o safleoedd tai sydd wedi'u dyrannu, sy'n golygu nad oes llawer o arweiniad ynghylch lle fydd tai yn cael eu lleoli, yn enwedig yn yr	**Dim yn derbyn –** mae elfen uchel o gyflenwad hanesyddol o fewn ardal y Cynllun wedi dod o safleoedd ar hap. Yn wir dros y degawd diwethaf mae 46.3% o'r twf yn ardal y Cynllun wedi dod o safleoedd bach (llai na 5 tŷ) sydd i gyd yn safleoedd ar hap.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
				aneddleoedd llai. Mae angen eglurder pam fod rhai safleoedd wedi cael eu tynnu'n ôl a ffiniau wedi cael eu hailosod, tra bod rhai ffiniau eraill wedi cael eu hymestyn er nad oes unrhyw safleoedd wedi cael eu dethol.	O ffigwr twf tai'r Cynllun sef 7,902 o unedau mae 971 wedi ei chwblhau erbyn 2014 sef 12.3%, mae 3,109 o unedau ar safleoedd wedi ei dynodi yn polisiau TAI 14 i TAI 16 sef 39.3%. Yn atodiad 5 ceir cyfeiriad tuag at y banc tir yn Ebrill 2014 ac er wrth ddiystyru unedau sydd ddim yn debygol o'u datblygu ac unedau a'r dynodiadau tai sydd efo caniatâd cynllunio mae yna 2,025 o unedau sef 25.6% o ffigwr twf y Cynllun. Golyga hyn mae 1,797 o unedau ar hap sef 22.8% o'r newydd sydd ei angen ar gyfer cyfarch ffigwr twf y Cynllun. Mae lefel twf ar hap wedi cael ei ddosbarthu lawr i lefel anheddle unigol. Ceir newidiadau i ffiniau datblygu rhai aneddleoedd i sicrhau bod cyfleoedd digonol ar gael i gyfarch eu lefel twf neu ei gyfyngu i atal datblygiad anaddas rhag cymryd lle. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cyllun Adnau err mwyn sicrhau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
					cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
753	Mr Rob Booth [3033]	POLISI TAI14	Gwrthwynebu	Dylai'r polisi nodi bod rhaid i ddatblygiadau o fwy na naw thŷ gynnwys o leiaf 10% o dai sy'n fforddiadwy. Mae'n rhaid i ddatblygiadau o fwy na 20 tŷ gynnwys o leiaf 20% o dai fforddiadwy, dylai datblygiadau o fwy na 50 tŷ gynnwys 30% o dai fforddiadwy/tai sy'n perthyn i gymdeithasau tai a dylai datblygiadau o 100 tŷ neu fwy cynnwys 50% o dai fforddiadwy/tai sy'n perthyn i gymdeithasau tai.	**Dim yn derbyn -** mae paragraff 9.2.14 o Bolisi Cynllunio Cymru yn cadarnhau bod angen y gymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol y mae'n briodol ei hystyried wrth lunio polisïau'r cynllun datblygu. Fodd bynnag mae paragraff 9.2.16 o Bolisi Cynllunio Cymru wrth gyfeirio at osod targed am lefel o dai fforddiadwy yn y Cynllun yn dweud "…Dylai'r targed ystyried lefelau tybiedig y cyllid fydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy, gan gynnwys cymorthdaliadau cyhoeddus, a'r lefel y gellir disgwyl yn realistig i'r datblygwr ei chyfrannu...". I sicrhau bod lefel darpariaeth o dai fforddiadwy o ddatblygiadau tai marchnad yn realistig mi wnaeth y Cynghorau gomisiynu Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy (2013) a diweddariad ohono yn 2014. Y dystiolaeth yn y gwaith yma yw sail trothwy a'r canran o dai fforddiadwy ar safleoedd marchnad o fewn polisi TAI 9 'Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad'. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
833	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI TAI14	Gwrthwynebu	Nid yw'r dosbarthiad yn adlewyrchu rôl, maint na swyddogaeth yr aneddleoedd. Dim ond tri safle tai arfaethedig sydd gan Gaernarfon gyda chyfanswm o 194 o dai. Mewn cyferbyniad, mae aneddleoedd Amlwch a Llangefni, sydd hanner maint Caernarfon, i fod i dderbyn dwywaith cymaint y lefel o dwf o ddynodiadau newydd neu hyd yn oed wrth ystyried ymrwymiadau presennol. Felly, nid yw'r Cynllun yn rhoi digon o ddatblygiad i alluogi Caernarfon i fod yn anheddle hyfyw, cynaliadwy sy'n tyfu (Amcanion Cynllun Gofodol Cymru a Pholisi Cynllunio Cymru) ac yn wir Weledigaeth y Cynllun ar gyfer Caernarfon. Rydym yn cynnig y dylid cynnwys o leiaf 400 o dai yn ychwanegol yng Nghaernarfon a'r ardaloedd agosaf tra dylid lleihau lefel y tai yn Amlwch a Llangefni ac mewn canolfannau gwasanaeth lleol o oddeutu 400 tŷ - gweler y sylwadau am gyn	**Dim yn derbyn -** Mae'r fethodoleg o fewn Papur Testun 5 yn rhoi sgôr i boblogaeth anheddiad ar sail maint y boblogaeth ond wedyn yn cyfuno hyn efo'r holl gyfleusterau eraill sydd yn cael ei chyfrif. O ran y lefel twf mae papurau testun 4 a 4A yn nodi'r gwahanol ystyriaethau oedd yn siapio lefel twf y Cynllun a'r dosbarthiad rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r newid economaidd trawsnewidiol a ragwelir a fydd yn deillio o raddfa unigryw prosiectau isadeiledd ar Ynys Môn a statws yr Ynys fel Parth Menter wedi dylanwadu ar y lefel twf a'i ddosbarthiad rhwng Gwynedd a Môn. Felly nid ar sail poblogaeth yn unig ddosbarthwyd y twf. O'r dystiolaeth bresennol credir fod y rôl bresennol Caernarfon a'i ffigwr twf yn addas i gyfarch yr anghenion tua'r dyfodol. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i ddisodli'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
				safle Friction Dynamics.	fethodoleg a gafodd ei ddefnyddio i adnabod rôl yr anheddle. Bydd modd trwy adroddiad fonitro flynyddol y Cynllun ac adolygiad o unrhyw dystiolaeth newydd olygu y gellid adolygu rôl ac/neu ffigwr twf Caernarfon yn y dyfodol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1698	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14	Cefnogi	* Gallai'r twf ar safleoedd hap ar gyfer yr aneddiadau hyn gael effaith ar asedau dŵr a charthffosiaeth DCWW. Gan nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd lle bydd datblygiadau hap yn digwydd, byddwn yn gwneud asesiad a sylwadau ar safleoedd datblygu arfaethedig ar adeg y cais cynllunio.	**Nodi'r sylw** – bydd y Cynghorau'n parhau i ymgynghori gyda DCWW adeg ceisiadau cynllunio. Cyfeirir hefyd at Bolisi PS2 a Pholisi ISA1 sy'n rhoi'r fframwaith i sicrhau y bydd isadeiledd priodol mewn lle cyn i ddatblygiad ddigwydd. **Argymhelliad** **Dim newid**
1699	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi	POLISI TAI14	Gwrthwynebu	* Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus yn yr aneddiadau a ganlyn, y gallai fod angen eu	**Nodi'r Sylw –** Mae Polisi PS2 a Pholisi ISA1 sy'n rhoi'r fframwaith i sicrhau y bydd isadeiledd priodol mewn lle cyn i ddatblygiad ddigwydd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
	Griffiths) [2680]			hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu: Bangor, Caergybi/Holyhead, Llangefni, Caernarfon, Pwllheli Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Efallai y bydd angen gwneud asesiadau modelu i benderfynu lle byddai modd cysylltu'r datblygiad arfaethedig efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus.	Mae Dangosydd D8 i Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau bod y Cynllun yn monitro unrhyw broblem efo safleoedd sydd wedi ei dynodi yn y Cynllun. Fodd bynnag i sicrhau bod y lefel twf disgwyliedig yn digwydd yn yr aneddleoedd yma fe ddylid monitro lefel caniatâd / datblygiadau ar hap yn yr aneddleoedd yma yn erbyn rhaglen gwariant DCWW. Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith. **Argymhelliad** Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 **Newid Ffocws NF101**
1700	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi	POLISI TAI14	Gwrthwynebu	* Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo yn nalgylch y gweithfeydd trin dŵr DC a ganlyn angen gwaith gwella yn y	**Nodi'r Sylw –** Mae Polisi PS2 a Pholisi ISA1 sy'n rhoi'r fframwaith i sicrhau y bydd isadeiledd priodol mewn lle cyn i ddatblygiad ddigwydd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
	Griffiths) [2680]			gweithfeydd trin: Bangor Treborth, Caernarfon Byddai'r angen i'r gwelliannau gael eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau ni neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	Mae Dangosydd D8 i Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau bod y Cynllun yn monitro unrhyw broblem efo safleoedd sydd wedi ei dynodi yn y Cynllun. Fodd bynnag i sicrhau bod y lefel twf disgwyliedig yn digwydd yn yr aneddleoedd yma fe ddylid monitro lefel caniatâd / datblygiadau ar hap yn yr aneddleoedd yma yn erbyn rhaglen gwariant DCWW. Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith. **Argymhelliad** Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 **Newid Ffocws NF101**

TAI 15 – Tai mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
50	Cynghorydd Charles Jones [2621]	POLISI TAI15	Cefnogi	Bodlon efo'r ffordd mae'r ffin ddatblygu wedi cael ei dynnu.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
69	Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	Nid yw Cyngor Tref Nefyn o'r farn bod angen 37 o dai ychwanegol yn Nefyn rhwng nawr a 2026, sef y nifer a nodir yn y fersiwn Adnau, Mawrth 2015. Teimlir bod y 30 o dai sydd yn y banc tir yn ddigonol ar gyfer anghenion lleol. Tystiolaeth - 21 o dai a godwyd yn Nefyn rhwng 2001 a 2011. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu lleihad o 3% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn Nefyn. Gwerthfawrogir nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng canran siaradwyr Cymraeg a datblygiadau tai, ond mae'r Cyngor o'r farn bod perthynas rhyngddynt yn yr ardal hon. Lleihau lefel twf Nefyn i adlewyrchu graddfa twf rhwng 2001 a 2011 er mwyn i ddatblygiadau tai adlewyrchu anghenion lleol.	**Dim yn derbyn** - er mwyn sicrhau y caiff materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hystyried o'r cychwyn, mae'r Cynllun wedi bod yn destun i Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol). Mae'r iaith Gymraeg yn ffitio ym mhroses Asesiad Cynaliadwyedd am ei fod yn nodwedd ganolog o gymdeithas a chymunedau yn ardal y Cynllun. Yn wahanol i ofynion statudol a disgwyliadau polisi a chanllaw cynllunio cenedlaethol, cafodd Asesiad Effaith Ieithyddol ei wneud er mwyn ychwanegu at yr Asesiad Cynaliadwyedd. O fewn yr Asesiad effaith Ieithyddol/ Asesiad Cynaliadwyedd mae ystyriaeth yn cael ei roi i lefel twf yn Nefyn. Mae ffigwr twf tai'r Cynllun yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng yr angen i uchafu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					rôl y Cynghorau i ymateb i'r dystiolaeth o alw am gartrefi newydd, y newid yn yr economi leol a'r gallu i ddangos y gellid adeiladu yn effeithiol a chynaliadwy. Mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn cyflwyno methodoleg ar gyfer adnabod rôl gwahanol aneddleoedd o fewn ardal y Cynllun yn seiliedig ar nifer o wasanaethau a chyfleusterau sydd ynddynt. Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. Mae unrhyw unedau tai sydd wedi cael ei chwblhau ers 2011 neu sydd efo caniatâd cynllunio, ac yn debygol o gael eu hadeiladu, yn cyfrif tuag at lefel twf unrhyw anheddle. Oherwydd hyn bydd y banc tir presennol yn Nefyn yn cyfrannu tuag at anghenion twf y Ganolfan.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
102	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	CYNYDDU DYRANIAD TAI YM MIWMARES A LLAN-FAES Ni roddwyd digon o bwys i rôl ardal Biwmares fel maestref Bangor. Caiff galwadau ar dai ym Mangor eu gyrru gan lwyddiant economaidd Bangor a choridor yr A55 i'r dwyrain. O'r herwydd, mae'r glorian o ran dynodi tai rhwng canolfannau Caergybi, Llangefni, Amlwch a Biwmares yn gogwyddo'n amhriodol o blaid Caergybi, Llangefni ac Amlwch gyda chanlyniad y bydd y sefyllfa bresennol o brinder tai ym Miwmares yn gwaethygu. Dylid dyrannu mwy o dai i ardal Biwmares/Llan-faes. Dylai ychydig o'r dynodiadau tai ar gyfer Caergybi, Llangefni ac Amlwch gael ei	**Dim yn derbyn** – mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer adnabod rôl gwahanol aneddleoedd a dosbarthiad gofodol o lefel twf tai o fewn y Cynllun. Caiff Biwmares ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Lleol ac mae ei lefel twf yn adlewyrchu hyn. Oherwydd natur y gwasanaethau a chyfleusterau a geir yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch maent wedi cael ei adnabod fel Canolfannau Gwasanaeth Trefol ac mae eu lefel twf hwythau yn adlewyrchu'r rôl yma ar ffaith fod polisi PS15 yn dosbarthu 55% o dwf y Cynllun i'r Ganolfan Isranbarthol / Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cynnwys unrhyw dystiolaeth sy'n tanseilio'r fethodoleg a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ailddosbarthu i Fiwmares.	ddefnyddiwyd gan y Cynghorau i adnabod rôl yr aneddleoedd neu'r ffordd mae'r ffigyrau twf yn cael eu dosbarthu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
316	Mr Paul Green [2908]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	Dylai dyrannu tai i Lanfairpwll, Porthaethwy, Llandegfan a Biwmares adlewyrchu eu cysylltiad â hwb rhanbarthol Bangor. Dylai rhai o'r tai sydd wedi cael ei ddynodi yng Nghaergybi, Amlwch a Llangefni cael ei ddynodi yn yr aneddleoedd ar hyd yr Afon Menai.	**Dim yn derbyn** – mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer adnabod rôl gwahanol aneddleoedd a dosbarthiad gofodol o lefel twf tai o fewn y Cynllun. Caiff Biwmares, Llanfairpwll a Porthaethwy eu hadnabod fel Canolfannau Gwasanaeth Lleol tra bod Llandegfan yn Bentref Lleol ac mae ei lefel twf yn adlewyrchu hyn. Oherwydd natur y gwasanaethau a chyfleusterau a geir yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch maent wedi cael ei adnabod fel Canolfannau Gwasanaeth Trefol ac mae eu lefel twf hwythau yn adlewyrchu'r rôl yma ar ffaith fod polisi PS15 yn dosbarthu 55% o dwf y

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Cynllun i'r Ganolfan Isranbarthol / Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cynnwys unrhyw dystiolaeth sy'n tanseilio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Cynghorau i adnabod rôl yr aneddleoedd neu'r ffordd mae'r ffigyrau twf yn cael eu dosbarthu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
522	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	Yn synnu nad oes safleoedd tai wedi cael eu hadnabod ar gyfer Bethesda, gyda 82 o unedau i'w hadnabod ar hap. Mae'r safle CDU sydd ger Maes Coetmor, a ddeallwn sydd wedi derbyn caniatâd, du allan i'r ffin datblygu. Nid oeddwn yn credu bod hwn yn addas oherwydd dwysedd a mynediad annigonol. Yn gwrthwynebu tai ar SP633 i'r tir gwyrdd agored i'r gogledd, sy'n cynnwys tir amaethyddol da ac yn cyfrannu at ddatblygiad	**Dim yn derbyn –** mae Strategaeth Ofodol y Cynllun yn dosbarthu'r cyfanswm galw am unedau tai ar draws yr aneddleoedd yn ôl eu rôl yn y Goeden Aneddleoedd. Ar ôl adnabod y lefel twf disgwyliedig ar gyfer anheddle edrychwyd beth fyddai cyfraniad unedau a gafodd eu hadeiladu'n barod ac unedau efo caniatâd cynllunio'n barod i'r twf hwnnw. Yn y cyfnod 2011 i 2014 cafodd 18 o unedau tai eu cwblhau o fewn y ganolfan, hefyd yn Ebrill 2014 roedd yna ganiatâd cynllunio ar gyfer 28

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				rhuban. Byddwn yn cefnogi tai ar nifer o safleoedd tir llwyd mewn lleoliad mwy canolig, yn ddarostyngedig i oresgyn problemau llifogydd. Pam dim safleoedd? Pam fod y safle CDU tu allan i'r ffin datblygu?	o unedau tai. Golyga hyn mae 54 o Unedau ychwanegol oedd eu h angen yn 2015 (pan gyhoeddwyd y Cynllun Adnau) dros weddill o gyfnod y Cynllun i gyfarch lefel twf disgwyliedig Bethesda. Ar ôl adnabod beth allai cyfraniad unedau tai efo caniatâd cynllunio, edrychwyd ar beth fyddai capasiti'r ardal adeiledig i gyfarch y galw gweddilliol. Mae'r gwaith o fewn Papur Testun 6 Astudiaeth Capasiti Trefol yn ystyried cyfraniad o safleoedd ar hap yn y gorffennol er mwyn rhagfynegi cyfleoedd twf i'r dyfodol ynghyd a chyfleoedd o dai gwag yn dod yn ôl i ddefnydd. Ar gyfer pwrpas y Cynllun gan amlaf 75% o ffigwr Capasiti trefol sydd wedi ei ddefnyddio i gymryd ystyriaeth o lithriad posib o fewn y categori yma. Canlyniadau Papur Testun 6 ar gyfer Bethesda oedd bod yna cyfleoedd am 54 uned ar hap yn y ganolfan. Oherwydd hyn ni oedd angen dynodi'r safle sydd yn y CDU ar gyfer cyfarch lefel twf disgwyliedig Bethesda. Cyfeiri tuag at safle SP633 gan y gwrthwynebydd fodd bynnag safle ym Mangor yw hyn a chredir mai safle SP663 mae'n cyfeirio tuag at sef safle ym Methesda. Mae Papur

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Testun 1A 'Diweddariad Asesu Safleoedd posib' yn cadarnhau nad yw'r safle yma wedi cael ei gynnwys oherwydd bod yna ddigon o unedau yn y banc tir presennol a chyfleoedd ar hap i ddiwallu twf disgwyliedig tai'r anheddiad. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
754	Mr Rob Booth [3033]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	Dylai polisi TAI15 nodi bod rhaid i ddatblygiadau o fwy na naw thŷ gynnwys o leiaf 10% o dai sy'n fforddiadwy. Mae'n rhaid i ddatblygiadau o fwy na 20 tŷ gynnwys o leiaf 20% o dai fforddiadwy, dylai datblygiadau o fwy na 50 tŷ gynnwys 30% o dai fforddiadwy/tai sy'n perthyn i gymdeithasau tai a dylai datblygiadau o 100 tŷ neu fwy cynnwys 50% o dai fforddiadwy/tai sy'n perthyn i gymdeithasau tai.	**Dim yn derbyn -** mae paragraff 9.2.14 o Bolisi Cynllunio Cymru yn cadarnhau bod angen y gymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol y mae'n briodol ei hystyried wrth lunio polisïau'r cynllun datblygu. Fodd bynnag mae paragraff 9.2.16 o Bolisi Cynllunio Cymru wrth gyfeirio at osod targed am lefel o dai fforddiadwy yn y Cynllun yn dweud "…Dylai'r targed ystyried lefelau tybiedig y cyllid fydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy, gan gynnwys cymorthdaliadau cyhoeddus, a'r lefel y gellir disgwyl yn realistig i'r datblygwr ei chyfrannu...".

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					I sicrhau bod lefel darpariaeth o dai fforddiadwy o ddatblygiadau tai marchnad yn realistig mi wnaeth y Cynghorau gomisiynu Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy (2013) a diweddariad ohono yn 2014. Y dystiolaeth yn y gwaith yma yw sail trothwy a'r canran o dai fforddiadwy ar safleoedd marchnad o fewn polisi TAI 9 'Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad'. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1431	Cyngor Tref Penrhyddeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	Dylai'r ffaith mai dim ond cynnydd o 2.2% a fu yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 ym Mhenrhyndeudraeth, bod y boblogaeth rhwng 20-29 mlwydd oed wedi gostwng 6.1% tra bod y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 16% a nifer y mewnfudwyr wedi codi o 169 i 242 (+43.2%) rhwng 1991 a 2001 (Byddai dadansoddiad o ffigyrau 2001-2011 wedi dangos cynnydd mwy	**Dim yn newid -** oherwydd problem llifogydd yn effeithio ar Borthmadog a Tremadog mae yna lefel uwch na disgwyl o dwf wedi cael ei ddosbarthu i Benrhyndeudraeth a Cricieth sef Canolfannau Gwasanaeth Lleol o fewn dalgylch Porthmadog. Mae'r strategaeth ofodol, sydd wedi cael ei siapio gan yr Asesiad Cynaliadwyedd, yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint,

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				eto, fyth.) fod yn canu clychau yn glir a thaer. Nid sefyllfa i ymgysuro ynddi ydyw sefyllfa'r Gymraeg ym Mhenrhyndeudraeth, bellach. Ni ellir osgoi'r casgliad bod yma anghysondeb a chroesddweud ac anallu i sylweddoli arwyddocâd ystadegau.	swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. Mae Asesiad Effaith Ieithyddol / Asesiad Cynaliadwyedd y Cynllun wedi asesu effaith lefel uwch o dwf i Benrhyndeudraeth. Casgliadau'r Asesiad Effaith ieithyddol / Asesiad Cynaliadwyedd yw y gellid tywys cyfran uwch na'r disgwyl o dai i'r anheddle. Cyfeirir at bolisïau strategol a manwl a fydd yn rheoli datblygiad yn yr anheddle, gan hyrwyddo darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol, cymysgedd briodol o fathau o dai, a bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam. Gall fod cyfleoedd hefyd i hyrwyddo uwchraddio cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn sgil datblygiad. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1695	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15	Cefnogi	* Gallai'r twf arfaethedig ar safleoedd hap ar gyfer yr aneddiadau hyn gael effaith ar asedau dŵr a charthffosiaeth DCWW. Gan nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd lle bydd datblygiadau hap yn digwydd, byddwn yn gwneud asesiad a sylwadau ar safleoedd datblygu arfaethedig ar adeg y cais cynllunio.	**Nodi'r sylw -** bydd y Cynghorau yn parhau i gydweithio gyda'r cwmni wrth baratoi canllawiau cynllunio atodol perthnasol ac yn ymgynghori a'r cwmni adeg ceisiadau cynllunio perthnasol. Cyfeirir hefyd at Bolisi PS2 a Pholisi ISA1 sy'n rhoi'r fframwaith i sicrhau y bydd isadeiledd priodol mewn lle cyn i ddatblygiad ddigwydd. **Argymhelliad** **Dim newid**
1696	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	* Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus yn yr aneddiadau a ganlyn, y gallai fod angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu: Biwmares, Benllech, Bethesda, Gaerwen, Llanfairpwll, Rhosneigr, Y Fali, Abermaw/Barmouth, Abersoch, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penygroes a Thywyn. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo	**Nodi'r Sylw -** Mae polisïau PS2 a ISA 1 o fewn y Cynllun yn cyfeirio tuag at amgylchiadau pan fydd angen i ddatblygiad penodol baratoi cyfraniad tuag at isadeiledd angenrheidiol. Mae Dangosydd D8 i Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau bod y Cynllun yn monitro unrhyw broblem efo safleoedd sydd wedi ei dynodi yn y Cynllun. Fodd bynnag i sicrhau bod y lefel twf disgwyliedig yn digwydd yn yr aneddleoedd yma fe ddylid monitro lefel caniatâd / datblygiadau ar hap yn yr aneddleoedd yma yn erbyn rhaglen gwariant DCWW.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Efallai y bydd angen gwneud asesiadau modelu i benderfynu lle byddai modd cysylltu'r datblygiad arfaethedig efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus.	Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith. **Argymhelliad** Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 **Newid Ffocws NF101**
1697	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	* Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo yn nalgylch y gweithfeydd trin dŵr DC a ganlyn angen gwaith gwella yn y gweithfeydd trin: Biwmares, Cemaes, Porthaethwy/Menai Bridge (Treborth, Bangor), Pentraeth, Rhosneigr a Chricieth. Byddai'r angen i'r gwelliannau gael eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau ni neu efallai'n gynharach na hynny trwy	**Nodi'r Sylw -** Mae polisïau PS2 a ISA 1 o fewn y Cynllun yn cyfeirio tuag at amgylchiadau pan fydd angen i ddatblygiad penodol baratoi cyfraniad tuag at isadeiledd angenrheidiol. Mae Dangosydd D8 i Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau bod y Cynllun yn monitro unrhyw broblem efo safleoedd sydd wedi ei dynodi yn y Cynllun. Fodd bynnag i sicrhau bod y lefel twf disgwyliedig yn digwydd yn yr aneddleoedd yma fe ddylid monitro lefel caniatâd / datblygiadau ar hap yn yr aneddleoedd yma yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				gyfraniadau datblygwr.	erbyn rhaglen gwariant DCWW. Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith. **Argymhelliad** Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 **Newid Ffocws NF101**

TAI 16 – Tai mewn Pentrefi Gwasanaeth

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
211	CYNGOR CYMUNED LLANBEDROG (MR JOHN HARRIS) [2810]	POLISI TAI16	Gwrthwynebu	Argymell fod Llanbedrog yn cael ei gynnwys fel pentref / canolfan wasanaethol. Mae Llanbedrog yn sgorio 28 pwynt ar bapur testun 5, un yn llai na Botwnnog. Mae gan Lanbedrog ysgol, neuadd, siopau, modurdy, tafarndai, caffi, gwestai, Oriel a chanolfan	**Dim yn derbyn** - mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, heblaw am y cartref i'r henoed a'r maes golff, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5. Nid yw'r fethodoleg safonol a ddefnyddiwyd i asesu rôl aneddleoedd yn adnabod busnesau fel cartref i'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				celfyddydau, maes golff, stad ddiwydiannol, cartrefi henoed, fferyllfa - cymaint bron o wasanaethau ac Abersoch.	henoed a maes golff fel cyfleusterau unigoli dderbyn sgôr, fodd bynnag bydd swyddi yn rhain yn mynd tuag at sgôr cyflogaeth yr anheddiad. Mae tabl 9 yn y Papur Testun 5 yn dangos bod yna nifer fawr o aneddleoedd o fewn ychydig o farciau i'w gilydd. Un ystyriaeth wrth asesu rôl fwy strategol Pentref Gwasanaeth o'i gymharu efo Pentrefi eraill oedd faint o Wasanaethau Allweddol sydd yn y Pentref ac yn achos Botwnnog mae 5 o rain o'i gymharu efo 3 yn Llanbedrog. Ar sail hyn nid yw'r gwrthwynebydd, felly, wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau cefnogi newid statws Llanbedrog yn y goeden anheddle. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
364	Mrs Gwyneth Evans [2887]	POLISI TAI16	Cefnogi	Hoffwn gefnogi safle Cae Cefn Capel, Botwnnog, credaf fod Botwnnog yn bentref delfrydol i'w ehangu gan fod cymaint o gyfleusterau yma e.e. Ysgol Gynradd ac Ysgol	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Uwchradd (Arbed tal cludiant ac mae palmant yr holl ffordd o'r safle i'r ddwy ysgol) Meddygfa, Llythyrdy, Caffi, Capel ac Eglwys.	**Dim newid**
423	Dr Richard Roberts [2938]	POLISI TAI16	Gwrthwynebu	Dim tystiolaeth o angen lleol am dai sy'n cyfiawnhau'r nifer a ddynodir ar gyfer Chwilog a'r Ffôr. Effaith andwyol codi cymaint o dai ar y Gymraeg.	**Dim yn derbyn** - er mwyn sicrhau y caiff materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hystyried o'r cychwyn, mae'r Cynllun wedi bod yn destun i Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol). Mae'r iaith Gymraeg yn ffitio ym mhroses Asesiad Cynaliadwyedd am ei fod yn nodwedd ganolog o gymdeithas a chymunedau yn ardal y Cynllun. Yn wahanol i ofynion statudol a disgwyliadau polisi a chanllaw cynllunio cenedlaethol, cafodd Asesiad Effaith Ieithyddol ei wneud er mwyn ychwanegu at yr Asesiad Cynaliadwyedd. O fewn yr Asesiad effaith Ieithyddol / Asesiad Cynaliadwyedd mae ystyriaeth yn cael ei roi i lefel twf yn Chwilog a'R Ffôr. Mae ffigwr twf tai'r Cynllun yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng yr angen i uchafu rôl y Cynghorau i ymateb i'r dystiolaeth o alw am gartrefi newydd, y newid yn yr economi leol a'r gallu i ddangos y gellid adeiladu yn effeithiol a chynaliadwy.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn cyflwyno methodoleg ar gyfer adnabod rôl gwahanol aneddleoedd o fewn ardal y Cynllun yn seiliedig ar nifer o wasanaethau a chyfleusterau sydd ynddynt. Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
627	Carter Jonas (Mrs Charlene Sussums-Lewis) [2829]	POLISI TAI16	Cefnogi	Cefnogir y dyraniad arfaethedig o oddeutu 30 uned breswyl ar Safle T66 (Tir ger Maes Bleddyn, Rachub) am y rhesymau a ganlyn: 1. Rhwydd i'w ddarparu - mae'r safle dan berchnogaeth sengl.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				2. Niferoedd Tai sydd wedi'u Dyrannu - bydd dyraniadau preswyl mewn Canolfannau Gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni twf tai. 3. Egwyddor Datblygu - gall T66 gynnwys 30 annedd dros gyfnod y cynllun. 4. Cyfleoedd a Chyfyngiadau - mae'r cynllun yn dangos bod y safle'n ddichonadwy. 5. Prif Gynllun Dangosol - gellid datblygu'r safle heb lawer o effeithiau. 6. Arfarniad Cynaliadwyedd Positif - mae'r safle yn unol â strategaeth y cynllun.	
1701	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI16	Cefnogi	Gallai'r twf arfaethedig ar safleoedd hap ar gyfer yr aneddiadau hyn gael effaith ar asedau dŵr a charthffosiaeth DCWW. Gan nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd lle bydd datblygiadau hap yn digwydd, byddwn yn gwneud asesiad a sylwadau ar safleoedd datblygu arfaethedig ar adeg y cais cynllunio.	**Nodi'r sylw–** bydd y Cynghorau yn parhau i gydweithio gyda'r cwmni wrth baratoi canllawiau cynllunio atodol perthnasol ac yn ymgynghori a'r cwmni adeg ceisiadau cynllunio perthnasol. Cyfeirir hefyd at Bolisi PS2 a Pholisi ISA1 sy'n rhoi'r fframwaith i sicrhau y bydd isadeiledd priodol mewn lle cyn i ddatblygiad ddigwydd. **Argymhelliad** **Dim newid**
1702	Dwr Cymru Welsh	POLISI	Gwrthwynebu	Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn	**Nodi'r Sylw –** mae'r unig ddynodiad tai sydd yn y Pentref (T56) efo caniatâd cynllunio yn barod.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	TAI16		y system garthffosiaeth gyhoeddus yn yr aneddiadau a ganlyn, y gallai fod angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu: Niwbwrch Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.	Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith. Mae polisïau PS2 a ISA 1 o fewn y Cynllun yn cyfeirio tuag at amgylchiadau pan fydd angen i ddatblygiad penodol baratoi cyfraniad tuag at isadeiledd angenrheidiol. **Argymhelliad** Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 **Newid â Ffocws NF101**
1703	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI16	Gwrthwynebu	* Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo yn nalgylch y gweithfeydd trin dŵr DC a ganlyn angen gwaith gwella yn y gweithfeydd trin: Llannerchymedd, Bethel (gwaith trin dŵr gwastraff Treborth, Bangor), Bontnewydd (gwaith trin dŵr gwastraff Llanfaglan), Rachub (gwaith trin dŵr gwastraff Bethesda).	**Nodi'r Sylw -** Mae polisïau PS2 a ISA 1 o fewn y Cynllun yn cyfeirio tuag at amgylchiadau pan fydd angen i ddatblygiad penodol baratoi cyfraniad tuag at isadeiledd angenrheidiol. Mae Dangosydd D8 i Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau bod y Cynllun yn monitro unrhyw broblem efo safleoedd sydd wedi ei dynodi yn y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Byddai'r angen i'r gwelliannau gael eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau ni neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	Fodd bynnag i sicrhau bod y lefel twf disgwyliedig yn digwydd yn yr aneddleoedd yma fe ddylid monitro lefel caniatâd / datblygiadau ar hap yn yr aneddleoedd yma yn erbyn rhaglen gwariant DCWW. Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith. **Argymhelliad** Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 **Newid â Ffocws NF101**

TAI 17 – Tai mewn Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
95	Elizabeth Whitehead	POLISI	Cefnogi	Yn cadarnhau cefnogaeth yn amodol ar ddehongli'n gywir -	**Nodi'r sylw cefnogol.**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[2742]	TAI17		* Rhaid i geisiadau cynllunio gydymffurfio â holl bwyntiau TAI17. * Caiff datblygiad ei gyfyngu oddi mewn i'r ffiniau amlinellol (map 55). * Ffafrir Byw'n Gynaliadwy SO5 - wrth barchu rôl amrywiol a chymeriad y canolfannau, y pentrefi a chefn gwlad. * Rydym yn ffafrio gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig SO16 - Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, yn cynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, a chymeriad ei thirwedd.	**Argymhelliad** **Dim newid**
200	Rhys Thomas [2738]	POLISI TAI17	Cefnogi	Rwyf yn cefnogi'r bwriad i gyfyngu datblygiad i'r TU MEWN i ffin ddatblygu Llangristiolus fel y gwelir ar y map rhyngweithiol, sef pentref lleol fel y'i diffinnir ym MHOLISI STRATEGOL PS15: Pentrefi Lleol: " Bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i'r raddfa a'r math sy'n ateb angen y gymuned am dai ar leiniau ar hap/lleiniau mewn llenwi ODDI	**Nodi'r sylw cefnogol.** Er eglurder dylid nodi gall polisi TAI 10 'Safleoedd Eithrio' gefnogi bwriad ar gyfer datblygu tai fforddiadwy ar safleoedd yn union gerllaw ffiniau datblygu. **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				MEWN I FFINIAU DATBLYGU."	
209	John Brinley Jones [2087]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Dylai Llanbedrog gael ei ddosbarthu'n Bentref Gwasanaethau ac nid Pentref Arfordirol. Mae gan Lanbedrog nifer o wasanaethau gan fod Pen y Berth hefyd ym mhlwyf Llanbedrog. Dylai Llanbedrog gael ei annog i dyfu a bod yn llwyddiannus ond os caiff ei gategoreiddio yn Bentref Arfordirol yna bydd dan anfantais annheg yn erbyn pentrefi eraill yn Nwyfor. Tynnu Llanbedrog o'r rhestr o Bentrefi Arfordirol a'i ychwanegu i'r rhestr o Bentrefi Gwasanaethol.	**Dim yn derbyn -** mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, heblaw am y cartref i'r henoed a'r maes golff, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5. Nid yw'r fethodoleg safonol a ddefnyddiwyd i asesu rôl aneddleoedd yn adnabod busnesau fel cartref i'r henoed a maes golff fel cyfleusterau unigol i dderbyn sgôr, fodd bynnag bydd swyddi yn rhain yn mynd tuag at sgôr cyflogaeth yr anheddiad. Mae tabl 9 yn y Papur Testun 5 yn dangos bod yna nifer fawr o aneddleoedd o fewn ychydig o farciau i'w gilydd. Un ystyriaeth wrth asesu rôl fwy strategol Pentref Gwasanaeth o'i gymharu efo Pentrefi eraill oedd faint o Wasanaethau Allweddol sydd yn y Pentref. Ar sail hyn nid yw'r gwrthwynebydd, felly, wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau cefnogi newid statws Llanbedrog yn y goeden anheddle. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
212	CYNGOR CYMUNED LLANBEDROG (MR JOHN HARRIS) [2810]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu Llanbedrog fel pentref Arfordirol a'i gynnwys fel Pentref Gwasanaethol. Argymell Llanbedrog yn cael ei gynnwys fel pentref wasanaethol. Mae Llanbedrog yn sgorio 28 pwynt ar bapur testun 5, un yn llai na Botwnnog. Mae gan Lanbedrog ysgol, neuadd, siopau, modurdy, tafarndai, caffi, gwestai, Oriel a chanolfan celfyddydau, maes golff, stad ddiwydiannol, cartrefi henoed, fferyllfa - cymaint bron o wasanaethau ac Abersoch. Cafodd ffin y pentref ei grebachu y tro diwethaf, ac mae eisiau ymestyn y ffin. Mae angen ffin hyblyg i gyfarfod angen tai angen lleol ac nid o reidrwydd tai fforddiadwy yn unig. Nid yw pawb eisiau amodau caeth tai fforddiadwy.	**Dim yn derbyn -** mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, heblaw am y cartref i'r henoed a'r maes golff, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5. Nid yw'r fethodoleg safonol a ddefnyddiwyd i asesu rôl aneddleoedd yn adnabod busnesau fel cartref i'r henoed a maes golff fel cyfleusterau unigol i dderbyn sgôr, fodd bynnag bydd swyddi yn rhain yn mynd tuag at sgôr cyflogaeth yr anheddiad. Mae tabl 9 yn y Papur Testun 5 yn dangos bod yna nifer fawr o aneddleoedd o fewn ychydig o farciau i'w gilydd. Un ystyriaeth wrth asesu rôl fwy strategol Pentref Gwasanaeth o'i gymharu efo Pentrefi eraill oedd faint o Wasanaethau Allweddol sydd yn y Pentref ac yn achos Botwnnog mae 5 o rain o'i gymharu efo 3 yn Llanbedrog. Ar sail hyn nid yw'r gwrthwynebydd, felly, wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau cefnogi newid statws Llanbedrog yn y goeden anheddle. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
616	Cater Jonas (Mr Chris Bell) [3041]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu cyfyngu'r twf yn Nhregarth i 13 annedd ar hap dros gyfnod y cynllun a llunio'r ffin ddatblygu. Rwyf yn gwrthwynebu'r asesiad cynaladwyedd ar gyfer Tregarth (sgôr anheddle). Mae'r drefn bresennol mewn gwirionedd yn peri risg i hyfywedd y gwasanaethau lleol.	**Dim yn derbyn -** mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5. Fe wnaeth y Cyngor wrth lunio strategaeth dosbarthiad o fewn y Cynllun ystyried natur wasgaredig yr ardal yn erbyn polisïau cenedlaethol ar gyfer lleihau'r angen i deithio a lleoli'r twf mwyaf mewn lleoliadau cynaliadwy. Teimlir bod y dosbarthiad yn y Cynllun Adnau wedi creu cydbwysedd addas rhwng polisi cenedlaethol a'r sefyllfa leol. Tra gall lefel uwch o dwf mewn rhai lleoliadau helpu rhywfaint efo rhai gwasanaethau lleol buasai cael ffin datblygu lac a lefel uwch o dwf o bosib arwain at broblemau eraill o fewn rhai cymunedau e.e. effaith ar yr iaith Gymraeg ayb. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i allu cefnogi cais i newid statws Tregarth yn y goeden aneddleoedd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
634	Gweinidog Gwladol dros Amddiffyn [3045]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Nid oes digon o gyfleusterau cymunedol a chymdeithasol yn anheddiad Llanfihangel yn Nhowyn (LyN) i gefnogi'r stoc tai bresennol. Mae preswylwyr yn ddibynnol ar gyfleusterau RAF Y Fali ar gyfer hyn. Mae hyn wedi arwain at gynyddu lefel y traffig cerbydol/traffig cerddwyr gan arwain at nifer o achosion traffig lle mai dim ond cael a chael oedd hi. Ni ddylai'r Cyngor ddibynnu ar gyfleusterau'r ganolfan RAF i wasanaethu'r gymuned leol a'i thwf, yn enwedig os yw problemau'n parhau. Newid: Addasu'r eirfa i annog sefydlu cyfleusterau cymunedol ychwanegol i wasanaethu LyN ac i atal y pentref rhag tyfu mwy oni bai fod amrediad a graddfa'r cyfleusterau cefnogol hefyd yn tyfu.	**Dim yn derbyn –** mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer categoreiddio Pentrefi. Cafodd y gwasanaethau / cyfleusterau sydd o fewn Llanfihangel yn Nhowyn neu o fewn 800 metr yn achos Ysgolion, ei adnabod a derbyn sgôr. Ar sail y sgôr yma cafodd lefel twf disgwyliedig i'r Pentref gael ei adnabod. Rhaid cofio bod nifer o'r tai yn Llanfihangel yn Nhowyn wedi bod mewn perchnogaeth y RAF cyn iddynt gael ei gwerthu fel tai ar y farchnad leol. Mae'r cynllun ym mholisi ISA 2 'Cyfleusterau Cymunedol' yn cefnogi cynlluniau priodol ar gyfer cyfleusterau cymunedol a pholisi MAN 3 ' Manwerthu tu allan i ganol trefi diffiniedig ond oddi mewn i ffiniau datblygu' yn cefnogi cynigion am siopau cyfleus newydd ar raddfa fach. Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o broblemau trafnidiaeth efo'r Pentref. Fodd bynnag efo unrhyw gais penodol yn y Pentref bydd materion trafnidiaeth yn ystyriaeth berthnasol a bydd Gwasanaeth Priffyrdd yr awdurdod yn rhoi ei farn ar y bwriad. Os caiff problem benodol ei adnabod yna bydd hyn yn fater i'w ystyried wrth gynnal adroddiad monitro blynyddol y Cynllun ac unrhyw adolygiad o'r Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
708	Carter Jonas (Mrs Charlene Sussums-Lewis) [2829]	POLISI TAI17	Cefnogi	Cefnogwn y newid arfaethedig i ffin ddatblygu i gynnwys Safle i'r dwyrain o'r A466 (SP678) Llanaelhaearn am y rhesymau a ganlyn: Y gallu i'w ddatblygu - Cynllunio Cadarnhaol Niferoedd Tai sydd wedi'u Dyrannu Egwyddor Datblygu Cyfleoedd a chyfyngiadau - fel yr atodir yn Atodiad 1 Cynllun meistr dangosol - fel yr atodir yn Atodiad 2 Arfarniad Cynaladwyedd Positif	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
709	Carter Jonas (Mrs Charlene Sussums-Lewis) [2829]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Dylai tai marchnad agored gael eu caniatáu o fewn Pentrefi Lleol/Arfordirol/Gwledig. Dylai'r polisi cynnwys diffiniad o beth mae 'angen cymunedol' yn ei olygu. Mae safleoedd o fewn fath bentrefi o dan	**Dim yn derbyn –** nid yw'r polisi yn cyfyngu twf i dai fforddiadwy yn unig. Mae paragraff 7.4.124 yn cyfeirio tuag at gyfyngu datblygiad tai i fath a graddfa sy'n diwallu'r angen cymunedol am dai. Mae yn mynd yn ei flaen i nodi ceir cefnogaeth i dai neu dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				anfantais o'i gymharu â safleoedd o dan bolisi TAI 10 gan nad yw tai marchnad agored yn cael ei gefnogi gan bolisi TAI 17.	Felly fe ellir cefnogi tai marchnad agored sydd yn cyfarch angen y gymuned am dai. Mae hyn yn adlewyrchu cymeriad a rôl Pentrefi a adnabyddir o dan bolisi TAI 17 ac yn plethu efo polisi TAI 1 ar gyfer cael cymysgedd briodol o dai. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Tai Fforddiadwy yn rhoi eglurhad ar gyfer 'angen cymunedol'. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
731 & 733	RCH Douglas Pennant [3070]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu cyfyngu'r twf yn Llandygai i wyth annedd ar hap dros gyfnod y cynllun a llunio'r ffin ddatblygu. Rwyf yn gwrthwynebu'r asesiad cynaladwyedd ar gyfer Llandygai (sgôr anheddle). Mae'r drefn bresennol mewn gwirionedd yn peri risg i hyfywedd y gwasanaethau lleol. Newidiadau: ffin ddatblygu ehangach er mwyn caniatáu nifer uwch o aneddiadau yn Llandygai, a fyddai'n	**Dim yn derbyn -** Mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5. Fe wnaeth y Cyngor wrth lunio strategaeth dosbarthiad o fewn y Cynllun ystyried natur wasgaredig yr ardal yn erbyn polisïau cenedlaethol ar gyfer lleihau'r angen i deithio a lleoli'r twf mwyaf mewn lleoliadau cynaliadwy. Teimlir bod y dosbarthiad yn y Cynllun Adnau wedi creu cydbwysedd addas rhwng polisi cenedlaethol a'r sefyllfa

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				cefnogi'r gwasanaethau lleol yn well.	leol. Tra gall lefel uwch o dwf mewn rhai lleoliadau helpu rhywfaint efo rhai gwasanaethau lleol buasai cael ffin datblygu lac a lefel uwch o dwf o bosib arwain at broblemau eraill o fewn rhai cymunedau e.e. effaith ar yr iaith Gymraeg ayb. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i allu cefnogi cais i newid statws Llandygai yn y goeden aneddleoedd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
764	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Bydd darparu tai fforddiadwy yn unig mewn Pentrefi Lleol, Pentrefi Gwledig a Phentrefi Arfordirol yn gwanio cymunedau yn gymdeithasol ac yn economaidd gan gynyddu amddifadedd. Mae Polisi Cenedlaethol yn mynnu cymysgedd o dai fforddiadwy a thai ar y farchnad agored. Bydd cyfyngu datblygiadau i 100% tai fforddiadwy yn arwain at anghydbwysedd cymdeithasol. Byddai caniatáu tai angen lleol neu dai	**Dim yn derbyn –** nid yw'r polisi yn cyfyngu twf i dai fforddiadwy yn unig. Mae paragraff 7.4.124 yn cyfeirio tuag at gyfyngu datblygiad tai i fath a graddfa sy'n diwallu'r angen cymunedol am dai. Mae yn mynd yn ei flaen i nodi ceir cefnogaeth i dai neu dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Felly fe ellir cefnogi tai marchnad agored sydd yn cyfarch angen y gymuned am dai. Mae hyn yn adlewyrchu cymeriad a rôl Pentrefi a adnabyddir o dan bolisi TAI 17 ac yn plethu efo polisi TAI 1 ar gyfer cael cymysgedd briodol o dai.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				fforddiadwy yn unig mewn aneddleoedd penodol yn debygol o sicrhau na ellir darparu'r lefel ofynnol o dai. Ni ellir cyflawni tai angen lleol a thai fforddiadwy ond trwy ddatblygiadau cytbwys, hyfyw (gan gynnwys tai marchnad agored a thai fforddiadwy yn y datblygiadau). Diwygio'r polisi i ddarparu cymysgedd o dai fforddiadwy a thai marchnad agored mewn Pentrefi Lleol, Pentrefi Gwledig a Phentrefi Arfordirol.	Mae yna elfen o'r lefel twf disgwyliedig o fewn y Pentrefi yma wedi cael ei ddarparu yn barod trwy unedau wedi ei chwblhau ers 2011 ac mae canran bellach efo caniatâd presennol. Bydd system monitro flynyddol y Cynllun yn amlygu os na fydd y lefel twf disgwyliedig ar gyfer yr haen yma o'r hierarchaeth yn cael ei wireddu, neu os bydd risg y bydd gormodedd yn cael ei ganiatáu. Credir mai prin iawn yw'r nifer o dai fforddiadwy yn y Pentrefi ar hyn o bryd efo nifer helaeth ohonynt ddim ond efo tai marchnad agored. Bydd cefnogi tai fforddiadwy yn oes y Cynllun yn dod a gwell cymysgedd o dai i'r sefyllfa bresennol y Pentrefi yma. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
832	Jina Gwyrfai [3092]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Dyma bolisi gall i amddiffyn cymunedau bychain lleol. Oni ddylai'r amodau i) & ii) fod yn sail i'r holl Gynllun? Wedi dweud hynny mae angen diffiniad cliriach o 'dai fforddiadwy' yn y cyswllt cymunedol. Nid yw	**Dim yn derbyn -** mae cymal i) a ii) yn adlewyrchu cymeriad a rôl Pentrefi a adnabyddir o dan bolisi TAI 17. Mae papur testun 5 'Datblygu'r strategaeth aneddleoedd' yn adnabod rôl gwahanol fathau o ganolfannau a'r math o ddatblygiad y gellid ei ddisgwyl ynddynt.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				67% yn gallu fforddio'r tŷ rhataf un oherwydd cyflogau gwael (is o lawer nag mewn ardaloedd eraill). Mae angen clustnodi mwy o dai ar rent "Tai Teg" yn hytrach na thai ar werth. Y Polisi yma'n sail i holl gynllunio ar wahân i Fangor/ Caergybi'r canolfannau isranbarthol. Cyfyngu ar adeiladu tai i'r newid naturiol.	Gan fod y ganolfan isranbarthol ar ganolfannau gwasanaethol eraill efo nifer o wasanaethau a chyfleusterau maent yn lleoliadau cynaliadwy. Hefyd maent yn boblogaidd ar gyfer cyfarch anghenion poblogaeth ehangach yn ardal y Cynllun na'i gymuned unigol ei hunain. Oherwydd hyn ni chredir y dylid cyfyngu lefel twf fath ganolfannau i gyfarch anghenion eu hunain yn unig. Mae polisi TAI 1 yn cyfeirio tuag at y cymysgedd priodol o dai a gall mwy o dai ar rent gael ei gefnogi efo bwriad os yw'r dystiolaeth berthnasol yn cyfiawnhau hyn. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1188	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI17	Cefnogi	Does dim materion rydan ni'n gwybod amdanyn nhw o ran y cyflenwad dŵr i effeithio ar gyflawni'r twf sydd wedi'i nodi tu mewn i'r aneddiadau yma ond bydd asesiad llawn yn digwydd ar adeg cais cynllunio, unwaith y byddwn yn gwybod lle mae'r	**Nodi'r sylw cefnogol** – bydd y Cynghorau yn parhau i ymgynghori gyda'r cwmni adeg ceisiadau cynllunio. **Argymhelliad** **Dim newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				datblygiad i ddigwydd. Bydd pa mor ddigonol ydi'r rhwydwaith garthffosiaeth yn cael ei asesu ar adeg cais cynllunio, unwaith y byddwn yn gwybod lle mae'r datblygiad i ddigwydd.	
202	John Brinley Jones [2087]	7.4.124	Gwrthwynebu	Sut cyfrifwyd yr 16 annedd newydd ar gyfer Llanbedrog? Ydi'r ffigwr hwn yn cynnwys yr holl fathau o anheddau newydd gan gynnwys tai haf? Daeth arolwg a gynhaliwyd yn 2007 ar gyfer Cyngor Plwyf Llanbedrog i'r casgliad fod 28 o deuluoedd yn dymuno symud i mewn i'r pentref. Codwyd deg tŷ fforddiadwy ond ymddengys bod y deg hyn eisoes wedi'u cynnwys yn y ffigwr ac mae tri arall sy'n dai haf hefyd wedi'u cynnwys, sy'n gadael un i'w godi yn Llanbedrog yn ystod oes y cynllun, sydd ddim yn ddigon o ystyried y dymunwn weld mwy o dwf yn Llanbedrog. Cynyddu'r niferoedd o 16 i o leiaf 28 a ni ddylai'r ffigwr cynnwys ail cartrefi neu gartrefi gwyliau. Newid tabl 20 mewn perthynas i'r eglurhad ym mharagraff 7.4.124. Efallai	**Dim yn derbyn -** mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlygu'r fethodoleg ar gyfer adnabod lefel twf sydd yn seiliedig ar y math o gyfleusterau sydd ar gael yn y Pentref. Mae unrhyw ddatblygiad sydd wedi cymryd lle mewn anheddle ers Ebrill 2011 yn cyfrif tuag at ffigwr twf y Cynllun. O dan polisi TAI 5 'Tai Marchnad Lleol', sydd wedi adnabod Llanbedrog fel Pentref briodol yn y polisi yma, bydd unrhyw dŷ marchnad yn cael ei gyfyngu i dŷ marchnad lleol. Bydd hyn yn lleihau'r risg i unedau tai newydd gael eu defnyddio fel tai haf/ gwyliau. Os ceir tystiolaeth gadarn bod yna angen am lefel uwch o dai fforddiadwy yn y Pentref yna fe ellid cefnogi hyn trwy bolisi TAI 10 'Safleoedd eithrio'. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				lleihau niferoedd ym Mhwllheli o 12 a symud yr angen i Lanbedrog.	Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
210	CYNGOR CYMUNED LLANBEDROG (MR JOHN HARRIS) [2810]	7.4.124	Gwrthwynebu	I gynyddu lefel twf Llanbedrog o 16 i 28 uned. Ym 2007 gwnaeth y Cyngor arolwg o'r angen am dai yn Llanbedrog a chanfuwyd fod angen 28 o dai. Adeiladwyd 12 tŷ fforddiadwy, mae hyn yn gadael 16 anghenus. Yn y Cynllun nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hyn. Ydi'r ffigwr yma yn cynnwys ail gartrefi?	**Dim yn derbyn -** mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlygu'r fethodoleg ar gyfer adnabod lefel twf sydd yn seiliedig ar y math o gyfleusterau sydd ar gael yn y Pentref. Mae unrhyw ddatblygiad sydd wedi cymryd lle mewn anheddle ers Ebrill 2011 yn cyfrif tuag at ffigwr twf y Cynllun. O dan bolisi TAI 5 'Tai Marchnad Leol', sydd wedi adnabod Llanbedrog fel Pentref priodol yn y polisi yma, bydd unrhyw dŷ marchnad yn cael ei gyfyngu i dŷ marchnad leol. Bydd hyn yn lleihau'r risg i unedau tai newydd gael eu defnyddio fel tai haf/ gwyliau. Os ceir tystiolaeth gadarn bod yna angen am lefel uwch o dai fforddiadwy yn y Pentref yna fe ellid cefnogi hyn trwy bolisi TAI 10 'Safleoedd eithrio'. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
213	CYNGOR CYMUNED LLANBEDROG (MR JOHN HARRIS) [2810]	7.4.124	Gwrthwynebu	Mae'r cyfyngiadau a roddir ar bentrefi Arfordirol/ gwledig yn rhy gaeth. Mae'n bwysig cael twf. Mae'n bwysig cael twf i warchod cymeriad y pentref, er mwyn galluogi amrywiaeth o dai angen lleol eu hadeiladu a dim o reidrwydd tai fforddiadwy yn unig.	**Dim yn derbyn -** mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlygu'r fethodoleg ar gyfer adnabod lefel twf sydd yn seiliedig ar y math o gyfleusterau sydd ar gael yn y Pentref Arfordirol / Gwledig. Felly mae pob pentref yn y categori Arfordirol / Gwledig (heblaw am Fairbourne sydd heb unrhyw dwf oherwydd problem lefel y môr i'r dyfodol) wedi cael lefel o dwf yn ei erbyn. Nid yw'r polisi yn cyfyngu twf i dai fforddiadwy yn unig. Mae paragraff 7.4.124 yn cyfeirio tuag at gyfyngu datblygiad tai i fath a graddfa sy'n diwallu'r angen cymunedol am dai. Mae yn mynd yn ei flaen i nodi ceir cefnogaeth i dai neu dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Felly fe ellir cefnogi tai marchnad agored sydd yn cyfarch angen y gymuned am dai. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

TAI 18 – Tai mewn Clystyrau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
383	Mr Emyr Jones [2935]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Mae'r polisi hwn yn diffinio pentref Llan-faes fel clwstwr. O gofio ei faint a'i nodweddion, byddai pentref lleol yn gategori mwy priodol. Ceir anghysonderau yn y broses asesu sydd wedi'i chynnal, o gofio fod Talwrn, er enghraifft, anheddiad sy'n debyg i Lan-faes o ran nodweddion, wedi'i ddiffinio fel pentref lleol. Mae angen tai fforddiadwy a marchnad yn Llan-faes i gefnogi a datblygu gwasanaethau lleol. Byddai'r safle a adwaenir fel SP49 yn y Gofrestr Safleoedd Arfaethedig yn safle addas ar gyfer ehangu'r pentref ar raddfa fechan.	**Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. Ar gyfer gwahaniaethu rhwng Pentref a Chlwstwr fe adnabuwyd 9 cyfleuster penodol fel rhai allweddol, rhain yw'r rhai a ddiffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. I gael cysondeb a sicrhau lefel uwch o dwf mewn canolfan mwy cynaliadwy rhaid oedd cael o leiaf un o'r cyfleusterau allweddol yma. Nid oes gan Lanfaes 'run o'r cyfleusterau penodol ac nid yw'r gwrthwynebydd wedi dangos tystiolaeth i'r gwrthwyneb. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
442	Mr B Pritchard [2951]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Nid yw pentref Bryn-teg wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddosbarthiad y nodweddir bod modd iddo dderbyn datblygiadau tai newydd.	**Dim yn derbyn** – mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Amryfusedd yw hyn gan fod y pentref yn arddangos nifer o'r nodweddion sy'n gysylltiedig â phentrefi a chlystyrau lleol eraill. Er enghraifft, mae Talwrn, pentref tebyg, wedi'i ddosbarthu'n bentref lleol. Mae'n hanfodol i les cymdeithasol ac economaidd Bryn-teg y caiff datblygiadau newydd eu hyrwyddo ac y rhoddir dynodiad o'r fath. Mae safleoedd addas ar gyfer datblygiad o'r fath yn y pentref, gan gynnwys cyfeirnod safle SP162 yn y Gofrestr Safleoedd Arfaethedig.	ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. Ar gyfer gwahaniaethu rhwng Pentref a Chlwstwr fe adnabuwyd 9 cyfleuster penodol fel rhai allweddol, rhain yw'r rhai a ddiffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. I gael cysondeb a sicrhau lefel uwch o dwf mewn canolfan mwy cynaliadwy rhaid oedd cael o leiaf un o'r cyfleusterau allweddol yma. Nid oes gan Frynteg 'run o'r cyfleusterau penodol ac nid yw'r gwrthwynebydd wedi dangos tystiolaeth i'r gwrthwyneb. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
497	Cyngor Cymuned Tref Alaw (Miss Anna M Jones) [1402]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Mae eitem 6 yn y paragraff yn nodi fod y feddiannaeth wedi'i chyfyngu hyd dragwyddoldeb. Golyga hyn y bydd yn amhosib cael morgais ar yr annedd. Bwriad y cynllun yw 'cael gwared' â'r trigolion o'r cefn gwlad a chreu getos yn y trefi.	**Dim yn derbyn -** Mae strategaeth y Cynllun yn adnabod natur wasgaredig yr ardal a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr hierarchaeth aneddleoedd a'r categori Clystyrau Oherwydd y pwyslais cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru i leoli datblygiad mewn lleoliadau cynaliadwy mae polisi TAI 18 yn cyfyngu datblygiad i unedau fforddiadwy yn unig oherwydd dim ond ychydig o gyfleusterau sydd yn y Clystyrau yma.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Mae defnyddio cytundeb cyfreithiol er mwyn cyfyngu deiliadaeth yn ddull a gefnogir gan Bolisi Cenedlaethol. Tra bod y polisi yn hyrwyddo defnydd fforddiadwy am byth bydd yna gymal ar gyfer gwerthu'r tŷ ar y farchnad agored mewn achosion os yw'r cwmni benthyca yn adfeddiannu'r tŷ a methu ei osod i rywun sydd yn bodloni'r cytundeb. Mae hyn yn help i sicrhau unigolion i gael morgais. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
574	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	* Dylid uwchraddio Clystyrau i gynnwys ffin datblygu. * Dylid cynnwys dynodiad tai penodol ynddynt i ddarparu cyfuniad o dai marchnad a thai fforddiadwy i gyfarch y gwir angen lleol am fath dai. * Mae'r clystyrau sydd wedi cael ei adnabod yn aneddleoedd cynaliadwy efo cysylltiadau trafnidiaeth dda. Ni ddylid cyfyngu ei lefel twf gan fuasai cyfleusterau a gwasanaethau cymdeithasol yn cael cefnogaeth wedyn. * Buasai hyn yn cefnogi anghenion y gymuned leol bydd yn cefnogi nifer o wasanaethau a	**Dim yn derbyn** - Mae'r cynllun wedi adnabod nifer o glystyrau cydlynus o 10 o dai neu ragor gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch ar lwybr bws neu o fewn 800 metr i safle bws ac mewn rhai achosion efo rhai cyfleusterau / gwasanaethau. Yn unol a'r egwyddorion cynaliadwyedd sydd yn dylanwadu strategaeth ofodol y Cynllun, ni chredir bod y rhain yn lleoliadau addas i ddynodi safleoedd tai ac i hybu lefel uwch o dwf ynddynt a bod rhoi twf o 2 uned fforddiadwy leol i'r clwstwr yn golygu cyfleoedd addas i gyfarch anghenion yn deillio o'r gymuned leol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				chyfleusterau drwy'r flwyddyn; sydd yn fwy addas na pholisi caeth sydd yn cyfyngu'r nifer o dai i ddau a hefyd yn lleihau effaith crynhoad o dai gwyliau. * Ystyrir bod dim ond cyfarch 2 dy fforddiadwy o fewn clystyrau yn mynd i wanhau cymunedau yn gymdeithasol ac economaidd gan arwain at gynnydd mewn amddifadedd. Mae'n cael ei adnabod ym Mholisi Cynllunio Cymru bod yna angen i ddarparu cymysgedd o dai fforddiadwy a marchnad o fewn aneddleoedd er mwyn creu cymunedau cynaliadwy. * Bydd cyfyngu datblygiad tai i 100% tai fforddiadwy yn creu anghydbwysedd cymdeithasol ac felly yn groes i bolisi cynllunio cenedlaethol.	Credir mai prin iawn yw'r nifer o dai fforddiadwy yn y Clystyrau ar hyn o bryd efo nifer helaeth ohonynt ddim ond efo tai marchnad agored. Bydd cyfyngu unrhyw ddatblygiad pellach yn oes y Cynllun yn dod a gwell cymysgedd i sefyllfa bresennol y Clystyrau yma. Mae hyrwyddo tai fforddiadwy yn unig mewn Clystyrau hefyd yn gyson a pholisi cynllunio cenedlaethol a'r canllawiau a welir yn NCT6. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
648	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Polisi PS15 - Strategaeth Aneddleoedd - yn cyfyngu pentrefi arfordirol i "o fewn safleoedd mewnlenwi neu safleoedd ar hap oddi mewn i ffiniau datblygu." Dynodir potensial dangosol o 10 safle o'r fath i Borth-y-Gest. Noder nad yw hyn yn darged nac yn derfyn. Cefnogaf yr elfen hon o'r polisi yn enwedig "Bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i'r raddfa a'r math sy'n ateb angen y gymuned am dai ar leiniau ar hap/lleiniau mewnlenwi oddi mewn i ffiniau datblygu. Ni fydd unrhyw safleoedd tai marchnad agored yn cael eu dynodi yn y pentrefi hyn."	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. Ar gyfer gwahaniaethu rhwng Pentref a Chlwstwr fe adnabuwyd 9 cyfleuster penodol fel rhai allweddol, rhain yw'r rhai a ddiffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. I gael cysondeb a sicrhau lefel uwch o dwf mewn canolfan mwy cynaliadwy rhaid oedd cael o leiaf un o'r cyfleusterau allweddol yma. Gan fod yna Ysgol Gynradd yn Borth-y-Gest mae wedi cael ei adnabod fel Pentref Arfordirol / Gwledig.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Fodd bynnag, mae'r angen ar safleoedd mewnlenwi ym Morth-y-gest ar gyfer tai fforddiadwy ac nid tai marchnad agored. Ail gategoreiddio Borth-y-Gest fel clwstwr.	**Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
702 & 703	RCH Douglas Pennant [3070]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu cyfyngu'r twf yn Nhalybont i 2 annedd ar hap dros gyfnod y cynllun a diffyg ffin ddatblygu. Rwyf yn gwrthwynebu'r asesiad cynaladwyedd ar gyfer Talybont (sgôr anheddiad). Mae'r drefn bresennol mewn gwirionedd yn peri risg i hyfywedd y gwasanaethau lleol. Newid: ffin ddatblygu i ganiatáu nifer uwch o anheddau yn Nhalybont, fyddai'n cefnogi'r gwasanaethau lleol yn well.	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. Ar gyfer gwahaniaethu rhwng Pentref a Chlwstwr fe adnabuwyd 9 cyfleuster penodol fel rhai allweddol, rhain yw'r rhai a ddiffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. I gael cysondeb a sicrhau lefel uwch o dwf mewn canolfan mwy cynaliadwy rhaid oedd cael o leiaf un o'r cyfleusterau allweddol yma. Yn unol â'r egwyddorion cynaliadwyedd sydd yn dylanwadu strategaeth ofodol y Cynllun, ni chredir bod y rhain yn lleoliadau addas i hybu lefel uwch o dwf ynddynt a bod rhoi twf o 2 uned fforddiadwy leol i'r clwstwr yn golygu cyfleoedd addas i gyfarch anghenion yn deillio o'r gymuned leol. . Mae hyrwyddo tai fforddiadwy yn unig mewn Clystyrau hefyd yn gyson a pholisi cynllunio cenedlaethol a'r canllawiau a welir yn NCT6.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
732	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Mae Pencaenewydd a Rhoslan wedi'u cynnwys yn y tabl clystyrau. Pam nad yw Llanarmon wedi'i gynnwys? Mae wedi ei gynnwys fel pentref gwledig yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd a theimlwn y dylai gael ei gynnwys eto fel clwstwr. Wedi'r cwbl, mae Eglwys yno ac mae'r un gwasanaeth bysiau yn mynd drwyddo ag sy'n gwasanaethu Pencaenewydd a Llangybi. Dylid cynnwys Llanarmon yn nhabl 21.	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. I rywle gael ei adnabod fel Clwstwr rhaid cael grŵp cydlynus o 10 o dai neu ragor, gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch yn seiliedig ar ei leoliad ar lwybr bysiau gyda safle bws neu o fewn 800 metr i safle bws. Nid oes yna grŵp cydlynol o 10 neu fwy o dai yn Llanarmon tra bod oddeutu 40 ym Mhencaenewydd a 30 yn Rhoslan. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
736	Cyngor	POLISI	Gwrthwynebu	Nid yw'n gwneud synnwyr yr ystyrir pentref mor	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Cymuned Llanengan (Ms Einir Wyn) [1548]	TAI18		fawr â Llanengan, sydd â thafarn, capel, eglwys a chanolfan gymdeithasol brysur (sy'n cynnal Ysgol Feithrin) yn glwstwr fel Sarn Bach a Machroes. Adeiladwyd tai angen lleol ynddo yn ystod y pump/chwe blynedd diwethaf ac mae lle i fewnlenwi eto - cais gerbron ar hyn o bryd. Caniatawyd chwe thŷ fforddiadwy/angen lleol eisoes. Dylid ailystyried y dosbarthiad hwn i fod yn bentref gwledig fel y gellir adeiladu pedwar tŷ fforddiadwy/angen lleol yn Llanengan yn ystod oes y CDLl yn hytrach na'r ddau a ganiateir fel clwstwr.	Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. Ar gyfer gwahaniaethu rhwng Pentref a Chlwstwr fe adnabuwyd 9 cyfleuster penodol fel rhai allweddol, rhain yw'r rhai a ddiffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. I gael cysondeb a sicrhau lefel uwch o dwf mewn canolfan mwy cynaliadwy rhaid oedd cael o leiaf un o'r cyfleusterau allweddol yma. Nid oes gan Lanengan 'run o'r cyfleusterau penodol yma ac felly mae wedi cael ei gategoreiddio fel Clwstwr yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
970	Cynghoryd d Elwyn Edwards [399]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Teimlaf nad yw'r Cynllun a fwriedir ar hyn o bryd ynglŷn â niferoedd tai fforddiadwy a ganiateir at anghenion lleol yn ddigonol (2 dŷ) dros oes y cynllun (hyd at 2026). Hoffwn newid geiriad niferoedd y tai i Fel Bo'r Galw) drwy oes y cynllun yn hytrach na 2.	**Dim yn derbyn** - er mwyn dosbarthu lefel twf y Cynllun rhaid rhoi amcangyfrif twf yn erbyn yr haen Clystyrau, sef 2 uned ym mhob Clwstwr. Bydd system monitro flynyddol y Cynllun yn ein galluogi i adolygu beth sydd yn digwydd yn yr haen yma. Efallai bydd yna fwy o angen o fewn rhai Clystyrau na'i gilydd ac yn ddibynnol ar y dystiolaeth briodol i gyfiawnhau'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					angen yma yna fe ellid cefnogi lefel uwch o dwf na 2 uned mewn rhai Clystyrau. Wedi dweud hyn os dengys y gwaith monitro blynyddol bod y lefel yn sylweddol uwch o fewn y haen Clystyrau yn ei gyfanrwydd yna fe all hyn arwain at adolygiad o'r Dosbarthiad Tai yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1094	Cyfoeth Naturiol Cymru (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI TAI18	Cefnogi	Mae CNC yn croesawu'r ffaith bod tai o fewn clystyrau gwledig yn 100% tai fforddiadwy.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim newid**
1272	Mr & Mrs O R & M Roberts [2955]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	1. Caiff Rhostrehwfa ei alw yn glwstwr, mewnlenwad yw'r safle hwn rhwng Llangefni a Rhostrehwfa 2. Dylid cynnwys yr ardal fewnlenwad un ai o fewn Rhostrehwfa neu Langefni, ac mae'n fewnlenwad rhwng y mapiau mewnosod perthnasol 3. Mae clwstwr yn cynnwys 10 neu fwy o unedau	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. I rywle gael ei adnabod fel Clwstwr rhaid cael grŵp cydlynus o 10 o dai neu ragor, gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch yn seiliedig ar ei

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ac mae'r ardal hon yn cynnwys mwy na'r niferoedd gofynnol 4. Dylid newid yr ardal gyfan o fap mewnosod Rhostrehwfa a Llangefni i adlewyrchu clwstwr yn TAI18.	leoliad ar lwybr bysiau gyda safle bws neu o fewn 800 metr i safle bws. Nid oes yna grŵp cydlynol o 10 neu fwy o dai yn yr ardal mae'r gwrthwynebydd yn ceisio ei gynnwys yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1277, 1278 & 1279	Cyngor Cymuned Llandderfel (Mrs Bethan Jones) [1257]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Rydym yn gwrthwynebu'r bwriad i gyfyngu'r uchafswm o ddwy uned fesul clwstwr am gyfnod y Cynllun. Gwell byddai caniatáu fel y galw a chaniatáu'r nifer y bo angen o dai fforddiadwy i bobl leol. Dylid hefyd cael y gallu i ehangu'r ffin fel y galw i sicrhau bod safleoedd i bobl leol ar eu tir eu hunain. Newid: Caniatáu codi tai fel y mae'r galw ac nid ei gyfyngu i ddwy uned am gyfnod y Cynllun. Ymestyn y ffin pan fydd gofyn i sicrhau bod y bobl leol yn gallu codi anheddau ar eu tir eu hunain.	**Dim yn derbyn** - er mwyn dosbarthu lefel twf y Cynllun rhaid rhoi amcangyfrif twf yn erbyn yr haen Clystyrau, sef 2 uned ym mhob Clwstwr. Bydd system monitro flynyddol y Cynllun yn ein galluogi i adolygu beth sydd yn digwydd yn yr haen yma. Efallai bydd yna fwy o angen o fewn rhai Clystyrau na'i gilydd ac yn ddibynnol ar y dystiolaeth briodol i gyfiawnhau'r angen yma yna fe ellid cefnogi lefel uwch o dwf na 2 uned mewn rhai Clystyrau. Wedi dweud hyn os dengys y gwaith monitro blynyddol bod y lefel yn sylweddol uwch o fewn yr haen Clystyrau yn ei gyfanrwydd yna fe all hyn arwain at adolygiad o'r Dosbarthiad Tai yn y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1291	Cyngor Cymuned Penmynydd a Star (Mr Rhys Davies) [3295]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Mae gan Benmynydd gymuned gref a hoffem weld cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol i aros yn y pentref. Dylai'r pentref gael ei adnabod fel clwstwr yn y CDLl dan bolisi TAI8 a thabl 21 ym mharagraff 7.4.128.	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. I rywle gael ei adnabod fel Clwstwr rhaid cael grŵp cydlynus o 10 o dai neu ragor, gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch yn seiliedig ar ei leoliad ar lwybr bysiau gyda safle bws neu o fewn 800 metr i safle bws. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno map i adnabod grŵp cydlynus yn yr ardal. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod yna grŵp cydlynol o 10 neu fwy o dai yn yr ardal mae'r gwrthwynebydd yn ceisio ei gynnwys yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1399	DP Jones [2063]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Dylai Gogledd-ddwyrain Llanddaniel gael ei adnabod fel Clwstwr sy'n cynnwys grŵp o dai cydlynol gydag edrychiad trefol o natur debyg i glystyrau eraill sydd wedi'u nodi yn TAI 18. Nid yw wedi'i leoli yn yr AHNE ond mae ei gynnwys yn rhoi cyfle fel rhan o strategaeth gyffredinol i leihau'r pwysau ar dirwedd genedlaethol o bwysigrwydd mawr. Yn ogystal, mae Gogledd-ddwyrain Llanddaniel wedi'i nodi fel clwstwr yn y penderfyniad apêl a amgaeir gyda'r cyflwyniad. Yn ogystal, mae'n lleoliad hynod gynaliadwy oherwydd ei agosrwydd at ddulliau cludiant cynaliadwy a dulliau cludiant eraill, ysgol gynradd a'r aneddiadau a'r cyfleusterau a restrwyd.	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. I rywle gael ei adnabod fel Clwstwr rhaid cael grŵp cydlynus o 10 o dai neu ragor, gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch yn seiliedig ar ei leoliad ar lwybr bysiau gyda safle bws neu o fewn 800 metr i safle bws. Tra ein bod yn derbyn bod yna gymysgedd o wahanol fathau o glystyrau wedi eu hadnabod ym Mholisi TAI 18 maent i gyd unai efo 10 neu ragor o dai ar un ochr o'r ffordd neu yn ffurfio grŵp cydlynol efo tai gyferbyn a'i gilydd. Yn yr achos yma ceir 8 tŷ ar un ochr o'r ffordd, yna bwlch bach cyn y ceir tri thŷ ar yr ochr arall a dim o'r tai gyferbyn a'i gilydd. Oherwydd hyn ni chredir bod yn grŵp cydlynus yn yr ardal yma. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1459	Dwr Cymru Welsh Water (Mr	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Does gan yr aneddiadau a ganlyn ddim cyfleusterau carthffosiaeth gyhoeddus ac felly mae darpariaethau Cylchlythyr 10/99 'Gofynion	**Nodi'r sylw - Nodi'r sylw** – bydd y Cynghorau'n parhau i ymgynghori gyda DCWW adeg ceisiadau cynllunio.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Dewi Griffiths) [2680]			Cynllunio mewn perthynas â Defnyddio Systemau Carthffosiaeth heb Brif Gyflenwad a Chynnwys Tanciau Septig mewn Datblygiadau Newydd' yn gweithredu a bydd angen ymgynghori efo Adnoddau Naturiol Cymru. Ynys Môn: Brynteg, Capel Coch, Capel Mawr, Capel Parc, Carmel, Cerrig Mân, Hebron, Llanfairynghornwy, Llanynghenedl, Marianglas, Pentre Canol, Penygraigwen, Traeth Coch / Red Wharf Bay, Trefor, Tyn Lôn. Gwynedd: Aberpwll, Penrhos (Caeathro), Ceidio, Dinas (Llŷn), Friog, Llanaber, Llangwnadl, Treborth, Waun (Penisarwaun)	Cyfeirir hefyd at Bolisi PS2 a Pholisi ISA1 sy'n rhoi'r fframwaith i sicrhau y bydd isadeiledd priodol mewn lle cyn i ddatblygiad ddigwydd. **Argymhelliad** **Dim newid**
1461	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI18	Cefnogi	Does dim materion rydan ni'n gwybod amdanyn nhw o ran y cyflenwad dŵr i effeithio ar gyflawni 2 annedd ym mhob clwstwr, ond bydd asesiad llawn yn digwydd ar adeg cais cynllunio, unwaith y byddwn yn gwybod lle mae'r datblygiad i ddigwydd.	
1462	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI18	Cefnogi	Bydd pa mor ddigonol ydi'r rhwydwaith garthffosiaeth yn cael ei asesu ar adeg cais cynllunio, unwaith y byddwn yn gwybod lle mae'r datblygiad i ddigwydd.	
1668	Mr Hayden Sandom [2931]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Mae'r grŵp o dai sy'n destun y gynrychiolaeth hon (Cae Ficer) yn gydlynol, yn dynn ac yn un y gellid ei ddiffinio'n hawdd. Mae'n cynnwys aneddleoedd digonol i'w hystyried fel clwstwr. Felly, mae'n addas ar gyfer ei gynnwys yn y	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				cynllun fel clwstwr.	I rywle gael ei adnabod fel Clwstwr rhaid cael grŵp cydlynus o 10 o dai neu ragor, gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch yn seiliedig ar ei leoliad ar lwybr bysiau gyda safle bws neu o fewn 800 metr i safle bws. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod yna grŵp cydlynol o 10 neu fwy o dai yn yr ardal mae'r gwrthwynebydd yn ceisio ei gynnwys yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1803	Peter Day [2103]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Cynnig Clwstwr newydd o'r enw Moranedd gan fod yna 13 o dai yno sydd yn bodloni holl feini prawf / anghenion ar gyfer Clwstwr. Nid yw wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun a gofynnaf iddo gael ei gynnwys. Ceir cynllun ynghlwm sydd yn dangos y 13 tŷ sy'n ffurfio Moranedd mewn coch. Mae o fewn 600m i arhosfan bws, sydd efo gwasanaeth i'ch galluogi i gyrraedd canolfan gwaith erbyn 9yb. Ceir gwasanaethau cymdeithasol o fewn 1km gan gynnwys Neuadd Bentref Marianglas, Tŷ Tafarn Parciau a Chanolfan Goronwy Owen.	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. I rywle gael ei adnabod fel Clwstwr rhaid cael grŵp cydlynus o 10 o dai neu ragor, gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch yn seiliedig ar ei leoliad ar lwybr bysiau gyda safle bws neu o fewn 800 metr i safle bws. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod yna grŵp cydlynol o 10 neu fwy o dai yn yr ardal mae'r gwrthwynebydd yn ceisio ei

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					gynnwys yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
964	Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541]	TAI 18 (Map 172 Bryncroes)	Gwrthwynebu	Yn y cynllun cyfeirir at ddau dy yn unig yn cael ei ganiatáu ym mhentref Bryncroes - mae'r nifer yma'n gyfyngedig iawn am y nifer o flynyddoedd bydd y Cynllun arfaethedig mewn grym. Eto mae hyn yn cyfyngu ar hawliau'r unigolyn.	**Dim yn derbyn -** er mwyn dosbarthu lefel twf y Cynllun rhaid rhoi amcangyfrif twf yn erbyn yr haen Clystyrau, sef 2 uned ym mhob Clwstwr. Bydd system monitro flynyddol y Cynllun yn ein galluogi i adolygu beth sydd yn digwydd yn yr haen yma. Efallai bydd yna fwy o angen o fewn rhai Clystyrau na'i gilydd ac yn ddibynnol ar y dystiolaeth briodol i gyfiawnhau'r angen yma, yna fe ellid cefnogi lefel uwch o dwf na 2 uned mewn rhai Clystyrau. Wedi dweud hyn os dengys y gwaith monitro blynyddol bod y lefel yn sylweddol uwch o fewn yr haen Clystyrau yn ei gyfanrwydd yna fe all hyn arwain at adolygiad o'r Dosbarthiad Tai yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
471	Mr E Jones [2957]	7.4.125	Gwrthwynebu	Nid yw pentref Llanddeiniolen wedi'i ddynodi'n anheddiad clwstwr yn y polisi hwn. Mae'n rhaid mai amryfusedd yw hyn gan fod y pentref yn arddangos nifer o'r un nodweddion maint, graddfa a gwasanaethau â Phentir gerllaw, er enghraifft. Mae'n bwysig i bentrefi bychain megis Llanddeiniolen bod datblygiadau newydd yn dod ymlaen i gefnogi'r pentref a gwella gwasanaethau. Ni fydd polisïau gorgyfyngol yn gwella bywyd y pentref. Gall ychwanegiadau graddfa fechan i bentrefi fod yn briodol ac mae safle SP90 ar y Gofrestr Safleoedd Arfaethedig yr union safle o'r fath.	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. I rywle gael ei adnabod fel Clwstwr rhaid cael grŵp cydlynus o 10 o dai neu ragor, gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch yn seiliedig ar ei leoliad ar lwybr bysiau gyda safle bws neu o fewn 800 metr i safle bws. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod yna grŵp cydlynol o 10 neu fwy o dai yn yr ardal mae'r gwrthwynebydd yn ceisio ei gynnwys yn y Cynllun. **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
425	Mr G Dale [2954]	7.4.128	Gwrthwynebu	Nid yw pentref Paradwys wedi'i gynnwys yn y rhestr o bentrefi clwstwr. Amryfusedd yw hyn gan fod y pentref yn arddangos nifer o'r un nodweddion â chlystyrau pentrefi eraill megis Star sydd gerllaw. Mae'n bwysig i iechyd cyffredinol y pentref ac i gefnogaeth ac estyniad gwasanaethau pentref y caiff y datblygiadau newydd eu codi a bod tir addas ar gael ar gyfer hyn. Mae'r safle sydd â'r cyfeirnod SP184 yn y Gofrestr Safleoedd Arfaethedig yn safle o'r fath. I gynnwys pentref paradwys fel pentref clwstwr. Adnabod safle SP184 fel rhan o'r pentref clwstwr.	**Dim yn derbyn** - mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun. I rywle gael ei adnabod fel Clwstwr rhaid cael grŵp cydlynus o 10 o dai neu ragor, gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch yn seiliedig ar ei leoliad ar lwybr bysiau gyda safle bws neu o fewn 800 metr i safle bws. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod yna grŵp cydlynol o 10 neu fwy o dai yn yr ardal mae'r gwrthwynebydd yn ceisio ei gynnwys yn y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

7.4.130 Tai newydd yng nghefn gwlad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
481	Mr Geoff Wood [2916]	7.4.130	Gwrthwynebu	Nid yw'r paragraff yn ystyried amgylchiadau pryd y gallai fod yn briodol creu neu ailsefydlu annedd yn y cefn gwlad pe byddai'n arwain at adfer ased treftadaeth neu adeilad gwerinol lleol a fyddai o gymorth i ddiogelu diwylliant Cymreig. Yn yr amgylchiadau hynny, dylai'r Cynllun gydnabod na allai fod yn bosib nac yn hyfyw i weithiwr gwledig fyw yn yr adeilad nac i'r adeilad weithredu fel annedd fforddiadwy. Dylid diwygio'r paragraff i ddarllen "Rhaid i ddatblygiadau yng nghefn gwlad agored fodloni polisi cenedlaethol a TAN6 yng nghyd-destun tai mentrau gwledig neu ddatblygiad un blaned. Mewn rhai achosion, efallai byddai'n dderbyniol i greu annedd newydd neu ail-sefydlu annedd blaenorol yng nghefn gwlad agored os yw'n cynnwys atgyweirio neu ailwampio ased treftadaeth sy'n helpu i ddiogelu cymeriad lleol a/neu'r diwylliant Cymreig. Yn unol â pholisi TAI9 os na fydd meddiannydd cymwys ar gyfer tŷ menter wledig yn y dyfodol yna fe gaiff ystyried ar gyfer ei feddiannu gan rai sydd yn gymwys am dŷ fforddiadwy, os yw'n ymarferol gwneud hynny."	**Dim yn derbyn -** Mae polisi a chanllaw cenedlaethol yn pwysleisio'r pwysigrwydd i warchod y cefn gwlad a dim ond galluogi datblygiad mewn amgylchiadau eithriadol pan ellid ei gyfiawnhau. Mae polisi TAI 19 yn y Cynllun yn cefnogi trosi adeiladau yng nghefn gwlad agored i ddefnydd preswyl, fodd bynnag rhaid bod yr adeilad yn strwythurol gadarn. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

TAI 19 – Trosi Adeiladau yng Nghefn Gwlad Agored i Defnydd Preswyl

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
358	Mr Geoff Wood [2916]	POLISI TAI19	Gwrthwynebu	Awgrymu cyflwyno prawf hyfywedd ar gyfer y meini prawf fforddiadwy yng nghyswllt rhan 2 y polisi hwn. Dylid gwneud i ffwrdd â'r term 'israddol' gan fod y prawf hwn yn rhy feichus. At hyn, ni ddylai'r prawf strwythurol fod yn berthnasol lle byddai atgyweirio neu ailwampio'r strwythur yn diogelu ased treftadaeth. Rhan 2 - diwygio i ddarllen "Yn amodol ar fod yn ymarferol, bod y datblygiad yn darparu uned fforddiadwy ar gyfer angen cymunedol lleol am annedd Fforddiadwy neu fod y defnydd preswyl yn elfen ynghlwm efo datblygiad ehangach ar gyfer defnydd cyflogaeth cysylltiedig;" Rhan 3 – diwygio i ddarllen "Bod yr adeilad yn strwythurol gadarn neu'n cynnwys atgyweirio neu ailwampio ased treftadaeth sy'n helpu i ddiogelu cymeriad lleol a/neu'r diwylliant Cymreig"	**Dim yn derbyn –** Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy. Mae paragraff 4.7.7 PCC yn hyrwyddo y rhan fwyaf o ddatblygiad mewn ardaloedd gwledig yn yr aneddiadau sy'n gymharol hygyrch drwy ddulliau heblaw ceir. Ceir cefnogaeth ym mharagraff 7.3.2 o PCC i greu peth gwaith mewn ardaloedd gwledig trwy ail ddefnyddio adeiladau a chefnogaeth i arallgyfeirio ar ffermydd ym mharagraff 7.3.3. Mae rhan 3.2 o Nodyn Cyngor Technegol 23 (2014) yn cyfeirio tuag at yr angen i sicrhau bod yr adeilad yn addas i'w drawsnewid. Hefyd mewn ardaloedd ble mae creu cyflogaeth yn flaenoriaeth nodi'r gellid cyflwyno polisi yn y CDLl sydd yn gwahardd defnydd fel eiddo preswyl oni bai bod tystiolaeth o ymdrechion i sicrhau ailddefnydd busnes addas; neu fod y
605	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	POLISI TAI19	Gwrthwynebu	Mae cyfyngu ar drosi adeiladau traddodiadol i'w defnyddio ar gyfer defnydd preswyl i ddarparu unedau fforddiadwy angen lleol yn anhyfyw ac	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				ni ellir eu darparu wrth ystyried y cynnydd yng nghostau adeiladu/datblygu ar gyfer cynlluniau trosi. Bydd y polisi hwn yn methu ar sail hyfywdra ac mae'n anorfod na ellir darparu'r gofynion tai fforddiadwy mewn cynlluniau trosi. Rydym yn ceisio'r newidiadau a ganlyn: 1. Dylid dileu'r gofyn am dai fforddiadwy o fewn cynlluniau trosi. 2. Dylai'r polisi ganiatáu estyniadau bach i'r adeilad er mwyn galluogi datblygu. 3. Dylid dileu'r gofyn i ddarparu tystiolaeth nad yw defnydd cyflogaeth yr adeilad yn hyfyw.	trosiad preswyl yn rhan o gynllun ailddefnydd busnes; neu fod y tŷ yn cyfrannu tuag at angen am dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol. Cafodd aneddleoedd eu categoreiddio ar sail gwahanol gyfleusterau oedd ynddynt (gweler Papur Testun 5 am fanylion o hyn). I adlewyrchu natur gwledig gwasgaredig yr ardal, cafodd nifer o aneddleoedd ei adnabod fel Clystyrau. Fodd bynnag mae datblygiad o fewn fath aneddleoedd, oherwydd y prinder o gyfleusterau sydd ynddynt, wedi cael ei gyfyngu i dai fforddiadwy yn unig.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1422	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI TAI19	Gwrthwynebu	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisïau Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:- * Caniatáu cymysgedd o dai gan gynnwys yr hawl i ddatblygu hen adfeilion nid yn unig i ymwelwyr ond i'r boblogaeth gynhenid gael byw ynddynt.	Yng ngoleuni hyn credir ei bod yn addas cyfyngu defnydd o drosi adeilad yng nghefn gwlad i ddefnydd cyflogaeth cyn ystyried ei addasrwydd ar gyfer tŷ fforddiadwy. Mae'r flaenoriaeth i ddefnydd cyflogaeth yn cyd fynd a pholisi CYF 5 yn y Cynllun. Os nad yw'n hyfyw i ddatblygu adeilad ar gyfer tŷ fforddiadwy yna credir bod yn a ddigon o gyfleoedd eraill yn bodoli o fewn yr hierarchaeth aneddleoedd sydd yn adnabod dros 200 o aneddleoedd yn ardal y Cynllun. Ar gyfer adeiladau rhestredig mae polisi AT2 yn y Cynllun yn cyfeirio tuag at ddatblygiadau galluogi a all gael cefnogaeth. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.
1833	Carter Jonas (Mr Chris Bell) [3072]	POLISI TAI19	Gwrthwynebu	Mae polisi TAI 19 yn gosod cyfyngiadau afresymol ar trosi adeiladau traddodiadol yn y cefn gwlad. Y rhesymau yw: (i) Mae costau trosi adeiladau traddodiadol yn uwch sydd yn gallu effeithio ar hyfywdra creu tai fforddiadwy. (ii) Dylid rhoi ystyriaeth i statws rhestredig yr adeiladau. (iii) Dylid trin pob anheddle yn unigol ar sail unrhyw bryder ynglŷn ag ail gartrefi / cartrefi gwyliau. (iv) Dim maen prawf ar gyfer achosion pan na ellid cael hyd i breswylydd sydd yn bodloni'r amodau.	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				(v) Dylid cyfyngu'r defnydd fel prif gartref yn unig fel Cyngor Parc Exmoor. Angen polisi fwy hyblyg er mwyn delio efo pob cais ac anheddle ar sail achos wrth achos.	**Dim Newid**

PENNOD 7.5 AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG

Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Cefndir a Chyflwyniad

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
319	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	7.5.1	Gwrthwynebu	Mae'r Cynllun yn iawn i danlinellu pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol nid yn unig oherwydd ei werth cynhenid ei hun ond hefyd trwy ddefnydd cynaliadwy adnoddau naturiol. Mae'r adran agoriadol hon yn gosod golygfa negyddol iawn o'r amgylchedd naturiol. Rydym yn awgrymu aralleirio er mwyn adlewyrchu'r agwedd gadarnhaol a gymerwyd mewn rhan arall o'r Cynllun. Diddymu'r pwynt bwled gyntaf a symud pwynt 5 i'r dechrau.	**Derbyn yn rhannol -** Yn hytrach na dileu'r pwynt bwled cyntaf, ystyrir y dylid ail-eirio hwn. Cytunwyd y dylid symud y pumed pwynt bwled i'r 2il safle gyda mân ddiwygiadau i'r geiriad. **Argymhelliad** Ail-eirio'r pwnt bwled cyntaf a symud y 5ed pwynt bwled i'r 2il safle yn y rhestr ym mharagraff 7.5.1. **Newid â ffocws: NF 80**
320	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	7.5.2	Gwrthwynebu	Er mwyn cael mwy o eglurhad a bod yn fanwl gywir, dylai'r paragraff hwn gynnwys cyfeiriad at y cynefinoedd sydd hefyd wedi'u rhestri yn Adran 42 Deddf Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol. Ychwanegu "Cynefinoedd a..." i ddechrau brawddeg 7.5.2.	**Derbyn –** Cytunwyd bod angen crybwyll 'cynefinoedd' fan hyn, yn ogystal â rhywogaethau. **Argymhelliad** Cynnwys cyfeiriad at gynefinoedd ym mrawddeg agoriadol paragraff 7.5.2 **Newid â ffocws: NF 81**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
324	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	7.5.3	Cefnogi	Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir i bwysigrwydd rhwydweithiau seilwaith glas/gwyrdd ac yn awgrymu y cyfeirir hefyd at y cysyniad o gylchfeydd rhagod i warchod mwy ar y nodweddion hyn.	**Nodi** – Ystyrir bod PS16 yn ddigonol i ddarparu gwarchodaeth heb yr angen i gyflwyno 'cylchfeydd rhagod' pellach. Bydd effaith y datblygiad yn amrywio o safle i safle a bydd yn dibynnu ar y cynefin/rhywogaeth a ddiogelir. Yn hytrach na gosod 'cylchfeydd rhagod', ymdrinnir â'r fath ofynion fesul achos trwy broses y cais cynllunio. **Argymhelliad** **Dim Newid**
53	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	7.5.4	Gwrthwynebu	Mae'r bwriad i ddynodi'r ardal sy'n cynnwys chwarel Moel Tryfan a'r ardal o'i hamgylch yn Ardal Tirwedd Arbennig yn ddiangen ac fe'i lluniwyd i ddiogelu'r dirwedd lle mae eisoes digon o ddarpariaeth i wneud hyn. Er ei fod yn cyfuno dwy Ardal Gwarchod y Dirwedd i greu Ardal Tirwedd Arbennig 07, mae'n cynnwys tir sydd eisoes yn cael digon o warchodaeth gan ddynodiad Gofrestr Tirwedd Hanesyddol. Gallai ychwanegu haen arall o reoliadau fod yn rhwystr i ddatblygu'r chwarel yn y dyfodol felly'n tanseilio, o bosib, effeithlonrwydd polisïau sy'n ymwneud â datblygu'r economi, cefnogi'r Gymraeg a chloddio	**Dim yn derbyn -** Mae Moel Tryfan yn dirwedd nodweddiadol iawn. Mae rhan ohoni wedi'i dynodi'n SoDdGA daearegol ac mae'r safle'n cynnwys nodweddion archeolegol a diwylliannol. Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				mwynau.	

PS16 – Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
165	Rod Dixon [2774]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Caiff hwn ei restru fel PS19 dan 7.5 yn y tabl cynnwys. Newid i PS16 yn y tabl cynnwys.	**Dim yn derbyn -** Nid yw'n glir i ba wall teipio mae'r gwrthwynebydd yn cyfeirio ato gan nad oes gwall i'w weld yn y copi papur nac yn fersiwn ar-lein y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
232	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Nid yw'r polisi hwn yn eglur o ran lle mae'n berthnasol iddo e.e. (nid pob holl ased tirwedd a bioamrywiaeth sydd â'r un gwerth). Dylai'r polisi ymwneud â'r lefel leol yn hytrach nag ailadrodd y polisi cenedlaethol. Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau fel y nodir isod. Awgrymu hierarchaeth i asesu effeithiau	**Dim yn derbyn** - Pwrpas PS16 yw amlinellu safle strategol y Cynllun mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol a darparu'r cyd-destun ar gyfer polisïau manylach AMG1-AMG5. Tra bod pwynt bwled 2 a 3 y polisi gyfeirio at 'Bolisi Cenedlaethol', nid ystyrir y gellir dehongli hyn fel ailadrodd Polisi Cynllunio Cymru. Mae gan echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd naturiol ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Ystyrir bod y geiriad presennol yn ymdrin yn ddigonol â'r holl faterion lefel lleol. Yn ychwanegol, ymdrinnir â materion mwynau mewn

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				amgylcheddol cynigion datblygu er gwaethaf polisïau eraill yn y cynllun datblygu. Dylid pwysleisio yn gadarnhaol safleoedd echdynnu mwynau presennol, gan eu hymestyn ar draul datblygu safleoedd newydd. Dylid ystyried effeithiau tros dro ar yr amgylchedd yn wahanol i effeithiau hir dymor ar yr amgylchedd.	manylder penodol mewn mannau arall y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
233	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Nid yw'r polisi hwn yn eglur o ran yr hyn y mae'n berthnasol iddo (e.e. nid pob ased tirwedd a bioamrywiaeth sydd â'r un gwerth). Dylai'r polisi ymwneud â'r lefel leol yn hytrach nag ailadrodd polisi cenedlaethol. Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau a nodir isod. Awgrymu hierarchaeth i asesu effeithiau amgylcheddol cynigion datblygu er gwaethaf polisïau eraill yn y cynllun datblygu. Dylid pwysleisio yn gadarnhaol safleoedd echdynnu mwynau presennol, gan eu hymestyn ar draul datblygu safleoedd newydd. Dylid ystyried	**Dim yn derbyn** - Pwrpas PS16 yw amlinellu safle strategol y Cynllun o ran yr amgylchedd naturiol a darparu'r cyd-destun ar gyfer polisïau manylach AMG1-AMG5. Wrth i bwynt bwled 2 a 3 y polisi gyfeirio at 'Bolisi Cenedlaethol', nid ystyrir y gellir dehongli hyn fel ailadrodd Polisi Cynllunio Cymru. Mae gan echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd naturiol ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Ystyrir bod y geiriad presennol yn ymdrin yn ddigonol â'r holl faterion lefel lleol. At hynny, ymdrinnir â materion mwynau mewn manylder penodol mewn mannau eraill. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				effeithiau tros dro ar yr amgylchedd yn wahanol i effeithiau hir dymor ar yr amgylchedd.	**Dim Newid**
311	Cyfeillion LLyn (Mrs Sian Parri) [2871]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Dylid cynnwys cyfeiriad penodol at warchod yr AHNE yn unol â Chynllun Rheoli'r AHNE yn unol â'r Ddeddf cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.	**Dim yn derbyn** – Mae maen prawf 2 y polisi yn ymdrin gyda datblygiad arfaethedig o fewn AHNE. Yn ychwanegol, mae paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
325	Ymddiriedolaeth	POLISI	Gwrthwynebu	NODER Bwriadwyd y sylwadau hyn ar	**Dim yn derbyn** – Ystyrir bod PS16 yn ddigonol i ddarparu gwarchodaeth heb yr angen i gyflwyno

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	STRATEGOL PS16		gyfer PS16 ond ymddengys bod camgymeriad ar ddolen gyswllt y ddogfen ar lein sy'n cysylltu'r polisi hwn â PS19. Rydym yn croesawu polisi PS16 ac yn pwysleisio bod amgylchedd naturiol neilltuol Gwynedd a Môn yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau prin, cyffredin a nodweddiadol. Awgrymwn fod y polisi hwn a thestun cysylltiedig hefyd yn cyfeirio at gylchfeydd rhagod er mwyn gwarchod mwy ar seilwaith gwyrdd a glas (pwynt 5).	'cylchfeydd rhagod' pellach. Bydd effaith y datblygiad yn amrywio o safle i safle a bydd yn dibynnu ar y cynefin/rhywogaeth a ddiogelir. Yn hytrach na gosod 'cylchfeydd rhagod', ymdrinnir â'r fath ofynion fesul achos trwy broses y cais cynllunio. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
343	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI STRATEGOL PS16	Cefnogi	Rydym yn croesawu PS16 ac yn pwysleisio bod amgylchedd naturiol neilltuol Gwynedd a Môn yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau prin, cyffredin a nodweddiadol. Awgrymwn fod cyfeiriad yn y polisi hwn ac mewn testun cysylltiedig hefyd at gylchfeydd rhagod er mwyn gwarchod mwy ar seilwaith gwyrdd a glas (pwynt 5). NODER Bwriadwyd y sylwadau hyn ar gyfer PS16 ond ymddengys bod	**Nodi** Ystyrir bod PS16 yn ddigonol i ddarparu gwarchodaeth heb yr angen i gyflwyno 'cylchfeydd rhagod' pellach. Bydd effaith y datblygiad yn amrywio o safle i safle a bydd yn dibynnu ar y cynefin/rhywogaeth a ddiogelir. Yn hytrach na gosod 'cylchfeydd rhagod', ymdrinnir â'r fath ofynion fesul achos trwy broses y cais cynllunio. **Argymhelliad** **Dim newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				camgymeriad ar ddolen gyswllt y ddogfen ar lein sy'n cysylltu'r polisi hwn â PS19.	
459	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGOL PS16	Cefnogi	Mewn egwyddor mae Bourne Leisure yn cefnogi PS16 gan ei fod yn anelu i gadw a gwella'r amgylchedd naturiol.	**Nodi.** **Argymhelliad** **Dim newid**
493	Mr Glyn Jones [2971]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Polisi cryfach ar gyfer yr AHNE o ran yr angen am Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol o lefel priodol ar gyfer datblygiad a'r angen i gysylltu gyda swyddog tirwedd/ cynllunio'r awdurdod er mwyn cael cyngor am y lefel o AETG sy'n angenrheidiol.	**Dim yn derbyn** – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd. **Argymhelliad** Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					Dim Newid
802	Ty Mawr West ltd (John Hill) [3062]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Mae fy nghleient yn dymuno ail adrodd ei farn gadarn y byddai dynodi Dyffryn Nantlle fel Ardal Tirwedd Arbennig yn niweidiol i'r economi leol ac yn ffactor y dylid dal mewn cof mewn ystyriaeth fanwl o'r effeithiau niweidiol o'r dynodiad o'r math.	**Dim yn derbyn –** Mae Dyffryn Nantlle'n ddyffryn dramatig gyda threftadaeth ddiwylliannol bwysig (chwareli llechi) ac mae'n ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri. Dynodwyd ATA (Ardaloedd Tirwedd Arbennig) yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i wrth-ddweud y rhesymeg y tu cefn i ddynodiad yr ATA hwn. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
805	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Cynllun Rheoli'r AHNE - mae hwn yn gynllun statudol a chredir y dylai fod cyfeiriad ato yn y polisiau perthnasol.	**Derbyn** – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd. Serch hynny, ystyrir y byddai o fudd i'r Cynllun trwy wneud diwygiadau i'r Cynllun sy'n tynnu sylw i'r Cynlluniau Rheolaeth AHNE priodol wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio **Argymhelliad** Diwygio paragraff 7.5.13 i gyfeirio at Gynlluniau Rheolaeth AHNE. Yn ogystal cynnwys Polisi ychwanegol sy'n gwneud yn ofynnol i ystyried Cynlluniau Rheolaeth AHNE wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio. **Newid â ffocws: NF 82 & NF 85**
806	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	AHNE - nid oed polisi penodol o ran cynnal a gwarchod yr AHNE. Yn hytrach mae polisïau cyffredinol a chyfeiriad at ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol. Credir fod angen polisi penodol ar gyfer cynnal a chadw'r AHNE, tebyg i Bolisi B8 yn y cynllun presennol.	**Dim yn derbyn** – Mae maen prawf 2 y polisi yn ymdrin gyda datblygiad arfaethedig o fewn AHNE. Yn ychwanegol, mae paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
812	Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	POLISI STRATEGOL PS16	Cefnogi	Mae Cymdeithas Ddinesig Bangor yn dymuno cefnogi PS16.	**Nodi.** **Argymhelliad** **Dim newid**
891	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Mae gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol yn bolisi yr ydym yn gefnogol iawn ohono. Nid ydym yn teimlo'n gyfforddus bod safleoedd o bwysigrwydd lleol i Forth-y-Gest, sef gwarchodfeydd natur leol Parc y Borth a Phen y Banc, a'u continwwm ecolegol cyfagos yn cael eu hadnabod yn addas, yn unol ag AMG4 cadwraeth bioamrywiaeth leol. Mae Tabl 23 yn rhestr bwysig o ddynodiadau gwarchodaeth natur	**Dim yn derbyn -** Mae Tabl 23 yn rhoi manylion ar yr amserlen dynodiadau cadwraeth natur statudol ac mae'n bwysig darllen y tabl hwn yng nghyd-destun y paragraffau blaenorol. Yn unol â pharagraff 5.3.11 Polisi Cynllunio Cymru a pharagraff 5.5.1 TAN 5 - Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009), ystyrir gwarchodfeydd natur leol yn 'ddynodiadau anstatudol/safleoedd lleol'. O ganlyniad, ni fyddai'n briodol cyfeirio at warchodfeydd natur leol dan Dabl 23. At hynny, ystyrir y gellir rhoi diogelwch digonol i warchodfeydd natur leol dan bolisi AMG5 y Cynllun Datblygu Lleol.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				bwysig, ond nid ydyw'n cyfeirio at warchodfeydd natur leol nac anstatudol a chredwn y dylid hyn. Ymhellach i hyn, nid yw'r map cyfyngiadau yn ddigon penodol i adnabod nodweddion yn glir. Nid yw Pen y Banc yn cael ei adnabod yn glir fel GNLl, ac rydym yn ansicr o ran Parc y Borth ac felly hoffem weld hyn yn cael ei gywiro.	**Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
898	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGOL PS16	Cefnogi	Mae Bourne Leisure yn ategu PS16 mewn egwyddor gan ei fod yn ceisio gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn brif atyniad ymwelwyr yn yr ardal ac felly cefnoga Bourne Leisure y dyhead i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol ble bo'n bosib. Yn wir, datgenir yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan 2013-2020 bod 54% o ymwelwyr wedi ymweld â Gwynedd oherwydd yr olygfa/y dirwedd. Lleolir parciau gwyliau Greenacres a Hafan y Môr mewn ardaloedd sy'n sensitif o ran yr amgylchedd. Dyweda Bourne Leisure na ddylid diystyru	**Nodi** **Argymhelliad** **Dim Newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				datblygiadau yn y safleoedd hyn ar yr amod bod y datblygiad yn addas i'r lleoliad ac y gellid gweithredu mesurau lliniaru cymesurol i liniaru effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Hoffai Bourne Leisure bwysleisio nad oes gan bob datblygiad y gallu i effeithio'n negyddol ar dirwedd, golygfeydd cyhoeddus a gofod agored pwysig.	
900	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Rhoddir pwyslais amhriodol o isel ar yr AHNE yn nrafft y CDLl ar y Cyd o'i gymharu â'r CDUG. Dylid cael ymrwymiad lleol sy'n llawer mwy positif a phenodol i'r dyletswyddau statudol i warchod tirweddau sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol a'u gosodiadau, yn unol â SP2, B8 a B14 y CDUG. Dylid cyfeirio'n benodol at Gynlluniau Rheoli'r AHNE.	**Dim yn derbyn** – Mae maen prawf 2 y polisi yn ymdrin gyda datblygiad arfaethedig o fewn AHNE. Yn ychwanegol, mae paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1092	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	O ran Polisi PS16 ac AMG4 mae ANC'n cwestiynu a oes angen y ddau bolisi ac a ddylid eu hymgorffori mewn un Polisi 'Bioamrywiaeth'. Trwy gael un polisi, fel Polisi NTE/3 CDLl Conwy, byddai'n rhoi'r strwythur polisi i ddiogelu rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd, Cenedlaethol a lleol yn ogystal â chyfeirio at yr angen i gyrraedd targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol. Dylai'r polisi gynnwys hierarchaeth sy'n diffinio'n eglur y lefel o ddiogelwch i'w gynnig i safleoedd a rhywogaethau, a chynnwys cyfeiriad at y rhywogaethau yn Adran 42 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1991 gan fod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddiogelu o dan Ddeddf NERC (2006).	**Dim yn derbyn** - Cyfeiria PS16 at yr amgylchedd naturiol ac mae'n ymdrin â graddfa wahanol, sy'n fwy trosfwaol – fel y nodwyd gan y teitl 'Polisi Strategol', lle mae AMG4 yn darparu rhagor o wybodaeth yn ymwneud â rhoi'r polisi hwn ar waith yn ymarferol i'r lefel achos cynllunio ar gyfer bioamrywiaeth, sy'n gulach na'r 'amgylchedd naturiol'. Felly, ystyrir bod y ddau bolisi ar wahân yn gyfiawn. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
1182	Pwêr Niwclear Horizon(Miss	POLISI STRATEGOL	Gwrthwynebu	Mae camgymeriad teipio yn y cyflwyniad: Dylai fod yn "effect", nid "affect". Mae Horizon o'r farn bod angen cynnwys	**Derbyn yn rhannol** – Derbyniwyd bod yna wall teipio yn y fersiwn Saesneg o'r rhagarweiniad a dylid diwygio hyn yn unol â hynny.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Sarah Fox) [2919]	PS16		mwy o hyblygrwydd yn y polisïau hyn fel y bydd modd caniatáu cynigion y rhagwelir eu bod am gael effaith andwyol, yn amodol ar bennu mesurau lliniaru digonol, efo cynllun gweithredu priodol i gefnogi hynny. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisïau hyn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig.	Ystyrir bod digon o hyblygrwydd yn y polisïau presennol i ddarparu ar gyfer mathau priodol o ddatblygiad. Fel unrhyw fath o ddatblygiad arall, bydd angen i unrhyw gais cynllunio/DCO mewn perthynas â'r Wylfa Newydd ystyried yr holl bolisïau perthnasol yn y CDLl. **Argymhelliad** Cywiro gwall teipio yn y fersiwn Saesneg o'r CDLl ar y Cyd. **Newid Bychan: NB 17**
1423	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y polisïau rheoli datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft. Dylai'r Cynllun hyrwyddo tirwedd o ansawdd uchel ac adnabod rôl amaethyddiaeth yn hyn.	**Dim yn derbyn -** Tra cydnabyddir y cyfraniad y mae amaethyddiaeth wedi'i chwarae wrth greu 'tirwedd ansawdd uchel' y Cynllun, ni fyddai'n briodol cyfeirio at rôl amaethyddiaeth fel yr awgrymwyd gan y gwrthwynebydd yng nghyd-destun polisi PS16. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					Dim Newid
1439	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Mae angen ystyriaeth bellach i ardrawiad posib datblygiad ar statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau a warchodir. Mae'r rhywogaethau sy'n bresennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cynnwys dyfrgwn, ystlumod, llygod dwr. Dylai polisïau perthnasol sicrhau bod datblygiad arfaethedig yn cael eu hasesu o dan y Cynllun ac yn achos dynodiadau bod ystyriaeth lawn a phriodol yn cael ei roi i rywogaethau a warchodir er mwyn cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth berthnasol.	**Nodi'r sylw** – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Mae Pennod 5 Polisi Cynllunio Cymru, ynghyd â TAN 5 yn darparu arweiniad cynllunio mewn perthynas â dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol a ddiogelir gan ddeddfwriaeth. Mewn perthynas â PS16, mae pwynt bwled 6 eisoes yn cyfeirio at "Ddiogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol". At hynny, mae polisïau AMG4 ac AMG5 yr CDLl ar y Cyd yn darparu'r cyd-destun cynllunio lleol mewn perthynas â rhywogaethau rhanbarthol/lleol. Bydd y Cynghorau yn parhau i gysylltu gyda CNC wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio. Wrth ystyried cynigion datblygu (gan gynnwys tir sydd wedi ei ddyrannu yn y cynllun) bydd yr awdurdodau

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					cynllunio lleol yn ystyried ardrawiad amgylcheddol, er mwyn osgoi, ble mae'n ymarferol bosibl, effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd. **Recommendation** Dim angen newid i ymdrin gyda'r materion sy'n deillio o'r gynrychiolaeth yma. **Dim Newid**
1443	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Mae nifer o safleoedd a ddynodwyd tu mewn i, wrth ymyl neu'n agos i AHNE Llŷn ac Ynys Môn. Rydym yn atgoffa'r Awdurdod o'i ddyletswydd o dan Adran 85 o'r Ddeddf cefn Gwlad a Mynediad 2000, sy'n dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r amcan o warchod a gwella harddwch naturiol AHNE. Credir lle bod yna bosibilrwydd i ddynodiad gael effaith andwyol sylweddol ar yr AHNE a'i ardal gysylltiedig, byddai'n rhaid asesu'r safle yn rymus o ran ei ardrawiad andwyol ar fwynderau a rhinweddau'r AHNE	**Nodi'r sylw** – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLl ar y Cyd. Bydd y Cynghorau yn parhau i gysylltu gyda CNC wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio. Wrth ystyried cynigion datblygu (gan gynnwys tir sydd

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					wedi ei ddyrannu yn y cynllun) bydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried ardrawiad amgylcheddol, er mwyn osgoi, ble mae'n ymarferol bosibl, effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd. **Argymhelliad** Dim angen newid i ymdrin gyda'r materion sy'n deillio o'r gynrychiolaeth yma. **Dim Newid**
1444	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Mae rhai dynodiadau o fewn neu'n agos i dirweddau sydd wedi cael eu cofrestru gan CADW fel Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol. Tra nad yw hyn yn ddynodiad statudol, mae Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai fod yn ystyriaeth cynllunio berthnasol yn y broses cynllunio ac y dylid rhoi ystyriaeth iddo.	**Dim yn derbyn –** Ymdrinnir â Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig o dan bolisi PS17 **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
429	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Sylw ychwanegol Dylid cynnwys yn y Cynllun na ddylid cymeradwyo unrhyw gais cynllunio sy'n gwneud niwed sylweddol i goetir hynafol, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.	**Derbyn yn rhannol –** Mae paragraff 5.2.9 PCC yn cynnwys datganiadau ar bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol mewn perthynas â choed a choetiroedd, gan gynnwys coetiroedd hynafol a lled-naturiol ac felly nid oes angen eu hailadrodd fel polisi lleol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				Dylid nodi y dylid manteisio ar bob cyfle i blannu coed mewn llefydd addas er mwyn gwella'r amgylchedd lleol.	**Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

AMG1 – Aradloedd o Dirwedd Arbennig

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
54	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig a nodir ar y Map Cynigion yn gorgyffwrdd â dynodiadau tirwedd eraill sy'n ymddangos bod ganddynt yr un pwrpas o warchod y dirwedd. Pan geir y cyfryw gorgyffwrdd, dylid rhoi ystyriaeth i ostwng maint yr Ardal Tirwedd Arbennig er mwyn osgoi dyblygu ardaloedd dynodedig. O ran safle ein cleient, sydd o fewn Ardal Tirwedd Arbennig 07 arfaethedig, mae'r dirwedd yn nodweddiadol o'r diwydiant cloddio mwynau sydd yn yr ardal ac ni ddylai fod yn ormod o faich ar gloddio mwynau yn yr ardal yn y dyfodol.	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i wrthwynebu'r rhesymeg y tu cefn i'r dynodiad ATA hwn a chyfiawnhau'r gostyngiad o ran arwynebedd y mae'n ymestyn drosto. Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
234	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir.	**Dim yn derbyn -** Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau o fewn ATA ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
235	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor	**Dim yn derbyn -** Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau o fewn ATA ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				hir.	**Dim Newid**
291	Mr Myrddin Roberts [2858]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Nid yw'r Swyddogion sy'n llunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd wedi dwyn i mewn yn ddigonol randdeiliaid lleol megis cynghorau cymuned, ffermwyr, tirfeddianwyr a thrigolion cyn dynodi Ardaloedd o Dirwedd Arbennig ar fap Ynys Môn, yn enwedig felly ar gyfer yr Ardal Tirwedd Arbennig o'r enw Llethrau Coediog Biwmares a Glen Llangoed. Fi sy'n digwydd bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddona, felly gwn nad oes yr un swyddog wedi bod yn ein cyfarfodydd. Fel trigolion, dylem fod wedi cael gwybod am y newid mawr arfaethedig yn y polisi hwn. Ni chafwyd trafodaeth ystyrlon yn amlinellu'r goblygiadau ar fusnesau, tir a chartrefi. Bod Polisi AMG1 yn cael ei ddileu tan fod pob rhanddeilwyr wedi cael ei hysbysu am y cyflwyniad arfaethedig o'r ATAau a bod trafodaeth a chytundeb yn cael ei gyrraedd gan bob parti perthnasol, yn enwedig y gymuned leol a swyddogion y Cynllun ar y Cyd.	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ar Ynys Môn, roedd yr hen Ardal Tirwedd Arbennig yn ymestyn bron dros ardal yr Awdurdod Unedol cyfan. Mae'r ATA newydd yn disodli'r hen ddynodiad a bellach ond yn ymwneud â rhannau penodol o ardal yr Awdurdod Unedol. O ganlyniad, ni ddylid ystyried ATA fel dynodiad newydd ac ni fydd ganddynt oblygiadau mwy i fusnesau a thrigolion lleol na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd dynodiad ffurfiol yr ATA yn cael ei wneud trwy broses ymgynghori'r CDLl. **Argymhelliad** Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
365	Dr Morag McGrath [231]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae'n anodd deall sut gall datblygiad 'ychwanegu' at nodweddion hanesyddol, gweledol, daearyddol, ecolegol a diwylliannol y ATA'. Newid y geiriad i 'i gynnal, cyfoethogi neu adfer cymeriad ac ansawdd cydnabyddedig' fel yn 7.5.10.	**Derbyn –** Ystyriwyd y byddai hyn yn gwella eglurder y polisi ac yn darparu cysondeb gyda pharagraff 7.5.10. **Argymhelliad** Newid geiriad y polisi i 'gynnal, gwella neu adfer y cymeriad cydnabyddedig'. **Newid â ffocws: NF 83**
375	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	POLISI AMG1	Cefnogi	Mae'r Cwmni'n cefnogi'r polisi fel y'i geirir. Gweler sylwadau ar wahân y Cwmni yng nghyswllt yr ardal y mae'n berthnasol iddi.	**Nodi** **Argymhelliad** **Dim Newid**
460	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylai AMG1 datgan yn glir bod yna bosibilrwydd cryf y bydd cyfleusterau ymwelwyr mewn AGT oherwydd yr angen eu lleoli yn agos i'r arfordir. Mae cyfleusterau ymwelwyr o hyd yn newid, gydag ailddatblygu a gwella safleoedd yn digwydd trwy gydol yr amser, er mwyn cwrdd â marchnad ymwelwyr dynamig. Mae Bourne Leisure yn ystyried y gall datblygiad priodol ddod ymlaen hyd yn oed mewn lleoliadau AGT os gellir gweithredu mesurau lliniaru priodol i	**Dim yn derbyn** – ni ddylid trin y diwydiant twristiaeth yn wahanol i unrhyw fath o ddatblygiad arall. Nid yw'r polisi hwn yn rhwystro datblygiad priodol o fewn ATA ond yn amlinellu sut bydd y fath gynigion yn cael eu hystyried yn y cyd-destun cynllunio lleol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				ymdopi gydag ardrawiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol.	
609	Mr Paul Madden [3032]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Nodwyd y cyfan o Ynys Môn o dan bolisi 31 yng Nghynllun Lleol Ynys Môn fel Ardal Tirwedd Arbennig (SLA). Yn y Cynllun sydd ar fin ei gyhoeddi, dim ond rhai ardaloedd sy'n cael eu nodi fel SLA, a gellid dynodi'r holl ynys yn SLA wrth ddefnyddio'r meini prawf cyfredol. Gall Môn cael ei dyfranu gyda statws uwch geoparc byd-eang sy'n cyfateb i safle treftadaeth y byd. Nid yw'n cynnig gwarchodaeth digonol yn erbyn datblygiadau anaddas ac mae'n gwrthdroi polisi hirdymor heb gyfiawnhad digonol. Dylid dynodi'r cyfan o Ynys Môn yn SLA.	**Dim yn derbyn –** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Mae'r rhesymeg y tu cefn i ddynodi Geoparciau Byd-eang yn sylweddol wahanol i'r rhesymeg ar gyfer ATA. Mae a wnelo statws Geoparc â chydnabod ansawdd uchel dreftadaeth ddaearegol leol, lle gall mwy o werthfawrogiad a dealltwriaeth o dreftadaeth ddaearegol fod o fantais i bobl a busnesau lleol trwy fentrau twristiaeth ac addysg. Nid oes gan statws Geoparc unrhyw sail ddeddfwriaethol na goblygiadau cynllunio defnydd tir. At hynny, mae Geoparciau eisoes wedi'u diogelu trwy bolisïau CDLl eraill, er enghraifft PS17 (ail bwynt bwled) a pholisi AMG5. **Argymhelliad** Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
808	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mewn rhai mannau mae'r ardal yma (ATA Gorllewin Llyn) yn ffinio gyda'r AHNE ac yn creu gwarchodiad i osodiad yr AHNE. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r AHNE hen warchodaeth yma. Credir felly dylid cyfeirio at warchod gosodiad yr AHNE yn y polisïau perthnasol.	**Dim yn derbyn -** Cyfeirir at fater a wnaed yn y frawddeg olaf ym mholisi AMG2 sy'n datgan "Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddatblygiadau sydd yn effeithio ar gymeriad tirwedd a gosodiad yr AHNE neu'r Parc Cenedlaethol". Serch hynni nodir bod gwall yn y fersiwn Gymraeg a dylid ychwanegu 'yn uniongyrchol' ar ôl "effeithiau" yn frawddeg olaf polisi AMG2 er mwyn fod yn gyson gyda'r fersiwn Saesneg. **Argymhelliad** Dylid cynnwys y geiriau 'yn uniongyrchol' ar ôl "effeithiau" yn frawddeg olaf polisi AMG2 **Newid Bychan: NB 18**
811	Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae Cynllun Gwarchod y Tirwedd newydd Arfordirol eto yn cyfyngu ar hawliau trigolion Pen Llŷn drwy eu rhwystro i godi tai yn eu hardal eu hunain. Bydd cefn gwlad yn marw ar ei thraed a gwelir diboblogi - os daw i hynny bydd diwylliant a'r arferion unigryw sy'n perthyn i gefn gwlad yn cael ei golli am	**Dim yn derbyn –** ystyrir mai sylw cyffredinol yw ac nad oes ganddo unrhyw berthnasedd i bolisi AMG1. Ni fydd ATA yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar leoliad tai yn ardal y Cynllun a fydd yn cael ei arwain gan y polisïau tai perthnasol yn yr CDLl. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				byth. Oni fydd edifar gan y Cyngor i golli adnodd mor werthfawr â hyn?	Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
880	Mr John Tripp [252]	POLISI AMG1	Cefnogi	Falch o weld 5 ardal gadwraeth yn Ynys Môn.	**Nodi.** **Argymhelliad** **Dim Newid**
892	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae'r polisi yn ceisio sicrhau nad yw datblygiad o fewn ATA yn cael effaith andwyol ar y dirwedd. Mae'r prawf a'r gofyn hwn yn rhy feichus ac yn anghymesur â statws yr ATA. Mae hefyd yn ymarferol amhosib cyflawni unrhyw ddatblygiad heb gael rhyw fath o effaith ar y diwedd.	**Derbyn yn rhannol –** derbynnir bod yr ymadrodd 'na fydd yn cael effaith andwyol' yn rhy drwm. Fodd bynnag, yn hytrach na'r newid a awgrymwyd gan y gwrthwynebydd, dylid diwygio'r geiriad i 'na fydd yn cael effaith andwyol sylweddol' er mwyn i'r geiriad fod yn gyson â gweddill y polisi. Nid polisi 'dal popeth' yw Polisi AMG2 ac mae angen ei ddarllen yng nghyd-destun yr CDLl cyfan. **Argymhelliad** Diwygio geiriad brawddeg gyntaf polisi AMG i 'dim effaith andwyol sylweddol' **Newid â ffocws: NF 83**
899	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae AMG1 yn caniatáu datblygiad i ddod yn ei flaen ar yr amod bod ei raddfa a'i natur yn addas ac na fydd effaith andwyol	**Dim yn derbyn** – ni ddylid trin y diwydiant twristiaeth yn wahanol i unrhyw fath o ddatblygiad arall. Nid yw'r polisi hwn yn rhwystro datblygiad priodol o fewn ATA ond yn amlinellu sut bydd y fath

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				ar y dirwedd. Felly, mae Polisi AMG1 yn darparu sail bolisi cadarnhaol i ddatblygiadau addas ddod yn eu blaen yn yr ATA. Hoffai Bourne Leisure bwysleisio nad oes gan bob datblygiad y gallu i effeithio'n negyddol ar dirwedd, golygfeydd cyhoeddus a gofod agored pwysig. Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylai AMG1 ddatgan yn glir bod tebygolrwydd uchel y byddai cyfleusterau twristiaeth hefyd wedi'u lleoli mewn ATA oherwydd yr angen iddynt gael eu lleoli ger yr arfordir. Mae cyfleusterau twristiaeth yn newid yn gyson, gydag ailddatblygu a rhesymoli safleoedd yn digwydd pob amser, er mwyn cwrdd ag anghenion marchnad dwristiaeth ddeinamig.	gynigion yn cael eu hystyried yn y cyd-destun cynllunio lleol. **Argymhelliad** Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**
901	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Rydym yn cefnogi'r pwyslais newydd ar warchodaeth leol trwy'r ATAu (AMG1) Dylid pwysleisio eu rôl fel cylchfeydd rhagod i warchod gosodiad yr ANHE a dylid eu hatgyfnerthu trwy ehangu ATA'u	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ystyrir bod diogelu lleoliadau'r AHNE yn cael ei gwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth bresennol ac arweiniad cynllunio cenedlaethol ac nid oes

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				sy'n agos i'r ardaloedd hynny o'r AHNE heb warchodaeth. Dylid egluro bod sgôp a bwriad AMG2 yn wahanol i AMG1. Dylid pwysleisio eu rôl fel cylchfeydd rhagod i warchod gosodiad yr ANHE a dylid eu hatgyfnerthu trwy ehangu ATA'u sy'n agos i'r ardaloedd hynny o'r AHNE heb warchodaeth.	angen eu hailadrodd ar lefel leol. **Argymhelliad** Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**
904	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Eglurhad ar fanylion y newidiadau arfaethedig i Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llŷn o gymharu ag Ardal Gwarchod y Dirwedd Gorllewin Llŷn ger Abersoch a Phwllheli a'r rhesymau am hyn.	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Mae copi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cyngor er mwyn i'r cyhoedd ei weld. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
905	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Darparu byffer SLA i warchod y rhan ogleddol o AHNE Llŷn, yn cynnwys (er enghraifft) strimyn 2km i ffurfio cefnlen i Yr Eifl a Bryniau Clynnog.	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ystyrir bod diogelu lleoliadau'r AHNE yn cael ei gwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth bresennol ac arweiniad cynllunio cenedlaethol ac nid oes angen eu hailadrodd ar lefel leol.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
906	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Dylid ehangu Ardaloedd Tirwedd Arbennig 8 a 9 sy'n amddiffyn glannau deheuol y Fenai i gynnwys yr ardaloedd sydd heb eu gwarchod ar ochr Gwynedd i'r Fenai, rhwng Bae'r Foryd a'r Felinheli, naill ochr i'r safle Treftadaeth y Byd yng Nghaernarfon. Ar wahân i amddiffyn tirwedd leol sy'n werthfawr a bregus ac ailgyflwyno cyn Ardal Gwarchod y Dirwedd, eu prif rôl fyddai darparu byffer i AHNE Ynys Môn ar ochr ogleddol y Fenai.	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ystyrir bod diogelu lleoliadau'r AHNE yn cael ei gwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth bresennol ac arweiniad cynllunio cenedlaethol ac nid oes angen eu hailadrodd ar lefel leol.. **Argymhelliad** Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**
55	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	7.5.9	Gwrthwynebu	Ni ddylid fod angen gwarchodaeth arbennig os yw ardaloedd o dir eisoes wedi'u gwarchod gan ddynodiadau tirwedd eraill sy'n cydnabod ansawdd y dirwedd dan sylw. Chwarel weithio yw safle ein cleient sydd mewn ardal a chaiff ei chydnabod am werth ei thirlun hanesyddol ac mae wedi'i dynodi yn	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i wrthwynebu'r rhesymeg y tu cefn i'r dynodiad ATA hwn a chyfiawnhau'r gostyngiad o ran arwynebedd y mae'n ymestyn drosto. Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				hynny o beth. Ni ddylid fod angen rhoi i'r ardal warchodaeth tirwedd ychwanegol pan fo'r cyfryw warchodaeth eisoes yn bodoli. Dylid edrych at leihau'r ardal sydd o fewn ATA 07 er osgoi gorgyffwrdd gyda'r ardaloedd Cofrestr Tirweddau Hanesyddol.	wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
56	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	7.5.10	Gwrthwynebu	Lle bo'r dirwedd eisoes yn cael ei gwarchod, bydd eisoes gofyn i gynigion datblygu ystyried cynnal, gwella neu adfer cymeriad ac ansawdd cydnabyddedig yr ardaloedd. O'r herwydd, mae rhoi statws Ardal Tirwedd Arbennig yn rhywbeth diangen nad oes fawr ddim pwrpas iddo o gofio lefel bresennol y warchodaeth a roddir i'r dirwedd.	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i wrthwynebu'r rhesymeg y tu cefn i'r dynodiad ATA hwn a chyfiawnhau'r gostyngiad o ran arwynebedd y mae'n ymestyn drosto. Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
426	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs	7.5.10	Gwrthwynebu	Rydym yn cefnogi'r polisi yma i ddiogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Ond yn ein	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Ann Coxon) [2940]			barn ni, dylid cynnwys Cwmorthin ymysg y rhain. Mae'r ardal hon yn sicr yn ardal sy'n arbennig o drawiadol a hardd, ac sy'n haeddu cael ei gwarchod yn arbennig.	Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ar Ynys Môn, roedd yr hen Ardal Tirwedd Arbennig yn ymestyn bron dros ardal yr Awdurdod Unedol cyfan. Mae'r ATA newydd yn disodli'r hen ddynodiad a bellach ond yn ymwneud â rhannau penodol o ardal yr Awdurdod Unedol. O ganlyniad, ni ddylid ystyried ATA fel dynodiad newydd ac ni fydd ganddynt oblygiadau mwy i fusnesau a thrigolion lleol na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd dynodiad ffurfiol yr ATA yn cael ei wneud trwy broses ymgynghori'r CDLl ar y Cyd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
275	Mr Myrddin Roberts [2858]	7.5.11	Gwrthwynebu	Ni chafwyd trafodaethau gyda'r Cynghorau Cymuned a'r tirfeddianwyr perthnasol yng nghyswllt yr Ardal Tirwedd Arbennig o'r enw Llethrau Coediog Biwmares a Glen Llangoed. Does bosib y dylid fod wedi rhoi gwybod i bawb oedd â diddordeb am y dynodiad newydd hwn a'i oblygiadau ar eu busnesau, eu tir a'u cartrefi. Mae'r newid a'r ychwanegiad pwysig hwn i bolisïau	**Dim yn derbyn -** Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ar Ynys Môn, roedd yr hen Ardal Tirwedd Arbennig yn ymestyn bron dros ardal yr Awdurdod Unedol cyfan. Mae'r ATA newydd yn disodli'r hen ddynodiad a bellach ond yn ymwneud â rhannau penodol o ardal yr Awdurdod Unedol. O ganlyniad, ni ddylid ystyried ATA fel dynodiad newydd ac ni fydd ganddynt oblygiadau mwy i fusnesau a thrigolion lleol na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd dynodiad ffurfiol yr ATA yn cael ei wneud trwy

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				cynllunio yn haeddu mwy o fewnbwn gan randdeiliaid. Nid yw'n ddigon datgan mai hwn yw'r amser am sylwadau'r cyhoedd pan nad yw'r wybodaeth fanwl wedi bod ar gael i ni ac na chafwyd y trafodaethau angenrheidiol gydag aelodau o Uned y Cynllun Datblygu ar y Cyd.	broses ymgynghori'r CDLl ar y Cyd. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

AMG2 – Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau Sydd yn Unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
236	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Awgrymu dyblygu gyda Pholisi AMG1. Dylai'r polisi gael ei ddiwygio i gynnwys y geiriau effaith "hir dymor" sydd yn galluogi echdynnu mwynau gymryd lle dros dro gan gyfeirio at gynigion adfer fod yn "unol â'r" nòd "hir dymor" i ddiogelu ardaloedd tirlun arbennig.	**Dim yn derbyn -** Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau mewn ATA ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio. Cyfeiria Polisi AMG2 at Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac nid i ATA. Mae Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn ymestyn dros ardal gyfan Ynys Môn a Gwynedd ac fe'u diffinnir yn y Strategaeth Tirwedd ar gyfer pob awdurdod. O ganlyniad, mae'r polisi'n ymwneud â'r dirwedd ehangach na'r rhai sydd wedi'u cynnwys mewn ATA.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				Awgrymir cyfuno gyda pholisi AMG1.	**Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
237	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Awgrymu dyblygu gyda Pholisi AMG1. Dylai'r polisi gael ei ddiwygio i gynnwys y geiriau effaith "hir dymor" sydd yn galluogi echdynnu mwynau gymryd lle dros dro gan gyfeirio at gynigion adfer fod yn "unol â'r" nòd "hir dymor" i ddiogelu ardaloedd tirlun arbennig. Awgrymir cyfuno gyda pholisi AMG1.	**Dim yn derbyn -** Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio. Cyfeiria Polisi AMG2 at Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac nid i ATA. Mae Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn ymestyn dros ardal gyfan Ynys Môn a Gwynedd ac fe'u diffinnir yn y Strategaeth Tirwedd ar gyfer pob awdurdod. O ganlyniad, mae'r polisi'n ymwneud â'r dirwedd ehangach na'r rhai sydd wedi'u cynnwys mewn ATA. **Argymhelliad** Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					Dim Newid
330	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'u cynnwys yn ddigonol yn AMG1. Er mwyn gwell eglurder dylai AMG2 gael ei aralleirio i warchod y dirwedd ehangach a nodweddion pwysig tirweddau lleol Gwynedd a Môn. Dileu'r cyfeiriad at ATA a sicrhau fod y polisi'n berthnasol i'r dirwedd ehangach.	**Dim yn derbyn –** Cyfeiria Polisi AMG2 at Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac nid i ATA. Mae Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn ymestyn dros ardal gyfan Ynys Môn a Gwynedd ac fe'u diffinnir yn y Strategaeth Tirwedd ar gyfer pob awdurdod. O ganlyniad, mae'r polisi'n ymwneud â'r dirwedd ehangach na'r rhai sydd wedi'u cynnwys mewn ATA. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
809	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Mae'n bolisi canmoladwy ond braidd yn gymhleth a chredi y gall fod yn anodd ei weithredu.	**Dim yn derbyn –** ystyrir bod ystyr y polisi'n ddigon clir a bod modd ei weithredu. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
886	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI AMG2	Cefnogi	Mae polisïau AMG2, AMG3 ac AMG4 yn cyfeirio at nodweddion a rhinweddau sy'n unigryw i'r amgylchedd lleol, gwarchod yr arfordir a chadwraeth bioamrywiaeth leol. Rydym yn cefnogi'r polisïau hyn sy'n	**Nodi** **Argymhelliad** **Dim Newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				arfordir sy'n cyd-fynd gydag amcanion Cyfeillion Borth y Gest.	
893	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Nid yw'r polisi yn gosod gofyn cymhwyso fod angen i effeithiau fod yn 'sylweddol'. Effaith andwyol yn unig yw'r gofyn. Nid yw hyn yn briodol gan y gellir tybio y gall unrhyw ddatblygiad gael effaith andwyol mewn rhyw ffurf neu'i gilydd ar y dirwedd. Yn ogystal, nid yw'r polisi yn caniatáu ar gyfer cydbwyso buddion economaidd, cymdeithasol nac amgylcheddol prosiect (adfer a dymchwel safle wedi'i halogi ac adeiladau mawr), o gymharu â'r effaith ar y dirwedd yn deillio o ddatblygiad ar raddfa fechan.	**Derbyn yn rhannol –** derbynnir y dylai 'sylweddol' ddisodli 'andwyol' yn y frawddeg gyntaf a dylid ei gynnwys hefyd cyn 'andwyol' yn ail frawddeg polisi AMG2. Nid polisi 'dal popeth' yw Polisi AMG2 ac mae angen ei ddarllen yng nghyd-destun yr CDLl cyfan gan gynnwys y rhannau hynny sy'n cyfeirio at yr economi a datblygu cynaliadwy. **Argymhelliad** Dylai 'sylweddol' ddisodli 'andwyol' yn y frawddeg gyntaf a dylid ei gynnwys hefyd cyn 'andwyol' yn ail frawddeg polisi AMG2. **Newid â ffocws: NF 84**
1445	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Byddwn yn awgrymu bod enw'r polisi yma'n cael ei newid i warchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn 'nodedig neu arbennig' i gymeriad y dirwedd yn hytrach na 'unigryw'.	**Derbyn –** Ystyrir y dylid defnyddio'r gair 'nodedig' yn hytrach nag 'unigryw' yn nheitl AMG2. **Argymhelliad** Dylid defnyddio'r gair 'arbennig' yn hytrach nag 'unigryw' yn nheitl AMG2. **Newid â ffocws: NF 84**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
1446	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Dylid newid maen prawf 3 i ddarllen "cynllun aneddleoedd a mathau o ffiniau".	**Dim yn derbyn –** Nid ystyrir y byddai'r geiriad a awgrymir yn gwella eglurder y maen prawf. At hynny, ymdrinnir â 'mathau o ffin' gan 'nodweddion traddodiadol'. **Argymhelliad** Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**
57	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	7.5.12	Gwrthwynebu	Caiff y safle sy'n cynnwys safle ein cleient ei warchod gan ddynodiad tirwedd hanesyddol yr ystyrir sy'n ddigon i gynnal yr olygfa a'r ymdeimlad o le unigryw. Mae'n eironig y gallai gwarchod nodweddion tirwedd - nodweddion na fyddai wedi bod yno pe na cheid diwydiant cloddio mwynau - gael effaith ar waith datblygu'r chwarel ymhellach. Mae Dyffryn Nantlle'n adnabyddus am ei dreftadaeth chwareli llechi ac mewn ardal lle gallai swyddi o ansawdd da fod yn brin, mae gwaith cloddio a phrosesu llechi'n sail i greu swyddi er mwyn cadw'r bobl leol mewn diwydiant sy'n	**Dim yn derbyn –** nid yw paragraff 7.5.12 yn cyfeirio at ATA. Nid yw'r gwrthwynebiad hwn yn berthnasol i'r paragraff dan sylw. Gwnaed arsylw tebyg hefyd gan y gwrthwynebydd mewn perthynas â pholisi AMG1. **Argymhelliad** Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				nodweddiadol o'r ardal o ran tirwedd a diwylliant.	

AMG3 – Gwarchod yr Arfordir

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
810	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI AMG3	Gwrthwynebu	Dynodiad lleol yw'r Arfordir Treftadaeth sydd yn dilyn ffin arfordirol yr AHNE i raddau helaeth y Llŷn. Credir y dylai'r polisi adlewyrchu'r dynodiad yn fwy cadarnhaol drwy roi mwy o warchodaeth i'r AT.	**Dim yn derbyn –** ystyrir yr eir i'r afael yn ddigonol â phwysigrwydd yr Arfordir Treftadaeth ym mholisi AMG3 a pharagraff 7.5.17. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**
887	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI AMG3	Cefnogi	Polisïau AMG2, AMG3 ac AMG4 sy'n ymwneud â nodweddion a rhinweddau sy'n unigryw i'r dirwedd leol, i ddiogelu arfordiroedd ac i warchod bioamrywiaeth leol.	**Nodi** **Argymhelliad** **Dim Newid**

AMG4 – Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
238	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	Awgrymu bod y polisi'n ailadrodd polisi cenedlaethol, yn anhylaw ac mae angen i'r geiriad fod yn hyblyg gan na roddwyd diffiniad na hierarchaeth o ran safleoedd cloddio mwynau. Awgrymir cyfuno gyda Pholisi AMG5 a newid yr eirfa yn y frawddeg gyntaf i "Dylai cynigion, os yn briodol, gwarchod, a gwella bioamrywiaeth sydd wedi ei adnabod i fod yn bwysig i'r ardal leol".	**Derbyn yn rhannol -** cytunir y dylid dileu'r cyfeiriad at safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol er osgoi ail adrodd polisi cenedlaethol. Ymdrinnir â materion mwynau mewn manylder penodol rywle arall. Yn wahanol i AMG4, cyfeiria AMG5 yn unig at y safleoedd lleol nad ydynt yn mwynhau diogelwch statudol yn y ffordd y mae SoDdGA ac ACA yn ei wneud. Diffinnir lefel y diogelwch a roddir i'r safleoedd lleol hyn yn yr CDLl ac felly mae'n briodol cael hyn fel polisi ar wahân. **Argymhelliad** I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. **Newid â ffocws: NF 86**
239	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	Awgrymu bod y polisi'n ailadrodd polisi cenedlaethol, yn anhylaw ac mae angen i'r geiriad fod yn hyblyg gan na roddwyd diffiniad na hierarchaeth o ran safleoedd cloddio mwynau. Awgrymir cyfuno gyda Pholisi AMG5 a	**Derbyn yn rhannol -** cytunir y dylid dileu'r cyfeiriad at safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol er osgoi ail adrodd polisi cenedlaethol. Ymdrinnir â materion mwynau mewn manylder penodol rywle arall. Yn wahanol i AMG4, cyfeiria AMG5 yn unig at y safleoedd lleol nad ydynt yn mwynhau diogelwch statudol yn y ffordd y mae SoDdGA ac ACA yn ei

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				newid yr eirfa yn y frawddeg gyntaf i "Dylai cynigion, os yn briodol, gwarchod, a gwella bioamrywiaeth sydd wedi ei adnabod i fod yn bwysig i'r ardal leol".	wneud. Diffinnir lefel y diogelwch a roddir i'r safleoedd lleol hyn yn yr CDLl ac felly mae'n briodol cael hyn fel polisi ar wahân. **Argymhelliad** I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. **Newid â ffocws: NF 86**
333	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI AMG4	Cefnogi	Rydym yn croesawu'r warchodaeth a roddir i fioamrywiaeth trwy'r polisi hwn.	**Nodi** **Argymhelliad** **Dim Newid**
462	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	Newid pwynt 1 i ddatgan mai dim ond safleoedd amgen sydd â pherthynas rhesymol i safle'r cais sydd angen eu hystyried i fodloni'r polisi yma. Dylid newid pwynt 2 i gydnabod bod rhai safleoedd eisoes o fewn ardaloedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol. Dylid caniatáu rhagor o ddatblygu yn y lleoliadau yma cyn belled a bod bioamrywiaeth yn cael ei	**Derbyn yn rhannol** - ystyrir bod y geiriad Maen Prawf 1 yn ddigonol i gwmpasu pryderon y gwrthwynebydd mewn perthynas â'r angen i fod yn 'gysylltiedig yn rhesymol' â safle'r cais. Serch hynny, dylid ychwanegu'r gair 'addas' ar ôl "safle amgen arall" yn y fersiwn Cymraeg diwygiedig o'r polisi er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r fersiwn Saesneg y polisi. Mewn perthynas â Maen Prawf 2, derbynnir sylwadau'r gwrthwynebydd a diwygiwyd y geiriad trwy roi'r geiriau "ardrawiad niweidiol sylweddol" i

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				warchod a'i wella.	mewn ar ôl "osgoi" yn y polisi diwygiedig. **Argymhelliad** I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. **Newid â ffocws: NF 86**
888	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI AMG4	Cefnogi	Polisïau AMG2, AMG3 ac AMG4 sy'n ymwneud â nodweddion a rhinweddau sy'n unigryw i'r dirwedd leol, i ddiogelu arfordiroedd ac i warchod bioamrywiaeth leol. Rydym yn cefnogi'r polisïau hyn sy'n unol ag amcanion Cyfeillion Borth-y-Gest.	**Nodi** **Argymhelliad** **Dim Newid**
897	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	Nid yw AMG4 yn darparu sail bositif i ddatblygiadau addas ddod yn eu blaen a gall rwystro datblygiadau addas. Dylid diwygio Pwynt 1 i ddatgan mai dim ond safleoedd amgen sy'n rhesymol berthnasol i safle'r cais a ddylid eu hystyried i fodloni'r polisi hwn. Mae	**Derbyn yn rhannol** - ystyrir bod y geiriad Maen Prawf 1 yn ddigonol i gwmpasu pryderon y gwrthwynebydd mewn perthynas â'r angen i fod yn 'gysylltiedig yn rhesymol' â safle'r cais. Serch hynny, dylid ychwanegu'r gair 'addas' ar ôl "safle amgen arall" yn y fersiwn Cymraeg diwygiedig o'r polisi er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r fersiwn Saesneg y polisi. Mewn perthynas â Maen Prawf 2, derbyniwyd

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				Bourne Leisure yn credu ei bod yn anaddas asesu safleoedd amgen nad ydynt yn rhesymol berthnasol i'r safle presennol. Dylid diwygio Pwynt 2 i gydnabod bod rhai datblygiadau eisoes yn bodoli o fewn ardaloedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol. Dylid caniatáu datblygu ymhellach yn y lleoliadau hyn ar yr amod fod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i gwella. Creda Bourne Leisure ei bod yn bwysig i Ynys Môn a Gwynedd ddefnyddio dull cytbwys a phragmatig o ran cynigion datblygu sydd â'r gallu i amharu ar fioamrywiaeth. Mae Bourne Leisure yn nodi fod gan ddatblygiadau penodol hefyd y potensial i gynhyrchu cynnydd net mewn gwerth bioamrywiaeth trwy greu cynefinoedd.	sylwadau'r gwrthwynebydd a diwygiwyd y geiriad trwy roi'r geiriau "effeithiau niweidiol sylweddol" i mewn ar ôl "osgoi" yn y polisi diwygiedig. **Argymhelliad** I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. **Newid â ffocws: NF 86**
1073	Llywodraeth	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	Angen ailddrafftio pellach. Mae'r polisi	**Derbyn** - ystyrir y dylid ailddrafftio'r polisi. Ni fydd yr ail-eirio arfaethedig yn effeithio ar gadernid y

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Cymru (Mr Mark Newey) [1561]			drafft ar hyn o bryd yn ymddangos yn rhy feichus ar gyfer ystyried cynigion datblygu ar dir dynodedig lle mae materion cadwraeth natur leol anstatudol.	Cynllun. **Argymhelliad** I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. **Newid â ffocws: NF 86**
1440	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	Nid ydym wedi ystyried effeithiau posib ar bob budd lleol neu ranbarthol. Felly, ni ddylid anwybyddu'r posibilrwydd o effeithiau andwyol ar y rhain, a fyddai'n berthnasol i ddyletswydd gyffredinol sydd gan yr Awdurdod i roi ystyriaeth i warchod bioamrywiaeth fel y gwelir yn Neddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006). Mae'r cyngor yma'n cynnwys ystyriaeth i ddarpariaeth arfaethedig o gynefinoedd llinellol a cherrig sarn a ddiffinnir yn Rhan 10 o'r Cyfarwyddyd Cynefinoedd.	**Derbyn yn rhannol -** er yn derbyn y sylwadau, ystyrir bod y materion a nodir gan y gwrthwynebydd eisoes wedi eu cynnwys ym mholisi AMG4. Hefyd, ystyrir y dylai ailddrafftio'r geiriad ym mholisi AMG4 - fel y bwriedir - fod o gymorth i wella eglurder y polisi hwn. **Argymhelliad** I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. **Newid â ffocws: NF 86**
1675	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	O ran Polisi PS16 ac AMG4 mae ANC'n cwestiynu a oes angen y ddau bolisi ac a	**Dim yn ei dderbyn -** mae PS16 yn cyfeirio at yr amgylchedd naturiol ac yn weithredol ar raddfa ehangach gan ei fod yn fwy trosfwaol - fel y dengys

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]			ddylid eu hymgorffori mewn un Polisi 'Bioamrywiaeth'. Trwy gael un polisi, fel Polisi NTE/3 CDLl Conwy, byddai'n rhoi'r strwythur polisi i ddiogelu rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol yn ogystal â chyfeirio at yr angen i gyrraedd targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Dylai'r polisi gynnwys coeden sy'n diffinio'n eglur y lefel o ddiogelwch i'w gynnig i safleoedd a rhywogaethau, a chynnwys cyfeiriad at y rhywogaethau yn Adran 42 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1991 mae dyletswydd ar yr Awdurdod i'w diogelu o dan Ddeddf NERC (2006).	y teitl 'Polisi Strategol', tra bod AMG4 yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch gweithredu'r polisi hwn gan ei fod yn cyfeirio mewn modd ymarferol at achosion cynllunio bioamrywiaeth ar lefel leol, sydd yn llai eang nag 'amgylchedd naturiol'. Ar sail hyn, ystyrir y gellir cyfiawnhau'r ddau bolisi ar wahân. Caiff canllawiau polisi ar ddiogelu rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol eu hamlinellu yn PCC ac ni ddylid eu hailadrodd yn y CDLl. O ganlyniad mae AMG4 yn canolbwyntio ar rywogaethau bywyd gwyllt a chynefinoedd sydd yn bwysig ar lefel leol. **Argymhelliad** Ni dderbyniwyd tystiolaeth gadarn a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cywirdeb y Cynllun. **Dim newid**

AMG5 – Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol Neu Leol

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
164	Rod Dixon [2774]	POLISI AMG5	Gwrthwynebu	Mae Ynys Môn yn debygol o gael statws geoparc byd-eang UNESCO. Dylai hwn gael ei gynnwys fel ardal dan warchodaeth. Cynnwys safleoedd	**Dim yn ei dderbyn -** mae statws Geoparc yn ymwneud a chydnabod ansawdd uchel y dreftadaeth ddaearegol leol, lle gallai gwell gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r dreftadaeth

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				UNESCO a geoparc byd-eang fel ardaloedd dan warchodaeth.	ddaearegol honno fod o fudd i bobl a busnesau lleol trwy gyfrwng mentrau twristiaeth ac addysg. Nid oes gan statws Geoparc unrhyw sail ddeddfwriaethol nac unrhyw oblygiadau o safbwynt cynllunio defnydd tir. Er y gellid defnyddio'r un ddadl yn achos Safleoedd Treftadaeth y Byd, mae'n rhaid nodi bod PCC yn darparu canllawiau ar sut y dylid diogelu STB o fewn y fframwaith gynllunio genedlaethol. Hefyd, mae Geoparciau eisoes wedi eu diogelu trwy bolisïau CDLl eraill, er enghraifft PS17 (ail bwynt bwled) a pholisi AMG5. **Argymhelliad** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth gadarn a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cywirdeb y Cynllun. **Dim newid**
192	Mrs Irene Stott [2780]	POLISI AMG5	Gwrthwynebu	Mae Ynys Môn yn debygol o gael statws geoparc byd-eang UNESCO. Dylai hwn gael ei gynnwys fel ardal dan warchodaeth. Cynnwys safleoedd UNESCO a geoparc byd-eang fel	**Dim yn ei dderbyn -** mae statws Geoparc yn ymwneud a chydnabod ansawdd uchel y dreftadaeth ddaearegol leol, lle gallai gwell gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r dreftadaeth ddaearegol honno fod o fudd i bobl a busnesau lleol trwy gyfrwng mentrau twristiaeth ac addysg. Nid oes gan statws Geoparc unrhyw sail

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				ardaloedd dan warchodaeth.	ddeddfwriaethol nac unrhyw oblygiadau o safbwynt cynllunio defnydd tir.. Er y gellid defnyddio'r un ddadl yn achos Safleoedd Treftadaeth y Byd, mae'n rhaid nodi bod PCC yn darparu canllawiau ar sut y dylid diogelu STB o fewn y fframwaith gynllunio genedlaethol. Hefyd, mae Geoparciau eisoes wedi eu diogelu trwy bolisïau eraill yn y CDLl, er enghraifft PS17 (ail bwynt bwled) a pholisi AMG5 **Argymhelliad** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth gadarn a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cywirdeb y Cynllun. **Dim newid**
240	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI AMG5	Gwrthwynebu	Dylai'r polisi edrych yn fwy cadarnhaol ar ddatblygiadau cloddio mwynau a chefnogi safleoedd presennol ac estyniadau i safleoedd presennol dros ddatblygiadau newydd. Awgrymu ymuno â pholisi AMG4 er mwyn caniatáu Asesiad Ecolegol i gefnogi	**Dim yn derbyn** - Mae'n bosibl y gall cloddio mwynau effeithio'n sylweddol ar ecoleg a dylid ystyried pob achos yn unigol; nid oes unrhyw gyfiawnhad ecolegol dros drin y diwydiant hwn yn wahanol i unrhyw ddiwydiant arall. Yn wahanol i AMG4, mae AMG5 yn cyfeirio'n benodol at safleoedd lleol nad ydynt yn cael eu hamddiffyn yn statudol fel y byddai SoDdGA neu

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				datblygiad y safleoedd.	ACA. Caiff lefel yr amddiffyniad a roddir i'r safleoedd hyn ei ddiffinio yn y CDLl ac felly ymddengys ei bod yn addas cadw hwn yn bolisi ar wahân. **Argymhelliad** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth gadarn a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cywirdeb y Cynllun. **Dim newid**
241	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI AMG5	Gwrthwynebu	Dylai'r polisi edrych yn fwy cadarnhaol ar ddatblygiadau cloddio mwynau a chefnogi safleoedd presennol ac estyniadau i safleoedd presennol dros ddatblygiadau newydd.	**Dim yn ei dderbyn** - Mae'n bosibl y gall cloddio mwynau effeithio'n sylweddol ar ecoleg a dylid ystyried pob achos yn unigol; nid oes unrhyw gyfiawnhad ecolegol dros drin y diwydiant hwn yn wahanol i unrhyw ddiwydiant arall. Yn wahanol i AMG4, mae AMG5 yn cyfeirio'n benodol at safleoedd lleol nad ydynt yn cael eu hamddiffyn yn statudol fel y byddai SoDdGA neu ACA. Caiff lefel yr amddiffyniad a roddir i'r safleoedd hyn ei ddiffinio yn y CDLl ac felly ymddengys ei bod yn addas cadw hwn yn bolisi ar wahân. **Argymhelliad** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth gadarn a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					mwyn sicrhau cywirdeb y Cynllun. **Dim newid**
338	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI AMG5	Gwrthwynebu	Rydym yn croesawu'r gefnogaeth a roddir i safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol neu leol. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod yr ail baragraff yn dechrau gydag 'os' yn hytrach na 'pan';	**Dim yn ei dderbyn -** Dim yn cytuno hefyd i newid y geiriad o 'pan' i 'os' gan fod o farn bod y geiriad presennol yn ddigonol. **Argymhelliad** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth gadarn a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cywirdeb y Cynllun. **Dim newid**
889	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI AMG5	Gwrthwynebu	Byddem yn falch petai AMG5, sy'n cyfeirio'n benodol at warchodfeydd natur leol, yn cyfeirio at dabl sy'n rhestru gwarchodfeydd o'r fath.	**Dim yn ei dderbyn -** Mae Gwarchodfeydd Natur leol eisoes wedi eu nodi ar y Map Cyfyngiadau **Argymhelliad** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth gadarn a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cywirdeb y Cynllun. **Dim newid**
890	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI AMG5	Gwrthwynebu	Ceisia'r polisi hwn warchod ardaloedd a nodir yn y Cynllun am eu diddordeb ecolegol. Noder bod tir safle Dynamex	**Dim yn derbyn -** Mae'r frawddeg olaf ond un ym mholisi AMG5 yn cyfeirio at 'fesurau lliniaru priodol'. Nid oes unrhyw beth yn y polisi sydd yn gwahardd defnyddio technegau lliniaru safonol i

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				Friction gynt o fewn Safle Bywyd Gwyllt Plas Brereton ond mae ynddo lefelau sylweddol o halogiad ac mae angen ei adfer. Nid yw'r polisi ar ffurf drafft yn caniatáu defnyddio technegau lleddfu safonol i ymdrin ag unrhyw fywyd gwyllt neu gynefinoedd ar y safle fyddai'n destun gwaith dymchwel neu adfer. Felly, nid yw'r Polisi yn cydymffurfio â Phrawf Cadernid C2 gan nad yw'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a CE2 gan nad yw'n realistig wrth ystyried dewisiadau eraill. Dylid ailysgrifennu'r polisi i alluogi defnyddio technegau lleddfu ar y safle a thechnegau eraill fel sy'n arferol ar gyfer safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen a safleoedd bywyd gwyllt anstatudol a warchodir.	ymdrin ag unrhyw fywyd gwyllt neu gynefinoedd ar safle a fyddai yn destun gwaith dymchwel neu adnewyddu. Byddai'n rhaid i'r mesurau/methodoleg lliniaru penodol gael eu cytuno gyda'r ACLl fesul achos er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol ar y safleoedd yn ystod cyfnodau gwaith o'r fath. Gallai hyn gynnwys yr effaith niweidiol byr dymor (dros dro) na ellir ei osgoi er mwyn sicrhau canlyniadau buddiol yn y tymor hir. **Argymhelliad** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth gadarn a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cywirdeb y Cynllun. **Dim newid**

Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth

Cefndir a Chyflwyniad

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
487	Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959]	7.5.28	Gwrthwynebu	Beth am adeiladau o bwys lleol (rhestr leol?) a/neu gofebion, safleoedd, neu asedau eraill?	**Dim yn derbyn -** nid yw'r rhestr asedau treftadaeth ym mharagraff 7.5.8 yn gynhwysfawr ac nid yw'n gwrthod gwarchodaeth i fathau eraill o asedau treftadaeth. Er enghraifft, mae Polisi AT3 eisoes yn ymdrin ag 'Asedau treftadaeth nad ydynt wedi'i dynodi sydd o arwyddocâd Lleol neu Ranbarthol' a Pholisi AT4 'Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi' Ar y funud nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cofrestr o adeiladau sydd o bwysigrwydd lleol. Nid yw Cynghorau Gwynedd nac Ynys Môn yn darparu rhestrau o'r fath. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
501	Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959]	7.5.30	Gwrthwynebu	Mae'n werth nodi'n fanwl y byddir yn ymgynghori â Cadw ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd a'u bod yn rhanddeiliaid/partneriaid yn y broses hon o wneud penderfyniadau	**Dim yn derbyn -** mae nifer y buddiannau yr ymgynghorir arnynt wrth drafod gwahanol fathau o geisiadau cynllunio yn sylweddol iawn. Mae dyletswydd statudol ar y system cynllunio defnydd tir i ymgynghori ar fuddiannau penodol yn unol â'r math o gais cynllunio sydd dan sylw. O ganlyniad, credir na fyddai diben ailadrodd y drefn o safbwynt rhanddeiliaid/partneriaid o fewn testun y CDLl ar y Cyd. **Argymhelliad**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

PS17 – Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
58	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	POLISI STRATEGOL PS17	Gwrthwynebu	Nid oes angen cyfeirio at Safle sy'n ceisio statws Treftadaeth y Byd gan na fydd statws treftadaeth y byd yn berthnasol iddynt. Yn hytrach, byddai'n fwy ymarferol newid y testun sy'n cyfeirio'n benodol at safleoedd treftadaeth y byd penodol (maen prawf 4) i gynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd yn gyffredinol fel pe byddai safle arfaethedig yn cael ei gadarnhau, câi ei gynnwys yn awtomatig dan faen prawf 4. O gofio nad oes gan safleoedd arfaethedig fawr ddim statws, os o gwbl, nid oes mawr o bwrpas cynnwys maen prawf penodol ar eu cyfer. Yr hyn sy'n ddiddorol yw na wneir cyfeiriad ym mholisi manwl AT1 at Safleoedd sy'n	**Dim yn derbyn -** mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn awr yn paratoi cais i'r ADCCh (DCMS) ar gyfer enwebu diwydiant llechi Gogledd Cymru i'w gynnwys gan UNESCO fel STB. Er mwyn gyrru'r gwaith yn ei flaen bydd yn rhaid i Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid brofi bod ganddynt fesurau mewn lle i ddiogelu nodweddion lleol sydd o bosibl yn arddangos gwerth byd-eang arbennig. Ystyrir y bydd cydnabod y cais am statws STB o fewn y CDLl ar y Cyd yn cwrdd â'r gofyn hwn. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				ceisio statws Treftadaeth y Byd.	
242	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI STRATEGOL PS17	Gwrthwynebu	Ni ddiffinnir y cyfeiriad at "ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol" ym mhwynt un. Unwaith eto, ystyrir hwn yn bolisi dal popeth. Awgrymir dileu "ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol" o bwynt un oherwydd y sgôp ystod eang a sut y gellir atal datblygiadau alldynnu mwynau.	**Dim yn derbyn** - Mae maen prawf 1 yn PS17 wedi ei groes gyfeirio at bolisi AT4 ac ystyrir ei bod yn rhesymol cynnwys "ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol" o fewn cyd-destun Polisi PS17. Mae Polisi PS17 yn darparu'r cyd-destun ar gyfer polisi manwl AT4. Mae PS17 ac AT4 yn adlewyrchu pwysigrwydd safleoedd archeolegol nad ydynt wedi eu dynodi i dreftadaeth ardal y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
243	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI STRATEGOL PS17	Gwrthwynebu	Ni ddiffinnir y cyfeiriad at "ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol" ym mhwynt un. Unwaith eto, ystyrir hwn yn bolisi dal popeth. Awgrymir dileu "ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol" o bwynt un oherwydd y sgôp ystod eang a sut y gellir atal datblygiadau alldynnu mwynau.	**Dim yn derbyn -** Mae maen prawf 1 yn PS17 wedi ei groes gyfeirio at bolisi AT4 ac ystyrir ei bod yn rhesymol cynnwys "ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol" o fewn cyd-destun Polisi PS17. Mae Polisi PS17 yn darparu'r cyd-destun ar gyfer polisi manwl AT4. Mae PS17 ac AT4 yn adlewyrchu pwysigrwydd safleoedd archeolegol nad ydynt wedi eu dynodi i dreftadaeth ardal y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
427	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	POLISI STRATEGOL PS17	Cefnogi	Mae Cyngor Tref Ffestiniog yn cefnogi'r ymgais i gydnabod ardaloedd y llechi fel Safle Treftadaeth y Byd. Fe fyddai hyn yn rhoi cyfleoedd economaidd a chymdeithasol i'r ardaloedd hyn, a fyddai'n elwa'n fawr o'r herwydd. Mae hyn yn ffordd wych i wneud y gorau o adnoddau naturiol yr ardal. Fe fyddai hyn yn adeiladu ar gryfderau'r ardal a'r Sir, gan roi statws arbennig i Gymru.	**Nodi** **Argymhelliad** **Dim newid**
649	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI STRATEGOL PS17	Gwrthwynebu	Mae Polisi PS17 Borth y Gest yn cynnwys heneb hynafol restredig a ddangosir ar y map cyfyngiadau. Mae map Ardal Cymeriad Morwedd y cyfeirir ato yn y Drafft Adnau yn cynnwys ar gyfer yr aber ym Mhorthmadog, rhestr o henebion rhestredig allweddol ond nid yw'n cynnwys "Grŵp o Gytiau Cerrig o Oes yr Haearn hyd at y cyfnod Brythonaidd-Rhufeinig ym Mharc y Borth". Dywedodd Cadw wrthym yn ddiweddar	**Dim yn derbyn** - Cafodd yr Astudiaeth Ardal Cymeriad Morlun ei llunio gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (sydd erbyn hyn yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru) ac mae y tu allan i sgôp y broses CDLl ar y Cyd. Fodd bynnag, dangosir y safle ar y Map Cyfyngiadau ac amlinellir y warchodaeth a roddir i Henebion Rhestredig yn Nhabl 25 :- Rhestr o Asedau Hanesyddol o fewn y Cydgynllun Datblygu Lleol **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				"Mae'r heneb o gryn ddiddordeb oherwydd ei bod wedi goroesi mewn iseldir ble mae'r math hwn o safle wedi'i adeiladu o bridd yn brin. Mae o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd y posibilrwydd y bydd yn gwella ein gwybodaeth am arferion aneddiadau cynhanes. Mae hwn yn grair pwysig yn deillio o'r dirwedd gynhanes ac mae potensial archeolegol sylweddol iddo." Y brif ddogfen cyfeirnod ar gyfer astudiaeth y safle yw "PARCYBORTH CYFEIRNOD ARCHEOLEGOL G1764 - Adroddiad Rhif: 484 - Paratowyd ar gyfer Cyngor Gwynedd - MAI 2003. Dymunir i'r safle cael sylw penodol fel nodwedd sale treftadaeth bwysig.	**Dim newid**
692	Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	POLISI STRATEGOL PS17	Cefnogi	Nodi cefnogaeth bositif iawn i'r cais Safle Treftadaeth y Byd - Diwydiant Llechi.	**Nodi** **Argymhelliad** **Dim newid**
695	Robert	POLISI	Gwrthwynebu	Yr angen i wneud rhywbeth i warchod a	**Derbyn yn rhannol -** Caiff y polisi cynllunio ar y warchodaeth a roddir i adeiladau rhestredig ei amlinellu

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Llewelyn Jones [3058]	STRATEGOL PS17		rhoi'r adeiladau rhestredig Gradd II hyn i'r cyhoedd. Ar hyn o bryd maent ar gau i unrhyw dwristiaid a phobl leol sy'n dymuno eu gweld. Hoffwn gynnwys yr adeiladau rhestredig arbennig iawn hyn yn y cynllun. Mae Polisi Strategol 16/17 yn datgan mai bwriad y cynllun yw diogelu hanes a thirwedd ardal y Cynllun. Nid yw'n ymddangos fod yr ardal hon yn rhan o friff ein hawdurdod lleol. Ni chaiff ei glustnodi na'i nodi yn y cynllun ei bod o unrhyw arwyddocâd. Rwy'n gofyn i'r ardal hon gael ei chlustnodi a'i nodi ar fap yr ardal fel adeiladau rhestredig.	ym Mholisi Cynllunio Cymru ac oherwydd hynny ni chaiff ei ailadrodd yn y CDLl ar y Cyd. Ni fyddai Polisi PS17 na Deddfwriaeth yn gallu newid caniatáu mynediad i'r cyhoedd i bob ased treftadaeth. Mae Polisïau PS16 a PS17 o'r Polisïau Cynllunio Strategol yn ymdrin â holl ardal y Cydgynllun Polisi, felly ni ddylid bod angen dethol unrhyw ardaloedd. Fodd bynnag, fe nodir nad yw adeiladau rhestredig wedi eu nodi ar y Map Cyfyngiadau rhyngweithiol. Bydd cynnwys adeiladau rhestredig ar y map hwn o gymorth i wneud darpar ddatblygwyr yn ymwybodol ohonynt. **Argymhelliad** Dim newid i'r CDLl ar y Cyd ond cynnwys adeiladau rhestredig ar y map Cyfyngiadau rhyngweithiol. **Newid Ffocws: NF 137**
696	Robert Llewelyn Jones [3058]	POLISI STRATEGOL PS17	Gwrthwynebu	Gofyn i'r Morglawdd Mawr yng Nghaergybi fod yr un fath â'r ddau gastell Treftadaeth. Dylai'r Map Cyfyngiadau gynnwys y Morglawdd Mawr yng Nghaergybi a dylai'r strwythur dderbyn proffil uwch ochr yn ochr â phroffil Castell Biwmares a Chastell Caernarfon oherwydd ei	**Dim yn derbyn** – Mae cestyll Biwmares a Chaernarfon yn safleoedd sydd wedi eu dynodi yn Safleoedd Treftadaeth y Byd gan UNESCO. Cydnabyddir pwysigrwydd hanesyddol y Morglawdd Mawr yng Nghaergybi gan ei fod yn adeilad/strwythur rhestredig Gradd II*. Fodd bynnag nodir nad yw adeiladau rhestredig wedi eu nodi ar y Map Cyfyngiadau rhyngweithiol. Bydd cynnwys adeiladau rhestredig ar y map hwn o gymorth i wneud darpar ddatblygwyr yn ymwybodol ohonynt.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				bwysigrwydd hyd yn oed heddiw i ddyfodol Porthladd Caergybi - mae pwrpas y strwythur yn parhau'r un mor bwysig ag yr oedd pan gafodd ei adeiladu dros 150 o flynyddoedd yn ôl.	**Argymhelliad** Dim newid i'r CDLl ar y Cyd ond cynnwys adeiladau rhestredig ar y map Cyfyngiadau rhyngweithiol. **Newid Ffocws: NF 137**
1183	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS17	Gwrthwynebu	Mae Horizon o'r farn bod angen cynnwys mwy o hyblygrwydd yn y polisïau hyn fel y bydd modd caniatáu cynigion y rhagwelir eu bod am gael effaith andwyol, yn amodol ar bennu mesurau lliniaru digonol, efo cynllun gweithredu priodol i gefnogi hynny. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisïau hyn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisïau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisïau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig.	**Dim yn derbyn** - ystyrir bod y polisi yn ddigon hyblyg. Cyfrifoldeb y datblygwyr yw dangos y bydd eu cynnig 'yn cynnal ac yn gwella asedau treftadaeth, eu gosodiad a golygfeydd sylweddol i mewn i adeilad neu ardal ac allan ohonynt'. Fel pob datblygiad arall bydd angen i unrhyw geisiadau a ddaw yn sgil cynllun Wylfa Newydd gydymffurfio gyda'r cyfan o'r polisïau perthnasol o fewn y Cydgynllun Datblygu Lleol. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**

Polisiau Rheoli Datblygu Cenedlaethol

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
488	Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959]	7.5.31	Gwrthwynebu	Mae'n werth nodi fod yr adnodd archeolegol yn ddeinamig (yn hytrach na sefydlog) ac yn datblygu'n gyson. Deuir ar draws safleoedd archeolegol trwy'r adeg a chaiff safleoedd newydd o bwys cenedlaethol eu hychwanegu at Restr yr Henebion Rhestredig wrth iddynt gael eu hasesu a'u pwysigrwydd gael ei gydnabod.	**Nodi –** Ni anghytunir gyda'r sylw hwn. Caiff yr holl ddynodiadau statudol eu dangos ar y Map Cyfyngiadau a chaiff y Map ei ddiweddaru o fewn cyfnod y cynllun i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf fydd ar gael. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
653	Cyng/Counc R. Ll. Jones [300]	7.5.31	Gwrthwynebu	Eglurhad cliriach yn y paragraff ynghylch 'dim gofyn statudol' ac o ran pa mor effeithiol yw'r CDLl wrth warchod ein treftadaeth a'n henebion rhestredig. Eglurhad cliriach o'r datganiad fel yn nhudalen 182 a'r 'gofyn statudol'.	**Derbyn yn rhannol** - Mae'r Llysoedd yn awr wedi derbyn nad yw Adran 54A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Adran 38(6) o Ddeddf 2004) yn berthnasol i geisiadau am hawl Adeiladau Rhestredig (ARh) nac Ardaloedd Cadwraeth (AC) ond dylai cynlluniau gynnwys polisïau sydd yn berthnasol i reoli datblygu, sef polisïau y dylid eu hystyried wrth lunio barn ar geisiadau am ganiatâd ARh/AC. **Argymhelliad** Diwygio'r geiriad er mwyn gwneud yn eglur bod hyn yn seiliedig ar gyfraith achos. **Newid â ffocws: NF 87**
830	Robert	7.5.31	Gwrthwynebu	Rwy'n gofyn i'r Map Cyfyngiadau	**Dim yn derbyn –** Mae Ardaloedd Cadwraeth eisoes yn

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Llewelyn Jones [3058]			ddangos ardaloedd Cadwraeth - CCA yn glir. Ni fyddwn yn dymuno i'r un sefyllfa godi yn Nhraeth Newry eto nac mewn unrhyw leoliad arall ar Ynys Môn. Buaswn yn dweud nad yw'r Cynllun yn gadarn oherwydd diffyg gwarchodaeth ar gyfer Ardal Gadwraeth Traeth Newry/Caergybi. Mae'n bwysig iawn i'r Pwyllgor Cynllunio gael canllawiau cynllunio sy'n hawdd i'w darllen ac i beidio â dibynnu ar swyddogion i'w tynnu i'w sylw. Nid yw'n hawdd deall y Cynllun Adnau oni bai eich bod yn barod i dreulio llawer o amser yn ei astudio. Gwnewch o'n fwy ystyriol o'r gymuned - fel ei fod yn gyfeirlyfr cyffredin i bawb.	ymddangos ar y Map Cyfyngiadau rhyngweithiol. Bydd Polisi AT1 (PCC) a'r CCA arfaethedig ar Asedau Treftadaeth yn darparu'r fframwaith polisi sydd ei hangen ar gyfer cynllunio defnydd tir, er mwyn canfod a yw cais yn cynnal ac yn gwella ardaloedd cadwraeth. **Argymhelliad** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim newid**
489	Gwasanaeth Cynllunio Archeoloegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959]	7.5.32	Gwrthwynebu	At hyn, dylai datblygwr gadw CAH mewn cof wrth ffurfio polisïau os byddant yn ystyried yr adnodd archeolegol/amgylchedd hanesyddol sydd heb ei ddynodi.	**Dim yn derbyn –** Mae Paragraff 7.5.32 yn cyfeirio at y cyd-destun cenedlaethol a amlinellir yn 25. Cytunwn y dylai Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol fod yn ystyriaeth wrth ddarparu ceisiadau datblygu, ond credir hefyd y bydd gwell ymdriniaeth o'r mater hwn yn y CCA ar Asedau Treftadaeth – caiff hwn ei baratoi o fewn 18 mis yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
1044	Mrs Haf Madoc Wilson [263]	Map 7 - Porthmadog	Gwrthwynebu	1. Tir tu allan i fygythiad llifogydd 2. O fewn cerdded i'r ysgolion, gweithleoedd, a'r gwasanaethau cyhoeddus megis llyfrgell, busnesau siopau bwyd, gorsafoedd y 'golau glas'. 3. Llawer o dai cyfagos yn barod. 4.Yr angen am dai fforddiadwy i gadw'r to ifanc (Cymraeg) yn yr ardal. Hoffwn weld ffiniau Porthmadog yn cael eu hymestyn i gynnwys tir Penclogwyn rhag i'r dref golli ei hawliau adeiladu anheddau newid i Benrhyndeudraeth a Chriccieth oherwydd phroblemau llifogydd.	**Dim yn Derbyn** Er bod Porthmadog yn cael ei amddiffyn yn erbyn llifogydd, mae rhannau helaeth o'r anheddle yn cael eu categoreiddio fel rhai o fewn parth llifogydd C1. Barn y Cynghorau yw nad oes safleoedd addas ar gael i'w ddynodi tu allan i'r parth perygl llifogydd felly bu'n rhaid dynodi lleoliadau eraill yn y dalgylch i gwrdd â'r angen am dai Mae safleoedd addas wedi ei ddarganfod ym Mhenrhyndeudraeth a Chriccieth i helpu cwrdd ag anghenion tai Porthmadog. **Recommendation** Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. **Dim Newid**

8) Pwllheli

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
411	Dr Richard Roberts [2938]	POLISI TAI14, T29 - Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli	Gwrthwynebu	Dim tystiolaeth o angen lleol am dai sy'n cyfiawnhau'r nifer a ddynodir. Effaith andwyol codi cymaint o dai ar y Gymraeg.	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am ddileu cynnwys y safle o fewn y Cynllun Adnau. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLl ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson hefo strategaeth y Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r ardal hyd at 2026. Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys cyfres o bolisïau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig.
1288	Mr Iwan Edgar [251]	POLISI TAI14, T29 - Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli	Gwrthwynebu	Gwrthwynebir datblygu'r man gwyrdd hwn am resymau amgylcheddol a thirluniol a gweledol (C1 (profion cadernid). Byddai caniatáu datblygiad yma yn un annerbyniol gan y byddai'n llinynnol yn cudio i'r briffordd, yn dir glas gyda choed a llwyni naturiol yn cael eu colli. Mae hefyd mewn corridor cul gydag ochrau serth a oedd yn ardal gwarchod y tirlun. Byddai unrhyw ddatblygiad yn gofyn naddu a difetha mynedfa o dirwedd hardd i mewn i'r dref. Ystyriaeth bellach ydyw nad oes angen y nifer ychwanegol hyn o dai ar gymuned Pwllheli.	
1346	Cyngor Tref Pwllheli (Mr Robin W Hughes) [1235]	POLISI TAI14, T29 - Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli	Gwrthwynebu	Angen diddymun am y rhesymau canlynol: 1. Digon o ddarpariaeth aneddleoedd. 2. Rhesymau ecolegol.	
1347	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI14, T29 - Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli	Gwrthwynebu	Rydym yn gwrthwynebu dynodi tai ar safle T29 sef tir ger Ffordd Caernarfon ar y sail y bydd yn ffurfio datblygiad rhuban annerbyniol, gan achosi effaith	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				niweidiol ar y dirwedd a phroblemau traffig a mynediad sylweddol. Credwn y byddai modd dod o hyd i safleoedd eraill mewn rhannau eraill o Bwllheli ac mewn canolfannau hygyrch eraill megis y Ffôr.	**Argymhelliad** Ystyrir bod y CDLl ar y Cyd yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am gael gwared ar y safle **Dim Newid**
1411	Julie O'Neil [3350]	POLISI TAI14, T29 - Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli	Gwrthwynebu	1. Cyfuniad o ddyffryn anghroesawus sy'n Wynebu'r Gogledd De a phriffordd lygredig. 2. Mae cynllunio tai heddiw angen mwynderau dan do ynghlwm - chwaraeon ayyb. 3. Edrych ymlaen: Nid yw datblygiad rhuban yn digoni; dal angen pentref newydd priodol. 4. Y cwestiwn o "gartrefi buddsoddiad". 5. Angen i ledu/sythu'r briffordd - hy. Llai byth o le ar gyfer tai a mwynderau.	
1427	Brian Jones [2173]	POLISI TAI14, T29 - Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli	Gwrthwynebu	Yn siomedig o weld awgrymiad i ddisodli tir oedd i fod ar gael ar gyfer defnydd economaidd efo defnydd tai a bod llawer mwy o dir wedi cael ei ychwanegu hefyd. Roeddwn yn meddwl bod y Cyngor wedi bod yn flaengar gyda dynodiad y safle ar gyfer cyflogaeth gan fod posibilrwydd da y bydd safle'r stad diwydiannol presennol yn cael ei golli gyda chodiad y llanw. Does posib nad oes yna safleoedd eraill wedi acel eu cynnig ar gyfer tai. Byddai'n bosib adeiladu lon o'r safle yma i gael mynediad i dir uwchlaw a fyddai llawn mor addas ar gyfer tai.	
1602	Dwr Cymru Welsh	POLISI TAI14, T29	Gwrthwynebu	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i	**Nodi'r sylw**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	- Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli		wasanaethu'r safle yma. Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus, a gallai fod angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu yma. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.	Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1603	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T29 - Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli	Gwrthwynebu	Efallai bydd angen asesiad modelu hydrolig i benderfynu lle i gysylltu efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus, a byddai disgwyl i ddarpar ddatblygwyr dalu am y gwaith ymchwilio yn ystod y cyfnodau o gynllunio ymlaen llaw. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pwllheli'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd i'r ardal dalgylch yma.	**Nodi'r sylw** Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
84	Mr Tony Elliott [2717]	POLISI TAI14, T30 - Cae Deiniol, Pwllheli	Gwrthwynebu	Byddai'r allt beryglus, Allt Salem, (yr unig fynedfa rhwng y datblygiadau arfaethedig a chanol tref Pwllheli) yn dod yn hyd yn oed yn fwy peryglus oherwydd y defnydd cynyddol a wneid ohoni ac oherwydd y byddai'r ffaith nad oes palmentydd na lle i greu rhai yn rhoi cerddwyr mewn perygl penodol.	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am ddileu cynnwys y safle o fewn y Cynllun Adnau. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLl ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				Mae'r seilwaith presennol yn anaddas ar gyfer y datblygiadau arfaethedig a byddai ei newid yn tarfu ar gymeriad yr ardal ac yn ei newid. Mae'r datblygiadau arfaethedig ar raddfa sy'n rhy fawr i Benrallt a byddent yn ennill tir ar y cefn gwlad oddi amgylch ac yn niweidio'r amgylchedd. Dylid defnyddio'r cae hoci at ddibenion addysgol, hamdden a chymunedol. Tynnu allan T30 a T31 allan o'r cynllun datblygu a'r polisi.	datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson hefo strategaeth y Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r ardal hyd at 2026. Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys cyfres o bolisïau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig. **Argymhelliad** Ystyrir bod y CDLl ar y Cyd yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am gael gwared ar y safle **Dim Newid**
208	Derek Soane [2783]	POLISI TAI14, T30 - Cae Deiniol, Pwllheli	Gwrthwynebu	Nid yw Allt Salem yn gallu cymryd y capasiti sydd wedi cynyddu llawer ac a grëwyd yn sgil datblygiadau arfaethedig T30 a T31, oherwydd nad oes cyfleusterau gwasanaethu a seilwaith, a'r cynnydd awtomatig mewn traffig ar fynedfa sydd eisoes wedi'i chyfyngu.	
413	Dr Richard Roberts [2938]	POLISI TAI14, T30 - Cae Deiniol, Pwllheli	Gwrthwynebu	Dim tystiolaeth o angen lleol am dai sy'n cyfiawnhau'r nifer a ddynodir. Effaith andwyol codi cymaint o dai ar y Gymraeg.	
1604	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T30 - Cae Deiniol, Pwllheli	Gwrthwynebu	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle yma. Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau	**Nodi'r sylw** Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				yn y system garthffosiaeth gyhoeddus, y bydd angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu yma. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.	gyflwyno cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1605	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T30 - Cae Deiniol, Pwllheli	Gwrthwynebu	Byddai angen cael carthffosydd tu allan i'r safle i gysylltu efo'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus. Mae modd darparu'r rhain trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Adrannau 98-101 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pwllheli'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd i'r ardal dalgylch yma.	**Nodi'r sylw** Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
415	Dr Richard Roberts [2938]	POLISI TAI14, T31 - Cyn Cae Hoci, Pwllheli	Gwrthwynebu	Dim tystiolaeth o angen lleol am dai sy'n cyfiawnhau'r nifer a ddynodir. Effaith andwyol codi cymaint o dai ar y Gymraeg. Delete the designation.	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am ddileu cynnwys y safle o fewn y Cynllun Adnau. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLl ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					hefo strategaeth y Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r ardal hyd at 2026. Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys cyfres o bolisïau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig. **Argymhelliad** Ystyrir bod y CDLl ar y Cyd yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am gael gwared ar y safle **Dim Newid**
1606	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T31 - Cyn Cae Hoci, Pwllheli	Gwrthwynebu	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle yma. Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus, y bydd angen eu hateb cyn gallu symud	**Nodi'r sylw** Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				ymlaen i ddatblygu yma. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.	**Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1607	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T31 - Cyn Cae Hoci, Pwllheli	Gwrthwynebu	Byddai angen cael carthffosydd tu allan i'r safle i gysylltu efo'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus. Mae modd darparu'r rhain trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Adrannau 98-101 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pwllheli'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd i'r ardal dalgylch yma.	**Nodi'r sylw** Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1831	Derek Soane [2783]	POLISI TAI14, T31 - Cyn Cae Hoci, Pwllheli	Gwrthwynebu	Nid yw Allt Salem yn gallu cymryd y capasiti sydd wedi cynyddu llawer ac a grëwyd yn sgil datblygiadau arfaethedig T30 a T31, oherwydd nad oes cyfleusterau gwasanaethu a seilwaith, a'r cynnydd awtomatig mewn traffig ar fynedfa sydd eisoes wedi'i chyfyngu.	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am ddileu cynnwys y safle o fewn y Cynllun Adnau. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLl ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson hefo strategaeth y\\\\ Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r
1832	Mr Tony Elliott [2717]	POLISI TAI14, T31 - Cyn Cae Hoci, Pwllheli	Gwrthwynebu	Bydd Allt Salem, sy'n allt beryg (yr unig fynedfa rhwng y dynodiadau a chanol y dref) yn mynd mwy peryglus trwy fwy o ddefnydd, dim palmentydd a dim lle i adeiladu palmentydd yn creu risg penodol	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				i gerddwyr Mae'r isadeiledd presennol ar gyfer y datblygiadau arfaethedig yn annigonol a bydd newid hwn yn ymwthiol ac yn newid cymeriad yr ardal. Mae'r datblygiadau arfaethedig ar raddfa rhy fawr i Benrallt ac yn golygu ymwthiad i'r cefn gwald cyfagos a niwed i'r amgylchedd. Dylid y cae hoci cael ei ddefnyddio ar gyfer defnyddiau addysg, hamdden a chymunedol. Diddymu safleoedd T30 a T31 o'r Cynllun a'r polisi.	ardal hyd at 2026. Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys cyfres o bolisïau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig. **Argymhelliad** Ystyrir bod y CDLl ar y Cyd yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am gael gwared ar y safle **Dim Newid**
994	Mr Gwyn Llewelyn Jones [77]	Map 8 - Pwllheli	Gwrthwynebu	Mae'r Cynllun yn chwilio am dir ar gyfer 291 o dai ym Mhwllheli. 110 o rain yn 'windfall' - pa mor realistig ydi hyn? Ni does digon o dir i ddelifro y niferoedd hyn. Mae adroddiad 'Asesu potential tir datblygu Pwllheli" yn dangos bod ystyriaeth wedi ei roi i'r tir yn ardal Denio ond na chafodd ei gario i'r cynllun	**Derbyn** Mae gwrthwynebwyr wedi tynnu sylw at faterion cyfreithlon sy'n ymwneud â gallu dynodiad T29 i gyflawni'r nifer o unedau a nodir ym Mholisi TAI14 (bod nant a choed ar ran o'r safle, a thopograffi a siâp y safle yn golygu bydd y safle ddim yn gallu cyfarch 30 uned yr hectar). Ar y cynsail hwn, mae'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				oherwydd costau datblygu, heb ystyried datblygiad llai. Mae Gwyn Jones yn berchen y tir wedi ei fagu yno ac yn ffermio'r tir. Mae barn bositif wedi ei dderbyn gan Adran Priffyrdd (gweler llythyr amgaeedig). Mae'r NFU a'r heddlu hefyd yn gefnogol i Gwyn Jones cael tŷ ar y tir. Ar sail hyn i gyd rydym yn credu bod y tir a ddangosir ar y map yn addas i'w ddatblygu. Newid y ffin datblygu i gynnwys darn tir Ysgubor Wen ar gyfer hyd at 4 o dai (gweler map amgaeedig).	Uned wedi adolygu gwrthwynebiadau yn ymwneud ag addasiadau i'r ffin ddatblygu i bennu p'un a ellid gwneud mân addasiadau i sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y Cynllun i gyflwyno strategaeth ac amcanion y Cynllun. **Argymhelliad** Ni chodwyd materion ynghylch rhan isaf y safle hwn yn ystod y broses o baratoi'r cynllun. Ymestyn y ffin datblygu i gynnwys y safle. **Newid â Ffocws NF118**
1049	Owen Lloyd [3189]	Map 8 - Pwllheli	Gwrthwynebu	Mae dyraniad tir y Cynllun ar gyfer tai ym Mhwllheli yn annigonol o ran y gyfran y mae'n ei gynrychioli o'r targed o 55% i'w gyflawni yn y Prif Aneddiadau a rôl barhaus y dref fel Canolfan Wasanaeth Trefol. Byddai gorddibyniaeth y tai arfaethedig ar un safle mawr (T29) fwy neu lai'n creu estyniad trefol o ddatblygiad rhuban ar dir glas lle mae'r cysylltedd i ganol y dref yn wael. Mae Safle Posib SP765 wedi'i eithrio o'r Map Cynigion yn ei gyfanrwydd, er gwaethaf y cyfle i ddarparu tai ar dir llwyd ar gyrion canol y dref - a thrwy hynny ddarparu dewis arall mwy cynaliadwy. Yn sgil y sylwadau uchod, byddai angen	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLl ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun. Ymhellach, mae polisïau'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLl ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				addasu ffin ddatblygu Pwllheli i gynnwys 10-15 acer o dir ar hyd blaen Yr Ala ac yn gyfagos iddi.	raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLl yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod. **Argymhelliad** Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun . **Dim Newid**
1050	R K Jones [3194]	Map 8 - Pwllheli	Gwrthwynebu	Cefnogi cynnwys SP858 Tir Ystâd Penmaen ar y Gofrestr Safleoedd Posib. Mae sylwadau yn yr ymatebion cychwynnol i'r cais mai'r brif anfantais o ran ei gynnwys yw materion yn ymwneud â mynediad. Hoffwn nodi, gyda pharch, fod mynedfeydd i safleoedd datblygu graddfa fechan posib o bentrefi Penrhos ac Efailnewydd eisoes yn eu lle; ac y gallent yn hawdd iawn wneud lle i fwy o fynedfeydd cerbydol. Er bod y tir uwchben yr Ala ym Mhwllheli yn agos i'r nenlinell, wrth ei ddatblygu'n sensitif, byddai modd lleihau'r pwysau ar ystadau tai ac eiddo busnes yn y dref sydd dan fygythiad cynyddol lefelau dŵr yn codi o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Mae'n anorfod y bydd angen defnyddio'r tir hwn er dibenion adeiladu yn y tymor canolig, rwyf hefyd yn ymwybodol fod cyfran o'r tir yn	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLl ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun. Ymhellach, mae polisïau'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLl ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLl yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				cael ei hamddiffyn dan ddynodiad Parciau a Gerddi Hanesyddol ac o'r herwydd mae'n anaddas i'w ddatblygu. Mae'r un peth yn wir am y tir sydd gyferbyn ag afon Rhydhir sy'n cael llifogydd yn rheolaidd.	wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod. **Argymhelliad** Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun . **Dim Newid**
1435	H & V Williams [2145]	Map 8 - Pwllheli	Gwrthwynebu	Nid yw'r safle wedi ei gynnwys oddi mewn i'r ffin datblygu ar y map. O edrych ar yr arfarniad cynaliadwyedd ac ar gynnwys papur testun 1A, credaf fod y wybodaeth yn y ddogfen yma yn amlygu addasrwydd y safle ar gyfer datblygiad tai.	**Derbyn yn Rhannol** Mae gwrthwynebwyr wedi tynnu sylw at faterion cyfreithlon sy'n ymwneud â gallu dynodiad T29 i gyflawni'r nifer o unedau a nodir ym Mholisi TAI14 (bod nant a choed ar ran o'r safle, a thopograffi a siâp y safle yn golygu bydd y safle ddim yn gallu cyfarch 30 uned yr hectar). Ar y cynsail hwn, mae'r Uned wedi adolygu gwrthwynebiadau yn ymwneud ag addasiadau i'r ffin ddatblygu i bennu p'un a ellid gwneud mân addasiadau i sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y Cynllun i gyflwyno strategaeth ac amcanion y Cynllun. **Argymhelliad** Yn dilyn trafodaethau hefo Priffyrdd am capasiti'r lôn gyfagos argymell i ymestyn y ffin datblygu i gynnwys y rhan isaf o'r safle. **Newid â Ffocws NF119**

9) Biwmares

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1354	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15, T32 - Casita, Biwmares	Cefnogi	Mae gan y safle yma ganiatâd cynllunio a does gennym ni ddim sylwadau pellach arno.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
537	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	Map 9 – Biwmares	Gwrthwynebu	Mae'r Gofod Agored ac Ardal Chwarae Gwarchodedig wedi'u marcio yn Happy Valley yn hepgor rhan o'r ardal berthnasol. Mae'r lawnt fowlio, sydd ar gael ar gyfer defnydd cyhoeddus, wedi'i hepgor o'r ardal sydd wedi'i marcio. Newid yr ardaloedd sydd wedi'u marcio fel sy'n cael ei ddangos ar y ddogfen wedi'i sganio	**Derbyn** Mae'r lawnt fowlio yn rhan bwysig o gyfleusterau hamdden Biwmares. **Argymhelliad** Adnabod ar y map Mewnosod fel llecyn agored i'w warchod. **Newid â Ffocws NF120**

10) Benllech

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1355	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15, T33 - Tir Ger Caffi Wendon, Benllech	Cefnogi	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle hwn. Mae angen i ddatblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod carthffos yn croesi'r safle hwn a byddai angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfraint dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar y beipen, a gallai	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				hynny gyfyngu ar ddwysedd y tai ar y safle. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Benllech yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd i'r dalgylch yma.	
1107	Mr M Williams-Bulkeley [3229]	Map 10 - Benllech	Gwrthwynebu	Yr oedd y CDLl ar y Cyd yn dyrannu T33 ar gyfer Tai ym Menllech, sy'n cael ei nodi fel Pentref Gwasanaeth Lleol. Mae'n anheddiad poblogaidd, gyda'i faint a'i boblogaeth yn tyfu. Mae'r angen am dai marchnad yn tyfu yma, a'r angen am dai lleol fforddiadwy hyd yn oed yn fwy. Mae Dynodiad T33 yn annigonol o ran ei faint/dwysedd, ac mewn lleoliad sy'n anaddas, gan fod ei leoliad glan-môr yn amlwg yn fwy deniadol ac addas ar gyfer mewnfudwyr/pobl wedi ymddeol/cartrefi gwyliau. Mae galw mawr am y rhain, a hynny ar draul pobl leol sydd mewn gwir angen am dai. Yn ôl yr angen, dylid dynodi Safle Tai o faint a lleoliad mwy priodol i Fenllech. Cynigir safle amgen ar gyfer tai yn Ffordd Amlwch, Benllech. Cyfeiriwch at y ddogfen Gwybodaeth Ychwanegol ar y safle arfaethedig, dyddiedig 20 Mawrth 2015. Dylai anghenion pobl leol orbwyso anghenion mewnfudwyr cyfoethog. Ni chydnabyddir yr anghenion hyn yn y Cynllun.	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLl ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun. Ymhellach, mae polisïau'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLl ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLl yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod. **Argymhelliad** Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					mwyn sicrhau cadernid y cynllun . **Dim Newid**

11) Bodedern

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
618	Bleddyn & Bethan Hughes [2121]	POLISI TAI15, T34 - Tir ger Llwyn Angharad, Bodedern	Cefnogi		**Derbyn yn Rhannol** Mae ffiniau datblygu yn cael eu llunio o gwmpas y ffurf drefol aneddiadau. Dylid diwygio'r ffin datblygu i gynnwys Rhoslwyn ond nid y darn o dir cyfagos. **Argymhelliad** Ymestyn y ffin datblygu u gynnwys yr eiddo Rhoslwyn er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y cynllun. **Newid â Ffocws NF121**
1356	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15, T34 - Tir ger Llwyn Angharad, Bodedern	Cefnogi	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle hwn. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr posibl yn deillio o'r safle datblygu arfaethedig hwn. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Bodedern yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd i'r dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1282	Dr Cledwyn Hughes [129]	Map 11 - Bodedern	Gwrthwynebu	Gellir cysylltu tir yn Sarn Gannu gyda dynodiad T34 i ddarparu dyraniad tai	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				cynhwysfawr fydd yn bodloni anghenion tai cynyddol Ynys Môn dros gyfnod y cynllun gan gofio'r twf economaidd sylweddol sy'n debygol o ddeillio o brosiectau seilwaith mawr dros gyfnod y cynllun. Nid oes digon o gyflenwad tai yn y Cynllun adnau ac mae gorddibyniaeth ar ymrwymiadau presennol sydd wedi methu â chyflenwi tai yn y gorffennol, yn ogystal â gorddibyniaeth ar safleoedd a ddaw ar gael ar hap. Mae Bodedern yn anheddiad cynaliadwy gydag ysgol gynradd ac ysgol uwchradd sydd â lle ar gyfer nifer sylweddol fwy o dai.	newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLl ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun. Ymhellach, mae polisïau'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLl ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLl yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod. **Argymhelliad** Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun . **Dim Newid**

12) Cemaes

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
504	J & A Parry [2980]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes	Cefnogi	Mae'r safle hwn yn lleoliad rhesymegol ar gyfer codi tai newydd yng Nghemaes. Mae cysylltiad da rhyngddo a'r ardal drefol bresennol, mae modd cael at wasanaethau'n rhwydd oddi yma ac mae mynediad ffyrdd addas. At hyn, ni fydd y safle datblygedig yn cael effaith andwyol ar fwynder gweledol yr ardal nac ar y dirwedd.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1300	Cyngor Cymuned Llanbadrig (Carli Evans-Thau) [1375]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes	Gwrthwynebu	Yn 1990, gwrthodwyd cais i ddatblygu'r safle hwn ar ôl derbyn arolwg cymunedol a oedd yn tynnu sylw at bryderon trigolion lleol ac oherwydd nad oedd mynediad diogel i'r briffordd. Mae'r broblem yn amlycach nawr nag y buodd erioed oherwydd y cynnydd mewn traffig ac yn y defnydd a wneir o'r ffordd. Mae parcio hefyd yn broblem fawr yn yr ardal agosaf. Mae trigolion wedi gofyn yn y gorffennol i gael palmentydd ond tybir bod y ffordd yn rhy gul a pheryg i gerddwyr ei defnyddio.	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am ddileu cynnwys y safle o fewn y Cynllun Adnau. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLl ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson hefo strategaeth y\\\\ Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r ardal hyd at 2026. Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys cyfres o bolisïau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â
1303	Miss J Madoc-Jones [3298]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes	Gwrthwynebu	Mae tir T35 yn dir amaethyddol o'r safon orau ac roedd y tu allan i ffiniau gwreiddiol Bae Cemaes, sydd wedi cael eu hymestyn yn ddiweddar i gynnwys llain T35. Gellir ymestyn tir ym Manora, cyfeirnod SP334, i gysylltu â Maes Padrig a Maes Cynfor lle y ceir tai cyffelyb eisoes. Byddai'r mynediad i safle SP334, wedi'i ymestyn i Faes Padrig, yn dod o Ffordd Caergybi, yr A5025, gyda mynediad iddi o Faes Cynfor.	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				Mae'r pryderon ynghylch datblygu T35 yn cynnwys: 1. Nid yw'r ffordd wedi cael ei dylunio na'i hadeiladu i dderbyn mwy o draffig; 2. Capasiti carthffosiaeth annigonol ar gyfer datblygiadau mawr gyda phroblemau difrifol yn y gorffennol; 3. Capasiti Ysgol Gynradd Cemaes i ymdopi â mwy o ddisgyblion; 4. Problemau capasiti o ran gallu Meddygfa Bae Cemaes i ymdopi â'r niferoedd ychwanegol.	gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig. **Argymhelliad** Ystyrir bod y CDLl ar y Cyd yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am gael gwared ar y safle **Dim Newid**
1304	Felicity Lillywhite [3299]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes	Gwrthwynebu	Mae tir T35 yn dir amaethyddol o'r safon orau ac roedd y tu allan i ffiniau gwreiddiol Bae Cemaes, sydd wedi cael eu hymestyn yn ddiweddar i gynnwys llain T35. Gellir ymestyn tir ym Manora, cyfeirnod SP334, i gysylltu â Maes Padrig a Maes Cynfor lle y ceir tai cyffelyb eisoes. Byddai'r mynediad i safle SP334, wedi'i ymestyn i Faes Padrig, yn dod o Ffordd Caergybi, yr A5025, gyda mynediad iddi o Faes Cynfor. Mae'r pryderon ynghylch datblygu T35 yn cynnwys: 1. Nid yw'r ffordd wedi cael ei dylunio na'i hadeiladu i dderbyn mwy o draffig; 2. Capasiti carthffosiaeth annigonol ar	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				gyfer datblygiadau mawr gyda phroblemau difrifol yn y gorffennol; 3. Capasiti Ysgol Gynradd Cemaes i ymdopi â mwy o ddisgyblion; 4. Problemau capasiti i ran gallu Meddygfa Bae Cemaes i ymdopi â'r niferoedd ychwanegol.	
1305	Glyn & Karen Williams [3300]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes	Gwrthwynebu	Ysgrifennwn i gyflwyno'n gwrthwynebiad i newid defnydd a'r cynnig i ddatblygu tir tu ôl i Lôn Ysgubor. Mae'r tir hwn (T35) y tu ôl i'n heiddo ac yn cyd-redeg â Ffordd y Felin sydd gyfagos â'r ysgol gynradd. I grynhoi, rydym yn gwrthwynebu: 1. Colli cynefin, cloddiau a bywyd gwyllt. 2. Ein heiddo yn colli ei werth. 3. Cynnydd yn y risg i blant ysgol a cherddwyr. 4. Gallu systemau carthffosiaeth i ymdopi. 5. Cynnydd yn y sŵn ac effaith bosib troseddu. 6. Ansawdd bywyd y preswylwyr yn gwaethygu. 7. Diffyg ymgynghori ar y newidiadau i'r ffiniau ac i anghenion tai.	
1379	Miss Gweneth Mary Jones [3303]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes	Gwrthwynebu	Tir amaethyddol oedd y tir hwn erioed.	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am ddileu cynnwys y safle o fewn y Cynllun Adnau. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLl
1397	Mrs Cerrie Douglass [2736]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i	Gwrthwynebu	Amau'r rhesymau am beidio â datblygu'r tir ym Manora (SP334) yn uniongyrchol y	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
		Ffordd Caergybi, Cemaes		tu ôl i Faes Cynfor ac yn anghytuno â'r ddadl 'mynediad gwael'. Mae yna broblemau capasiti, parcio a diogelwch ffyrdd yn gysylltiedig ag ysgol Gynradd Cemaes. Mae'r dadleuon a ddefnyddir i beidio â chynnwys safleoedd eraill yn fater o farn bersonol. Credu'n gryf nad yw'r tir dan sylw yn addas i'w ddatblygu. Risg o or-ddatblygu'r pentref a lladd y diwydiant twristiaeth. Materion capasiti gyda'r Meddyg Teulu lleol. Problemau hefyd gyda systemau carthffosiaeth. Effaith ar yr Iaith Gymraeg.	ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson hefo strategaeth y\\\\ Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r ardal hyd at 2026. Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys cyfres o bolisïau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig. **Argymhelliad** Ystyrir bod y CDLl ar y Cyd yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am gael gwared ar y safle **Dim Newid**
1426	Mrs G. L. Tennet [3352]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes	Gwrthwynebu	Yn gwrthwynebu'r datblygiad yn gryf oherwydd y canlynol: * effaith ar lif diogel a rhwydd traffic, gan feddwl yn arbennig am yr ysgol gynradd; * isadeiledd annigonol, gan gynnwys ysgol, i gynnal y datblygiad; * safle mewn ardal hardd naturiol a bywyd gwyllt gwerthfawr; * ardrawiad ar ansawdd bywyd; * byddai tai cymdeithasol yn rhoi llai o werth i eiddo.	
1823	Mr Thomas Conway [3371]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes	Gwrthwynebu	*Disgrifiad anghywir a chamarweiniol o'r safle; *Teimlo nad oes digon o hysbysebu wedi bod i'r cymdogion cyfagos; *Mae cael tai fforddiadwy yn y lleoliad hwn yn groes i'r polisi parthau gwreiddiol gydag ystadau Cyngor wedi'u lleoli mewn mannau eraill yn y Pentref; *Ni chafodd ystâd Maes Cynfor ei chwblhau erioed, ac mae tir ar gael i'r gorllewin o'r ffin;	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				*Mae'n dir amaethyddol gradd 3; *Capasiti cyfyngedig y gwaith trin carthffosiaeth ger Wylfa; *Mae dogfen Ynys Môn yn datgan na fydd mwy o ddatblygiad yng Nghemaes; *Gwrthodwyd cais cynllunio preswyl blaenorol yn 1990 ar sail diffyg angen a diogelwch ffyrdd; *Effaith andwyol ar werth ac amwynder y tai cyfagos; *Problemau dŵr wyneb gyda rhan o'r safle; *Mae pridiant cyffredinol ar y safle'n effeithio ar ei hyfywdra.	
1357	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15, T35 - Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes	Gwrthwynebu	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle hwn. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr posibl yn deillio o'r safle datblygu arfaethedig hwn. Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma efallai'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Cemaes, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	**Nodi'r sylw** Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
954	Mr & Mrs H Rees [31]	Map 12 - Cemaes	Gwrthwynebu	Ni chafodd Safle Arfaethedig SP851 ei gynnwys yn y cynllun adnau yn wreiddiol oherwydd ystyriwyd ei fod yng nghefn gwlad agored. Rydym yn awr yn dymuno	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				ei ail-gyflwyno fel Safle Amgen. Lleolir y safle o fewn clwstwr/anheddiad o naw tŷ, gyda phob un ohonynt o fewn pellter cerdded o Gemaes a'i holl gyfleusterau/gwasanaethau. Byddai datblygiad yn cael ei gyfyngu i un eiddo ecogyfeillgar yn unig. Yn hygyrch o briffordd gyhoeddus gyda thir blaen digonol i ddarparu mynediad. Lleolir y safle o fewn gwasgariad daearyddol y pentref a byddai'n ffitio o fewn opsiwn twf canolig y Strategaeth Ofodol. (Ystyrier Gofynion Wylfa Newydd)	polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLl ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun. Ymhellach, mae polisïau'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLl ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLl yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod. **Argymhelliad** Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun . **Dim Newid**
1390	Mr Llyr Jones [3307]	Map 12 - Cemaes	Gwrthwynebu	Hoffem wrthwynebu'r ffin ddatblygu ar gyfer Cemaes sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol Adnau. Bwriedir i'r tir i'r gorllewin o'r cae pêl-droed gael ei gynnwys o fewn y ffin ddatblygu (fe'i hamlinellir yn goch ar y cynllun amgaeedig). Mae'r safle mewn lleoliad cynaliadwy yn agos at yr A5025,	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLl ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				llwybr trafnidiaeth gyhoeddus allweddol fydd yn cysylltu'r pentref gydag Atomfa Wylfa Newydd sydd wedi'i chynllunio. Yn ogystal, mae'r tir yn agos at yr ysgol gynradd leol a gellid ei ddatblygu ar gyfer tai.	wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun. Ymhellach, mae polisïau'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLl ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLl yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod. **Argymhelliad** Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun . **Dim Newid**
1825	Mr Thomas Conway [3371]	Map 12 - Cemaes	Gwrthwynebu	*Mae'r crynodeb o'r materion a gafodd eu hadnabod gyda SP334 Manora ym mhapur testun 1A yn anghywir, yn rhagfarnllyd ac yn seiliedig ar farn nad oes cyfiawnhad ar ei chyfer; *Mae mynediad y safle yn un addas a hawdd ac yn well na mynedfeydd ystadau eraill sydd yn yr anheddiad; *Ar hyn o bryd, ceir mynediad i'r eiddo ar y safle trwy ystâd Maes Cynfor;	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLl ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				*Roedd tir ystâd wreiddiol Maes Cynfor yn ymestyn i gyfeiriad y gorllewin cyn belled â'r cwrs dŵr a'r bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r ystâd cyn i'r newidiadau i'r Polisi Cenedlaethol gymryd lle yn y 1980au. *Byddai'r ardal hon o dir yn fwy addas i'w ddatblygu na safle T35.	Ymhellach, mae polisïau'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLl ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLl yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod. **Argymhelliad** Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun . **Dim Newid**
1826	Mr Thomas Conway [3371]	Map 12 - Cemaes	Gwrthwynebu	*Mae papur testun 1A yn datgan fod safle SP851, tir gyferbyn â'r Hafod, yng nghefn gwlad, ond mae safle T35 hefyd; *Datgan papur testun 1A ei fod yn anaddas ar gyfer tai, fodd bynnag, ni chyflwynir unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r datganiad hwn; *Dywed hefyd y byddai'r dynodiad yn groes i Bolisi Cenedlaethol ac i strategaeth y CDLl ar y Cyd - gwrthodir y ddau am nad ydynt yn berthnasol; *Cafodd y grŵp o dai o amgylch y Felin eu hadnabod fel Clwstwr Gwledig yn y Polisi	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLl ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun. Ymhellach, mae polisïau'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				Interim yn 2011; *Byddai modd datblygu SP851 fel tŷ'r eiddo cyfagos, Hafod.	ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLl ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLl yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod. **Argymhelliad** Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun . **Dim Newid**
1827	Mr Thomas Conway [3371]	Map 12 - Cemaes	Gwrthwynebu	*Mae papur testun 1A yn datgan fod safle SP852, safle Faraway gynt, yng nghefn gwlad, ond mae safle T35 hefyd; *Datgan papur testun 1A ei fod yn anaddas ar gyfer tai, fodd bynnag, ni chyflwynir unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r datganiad hwn; *Dywed hefyd y byddai'r dynodiad yn groes i Bolisi Cenedlaethol ac i strategaeth y CDLl ar y Cyd - gwrthodir y ddau am nad ydynt yn berthnasol; *Dyma safle gwesty'r Faraway gynt ac mae felly'n safle tir llwyd a dylid ei flaenoriaethu i gael ei ddatblygu'n briodol; *Mae graddiant serth i'r mynediad, ond ni wnaeth erioed beri unrhyw anawsterau i	**Dim yn Derbyn** Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLl ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun. Ymhellach, mae polisïau'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLl ar y Cyd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				gleientiaid y gwesty nac wrth gael ei defnyddio yn y blynyddoedd wedi hynny gan adeiladwr lleol fel storfa ddiwydiannol; *Dylid ei ddynodi ar gyfer tai o ansawdd uchel o faint priodol.	yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLl yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod. **Argymhelliad** Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun . **Dim Newid**

13) Gaerwen

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1535	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 208 - Pentir	Cefnogi	Mae Pentir yn cael ei wasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Tregarth, sy'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1536	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 209 - Pentrefelin	Cefnogi	Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pentrefelin Dwyfor yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1537	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 210 - Pistyll	Cefnogi	Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pistyll yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1274	Ms Helena Jones [2864]	Map 211 - Pontllyfni	Gwrthwynebu	Hoffwn i'n darn tir SP157 gael ei ystyried i fod yn ran o glwstwr Pontllyfni. Mae angen ymestyn y Cynllun Adnau fel bod Burnside a Dolwen yn cael ei glustnodi yn goch oddi mewn i'r ardal. Nid yw'r llecyn tir dan sylw yn dir amaethyddol. Yn y gorffennol rhan o ardd y tŷ cyfagos ydoedd sef Burnside. Mae mynedfa eang, glir a hwylus i mewn i'r tir. Amgylchynir y tir â choed ac nid oes bwried i dorri'r coed hyn. Nid fyddai lleoliad y tir a'r coed o'i gwmpas yn tarfu ar olygfeydd eraill yn y dalgylch pe adeiladir arno. Mae garej a charafán ar y tir ar hyn o bryd gyda chyfleusterau megis trydan, dŵr, carffosiaeth a llinell ffôn.	**Dim yn Derbyn** Er mwyn dosbarthu lefel twf y Cynllun rhaid rhoi amcangyfrif twf yn erbyn yr haen Clystyrau, sef 2 uned ym mhob Clwstwr. Fe wnaeth y Cyngor wrth lunio strategaeth dosbarthiad o fewn y Cynllun ystyried natur wasgaredig yr ardal yn erbyn polisïau cenedlaethol ar gyfer lleihau'r angen i deithio a lleoli'r twf mwyaf mewn lleoliadau cynaliadwy. Teimlir bod y dosbarthiad yn y Cynllun Adnau wedi creu cydbwysedd addas rhwng polisi cenedlaethol a'r sefyllfa leol. Tra gall lefel uwch o dwf mewn rhai lleoliadau helpu rhywfaint efo rhai gwasanaethau lleol buasai cael ffin datblygu lac a lefel uwch o dwf o bosib arwain at broblemau eraill o fewn rhai cymunedau e.e. effaith ar yr iaith Gymraeg ayb. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i allu cefnogi cais i newid statws Pontllyfni yn y goeden aneddleoedd. Nid oes safleoedd penodol yn cael ei adnabod o fewn clystyrau yn hytrach bydd addasrwydd safle yn cael ei asesu yn erbyn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					meini prawf y polisi **Argymhellion** Nid oes angen diwygio'r Cynllun er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun **Dim Newid**
1538	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 211 - Pontllyfni	Cefnogi	Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pontllyfni'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1539	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 212 - Rhiw	Cefnogi	Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y Rhiw'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1540	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 213 - Rhos Isaf	Gwrthwynebu	Mae Rhos Isaf yn cael ei wasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan. Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer y dalgylch yma'n golygu bod angen gwelliannau i'r gwaith trin, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	**Nodi'r sylw** Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1541	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 214 - Rhoslan	Cefnogi	Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Rhoslan yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1542	Dwr Cymru Welsh	Map 215 -	Cefnogi	Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	**Nodi'r sylw cefnogol**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Rhydyclafdy		Rhydyclafdy'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Argymhelliad** **Dim Newid**
1543	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 216 - Sarn (Llanwnda)	Gwrthwynebu	Mae Saron yn cael ei wasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan. Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer y dalgylch yma'n golygu bod angen gwelliannau i'r gwaith trin, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	**Nodi'r sylw** Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1544	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 217 - Sling	Cefnogi	Mae Sling yn cael ei wasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Tregarth, sy'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1545	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 218 - Swan	Cefnogi	Mae Swan yn cael ei wasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Pontllyfni, sy'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1546	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 219 - Tai'n Lon	Cefnogi	Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Tai Lôn yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1547	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 220 - Talwaenydd	Cefnogi	Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talwaenydd yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad**

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Dim Newid
1548	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 221 - Talybont	Cefnogi	Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Talybont yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1549	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 222 - Tan y Coed	Cefnogi	Mae Tan y Coed yn cael ei wasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanrug, sy'n gallu derbyn y llif dŵr budr o'r ffigwr twf arfaethedig a ddyrannwyd ar gyfer y dalgylch yma.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1550	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 224 - Ty'n Lon	Gwrthwynebu	Mae Ty'n-Lôn yn cael ei wasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan. Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer y dalgylch yma'n golygu bod angen gwelliannau i'r gwaith trin, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	**Nodi'r sylw** Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. **Argymhelliad** Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. **Dim Newid**
1551	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Map 225 - Ty'n y Lon, Treborth (Bangor)	Gwrthwynebu	Mae Ty'n y Lôn yn cael ei wasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Treborth. Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer y dalgylch yma'n golygu bod angen gwelliannau i'r gwaith trin, a'u hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	**Nodi'r sylw cefnogol** **Argymhelliad** **Dim Newid**
1398	MR Taliesyn Roberts [2711]	Map 226 - Waun (Penisarwaun)	Gwrthwynebu	Mae'r Waun (Penisarwaun) yn cynnwys clwstwr tynn o 21 tŷ o gwmpas Tai Arthur, ynghyd â datblygiad mwy ar wasgar o 10 tŷ a ddangosir ar fap 226. Yn unol â	**Derbyn** O edrych ar y tai sydd wedi cael ei gynnig gan y gwrthwynebydd mae'r Uned o'r farn fod y rhain yn addas i'w ystyried fel grŵp

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				pharagraff 7.4. 129, darperir "Cynlluniau Mewnosod er mwyn adnabod cymeriad cydlynol pob clwstwr gyda'r adeiladau perthnasol wedi'u lliwio er mwyn caniatáu gwneud asesiad yn erbyn ail faen prawf y polisi", a dylai'r clwstwr sydd wedi'i ganoli o gwmpas Tai Arthur, Waun, gael ei ddangos ar Fap Mewnosod 226.	ychwanegol i ffurfio rhan o Waun (Penisarwaun). **Argymhelliad** Newid i'r Cynllun trwy ychwanegu'r grŵp yma fel ail glwstwr penodol i Waun (Penisarwaun) ym mholisi TAI 18 Clystyrau. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb o fewn y Cynllun. **Newid â Ffocws NF131**

Atodiad 17 – Newidiadau â Ffocws

Mae'r tabl newid â ffocws arfaethedig yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:-

Cyfeirnod Newid â Ffocws: Cyfeirnod unigryw ar gyfer pob Newid â Ffocws arfaethedig (e.e. NF1, NF2, NF3…..)

Newid a Ffocws (Testun): Mae'r rhan o'r testun sydd yn cael ei effeithio gan un neu fwy newid a ffocws arfaethedig yn cael ei ddangos ar ffurf 'marcio newidiadau'. Mae ychwanegu testun yn cael ei ddangos ar ffurf **ysgrifen drom ac wedi ei danlinellu** a'r cynigion i ddileu testun yn cael ei ddangos hefo ~~llinell drwy'r~~ testun. Mae hyn yn caniatáu i'r darllenwr weld yn glir beth yw'r newidiadau heb orfod croes gyfeirio at y ddogfen Drafft Adnau.

Newid Ffocws (Mapiau): Mae'r newidiadau i'r mapiau mewnosod yn cael eu dangos ar ffurf llinell doredig sydd yn cynrychioli'r ffin datblygu ddiwygiedig, ymhellach mae yna ddisgrifiad byr o'r newid wedi ei gynnwys ar y mapiau.

Cyfiawnhad: Rhesymeg gyffredinol o ran pam fo'r newid yn cael ei gynnig. Mae'r newidiadau ffocws arfaethedig yn cael eu cynnig yn sgil gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori i'r Cynllun Adnau, ac yn bennaf yn cael eu gwneud er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth fwyaf cyfredol sydd ar gael, er mwyn sicrhau cywirdeb ac er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.

PENNOD 1 - 6

Pennod 1 – Crynodeb gweithredol

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 1	1.32 tabl 3	1098	**Cefnogi'r sector ynni** - trwy gefnogi datblygiad (e.e. niwclear, biomas, pŵer solar a datblygiadau gwynt) lle mae unrhyw effeithiau andwyol sylweddol wedi cael eu hosgoi (e.e. sŵn, ansawdd aer, traffig ac effaith weledol), **neu eu lleddfu i lefelau priodol.**	Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol

Pennod 3 - Cyd-destun Polisi (Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol)

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 2	3.7 – 3.9	1099, 1100,	3.7 Mae safle ger gorsaf pŵer niwclear Wylfa, sydd yng ngogledd Ynys Môn,	Er cywirdeb

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
		1101	wedi cael ei adnabod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol fel safle **sydd o bosib yn addas** ~~posib~~ ar gyfer gorsaf pŵer niwclear newydd, sef Wylfa Newydd **erbyn 2025**. **Oherwydd ei bwysigrwydd i'r DU** mae adeiladu'r atomfa niwclear newydd yn Brosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008. ~~Oherwydd ei bwysigrwydd i'r Deyrnas Unedig~~ **Fel Prosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol** fe fydd datblygiad **pwerdy niwclear newydd ar** y safle yma'n destun proses ganiatáu gwahanol i'r un mae awdurdod cynllunio lleol fel arfer yn mynd drwyddo. O dan y drefn ~~newydd~~ **wneud penderfyniadau ar Brosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn Neddf Cynllunio 2008,** fe gaiff cais am Rybudd Caniatâd Datblygu ei gyflwyno i'r ~~Adran Isadeiledd Cenedlaethol o fewn yr~~ Arolygiaeth Cynllunio. **Bydd yr Arolygiaeth cynllunio yn ystyried y cais a gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol am Ynni ynglŷn ag a** ~~, a fydd yn penderfynu os~~ ddylid caniatáu'r cais ai pheidio. **Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yna'n penderfynu caniatáu'r cais a' pheidio.** 3.8A ~~Yn wahanol i'r drefn yn Lloegr,~~ **Yng Nghymru nid all y Caniatâd am Rybudd Datblygu roi caniatâd i ddatblygiad sy'n cael ei adnabod fel "datblygiad cysylltiedig" ar wahân i amgylchiadau prin iawn. Yn lle hynny, yng Nghymru mae datblygiadau cysylltiedig yn derbyn caniatâd o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan**yr Awdurdod Cynllunio Lleol ~~a fydd yn penderfynu ceisiadau am ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â'r prif safle~~. **Er nad ydynt yn ddatblygiadau cysylltiedig fel y'i diffinnir o dan y Ddeddf Cynllunio mae'r Cynllun yma yn defnyddio'r term yn gysylltiedig â datblygiad sy'n cefnogi'r Prosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol.** Gall datblygiadau cysylltiedig **ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd** gynnwys: • ~~Gwaith hwyluso ar y prif safle~~ • Gwelliannau ffyrdd **ar hyd yr A5025** ~~sydd ar neu oddi wrth y llwybr presennol~~ • **Logisteg cludiant a llwythi** ~~Isadeiledd logisteg a pharcio a theithio~~	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws		Cyfiawnhad
			• Llety i weithwyr adeiladu **dros dro** 3.9 Yng Ngorffennaf 2011, fe gymeradwywyd chwe Datganiad Polisi Cenedlaethol am Ynni. Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn rhoi'r polisi cenedlaethol a gaiff eu defnyddio i asesu cynigion am brosiectau mawr am ynni a gwneud penderfyniadau amdanynt **gan yr Ysgrifennydd Gwladol**. Datganiad Polisi Cenedlaethol EN1 **(Datganiad Trawsfwaol Polisi Cenedlaethol am Ynni)**, EN-3 (**Datganiad Polisi Cenedlaethol am Ynni Adnewyddol)**, EN-5 **(Datganiad Polisi Cenedlaethol am Isadeiledd Rhwydwaith Trydan)** a EN-6 **(Datganiad Polisi Cenedlaethol am Gynhyrchu Pŵer Niwclear)** yw'r rhai sy'n debygol o fod yn berthnasol i ardal y Cynllun oherwydd y prosiectau isadeiledd mawr sy'n debygol o fod ag oblygiadau defnydd tir i'r ardal, e.e. adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa Newydd, a gwelliannau i'r rhwydwaith trawsgludo trydan y Grid Cenedlaethol. Mae Cyfrol II o Ddatganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 yn adnabod ffin **ddangosol** y safle ar gyfer yr orsaf bŵer niwclear newydd yn Ynys Môn; **mae EN-6 fodd bynnag yn cydnabod y gallai ffiniau a welir yn y DPC fod yn wahanol i ffiniau'r safle a fydd yn cael ei gynnig ar gyfer caniatâd datblygu er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau a fydd eu hangen oherwydd cynllun manwl, tir adeiladu ychwanegol, ac yn y blaen.** ~~Er mai bwriad pennaf~~ **Mae Deddf Cynllunio 2008 a'r** Datganiadau Polisi Cenedlaethol **yn creu fframwaith y bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried a phenderfynu ar geisiadau am brosiectau isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol. Disgwylir i gynlluniau datblygu lleol gael eu paratoi yn unol â'r datganiadau polisi cenedlaethol ac felly** ~~yw rhoi arweiniad i'r Arolygaeth Cynllunio i wneud penderfyniadau ar brosiectau mawr perthnasol,~~ fe fydd angen i'r broses o baratoi'r Cynllun roi sylw llawn **i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol** iddynt a'u dehongli wrth baratoi unrhyw bolisïau perthnasol.		
NF 3	3.10 Tabl 5	1081	Cynllun Trafnidiaeth **Leol ar y Cyd** Gogledd	**Y weledigaeth ydi cael gwared o rwystrau i dwf economaidd, ffyniant a lles trwy greu rhwydwaith teithio ddiogel,**	Er cywirdeb

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws		Cyfiawnhad
			Cymru **(2015)** (TAITH)	**gynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol. Mae'r Cynllun yn adnabod chwech o allbynnau, sef:** **1. Cysylltiadau i gyrchfannau a marchnadoedd allweddol – o fewn a rhwng Gogledd Cymru a rhanbarthau a gwledydd eraill (gyda ffocws penodol ar hygyrchedd i'r Parthau Menter a gwelliannau i hyfywdra a bywiogrwydd trefi a chanolfannau allweddol eraill);** **2. Mynediad i gyflogaeth;** **3. Mynediad i wasanaethau;** **4. Cynyddu lefelau cerdded a beicio;** **5. Gwell diogelwch pobl ac eiddo;** **6. Buddiannau ac ardrawiadau llai ar yr amgylchedd.** ~~Bwriad y cynllun yw cyflenwi rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, gynaliadwy ac effeithlon i gefnogi gweithgareddau economaidd a chymdeithasol cymunedau a busnesau amrywiol Gogledd Cymru gan roi ystyriaeth i'w rôl Ewropeaidd strategol.~~ ~~Bwriedir cyflawni'r weledigaeth hon drwy:~~ • ~~Optimeiddio hygyrchedd at gyflogaeth, addysg, iechyd a gwasanaethau ar gyfer holl gymunedau amrywiol Gogledd Cymru~~	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws		Cyfiawnhad
				~~• Gwella ansawdd a darpariaeth trafnidiaeth teithwyr ar draws Gogledd Cymru ac i mewn ac allan o'r Rhanbarth~~ ~~• Hwyluso symudiad effeithlon nwyddau i gefnogi diwydiant a masnach y Rhanbarth a'i swyddogaethau Porth Rhyngwladol~~ ~~• Darparu, hyrwyddo a gwella ffurfiau trafnidiaeth a seilwaith cynaliadwy er mwyn isafu effeithiau negyddol trafnidiaeth ar yr amgylchedd lleol ac yn fyd-eang~~ ~~• Gwella diogelwch pob ffurf o drafnidiaeth~~ ~~• Gwella effeithlonrwydd a defnydd o'r rhwydwaith drafnidiaeth~~ • ~~Uwchraddio a chynnal y seilwaith trafnidiaeth, gan ddarparu seilwaith arwyddocaol newydd yn ôl yr angen~~	
			Cynllun Trafnidiaeth **Leol ar y Cyd** Canolbarth Cymru (TRACC) **(2015)**	**Y weledigaeth ydi cynllunio ar gyfer system deithio integredig a fforddiadwy yn y rhanbarth a'i wireddu mewn partneriaeth, er mwyn hyrwyddo datblygiad economaidd, sicrhau mynediad i bob gwasanaeth a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedau a gwneud cyfraniad go iawn i reoli carbon ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'r Cynllun yn adnabod pump o allbynnau, sef:** **1. Mynediad i gyrchfannau a marchnadoedd allweddol o fewn Canolbarth Cymru, ac i ac o gyrchfannau a marchnadoedd allweddol eraill;** **2. Mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ar fynediad i'r Parth Menter a Pharthau Twf Lleol;**	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws		Cyfiawnhad
				3. <u>Gwella iechyd a lles trwy gynyddu cerdded a beicio</u> **4. <u>Gwell diogelwch pobl ac eiddo</u>;** **5. <u>Buddiannau ac ardrawiadau llai ar yr amgylchedd</u>.** ~~Bwriad y Cynllun yw cynllunio ar gyfer, a darparu mewn partneriaeth, system drafnidiaeth integredig yn Rhanbarth Trac sy'n hwyluso datblygu economaidd, yn sicrhau mynediad i bawb i wasanaethau a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedol ac yn parchu'r amgylchedd~~. ~~Blaenoriaethau Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol Trac yw~~: • ~~Lleihau'r galw am deithio~~ • ~~Lleihau effaith mudo ar yr amgylchedd lleol a byd-eang~~. • ~~Gwella diogelwch eiddo a diogelwch personol holl ddefnyddwyr trafnidiaeth~~. • ~~Gwella hygyrchedd teithio i wasanaethau, swyddi a chyfleusterau ym mhob sector o gymdeithas~~. • ~~Gwella ansawdd ac integreiddiad y system drafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys swyddogaeth trafnidiaeth gymunedol.~~ • ~~Darparu, hyrwyddo a gwella dulliau cynaliadwy o deithio~~. • ~~Cynnal a gwella'r seilwaith priffyrdd a thrafnidiaeth bresennol.~~ • ~~Sicrhau bod materion teithio a hygyrchedd yn cael eu hintegreiddio'n briodol mewn penderfyniadau defnydd tir~~. • ~~Gwella effeithlonrwydd, dibynadwyedd a chydgysylltiad mudo o fewn Canolbarth Cymru a rhwng y canolbarth a rhanbarthau eraill yng Nghymru a Lloegr~~.	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws		Cyfiawnhad
				• ~~Darparu rhwydwaith cydgysylltiedig ac integredig o deithio a thrafnidiaeth trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.~~	

Pennod 5 – Gweledigaeth ac Amcanion Strategol

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 4	5.4	1103	Yn achos Ynys Môn, mae Rhaglen Ynys Ynni Môn wedi adnabod y weledigaeth ganlynol yn y Canllaw Cynllunio Atodol: Gorsaf Niwclear Newydd yn y Wylfa (2014) i osod cyfeiriad ar gyfer hyrwyddo datblygiad Wylfa Newydd, sydd yn allweddol i drawsffurfio economi'r Ynys i'r dyfodol a darparu ansawdd bywyd hir dymor a chynaliadwy i drigolion Ynys Môn: "Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn sbardun ar gyfer trawsnewid yr economi a chymunedau yn Ynys Môn a fydd yn darparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol." **Mae'r Cynghorau yn ystyried bod Prosiect Wylfa Newydd yn rhoi cyfle unigryw a digynsail i Ynys Môn a hyrwyddwyr y prosiect i gydweithio i gyfrannu i drawsnewid cymdeithasol-economaidd Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy, gwella ansawdd bywyd cenedlaethau presennol a'r dyfodol a chryfhau hunaniaeth a gwahanolrwydd lleol.**	Er mwyn cynnal cysondeb mewnol
NF 5	Gweledigaeth – pwynt	1104	Erbyn 2026 …..	Er mwyn cynnal cysondeb

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
	bwled 5		• lle sy'n brolio gweithlu medrus priodol • lle ble mae'r preswylwyr a busnesau'n gallu achub ar y cyfleoedd trawsffurfiol economaidd newydd i ffynnu • rhywle sydd yn hybu gweithgaredd economaidd ymysg pobl ifanc • un sydd gan sail economaidd amrywiol, eang, gynaliadwy, gyda chysylltiadau da, ac sydd yn gwneud y defnydd gorau o gryfderau lleol a chyfleoedd a lle mae'r manteision sy'n deillio o'r sail economaidd amrywiol yn aros yn lleol. • un sy'n cael ei adnabod fel lleoliad blaenllaw i sectorau ynni adnewyddol a charbon isel amrywiol a diwydiannau wedi eu selio ar wybodaeth a fydd wedi cyfrannu at drawsnewid yr economi leol, **gan gynnwys bod yn gartref i bwerdy niwclear newydd a fydd yn cynhyrchu ynni carbon isel a chataleiddio adfywiad yn ardal y Cynllun.**	mewnol
NF 6	Thema 3	1105	**SO (x) cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.**	Er eglurder ac er mwyn cynnal cysondeb mewnol
NF 7	Thema 4 SO14	116	SO14 Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd**er mwyn cefnogi twf economaidd.**	Er eglurder ac er mwyn cynnal cysondeb mewnol
NF 8	Thema 5 Prif	306	Prif ganlyniadau:	Er mwyn cynnal cysondeb

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
	ganlyniadau		• bydd datblygiadau a gafodd ganiatâd mewn Ardaloedd Cadwraeth neu wrth ei ymyl wedi cynnal neu wella eu cymeriad hanesyddol; • ni fydd unrhyw Heneb Gofrestredig wedi cael ei golli oherwydd datblygiad; • ni fydd datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio wedi arwain at golli safle o werth cadwraeth natur ryngwladol neu genedlaethol **neu ddifrodi unrhyw un o'u nodweddion**; • bydd datblygiadau a gafodd ganiatâd o fewn neu wrth ymyl Safleoedd Treftadaeth Byd presennol neu rhai'r dyfodol wedi cynnal neu wella eu cymeriad hanesyddol.	mewnol

Pennod 6 - Y Strategaeth

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 9	6.11	302	Mae'n ceisio sefydlu rhwydwaith cryf o aneddleoedd sy'n gwneud ardal y Cynllun yn fwy hunangynhaliol o ran mynediad at swyddi, tai fforddiadwy, a gwasanaethau megis addysg a hyfforddiant, siopau, a hamdden. Y flaenoriaeth fydd cwrdd ag anghenion mor lleol ag y bo modd, a chadw cymaint o fanteision buddsoddi'n lleol ag sy'n bosibl, gan gydnabod bod gan swm y buddsoddiad yn Wylfa Newydd y potensial i fod o fudd i ardaloedd y tu hwnt i ardal y Cynllun. Mae'r Cynllun yn cydbwyso pwysigrwydd cynnal economïau gwledig gyda'r angen i ddiogelu cefn gwlad,**gan gynnwys yr amgylchedd naturiol**. Ceir rhestr lawn o aneddleoedd, lle maent yn eistedd yn y goeden aneddleoedd, a'r goblygiadau yn Atodiad 4.	Er mwyn cynnal cysondeb mewnol
NF 10	6.24 & 6.25	959, 960, 972, 973, 985, Cyngor	6.24 Mae Cynllun Integredig Sengl (2014) Gwynedd ac Ynys Môn yn nodi'r angen i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu. Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Gwynedd (2013) a Pholisi Cynllunio Cymru yn cydnabod y gall y system cynllunio defnydd tir gyfrannu at gynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg mewn cymunedau. **Mae Deddf**	Er mwyn cynnal cysondeb mewnol

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			Cynllunio (Cymru) yn cyflwyno pwerau deddfwriaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg yn y system gynllunio. Mae Adran 11 yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth wneud asesiad cynaliadwyedd, fel rhan o'r broses paratoi Cynllun. Mae hyn yn sicrhau bod yr asesiad yn cynnwys asesiad o effeithiau posib y cynllun ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn y gymuned. **Felly, ar ôl ystyried dwysedd siaradwyr Cymraeg ar draws ardal y Cynllun, a'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi, credir ei fod yn fater sydd angen ei gyfarch yn y Cynllun.** Yn dilyn hynny, mae cynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg yn nod o fewn y fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEI) ailadroddol wedi hysbysu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae canlyniadau'r AEI yn cael eu cofnodi yn yr adroddiad sy'n cofnodi'r casgliadau sydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau. **Mae amcan strategol SO1 yn atgyfnerthu'r amcan cynaliadwyedd.** 6.25 Felly ystyrir ei bod yn angenrheidiol i'r Cynllun gynnwys polisi penodol i**ddweud am yr amgylchiadau lle bydd y Cynghorau angen rhoi ystyriaeth i ardrawiad datblygiad ar yr iaith Gymraeg a diwylliant** ~~ymdrin â'r iaith Gymraeg~~. Yn ogystal, hyrwyddir diogelu a gwella'r iaith o fewn ardal y Cynllun drwy wahanol bolisïau yn y Cynllun. **Mae Tabl 7 ym Mhennod 3 yn tynnu sylw at y polisïau yma.** Mae'r polisïau'n hwyluso'r math o ddatblygiad sy'n gallu **cyfrannu i** greu'r amgylchiadau cywir i gyfrannu at gynnal a chreu cymunedau Cymraeg eu hiaith, e.e. cymysgedd o dai (daliadaeth a math), cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi a fydd yn ymhelaethu ar Bolisïau perthnasol yn y Cynllun er mwyn sicrhau cymunedau cynaliadwy.	
NF 11	6.26	1113	Y newid economaidd trawsnewidiol a ragwelir a fydd yn deillio o raddfa unigryw prosiectau isadeiledd ar Ynys Môn a statws yr Ynys fel Parth Menter fydd gyrrwr mwyaf y newid gofodol a chymdeithasol dros gyfnod y Cynllun. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn	Er mwyn cynnal cysondeb mewnol

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			gweithredu fel hwylusydd i ddatblygiad economaidd. Caiff hyn ei gyflawni drwy fframwaith polisi sy'n cefnogi egwyddorion Cynlluniau Strategol pob Awdurdod, Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn a Gwynedd, Cynlluniau Cyflogaeth a Rhaglen Ynys Ynni Môn. **Yn benodol, fe fydd y Cynllun yn hyrwyddo datblygiad amserol Prosiect Wylfa Newydd yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol.**	
NF 12	6.28	1114	Bydd cyflenwi Wylfa Newydd a phrosiectau strategol mawr eraill yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan y sector preifat. Byddant angen buddsoddiadau mawr mewn seilwaith, gan ddod â chyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o bwys, yn ogystal â heriau. Mae rôl bwysig gan y Cynllun o ran hwyluso datblygiad cynaliadwy'r prosiectau hyn wrth warchod diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd naturiol unigryw'r ardal. Bydd y Cynghorau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, **hyrwyddwyr prosiect** a sefydliadau busnes yn hyrwyddo a chefnogi datblygu economaidd cynaliadwy. Er mwyn hybu gweithgarwch economaidd ar Ynys Môn dynodwyd yr Ynys yn Ardal Fenter. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae dynodiad statws Ardal Fenter i Ynys Môn yn ategu'r Rhaglen Ynys Ynni Môn bresennol, a sefydlwyd i ddod â swyddi sgiliau uchel i'r ardal o fuddsoddiadau ynni mawr a sefydlu'r ynys fel canolfan ragoriaeth fyd-enwog mewn cynhyrchu ynni carbon isel. Mae naw o safleoedd allweddol ar yr Ynys wedi eu hadnabod mewn perthynas â bod yn destun i gymorth â ffocws. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dynodi Ardal Fenter Eryri, a allai, er ei bod wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, helpu i ledaenu ffyniant y tu hwnt i ffiniau gweinyddol y Parc.	Er mwyn cynnal cysondeb mewnol
NF 13	6.40	117, 218	Mae'r gofyniad sylfaenol ar gyfer tai (y targed) i ardal y Cynllun, h.y. 7,184, **sy'n rhoi ystyriaeth i'r gyfradd llefydd gwag,** yn seiliedig ar y dystiolaeth i gyd ac mae ganddo berthynas uniongyrchol â rhagolygon twf ardal y Cynllun a dyheadau'r ddau Gyngor. Ystyrir bod cysylltu gofynion tai i ragolygon economaidd ehangach yn gwella cadernid	Er eglurder

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			a’r gallu i gyflenwi Strategaeth y Cynllun. Rhagwelir y bydd yn cyfrannu at roi cyfle a lle i fyw a gweithio yn ardal y Cynllun. Mae lefel y twf yn adlewyrchu effeithiau'r dirwasgiad, yn ogystal â'r rhagolygon economaidd trawsnewidiol a ddisgwylir yn nes ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd y Cynllun yn hwyluso’r datblygiad sy'n ofynnol i ategu cynlluniau a rhaglenni strategol pob Cyngor. Dylai hyn olygu y bydd yr ardal yn dechrau dod yn fwy oedran cytbwys, yn fwy annibynnol ac yn llai dibynnol ar ffynonellau allanol o lafur, gyda chyfle i leihau’r lefelau cymudo allan, a bod ar ei ffordd i fod yn set o gymunedau mwy cynaliadwy a hunangynhaliol.	

PENNOD 7.1

Pennod 7.1 - Polisïau Strategol a Pholisïau Manwl - Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog

Iaith Gymraeg a Diwylliant

Cyf.	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 14	7.1.3	120, 959, 960, 972, 973, 985	7.1.3 Lle mae bwriad i ddatblygu, rhaid ystyried gwella a diogelu'r iaith a diwylliant.**Mae cynnal cymunedau presennol yn allweddol i hyn. Mae'r Cynllun, ynghyd â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn cynnig nifer o bolisïau, er nad ydynt yn cyfeirio'n benodol at yr iaith Gymraeg, a fydd yng nghyd â mentrau gan bartneriaid yn cael effaith bositif. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod canran uchel o'r boblogaeth bresennol yn byw mewn aneddleoedd gwledig ac felly mae'n cefnogi cymunedau gwledig a threfol.** **Mae'r angen i hyrwyddo economïau lleol iach yn debygol o fod yn bwysig iawn i gynnal cymunedau a chryfhau'r iaith. Mae'r ffordd yma yn darparu cyfleoedd i bobl aros o fewn ardal y Cynllun yn hytrach na mynd i chwilio am waith yn rhywle arall. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisïau a fydd yn hyrwyddo'r amcan yma, gan annog cyfleoedd economaidd yn agos i le mae pobl yn byw a fydd yn cael effaith bositif ar fywiogrwydd y gymuned a'r iaith Gymraeg. Yn ychwanegol i hynny disgwylir i unrhyw ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol ddangos dealltwriaeth o gyfansoddiad ieithyddol yr ardal maent yn gwneud cais cynllunio ar ei gyfer a chydnabyddiaeth o statws y Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru. Dylid dangos ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Bydd polisïau yn cynorthwyo i sicrhau bod y lefel gywir a math iawn o alw am gartrefi yn cael ei gyfarch a bod pryd fydd datblygiad yn digwydd yn galluogi iddo ddigwydd heb amharu yn arwyddocaol ar gymeriad y gymuned. Yn ychwanegol bydd polisïau yn anelu i gadw cyfleusterau cymunedol presennol a hyrwyddo cyfleusterau amgen neu gyfleusterau newydd, os yn briodol.** 7.1.4 Mae Polisi Strategol PS1 yn gosod y cyd-destun ar gyfer asesu'r effaith y gallai cynigion ei chael ar yr iaith a'r diwylliant, a hefyd darparu gwybodaeth o ran graddfa a	Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol

Cyf.	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			lleoliad datblygiad newydd fel sy'n cael ei fwriadu o fewn y strategaeth aneddleoedd	
NF 15	Polisi PS1	127, 800, 937, 955, 958, 1115, 959, 960, 972, 973, 985	POLISI STRATEGOL PS1: YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIC Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy: 1. **Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig yn disgyn i mewn i un o'r categorïau canlynol:** **a. Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m sg. neu fwy; neu** **b. Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na'r targed tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 14 – 18; neu** **c. Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap nad yw'n cynnig darparu ystod ddigonol o unedau tai o ran eu maint a mathau;** 2. **Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig:** **a. Ar safle ar hap; ac** **b. Yn mynd i ddenu neu roi llety i lawer mwy o bobl na ragwelwyd yn wreiddiol ym mholisïau a chynigion y Cynllun;** 3. Ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad**i liniaru'r effeithiau hynny** ~~iddynt~~; 4. Wrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i	Er eglurder ac er mwyn sicrhau cysondeb mewnol

Cyf.	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned; 5. **Gofyn i** ~~Annog bod~~ holl arwyddion **gweithredol** gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes yn ddwyieithog; 6. ~~Annog defnydd o~~ **Gosod disgwyliad y bydd** enwau ~~lleoedd~~ Cymraeg **yn cael eu defnyddio** ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.	
NF 16	7.1.4	800, 937, 955, 958, 1115, 959, 960, 972, 973, 985	**Bwriedir y bydd yr holl fesurau a ddisgrifir yn fras yn y paragraffau o flaen y Polisi yma yn cefnogi cymunedau a'r iaith Gymraeg. Er hynny, er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus adeg cais cynllunio gofynnir am wybodaeth am geisiadau lle gall datblygiad ddigwydd, pe fyddai'n cael caniatâd cynllunio, ar gyflymder neu raddfa sy'n wahanol i'r hyn a ragwelwyd adeg paratoi'r Cynllun, fel y gwelir ym maen prawf 1 a 2. Dylid gofyn am gyngor cynllunio cyn cyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i weld os fydd angen Datganiad neu Asesiad.** ~~Bydd yr iaith Gymraeg hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy wahanol bolisïau yn y Cynllun. Dylai'r holl ystod o gyfleoedd a ddarperir gan bolisïau strategol a manwl, gan gynnwys darparu amrywiaeth o fathau o dai, twf economaidd lleol a diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gyfrannu at wella bywiogrwydd yr iaith Gymraeg.~~ Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach am y mater.	Er eglurder ac er mwyn sicrhau cysondeb mewnol

Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 17	7.1.7 – 7.1.9	1118	7.1.7. Fe ddaeth ardoll cynllunio newydd i rym ar 6 Ebrill 2010 drwy Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010. Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr godi arian oddi wrth ddatblygwyr i ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd yn eu	Er mwyn ychwanegu eglurder a

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
		1119 1120	hardal hwy. Bydd modd defnyddio'r arian i dalu am amrediad eang o isadeiledd mae angen amdano o ganlyniad i ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau cludiant, amddiffynfeydd rhag llifogydd, ysgolion, ysbytai a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, parciau, llecynnau gwyrdd a chanolfannau hamdden. ~~7.1.8. Ar ôl 6ed o Ebrill 2015 dim ond 5 cyfraniad o gytundebau adran 106, ers 6ed Ebrill 2010, y gellir ei gynnwys mewn cronfa ar gyfer adnoddau a rannir, er enghraifft cyfraniadau ar gyfer gofodau chwarae yn sgil cyfres o ddatblygiadau mewn anheddle~~. 7.1.**8 Fe gafodd y gyfundrefn** ~~Mecanwaith gwirfoddol ydy'r~~ Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) **ei chyflwyno gyda'r nod i greu cyfundrefn doll fwy safonedig o ran isadeiledd adnabyddedig, er mwyn i ddatblygwyr a chynghorau weithio yn unol ag ef, ac felly i leihau'r amser a gymerir i negodi cytundebau rhwymedigaethau cynllunio unigol ar gyfer datblygiadau. Fe** gafodd y mecanwaith ei ddylunio, **felly,** i ddisodli'r system bresennol o gytundebau 106. **Fodd bynnag nid yw'r gyfundrefn CIL yn orfodol - mecanwaith gwirfoddol ydyw ac mae angen** ~~Fodd bynnag mae'n rhaid i'r~~ tystiolaeth **i** ddangos bod y farchnad yn ddigon hyfyw i ganiatáu hynny. **7.1.9 Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau CIL yn cyfyngu'r defnydd o gytundebau adran 106 o'r 6ed o Ebrill 2015. O'r dyddiad hwn gall Gynghorau ond gronni cyfraniadau o i fyny i bum gytundeb adran 106 (a gytunwyd ers 6ed o Ebrill 2010) i ariannu neu i ddarparu isadeiledd. Fe ellir cynnwys cyfraniadau anghyfyngedig cynt o fewn cronfa ar gyfer rhannu adnoddau, er enghraifft, gellir cronni cyfraniadau ar gyfer mannau chwarae o nifer o ddatblygiadau o fewn aneddleoedd.** **7.1.9A** Bwriad y Cynllun yw sicrhau cyfraniadau drwy Gytundebau 106 lle**maent yn cwrdd â'r profion statudol o: fod yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio; fod yn uniongyrchol berthnasol i'r datblygiad; yn weddol a rhesymol berthnasol o ran graddfa a math i'r datblygiad; a'u bod o fewn y cyfyngiadau cronni** ~~mae'r Rheoliadau'n parhau i ganiatáu i hynny ddigwydd~~ (gweler paragraff uchod). Mae'r Cynghorau'n ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno CIL, gan roi sylw i effaith hynny ar hyfywdra	chywirdeb i'r Cynllun.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			datblygiad. Bydd y CIL yn destun proses a dogfennau ar wahân i'r Cynllun. Bydd gwybodaeth yn cael ei gasglu am gostau darparu isadeiledd strategol, y gwahanol ffynonellau i dalu am yr isadeiledd a hyfywdra safleoedd. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd gyda datblygwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb a gwybodaeth am yr ardal.	
NF 18	Polisi PS2	1122, 119	Bydd y Cynghorau'n disgwyl i ddatblygiadau newydd sicrhau bod darpariaeth ddigonol c isadeiledd (naill ai ar y safle neu i wasanaethu'r safle) sy'n angenrheidiol yn cael ei ddarparu yn amserol ar gyfer gwneud y cynnig yn dderbyniol trwy amod neu rwymedigaeth cynllunio. **Yn ddarostyngedig ar gwrdd â'r profion statudol, fe all fod yn ofynnol gofyn am daliadau cynnal yn unol â chytundebau adran 106** ~~Fe ellir fod angen rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer taliadau cynnal~~ er mwyn cwrdd â chostau dechreuol i redeg gwasanaethau a chyfleusterau ac i ddigolledu cymunedau am golled neu ddifrod achosir gan ddatblygiad. Lle nad ellir darparu'r isadeiledd **sy'n galluogi bwriad, yn** angenrheidiol **a hanfodol o ganlyniad i'r bwriad** ar safle gofynnir am gyfraniadau ariannol, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i gael y buddsoddiad angenrheidiol oddi ar y safle. Os yw effaith y datblygiad yn un cronnol fe ellir cronni'r cyfraniadau ariannol, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, er mwyn lliniaru'r effaith cronnol.	Er mwyn ychwanegu eglurder a chywirdeb i'r Polisi yn unol â'r Rheoliadau.
NF 19	7.1.10 – 7.10.12	697, 1115, 511, 959, 960, 972, 973, 985	1. Tai fforddiadwy 2. Cyfleusterau chwaraeon a hamdden 3. Cyfleusterau addysgol 4. **Cyfleusterau cyflogaeth a hyfforddiant** 5. Hamdden a llecynnau agored 6. Isadeiledd trafnidiaeth yn cynnwys cludiant cyhoeddus 7. Cyfleusterau gofal iechyd 8. Cadwraeth natur	I ddangos bod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			9. Cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu 10. Isadeiledd adnewyddadwy a charbon isel 11. Cyfleusterau diwylliannol a chymunedol 12. **Mesurau Iaith Gymraeg** 13. Isadeiledd band llydan 14. ~~Adfywio~~ **Tir y cyhoedd** 15. Mesurau rheoli risg llifogydd 16. Isadeiledd gwasanaethau, gan gynnwys cyflenwad dŵr, draenio, carthffosydd, nwy a thrydan 17. ~~Cyfraniad arall yr ystyrir sy'n briodol i'r cynnig.~~**Asedau archeolegol a hanesyddol**	
NF 20	Polisi ISA 1	1125, 1126, 1127, 121, 439, 469, 1060	7.1.10. Yn aml, bydd datblygiadau newydd angen isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau newydd, neu byddant yn ddibynnol ar rai presennol, i wneud cynigion yn dderbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir. **Nid yw'r rhestr sydd wedi ei chynnwys yn y Polisi yn un drwyadl neu gyfyngedig, ond mae'n rhoi syniad o'r cwmpas posib o isadeiledd a all fod yn ofynnol.** Mae modd ceisio cael buddion **statudol** ~~cymunedol~~, sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig ac yn angenrheidiol ar gyfer derbyn caniatâd cynllunio, gan y datblygwyr, cyn belled **â'u bod yn cwrdd â'r profion sydd wedi eu hamlinellu ym mharagraff 7.1.6 o'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol** ~~â bod graddfa a math y buddion hynny'n rhesymol gysylltiedig â'r cynnig~~. **Mae Papur Testun 13 ar Isadeiledd Cymunedol yn gwahaniaethu rhwng isadeiledd hanfodol a dewisol.** Mae'n bwysig bod y ddarpariaeth isadeiledd ar gyfer safle datblygu yn cael ei lleoli a'i dylunio mewn modd sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Dylid gwarchod mwynderau'r trigolion lleol hefyd. Bydd **Buddion Statudol** ~~cyfraniadau at isadeiledd cymunedol~~ yn cael eu sicrhau un ai trwy rwymedigaethau ~~cynllunio~~ **Adran 106 dan** ~~fel y nodir yn Adran 106~~, Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, **fel amodau caniatâd cynllunio** neu, **mewn amgylchiadau pan fo cyfundrefn codi tâl CIL yn cael ei gyflwyno gan y Cynghorau,** trwy dderbynebion ~~ardoll~~ dan Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 ~~os dengys ei bod hi'n hyfyw i wneud hynny~~.	I sicrhau eglurder a chysondeb.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			Ble gall y gallu i ddarparu datblygiad gael ei roi yn y fantol gan raddfa ymrwymiadau cynllunio a chostau eraill, efallai bydd angen asesiad hyfywdra. Dylai hwn gael ei hysbysu gan yr amgylchiadau penodol o'r safle a'r datblygiad arfaethedig dan sylw. Mae'n angen dadansoddiad manylach wrth asesu hyfywdra safle penodol o gymharu â lefel cynllun. 7.1.11. Mae **Buddion Statudol** ~~rhwymedigaeth gynllunio yn gytundeb cyfreithiol rhwng yr awdurdod lleol a datblygwr sy'n rhwymo'r naill ochr a'r llall. Mae rhwymedigaethau cynllunio~~ yn fodd o sicrhau cyfraniadau **ariannol a di-ariannol** er mwyn gwella ansawdd datblygiad, darparu ~~buddion ac~~ isadeiledd ~~cymunedol~~, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a all godi o ganlyniad i'r datblygiad. Bydd math a gwerth y **Buddion Statudol** ~~rhwymedigaethau cynllunio~~ a geisir mewn perthynas â **datblygiad** ~~chaniatâd cynllunio~~ yn cael eu hystyried yn ôl pob achos unigol. **Fe fydd y Cynghorau yn edrych ar ddefnyddio Buddion Statudol er mwyn sicrhau cyfraniadau priodol gan ddatblygwyr ble** ~~Os~~ nad oes darpariaeth isadeiledd ar gael, neu os yw'n annigonol~~, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r datblygwr wneud cyfraniad priodol~~. 7.1.12 Bydd y profion a amlinellir yng Nghylchlythyr 13/97 ac yn Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 yn cael eu defnyddio i bennu pryd fyddai'n briodol ceisio **Buddion Statudol** ~~rhwymedigaethau cynllunio~~. Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach ar y mater.	
NF 21	7.1.15	959, 960, 972, 973, 985	7.1.15 Mae Polisi ISA2 yn anelu i warchod cyfleusterau cymunedol presennd ac annog datblygu cyfleusterau newydd lle bo hynny'n briodol. Mae cyfleusterau hamdden a chymunedol lleol yn bwysig i anghenion iechyd, cymdeithasol, addysgol **ieithyddol** a diwylliannol ardal y Cynllun, yn ogystal â'i les economaidd. Er dibenion y polisi hwn, diffinnir cyfleusterau cymunedol fel cyfleusterau a ddefnyddir gan gymunedau lleol at ddibenion iechyd, hamdden, cymdeithasol ac addysgol ac maent yn cynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, darpariaeth gofal iechyd, theatrau, neuaddau pentref, mynwentydd, addoldai, tafarndai, ac unrhyw gyfleuster arall sy'n cyflawni'r rôl o wasanaethu'r gymuned.	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 22	Polisi ISA 5	304	2. Gwneud cyfraniad ariannol tuag at gyfleusterau newydd **gan gynnwys offer, gwella cyfleusterau presennol ar safleoedd sydd â mynediad neu wella mynediad i fannau agored presennol.** ~~neu well, yn cynnwys offer rywle arall.~~	I ddangos fod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol.

Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF **23**	Polisi PS4	148, 664, 1131	Caiff datblygiad ei leoli i leihau'r angen i deithio. Bydd y Cynghorau'n cefnogi gwelliannau trafnidiaeth fydd yn uchafu hygyrchedd ar gyfer pob dull o deithio, ond yn arbennig ar droed, beic a chludiant cyhoeddus. Caiff hyn ei wireddu trwy gael mynediad hwylus ar lwybrau, isadeiledd beicio a chludiant cyhoeddus lle mae'n briodol, ac felly hyrwyddo'r defnydd o'r dulliau yma o deithio ar gyfer teithio lleol a lleihau'r angen i deithio yn y car. Bydd y Cynghorau'n ceisio gwella hygyrchedd a cheisio newid ymddygiad teithio trwy weithio gyda phartneriaid i: 1 Gynnal gwasanaeth cludiant cyhoeddus priodol, gan gydnabod dulliau gwahanol o gynnal cyfleon teithio; 2. Gynnal a gwella gorsafoedd, isadeiledd a gwasanaethau ar y prif Linellau Rheilffordd gan gynnwys mynediad i bobl anabl **a gwelliannau eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd** 3. **Lle'n bosib gwarchod,** gwneud ychwanegiadau, ~~neu~~ welliannau **a hyrwyddo** ~~i rwydwaith~~ llwybrau ~~cyhoeddus~~ a **hawliau tramwy (yn cynnwys llwybrau, llwybrau ceffyl a chilffyrdd)** llwybrau beicio er mwyn gwella diogelwch, hygyrchedd a mynediad (gan gynnwys defnyddwyr anabl) i'r dulliau yma o deithio **ac i gynyddu buddion iechyd, hamdden, lles a**	

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			thwristiaeth i'r gymuned leol ac ymwelwyr; 4. Cefnogi cynlluniau a fydd yn gwella trafnidiaeth trwy gyfleusterau parcio/ rhannu a theithio i ardaloedd cyflogaeth a datblygiad newydd **a** c**h**yfleusterau symud llwythau ~~a gwelliannau eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd~~; 5. Ddynodi neu warchod tir lle mae'n briodol er mwyn hyrwyddo cynlluniau trafnidiaeth strategol. Bydd y Cynghorau'n disgwyl y bydd elfennau isadeiledd allweddol**priodol** yn cael eu darparu fel rhan o gynlluniau datblygiadau isadeiledd mawr **unai mewn nwyddau neu trwy oblygiadau cytundeb 106**. ~~Defnyddir ymrwymiadau cynllunio neu fecanweithiau priodol eraill gyda phob datblygiad ar safleoedd datblygiadau mawr i leihau eu heffaith ar system trafnidiaeth ardal y Cynllun yn unol â Pholisi Strategol PS2 yn ogystal â hyrwyddo system integredig o drafnidiaeth~~.	
NF 24	Polisi TRA 1	1132	1. Gwelliannau i Isadeiledd Presenno Caniateir gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant presennol os gallir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol: i. Bydd y llwybr a/neu'r safle a ddewisir yn cael yr ardrawiad lleiaf posib ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, y dirwedd ac eiddo; a ii. Cedwir y tir a gymerir yn barhaol y lleiaf sydd ei angen a bydd yn gyson â dylunio da a thirweddu o ansawdd uchel; ac iii. Yn achos llwybrau beicio, cynlluniau parcio a theithio, ardaloedd gwasanaeth ger y ffordd ac ochr y ffordd, bydd y cynllun yn helpu i wella diogelwch ffyrdd; ac Yn achos ffyrdd newydd, mae ystod lawn o ddatrysiadau ymarferol i broblem trafnidiaeth wedi'u hystyried ac mae gwella ffyrdd yn cynnig y datrysiad gorau; ac v. Yn achos ardaloedd gwasanaeth ger ochr y ffordd, rhaid i'r cynllun ffinio'r rhwydwaith ffyrdd strategol a chanolbwyntio ar wasanaethu anghenion gyrwyr, peidio â rhwystro symudiad traffig strategol ac yn unol â Pholisi Strategol PS12, ni ddylent danseilio'r	

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			ddarpariaeth manwerthu yn y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol neu Bentrefi. 2. Trosglwyddo Rhwng Dulliau Cludiant Er mwyn hwyluso trosglwyddo rhwng dulliau cludiant a helpu i leihau'r galw am deithio a lleihau'r ddibyniaeth ar geir, caniateir y cynigion canlynol: i. Gwelliannau i gyfnewidfeydd rheilffyrdd a bysus presennol, gan gynnwys mesurau i hwyluso mynediad drwy ddulliau teithio actif a phobl anabl gydag anghenion mynediad penodol; ii. Cyfleusterau parcio a theithio wedi'u lleoli'n strategol a'u cefnogi gan wasanaethau bysus deniadol, aml a dibynadwy; ~~iv~~**iii**. Cyfleusterau parcio lorïau dros nos a chyfleusterau trosglwyddo llwythi wedi'u lleoli'n strategol; **i**v. Cyfleusterau ansawdd uchel ar gyfer gyrwyr a theithwyr gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i seddau, gwybodaeth, cyfleusterau toiledau; v~~i~~. Cyfleusterau ar gyfer parcio a rhannu mewn lleoliadau priodol ar y rhwydwaith priffyrdd strategol yn agos at aneddleoedd neu oddi mewn iddynt; vi~~i~~. Cyfleusterau ar gyfer parcio bysus, tacsis a mannau gollwng teithwyr; viii~~.~~ Cyfleusterau cyfnewidfa ar gyfer cludiant ar ddŵr. 3. Asesiadau Cludiant **Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau graddfa fawr neu ddatblygiad o fewn ardal sensitif sydd yn cynyddu'n sylweddol y nifer o deithiau trwy gerbydau preifat yn cael ei wrthod os nad ydynt yn cynnwys mesurau fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth ac/neu Gynllun Teithio**~~Yn unol â Pholisi PCYFF1, dylid darparu Asesiad Trafnidiaeth~~. Ble bo'r Asesiad Trafnidiaeth yn dangos bod angen Strategaeth Gweithredu Cludiant, bydd angen sicrhau hyn drwy rwymedigaeth cynllunio.	

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			4. Cynlluniau Cludiant Bydd gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant strategol yn ardal y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy ddiogelu a darparu tir. Mae'r cynlluniau yn cynnwys: i. A487 Caernarfon i Bontnewydd ii. Ffordd gyswllt Llangefni ~~iii. A5025 Y Fail i Wylfa Newydd / Amlwch i Wylfa Newydd a gwelliannau eraill i'r isadeiledd cludiant sy'n gysylltiedig â datblygiad niwclear newydd yn Wylfa Newydd gan gynnwys Canolfan Gorfforaethol~~.	
NF 25	7.1.44	1133	7.1.44. ~~Gellid lleihau'r nifer o deithiau ar y rhwydwaith ffyrdd i Wylfa Newydd drwy greu Canolfan Gorfforaethol. Gallai gweithwyr nad oes angen iddynt fynychu'r safle gynnal cyfarfodydd a hyfforddiant yn y Canolfan Gorfforaethol a gellid ymgorffori hwn â chyfleuster parcio a theithio er mwyn caniatáu teithio ymlaen i safle Wylfa Newydd~~.**Bydd y Cynghorau yn gweithio efo hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd i ddatblygu cynllun priodol o ddatrysiad trafnidiaeth i liniaru'r effaith o adeiladu a gweithrediad yr orsaf bŵer newydd. Yn ogystal i'r gwelliannau a gyfeirir tuag atynt uchod bydd datrysiad yn debygol o gynnwys datblygu cynllun parcio a rhannu datblygu canolfan logisteg i reoli'r niferoedd ac amseriad symudiadau trafnidiaeth i safle'r orsaf pŵer. Bydd yr hyrwyddwr a'r Cynghorau yn gweithio ar y cyd mewn partneriaeth i ddatblygu Strategaeth Trafnidiaeth a Chludiant wedi'i Integreiddio ar gyfer prosiect Wylfa Newydd.**	
NF 26	Polisi TRA 2	1096	**7.1.44A Yn unol â pholisi a chanllaw cenedlaethol dylid defnyddio safonauchafswm parcio o fewn ardal y Cynllun fel ffurf o reoli'r galw.** [Paragraff newydd i'w gynnwys cyn paragraff 7.1.45)	
NF 27	Polisi TRA 3	161	Gwrthodir cynigion sy'n atal y posibilrwydd o ail agor isadeiledd hen reilffyrdd neu reilffyrdd segur i'w defnyddio at ddibenion rheilffyrdd neu ddibenion cludiant amgen.**Ble'n berthnasol ac yn hyfyw, bydd y posibilrwydd o ail agor isadeiledd rheilffyrdd segur ar gyfer defnydd fel**	

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			<u>rheilffordd neu ddibenion cludiant amgen yn cael ei hyrwyddo a'i annog</u>	

PENNOD 7.2

Pennod 7.2 - Polisïau Strategol a Pholisïau Manwl - Byw'n Gynaliadwy

Datblygiad cynaliadwy a newid hinsawdd

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 28	Polisi PS5	1056, 167, 168, 852, 853, 768	PS5: DATBLYGU CYNALIADWY **Cefnogir datblygiadau ble gellid** ~~Gwrthodir cynigion oni bai y gallir~~ dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. ~~Mae'n rhaid i~~**Dylai** bob cynnig: 1. Gydymffurfio â pholisi ac arweiniad cynllunio cenedlaethol yn unol â PCYFF 1; 2. Lliniaru'r hyn sy'n peri newid hinsawdd ac addasu i'r effeithiau hynny sy'n anochel yn unol â Pholisi Strategol PS6; 3. Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir ac isadeiledd yn effeithiol, gan flaenoriaethu ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen lle bynnag bo hynny'n bosib oddi mewn i ffiniau datblygu'r Ganolfan Isranbarthol, y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol, Pentrefi neu yn y mannau mwyaf priodol y tu allan iddynt yn unol â Pholisi Strategol PS15 **PS10 a PS11**; 4. Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau; gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol, chwaraeon ac adloniant; ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith; isadeiledd ffisegol a chymdeithasol a dewis o ddulliau teithio; 5. Gwarchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS1; 6. Cadw a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad), gwella'r ddealltwriaeth ohonynt, y gwerthfawrogiad ohonynt am eu cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a gwneud defnydd cynaliadwy ohonynt yn unol â Pholisi Strategol PS17;	I sicrhau eglurder a chywirdeb yn y Cynllun I ddangos fod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			7. Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu yn unol â Pholisi Strategol PS16. 8. Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu tuag at gadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; defnyddio ynni adnewyddadwy; lleihau / ailgylchu gwastraff; defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a diogelu ansawdd y pridd ; 9. Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac a wastreffir; lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr ac ar ansawdd y dŵr; rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy a dilyn amcanion Cynllun Rheoli Bas Afonydd Gorllewin Cymru. Pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd: 10. Ddiwallu anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran ansawdd, y mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd unedau tai yn unol â Pholisi Strategol PS13; 11. Hyrwyddo economi leol amrywiol ac ymatebol, sy'n annog buddsoddiad ac sy'n gallu cynnal ein Canolfannau, Pentrefi ac ardaloedd gwledig yn unol â Pholisi Strategol PS10; 12. Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau yn unol â Pholisi Strategol PS10; 13. Lleihau'r angen i deithio **gyda thrafnidiaeth breifat** ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn ac mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS4; 14. Hyrwyddo safonau dylunio uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol, mannau hygyrch sy'n medru ymateb i ofynion y dyfodol ac sy'n lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofni trosedd yn unol â Pholisi Manwl PCYFF 2. 15. **Hyrwyddo cyd-leoli datblygiadau er mwyn optimeiddio cyfleoedd ar gyfer ynni adewyddadwy ble'n berthnasol**	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 29	Polisi PCYFF 1	1136, 774, 124, 123, 171, 172	PCYFF 1: MEINI PRAWF DATBLYGU **Rhaid i gynnig ddangos ei fod yn cydymffurfio gyda:** 1. ~~Rhaid i gynnig cydymffurfio â'r~~ holl bolisïau perthnasol yn y Cynllun; 2. ~~Rhaid i gynnig cydymffurfio a~~ pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. **Dylai cynigion:** 3. ~~Caniateir cynigion~~ **roi blaenoriaeth i safleoedd y tu** mewn i ffiniau datblygu neu ffurf adeiledig y clystyrau cydnabyddedig restrir yn y goeden aneddleoedd a welir ym Mholisi Strategol PS15 **oni bai fod lleoliad gwledig yn hanfodol neu os oes angen am leoliad penodol,** yn ddarostyngedig i ystyriaethau cynllunio perthnasol. 4. wneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys dwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar o ran datblygiadau preswyl (oni bai bod yna amgylchiadau lleol**neu gyfyngiadau ar y safle** sy'n pennu dwysedd is); 5. ymgorffori gofod mwynderol ar gyfer ei feddianwyr presennol ac yn y dyfodol; 6. roi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff; 7. Rhaid i gynnig cynnwys, lle mae hynny'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer trin a chael gwared â rhywogaethau ymwthiol yn effeithiol; Yn ychwanegol, gwrthodir cynigion os fyddant yn cael effaith andwyol sylweddol ar: 8. Golygfeydd cyhoeddus amlwg i mewn, allan, neu ar draws unrhyw anheddle neu ardal cefn gwlad agored; 9. fynediad cerbydol i'r rhwydwaith priffyrdd ac ohono ac ar isadeiledd cludiant cyhoeddus, beicio a cherddwyr (yn unol â Pholisi TRA4) 10. y rhwydwaith priffyrdd o ganlyniad i faint neu'r math o draffig a grëir gan y cynnig (yn unol â Pholisi TRA4); 11. iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			o lygredd neu aflonyddwch; 12. ansawdd dŵr daear neu ddŵr wyneb; 13. dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas; 14. dir **sydd wedi cael ei ddynodi** ~~sy'n cael ei warchod~~ ar gyfer **ddatblygiadau eraill** ~~defnyddiau eraill, neu sy'n amharu datblygiad neu ddefnydd tir cyfagos~~.	
NF 30	Polisi PCYFF 2	778	7.ii **Dim yn** atal y defnydd presennol o dir arall sydd gyfochrog oherwydd gosodiad a ffurf y datblygiad;	I sicrhau cywirdeb.
NF 31	Polisi PCYFF 3	943	1. Ddangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r Asesiad Ardal Cymeriad Tirwedd neu'r Asesiad Ardal Cymeriad Tirwedd berthnasol **neu asesiadau manwl eraill a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**	I sicrhau eglurder.
NF 32	Polisi PCYFF 4	1057 1058	Dylai datblygwyr roi ystyriaeth ofalus i'r mesur rheoli carbon mwyaf priodol, neu gŵp o fesurau, ar gychwyn cynllun datblygu. Gallai hwn fod yn fesur unigol neu'n gyfuniad o fesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Fe ddylid defnyddio'r dechnoleg sydd fwyaf priodol i'r safle a'r ardal o gwmpas. Ym mhob achos, fe ddylai'r cynlluniau fod o'r ansawdd esthetig uchaf yn unol â Pholisi PCYFF2 gan roi ystyriaeth i'r effeithiau cronnus posib o gyfuniad o fesurau rheoli carbon. **Gall asesiad ynni helpu i adnabod yr opsiynau rheoli carbon mwyaf priodol ar gyfer datblygiad a dylid ymgymryd ag ef cyn penderfynu ar y dull fwyaf addas i'w gymryd. Rhestrir yr opsiynau posib ar gyfer effeithlonrwydd ynni a chynhyrchiad ynni adnewyddadwy isod:**	I sicrhau eglurder a chywirdeb.

Technoleg Adnewyddol

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 33	7.2.24	Cyngor	7.2.24 Yn 2012 fe gafodd Astudiaethau Capasiti Ynni Adnewyddol eu paratoi ar gyfer (Sir) Gwynedd ac Ynys Môn i asesu'r capasiti posibl ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddol. Pwrpas yr Astudiaethau oedd cynorthwyo'r Cynghorau i ddeall yr adnoddau oedd yn bosibl oddi wrth y gwahanol dechnolegau ynni adnewyddol. Fe fu'r Astudiaethau'n ystyried nifer o dechnolegau ar y tir e.e. gwynt ar y tir, pŵer dŵr, biomas. Roedd yr astudiaethau'n cydnabod technolegau yn y môr, ond nid yw'r rheiny'n cyfrannu at ffigyrau capasiti ynni adnewyddol ardal y Cynllun. **Yn Medi 2015 fe ddaru Lywodraeth Cymru gyflwyno diweddariad i 'arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr'. Mae'r llawlyfr yn cynnwys adran ar sut i asesu'r potensial ar gyfer datblygu ffermydd solar. Hefyd mae'n rhoi cyngor ynghylch troi'r asesiadau ynni adnewyddadwy yn bolisïau. Cafwyd llythyr dyddiedig y 10 Rhagfyr 2015 gan Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn datgan ei ddisgwyliad ar gyfer polisïau ynni mewn CDLl. Mae'n disgwyl dynodiadau neu adnabod ardaloedd chwilio ar raddfa awdurdod lleol (5MW i 25MW) ar gyfer ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel. Yng ngoleuni hyn mae'r Cynghorau wedi comisiynu gwaith ychwanegol i ganfod unrhyw ardaloedd posib ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Yn ogystal bydd asesiad yn erbyn Astudiaeth Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau yn canfod os oes unrhyw ardal graddfa awdurdod lleol y dylid ei adnabod o fewn y Cynllun.** Fe welodd yr Astudiaethau, tra bod gan ardal y Cynllun adnodd naturiol uchel ar gyfer ynni adnewyddol, fod hefyd nifer fawr o dirweddau yn rhai o	I ddangos bod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol.

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			ansawdd uchel, sy'n lleihau beth mae modd ei ddefnyddio. Mae'r Polisi Strategol a ganlyn yn rhoi fframwaith cadarnhaol ar gyfer darparu ynni o ffynonellau adnewyddol.	
NF 34	Polisi PS7	607, 765	POLISI STRATEGOL PS7: TECHNOLEG ADNEWYDDADWY Bydd y Cynghorau'n ceisio sicrhau bod ardal y Cynllun yn cyflawni ei botensial fel ardal arweiniol ar gyfer mentrau wedi'u seilio ar dechnolegau adnewyddadwy neu garbon isel lle bynnag y bydd hynny'n ymarferol a hyfyw trwy hybu: 1. technolegau ynni adnewyddol fel rhan o gynigion fydd yn cefnogi cynhyrchu ynni o ffynonellau amrywiol sy'n cynnwys, biomas, morol, gwastraff, dŵr, daear, haul, a ffynonellau gwynt, gan gynnwys micro gynhyrchu; 2. datblygiad technoleg ynni adnewyddol ar ben ei hun Caiff hyn ei gyfarch trwy: i. sicrhau nad yw cyfarpar mewn ardaloedd wedi'u cynnwys o dan ddynodiadau tirwedd ryngwladol neu genedlaethol ac i'w gweld tu draw i'w ffiniau, neu ardaloedd o werth lleol ar gyfer y dirwedd, yn unol â Pholisi Strategol PS16, ddim, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn cyfaddawdu amcanion y dynodiadau, yn enwedig o ran cymeriad y dirwedd, yr effaith weledol ac amwynder preswyl **a mwynder tai a ddefnyddir gan Ymwelwyr ar eu gwyliau;** ii. sicrhau nad yw arsefydliadau yn unol â PS16, yn cyfaddawdu amcanion dynodiadau cadwraeth natur ryngwladol, genedlaethol a lleol unai'n unigol neu'n gronnus; iii. cefnogi gosod cyfarpar tu allan i ardaloedd wedi'u dynodi, cyn belled nad	I sicrhau cysondeb

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			yw'r cyfarpar yn achosi niwed sylweddol y gellir ei brofi i gymeriad y dirwedd, bioamrywiaeth, amwynder preswyl, **a mwynder tai a ddefnyddir gan Ymwelwyr ar eu gwyliau,** naill ai yn unigol neu gyda'i gilydd. **I leihau effaith gweledol gwifrau newydd uwchben yn gysylltiedig efo fath gyfarpar, yn enwedig mewn mannau sensitif, fe ddylid gosod y gwifrau tan ddaear os na fod hyn yn achosi niwed sylweddol i ddiddordebau cydnabyddedig eraill neu hyfywedd y bwriad, na ellid ei negyddu neu liniaru.**	
NF 35	Polisi ADN 1	608, 711, 713, 894, 950	POLISI ADN1: YNNI GWYNT AR Y TIR Gwrthodir unrhyw ffermydd gwynt / ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Fawr neu Fawr Iawn yn ardal y cynllun. Caniateir cynigion ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt eraill ar y tir yn amodol ar asesiad o'u heffeithiau amgylcheddol a chynaladwyedd: **1.** Caniateir ffermydd gwynt / ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Ganolig ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol yn unig neu pan mae'r cynigion yn ymwneud ag ail bweru ffermydd gwynt / ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt presennol. **2.** Caniateir cynigion ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Ficro a Bychan y tu allan i'r AHNE, ATA a gosodiad y**r AHNE, ATA** Parc Cenedlaethol a Safle Treftadaeth y Byd. **3.** Yn yr AHNE, ATA a gosodiad y**r AHNE, ATA** Parc Cenedlaethol a Safle Treftadaeth y Byd, dim ond datblygiadau ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Ddomestig sy'n perthnasu'n dda gydag aneddleoedd / adeiladau presennol fydd yn cael eu caniatáu. Dylai pob cynnig gydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:	I sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd I ddangos bod y Cynllun yn rhoi sylw llawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod allan.

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			i. ni fydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau gweledo neu gymeriad y dirwedd drwy: nifer, graddfa, maint, dyluniad a gosodiad ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ac isadeiledd cysylltiedig yn enwedig mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth hanesyddol neu werth y dirwedd; ii. ni fydd y cynnig yn arwain at niwed i fioamrywiaeth yn cynnwys safleoedd a rhywogaethau wedi'u gwarchod yn statudol, yn enwedig ystlumod ac adar; iii. ni fydd y cynnig yn arwain at niwed sylweddol i ddiogelwch neu fwynderau derbynyddion sensitif yn cynnwys **effaith gan** sŵn, taflu cysgod ac **effaith ar** iechyd cyhoeddus, ac ni fydd yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd nac awyrennau. iv. ni fydd cynnig yn arwain at niwed sylweddol i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos; v. ni fydd y cynnig yn arwain at ymyrraeth electromagnetig annerbyniol â chyfarpar cyfathrebu, systemau rheoli radar neu draffig awyr, systemau cyfathrebu'r gwasanaethau brys neu systemau telegyfathrebu eraill; vi. ni fydd y datblygiad yn cael effeithiau cronnus annerbyniol mewn perthynas â ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt presennol, y rhai sydd wedi'u gweithredu a'r rhai sydd â chaniatâd, ac unrhyw nodweddion amlwg eraill yn y dirwedd; vii. ar ddiwedd oes weithredol y cyfleuster, bydd ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu i lawr a chytunir ar gynllun adfer tir ac ôl-ofal priodol. Caiff cynnig ei ystyried fel un sy'n syrthio i'r categori sy'n cynrychioli'r math mwyaf o'r hyn y mae'n gymwys ar ei gyfer.	

<table>
<tr><th>Cyfeirnod</th><th>Rhan</th><th>Rhif Sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th></tr>
<tr><td>NF 36</td><td>7.2.33</td><td>713, 950, 1066</td><td>7.2.33 Oherwydd nad oes unrhyw Ardal Chwilio Strategol wedi'i nodi yn yr ardal, ni fydd unrhyw ffermydd / ~~melinau~~ <u>tyrbinau</u> gwynt ar Raddfa Fawr neu Fawr Iawn yn cael eu cefnogi.

Tabl 13 : y deipoleg ~~felin~~ <u>tyrbin</u> gwynt a ddefnyddir ym mholisi ADN1

[Pob cyfeiriad tuag at felin / melinau yn y tabl yn cael ei newid i dyrbin / tyrbinau. Yr unig newid arall yw'r newid i'r Deipoleg Mawr Iawn a ddangosir isod]
<table>
<tr><th>Teipoleg Felin Wynt</th><th>Allbwn Dangosol (categori allbwn eang)</th><th>Meini Prawf Atodol

(yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf hyn) (yn pennu p'un a yw'r deipoleg hon yn gymwys neu p'un a oes angen un fwy)</th></tr>
<tr><td>MAWR IAWN</td><td>Dros 25MW</td><td>• ~~Deg neu fwy o felinau gwynt o ran nifer~~

• ~~Melinau~~ <u>Tyrbinau</u> gwynt yn mesur dros 110m i frig y</td></tr>
</table>
</td><td>I sicrhau eglurder.

I sicrhau cysondeb.</td></tr>
</table>

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws					Cyfiawnhad
						llafn • Yn cael ei ystyried fel fferm wynt ar raddfa fawr iawn		

Rheoli Newid Arfordirol

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 37	7.2.49	771	Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddangos eu bod wedi ystyried Cynlluniau Rheoli Traethlin, sy'n darparu asesiad eang o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol, a'r rhain ddylai fod y brif ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer diffinio ardal rheoli newid arfordirol a phennu dynodiadau tir oddi mewn iddynt. Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (SMP) 2 yn gosod ystod o bolisïau ar gyfer yr arfordir, sef 'cynnal y llinell', 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'ail-linio dan reolaeth', fesul cyfnodau gwahanol y polisi. Mae cyfnodau'r polisi fel a ganlyn: hyd at 2025, 2026 i 2055 a 2056 i 2105. Gallir gweld copi o'r Cynllun Rheoli Traethlin yn (<http://www.westofwalessmp.org/content.asp?nav=23&parent_directory_id=10&language=CYM&pagetype=&keyword>). Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol gynorthwyo i leihau'r risg o lifogydd ac effaith erydu arfordirol trwy osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd bregus. Diffinnir Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARhNA) lle mae'r polisi'r cynllun rheoli traethlin fabwysiedig yw 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'ail-linio dan reolaeth' yn ystod oes y Cynllun. Mae Atodiad 6 yn rhoi rhestr o ardaloedd a ddiffinnir fel yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARhNA). **Mae'r ardaloedd arfordirol sy'n cael eu**	Er eglurder ac i sicrhau cysondeb mewnol y cynllun

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			<u>cynnwys o fewn yr ARhNA yn rhai lle mae'r SMP 2 yn dweud 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'ail-lunio dan reolaeth' o fewn y cyfnod hyd at 2025 neu rhwng cyfnod polisi 2026 a 2055 neu'r ddau gyfnod polisi</u>.	
NF 38	Polisi ARNA 1	771, 864, 1070	POLISI ARNA 1: ARDAL RHEOLI NEWID ARFORDIROL Caiff Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARhNA) ei hadnabod yn Atodiad 6. Datblygiad **<u>Preswyl</u>** newydd Gwrthodir cynigion am dai newydd, i ail-adeiladu tai, isrannu adeiladau presennol i ddefnydd preswyl neu drosi adeiladau presennol i ddefnydd preswyl yn yr ARhNA. Adleoli tai parhaol presennol yng nghefn gwlad Caniateir cynigion i adleoli tai parhaol sy'n bodoli yng nghefn gwlad ac sydd wedi'u lleoli yn yr ARhNA **a <u>ragwelir y byddant yn cael eu heffeithio</u>** ~~effeithir~~ gan erydu arfordirol os ellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol: 1. Mae'r datblygiad yn golygu ail-adeiladu tŷ parhaol sy'n cael ei effeithio gan erydiad neu sydd dan fygythiad o erydiad o fewn 20 mlynedd o ddyddiad y cynnig; a 2. Mae'r tŷ sy'n cael ei adleoli wedi ei leoli pellter priodol i mewn i'r tir o ran yr ARhNA a gwybodaeth arall yn y Cynllun Rheoli Traethlin, a lle byddo'n bosib mae mewn lleoliad sydd: **i.** yn achos tŷ amaethyddol, oddi mewn i ddaliad y fferm neu oddi mewn i neu'n union gerllaw aneddleoedd presennol **ii.** oddi mewn i neu'n union gerllaw aneddleoedd presennol yn agos at y lleoliad lle'r oedd yr adeilad gwreiddiol;	Er eglurder

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			3. Caiff y safle presennol ei glirio a'i wneud yn ddiogel **a** 4. Ni ddylai'r cynnig beri unrhyw effaith andwyol ar y dirwedd, y strydwedd neu'r fioamrywiaeth yn yr ardal. **Adeiladau dibreswyl newydd neu bresennol,** ~~estyniadau i dai presennol, cyfleusterau neu wasanaethau neu isadeiledd cymunedol~~ 5. Gwrthodir adeiladau parhaol dibreswyl nad ydynt yn gysylltiedig â defnydd neu adeilad presennol mewn ardaloedd yn yr ARhNA a **ragwelir y byddant yn cael eu heffeithio** ~~sydd wedi cael eu hadnabod fel ardaloedd mewn~~ **oherwydd** perygl newid arfordirol yn ystod y cyfnod polisi dangosol cyntaf hyd at 2025. 6. ~~(tu allan i'r cyfnod polisi dangosol hyd at 2025)~~ **Bydd cynigion am y mathau canlynol o** ddatblygiad dibreswyl newydd **yn cael eu caniatáu ar safleoedd o fewn yr ARhNA a ragwelir a fydd mewn perygl o newid arfordirol o fewn yr ail gyfnod polisi dangosol (2026 – 2055), yn ddarostyngedig i Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN15 neu Asesiad Sefydlogrwydd:** i. **Datblygiad** sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ardal arfordirol (e.e. cytiau traeth, caffis, ystafelloedd te, siopau, llety gwyliau ar osod am gyfnodau byr, safleoedd gwersylla, **safleoedd carafanau teithiol,** gweithgareddau hamdden), ac ii. yn darparu buddion economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r gymuned; a iii. lle ellir dangos na fydd unrhyw gynnydd yn y risg i fywyd, nac unrhyw risg arwyddocaol i eiddo; ac	

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			iv. yn destun caniatâd cynllunio sydd naill ai'n cynnwys cyfyngiad amser, a/ neu'n cyfyngu'r tymor, fel sy'n briodol. 7. ailddatblygu neu estyniadau i eiddo dibreswyl presennol neu ddwysáu defnyddiau tir dibreswyl presennol **ar safleoedd du mewn i'r ARhNA,** lle ellir dangos **trwy Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN15 neu Asesiad Sefydlogrwydd** na fydd unrhyw gynnydd yn y risg i fywyd, nac unrhyw risg arwyddocaol i eiddo ac yn amodol ar ganiatâd cynllunio sydd â chyfyngiad amser (pan fo hynny'n briodol); Estyniadau i dai presennol, cyfleusterau neu wasanaethau neu isadeiledd cymunedol Caniateir y mathau canlynol o ddatblygiad yn yr ARhNA, cyn belled ag y ceir Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN 15 **neu Asesiad Sefydlogrwydd:** 8. estyniadau preswyl cyfyngedig sy'n agos iawn at raddfa'r eiddo presennol ac felly nad ydynt yn peri cynnydd posib yn nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo; 9. datblygiad atodol tu mewn i gwrtil tai presennol y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ~~yn amodol ar ganiatâd ymlaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru os yw wedi'i leoli oddi mewn i 7m o brif afon~~; 10. isadeiledd allweddol i'r gymuned, y mae'n rhaid ei leoli yn yr ARhNA i ddarparu'r budd a fwriedir i'r gymuned ehangach ac mae yna gynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol arno a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu; 11. isadeiledd hanfodol e.e. ffyrdd, cyn belled â bod yna gynlluniau clir i reoli	

Cyfeirnod	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			effaith newid arfordirol arno, ac na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfraddau newid arfordirol mewn llefydd eraill. Cynlluniau amddiffyn arfordirol newydd neu i amnewid rhai blaenorol Caniateir cynigion am gynlluniau amddiffyn arfordirol newydd neu gynlluniau sy'n amnewid hen ddarpariaeth, os ellir dangos bod y gwaith yn gyson â'r dull rheoli ar gyfer y wyneb blaen a gyflwynir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, ac na fydd yna effaith andwyol faterol ar yr amgylchedd. Rheoli datblygiad Bydd amodau cynllunio'n cael eu gosod neu caiff rhwymedigaeth gynllunio ei sicrhau pan fydd angen i: gyfyngu oes datblygiad neu ei gyfyngu i ddefnydd tymhorol; tynnu datblygiad sydd â chyfyngiad amser neu dai presennol pan ddaw eu defnydd i ben; adolygu caniatâd cynllunio perthnasol; rheoli meddiannaeth tŷ sy'n cael ei adleoli.	
NF 39	7.2.54	1070	**Yn nhermau datblygiad dibreswyl, y**n amodol ar y cyfnod amser disgwyliedig i golli eiddo o ganlyniad i erydu arfordirol, gallai defnyddiau priodol gynnwys gosod fel eiddo gwyliau, cyfleusterau cymunedol, defnyddiau busnes, caeau chwaraeon a chaeau chwarae, safleoedd ar gyfer digwyddiadau megis marchnadoedd a meysydd sioe, yn amodol ar eu lleoliad a pha mor hygyrch ydynt. Byddai disgwyl i ddeiliaid a/neu berchnogion gydnabod y gallai defnydd fod am amser cyfyngedig neu dymor yn unig yn yr asesiad risg, ac ystyried y buddion o gymharu â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd eiddo â ganddo hyd oes gyfyngedig.	Er eglurder

PENNOD 7.3

Pennod 7.3 – Rheoli Twf a Datblygu – Economi ac Adfywio

Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 40	7.3.1 – 7.3.9	866 1139 1156 1140 1141 1142 1143 1144 1145 1146 1147 1148	***Mae rhai o'r newidiadau sydd wedi ei wneud i'r adran yma'n ymwneud a ai-osod fersiwn y Cynllun Adnau*** **~~CYNIGION AM B~~PROSIECTAU ISADEILEDD O ~~MAWR~~ BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG** 7.3.1 **Cyd-destun** • Mae gan y Deyrnas Unedig darged sy'n ymrwymiad cyfreithiol i gael toriad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050, gyda tharged interim o leiaf o 34% yn is na'r lefelau blwyddyn sail erbyn 2020 (Deddf Newid Hinsawdd 2008) • Mae'n nod allweddol o bolisi cenedlaethol i wella diogelwch ynni'r wlad • Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn sefydlu'r angen am Brosiectau Isadeiledd ~~penodol~~ o Bwysigrwydd Cenedlaethol **(PIoBC – fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cynllunio 2008), yn cynnwys yn benodol ar gyfer cynhyrchu ynni.** • Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dewis safle ger y Wylfa fel safle **sydd o bosibl yn addas** ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd. **Mae hwn yn ffurfio PIoBC, fel y mae'r PIoBC Grid Cenedlaethol ar wahân i ddarparu llinellau trosglwyddo o'r orsaf bŵer niwclear newydd.** • Fe allai'r ~~prosiectau isadeiledd~~ **PIoBC** hyn ~~o bwysigrwydd cenedlaethol rydym yn gwybod amdanynt~~ fod ag oblygiadau isadeiledd mawr ar gyfer ardal y Cynllun, ar ffurf llinellau trawsgludo trydan newydd a datblygiad cysylltiedig.	Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol o fewn y Cynllun fe fydd yr adran yma'n cael ei ailstrwythuro a'i ail-eirio. Ymhellach er mwyn eglurder fe fydd y derminoleg a ddefnyddir wrth gyfeirio at Brosiectau Isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei ddiwygio.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
		1149 1150 1151 1152 1153	Cyflwyniad 7.3.2 Mae **PIoBC** ~~Prosiectau Isadeiledd Mawr~~ yn brosiectau isadeiledd mawr o bwysigrwydd cenedlaethol fel cefnffyrdd newydd, meysydd awyr, porthladdoedd, gorsafoedd pŵer (yn cynnwys niwclear), llinellau trawsgludo trydan, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd cemegau. ~~7.3.3 Ar gyfer y Cynllun, mae Prosiectau Isadeiledd Mawr yn cynnwys y rhai wedi'u diffinio fel Prosiectau Mawr o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn Neddf Cynllunio 2008.~~ 7.3.3 **Amlinellir y broses gymeradwyo am orchymyn caniatâd datblygu (sef y ffurf o ganiatâd ar gyfer PIoBC) ym mharagraffau 3.7 – 3.10. Fel y nodwyd yn y paragraffau hynny, er mai'r sawl sy'n penderfynu yw'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol (yn dilyn archwiliad ac argymhelliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio), awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill sy'n**~~Bydd ceisiadau am Orchmynion Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiectau'n cael eu harchwilio gan yr Arolygiaeth Cynllunio, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol am Ynni a Newid Hinsawdd yn gwneud y penderfyniad terfynol i roi neu wrthod caniatâd. Awdurdodau Lleol neu gyrff statudol eraill fyddai'n~~ penderfynu ar ddatblygiad cysylltiedig neu berthnasol nad ydynt yn y prif gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, a bydd polisi cenedlaethol yn ystyriaeth berthnasol fel sy'n briodol. Lle mae datblygiad cysylltiedig neu ategol yn ymwneud gydag adeiladu neu weithredu PIoBC, bydd y cynigion hyn yn dod o dan Bolisïau Strategol PS8 a PS9, yn ogystal â pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun.	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			7.3.4 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n edrych ar geisiadau am ddatblygiad Prosiect newydd, gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen cenedlaethol, buddion ac ardrawiad, fel sydd i'w gweld mewn polisi perthnasol. Ar gyfer isadeiledd ynni, bydd hyn yn cynnwys y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Isadeiledd Ynni (EN-1- 6). **Mae'r DPCau ynni yn amlinellu polisi cenedlaethol yr asesir ac yr archwilir ceisiadau am brosiectau ynni mawr yn eu herbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio.** Yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, gall yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd ystyried materion eraill sy'n bwysig a pherthnasol i'w benderfyniadau, yn cynnwys y cynllun datblygu defnydd tir presennol, y Cynllun yma pan fydd yn ddigon pwysig fel ystyriaeth gynllunio berthnasol neu fod y Cynllun yn cael ei fabwysiadu, Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynlluniau Rheoli Cyrchfan, Cynllun Sengl Integredig, Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn y Wylfa a dogfennau perthnasol eraill. Ar gyfer cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, rôl ddewisol ar y cyfan fydd gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf **Gynllunio 2008**, ond fe fyddant yn cael eu gwahodd i asesu pa mor ddigonol yw'r ymgynghori a'r effeithiau lleol ac adrodd ar y rhain wrth yr Arolygiaeth Gynllunio mewn Adroddiad Ardrawiad Lleol. Yn yr un modd, bydd yn bosibl i geisiadau gael eu gwneud i gyrff **statudol** eraill~~.,fel cais i'r Sefydliad Rheoli Morol i adeiladu glanfa, lle mae'r Awdurdod lleol hefyd yn un statudol i ymgynghori a hwy. Yng~~ Nghymru, yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r awdurdodau penderfynu ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn gysylltiedig gyda'r cais Gorchymyn Rheoli Datblygiad, er enghraifft, llefydd byw i weithwyr adeiladu, canolfan logisteg, cyfleuster parcio a theithio.	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			7.3.5 ~~Gall graddfa ac ardrawiad Prosiect olygu bod angen peŵyn priodol a chynhwysfawr o gyfraniadau oddi wrth ddatblygwr er mwyn lliniaru a digolledu am unrhyw lefelau newydd neu fwy o niwed. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu negodi fel rhan o'r broses gynllunio, yn cynnwys trwy gytundebau Adran 106 a'r Ardoll Isadeiledd Cymunedol, os fydd hwnnw'n cael ei weithredu.~~**Bydd graddfa ac ardrawiad PIoBC yn cael eu lliniaru drwy becyn priodol o amodau caniatâd cynllunio, cytundeb adran 106 a derbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (os gweithredir atodlen codi tâl ASC).** 7.3.6 Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol gan y Cynghorau i'r datblygwr ddarparu pecynnau o fuddiannau cymunedol er mwyn cael eu gosod yn erbyn a digolledu'r gymuned am y baich o fod yn lleoliad i'r prosiect. Bydd unrhyw gronfa o'r fath yn cael ei defnyddio i'w rhoi yn erbyn y baich ar yr ardal, ac yn enwi ffyrdd etifeddiaeth posibl o'i ddefnyddio, yn cynnwys isadeiledd cludiant, cymdeithasol, economaidd a chymunedol fyddai o fudd i'r gymuned yn y tymor hir. 7.3.7 Gallai fod modd ceisio cael budd cymunedol trwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol, y Deddfau Cynllunio, neu ddeddfwriaeth arall, neu fel dewis arall trwy gytundeb gwirfoddol gyda darparwr y prosiect, neu'n unol gyda phrotocol y diwydiant. 7.3.8 Taliadau ariannol yw'r Taliadau Budd Cymunedol gan ddatblygwr er budd cymunedau sy'n lletya'r datblygiad. Mae Taliadau Budd Cymunedol yn wahanol ac yn hollol ar wahân i'r broses gynllunio. Nid ydynt yn ystyriaethau o bwys y gellir eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd neu ymateb	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			yn gadarnhaol neu fel arall i gais i ymgynghori. Ni fwriadwyd i unrhyw daliad a wneir wneud yn iawn am effeithiau uniongyrchol y datblygiad ac ni ellir dweud eu bod yn rhywbeth sydd ei angen i wneud datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio. 7.3.9 Ar hyn o bryd, mae dau **PIoBC** ~~Brosiect Cenedlaethol~~ arfaethedig yn y cyfnod cyn ymgeisio tu mewn i ardal y Cynllun: i. Adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ger yr Wylfa, sef Wylfa Newydd, bwriad gan Horizon Nuclear Power, fel sydd i'w weld yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6); ii. Gwelliannau / gwaith newydd gyda Llinellau Trawsgludo'r Grid Cenedlaethol yn cysylltu Wylfa Newydd gydag Is-orsaf Pentir a thu hwnt, wedi'u cynnig gan y Grid Cenedlaethol; 7.3.9 Mae'n bwysig bod y Cynllun yn rhoi'r fframwaith polisi er mwyn cynorthwyo'r Cynghorau i roi sylw i ac ymateb i gynigion ~~isadeiledd mawr~~ **PIoBC** sy'n dod ymlaen, yn cynnwys er enghraifft: i. Darparu cyngor a gwybodaeth i hysbysu hyrwyddwyr prosiectau yn ystod datblygiad eu cynigion ar gyfer ymgynghori a datblygu prosiectau; ii. ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol yn ystod datblygiad prosiectau ac ar geisiadau i gyrff eraill sy'n penderfynu, ~~fel yr Arolygaeth Gynllunio a'r Sefydliad Rheoli Morol~~;	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			iii. awgrymu gofynion priodol i'w cynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac ymrwymiadau (fel Adran 106 ac Ardoll Seilwaith Cymunedol, os yn berthnasol); iv. penderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiad cysylltiedig, ategol neu berthnasol tu allan i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu; v. **gwneud sylwadau** ~~asesu~~ ar ba mor ddigonol yw'r ymgynghori; vi. asesu ardrawiadau'r prosiect, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn yr Adroddiad Ardrawiad Lleol y bydd yr Arolygiaeth Cynllunio'n gwahodd y Cyngor/Cynghorau i'w gyflwyno ar ôl i unrhyw gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu gael ei gyflwyno; vii. gwneud sylwadau fel rhan o drefn ffurfiol yr Arolygiaeth Gynllunio i archwilio'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu, viii. wrth benderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth yn dilyn y caniatâd (yn cynnwys 'amodau' **caniatâd** cynllunio), ac wrth gyflawni swyddogaethau fel yr awdurdod gorfodi. 7.3.10 Mae Polisi Strategol PS8 yn bolisi trosfwaol yn ymwneud ~~â phob prosiect isadeiledd mawr~~ **ag unrhyw gais am PIoBC (heblaw am Wylfa Newydd) neu ag unrhyw geisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â chais PIoBC neu'n ategol iddo** boed hwy'n cael eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd neu unrhyw asiantaeth arall	
NF 41	Polisi PS 8	866	POLISI STRATEGOL PS8: CYNIGION AM BROSECTAU ISADEILEDD **O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG**~~MAWR~~	Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol o fewn y Cynllun fe fydd yr adran

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
		1139 1156 1140 1141 1142 1143 1144 1145 1146 1147 1148 1149 1150 1151 1152 1153	Yn eu rôl fel yr awdurdodau sy'n rhoi caniatâd i ddatblygiad cysylltiol neu fel rhywun sy'n cael ei ymgynghori am geisiadau i gyrff eraill, o fewn cyd-destun datganiadau polisi cenedlaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd y Cynghorau'n anelu i sicrhau y bydd datblygiad yn gwneud cyfraniad positif i wireddu'r weledigaeth, amcanion strategol a strategaeth datblygu a welir yn y Cynllun. Rhoddir ystyriaeth i natur, graddfa, ystod ac ardrawiad posib unrhyw ddatblygiad wrth wneud hynny. Bydd y Cynghorau felly'n amcanu i sicrhau cydymffurfiaeth, fel mae'n briodol neu berthnasol, gyda'r meini prawf canlynol: **1.** Bydd y datblygiad a'i isadeiledd cysylltiol/ ategol, gan gynnwys unrhyw gynigion am lety, gyfleusterau addysg a hyfforddiant, cyflogaeth, cadwynau cyflenwi, ac isadeiledd cludiant, cymunedol, amgylcheddol a gwyrdd yn cyfrannu at gydbwysedd o allbynnau positif i gymunedau lleol a'r amgylchedd; a **2.** Bod asesiad o sut ddaru ystyriaeth o ddewisiadau amgen ddylanwadu ar y cynigion yn cael ei gyflwyno; a **3.** Bod asesiad cynhwysfawr o ardrawiadau amgylcheddol (tirwedd, adeiledig, hanesyddol a naturiol), cymdeithasol (gan gynnwys iechyd a mwynderau), ieithyddol a diwylliannol, cludiant ac economaidd (positif, negyddol a chronnol) o'r cynnig yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredol a'r cyfnodau dadgomisiynu ac adferiad (os yw hynny'n berthnasol) yn cael ei ddarparu, yn ogystal â mesurau cyflawni lle mae'n briodol i osgoi, lleihau, lleddfu a/neu ddigolledu'r niwed a achosir; a **4.** Darparu cyfraniadau i'r Cyngor neu gorff arall priodol a chytunedig er mwyn gwneud iawn am unrhyw effeithiau anffafriol a niwed wedi'u hachosi gan y prosiect trwy ymgysylltu'n effeithiol gyda chymunedau lleol a'r Cyngor yn yr adeg cyn cyflwyno'r cais. Yr amcan fydd canfod mesurau, prosiectau a gwasanaethau i wella lles a chynaladwyedd tymor hir y cymunedau mae'n effeithio arnynt; a hefyd	yma'n cael ei ailstrwythuro a'i ail-eirio. Ymhellach er mwyn eglurder fe fydd y derminoleg a ddefnyddir wrth gyfeirio at Brosiectau Isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei ddiwygio.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			5. I gydnabod unrhyw faich a tharfu sy'n digwydd i'r gymuned wrth fod yn lleoliad i unrhyw brosiect isadeiledd ~~mawr~~ **o bwysigrwydd cenedlaethol,** gall fod yn ofynnol gan y Cyngor i'r datblygwr ddarparu pecynnau priodol o fuddiannau cymunedol er mwyn gwneud iawn am a digolledu'r gymuned am y baich sy'n dod gyda bod yn lleoliad i'r prosiect; a hefyd **6.** Cael cymaint ag y bo modd o fudd economaidd a chymunedol lle bo hynny'n ymarferol, trwy gytuno gyda'r Cyngor yn gynnar yn ystod camau datblygu'r prosiect ar strategaethau ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio; a hefyd **7.** Dylid cyflwyno Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, sy'n cwrdd â gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) gydag unrhyw gynnig am ddatblygiad, gan gynnwys pob datblygiad ategol ac anwythol; a hefyd **8.** Darparu mesurau i amddiffyn rhag llifogydd i reoli risg llifogydd, a lle bo'n ymarferol, cael gwelliannau yn yr ardal honno. Darparu asesiad o'r ardrawiadau sy'n cael eu rhagweld oddi wrth y cynnig ar yr amgylchedd morol a thir o gwmpas a darparu mesurau i reoli a lleihau unrhyw niwed sy'n cael ei achosi. Er mwyn cael digon o wybodaeth i fedru asesu effeithiau'r cynigion, gall y Cyngor ofyn am baratoi cynlluniau rheoli neu gynlluniau cyflawni, sy'n dangos y mesurau ar gyfer cael cymaint o fudd ag y bo modd ac i leddfu a/neu ddigolledu am ardrawiadau lle mae cyfiawnhad dros hyn mewn polisi cenedlaethol neu leol. Dylai'r cynlluniau hyn ddangos yr amserlenni ar gyfer darparu a'r systemau ac adnoddau fydd yn cael eu defnyddio i weithredu'r mesurau arfaethedig.	
NF 42	7.3.10 – 7.3.19	1139 1156	WYLFA NEWYDD A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG CYFLWYNIAD	Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol o fewn y Cynllun fe fydd yr adran yma'n cael ei

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
		1140 1141 1142 1143 1144 1145 1146 1147 1148 1149 1150 1151 1152 1153 1154	7.3.11 Mae'r ddau Gyngor a'u partneriaid wedi cydnabod potensial arwyddocaol Wylfa Newydd yn arbennig i'r economi leol yn Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynllun Strategol/ Corfforaethol y ddau Gyngor a'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Mae Pennod 3 o'r Cynllun yn rhoi dolen i'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa, syn rhoi gwybodaeth am weledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gysylltiedig â'r prosiect yma. Mae'r rhan hon o'r Cynllun yn delio gyda datblygiadau cysylltiol i Brosiectau Isadeiledd Mawr le mai naill ai Cyngor Sir Ynys Môn neu Gyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynllunio sy'n penderfynu ar gais cynllunio. ~~Mae hefyd yn berthnasol i'r datblygiadau Prosiectau Isadeiledd Cenedlaethol fel Wylfa Newydd lle mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu yn ogystal â cheisiadau i asiantaethau eraill (fel i'r Sefydliad Rheoli Morol ar gyfer glanfa) lle mae'r Cyngor yn ymgynghorai statudol.~~ 7.3.12 Er nad y Cynghorau yw'r awdurdodau i roi caniatâd ar gyfer y ~~Prosiect Isadeiledd Mawr~~ **Gorchymyn Caniatâd Datblygu** Wylfa Newydd, maent yn credu ei bod hi'n bwysig egluro'r ymagwedd a fyddant yn cymryd yn eu rôl fel awdurdodau cynllunio pan fyddant yn derbyn ymgynghoriad am y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Fe fyddant hefyd yn sicrhau bod datblygiadau **cysylltiedig** ~~perthnasol~~ yn cyd-fynd â strategaeth a pholisïau perthnasol y Cynllun ~~pan gaiff ei fabwysiadu~~. 7.3.13 Hyd nes y caiff y Cynllun ei fabwysiadu neu bydd polisïau perthnasol yn cario digon o bwysau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau bydd y dull o ymdrin â datblygiadau perthnasol yn gysylltiedig a Wylfa Newydd yn adlewyrchu polisïau'r Cynllun Datblygu presennol, y Cynllun Datblygu Unedol a stopiwyd, polisïau cynllunio cenedlaethol a'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa. ~~Boed yn eu rôl fel y rhai sy'n penderfynu, neu i ymgynghori â hwy ar gyfer ceisiadau i gyrff eraill, bydd y Cynghorau'n ceisio cyflawni'n eu blaenoriaethau statudol fel~~	ailstrwythuro a'i ail-eirio.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			~~sydd i'w gweld yn eu Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Strategol a chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.~~ **7.3.14 <u>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa yn amlinellu gweledigaeth ac amcanion Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd ac mae'n ystyriaeth berthnasol bwysig wrth asesu ceisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â'r Prosiect</u>.** **7.3.15 <u>Bydd y ddogfen CCA Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa yn helpu'r Cyngor Sir i:</u>** • **<u>wneud penderfyniadau cadarn ar bob gwaith galluogi a cheisiadau cynllunio datblygu cysylltiedig</u>** • **<u>sicrhau bod effeithiau posibl yr Adeilad Niwclear Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi a'u lliniaru lle bo'n bosibl</u>** • **<u>sicrhau bod y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu gwireddu'n llawn.</u>** 7.3.16 Ar sail y wybodaeth sydd i law ar hyn o bryd mae'n glir y bydd y Prosiectau yma'n ddatblygiadau arwyddocaol a fydd yn cael nifer o ardrawiadau arwyddocaol, sy'n rhai positif ac o bosib yn negyddol. Rhagwelir**<u>ar hyn o bryd</u>** y bydd gwaith adeiladu Wylfa Newydd yn digwydd**<u>oddeutu</u>** 12 mlynedd, ac fe fydd yna o gwmpas 8,500 o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnodau brig **<u>(er cydnabyddir bod y Prosiect yn dal i fod am gan dylunio manwl</u>**). Fe fydd yna symudiadau HGV arwyddocaol yn ystod y cyfnod adeiladu, yn arbennig ar hyd yr A55 a'r A5025. Ar ôl iddo gael ei adeiladu rhagwelir y bydd Wylfa Newydd yn cyflogi tua 1,000 o weithwyr. Mae'r angen am lety i weithwyr adeiladu yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd yn un mater mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi edrych arno'n fanwl. Rhagwelir dylifiad ~~sydyn~~ o nifer fawr o weithwyr i'r ardal yn ystod y cyfnod adeiladu.	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			Credir ei bod hi'n bwysig bod llety'n gyson ag amcanion cyffredinol y Cynllun ac na fydd yn rhagfarnu gwireddu'r strategaeth ofodol. Rhagwelir y caiff gweithwyr adeiladu lety trwy gyfuniad o ddulliau, sef unedau tai preifat i'w prynu a'u rhentu, llety gwyliau a llety ~~gwyliau~~ pwrpasol a gaiff ei ddarparu trwy Horizon neu gan drydydd parti. Ceir mwy o wybodaeth am y safbwynt yma yn http://www.ynysmon.gov.uk/busnes/ynys-ynni/newyddion-ynys-ynni/atomfa-newydd-yr-wylfa-darparu-llefydd-aros-ar-gyfer-gweithwyr-adeiladu-safbwynt-y-cyngor-sir/114496.article?redirect=falseac yn y Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2014/08/11/q/k/h/Wylfa-NNB-SPG-Adopted-July-2014	
			7.3.17 Rhagwelir y bydd angen llety ar gyfer nifer fawr iawn o weithwyr adeiladu a gaiff eu cyflogi yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Rhagwelir hefyd bydd angen tir yn gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd, e.e. safle(oedd) ar gyfer swyddfeydd, llety aros dros dro a defnyddiau eraill ar gyfer logisteg, storfa a gwneuthuriad oddi ar safle. Gallai mesurau lliniaru effaith y prosiect gael eu huchafu pe fyddai'r datblygiad yn cael ei leoli yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun, a welir ym Mhennod 6, a pholisïau perthnasol y Cynllun, yn dibynnu ar y math o ddefnydd, er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy.	
			7.3.18 Safbwynt y Cynghorau yw y dylid lleoli llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu **dros dro** ~~diflanedig~~ cyn belled ag sy'n bosib o fewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu Canolfannau a Phentrefi Gwasanaeth enwir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun, mewn lleoliadau sydd â chysylltiad da a'r prif lwybrau teithio a dulliau theithio, yn arbennig y rheilffordd. Fe ddylent hefyd gyfrannu i raglenni adfywio cynaliadwy a chefnogi bywiogrwydd a	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			hyfywdra canol trefi. Fe ddylai hyrwyddwr y prosiect ystyried ailddefnyddio adeiladau presennol lle'n ymarferol i wneud hynny. Bydd y Cynghorau hefyd yn ystyried y dylid edrych ar y posibilrwydd o ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau a ddefnyddir yn y lle cyntaf ar gyfer llety gweithwyr neu unrhyw ddefnydd tir arall dros dro adeg cynllunio a dylunio'r cynllun, e.e. trwy osod y safle allan o'r cychwyn fel ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio eto, adeiladu adeiladau parhaol sy'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd amgen priodol. Bydd rhaid i ~~bob~~ ddefnydd etifeddiaeth **arfaethedig priodol gydymffurfio â'r polisïau perthnasol** ~~fod yn gyson a'r Cynllun yma~~ **yn y Cynllun hwn**. Mae defnyddiau etifeddiaeth posib yn cynnwys lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer tai fforddiadwy, llety ar gyfer yr henoed neu anghenion arbennig, llety myfyrwyr, swyddfeydd neu westai neu adeiladau a ellir eu haddasu i ddibenion tebyg. Os yw'r hyrwyddwr y prosiect a'r Cyngor yn cytuno nad yw defnydd ôl- ddatblygu'n ymarferol, rhaid cael gwared â'r adeiladau neu strwythurau dros dro a'r tir gael ei ddychwelyd i'w gyflwr blaenorol hyd fodlondeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn cyfnod penodol a fyddai'n cael ei reoli trwy amod cynllunio. **Mae Polisi TAI3 yn gosod yr arweiniad polisi ar gyfer llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu ac mae Polisi TAI8 yn gosod allan yr arweiniad polisi mewn perthynas â defnydd anheddol o lety gwyliau gan weithwyr adeiladu dros dro.**	
			7.3.19 Mae Polisi Strategol PS9 yn gymwys ar gyfer ~~yr orsaf bŵer niwclear newydd,~~ **Prosiect** arfaethedig **Wylfa Newydd**, yn cynnwys unrhyw	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			ddatblygiad yn gysylltiedig gyda hi. Dylai'r ARhC ar lefel prosiect gael ei hysbysu gan gasgliadau'r ARhC: Adroddiad Safle ar gyfer Wylfa[1] yn ogystal â'r broses ARhC ar gyfer CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.	
NF 43	Polisi PS 9	1139 1156 1140 1141 1142 1143 1144 1145 1146 1147 1148 1149	POLISI STRATEGOL PS9: DATBLYGIADAU SY'N ~~YMWNEUD~~ **GYSYLLTIEDIG Â PHROSIECT** WYLFA NEWYDD Yn eu rôl naill ai fel yr awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig, neu fel ymgyngoreion ~~ag ef~~ ar gyfer ceisiadau **GCD** a cheisiadau i gyrff eraill, ac o fewn darpariaethau polisi cenedlaethol, bydd y Cynghorau, wrth asesu ac ymateb i gynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer **Wylfa Newydd** ~~datblygiad yn ymwneud â niwclear, yn cynnwys beth sy'n~~ a'i ddatblygiad cysylltiedig, yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n briodol neu'n berthnasol, gyda'r meini prawf canlynol: **1.** Dylai unrhyw bolisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun, ac unrhyw ganllawiau cynllunio, fod yn siapio'r **dull o ddatblygu'r orsaf bŵer niwclea**r ~~agwedd tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer datblygiad yn ymwneud â niwclear~~ **ac unrhyw** ddatblygiad cysylltiedig ~~neu isadeiledd~~; ac **2.** Er mwyn cael cyn lleied o ardrawiad ag y bo modd a chymaint ag y bo modd o ailddefnyddio'r cyfleusterau a deunyddiau sy'n bodoli'n barod, bod cyfleoedd wedi cael eu cymryd lle bo'n ymarferol i integreiddio gofynion Prosiect Wylfa Newydd gyda'r bwriad i ddadgomisiynu'r orsaf bŵer bresennol; a **3.** Bydd cynigion priffyrdd a chludiant ar gyfer ~~adeiladu~~ Prosiect Wylfa Newydd yn ~~yr Wylfa'n~~ **ffurfio** rhan o ~~gynllun cludiant a logisteg gadarn~~ **strategaeth traffig a thrafnidiaeth integredig** sy'n ystyried Polisi Strategol PS4 a Pholisïau	Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol o fewn y Cynllun fe fydd yr adran yma'n cael ei ailstrwythuro a'i ail-eirio.

[1] Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2010) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Adroddiad Safle ar gyfer Wylfa. EN-6 Datganiad Polisi Cenedlaethol Drafft Diwygiedig ar gyfer Cynhyrchiad Pŵer Niwclear

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
		1150 1151 1152 1153 1154	Manwl perthnasol ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol o ran cludiant i lefel sy'n dderbyniol, yn cynnwys y rhai'n codi yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu ~~dadgomisiynu ac adfer~~. Dylai cynigion, lle bo'n ymarferol, wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion polisi cludiant yn yr ardal, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio; a **4.** Dylai gofynion am lety gweithwyr adeiladu gael eu hateb mewn ffordd sy'n lleihau gymaint ag y bo modd yr effaith ar y farchnad dai lleol , yn cynnwys gallu rhai ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy neu wasanaethau tai eraill, neu na fydd yn arwain at effeithiau economaidd, cymdeithasol ieithyddol neu amgylcheddol niweidiol. Dylai cynigion ffurfio rhan o strategaeth gadarn ar gyfer llety gweithwyr adeiladu a fydd yn talu sylw i Strategaeth Ofodol y Cynllun ac unrhyw bolisïau perthnasol yn y Cynllun; a **5.** Wrth ystyried lleoliad a dyluniad datblygiadau cysylltiol, dylid rhoi ystyriaeth i'r etifeddiaeth a fyddai'n deillio ohonynt fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir yn ystod y cyfnod ôl adeiladu. Lle bo'n briodol, dylai cynlluniau darparu ar gyfer ffyrdd etifeddiaeth o ddefnyddio cael eu cytuno yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, a'r cynlluniau hynny ddarparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd o weithredu tuag at ddyluniad a chynllun y safleoedd datblygu cysylltiedig, yn ogystal â fframio cytundeb Adran 106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (os yn gymwys); a **6.** Dylai sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio a'i ddyluniad a graddfa'r isadeiledd gwyrdd arfaethedig osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am ardrawiadau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach, yn ogystal ag ar agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hirach. Bydd disgwyl i gynigion fod yn gymesur gyda graddfa'r datblygiad, a maint ei ardrawiad; a **7.** Dylid ~~cyflwyno Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect sy'n cwrdd â~~	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			~~gofynion~~ **sgrinio unrhyw gais datblygu, gan gynnwys bob datblygiad cysylltiedig, yn unol â** Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) ~~**gydag unrhyw gynnig am ddatblygiad, gan gynnwys pob datblygiad ategol ac anwythol ac hefyd;**~~ **a lle bo angen, dylid cael asesiad priodol i gyd-fynd ag ef; a** **8.** Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu strategaethau a chynlluniau darparu ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach; a **9.** Lle bydd isadeiledd cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu, er enghraifft cyfleusterau parcio a theithio, siopau, gofal iechyd a chwaraeon a hamdden, lle bo'n ymarferol dylai'r rheiny gael eu lleoli a'u dylunio fel eu bod ar gael i'r gymuned eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu ac, ymhen amser, lle bo'n briodol, i wasanaethau defnydd etifeddiaeth. Lle byddai effeithiau neu alwadau ychwanegol ar gyfleusterau **cymunedol** presennol, bydd y Cyngor yn gofyn am **naill ai** gyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle **neu am uwchraddio cyfleusterau presennol. Dylid ystyried defnydd etifeddiaeth o unrhyw gyfleusterau ychwanegol a ddarperir ble bo hynny'n briodol; a** **10.** Dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniad cymunedol a diogelwch cymunedol; a **11.** Dylai'r baich a'r tarfu at y gymuned oherwydd ei bod yn lleoliad i brosiect mawr cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud gyda'r diwydiant niwclear gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr i wirfoddoli i ddarparu pecynnau priodol o fuddion i'r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu'r gymuned am y baich a'r tarfu sy'n digwydd trwy fod yn lleoliad i'r prosiect; a **12.** Byddai angen i unrhyw gynnig (tu allan i Orchymyn Caniatâd Datblygu) ar gyfer trin, storio neu gael gwared â Gwastraff Lefel Isel Iawn, Lefel Isel neu Lefel Canolig neu i drin neu storio gweddillion tanwydd sy'n deillio o'r orsaf	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			bŵer niwclear bresennol neu unrhyw ddatblygiad niwclear yn y dyfodol du mewn i neu du allan i ardal y Cynllun, mewn cyfleuster sy'n bodoli'n barod neu yn yr arfaeth ar neu du allan i'r safle niwclear fod: **i.** Gyda chyfiawnhad cryf drosto **ii.** Yn dangos bod yr ardrawiadau cynllunio'n dderbyniol; a hefyd **iii.** Ddangos y byddai'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gryfach nag unrhyw effeithiau negyddol. Mae'n bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld oddi wrth adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, y bydd y Cynghorau angen gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y datblygwr, neu i waith gael ei wneud ganddo a gall, o ganlyniad i hynny, fod eisiau ail negodi unrhyw becyn lleddfu neu ddigolledu er mwyn gwneud iawn am unrhyw ardrawiadau neu feichiau ychwanegol ar y gymuned mae hynny'n effeithio arni. Dylai'r datblygwr gynnwys mecanweithiau adolygu er mwyn monitro'r amrediad llawn o ardrawiadau, ac adolygu pa mor ddigonol yw mesurau lleddfu neu ddigolledu, a gwneud newidiadau fel bydd angen.	

Darparu Cyfleon ar gyfer Economi Ffyniannus

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 44	7.3.18	959 960 972	Cyd-destun • Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd trwy eu Strategaethau/ Cynlluniau Corfforaethol, gan gymryd i ystyriaeth yr adegau economaidd anodd, yn ceisio yn y tymor hir i drawsnewid ardal y Cynllun i fod yn un fentrus a hyfyw yn economaidd ac yn gymdeithaso. **Fe fyddai hyn yn golygu**	Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
		973	**fod** ~~l, gyda ph~~ pobl o bob oed yn gallu cymryd y cyfleoedd newydd ac yn dewis aros yn yr ardal i fyw a gweithio, **gan hynny yn cynnal cymunedau gwledig a threfol, a fyddai yn ei dro yn hyrwyddo y defnydd o'r iaith Gymraeg** • Mae angen rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau amgylcheddol datblygiadau yn erbyn y buddiannau cymdeithasol economaidd a fyddai'n deillio o'r datblygiad.	
NF 45	7.3.20 – 7.3.22	1139 1156 1140 1141 1142 1143 1144 1145 1146 1147 1148 1149	7.3.19 Mae'n amcan gan y Cynllun i hwyluso strategaethau'r ddau Gyngor i dyfu ac amrywio economi ardal y Cynllun. 7.3.20 Os gwneir penderfyniad ar lefel cenedlaethol i ddatblygu Wylfa Newydd, yna fe fydd hyn yn creu cyfleoedd gyflogaeth arwyddocaol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae yna nifer o brosiectau isadeiledd mawr eraill ar y gweill a fydd hefyd yn cynnig cyfleoedd gyflogaeth arwyddocaol. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi sefydlu Rhaglen Ynys Ynni sy'n brosiect cydweithio rhwng nifer o randdeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat (yn cynnwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru) i roi Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygiad, cynhyrchu a gwasanaethu ynni, a fydd yn fodd o ddylanwadu ar brosiectau isadeiledd ~~mawr~~ **o bwysigrwydd cenedlaethol** sydd i gael eu lleoli yn ardal y Cynllun neu ar y cyrion. Mae hyn yn cynnwys datblygu sgiliau preswylwyr lleol fel eu bod yn gallu manteisio ar y swyddi sydd ar gael o ganlyniad i'r ~~prosiectau mawr~~ **PIoBC** hyn, sydd yn eu tro'n debygol o fod yn ddeniadol i fusnesau newydd i leoli eu hunain yn yr ardal, gan gynnig swyddi o ansawdd uchel. Mae'n nod penodol i fod yn manteisio ar y buddsoddiad o £8 biliwn mewn cyfleuster niwclear newydd yn yr Wylfa Newydd, gan fod yn ganolbwynt i gynlluniau buddsoddi partneriaid	Er mwyn gwella eglurder cynigir fod geiriad yr elurhad yn cael ei ddiwygio.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
		1150 1151 1152 1153 1046	sector cyhoeddus a phreifat, wrth drawsnewid ac amrywio economi'r ardal. Er mwyn annog a meithrin sgiliau lleol yn gysylltiedig â gweithio yn y sector ynni mae yna fuddsoddiad penodol wedi cael ei wneud yng Grŵp Llandrillo Menai, Llangefni, gyda chynlluniau ehangach ar y gweill. Nod arall o'r Rhaglen Ynys Ynni yw ceisio goresgyn cyfyngiadau isadeiledd, er mwyn ceisio hwyluso'r broses o atynnu buddsoddiad mewnol i'r ardal drwy annog twf economaidd ar gyfer y dyfodol. Ymhellach mae yna fwriad gan Brifysgol Bangor gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu Parc Gwyddoniaeth Menai. Y safle**sydd wedi ei ddewis** ~~a ffafrir~~ ar gyfer y datblygiad yw un o'r safleoedd Parth Menter yng Ngaerwen. Fe fydd y ~~fyddai'r~~ Parc Gwyddoniaeth yn gartref i ymchwil mewn nifer o feysydd gan gynnwys ynni a gwasanaethau amgylcheddol. 7.3.21 Yn yr un modd, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn ceisio canolbwyntio ar sectorau a gweithgareddau lle mae gan yr ardal fanteision cystadleuol, fydd yn dod â'r buddion economaidd mwyaf ac yn cynnig y potensial mwyaf o ran amrywiaeth. Bydd hyn yn golygu cyfuno cryfderau yn sefydliadau ymchwil yr ardal, ei phobl (a'u sgiliau) ac adnoddau naturiol toreithiog yr ardal. Mae'r sectorau penodol sy'n darparu cyfle i'r ardal yn cynnwys: Adeiladu; Amgylcheddol – cynhyrchion a gwasanaethau sector Gwyrdd; Amaethyddiaeth – cynnyrch a chynhyrchion bwyd; Diwydiannau Creadigol – Cyfryngau a'r Celfyddydau; Gofal; Sectorau Technoleg Uchel a Digidol; Gwasanaethau a Masnach e.e. Manwerthu; Ynni Niwclear – Cynhyrchu,	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			Gwasanaethau a Pheirianneg; Twristiaeth; Ynni Amgen Adnewyddol - Cynhyrchu, Gwasanaethau a Pheirianneg. 7.3.22 Mae'n nod allweddol gan Gyngor Gwynedd i geisio sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu taenu ar draws yr ardal. Mae gan yr economi wledig rôl bwysig yn yr ardal o ran y sector amaethyddol, twristiaeth a busnesau bychan gwledig. 7.3.23 Gwelodd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth 2011~~/12~~ bod mwy na digon o dir cyflogaeth yn bodoli, fodd bynnag eu bod yn annhebygol o ddiwallu anghenion busnesau modern **a chan hynny fe ddiystyriwyd y safleoedd ar ddiwedd adolygiad Cam 1. Yna fe** ~~Yn ôl~~ amcangyfrif yr Adolygiad, **y** bydd angen 6ha bob blwyddyn o dir parc busnes neu barc diwydiannol yn ystod cyfnod y Cynllun ym mhob un o'r ddau Awdurdod Cynllunio. Mae hynny wedi'i seilio ar gyfuniad o ddangosyddion o ofynion i'r dyfodol ar gyfer gwahanol sectorau o gyflogaeth ac yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd a dewis yn y farchnad, yn ogystal â chyflawni'r dyheadau i'r dyfodol gyda Rhaglen Ynys Ynni Môn a blaenoriaethau'r Cynghorau. Mae'r Adolygiad wedi sefydlu coeden o safleoedd cyflogaeth**presennol a newydd sydd a'r gallu i** ~~y gall~~ ateb anghenion busnes modern, gyda gobeithion o gael eu datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun, a dylent gael eu ~~diogelu~~ **gadw** cyn belled a phosib rhag eu hailddatblygu at ddibenion eraill. Mae angen darpariaeth ychwanegol at ddefnydd cyflogaeth (B1, B2 neu B8) yn neu ger **Llangefni, Gaerwen a Y Ffor. Ymhellach fe adnabuwyd yr Adolygiad fod angen safle newydd yn neu ger Canolfannau Gwasanaethol** Pwllheli a Phorthmadog er mwyn ateb yr anghydbwysedd presennol yn nhaeniad daearyddol tir cyflogaeth yng	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			Ngwynedd. **Mae cyfyngiadau amgylcheddol yn y canolfannau yma'n golygu fod rhaid i'r Cynllun ddynodi safle yn Y Ffor. Ymhellach fe argymhellwyd yr Adolygiad fod angen** ~~ynghyd a~~ sicrhau fod yna gyflenwad priodol o dir wrth gefn yn gysylltiedig hefo prosiectau ~~isadeiledd mawr~~ **PIoBC** yn Ynys Môn.	
NF 46	Polisi PS 10 1047 1046 826		POLISI STRATEGOL PS10: DARPARU CYFLE AR GYFER ECONOMI FFYNIANNUS Wrth anelu i amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig, bydd y Cynghorau'n hwyluso twf economaidd **yn unol â'r strategaeth ofodol** trwy'r **canlynol:** **1.** Gwarchod ~~870~~ **638.7**ha o dir ac unedau presennol ~~at~~ i ddibenion cyflogaeth a busnes **(B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis).** ~~fyddai angen neu'n cael budd oddi wrth fod mewn lleoliad parc busnes neu ddiwydiannol mewn perthynas â B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis ar safleoedd wedi'u cynnwys yn y goeden tir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun ac wedi'u diogelu ar y mapiau cynigion (yn unol â Pholisi CYF1)~~; **2.** **Dyrannu 60ha o dir i ddibenion cyflogaeth a busnes a fyddai angen neu'n cael budd o leoliadau math parc diwydiannol neu fusnes yng nghyswllt B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis ar safleoedd a gynhwysir yn y goeden tir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun ac sydd wedi eu dyrannu ar fapiau cynigion (yn unol â Pholisi CYF1);** **3.** Hwyluso safleoedd priodol a ddaw ar gael ar hap er mwyn diwallu anghenion ymhellach i'r hyn a nodir ym maen prawf 1 yn unol ag egwyddorion Polisi Strategol PS5 a Pholisi Strategol PS6 a Strategaeth Ofodol y Cynllun er mwyn sicrhau fod cyfleoedd economaidd yn cael eu huchafu; **4.** Cefnogi ffyniant economaidd a chynaladwyedd cymunedau gwledig trwy hwyluso twf ar raddfa briodol mewn mentrau gwledig, estyn busnesau sy'n	Er mwyn gwella eglurder a chysondeb cynigir fod geiriad yr polisi yn cael ei ddiwygio.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			bodoli'n barod, ac arallgyfeirio trwy gefnogi ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli'n barod, datblygiad unedau 'byw a gweithio', gweithio o'r cartref, a thrwy annog darparu safleoedd a thir ac adeiladau mewn lleoliadau hygyrch priodol sy'n gyson a Strategaeth Ofodol y Cynllun ac yn unol â Pholisïau Strategol PS5 a PS6.	
NF 47	Polisi CYF1	1046 1047 1048 826 1404 1284	Gweler tudalen nesaf er mwyn archwilio'r Newid a Ffocws Arfaethedig sydd yn berthnasol i Polisi CYF1.	Er mwyn gwella eglurder a chywirdeb cynigir fod geiriad yr polisi yn cael ei ddiwygio.

POLISI CYF1: GWARCHOD A DYNODI TIR AC UNEDAU AR GYFER DEFNYDD CYFLOGAETH

Gwarchodir tir ac unedau ar y safleoedd cyflogaeth presennol a restrir isod ar gyfer mentrau cyflogaeth / busnes~~. Dynodi'r~~ tir ychwanegol ar safleoedd ychwanegol fel y rhestrir isod ar gyfer mentrau cyflogaeth/busnes a dangosir pob safle ar y map cynigion.

		Strategaeth ofodol	Safle	Cyfeirnod map	Arwynebedd tir gwag (ha)[2]	Cyfanswm Arwynebedd (ha)	Defnydd	Safle Parth Menter	Statws Cynllun Rhanbarthol
Prif Safleoedd	Gwynedd	**Canolfan isranbarthol**	Parc Bryn Cegin, Bangor	C1	36	36	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Safle Strategol Rhanbarthol
			Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor	C2	4	27.6	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Parc Britannia, Bangor	C3	0	7.9	B1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Parc Menai, Bangor	C4	13.2	32.9	B1	Ddim yn berthnasol	Safle Strategol Isranbarthol (Eilaidd)
		Canolfan Gwasanaethau Trefol	Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon	C5	7.3	37.7	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Safle Strategol Isranbarthol (Prif)
			Adwy'r Hafan, Pwllheli	C6	1.5	10.5	B1, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Parc Busnes, Penrhyndeudraeth	C7	3.1	11.5	B1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Parc Busnes, Porthmadog	C8	4	13.5	B1, B2	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
		Canolfan Gwasanaethau Lleol	Stad Pendre, Tywyn	C9	2.7	7.9	B1, B2	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
		Pentref Gwasanaethau	Ger garej betrol, Y Ffôr	C10	1.7	1.7	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

[2] Ffigwr yn gywir yn ystod cynnal yr Arolwg Cyflogaeth, 2011

	Ynys Môn	**<u>Canolfan Gwasanaethau Trefol</u>**	Parc Cybi, Caergybi	C11	53	109.2	B1, B2, B8	Ie	Safle Strategol Rhanbarthol (Prif)
			Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi	C12	2.69	5.8	B2, B8	Ie	Safle Strategol Isranbarthol (Eilaidd)
			Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni	C13	18	59.5	B1, B2, B8	Ie	Ddim yn berthnasol
			Tir i'r gogledd o fferm Lledwigan, Llangefni	C14	20.3	20.6	B1, B2, B8	Ie	Safle Strategol Rhanbarthol (Prif)
			Tir yr Hufenfa, Llangefni	C15	4.9	4.9	B1, B2, B8	Ie	Safle Strategol Rhanbarthol (Prif)
Safleoedd eilaidd	Gwynedd	**<u>Canolfan isranbarthol</u>**	Bae Hirael, Bangor	C16	6.72	9.1	B1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
		<u>Canolfan Gwasanaethau Trefol</u>	Peblig, Caernarfon	C19	2.2	6.7	B2	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Cyn safle Friction Dynamex, Caernarfon	C20	**<u>3</u>**~~7.4~~	**<u>14.67</u>**~~.4~~	B2, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Safle Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog	C18	2.7	7.4	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
		<u>Canolfan Gwasanaethau Lleol</u>	Felin Fawr, Bethesda	C17	0.4	1.5	B2	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Glyn Rhonwy, Llanberis	C21	3.3	29.8	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Stad Ddiwydiannol, Penygroes	C23	4.3	10	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Stad Ddiwydiannol, Nefyn	C25	1.7	3.5	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

			Cyn safle Ysbyty Bron y Garth, Penrhyndeudraeth	C22	~~1.5~~**0.7**	~~16~~**1.6**	B1	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
			Stad Ddiwydiannol Griffin Penrhyndeudraeth	C39	0.9	4.9	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
		Pentrefi Gwasanaethau	Stad Ddiwydiannol, Y Ffôr	C27	2.8	2.8	B2	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
		Pentrefi Lleol	Parc Amaeth, Llanystumdwy	C24	1.5	6.6	B1, B2, B8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
		Cefn Gwlad Agored	Safle Wynnstay Farmers, Rhosfawr	C26	1.4	4.9	B2	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
	Ynys Môn	**Canolfan Gwasanaethau Trefol**	Cyn dir Shell, Amlwch	C28	7	19.3	B2, B8	Na	Ddim yn berthnasol
			Stad Diwydiannol Llwyn Onn, Amlwch	C29	3.16	15	B1, B2, B8	Na	Ddim yn berthnasol
			Tir Alwminiwm Môn, Caergybi	C30	81.7	90.5	B1, B2, B8	Ie	Safle Strategol Rhanbarthol (Prif)
			Cyn safle Eaton Electrical, Caergybi	C31	2	2	B1, B2	Na	Ddim yn berthnasol
			Safle Kingsland, Caergybi	C32	0.8	0.8	B1, B2, B8	Na	Ddim yn berthnasol
		Cefn Gwlad Agored	Tir ger Awyrlu Mona, Mona	C34	8.9	20.5	B2, B8	Na	Ddim yn berthnasol

Dyrennir tir ychwanegol fel y rhestrir isod ar gyfer cyflogaeth/mentrau busnes. Mae'r holl safleoedd i'w gweld ar y Map Cynigion.

	Safle	Cyfeirnod map	Arwynebedd tir gwag (ha)[3]	Cyfanswm Arwynebedd (ha)	Defnydd	Safle Parth Menter	Statws Cynllun Rhanbarthol

[3] Ffigwr yn gywir yn ystod cynnal yr Arolwg Cyflogaeth, 2011

Canolfan Gwasanaethau Trefol	**Tir i'r gogledd o fferm Lledwigan, Llangefni**	**C14**	**20.6**	**20.6**	**B1, B2, B8**	**Ie**	**Safle Strategol Rhanbarthol (Prif)**
	Tir yn Hufenfa, Llangefni	**C15**	**4.9**	**4.9**	**B1, B2, B8**	**Ie**	**Safle Strategol Rhanbarthol (Prif)**
Canolfan Gwasanaethau Lleol	**Stad Ddiwydiannol Gaerwen, Gaerwen**	**C33**	**25.2**	**58.1**	**B1, B2, B8**	**Ie**	**Safle Strategol Rhanbarthol (Prif)**
	Parc Gwyddoniaeth Menai Gaerwen[4]	**C38**	**7.6**	**7.6**	**B1[4]**	**Ie**	**Safle Strategol Rhanbarthol (Prif)**
Pentref Gwasanaethau	**Ger garej betrol, Y Ffôr**	**C10**	**1.7**	**1.7**	**B1, B2, B8**	**Ddim yn berthnasol**	**Ddim yn berthnasol**

Dynodir y safleoedd canlynol fel 'safleoedd wrth gefn' yn gysylltiedig gyda Rhaglen Ynys Ynni. Cyn gallu rhoi ystyriaeth i ryddhau'r tiroedd hyn ar gyfer defnydd cyflogaeth fe fyddai rhaid derbyn cyfiawnhad o'r angen ynghyd a thystiolaeth fod y datblygiad arfaethedig ar y safle yn uniongyrchol gysylltiedig â gwireddu amcanion Rhaglen Ynys Ynni a bod yna ddim safle cyflogaeth a warchodir yn addas er mwyn diwallu'r angen.

[4] Mae'r tir ym Mharc Gwyddoniaeth Menai, Gaerwen wedi ei ddyrannu ar gyfer y gwaith o ddatblygu Parc Gwyddoniaeth yn unig. Rhaid i unrhyw ddatblygiad ar y safle fod yn Ddefnydd B1 neu ddefnydd sy'n atodol neu'n gysylltiedig â defnydd B1. Dim ond defnyddiau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o 'Barc Gwyddoniaeth' a fydd yn cael eu cymeradwyo ar y safle.

	Safle	Cyfeirnod Map	Arwynebedd (Cyfanswm)	Defnydd	Safle Parth Menter
Safleoedd Wrth Gefn	Porthladd Caergybi, Caergybi	C(wg)35	41.9	B1, B2, B8	Ie
	Estyniad i Stad Ddiwydiannol Gaerwen, Gaerwen	C(wg)36	20	B1, B2, B8	Na
	Cyn safle Shell, Rhosgoch	C(wg)37	82.2	B1, B2, B8	Ie

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 48	7.3.25 – 7.3.28	1046 1047 1048 826 1404	7.3.19 Er mwyn sicrhau fod yna ddarpariaeth gytbwys o dir cyflogaeth sydd yn debygol o ddiwallu yr anghenion cyflogaeth a'r cyfleon sydd yn cael eu hyrwyddo gan strategaethau'r Cyngor, gan gynnwys Rhaglen Ynys Ynni/ Ynys Fenter, a Pharth Menter Eryri bwriedir gwarchod tir cyflogaeth yn unol â'r goeden a gyfeirir ato ym Mholisi CYF1. Cydnabyddir fod gan y safleoedd hyn rôl bwysig wrth gynnal a sicrhau cyfleon gyflogaeth i'r dyfodol a chan hynny'r bwriad yw eu gwarchod ar gyfer y dibenion hynny. Diffinnir y gwahanol haenau o fewn yr hierarchaeth fel a chanlyn:- **Prif Safleoedd** - Safleoedd sydd yn debygol o fod yn fwy deniadol i'r farchnad ac yn debygol o gael eu datblygu yn y tymor byr. **Mae'r safleoedd hyn wedi eu lleoli yn bennaf yn yr aneddleoedd mwyaf cynaliadwy, yn unol â'r strategaeth ofodol a chanddynt fynediad i wasanaethau cymunedol, cyfleusterau yn ogystal â chysylltiadau cludiant cynaliadwy.** **Safleoedd Eilaidd** - Safleoedd sydd ddim yn y lleoliadau mwyaf deniadol o ran mynediad a phresenoldeb y farchnad mewn cymhariaeth a'r prif safleoedd. Fodd bynnag maent yn cynnig cyfleodd pwysig sydd yn cyfarch galw lleol ynghyd a'r galw posib yn deillio o Rhaglen Ynys Ynni/ Ynys Fenter. **Mae'r safleoedd hyn wedi eu lleoli yn bennaf yn yr aneddleoedd mwyaf cynaliadwy, yn unol â'r strategaeth ofodol a chanddynt fynediad i wasanaethau cymunedol, cyfleusterau yn ogystal**	Er mwyn gwella eglurder a chywirdeb cynigir fod geiriad yr eglurhad yn cael ei ddiwygio.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			<u>â chysylltiadau cludiant cynaliadwy</u>. **Safleoedd wrth gefn** - Safleoedd sydd a'r potensial i ddiwallu'r galw a fyddai'n deillio o Wylfa Newydd ynghyd a gweddill Rhaglen Ynys Ynni Môn/ Ynys Fenter. **Safle Strategol Rhanbarthol** - Safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol sydd gyda rôl allweddol i gyflawni'r galw rhanbarthol ac i gyfrannu tuag at ddatblygiad economaidd cenedlaethol. **Safle Isranbarthol** - Safleoedd gyda ffocws mwy cyffredinol a lleol ar gyfer datblygu'r economi na safleoedd strategol rhanbarthol, gyda ffocws ar atynnu cyflogwyr sy'n denu gweithle o ardal eang. 7.3.20 Mae'n bwysig fod y Cynllun yn darparu portffolio priodol o dir cyflogaeth o ran yr ystod, ansawdd a niferoedd er mwyn diwallu'r galw lleol am diroedd ac unedau cyflogaeth. Mae gwarchod y safleoedd a enwir uchod yn fodd o sicrhau fod yr angen hwn yn cael ei ddiwallu. 7.3.21 **<u>Cynhaliwyd Adolygiad Tir Cyflogaeth (ELR) i asesu safleoedd cyflogaeth presennol sydd wedi'u lleoli o fewn yr awdurdodau lleol. Asesodd yr ELR pa safleoedd sydd fwyaf tebygol o ateb y gofynion cyfredol ar gyfer tir cyflogaeth. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gydnaws ag amcanion cynaliadwy y Cynllun. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr Adolygiad Tir Cyflogaeth yn cyfateb i'r fethodoleg a amlinellir yn TAN 23: Datblygu Economaidd (2014).</u>**	

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			7.3.22 Yn draddodiadol mae cyfradd cymryd i fyny tir cyflogaeth o fewn ardal y Cynllun wedi bod yn 4ha y flwyddyn. Er mwyn sicrhau fod yna ddarpariaeth o lithriad a hyblygrwydd i'r posibilrwydd o hwb economaidd a fyddai'n arwain at fwy o alw ar gyfer tir cyflogaeth mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer cyfradd cymryd i fyny tir cyflogaeth o 6ha y flwyddyn. **Mae'r safleoedd cyflogaeth newydd a ddyrannwyd yn cyfateb i 60ha; hefyd mae tir ychwanegol yn cael ei ddiogelu ar safleoedd cyflogaeth presennol sydd eisoes yn cynnwys datblygiad neu isadeiledd.** 7.3.23 Disgwylir i'r rhan helaeth o ddatblygiadau cyflogaeth o fewn ardal ac oes y Cynllun gael ei leoli ar safleoedd sy'n cael eu hadnabod ym Mholisi CYF1. Bydd y warchodaeth hon yn caniatáu datblygiadau newydd ynghyd ag ymestyn a dwysau gweithgareddau cyflogaeth ar safleoedd presennol.	
NF 49	7.3.31 – 7.3.33	959 960 972 973	7.3.31 Ystyrir fod y Cynllun yn darparu ar gyfer ystod ddigonol - yn nhermau maint, cymysgedd, ansawdd a dosbarthiad o safleoedd diwydiannol/fusnes o fewn ardal y Cynllun er mwyn diwallu'r galw. Fodd bynnag, fe all achosion godi o fewn oes y Cynllun ble nad yw cyflogwr mawr yn gallu dod o hyd i safle addas ar safle diwydiannol/busnes sydd wedi ei ddynodi.. Yn yr achosion hyn fe fydd ceisiadau cynllunio ar gyfer defnydd diwydiannol neu fusnes, er yn cael ei hysbysebu fel gwyriad o'r Cynllun yn gallu cael eu hystyried ar safleoedd sydd heb eu dynodi, gan gymryd i ystyriaeth y meini prawf cynllunio arferol, **fel nodir er enghraifft ym Mholisi PS1 Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig Polisi ISA 1 Darpariaeth Isadeiledd, Polisi PS5 Datblygu Cynaliadwy** ac os oes yna angen ar gyfer y datblygiad. 7.3.32 Bwriad y polisi hwn yw cefnogi mentrau busnes newydd ar raddfa fawr cyn belled â'u bod	Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			wedi lleoli mewn man priodol a chynaliadwy a bod ganddynt berthynas dda â'r aneddleoedd. Wrth ystyried mentrau o'r math, bydd yn hanfodol dilyn y broses prawf dilyniannol a'r arweiniad a roddir ym Mholisi Cynllunio Cymru ynghyd a'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: 'Datblygu Economaidd' sydd yn nodi'r angen i sicrhau nad oes yna opsiwn o ran lleoliad arall fwy addas a fyddai'n gallu diwallu'r angen, sicrwydd o ran faint o swyddi uniongyrchol a fyddai'n cael ei greu o'r fenter ac a fyddai'r datblygiad yn gwneud unrhyw gyfraniad arbennig at amcanion polisi. Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig ganiateir mentrau newydd ar safleoedd sydd heb eu gwarchod a bydd angen derbyn cyfiawnhad cyflawn o'r bwriad a'r angen lleoliadol. Mae'n hanfodol fod tystiolaeth briodol yn cael ei gyflwyno yn profi nad oes yna opsiwn amgen o allu defnyddio safle sydd wedi ei warchod ar gyfer defnydd cyflogaeth neu fod yna ddim safle a ddatblygwyd o'r blaen a allai fod yn addas i ddiwallu'r galw. 7.3.33 Byddai angen argyhoeddi'r Cyngor fod y fenter dan sylw yn hyfyw ac y byddai yna fuddiannau cyflogaeth leol yn deillio ohono. Un modd o brofi hynny fyddai cyflwyno Cynllun Busnes proffesiynol wedi ei baratoi gan arbenigwr annibynnol. Ni fydd ceisiadau a fyddai'n creu ardrawiad **<u>arwyddocaol annerbyniol</u>** ar **<u>iaith a chymeriad</u>** a fwynderau'r ardal leol yn cael eu cefnogi.	
NF 50	7.3.36	959 960 972	7.3.36 Fe fyddai rhaid derbyn cyfiawnhad llawn ar gyfer newid defnydd uned neu tir sydd wedi ei warchod ar gyfer defnydd yn nosbarth defnydd B1- B8 ar gyfer defnydd amgen, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn a hyfywedd y defnydd cyflogaeth presennol, unrhyw ymgais sydd wedi ei wneud i farchnata'r uned/tir ar gyfer defnydd cyflogaeth,**<u>effaith y lleihad yn y niferoedd o swyddi ar y gymuned leo</u>l** a gwybodaeth ynglŷn a'r ddarpariaeth o	Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
		973	safleoedd cyflogaeth leol sydd yn diwallu'r galw	

Yr Economi Ymwelwyr

Cyf	Rhan	Cyfeirnod Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 51	Polisi PS11	340, 456 & 761	3. Rheoli **a gwella'r** ddarpariaeth o lety twristiaeth o ansawdd uchel heb wasanaeth ar ffurf **bythynnod a fflatiau hunan arlwyo**, meysydd gwersylla, gwersylla moethus amgen, carafannau sefydlog neu deithiol neu barciau chalet;	I sicrhau cysondeb mewnol y cynllun.
NF 52	7.3.59	342 & 1072	7.3.59 Yn hanesyddol mae canllawiau cynllunio cenedlaethol a pholisi cynllunio lleol (yn arbennig yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd) wedi rhoi blaenoriaeth i drosi adeiladau presennol yng nghefn gwlad er defnydd economaidd. Mae hyn yn golygu bod nifer helaeth o adeiladau sydd wedi cael eu trosi i lety hunanwasanaeth mewn rhai ardaloedd. Yn amlwg, nid bwriad y canllaw cenedlaethol na'r Cynghorau yw i'r polisi hwn arwain at grynodiad gormodol o'r math hwn o lety gwyliau mewn lleoliad penodol. **Mae tystiolaeth mewn perthynas â chyfradd deiliadaeth yn awgrymu fod llety hunan arlwyo o safon dda yn parhau i fod yn ddewis poblogaidd gydag ymwelwyr. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn amlygu fod yna gyfyngiadau yn gysylltiedig â 'r cyfleoedd i ddatblygu ychwaneg o lety hunanarlwyo o fewn rhannau o ardal y Cynllun. Mae yna amheuaeth ynglŷn â chynaliadwyedd economaidd o ran cynhwysedd presennol unedau hunan arlwyo a chan hynny fe ddylai'r Cynghorau fod yn eithriadol o wyliadwrus wrth ganiatáu ceisiadau ar gyfer ychwaneg o lety hunan arlwyo. Os yw cynigion yn seiliedig ar ragdybiaeth afrealistig o ran lefelau'r ddeiliadaeth o fewn farchnad a allai fod yn orlawn mae yna fygythiad y byddem yn parhau i wneud ychydig iawn o brofit neu hyd yn oed**	I sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn hawdd.

Cyf	Rhan	Cyfeirnod Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			methu yn ariannol. Bygythiad pellachyw drwy ychwanegu tuag at y ddarpariaeth o lety y bydd lefelau deiliadaeth a hyfywdra'r darparwyr yn cael ei danseilio, gan arwain at fygythiad ychwanegol i'r rhai mwyaf bregus a allai arwain tuag at fethiant. Fe fydd y Cynghorau yn parhau i geisio blaenoriaethu llety gwasanaethol o ansawdd uchel yn hytrach na llety hunan arlwyo ble mae'r cyfleoedd yn codi. Fodd bynnag, fe allai cyfleoedd godi ar raddfa fechan i ddatblygu llety hunan arlwyo gan ddefnyddio adeiladu presennol, er enghraifft, ar ymyl llwybr yr arfordir, neu ddatblygiad sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi fferm neu fenter wledig bwysig presennol. Fe fydd rhaid i ymgeiswyr gyflwyno un ai gwerthusiad llawn o'r farchnad neu gynllun busnes manwl. Fe fyddai hynny'n caniatáu'r Cyngor i ystyried y cynllunio ariannol sydd wedi ei gynnal a darparu tystiolaeth o ran lefelau'r ddeiliadaeth sydd yn angenrheidiol er mwyn gwneud y fenter yn hyfyw. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi mwy o arweiniad am y mater yma.	
NF 53	7.3.67	515 & 1052	**7.3.67 Yn nghyd-destun y polisi yma llety gwersylla amgen parhaol yw unedau na ellir ei dynnu i lawr pan ddim mewn defnydd oherwydd graddfa'r cysylltiad ffisegol i'r tir a natur eu dyluniad. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi mwy o arweiniad ar y mater yma.**	Er mwyn sicrhau y gall y polisi gael ei ddehongli yn hawdd.
NF 54	Polisi TWR3 & 7.3.62	519, 520, 739, 792 & 518, 865	3. Oddi mewn i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Arcal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd cynigion i wella safleoedd sefydlog a chalet sy'n bodoli eisoes trwy: i. Estyniadau bychain i arwynebedd y safle, a/ neu ii. Ail-leoli unedau o leoliadau amlwg i leoliadau llai amlwg, yn cael eu caniatáu os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:	Er mwyn sicrhau y gall y polisi gael ei ddehongli yn hawdd. .

Cyf	Rhan	Cyfeirnod Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			iii. Nid yw'r gwelliannau yn cynyddu nifer y carafannau sefydlog neu chalet ar y safle**, oni bai , mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y cynigion yn golygu ail-leoli parciau presennol sydd wedi eu lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol** 7.3.62 Caniateir ail-leoli safleoedd presennol oddi mewn i'r Parth Rheoli Newid Arfordirol os yw'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd a Pholisi TWR3, Polisi ARNA1 a phob polisi perthnasol arall yn y Cynllun. **Rhoddir ystyriaeth i gynnydd bach mewn unedau os gyflwynir achos busnes / asesiad hyfywdra sy'n cyfiawnhau'r cynnydd er mwyn hwyluso parciau presennol sydd wedi ei leoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol.**	

Canol Trefi a Datblygiadau Manwerthu

Cyf	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 56	7.3.83	1068	~~7.3.82 Mae Strategaeth Aneddiadau'r Cynllun yn cydnabod cymeriad a rôl unigryw amrywiol ganol Trefi yn ardal y Cynllun. Mae canol trefi a dinasoedd yn elfennau hanfodol o'r economi leol ac yn parhau i ddarparu pwynt canolog i gymunedau. Mae'n bwysig felly sicrhau fframwaith cynllunio sy'n diogelu a gwella sefyllfa'r canol trefi fel lleoliadau ar gyfer gwasanaethau manwerthu a masnachu. Mae canolfannau bywiog ac actif yn darparu amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys unedau preswyl, gweithgaredd busnes, darpariaeth gwasanaeth, unedau manwerthu, a chyfleusterau hamdden a diwylliannol. Mae gan y Cynllun rôl i'w chwarae wrth gefnogi datblygiadau fydd yn gwarchod ac yn hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau sy'n bodoli.~~	I sicrhau eglurder a cysondeb efo newidiadau eraill yn y Cynllun

			7.3.82 Nododd yr Astudiaeth Manwerthu (2013) a wnaed i hysbysu'r Cynllun y canolfannau hynny o fewn y goeden aneddleoedd sydd â swyddogaeth manwerthu sylweddol. Mae'r prif gategorïau yn y goeden manwerthu fel a ganlyn: Isranbarthol, Trefol, a Lleol. Nid yw'r Goeden Aneddleoedd yn y Cynllun yn yr un fath â'r Goeden Manwerthu am ei bod wedi ei seilio ar ystod ehangach o ffactorau gan gynnwys rhifau tai a nifer, math a graddfa'r cyfleusterau a gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli o fewn pob cymuned. Mae Atodiad 4 y Cynllun a Phapur Pwnc 5: Datblygu y Goeden Aneddleoedd yn esbonio'r rhesymeg dros Goeden Aneddleoedd y Cynllun. 7.3.83 ~~Mae'r Astudiawth Manwerthu (2013) a wnaed i gyfrannu gwybodaeth i'r Cynllun yn nodi dylanwad cryf Bangor fel Canolfan Fanwerthu Isranbarthol. Roedd yr astudiaeth hefyd yn adnabod bod yr ardal yn cael ei gwasanaethu gan hierarchaeth~~ **Cydnabu'r astudiaeth hefyd bod yr ardal yn cael ei gwasanaethu gan goeden manwerthu** sy'n cynnwys canolfannau y tu allan i ardal y Cynllun, e.e. Llandudno a Chaer. **Yn ôl yr astudiaeth, roedd yna angen meintiol cyfyngedig i ddarparu a dosbarthu** ~~Ystyriai'r astudiaeth fod angen meintiol cyfyngedig i ddarparu~~ ryw 372 metr sgwâr ~~o ofod llawr ar gyfer nwyddau cyfleus~~ ychwanegol o arwynebedd llawr nwyddau cyfleus, a'i ddosbarthu fel y nodir isod: • **200 m.sg Caernarfon** • **172 m.sg Pwllheli** Fodd bynnag, o ran nwyddau cymhariaeth, daeth yr Astudiaeth i'r casgliad bod potensial i ddarparu ryw 9,353 metr sgwâr o arwynebedd llawr dros gyfnod y Cynllun **fel y nodir isod:** • **7,913 m.sg Bangor** • **176 m.sg Caernarfon** • **772 m.sg Pwllheli** • **492 m.sg Llangefni**	

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>NF 57</td><td>Polisi PS12</td><td>1068</td><td>Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda sefydliadau partner a'r gymuned leol i warchod a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi yn ardal y Cynllun gan gydnabod eu swyddogaethau manwerthu, gwasanaethu a chymdeithasol yn unol â'r goeden fanwerthu a ganlyn:

<table>
<tr><td rowspan="3">Gwynedd</td><td>Canolfan Fanwerthu Isranbarthol</td><td>Bangor</td></tr>
<tr><td>Canolfan Fanwerthu Drefol</td><td>Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli</td></tr>
<tr><td>Canolfan Fanwerthu Leol</td><td>Abersoch, Abermaw, Bethesda, Blaenau
Ffestiniog, Criccieth, Llanberis, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Ynys Môn</td><td>Canolfan Fanwerthu Drefol</td><td>Caergybi, Llangefni</td></tr>
<tr><td>Canolfan Fanwerthu Leol</td><td>Amlwch, Benllech, Biwmares, Cemaes, Llanfairpwll, Porthaethwy, Rhosneigr, Fali</td></tr>
</table>

Bydd y Cynghorau yn hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi/dinasoedd yn y Ganolfan Fanwerthu Isranbarthol, y Ganolfan Fanwerthu Drefol a'r Ganolfan Fanwerthu Leol trwy:

1. Annog cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau addas (fel y diffinnir yn PCC a NCT 4) mewn amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n denu ystod eang o bobl ar wahanol amseroedd o'r dydd, sy'n ddiogel ac yn hygyrch i bawb;
2. Sicrhau y bydd buddsoddiad newydd yn cyd-fynd â graddfa a swyddogaeth ganol y ddinas/tref yn unol â'r hierarchaeth fanwerthu;
3. Hwyluso'r ddarpariaeth o gyfanswm o 372 metr sgwâr o ofod llawr</td><td>I sicrhau eglurder a cysondeb efo newidiadau eraill yn y Cynllun</td></tr>
</table>

			~~newydd ar gyfer nwyddau cyfleus a chyfanswm o 9,353 metr sgwâr o ofod llawr ar gyfer nwyddau cymhariaeth erbyn 2026 mewn lleoliadau priodol;~~ **4.** **Hwyluso darpariaeth o 372 m.sg o arwynebedd llawr cyfleustra nwyddau cyfleus newydd erbyn 2026 mewn lleoliadau priodol yn y canolfannau trefi manwerthu canlynol:** • **200 m.sg. Caernarfon** • **172 m.sg. Pwllheli** **ac, o ran nwyddau cymharol, hwyluso darpariaeth y potensial am ryw 9,353 m.sg. o arwynebedd llawr yn y canolfannau manwerthu canlynol:** • **7,913 m.sg. Bangor** • **176 m.sg. Caernarfon** • **772 m.sg. Pwllheli** • **492 m.sg. Llangefni**	

PENNOD 7.4

Pennod 7.4 – Rheoli Twf a Datblygu – Cyflenwad ac Ansawdd Tai

Darpariaeth Tai Cytbwys

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 58	7.4.2	959, 960, 972, 973, 985, 903	Disgwylir i'r Cynllun gyflawni un o amcanion tai allweddol y Llywodraeth sy'n anelu at sicrhau bod mwy o dai o'r math cywir yn cael eu darparu, ac y dylid darparu mwy o ddewis. Mae creu marchnad dai iach a chytbwys hefyd yn amcan allweddol i'r ddau Gyngor, ac ynghyd â strategaethau a rhaglenni eraill y mae'r Cynghorau a sefydliadau eraill yn eu gweithredu, dylai'r Cynllun sicrhau bod defnydd tir yn hybu cymunedau cynaliadwy, **a fydd yn ei dro yn cynorthwyo i gynnal neu gryfhau lles yr iaith Gymraeg. Bydd methu gwneud hyn yn tanseilio strategaethau economaidd y Cynghorau a chyfyngu ar ein gallu trwy'r system gynllunio i gael tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion dwys nifer o'n cymunedau.**	I gynnal cysondeb mewnol
NF 59	7.4.3	130, 1062, 1063	Gall awdurdodau lleol adnabod nifer y tai sydd eu hangen, ond bydd y nifer gaiff eu hadeilaɯ mewn gwirionedd yn cael eu dylanwadu'n gryf gan ffactorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae cyfnod y Cynllun (2011 – 2026) yn un lle mae ansicrwydd economaidd ac ariannol yn parhau. Mae cyflwr y farchnad yn dal i fod yn wan ac o'r herwydd mae'n debygol y bydd y gyfradd adeiladu tai yn y tymor byr yn parhau'n isel. Er mwyn cynorthwyo i wella'r sefyllfa dai yn y tymor byr, mae pob Cyngor a'i bartneriaid yn archwilio ac/neu'n gweithredu mentrau lleol. **Gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael mae Papur Testun X yn anelu i ddarparu tafluniad tai sy'n cynnwys datblygu gam wrth gam/ datblygiad cynlluniau tai a dangos y sefyllfa o ran cyflenwad tir ar gyfer tai trwy gydol cyfnod y Cynllun. Wrth wneud y gwaith dangosir hyd y gellir y bydd y galw i gynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai yn cael ei gyrraedd trwy gydol cyfnod y Cynllun. Defnyddir mecanwaith cynllunio fel caniatâd tymor byr i drio sicrhau y**	Er eglurder

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			bydd safleoedd sydd gan ganiatâd cynllunio yn rhoi'r cartrefi angenrheidiol	
NF 60	7.4.4	130, 86, 1062, 1063, 903	Er gwaethaf hyn, disgwylir y bydd rhannau o ardal y Cynllun yn profi cyfleoedd cyflogaeth sylweddol yn ystod ail ran cyfnod y Cynllun (ar ôl 2018) o ganlyniad i'r buddsoddiad arfaethedig yn Wylfa Newydd, dadgomisiynu Wylfa A a phrosiectau isadeiledd mawr eraill. Gellir disgwyl i Wylfa Newydd ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i breswylwyr sydd eisoes yn byw yn ardal y Cynllun, cymunedau cyfagos a thu hwnt. Mae'r Cynllun yn rhoi ystyriaeth i'r cysylltiadau rhwng datblygiad economaidd a phreswyl. **Bydd ein targed, sef 7,184 o gartrefi newydd yn ystod oes y Cynllun, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r rhagolygon demograffeg orau a ffactorau sy'n dylanwadu ar y marchnadoedd tai. Derbynnir y bydd hyn yn fater a fydd angen cadw golwg agos arno ac fe gaiff ei adolygu yn ôl y galw yn unol â'r Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol (Cymru).**	Er eglurder
NF 61	Polisi PS13	86	POLISI STRATEGOL PS13: DARPARIAETH TAI Yn seiliedig ar lefel y tai y disgwylir y bydd ei angen, a gan roi ystyriaeth i'r gallu i'w darparu, cyfyngiadau amgylcheddol, a chapasiti'r dirwedd **a chymunedau,** bydd y Cynghorau yn darparu ar gyfer y galw am 7,184 o unedau tai rhwng 2011 a 2026. Caiff y galw yma ei gwrdd trwy adnabod cyfleodd ar gyfer 7,902 o unedau tai i hwyluso lwfans llithriad o 10%. Cynhelir isafswm cyson o werth 5 mlynedd o dir i gyflenwi tai trwy ddynodi tir a hyrwyddo datblygiad ar safleoedd ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol yn unol â'r targedi tai canlynol: 1. gofyniad sylfaenol, sydd gyfystyr a 2,604 unedau tai rhwng 2011 a 2018 2. darpariaeth ar gyfer twf, sydd gyfystyr a 5,298 o unedau tai rhwng 2018 a 2026	Er eglurder

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			Bydd y lefel twf hwn yn cael ei ddosbarthu yn unol â Pholisi Strategol PS15 a pholisïau TAI14 i TAI18 ac fe gaiff ei fonitro'n flynyddol **trwy'r Astudiaethau Tir ar gyfer Tai blynyddol a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol.**	
NF 62	Polisi newydd	1062, 215, 959, 960, 972, 973, 985	**Polisi TAI X newydd** **Er mwyn sicrhau bod gwahanol gymunedau yn gallu ymdopi gyda datblygiadau preswyl, bydd y Cynghorau, lle bo'n briodol, yn gofyn am ryddhau tai fesul cam yn achos safleoedd a ddynodwyd neu mewn perthynas â safleoedd ar hap.** **Er mwyn gwella cyflenwi cartrefi fel y nodir ym Mholisi PS13 a Pholisïau TAI 14 i TAI 18:** • **Bydd caniatâd cynllunio byr yn cael ei roi yn ôl disgresiwn y Cynghorau; neu** • **Gall datblygiadau tai fod ag amod dyddiadau cwblhau; neu** • **Ni fydd caniatâd amlinellol, materion wrth gefn a chaniatâd llawn yn cael eu hadnewyddu ac eithrio bod cyfiawnhad cryf** **Eglurhad:** **Noda Polisi Cynllunio Cymru efallai y bydd angen datblygu fesul cam, lle y bo'n briodol, mewn ymgynghoriad â'r darparwyr cyfleustodau/ isadeiledd perthnasol, er mwyn caniatáu amser i sicrhau y gall darpariaeth y cyfleustodau/ isadeiledd gael ei rheoli mewn ffordd sy'n gyson â pholisïau cyffredinol ar gyfer datblygu cynaliadwy. Efallai y bydd angenhefyd i ddatblygiadau ystyried gallu gwahanol gymunedau i gynnwys y datblygiad heb erydu eu cymeriad, gan**	Er eglurder a chynnal cysondeb mewnol

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			gynnwys eu cymeriad ieithyddol. **Mae rhan gyntaf y polisi yn nodi y gall safleoedd a ddynodwyd a safleoedd ar hap o bwys gael caniatâd fesul nifer o gamau. Bydd y dull gweithredu fesul cam hwn yn caniatáu rhywfaint o reolaeth dros sicrhau bod y seilwaith a'r cymunedau yn gallu cynnwys y datblygiad. Penderfynir ar y nifer o gamau priodol i bob safle dyranedig neu hap-safle yn ystod y cam cyn ymgeisio, mewn trafodaeth gyda'r ymgeisydd, gan gymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau a chyflenwad presennol yn yr anheddiad ynghyd ag unrhyw ofynion penodol mewn perthynas â chyflenwi'r safle dyranedig dan sylw. Bydd y Cynghorau'n cydnabod y bydd rhai safleoedd lle na fydd rhyddhau fesul cam yn angenrheidiol, yn briodol na'n berthnasol, ac y bydd trafodaeth gynnar gyda'r Cynghorau cyn cyflwyno unrhyw gais yn helpu i sefydlu p'un a oes angen defnyddio rhyddhau fesul cam. Nid yw'r dull fesul cam yn atal yr angen, lle y bo'n briodol, i'r ymgeisydd gyflwyno prif gynllun clir ymlaen llaw ynglŷn â gosodiad cyffredinol y safle cyfan. Bwriad Polisi TAI X yw gwella'r cyflenwad o dai a gwblhawyd, yn hytrach na chaniatâd cynllunio. Bu tuedd i sicrhau caniatâd cynllunio mewn aneddiadau yn y gorffennol heb fwriad clir i weithredu neu gyflenwi'r unedau yn y dyfodol agos. Yn aml arweiniodd hyn at bwysau i sicrhau caniatâd cynllunio cyn i 'gwota adeiladu' y pentref gael ei ddisbyddu. Cafodd peth caniatâd cynllunio hefyd ei gadw fel un sy'n bodoli eisoes drwy rinwedd 'cychwyn technegol' sy'n cefnogi'r cymhellion, mewn rhai achosion, i gael caniatâd cynllunio yn hytrach na sicrhau bwriad masnachol i adeiladu. Mae'r holl ffactorau hyn yn tueddu i rwystro cyflenwi tai gwirioneddol ac ymatebolrwydd i anghenion uniongyrchol** **Bydd y polisi yn cynorthwyo'r Cynghorau i sicrhau cyflenwad tir pum mlynedd ddilys yn ôl gofynion yr Asesiadau Tir ar gyfer Tai ar y Cyd a gyhoeddwyd gan y Cynghorau mewn ymateb i bolisi cynllunio cenedlaethol.**	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 63	7.4.13	1177	7.4.13 Mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio i drosi ŷ, fflat neu eiddo eraill i mewn i fflatiau ar wahân neu ystafelloedd byw a chysgu neu i adeiladu eiddo newydd o'r math hwn, oni bai bod y cynnig yn cynnwys darparu un fflat uwchben siop. Pan nad oes mwy na 6 o bobl yn rhannu'r cyfleusterau (h.y. ystafell ymolchi a chegin) ac yn gyfrifol am reoli'r aelwyd (h.y. talu rhent a bwyta gyda'i gilydd), tybir ei fod yn 'dŷ a rennir' ac fel arfer ni fydd angen caniatâd cynllunio. Mewn rhai achosion gall hyn gynnwys aelwydydd lle darperir ychydig o ofal neu lle mae nifer o fyfyrwyr yn byw gyda'i gilydd. Gall fflatiau hunangynhaliol neu dai amlfeddiannaeth helpu i fynd i'r afael ag anghenion y rheini sydd eisiau prynu neu rentu unedau llety bychain, a gallent hefyd ddarparu opsiwn tai cymharol rad i'r rheini sy'n dymuno prynu eu heiddo cyntaf.**Yn ogystal gallai defnyddio adeiladau gwag/ rhai sy'n cael eu tanddefnyddio fod yn un o'r opsiynau i gyfrannu at gyfarch rhan o'r galw am lety gweithwyr dros dro.**Ymdrinnir â chynigion am fflatiau / tai amlfeddiannaeth sy'n adeiladau newydd dan bolisïau TAI 3 a TAI 14 i TAI 18 [dynodiad a safleoedd ar hap] a rhoddir ystyriaeth i'r effaith bosib ar gymeriad a mwynderau'r ardal leol gan gynnwys yr effaith gronnus dan Bolisi PCYFF 1.	I sicrhau cysondeb mewnol
NF 64	Polisi TAI 3	1178, Cyngor	(Newid i eiriad ac ail-osod meini prawf) POLISI TAI3: LLETY ~~PWRPASOL NEWYDD, TAI AMLFEDDIANNAETH A THAI ERAILL GYDA CHYFLEUSTERAU A'U RHENNIR~~AR GYFER GWEITHWYR ADEILADU DROS DRO Caniateir cynigion ar gyfer llety ~~pwrpasol newydd, tai amlfeddiannaeth a thai eraill gyda chyfleusterau a'u rhennir~~ ar gyfer gweithwyr adeiladu dros dro os**ydi o yn rhan o'r ateb cyflawn i ddarparu llety ar gyfer gweithwyr adeiladu dros dro ac y**gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol: 1. Bod y safle wedi ei leoli o fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi	Er eglurder ac i sicrhau cysondeb mewnol

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			Gwasanaethol a'u hadnabyddir o fewn Coeden Aneddleoedd y Cynllun **ac** 2. Ei fod yn gymesur o ran graddfa i'r Ganolfan neu'r Pentref Gwasanaethol,**ac** 3. Na fydd yn rhagfarnu gallu'r Cyngor i gynnal cyflenwad tir parhaus sydd o leiaf 5 mlynedd ar gyfer tai **parhaol** ~~hunangynhaliol~~, **neu** 4. mewn amgylchiadau eithriadol, ~~mewn man eraill~~**ar Ynys Môn** os: i. gall y datblygwr arddangos fod yna angen hanfodol a brofwyd ar gyfer y nifer a math o lety na ellir ei gwrdd o fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaethol yn yr ardal leol unai drwy lety**neu safle** presennol neu drwy ail-ddefnyddio adeilad presennol; a ii. bod y llety yn cael ei ddarparu er mwyn cwrdd ag anghenion llety dros dro gweithwyr; iii. mae'r safle yn hygyrch i lwybrau ludiant cyhoeddus, mannau gwaith, a seilwaith cymdeithasol allweddol; iv. bod llety o safon dderbyniol a chyfleusterau hamdden ac adloniadol cyfunol digonol yn cael eu darparu ar y safle i gwrdd ag anghenion mwynderol y preswylwyr; 5. **Bod y llety** ~~Mae~~ wedi ei ddylunio ar gyfer defnydd etifeddiaeth ('legacy') parhaol, oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, fod y Cyngor yn fodlon nad yw defnydd etifeddiaeth yn ddichonol **neu'n briodol;** 6. Mae'n gyson gyda Pholisi PCYFF 1 a pholisïau yn gysylltiedig â'r defnydd amgen yn y dyfodol; ~~7. Nad yw yn golygu colli safleoedd neu rannau o safleoedd a ystyrir i fod yn addas ar gyfer tai fforddiadwy neu dai ar gyfer pobl hŷn neu bobl eraill sydd ag anghenion penodol yn ystod oes y Cynllun, gan gynnwys safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai~~; 8. Os mai'r ddarpariaeth o dai **parhaol** ~~hunangynhaliol~~ yw'r defnydd etifeddiaeth bwriedir **o'r llety** ~~yr adeilad(au)~~, yna bod y cynnig yn **gwneud cyfraniad positif i amcanion tai fforddiadwy'r Cyngor yn** unol â gofynion Polisi TAI 9 a Pholisi TAI 10; 9. **Os yw'r cynnig yn arwain at ardrawiadau neu alw ychwanegol ar gyfleusterau cymunedol presennol, yn unol â Pholisi ISA 1, dylid darparu cyfleusterau ychwanegol neu gyfraniadau priodol ar gyfer y datblygiad neu welliannau i gyfleusterau presennol o fewn Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaeth, oni bai y gellir dangos y dylid darparu cyfleusterau dros dro mewn lleoliad arall;**	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			10. Fod y llety, a'r defnydd etifeddiaeth a gytunir arno, yn cyfrannu i greu cymuned gymysg, gynhwysol a chynaliadwy, ac nad yw'n achosi gor-grynhoad o'r fath ddefnydd yn yr ardal leol neu niwed i fwynderau preswyl yr ardal gyfagos; 11. Os nad yw defnydd amgen yn ddichonol bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod yr adeiladau dros dro yn cael eu clirio o'r safle a i. bod y tir a'i gwasanaethir yn cael ei gadw mewn cyflwr taclus yn dilyn clirio'r strwythurau, neu ii. bod yr holl gyfleusterau gwaredu gwastraff, ffyrdd, mannau parcio a chyfleusterau draenio yn cael eu clirio'n barhaus o'r safle a bod y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol i fodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd caniatâd cynllunio wastad ond yn cael ei roddi yn ddarostyngedig i gyfnod amser penodol er mwyn galluogi'r Cyngor i adolygu'r tueddiad cyffredinol mae'r llety cysylltiol i'r prosiect adeiladu ei angen. Bydd mecanweithiau cynllunio priodol yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau'r defnydd etifeddiaeth a gytunwyd arno. Bydd yn ofynnol i weithredwyr i gadw cofrestr o'r holl weithwyr sydd yn byw yn y llety ac i sicrhau fod y gofrestr hon ar gael ar unwaith i'r Cyngor os gofynnir amdano.	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 65	Polisi TAI 5	611, Cyngor	POLISI TAI5: TAI MARCHNAD LEOL Caniateir datblygiadau preswyl newydd o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd penodol a nodir isod cyn belled bod:	I sicrhau cywirdeb.

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			1. Meddiannaeth yr eiddo yn cael ei gyfyngu i fod yn: **i.** Dai marchnad leol; a/neu **ii.** Tai fforddiadwy (yn unol â Pholisi Strategol PS14 a Pholisi TAI9) 2. Bod maint yr unedau yn cydymffurfio â'r uchafswm diffiniedig ar gyfer y math penodol o uned a fwriedir; 3. Bod trefniadau boddhaol ar gael i gyfyngu meddiannaeth unrhyw dŷ marchnad leol neu fforddiadwy yn y lle cyntaf ac am byth i sawl sy'n cydymffurfio â'r diffiniad meddiannaeth berthnasol. Pan ganiateir datblygiad, defnyddir amod cynllunio i reoli Hawliau Datblygu a Ganiateir er mwyn sicrhau na fyddai estyniad neu addasiadau yn cynyddu maint eiddo yn uwch na'r uchafswm maint derbyniol a'i diffinnir. <u>Yr aneddleoedd perthnasol</u>: (i) Canolfannau Gwasanaeth Lleol <u>Ynys Môn</u> • Biwmares • Rhosneigr <u>Gwynedd</u> • Abersoch (ii) Pentrefi <u>Ynys Môn</u> <u>Gwynedd</u>	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			• Moelfre • Trearddur • Pont Rhyd y Bont • Aberdaron • Mynytho • Llanbedrog • Sarn Bach • Tudweiliog • **Llangian** • **Rhoshirwaun** • **Borth-y-gest** • **Morfa Bychan**	
NF 66	Polisi TAI 5	1031, 611, Cyngor	Eglurhad: (Pob geiriad arall yn yr eglurhad i'r polisi i aros yr un fath ag y nodwyd yn y cynllun adnau). 7.4.37 Rhaid i gynigion i ddarparu unedau preswyl newydd o fewn ffiniau datblygu Abersoch, Biwmares, Rhosneigr, Aberdaron, **Borth-y-gest**, Moelfre, **Morfa Bychan**, Mynytho, Llanbedrog, **Llangian, Rhoshirwaun,** Sarn Bach, Trearddur, Tudweiliog a Phont Rhyd y Bont gydymffurfio â Pholisi TAI5 mewn cyfuniad a Pholisi TAI9. Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer pob math o ddatblygiad sydd yn creu uned neu unedau preswyl newydd ac mae'n berthnasol ar gyfer unrhyw raddfa o ddatblygiad. Tra bod yr elfen tai fforddiadwy yn cyd-fynd â'r hyn a hwylusir ym mholisïau TAI9, ni fydd tai marchnad agored yn cael eu caniatáu yn yr aneddleoedd a'u henwir o fewn y polisi hwn. 7.4.38 Mae tystiolaeth a welir ym Mhapur Testun 17 Tai Marchnad Leol yn cyfleu'n glir fod problemau dwys yn bodoli o fewn marchnadoedd tai'r aneddleoedd a'u henwir o fewn y polisi hwn a chaiff hyn sgil effaith cymdeithasol ac economaidd ar y	I sicrhau cywirdeb ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi'n rhwydd.

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			cymunedau hyn. Drwy hyrwyddo tai marchnadleol a thai fforddiadwy yn unig o fewn yr aneddleoedd hyn, amcan y polisi hwn ydyw i daclo'r anghydbwysedd o fewn y marchnadoedd tai lleol ac i gynnal a chryfhau cymunedau bregus. Mae'r polisi yn ymateb i ffactorau cydnabyddedig sy'n dylanwadu ar y marchnadoedd tai perthnasol. Mae'n ehangu cyfleoedd yn y marchnadoedd tai diffiniedig ac yn sicrhau darpariaeth o unedau sydd yn diwallu anghenion y gymuned. **Nid yw'r Polisi hwn felly yn ceisio darparu tai fforddiadwy i bobl yn y gymuned leol sydd ag angen am dai o'r fath (gan mai dyma amcan y polisïau Tai Fforddiadwy), ond yn hytrach mae'n sicrhau cynaladwyedd cymunedau bregus, lle mae problemau dwys yn bodoli o fewn y farchnad dai.** Gall cymhwyso'r polisi gynorthwyo i gyflawni nod polisi cymdeithasol ehangach, fel cynnal neu gryfhau cymunedau Cymraeg. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi arweiniad ar y mater. 7.4.39 ~~Bydd meddiannaeth tai marchnad leol yn cael ei gyfyngu i'r rai hynny sydd yn gymwys, drwy gytundeb cyfreithiol Adran 106. Ni fydd y cytundeb cyfreithiol yn cyfyngu gwerth yr eiddo fel yn achos tai fforddiadwy. Yn hytrach, bydd~~ **Bydd** y polisi hwn yn ceisio rheoli gwerth unedau marchnad leol drwy gyfyngu eu maint. Trwy reoli uchafswm maint unedau marchnad leol, bydd gwerth yr unedau yn fwy cydnaws gydag amcan y polisi o gynnal y cymunedau diffiniedig.	

Tai Fforddiadwy

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th></tr>
<tr><td>NF 67</td><td>Polisi PS14</td><td>1033, 1034</td><td><u>7.4.65A Ni fydd pob uned fforddiadwy newydd a adnabuwyd yn yr AMTLl yn cael eu hadeiladu o'r newydd a'n cael eu rheoli o fewn polisïau'r CDLl ar y cyd. Un teclyn yn unig i sicrhau bod y galw am dai fforddiadwy yn cael ei ddiwallu yw'r CDLl ar y Cyd. Mae'n bwysig fodd bynnag bod y Cynllun yn cyfrannu yn ddigonol i gwrdd â chyfran o'r angen hwn</u>.

<u>7.4.65B Mae'r ffigwr o ran y targed lleiafswm ar gyfer tai fforddiadwy newydd a'i nodir yn y Cynllun wedi ei seilio ar y wybodaeth ganlynol</u>:

<table>
<tr><th><u>Categori</u></th><th><u>Cyfanswm</u></th></tr>
<tr><td><u>Unedau wedi eu cwblhau</u>[1]</td><td><u>206</u></td></tr>
<tr><td><u>Unedau fforddiadwy yn y banc tir</u>[2]</td><td><u>471</u></td></tr>
<tr><td><u>Dynodiadau newydd</u>[3]</td><td><u>404</u></td></tr>
<tr><td><u>Ar hap mewn Canolfannau Gwasanaeth</u></td><td><u>60</u></td></tr>
<tr><td><u>Ar hap mewn Pentrefi</u></td><td><u>30</u></td></tr>
<tr><td><u>Clystyrau</u></td><td><u>224</u></td></tr>
<tr><td><u>Israniad adeiladau gwledig</u></td><td><u>10</u></td></tr>
<tr><td><u>Cefn gwlad agored</u></td><td><u>10</u></td></tr>
<tr><td><u>CYFANSWM</u></td><td><u>1,415</u></td></tr>
</table>
<u>[1] Ers dyddiad sail y CDLl ar y Cyd</u></td><td>I sicrhau eglurder</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td><u>[2] Ffigwr tai fforddiadwy ar hap wedi ei seilio ar asesiad o ba safleoedd sydd yn debyg o gael eu hadeiladu.</u>
<u>[3] Ar sail 25% neu 15% o ddarpariaeth tai fforddiadwy (yn seiliedig ar Ardaloedd Pris Tai a nodir ym Mholisi TAI9).</u></td><td></td></tr>
<tr><td>NF 68</td><td>Polisi TAI 9</td><td>288, Cyngor</td><td>POLISI TAI9: TROTHWY TAI FFORDDIADWY A'U DOSBARTHIAD

Bydd y Cynghorau'n ceisio sicrhau lefel briodol o dai fforddiadwy yn ardal y cynllun drwy weithio mewn partneriaeth â Darparwyr Cofrestredig, datblygwyr a chymunedau lleol i gwrdd â'r targed lleiafswm a gyflwynir ym mholisi strategol PS14.

<u>1 Trothwy</u>
Bydd disgwyl i ddatblygiadau tai, boed yn rhai newydd neu'n adeiladau wedi'u trosi, mewn aneddleoedd sydd wedi'u hadnabod yn yr hierarchaeth aneddleoedd fel y gwelir ym mholisi strategol i PS15, wneud cyfraniad at dai fforddiadwy yn unol â'r ffigyrau trothwy a gyflwynir yn y tabl isod:

<table>
<tr><td>Categori'r Anheddle</td><td>Trothwy</td></tr>
<tr><td>Isranbarthol</td><td rowspan="3">5 neu fwy o unedau tai</td></tr>
<tr><td>Canolfannau Gwasanaeth Trefol</td></tr>
<tr><td>Canolfannau Gwasanaeth Lleol</td></tr>
<tr><td>Pentrefi Gwasanaeth</td><td>3 neu fwy o unedau tai</td></tr>
<tr><td>Pentrefi Gwledig / Arfordirol</td><td rowspan="2">2 neu fwy o unedau tai</td></tr>
<tr><td>Pentrefi Lleol</td></tr>
</table></td><td>I sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd</td></tr>
</table>

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad

Clystyrau	Dim ond safleoedd sy'n 100% tai fforddiadwy fydd yn cael eu cefnogi mewn clystyrau.
Israniu Annedd Gwledig	2 neu fwy o unedau ychwanegol

2 Canran y Tai Fforddiadwy

Disgwylir y ganran a ganlyn o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn yr Ardal Pris Tai a gyflwynir yn y tabl isod:

Canran y Tai Fforddiadwy	Ardaloedd Pris Tai
O leiaf 25%	Arfordir Gwerth Uchel Gwynedd, Rhosneigr, Biwmares, Gogledd-orllewin Wledig, Ardal y Pontydd, Trearddur a Rhoscolyn, De-orllewin, Gogledd-ddwyrain Wledig, Aneddleoedd Arfordirol Mwy, Canolfannau Gwledig, Y Canol Gwledig, Arfordir Gorllewinol a De Arfon, Gorllewin Gwledig.
O leiaf 15%	Llangefni, Llŷn, Arfordir y Gorllewin ac Arfon Wledig, Caergybi, Amlwch a'r Cefnwlad, Y Mynyddoedd, Dwyrain Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol, Blaenau Ffestiniog.

Gweler y tabl yn yr eglurhad isod mewn perthynas â pha anheddle sy'n perthyn i'r ardaloedd

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			hyn. Pan fo'r gofyniad tai fforddiadwy mewn cynllun penodol yn disgyn o dan un annedd ar y safle, yna **dylai darparu uned fforddiadwy o fewn y datblygiad hwnnw barhau i fod yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, os tybir nad yw hyn yn bosibl,**byddai disgwyl taliad pro-rata yn hytrach na dim darpariaeth fforddiadwy ar y safle. 3 Materion Eraill i. Bydd gofyn i bob datblygiad gyflawni cymysgedd briodol o ran mathau a maint y tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol yn y datblygiad, fydd yn cael eu pennu gan yr asesiad marchnad dai lleol neu unrhyw asesiad amgen gan y Cyngor neu bartner. ii. Dylai unedau fforddiadwy gael eu hintegreiddio'n llawn mewn datblygiad, ac ni ddylai fod modd eu gwahaniaethu oddi wrth dai nad ydynt yn fforddiadwy. iii. Os nad yw hyfywdra cynllun unigol yn diwallu'r gofynion polisi a nodir, cyfrifoldeb yr ymgeisydd / y datblygwr / tirfeddiannwr fydd dangos yn glir beth yw'r amgylchiadau dros gyfiawnhau cyfraniad neu gymysgedd deiliadaeth is o dai fforddiadwy ar bro-fforma asesiad hyfywdra. iv. **Pan, ar ôl cyflwyno pro-fforma hyfywedd, fod anghytundeb yn parhau rhwng yr ymgeisydd / datblygwr / tirfeddiannwr a'r Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch y ddarpariaeth o dai fforddiadwy o fewn cynllun, bydd asesiad allanol annibynnol o'r cynllun yn cael ei gynnal (e.e. gan y Gwasanaeth Prisiwr Dosbarth) ar gost yr ymgeiswyr. Bydd nifer y tai fforddiadwy a ddarperir yn adlewyrchu casgliadau'r asesiad hwn.** v. Bod mecanweithiau addas mewn lle i reoli meddiannaeth yr uned(au) tai fforddiadwy pan gânt eu meddiannu yn y lle cyntaf, ac wedi hynny, i'r rheini sy'n gallu profi angen am dŷ fforddiadwy.	

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>vi. Os gellir dangos nad oes meddianwyr cymwys o'r fath ar gyfer tai mentrau gwledig, yna caiff y tai eu meddiannu gan y rheini sy'n gymwys i gael eu hystyried am dai fforddiadwy.
vii. Caniateir estyniadau ac addasiadau i dai fforddiadwy cyn belled â bod y newidiadau neu'r addasiadau yn caniatáu i'r tŷ barhau fel tŷ fforddiadwy. Dylai unrhyw estyniad neu addasiad gydymffurfio â'r polisi manwl ar ddyluniad.</td><td></td></tr>
<tr><td>NF 69</td><td>Polisi TAI 9</td><td>728, 273, 68, Cyngor</td><td>Eglurhad:

7.4.68 Mae'r astudiaeth hyfywdra ynghyd â dadansoddiad o geisiadau hanesyddol wedi adnabod y lefelau trothwy perthnasol lle bydd y Cynghorau'n ceisio elfen o ddarpariaeth fforddiadwy gan gynnig datblygu. Darpariaeth ar y safle yw'r dewis a ffafrir pan fo safle'n cyrraedd y trothwy, ond os yw graddfa'r cynllun yn golygu y byddai cyfraniad y tai fforddiadwy yn llai nag un uned fforddiadwy e.e. byddai 6 uned mewn ardal pris tai o 10% yn cyfateb i 0.6 tŷ, yna <u>gellir ceisio</u> <s>ceisir</s> cyfraniad pro-rata am ganran y tŷ newydd h.y. 60% yn yr enghraifft hon.

7.4.69 Mae ardaloedd prisiau tai gwahanol wedi'u hadnabod yn yr astudiaeth hyfywdra. Mae'r tabl isod yn nodi i ba ardaloedd Pris Tai mae gwahanol aneddleoedd yn perthyn (nid yw Clystyrau wedi'u cynnwys gan y bydd yr holl ddatblygiadau mewn Clystyrau am dai fforddiadwy). <u>Bydd y gwaith o fonitro'r Cynllun yn ailasesu'r prisiau tai cyfartalog a nodwyd yn yr Astudiaeth Hyfywedd. Gallai hyn effeithio ar y ganran o dai fforddiadwy a geisir yn y gwahanol ardaloedd pris tai</u>

Tabl 16 : Ardal Pris Tai
<table><tr><th>Ardal Pris Tai</th><th>Prif Aneddleoedd</th></tr><tr><td></td><td></td></tr></table></td><td>I sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd</td></tr>
</table>

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			O leiaf 25% Arfordir Gwerth Uchel Gwynedd – Abersoch Rhosneigr – Rhosneigr Biwmares – Biwmares Gogledd-orllewin Wledig – Cemaes Ardal y Pontydd – Llanfairpwll, Porthaethwy Trearddur a Rhoscolyn – Dim Canolfan Gwasanaethol yn yr ardal. De-orllewin – Niwbwrch Gogledd-ddwyrain Wledig – Benllech, Pentraeth Aneddleoedd Arfordirol Mwy – Bethel, Bontnewydd, Caernarfon, Criccieth, Pwllheli, Porthmadog, Tremadog Canolfannau Gwledig – Ardal o fewn y Parc Y Canol Gwledig – Gaerwen, Llannerchymedd Arfordir Gogleddol a De Arfon – Bangor, Penygroes Gorllewin Gwledig – Bodedern, Gwalchmai, Y Fali O leiaf 15% Llangefni – Llangefni Llŷn – Botwnnog, Chwilog, Nefyn, Y Ffor Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig – Abermaw, Deiniolen, Penrhyndeudraeth, Tywyn Caergybi – Caergybi Amlwch a'r Cefnwlad – Amlwch	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad

Y Mynyddoedd	Bethesda, Llanberis, Llanrug, Rachub
Dwyrain Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol	Ardal o fewn y Parc
Blaenau Ffestiniog	Blaenau Ffestiniog

7.4.69 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at safleoedd eithrio tai fforddiadwy fel safleoedd tai bychain oddi mewn i neu gerllaw aneddleoedd sy'n bodoli ar gyfer darparu tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol. Ceir eglurhad pellach ar hwn yn NCT2, sy'n datgan y dylai safleoedd eithrio gwledig fod yn fach (fel sy'n cael ei ddiffinio'n lleol yn y cynllun), ar gyfer tai fforddiadwy yn unig ac ar oddi mewn i neu gerllaw aneddleoedd gwledig presennol na fyddai fel arall yn cael eu rhyddhau ar gyfer tai ar y farchnad.

7.4.70 Oherwydd natur wledig yr ardal bydd safleoedd eithrio yn cael eu hystyried ar gyfer yr holl aneddleoedd sydd wedi'u nodi yn y Cynllun, fodd bynnag dylent fod ar raddfa sy'n gydnaws â rôl y ganolfan. Yr unig eithriad i hyn yw os darperir cyfiawnhad i egluro sut mae cynnig yn gwasanaethu ardal ehangach na dim ond yr anheddle ei hun e.e. oherwydd diffyg cyfleoedd mewn aneddleoedd eraill yn yr un ardal. Ni ddylai safleoedd sydd gyfagos â'r ffin beri estyniad annerbyniol i mewn i gefn gwlad ac ni ddylent greu patrwm datblygu tameidiog.

7.4.71 Yn unol â pholisi cenedlaethol sydd yn ceisio cyfyngu ar ddatblygu tai yng nghefn gwlad agored, bydd caniatâd am Dai Mentrau Gwledig yn cynnwys amod fydd yn cefnogi eu defnydd fel tai fforddiadwy pan ellir dangos nad oes meddianwyr cymwys am dŷ menter wledig.

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad

Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF **70**	7.4.89 – 4.4.90	1028	7.4.89 **Mae Tai (Cymru) 2014 Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle y nodwyd bod angen** ~~Yn unol â Deddf Tai 2004 (a oedd yn bodoli ar y pryd), fe wnaethpwyd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru a Sir y Fflint (2011) ar gyfer holl Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru heblaw am Wrecsam (oedd wedi gwneud astudiaeth ar wahân).~~ **Cynhaliwyd Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (AALlST) yn 2015 yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i nodi'r angen heb ei ddiwallu dros gyfnod o 5 mlynedd.** 7.4.90 Mae canfyddiadau ~~uchod~~ **AALlST 2015** yn dangos bod angen am ~~11~~ **4** o leiniau preswyl **parhaol** yn lle'r safle presennol a oddefir ar hyn o bryd ~~ger~~ yn **Ffordd Pentraeth, Ynys Môn** ac angen am **11 o leiniau preswyl parhaol** ychwanegol yng Ngwynedd **dros y 5 mlynedd nesaf**. **Mae AALlST 2015 hefyd yn argymell dyrannu dau lecyn aros dros dro ar hyd yr A55 yn Ynys Môn (un yn ardal Caergybi ac un yng nghanol yr Ynys), ac un yng Nghaernarfon i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi gwneud**	I ddangos bod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			gwersylloedd diawdurdod yn rheolaidd yn yr ardal. Ar hyn o bryd, does dim safleoedd teithiol awdurdodedig yng Ngogledd Cymru. Gall lleiniau 'teithiol' fod ar safleoedd ffurfiol tebyg i safleoedd preswyl parhaol ond bod preswylwyr ddim ond yn cael aros am hyd at 3 mis neu gallant fod yn fannau aros dros dro**lle gall deiliaid aros am gyfnodau byrrach**. ~~Deallir bod~~ **Mae** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd i ~~gael~~ **datblygu** safle Sipsiwn a Theithwyr preswyl parhaol **ger Conwy**, **ac i ddarparu** ~~Teithwyr yn ogystal â~~ safle teithiol ffurfiol. 7.4.91 O dan y Ddeddf Tai (Cymru) 2014 newydd bydd angen gwneud Astudiaeth Anghenion arall yn ~~2015~~ **2020**, fel yr un uchod, er mwyn cydymffurfio hefo gofynion Llywodraeth Cymru. Efallai bydd cwblhau'r asesiad newydd, **monitro blynyddol ac adolygiad o'r Cynllun** yn achosi newid yn nifer y lleiniau ychwanegol fydd eu hangen yn ystod cyfnod y Cynllun.	
NF 71	Polisi TAI 11	1076	POLISI MANWL TAI 11: GWARCHOD SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR Mae'r safle Sipsiwn presennol yn Llandygai, Bangor, fel sydd i'w weld ar y Map Cynigion yn cael ei ddiogelu ~~fel safle preswyl parhaol i'w ddefnyddio ddim ond gan Sipsiwn.~~ i'w**ddefnyddio gan Sipsiwn yn unig.** Bydd unrhyw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd a gafodd ganiatâd cynllunio ac a fu'n weithredol hefyd yn cael eu diogelu ar gyfer defnydd Sipsiwn a Theithwy**r yn unig.** Gwrthodir cynigion ar gyfer defnydd arall ar safle sydd wedi'i ddiogelu heblaw am pan fydd safle arall yn ei le wedi cael ei adnabod a'i ddatblygu i ddarparu cyfleusterau o safon gyfatebol neu well (yn cynnwys o ran lleoliad) tra mae angen yn parhau am y fath safleoedd, yn ôl Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr neu'r dystiolaeth orau sydd ar gael.	I adlewyrchu data a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac i ddarparu mwy o eglurder a chysondeb.

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th></tr>
<tr><td>NF 72</td><td>Polisi TAI 12</td><td>1074</td><td>POLISI MANWL TAI 12: DYRANNU SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR

Er mwyn cyfrannu at ateb yr angen am leiniau i Sipsiwn a Theithwyr fel y dangosir yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, mae'r ~~lleoliad a ganlyn~~ <u>safleoedd</u> canlynol, fel y dangosir ar y Map Cynigion, <u>yn cael eu dynodi</u> at ddefnydd preswyl parhaol Sipsiwn <u>a</u> Theithwyr, a dim ond Sipsiwn neu Deithwyr a gaiff fyw arnynt ~~wedi cael ei adnabod ar gyfer datblygiad posib fel defnydd parhaol gan Sipsiwn neu Deithwyr, ac i'w feddiannu ddim ond gan Sipsiwn neu Deithwyr~~

Safleoedd parhaol i Sipsiwn ~~neu~~ <u>a</u> Theithwyr

<table><tr><td>Lleoliad</td><td>Nifer y lleiniau</td><td>Preswylwyr</td></tr><tr><td>Estyniad i'r safle presennol yn Llandygai, Bangor</td><td>~~5~~
<u>11</u></td><td>Sipsiwn</td></tr></table>
Mae'r Cynghorau'n cymhwyso Methodoleg Asesu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i adnabod safleoedd ar gyfer ~~16~~ <u>4</u> llain barhaol ychwanegol ~~yn ogystal â chyfres o leiniau aros dros dro~~ ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol â'r Astudiaeth Asesiad Angen Llety.

<u>Mae'r Cynghorau'n cymhwyso Methodoleg Asesu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i adnabod cyfres o safleoedd ar gyfer y lleiniau aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn unol â'r Astudiaeth Asesiad Angen Llety.</u></td><td>I adlewyrchu data a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac i ddarparu mwy o eglurder a chysondeb. Bydd yr holl safleoedd hyn a ddynodwyd yn cael eu dangos ar y Mapiau Cynigion.</td></tr>
<tr><td>NF 73</td><td>7.4.94 – 7.4.99</td><td>1075</td><td>7.4.94 Bydd rhai teuluoedd o Sipsiwn a Theithwyr, am wahanol resymau, yn byw mewn un lle am gyfnodau hirach o amser. Bydd llefydd byw preswyl parhaol yn cael eu darparu i'r teuluoedd ac unigolion hynny sy'n dangos bod ganddynt ~~gysylltiad mewn~~ <u>anghenion llety</u> ~~gwirionedd gydag Ardal y Cynllun~~ ac nad oes ganddynt le arall i fyw ynddo (gyda</td><td>i adlewyrchu data a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac</td></tr>
</table>

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			Gwasanaethau Tai yn gwneud yr asesiad hwn). Bydd preswylwyr yn cael lleiniau ar y sail o fod yno gydol y flwyddyn ac yn talu rhent a threthi'r cyngor i'r Awdurdod Lleol. ~~7.4.95 Er mwyn sicrhau bod digon o dir ar gael i ateb anghenion am lefydd byw yn ardal y Cynllun, fe wnaeth y Cynghorau 'alw am safleoedd' yn 2014, gan wahodd perchnogion tir i gyflwyno manylion tir i'w ystyried fel safle Sipsiwn a Theithwyr. Cyflwynwyd dau safle yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri (sydd du allan i ardal y Cynllun yma) ond cawsant eu diystyru gan Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri ar ôl defnyddio'r fethodoleg asesu safleoedd.~~ **Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu'r safleoedd sydd wedi cael eu dewis yn cael ei osod allan y Papur Testun perthnasol, - Papur Testun 18, Adnabod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.** ~~7.4.96Mae'r posibilrwydd o ehangu'r safle parhaol presennol yn Llandygai, Bangor yn cael ei archwilio. Rhagwelir y gallir cael 5 o leiniau preswyl parhaol ar yr estyniad i'r safle presennol. Felly ar hyn o bryd mae prinder o 5 o leiniau preswyl parhaol yng Ngwynedd ac 11 o leiniau preswyl parhaol ym Môn. Bydd y Cynghorau'n ymgynghori am opsiynau i ymateb i'r prinder yn ystod 2015.~~ **Bydd y dynodiad uchod yn cyfrannu tug at fodloni rhan o'r gofynion lleiniau ar gyfer y safleoedd preswyl parhaol a nodwyd yn AALlST cyfredol (2015) tan 2020. Cydnabyddir y bydd angen rhagor o leiniau i gyfarch y galw cyfredol (2015). Mae swyddogion Gwasanaethau Cynllunio a Thai yn parhau i edrych ar opsiynau amrywiol ac fe fydd y mater yn cael ei wyntyllu yn ystod yr Archwiliad. Cydnabyddir efallai y bydd angen rhagor o safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr wedi hynny, yn dibynnu ar fonitro blynyddol y Cynllun ac yn dilyn cwblhau'r AALlST nesaf. Os yw'r adroddiad monitro a'r AALlST nesaf ynghyd ag adolygiad angenrheidiol o'r Cynllun yn dangos prinder yn y ddarpariaeth ac/neu angen heb ei ddiwallu am leiniau pellach, yna bydd angen dynodi safleoedd eraill yn yr Adolygiad o'r Cynllun.** Lleiniau preswyl parhaol	i ddarparu mwy o eglurder a chysondeb.

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			7.4.97_ Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod safleoedd yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Er mwyn canfod y safleoedd mwyaf priodol, **aseswyd y safleoedd yn unol â'r fethodoleg a nodir ym Mhapur Pwnc 18 Diwygiedig (2016). Gweler prif gamau'r fethodoleg isod** 1. Adnabod ffynonellau data; 2. Penderfynu ar yr ardaloedd i'w chwilio, sy'n cynnwys ystyried beth ydi dewis y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr fel y dangoswyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru a Sir y Fflint; 3. Hidlo'r safleoedd am y tro cyntaf, sy'n golygu ystyried maint safleoedd a'r prif gyfyngiadau, e.e. dynodiadau cadwraeth natur genedlaethol neu ryngwladol; 4. Asesiad manwl o safleoedd, sy'n edrych ar faterion amgylcheddol, mynediad, cefndir a chymeriad y safle ac asesiad yn erbyn amcanion yr Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd; 5. ~~Rhestr derfynol o safleoedd~~ **Dewis terfynol o safleoedd addas ar gyfer eu dynodi i'w defnyddio gan Sipsiwn a Theithwyr.** 7.4.98_ Yn ddelfrydol, dylai safle preswyl fod yn ddim mwy na 12 o leiniau (Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr **2014** ~~2009~~; ~~mae'r Llywodraeth Cymru newydd ymgynghori ar fersiwn diwygiedig o'r canllawiau~~. Safleoedd aros dros dro 7.4.99 Yn ôl cofnodion y Cyngor **a'r AALlST 2015**, mae hyd at 15 o garafanau wedi bod yn	

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			aros ar yr un safle ar yr un pryd yn ardal y Cynllun am gyfnodau cymharol fyr. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r llefydd diawdurdod wedi cael llawer llai na hynny o garafanau. **Byddai safle un safle aros dros dro angen 8 llain i allu ymdopi gyda 15 o garafanau (2 garafán deithiol fesul llain).** Edrychir i mewn i ddarparu un safle tramwy/aros gallai gymryd hyd at 15 o leiniau, a darparu nifer o safleoedd aros dros dro ar lwybrau trwy ardal y Cynllun sy'n cael eu defnyddio rhan amlaf gan Sipsiwn a Theithwyr, ac yn gallu cymryd hyd at 6 uned. Mantais gweithredu yn ôl yr ail ddewis ydi y bydd maint y safle'n cyfyngu ar nifer yr unedau ar un safle ac y bydd cyfres o safleoedd ar gael ar hyd y llwybrau sy'n cael eu defnyddio rhan amlaf. Beth bynnag fydd casgliadau'r gwaith chwilio bydd y safleoedd yn darparu ar gyfer anghenion sy'n digwydd o dro i dro am lefydd i aros ar safle, a bydd modd codi tâl fel mae'r Cynghorau yn penderfynu. Ni fydd Sipsiwn a Theithwyr yn byw ar y rhain gydol y flwyddyn ac ni chant aros am fwy na 5 diwrnod. Mae'r adran nesaf yn dangos y **prif f**eini prawf ~~i'w defnyddio wrth ddewis ar gyfer datblygu llefydd~~ **a ddefnyddiwyd i helpu adnabod 3 lle** aros dros dro **ar gyfer** ~~i~~ Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun.	
74	Polisi TAI 13	1077	POLISI TAI13: SAFLEOEDD AR GYFER LLEINIAU I SIPSIWN A THEITHWYR Caniateir cynigion am safleoedd preswyl parhaol ar gyfer Sipsiwn neu Deithwyr ac estyniadau i safleoedd sydd wedi cael eu hawdurdodi'n barod ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar dir na fyddai fel arall yn cael ei ryddhau ar gyfer datblygiad preswyl os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd: 1. Bod angen ~~lleol~~ **llety** gwirioneddol yn cael ei adnabod; 2. Bod mynediad ar gael at yr isadeiledd cludiant a chymdeithasol angenrheidiol, neu fod modd eu darparu'n rhwydd;	I ddangos bod sylw priodol yn cael ei dalu i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			3. Does dim modd darparu ar eu cyfer ar safle awdurdodedig sy'n bodoli'n barod 4. Nad yw ffactorau amgylcheddol, yn cynnwys risg o lifogydd, sefydlogrwydd y tir, tir wedi'i halogi, a bod yn agos at leoliadau peryglus yn gwneud y safle'n amhriodol ar gyfer datblygiad preswyl **oni bai bod mesurau lliniaru yn bosibl ac yn gymesur;** 5. Mae modd cael gwasanaethau dŵr, trydan a rheoli gwastraff i'r safle; 6. Bod **safonau a** dyluniad y datblygiad yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth briodol i **Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013** a Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru, Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru; 7. Nad oes effaith afresymol ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardaloedd o gwmpas, yn cynnwys ar amwynder preswyl meddianwyr cyfagos neu amodau gweithredu busnesau sy'n bodoli'n barod; 8. Nad oes effeithiau niweidiol ar ardaloedd wedi'u dynodi o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth a thirwedd; 9. Bod trefniadau boddhaol yn eu lle i gyfyngu ar feddiannaeth o'r lleiniau i Sipsiwn**a** ~~neu~~ Deithwyr.	
NF 75	7.4.102 – 7.4.105	1078, 1079	7.4.102 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n caniatáu rhyddhau safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy, yn cynnwys llefydd byw i Sipsiwn a Theithwyr, fel eithriad i bolisïau tai arferol. Mae'r polisi yma wedi cael ei lunio i ateb yr anawsterau y gallai Sipsiwn a Theithwyr eu hwynebu wrth geisio cael cyflenwad digonol o dir fforddiadwy ar gyfer eu hanghenion. Pwrpas y polisi hwn ydi galluogi rhyddhau tir tu allan i ffiniau datblygu, ar gyfer llefydd byw fforddiadwy i Sipsiwn neu Deithwyr, lle na fyddai llefydd byw preswyl fel arfer yn cael eu caniatáu. Yn gyffredinol, bydd gwerth tir tu allan i ffiniau datblygu yn sylweddol is na gwerth tir tu mewn i ffiniau datblygu, sy'n gostwng costau datblygu cyffredinol er mwyn cynorthwyo i ddarparu lleiniau fforddiadwy. Gallai'r safleoedd hyn ddarparu ffynhonnell fechan ychwanegol o lefydd byw ~~fforddiadwy~~ i Sipsiwn a Theithwyr mewn ardaloedd gwledig, i ateb angen lleol.	I ddangos bod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			7.4.103 Defnyddir y polisi hwn, wedi'i seilio ar feini prawf, yn ogystal â phob polisi perthnasol arall yn y Cynllun, i asesu cynigion a gyflwynir er mwyn ateb angen yn y dyfodol neu angen annisgwyl **am lety Sipsiwn a Theithwyr.** 7.4.104. Disgwylir tystiolaeth gyda'r cais cynllunio i ddangos bod angen lleol yn bodoli mewn gwirionedd am y math yma o lefydd byw. ~~Bydd angen i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ddangos bod ganddynt gysylltiad lleol gwirioneddol ac angen gwirioneddol i leoli eu hunain yn yr ardal.~~ Bydd Polisïau cynllunio cyffredinol y Cynllun hefyd yn weithredol ar gyfer hyn. ~~7.4.105 Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol angen rhwymedigaeth gyfreithiol trwy Gytundeb Adran 106 yn cyfyngu meddiannaeth lleiniau i aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr lleol sy'n byw yn yr ardal neu gyda chysylltiadau teuluol neu gysylltiadau gwaith ac angen lleiniau fforddiadwy.~~	

Lleoliad Tai

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 76	Polisi PS15	868, 1030	Diwygio'r rhannau canlynol ym Mholisi PS15 Prif Ganolfannau – ~~Hyd at~~ 55% o Dwf y Cynllun yn cael ei leoli yn: Canolfannau Gwasanaeth Lleol - ~~o leiaf~~ 20% o Dwf y Cynllun yn cael eu lleoli yn: Pentrefi a Chlystyrau – ~~Dim mwy na~~ 25% o Dwf y Cynllun yn cael ei leoli yn:	Er eglurder
NF 77	Polisi TAI 14	104, 672, 1084,	POLISI MANWL TAI14: TAI YN Y GANOLFAN ISRANBARTHOL A'R CANOLFANNAU GWASANAETH	I ddangos bod y Cynllun yn rhoi sylw

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Cyngor</td><td>TREFOL
Yng Nghanolfan Isranbarthol Bangor a’r Canolfannau Gwasanaeth Trefol a ganlyn:

<u>Ynys Môn</u>

Amlwch, Caergybi, Llangefni

<u>Gwynedd</u>

Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli

Bydd tai i fodloni strategaeth y Cynllun yn cael eu darparu trwy:

(i) Dynodiadau

Mae’r safleoedd a ganlyn wedi’u hadnabod fel Dynodiadau Tai:

Canolfan Isranbarthol

<table>
<tr><th>Canolfan</th><th>Cyfeirnod y Safle</th><th>Enw’r Safle</th><th>Lefel Twf Dangosol</th><th>Caniatâd (Ebr 2014)</th></tr>
<tr><td>Bangor</td><td>T1</td><td>Goetra Uchaf</td><td><s>245</s> <u>261</u></td><td>Oes</td></tr>
<tr><td></td><td>T2</td><td>Caeau Chwarae Hen Ysgol</td><td>43</td><td>Na</td></tr>
</table>
</td><td>llawn i ddata a thystiolaeth sy’n dod allan.</td></tr>
</table>

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			<table><tr><td></td><td></td><td>Friars</td><td></td><td></td></tr><tr><td></td><td>T3</td><td>Hen Safle Jewsons</td><td>17</td><td>Na</td></tr><tr><td></td><td>~~T4~~</td><td>~~Hen Safle Crossville~~</td><td>~~16~~</td><td>~~Na~~</td></tr><tr><td></td><td>T5</td><td>Tir dros ffordd i'r Amlosgfa</td><td>72</td><td>Na</td></tr></table> [Dim newid yng ngweddill o bolisi TAI 14]	
NF 78	Polisi TAI 16	1004, 369, 1230, 1254, 1256	POLISI MANWL TAI16: TAI MEWN PENTREFI GWASANAETH Yn y Pentrefi Gwasanaeth a ganlyn: <u>Ynys Môn</u> Gwalchmai, Niwbwrch, Llannerchymedd <u>Gwynedd</u> Bethel, Bontnewydd, Botwnnog, Chwilog, Deiniolen, Rachub, Tremadog, Y Ffôr	I ddangos bod y Cynllun yn rhoi sylw llawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod allan.

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Bydd tai i fodloni strategaeth y Cynllun yn cael eu darparu trwy

(i) Dynodiadau

Mae’r safleoedd a ganlyn wedi’u hadnabod fel Dynodiadau Tai:

<table>
<tr><th>Canolfan</th><th>Cyfeirnod y Safle</th><th>Enw’r Safle</th><th>Lefel Twf Dangosol</th><th>Caniatâd (Ebr 2014)</th></tr>
<tr><td>Gwalchmai</td><td>T55</td><td>Tir ger y A5</td><td>28</td><td>Na</td></tr>
<tr><td>Niwbwrch</td><td>T56</td><td>Stâd Tyn Cae</td><td>12</td><td>Oes</td></tr>
<tr><td>Llannerchymedd</td><td>T57</td><td>Tir ger Tyn y Ffynnon</td><td>17</td><td>Na</td></tr>
<tr><td>Bethel</td><td>~~T58~~</td><td>~~Tir ger Saron~~</td><td>~~41~~</td><td>~~Na~~</td></tr>
<tr><td><u>Bethel</u></td><td><u>T70</u></td><td><u>Tir gyferbyn â Stâd y Cremlyn</u></td><td><u>28</u></td><td><u>Na</u></td></tr>
</table>
</td><td></td></tr>
</table>

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			<table><tr><td>**Bethel**</td><td>**T71**</td><td>**Tir gyferbyn â Stâd Rhoslan**</td><td>**12**</td><td>**Na**</td></tr></table> [Dim newid yng ngweddill o bolisi TAI 16]	
NF 79	Polisi TAI 17	Cyngor	POLISI TAI MANWL TAI17: TAI MEWN PENTREFI LLEOL, GWLEDIG AC ARFORDIROL Caniateir cynigion am dai yn y Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol canlynol os gallir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd: i. byddai'r cynnig yn bodloni angen y gymuned am dai neu dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol; ii. byddai'r cynnig yn cynorthwyo i sicrhau hyfywdra'r gymuned leol, ac yn cryfhau'r gymuned a'r cymeriad ieithyddol; iii. bod lefel y twf yn seiliedig ar y lefel dangosol a ddangosir yn nhabl 20 ac yn gyson a Pholisi Strategol PS15**;** iv. **Bod y safle o fewn ffin datblygu'r anheddle** [Dim newid i'r rhestr o aneddleoedd yn y Polisi fodd bynnag newid i'r rhai a enwir fel rhai sydd yn berthnasol i bolisi TAI 5, rhain yn yr eirfa isod] Bydd rhaid i ddatblygiadau yn Aberdaron, Moelfre, Mynytho, Llanbedrog, Sarn Bach, Trearddur, Tudweiliog**, Llangian, Rhoshirwaun, Borth-y-gest, Morfa Bychan** a Phont Rhyd y Bont	I sicrhau cysondeb.

Cyf	Rhan	Rhif sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			gydymffurfio gyda pholisi TAI5 Y Farchnad Tai Lleol	

PENNOD 7.5

Pennod 7.5 – Rheoli Twf a Datblygu – Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol

Cyf.	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
NF 80	7.5.1	319	• Mae'n rôl allweddol o ran y drefn gynllunio i sicrhau bod**yr amgylchedd naturiol yn cael ei warchod yn effeithiol drwy reoli'r math, dyluniad a lleoliad datblygiad**~~.gofynion cymdeithas am dir yn cael eu hateb mewn ffyrdd nad ydynt yn gosod cyfyngiadau diangen ar ddatblygiad~~, ~~wrth sicrhau cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu neu wella'r amgylchedd~~ • **Mae gan y drefn gynllunio rhan bwysig i'w chwarae mewn ateb amcanion bioamrywiaeth trwy hyrwyddo agweddau tuag at ddatblygiad sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, atal colli bioamrywiaeth, neu ddigolledu am golledion lle nad oes modd osgoi difrod** • Mae'n bwysig cymryd materion bioamrywiaeth a thirwedd i ystyriaeth yn gynnar yn y broses wrth baratoi cynllun datblygu a gyda rheoli datblygiad • Dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, mae dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i ystyried, cyn belled ag sy'n gyson gydag ymarfer y swyddogaethau hynny'n gywir, y diben o gadwraeth bioamrywiaeth • Mae'r ddau Gyngor wedi paratoi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol • ~~Mae gan y drefn gynllunio rhan bwysig i'w chwarae mewn ateb amcanion bioamrywiaeth trwy hyrwyddo agweddau tuag at ddatblygiad sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, atal colli bioamrywiaeth, neu ddigolledu am golledion lle nad oes modd osgoi difrod~~ • Mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ystyried dibenion Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), sef cadwraeth a gwella eu prydferthwch naturiol	I adlewyrchu ymagwedd bositif y CDLl ar y Cyd tuag at warchod a gwella'r amgylchedd naturiol.

Cyf.	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			• Mae'r ddyletswydd i ystyried dibenion y Parc Cenedlaethol a'r AHNE yn gymwys ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar yr ardaloedd hyn, boed y gweithgareddau hyn tu mewn neu ddu allan i'r ardaloedd sydd wedi'u dynodi	
NF 81	7.5.2	320	7.5.2 Cadwraeth Natur: Mae **cynefinoedd a** rhywogaethau o bwysigrwydd er mwyn gwarchod bioamrywiaeth yn cael eu cyfeirio atynt yn Adran 42 (Cymru) o'r Ddeddf NERC (2006).	I wella eglurder a manylder y paragraff.
NF 82	Polisi Newydd	805	**Bydd angen, ble'n briodol, i gynigion sydd o fewn neusy'n effeithio ar osodiad a/neu olygfeydd arwyddocaol i mewn neu allan o'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, roi ystyriaeth i'r Cynllun Rheolaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol** **Eglurhad** **Bwriad y polisi yma yw sicrhau bod amcanion a nodau'r Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael eu hystyried yn llawn wrth ystyried cynigon ddatblygu. Bydd y Cynllun Rheoli yn darparu disgrifiad eglur a chytunedig o'r agweddau sy'n rhan o'r cymeriad, ymddangosiad a gwerth hanesyddol arbennig sy'n cyfrannu i'w prydferthwch naturiol. Bydd y Cynlluniau yn cario pwysau sylweddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.**	Er tynnu sylw i bwysigrwydd y Cynlluniau Rheolaeth wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio.
NF 83	Polisi AMG 1	892, 365	POLISI AMG 1: ARDALOEDD O DIRWEDD ARBENNIG Wrth ystyried cynigion o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) fel yr adnabyddir ar y Mapiau Cynigion a rhestrir isod, bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i raddfa a natur y datblygiad gan sicrhau na fyddai'n cael effaith andwyol **sylweddol** ar y dirwedd. Ble'n bosib fe ddylai'r datblygiad ychwanegu tuag at **gynnal, gwella neu adfer y cymeriad cydnabyddedig** ~~nodweddion hanesyddol, gweledol, daearyddol, ecolegol a diwylliannol~~ yr ATA. Dylai cynigion roi sylw i a bod yn gyson a'r 'Datganiad o Werth Arwyddocâd' pwrpasol sydd wedi ei baratoi. Lle mae'n rhesymol i gredu y gall cynigion arwain i ardrawiad andwyol arwyddocaol ar ATA (un ai o fewn neu'n union du allan iddo) bydd y Cyngor yn disgwyl Asesiad Ardrawiad Tirwedd a Gweledol er mwyn gallu ystyried ardrawiad y datblygiad ar yr ardal ddynodedig ymhellach.	Er mwyn i'r geiriad fod yn gyson â gweddill y polisi.

Cyf.	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'n rhaid cael y datblygiad ac y gallai arwain i ardrawiad arwyddocaol ar y dirwedd, bydd rhaid darparu mesurau lliniaru a digolledu priodol.	
NF 84	Polisi AMG 2	1445, 893	POLISI AMG2: GWARCHOD A GWELLA NODWEDDION A RHINWEDDAU SYDD YN**NODEDIG** ~~UNIGRYW~~ I GYMERIAD Y DIRWEDD LEOL Fe fydd rhaid i ddatblygiadau a fyddai'n cael effaith **sylweddol** ar gymeriad y dirwedd fel y diffinnir gan yr Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd a gynhwysir yn y Strategaeth Tirwedd ar gyfer yr awdurdod perthnasol, ddangos drwy asesiad tirwedd sut mae cymeriad y dirwedd wedi dylanwadu ar ddyluniad, maint, natur a'r broses o ddewis safle. Caniateir cynnig ar yr amod na fyddai'n cael effaith andwyol **sylweddol** ar nodweddion a rhinweddau sydd yn unigryw i'r dirwedd leol yn nhermau agweddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol. Dylid cymryd mesurau er mwyn sicrhau na fyddai'r datblygiad yn:- 1. Cael effaith andwyol nodweddiadol ar gymeriad y ffurf adeiledig neu'r dirwedd naturiol; 2. Methu harmoneiddio gyda, neu wella'r tirffurf a'r dirwedd; 3. Colli neu yn methu ymgorffori nodweddion traddodiadol, patrymau, strwythurau a gosodiad aneddleoedd a thirwedd yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Rhoddir sylw penodol i dirwedd sydd wedi ei adnabod gan yr Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd fel bod o werth uchel neu ragorol oherwydd rhinwedd penodol yn y dirwedd neu gyfuniad o rinweddau. Bydd ystyriaeth bellach hefyd yn cael ei roddi i ddatblygiad sydd yn effeithio ar gymeriad tirwedd a gosodiad yr AHNEau neu'r Parc Cenedlaethol.	Er mwyn rhoi gwell disgrifiad o sgôp y polisi. Yn ogystal gosod gosod gofyn cymhwyso ar gyfer y polisi,
NF 85	Polisi AMG 2	805	7.5.2 Amcan y polisi yma yw gwarchod yr ystod o nodweddion tirwedd o fewn ardal y Cynllun sydd	I sicrhau bod cyfeiriad

Cyf.	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
			wedi cael eu hadnabod yn yr Ardal Cymeriad y Dirwedd. Gellir derbyn gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r Ardal Cymeriad y Dirwedd drwy archwilio'r Strategaeth Tirwedd berthnasol ar gyfer naill awdurdod ynghyd ac yn y data LANDMAP perthnasol. Dylid rhoi ystyriaeth i'r ddwy ffynhonnell o wybodaeth wrth ystyried ardrawiad datblygiad ar gymeriad y dirwedd. **Yn ogystal, ble'n briodol, bydd angen ystyried y Cynllun Rheolaeth AHNE perthnasol.**	priodol yn cael ei rhoi i'r Cynlluniau Rheolaeth yr AHNEau yn y CDLl ar y Cyd.
NF 86	Polisi AMG 4	238, 239, 462, 897, 1073, 1440	POLISI AMG4: CADWRAETH BIOAMRYWIAETH LEOL Dylai cynigion warchod a, **ble'n briodol**, gwella bioamrywiaeth sydd wedi cael ei hadnabod fel bod yn bwysig i'r ardal leol **trwy:** **a. Osgoi ardrawiad niweidiol sylweddol trwy leoli datblygiad sensitif;** **b. Ystyried cyfleon i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt , cherrig sarn, coed, gwrychoedd, coedlannau a chyrsiau dŵr.** Gwrthodir cynigion **sy'n effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth leol** oni bai gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:- 1. ~~Sicrhau~~ **N**ad oes yn**o** safle amgen arall ar gyfer y datblygiad. ~~2. Sicrhau fod y datblygiad wedi ei leoli'n briodol, gan osgoi lleoliadau sydd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol~~. **2. Bod yr angen am y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd y safle i gadwraeth natur** **3. Bod mesurau lliniaru neu ddigolledu priodol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynnig.** ~~3. Darparu mesurau er mwyn lliniaru effaith andwyol posib~~. ~~4. Gwarchod a chyfoethogi'r nodweddion cadwraeth natur~~.	Ar gyfer gwella eglurder, osgoi ail adrodd polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol.

Cyf.	Rhan	Rhif Sylw	Newid â Ffocws	Cyfiawnhad
